Bodleian Libraries
UNIVERSITY OF OXFORD

This book is part of the collection held by the Bodleian Libraries
and scanned by Google, Inc. for the Google Books Library Project.

For more information see:

http://www.bodleian.ox.ac.uk/dbooks

This work is licensed under a Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 2.0 UK: England & Wales (CC BY-NC-SA 2.0) licence.

Bought from M. A. McGoff.

112 e. 60

One of the earliest L'pool books
printed in Welsh

2/6

[illegible]
& State. (1848).

# TRAETHAWD

AR

# UNDEB YR EGLWYS

## A'R WLADWRIAETH.

GAN


## BAPTIST WRIOTHESLEY NOEL, A. C.


WEDI EI GYMREIGIO O'R TRYDYDD ARGRAFFIAD,

GAN OWEN JONES.


LIVERPOOL:

ARGRAFFWYD GAN HUGH JONES, PEMBROKE PLACE,

TROS Y CYHOEDDWR.

1849.

BODLEIAN
30 SEP 1931
LIBRARY

# RHAGYMADRODD.

---

YN gymmaint a'm bod yn y Gwaith canlynol wedi ymosod yn rhydd ar yr Undeb rhwng yr Eglwys a'r Wladwriaeth, yr ydwyf yn teimlo arnaf rwymau i ddwyn fy nhystiolaeth ostyngedig i dduwioldeb a theilyngdod llawer a safant dros hyny. Traethais yn ddiatalfa ar ddylanwad y gyfundrefn ar breladiaid; ond mor fynych y cawn ni enghreifftiau, o ddynion wedi eu dyrchafu i'r anrhydeddau mwyaf bachellawg yn gwrthladd eu temtasiynau yn llwyddiannus! O'r preladiaid hyny, â'r rhai y meddaf fi yr anrhydedd o fod yn gydnabyddus, yr ydwyf yn mawrygu rhai o honynt am eu symlrwydd, eu cymmwynasgarwch, a'u rhyddgarwch; ac eraill yn fwy fyth, am eu duwioldeb nodedig. Gweinyddodd y Llywodraeth bresenol eu noddaeth eglwysig yn y modd

doethaf mewn amrywiol enghreifftiau, ac yn y modd mwyaf cydwybodol mae yn ddiameu genyf, yn wastadol.

Ond yr ydwyf yn fwy pryderus am wneuthur cyfiawnder a'm brodyr anrhydeddus ac anwyl, gweinidogion efengylaidd y Sefydliad. Wedi bod yn cyd weithio â hwy dros lawer o flyneddoedd, gallaf lefaru yn hyderus am eu hegwyddorion. Mae lluaws o honynt, enwau y rhai y buaswn yn caru eu coffâu yma yn barchus, mor ddiffuant yn eu hymlyniad wrth y Sefydliad, ac y gallaf finnau ddymuno bod yn fy ymadawiad a hi. Yr ydwyf yn argyhoeddedig am lawer o honynt eu bod yn tra rhagori arnaf fi yn eu hymgyssegriad i Grist. Ddilynwyr teilwng Romaine a John Venn, Newton, Cecil, a Thomas Scott, Robinson, a Simeon, yr ydwyf yn gobeithio y bydd iddynt er aros yn gydwybodol yn y Sefydliad, gael eu parchu a'u caru gan bob dynion da. Bydded iddynt fwynhau mwy-fwy o ddyddanwch a defnyddioldeb hyd ddiwedd eu gweinidogaeth! Tra yr ydwyf yn dyfarnu preladiaeth Wladol, yr ydwyf yn anrhydeddu pob prelad duwiol; tra yn galaru o herwydd cyssylltiad bugeiliaid duwiol a'r Llywodraeth, nid wyf yn llawenychu llai yn eu duwioldeb. Y mae y rhesymau dros ysgariad yn ymddangos yn eglur i mi; ond nid

ydwyf yn dysgwyl i eraill feddwl fel myfi. Wrth arhoni rhyddid barn i mi fy hunan, yr ydwyf yn dysgu parchu yr eiddynt hwythau. Aros yn y Sefydliad gyd a'm golygiadau I, a fyddai yn feius; gyda'r eiddynt hwy, y mae yn ddyledswydd.

Os archollais deimladau unrhyw frawd Cristionogawl â'm hymadroddion heb raid, yr ydwyf yn gofyn iddo faddeu i mi. Os llithrais yn anfwriadol i unrhyw ormodiaith, mae yn ddrwg iawn genyf hyny. Gwahaniaethais yn eglur trwy gydol y Gwaith rhwng llênorion efengylaidd a rhai anefengylaidd; rhwng y rhai a bregethant yr efengyl a'r rhai ni's pregethant hi. Ni ddylai unrhyw rith ryddgarwch, nac ofn beiad ddilëu y gwahaniaethiad; eto, yn ddiammeu, dichon fod llawer, na's cyfrifir yn mysg y blaid efengylaidd, nad ydynt yn cynnal eu cymdeithasau, ac nad ydynt yn gyffredin yn gweithredu gyda hwy, yn weinidogion dychweledig a ffyddlawn i Grist.

Yn olaf, Rhaid i mi ddatgan fy ngofid na buaswn wedi gwneuthur mwy er llesâad Eglwys gyfeillgar, ystyriol, ag ewyllysgar, i'r hon y buais yn fugail dros ddwy flynedd ar hugain, a chyd a'r hon y gobeithiais dreulio gweddill fy nyddiau.

Rhaid yw cyflawni dyledswyddau llymach, y rhai a wasgwyd ar fy ystyriaeth trwy fyfyrdod ar air Duw. Ond ni's gallaf eu gadael heb weddïo yn ddiffuant, ar i'm holynwr gael derbyn llawer o ras i'w hadeiladu mewn duwioldeb, nag heb ddatgan fy niolchgarwch gwresog am eu caredigrwydd helaeth a di ball tu ag attaf.

HORNSNEY,

# Y CYNNWYSIAD.

## RHAGDRAITH.


Bod cyfreithlondeb yr Undeb rhwng yr Eglwys a'r Wladwriaeth i'w benderfynu yn ngwyneb Gair Duw . . . . . . 9

Dannodiant o'r ymadroddion, Eglwys, Gwladwriaeth, ac Undeb . 12


---

## RHAN I.

### EGWYDDORION YR UNDEB RHWNG YR EGLWYS A'R WLADWRIAETH.

### PENNOD I.

*Ystyriaethau cyffredinol a golfarnant yr Undeb.*


ADR. I.—Yr Undeb yn gollfarnol trwy Gyfansoddiad y Wladwriaeth 16

ADR. II.—Yr Undeb yn gollfarnol trwy y Berthynas Dadogawl . 23

ADR. III.—Yr Undeb yn gollfarnol drwy Hanes . . . . 26

ADR. IV.—Yr Undeb yn gollfarnol wrth ddeddf Moses . . 56

ADR. V.—Yr Undeb yn gollfarnol wrth Brophwydoliaethau yr Hen Destament . . . . . . . . . . 62

ADR. VI.—Yr Undeb yn gollfarnol wrth y Testament Newydd . 68


### PENNOD II.

*Egwyddorion yr Undeb rhwng yr Eglwys a'r Wladwriaeth yn Lloegr, yn gollfarnol gan Air Duw.*


ADR. I.—Cynhaliad Gweinidogion Cristionogol gan y Llywodraeth 91

ADR. II.—Goruchafiaeth y Wladwriaeth . . . . . . 98

ADR. III.—Noddaeth . . . . . . . . . . . 116

ADR. IV—Gorfodaeth . . . . . . . . . . . 131

# RHAN II.

## EFFEITHIAU YR UNDEB.

### PENNOD I.

*Dylanwad yr Undeb ar Bersonau.*

ADR. I.—Dylanwad yr Undeb ar Esgobion . . . . . 140
ADR. II.—Dylanwad yr Undeb ar Fugeiliaid . . . . . 148
ADR. III.—Dylanwad yr Undeb ar Guradiaid . . . . . 167
ADR. IV.—Dylanwad yr Undeb ar Aelodau Eglwysi Lloegr . 171
ADR. V.—Dylanwad yr Undeb ar Ymneillduwyr . . . 176

### PENNOD II.

*Dylanwad yr Undeb ar Bethau.*

ADR. I.—Dylanwad yr Undeb ar y nifer o Weinidogion . . 183
ADR. II.—Dylanwad yr Undeb ar wasgariad Gweinidogion . 190
ADR. III—Dylanwad yr Undeb ar gynhaliad Gweinidogion . 214
ADR. IV.—Dylanwad yr Undeb ar yr Athrawiaeth a ddysgir yn Eglwysi Lloegr . . . . . . . . . . . 228
ADR. V.—Dylanwad yr Undeb ar Ddysgyblaeth Eglwysi Lloegr 250
ADR. VI.—Dylanwad yr Undeb ar Efengyleiddiad y wlad . . 288
ADR. VII.—Dylanwad yr Undeb ar Undeb Cristionogion . . 293
ADR. VIII.—Dylanwad yr Undeb ar Ddiwygiad yr Eglwysi . 298
ADR. IX.—Dylanwad yr Undeb ar gynnydd crefydd yn y wlad . 305
ADR. X.—Dylanwad yr Undeb ar y Llywodraeth . . . 313
ADR. XI.—Dylanwad yr Undeb ar Sefydliadau Cenedlaethol ereill trwy y byd . . . . . . . . . . . 321

---

# RHAN III.

## MODDION I FEITHRIN ADFYWIAD CREFYDDOL YN Y WLAD.

ADR. I.—Moddion adfywiad yn yr Eglwysi . . . . 326
ADR. II.—Moddion lledaeniad crefydd trwy y wlad . . . . 334

# UNDEB YR EGLWYS
## A'R WLADWRIAETH.

---

### RHAGDRAITH.

Mae Duw o'i fawr drugaredd at ddynolryw cwympiedig, wedi rhoddi i ni ddatguddiad cyflawn o'i ewyllys. Trwy lais Crist, a thrwy efengylwyr ac apostolion, cystal a thrwy brophwydi gynt, efe a hysbysodd i ni ein holl ddyledswydd tu ag atto ef, a thuag at ein gilydd. Gan hyny yn ein hymchwil i bob dadl o barthed cam a chymhwys, rhaid mai y cam cyntaf tuag at ddyfod i benderfyniad uniawn, yw dysgu pa beth a ddywedodd efe. Pan oedd y tri apostol wedi eu hamgau gyd â'n Harglwydd mewn gogoniant ar fynydd y gwedd newidiad, hwy a glywsant o orddyfnder y dysgleirdeb annïoddefol y geiriau hyn,—"*Hwn yw fy anwyl Fab; gwrandewch ef.*"[1] Rhaid i ni wrando arno ef yn mlaenaf ar bob testyn, cymeryd ein harwain gan ei farn, ac ufuddhau i'w benderfyniadau ef. Trwy esgeuluso ei wrando ef yr ydym yn rhoddi ein hunain yn agored i gyfrifoldeb, rhag yr hwn y gweddai i'r mwyaf ëofn arswydo. Canys pan addawai yr Hollalluog gyfodi Crist fel prophwyd i'w eglwys, efe a chwanegai, "*A phwy bynnag ni wrandawo ar fy ngeiriau, y rhai a lefara efe yn fy enw, myfi a'i gofynaf ganddo.*"[2] Mae gwrando ei eiriau ef ac anufuddhau iddynt, mor niweidiol ag yw gwrthod eu gwrando; yn gwneuthur proffes o ddysgyblaeth iddo yn ofer, ac yn dymchwelyd pob gobaith am ddedwyddwch yn y diwedd; canys y mae Crist ei hunan wedi dywedyd,—" Pob un ar sydd yn gwrando fy ngeiriau hyn, ac heb eu gwneuthur, a gyffelybir i wr ffol, yr hwn a adeiladodd ei dŷ ar y tywod: a'r gwlaw a ddisgynodd, a'r llif ddyfroedd a ddaethant, a'r gwyntoedd a chwythasant, ac a gurasant ar y tŷ hwnw; ac efe a syrthiodd, a'i gwymp a fu fawr."[3] Y rhai a grynant wrth air Duw yn unig a allant fod yn wynfydedig.[4] Yr unig rai sydd yn caru Crist yw y rhai a gadwant ei orchymynion ef.[5] Yn ofer y dywedir, Arglwydd, Arglwydd, wrtho ef, heb wneuthur ei ewyllys ef.[6] A thra y mae anwybodaeth gwirfoddol o'i ewyllys yn niweidiol;[7] y mae anufuddhau iddo er ei wybod yn fwy beius.[8]

1 Luc 9. 35. 2 Deut. 18. 18, 19. 3 Matt. 7. 26, 27. 4 Isa. 66. 2. 5 Isa. 14. 21. 6 Luc 6. 46. 7 Isa. 17. 3; a 3. 19, 20. 8 Luc 12. 47, 48.

Mae y gosodiadau hyn o angenrheidrwydd yn gymhwysiadol at undeb eglwysi Cristionogol â llywodraethau gwladol. Rhaid fod annibyniaeth yr eglwysi, ar y naill law, neu eu cyfrannogiad a llywodraethau, ar y llall, yn meddu dylanwad mor bwysig ar ffyniant crefydd, o fewn yr eglwysi ac o'u hamgylch, fel y gallem ddysgwyl cyfarfod â rhyw gyfarwyddiadau yn y peth hyn yn yr Ysgrythyr, ac os oes yno y cyfryw gyfarwyddiadau i'w cael, dylem gymeryd ein harwain ganddynt yn hollawl. Ni ddylid ymwrandaw ar unrhyw ystyriaeth o'r hyn y tybir ei fod yn naturiol, ar unrhyw enghraifft, hen na diweddar, ar unrhyw syniadau o gymhwysder, na honiadau o ddefod gyffredinol, nac appeliad at gyfraith y tir. Os llefarodd Crist, rhaid i hyny benderfynu barn pob un o'i wir ddysgyblion ef. Mae pob ysgrifenydd ar yr Undeb rhwng yr Eglwys a'r Wladwriaeth, wedi addef hyn i ryw fesur. Mae rhai yn ei addef yn fwy trylwyr nag eraill, gan roddi mwy o amlygrwydd iddo yn eu hymresymiadau, dadleu drosto yn fwy zelog, a dychwelyd at yr unrhyw egwyddor yn fynychach; ond y maent oll yn ei haddef. Hooker, yr hwn ni's gwnelai nemmawr o ddefnydd o'r rheol hon a'i cydnabyddai yn amlwg, fel hyn ;—" Gwell fyddai bod yn goelgrefyddol nag yn annghredin-iol—cymeryd ein hyfforddiad yn mhob peth, mawr a bach, o'r Ysgrythyrau, yn hytrach na threiddio trwy bethau o'r pwys a'r canlyniad mwyaf, heb byth ofalu pa beth a geir yn nghyfraith yr Arglwydd dros, neu yn erbyn ein hamcanion.......A wnelant hwy, (y paganiaid) y fath gyfrif o lais eu duwiau, y rhai mewn gwirionedd nid oeddynt dduwiau, ac, a esgeuluswn ni y fath fraint werthfawr i gymdeithasu a'r oraclau hyn o eiddo y gwir a'r bywiol Dduw? Bydded i ni ddefnyddio doniau gwerthfawr Duw er gogoniant ac anrhydedd yr hwn a'u rhoddes; gan geisio yn mhob modd adnabod ewyllys Duw; a gwybod pa beth sydd yn gyfiawn, pa beth sydd yn sanctaidd, per-ffaith, a da, yn ei olwg ef; fel y gallom ei gyflawni yn ffyddlawn a chywir."[1] Fel hyn hefyd y'i cydnabyddir gan Mr. Gladstone; "Cydnabyddaf mai y dull mwyaf dilys, mwyaf penderfynol, mwyaf athronyddol, ac yn yr absenol-deb o rëol lythyrenol a diddadl o'r Ysgrythyr, mwyaf uniongyrchol hefyd o ddwyn yn mlaen yr ymchwiliad pwysig yma, yw yr un a olrheinia nodwedd moesol a chymhwysderau cenhedloedd a llywodraethwyr, ac felly a seilia yr holl ystyriaeth o'u dyledswydd ar yr ewyllys hwnw a roddes fodolaeth idd-ynt."[2] Yn ol y geiriau hyn, ewyllys Duw ydyw y ddeddf eithaf sydd i'n tywys, a rheolau yr Ysgrythyr y dëongliad egluraf o'i ewyllys ef. Mae Mr. M'Neile, yn ei "Ddarlithoedd ar Eglwys Loegr," yn ddwysach a chyf-lawnach yn ei dystiolaeth i'r un egwyddor, fel y gellir barnu oddiwrth y dyfyniadau canlynol: "Yr ydym yn hòni awdurdod uniongyrchol gair Duw dros egwyddorion sylfaenol ein offerynoliaeth eglwysig."[3] "Edliwiwyd

1 "*Hooker's Polity.*" *Book* 1. 2 *The State in its Relations with the Church*, *chap.* ii. 3 *Lectures*, *p.* 2.

i ni ein hanmharodrwydd i ddwyn y pwnc hwn i gyflawn oleuni gwirionedd datguddiedig, ac fe'n beiddiwyd......i ddyfod at y gyfraith, ac at y dystiolaeth. *Yr ydym yn derbyn y beiddiad,* ac yn llawenhau o'r galon yn y grediniaeth nad oes dim arall, wedi y cwbl, yn meddu dylanwad mor ehang a pharhäol ar bobl Brydain, ag appeliad gonest at air ein Duw."[1] "Y cyssylltiad hyny a'r eglwys Gristionogol, yr hwn y dangosasom oddiwrth natur pethau. ei fod yn ddïogelwch y pennadur, a ddangoswn yn awr o air Duw, yn ddyledswydd y pennadur."[2] "Nid oes fodd attal dyryswch yn y cychwyn, ond trwy gyd sefyll wrth y prawfiedydd penaf, ewyllys datguddiedig Duw; AC NID OES ADFERIAD I'W GAEL O DDYRYSWCH WEDI YR ELER IDDO, OND TRWY DDYCHWELIAD EGNIOL A PHENDERFYFOL (ER UNRHYW BERYGL PRESENOL) AT Y PRAWFIEDYDD HWNW."[3] Mae *M. de Rougemont* yn ei waith a elwir "*The Individualists,*" yn dirgymhell yr unrhyw egwyddor drachefn a thrachefn. Ei achwyniad mawr yn erbyn M. Vinet a'r rhai a gyd unent ag ef er cynnyg ysgariad yr Eglwys a'r Wladwriaeth, yw, "Eu bod yn sefydlu egwyddor newydd heb y Beibl, a gwrthwyneb iddo."[4] "Nad ydynt mewn pynciau hanfodol grefyddol, yn seilio ar y Beibl, ond ar ymresymiadau dynol."[5] "Bod llyfr M. Vinet yn cynnyg trefniant eglwysig newydd, heb ddwyn profion Ysgrythyrol i'w chefnogi."[6] Ac, yn olaf, y mae M. Grandpierre yn cyduno â M. Rougemont yn yr honiad y dylai yr holl athrawiaeth o ysgariad yr Eglwys a'r Wladwriaeth i gael ei seilio ar yr Ysgrythyr. "Cyn esponio athrawiaeth, â'r hon yn ol ein hawdwr (*Vinet*) y mae Cristionogaeth mor dra chyssylltiedig, efe a ddylasai ar y dechreu, ofyn iddo ei hunan, Pa beth a ddysg Gair Duw i ni ar hyn?"[7]

Rhaid addef fod pa beth bynnag sydd Ysgrythyrol, yn gymhwys hefyd, gan na's gellir ennill dim wrth ymadaw oddiwrth y rhëol a roddes Duw i ni; ond nid cymhwysder y rhëol yw sail ei hawdurdod. Os amlygodd Duw ei ewyllys ar y testyn o undeb eglwysi Crist a'r llywodraethau dan y rhai y byddont, dylai Cristionogion ufuddhau i'r cyfryw ddatguddiad am mai ei ewyllys ef ydyw. Pe byddai i unrhyw awdurdodau dynol orchymyn i ni wneuthur yr hyn a wahardda efe, ni's gallwn namyn atteb yn ngeiriau yr apostol, "*A'i cyfiawn yw ger bron Duw wrando arnoch chwi yn hytrach nag ar Dduw, bernwch chwi.*"......"*Rhaid yw ufuddhau i Dduw yn fwy nag i ddynion.*"[8] Ni wiw i unrhyw awdurdod ymyraeth a'r eiddo ef.

Cyn yr elwyf rhagof i chwilio pa mor bell y mae yr undeb rhwng yr Eglwys a'r Wladwriaeth yn gyson ag ewyllys Duw, y mae yn angenrheidiol ystyried pa beth a feddylir wrth eglwys, pa beth a feddylir wrth y Wladwriaeth, a pha beth a feddylir wrth eu hundeb.

1 P. 7. 2 P. 148. 3 P. 153. 4 P. 7. 5 P. 11. 6 P. 128.
*Reflexions, &c., per J. H. Grandpierre, p.* 58. 8 Act. 4. 19. a 5. 29.

I. Mae y gair "eglwys" yn cael ei ddefnyddio yn gyffredin yn yr ystyriaethau canlynol,

1. Y man lle yr ymgynnulla cynnulleidfa Gristionogol,—adeilad a ddefnyddir i addoliad cyhoeddus; felly y dywedir "eglwys y plwyf."

2. Rhyw beth anmhenderfynol, megis pan ddyfynir ymadrodd o'r Llyfr Gweddi Cyffredin, dywedir mai yr hyn a ddysg yr eglwys ydyw.

3. Y llênorion a wobrwyir gan y Llywodraeth: am hyny, pan fyddo gwr ieuanc yn ymuno a'r offeiriaid cenedlaethol yn Lloegr, neu yr Alban, dywedir ei fod "yn myned i'r eglwys."

4. Pawb a fedyddir gan y Clerigwyr gwladol, ac mewn cyssylltiad â'u gweinidogaeth; ac felly y sonir am "Eglwys Loegr," "Eglwys yr Alban." &c.

5. Pob rhyw gynnulleidfäoedd trwy y byd, a gydnabyddant ryw ddysgyblaeth eglwysig arbenig; ac felly y sonir am "Eglwys Rhufain," "Eglwys Groeg," "Yr Eglwys Armenaidd," "Yr Eglwys Henaduriaethol.," &c.

6. Pawb drwy y byd, a fedyddiwyd yn enw Crist: am hyny y dywedir, "Yr Eglwys Weledig Gyffredinol."

Mae y chwe defnydd yma a wneir o'r gair yn wrthwyneb i'w ystyr gyntefig, ac yn hollol anysgrythyrol. Ni's arferir y gair unwaith yn yr Ysgrythyr yn un o'r golygiadau uchod.

Heblaw yr ystyriaethau hyn, y mae i'r gair dri o ystyriaethau eraill.

1. Fe'i defnyddid ar y dechreu i ddynodi cynnulleidfa o ddinasyddion yn y gwerinlywodraethau Groegaidd. Pan wysid y gymmanfa lywodraethol gan y cyhoeddwr, fe'i gelwid yn *ecclesia*, "eglwys."[1] Arferir y gair yn yr ystyr yma yn fynych gan Thucydides, Xenophon, Demosthenes, ac ysgrifenwyr eraill. Ac yn yr un ystyr y'i defnyddir yn Act. 19. Yr oedd lluaws wedi ymgynnull yn y chwareufa yn Ephesus, i amddiffyn eu heilunaddoliaeth yn erbyn athrawiaeth Paul, dywaid yr hanesydd fod yr *ecclesia* neu yr eglwys, yn gymmysg;[3] ar yr hyn yr ymdrechai ysgolhaig y ddinas eu llonyddu; gan eu sicrhau y gellid terfynu pob peth dadleuol mewn *ecclesia*, neu eglwys gyfreithlawn;[4] ar yr hyn y gollyngodd efe yr *ecclesia*, neu yr eglwys derfysglyd hono ymaith.[5]

2. Gan ei fod yn air a ddefnyddid yn gyffredin i ddynodi cynnulleidfa o ddinasyddion, fe'i cymerwyd oddiar hyny gan yr Apostolion i ddynodi cynnulleidfa o Gristionogion; ac felly y daeth yr ystyr Gristionogol o'r gair i arferiad yn naturiol o'r ystyr wladol. Gan hyny y mae pob cynnulleidfa Gristionogol, yn cael ei galw yn y Testament Newydd, yn *ecclesia*, cynnulleidfa, eglwys, Yr oedd cynnulleidfa o bobl dlodion yn Phillippi, yn cael ei galw eglwys, neu gynulleidfa y lle hwnw.[6] Gelwid y gynnulleidfa dlawd yn Thessalonica, felly.[7] Gelwid cynnulleidfa fach a gyfarfyddent yn

1 Gwel *Liddell's Lexicon.* 2 Gwel *Stephen's Thessaurus, Liddells Lexicon, Smith's Dictionary of Greek and Roman Antiquities*, a *Potter's Antiquities.* 3 Act. 19. 32. 4 Ad. 39. 5 Ad. 41. 6 Phil. 4. 15. 7 1 Thes. 1. 1.

Cenchrea, porthladd Corinth, eglwys, neu gynnulleidfa Cenchrea.[1] Gelwid cynnulleidfa fach a ymgyfarfyddai yn nhŷ Priscilla ag Acwila, yn, neu yn agos i Rufain, "yr eglwys yn eu tŷ hwynt."[2] Yr oedd gan Philemon eglwys yn ei dŷ;[3] a phan soniai Paul am y cynnulleidfäoedd Cristionogol gwasgaredig dros wlad, efe a'u galwai yn wastad eglwysi, neu gynnulleidfäoedd y diriogaeth hono. Felly y darllenwn am eglwysi Judea, eglwysi Galatia, ac eglwysi Macedonia; ond nid ydym byth yn darllen am eglwys Judea, eglwys Galatia, ac eglwys Macedonia: oblegid bod Cristionogion tref neillduol yn ffurfio un gynnulleidfa, ond Cristionogion gwlad, amryw gynnulleidfäoedd.

3. Mae i lawer o eiriau mewn ymarferiad cyffredinol, ystyr lythyrenawl ac allegawl, neu, dylwn ddweyd yn hytrach, arwyddocäad gorfforawl ac ysbrydawl; a gallant arwyddo, naill a'i rhyw beth gweledig a theimladwy, neu ryw beth anweledig, yr hwn sydd gydweddol. Mae y llaw yn aml yn dynodi gallu, y pen synwyr, y galon serch; gall grym ddynodi grym celfyddydawl neu foesawl; gellir darlunio teimlad anesmwyth corph neu feddwl dan yr enw poen; gall y gair tywyll fod yn ddarluniadol o ansawdd yr awyrgylch, neu gyflwr pethau; gall y meddwl gael ei gynhyrfu cystal a'r môr; ac fe ddichon fod goleuni rheswm cystal a goleuni yr haul. Mae yr ehangiad arferawl yma ar eiriau, o'r corphorol i'r ysbrydol wedi ei gymhwyso at y gair "eglwys," fel y daeth o fod yn arwyddocäol o gynnulleidfa lëawl a gweledig o bersonau cynnulledig i un lle, i ddynodi yr holl gredinwyr yn Nghrist, wedi eu cynnull i un cymmundeb, trwy dderbyn yr un gwirioneddau;[4] ac felly wedi dyfod yn un ddinas, un deml, un corph, un ddïadell, un pren, un tylwyth, un teulu, er eu bod yn gorphorol yn wasgaredig dros yr holl ddaear.[5] Gan hyny, yn y Traethawd canlynol, er mwyn eglurder, myfi a ymlynaf yn ddi eithriad wrth yr ystyriaethau Ysgrythyrol o'r gair "eglwys." Nid wyf yn meddwl wrth y gair yma, yr adeilad, na'r clerigwyr, na'r ymlynwyr wrth y Sefydliad gwladol, na'r corph o gynnulleidfäoedd a fyddont yn ymlynu wrth ryw ddysgyblaeth eglwysig neillduol, na'r holl rai bedyddiedig trwy y byd. Gan hyny, pan y bydd genyf achos i son am y corphoriaethau eglwysig mawrion, er gochel aneglurder yn y ddadl, myfi a ymgadwaf at y dulliaith Ysgrythyrol. Soniaf am yr Eglwysi Pabaidd, yr Eglwysi Groegaidd; y Sefydliad Albanaidd, neu y Sefydliad Seis'nig, neu yr eglwysi yn y Sefydliadau hyny; ac nid am Eglwys Rhufain, Eglwys Groeg, Eglwys yr Alban, neu Eglwys Loegr. A chan hyny, dealla y darllenydd, mai y cwestiwn sydd genyf i'w chwilio yw, A'i ewyllys Crist yw,

1 Rhuf. 16. 1. 2 Rhuf. 16. 5. 3 Phil. 2. Gal. 1. 22. 1 Cor. 16. 11. Gal. 1. 2. 2 Cor. 8. 1. Gwel hefyd Act. 9. 31; a 15. 41: a 16. 5. Rhuf. 16. 4, 16. 1 Cor. 7. 17; a 16 19. Dat. 1. 4, 11, &c. 4 Matt. 16. 18. Eph. 1. 22; a 3. 10, 21, 23—32. Heb. 12. 23. 5 Gwel Gal. 4. 26. Heb. 12. 22. Eph. 2. 21. 1 Cor. 12. 12, 13. Io. 10. 16; a 15. 5. Heb. 3. 6. Eph. 3. 15.

bod i gynnulleidfa Gristionogol, neu eglwys, ac o ganlyniad, yr eglwysi Cristionogol o fewn y Sefydliad, fod mewn undeb a'r Llywodraeth ai peidio ?

II. Wrth y gair "Llywodraeth" yr ydwyf yn golygu y gallu llywodraethol yn y genedl, gan gynnwys y galluoedd deddfwriaethol a gweinyddol. Yn ein teyrnas ni ein hunain, y mae y gallu gweinyddol yn aros yn y Goron a'r gweinidogion; a'r gallu deddfwriaethol a berthyn i bedwar o gyrph,—y Goron, Tŷ yr Arglwyddi, Tŷ y Cyffredin, ac mewn modd mwy an uniongyrchol, i'r Etholwyr. Gan hyny, y pwnc sydd genyf fi i'w chwilio yw, A ydyw e yn unol ag ewyllys Crist, bod i'r eglwys neu gynnulleidfa Gristionogawl gael ei huno a'r Llywodraeth ddeddfwriaethol a gweinyddiadol, a'i nad yw ?

III. Wrth yr undeb rhwng yr Eglwys a'r Llywodraeth, am yr hwn y llefaraf, nid wyf yn golygu perthynas pob aelod o'r eglwys fel dinesydd a'r Llywodraeth dan yr hon y mae yn byw; nid ei ddarostyngiad ef yr un ffunud a'i holl gyd ddinasyddion i'r cyfreithiau a'r pennadur; ond yr undeb pennodol rhwng yr Eglwys a'r Llywodraeth, a ddeillia oddiar daliad gwladwriaethol, ac arolygaeth canlynol y Llywodraeth arno ef ac ar yr Eglwys.

Arolygaeth canlynol, meddaf, oblegid bod yr arolygaeth yn deillio yn angenrheidiol yn ansawdd bresenol cymdeithas, o'r talion llywodraethol. Ni byddai i un dyn cyhoeddus, o unrhyw blaid wladyddol, gydsynio i sefydlu unrhyw enwad yn waddolawg, heb gael yr hawl i'w arolygu yn y canlyniad. Yr Esgob Warburton a ddywaid, "Gan nad yw nawdd i gael ei roddi i unrhyw gymmundeb, heb fod gan y cymmundeb a fyddo yn noddi, awdurdod ar yr un a noddir, yna y canlyn o angenrheidrwydd, mai y prif lywydd yw y pen. Mae y ddwy grefydd sefydledig yn Mrydain dan yr esgobaeth Lywodraethol. Er i'r Dr. Chalmers ddadleu dros grefydd sefydledig ar y dybiaeth ei bod yn anymddibynol ar y Wladwriaeth mewn pethau ysbrydol, efe a yrwyd o'r Sefydliad Ysgottaidd trwy ganfod ei bod yn ymddibynol ysbrydol. Efe a ddadleuai dros ryw o Undeb na fu erioed; ac, yr ydwyf yn credu, na fydd byth; ond, fel gwr cywir, efe a ffieiddiai yr Undeb Ysgottaidd, am ei fod yn gorfodi y grefydd sefydledig yno i ymddibyniad a sicrheir i bob crefydd sefydledig, gan bob Undeb sydd mewn bod. Ac fel hyn, tra yr ydoedd a'i ysgrifell yn cefnogi Undeb dychymygol, a'i ymddygiad efe a gondemniai bob Undeb mewn bod. Nid oes arnaf fi ymofyn pa un a all fod Undeb, yn yr hwn na byddo i'r eglwysi ganiattâu dim a ddylent ei gadw, na'r Llywodraeth arhoni dim na's dylai ei dderbyn. Y mae a wnelwyf fi a'r Undeb fel y mae yn bod mewn gwirionedd rhwng yr eglwysi yn weithredol a'r llywodraethau. Fy ngorchwyl I yw ystyried peth ymarferol yn mysg dynion fel y maent, nid peth dychymygol perthynol i ddynion fel y gallent fod. Yr ydwyf am chwilio egwyddorion Undebau sydd yn bod, ac nid gwrthbrofi Undeb dychymygol, ffurfiedig yn ymenydd rhyw drahagor-ddyn breuddwydiawl. Fy nyledswydd I ydyw chwilio i sefydliadau

hanfodawl, a ddyrchefir gan ddynion cyhoeddus fel yn fuddiol, ac nid gwastraffu geiriau o barth Undebau cyffelyb i gestyll yn yr awyr, y rhai a gyfrifid yn ffugiadawl gan ddynion cyhoedd; ac yr ydwyf i ymofyn yn benaf, ai ewyllys Crist, fel y mae i'w gasglu o Air Duw, yw, bod i gynnulleidfäoedd Cristionogol y wlad hon, dderbyn cyflog i'w gweinidogion gan y Llywodraeth, a bod o ganlyniad dan ei harolygaeth, fel y maent yn awr.

---

# RHAN I.

*Ar egwyddorion yr undeb rhwng yr Eglwys a'r Llywodraeth.*

Y mae yn perthyn i'r Undeb a hanfoda rhwng y Sefydliad a'r Wladwriaeth yn ein gwlad ni, ryw brif arnodau, wrth y rhai y penderfynir ei nodwedd arbenig. Mae y Llywodraeth yn cynnal gweinidogion y Sefydliad, ac yn y canlyniad, yn arhoni rhyw gymmaint o awdurdod arnynt, yn doniaw rhyw noddwyr a hawl i'w cyflwyno i fywioliaethau, yn eu dyrchafu uwchlaw gweinidogion sectau ereill, ac yn gorfodi taliad y trethi a'r degymau trwy ba rai y'u cynhelir. Mae yr holl ffeithiau hyn yn condemnio yr Undeb; oblegid eu bod yn cynnwys ynddynt esgeulusiad o amryfal egwyddorion Cristionogawl. Ond, yn flaenorol i'r dyfarniad hwnw ar yr Undeb a ddeillia oddi ar ymchwiliad i'w nodwedd neillduol, y mae dyfarniad arall arno i'w gasglu oddiwrth yr ystyriaethau cyffredinol, yr hwn sydd raid ei gymeryd i sylw yn mlaenaf.

---

## PENNOD I.

### YSTYRIAETHAU CYFFREDINOL, A GOLLFARNANT YR UNDEB.

Rhaid i ni gymeryd ein harwain gan air Duw yn benaf yn hyn, cystal ag mewn pob cangen arall o ddyledswydd grefyddol: ond gan fod rhai o gefnogwyr yr Undeb, y rhai ni's gallent gael awdurdod Ysgrythyrol drosto, yn haeru ei fod yn rhesymol, naturiol, a doeth,—rhesymol, am fod y Wladwriaeth yn gyfaddas i amddiffyn ac arolygu yr eglwys, naturiol, oblegid bod y berthynas rhwng y Llywodraeth a'r bobl yn gyffelyb i berthynas rhïeni a'u plant, a doeth, am ei bod yn gefnogawl gan brofiad cyffredinol.—Cyn yr ymchwiliaf i'r dyfarniad a gyhoeddir ar yr Undeb crybwylledig gan air Duw, dangosaf ei fod yn ddyfarnedig gan y ffurf lywodraeth, gan y berthynas dadawl, a chan ymarferiad dynolryw; pethau ag y maent yn apelio attynt oll mor hyderus ar eu rhan.

### ADRAN I.—BOD YR UNDEB RHWNG YR EGLWYS A'R WLADWRIAETH YN DDYFARNDEDIG GAN Y FFURF LYWODRAETH.

Dyledswyddau yr esgobyddiaeth Wladwriaethol yw penderfynu yn yr eithaf ar gredöau, canonau, dysgyblaeth, a gweinidogion y Sefydliad. Ni's gall y Sefydliad na diwygio un o'i herthyglau cred os byddant yn gyfeiliornus, nac ychwanegu at eu rhif, o bydd y credo yn ddiffygiol, heb gydsyniad y Wladwriaeth. Heb ganiattâd y Llywodraeth ni's gall gyfarfod i benderfynu ar rëol, na phenderfynu ar rëol wedi y cyfarfyddo, na'i rhoi mewn gweithrediad wedi penderfynu arni. Ni's gall weinyddu dysgyblaeth ar glerigwyr a droseddont, neu ereill, oddieithr mewn llysoedd, ar y rhai y pennoda y Llywodraeth y barnwr; ac o'r rhai y derbynia y Llywodraeth appeliadau. Ac yn olaf, y mae y Llywodraeth yn enwi ei phreladiaid, ac yn penderfynu cyfraith appwyntiad ei holl fugeiliaid. Ond, y mae y Llywodraeth yn annghyfaddas trwy ei chyfansoddiad i weinyddu yr esgobyddiaeth yma

*Dylai aelodau y Llywodraeth fod yn dduwiol ac unedig er cwblhau y swyddogaethau eglwysig hyn.* Hwy a ddylent fod yn dduwiol, am nad oes neb ond dynion duwiol yn debyg o efrydu yr Ysgrythyrau gyda gofal digonol i wybod pa athrawiaeth a ddysgir, neu pa ddyledswyddau a ofynir ynddynt. Er ennghraifft, cyfeiliornad a ddelir gan lawer o weinidogion y Sefydliad, ac er cefnogaeth o'r hyn y cyfeiriant at y llyfr Gweddi Gyffredin, yw y dŷb fod babanod yn cael eu hadgenhedlu trwy fedydd. Y cyfeiliornad hwn, â'r hwn y dylai y Sefydliad ymwrthod yn y modd mwyaf pendant, ni's gellir ei ddilëu o'i ffurf-lyfrau heb gydsynied y Senedd; ac oddieithr bod aelodau y Senedd yn gyffredinol yn ddynion crefyddol, nid ydynt yn debyg o chwilio i'r testyn gyda gofal digonol i wybod pa beth yw athrawiaeth yr Ysgrythyr ar ailenedigaeth.

Mae rhai o ganonau y Sefydliad yn anadlu dallbleidiaeth yr unfed ganrif ar bymtheg. Dylai y rhai hyn gael eu dilëu o'n deddf-lyfr eglwysig yn ddioed; ond, ni's gall y Sefydliad wneyd hyny heb gynnorthwy Ty y Cyffredin; ac mewn trefn i farnu anysgrythyroldeb eu hysbryd, dylai aelodau y Ty hwnw fod yn dra chyfarwydd ar yr Ysgrythyrau.

Dylai aelodau y Llywodraeth fod yn unedig mewn pethau eglwysig; yn gymmaint ag y bydd unrhyw farn a gyhoedder gan y mwy-rif yn y Senedd yn erbyn y llei-rif yno; y rhai a gefnogir, efallai, gan fwy-rif y bobl, yn rhwym o fod yn ddibwys mewn ystyr foesol; ac o arwain i ymbleidiad. Heblaw hyny, pan fyddo pleidiau agos yn gyd bwys, gall ychydig aelodau o'r nodwedd mwyaf annghrefyddol o'r diwedd benderfynu y pynciau eglwysig pwysicaf a ddygir dan ystyriaeth y Senedd.

Yn awr, ni's gellir dysgwyl bod aelodau y Senedd yn gyffredinol yn dduwiol nac unedig: ychydig o'r mawrion a'r cyfoethogion, a hynodwyd

erïoed trwy eu difrifwch mewn crefydd ysbrydol.—"*Haws yw i gamel fyned trwy grau y nodwydd ddur, nag i oludog fyned i mewn i deyrnas nefoedd.*"1 Ac o'r dechreuad, y mae Duw wedi cuddio gwirioneddau yr Efengyl oddiwrth y doethion a'r rhai deallus, a'u datguddio i rai bach.2 Y tri pheth a ddygant ddynion i'r Senedd, neu y deddf-lys gwladol, ydynt radd, cyfoeth, a rhagoriaeth dawn. Cyfansoddir Ty yr Arglwyddi heb olygu dim ar nodwedd, o'r rhai a ettifeddant urddas a chyfoeth. Hiliogaeth gwladweinwyr galluog, maes-lywyddion dewrion, cyfreithwyr medrus, neu ariangarwyr llwyddiannus; y maent hwy yn ddeddfwyr treftadawl, pa faint bynnag a fyddo eu dïystyrwch ar yr Efengyl, a'u dibrisdod o foesau. Mae llawer yn cael dyfodiad i Dy y Cyffredin trwy ddylanwad eiddo, a dewisir llawer oblegid eu medrusrwydd i amddiffyn golygiadau gwladol eu hetholwyr. Mae yr etholwyr yn cynnrychioli corph y genedl. Hwy a allant fod yn onest neu yn anonest; yn uniawn neu yn llygredig; yn rhydd neu yn wasaidd; yn oleuedig neu yn rhagfarnol; ond ni's gallant fod, yn gyffredin yn dduwiol. A dïau eu bod yn debyg o ddewis fel eu cynnrychiolwyr, ddynion cyffelyb iddynt eu hunain. Efallai y dewisir ychydig ddynion crefyddol; ond rhaid y bydd y mwy-rif yn annghrefyddol. Ni's gall fod yn amgenach. Ai ysbrydol neu anianol, adgenedledig neu ddïadgenedledig yw y byd? Os anianol a diadgenedledig, pa ham y dewisent hwy ddynion ysbrydol i'w cynnrychioli yn y Senedd.3 Ychwanegaf, na ddylai fod felly. Os ydym i

1 Matt. 19. 24. 2 Matt. 11. 25.

3 Er pan ysgrifenid y llinellau hyn, gwnaeth y *Times* y sylwadau canlynol ar orchfygiad fy nghyfaill cywir a rhagorol, Syr Culling Eardley yn ei ymdrech am gynnrychioliad y *West Riding*:—

"Dewisai Syr Culling Eardley ymgais am gynnrycholiad y *Riding*, ar seiliau crefyddol. Pa un bynnag a'i gwastrawd duwiol a rydd allan gais am le, neu ymgeisydd duwiol am eisteddle yn y Senedd, y mae y cyffredin mor barod i dybied fod rhyw beth o'i le. Cesglir na fedd y dyn unrhyw arganmoliadau ereill i'w cynnyg, a'i fod yn ei dwyll-wthio ei hunan ar y cydwybodol gyd a'r gobaith y bydd i ryw enaid tlawd feddwl ennill nefoedd trwy gyd-ddwyn a gwas hynod o ddrwg. Ond o bob peth yn y byd, crefydd sydd yn ei chael waethaf yn y bwth etholyddawl.... Gan hyny, y mae profiad wedi ein dysgu ni i olygu yr ymgeisydd duwiol, fel twyllwr dirmygedig, a darbwylliad ehang wedi cadarnhau y gred hono. Pa un bynnag ai Pabydd ai Puritan, Jesuit neu Neidiwr, nid yw ond yr un. Ar y cemmaes gwladyddol, troi allan yn dwyllwyr yn y cyffredin a wnaeth y rhai a ffuantent grefyddoldeb."—*The Times, Dec.* 18.

Mae yn ddiau y buasai y nifer fwyaf o'r Etholwyr yn cydsynio a phrif Newyddiadur Ewrop.

Y crybwyllion canlynol am Dy y Cyffredin yn "Muchedd Mr. Wilberforce," gan ei feibion, a daflant oleu ar y Sylwadau blaenorol.

Pan ddysgwylid y goresgyniad Ffrengig yn 1803, dygid ysgrif i fewn er rheoleiddio addysgiad milwraidd y Gwirfoddolwyr ar y Sabbath; ar yr hyn y gwnelai Mr. Wilberforce y sylwadau canlynol:—"Cawsom drwsio yr ysgrif yn nghylch ymarferiad milwraidd ar y Sabbath; ond nid ei gwellâu. Mor wahanol yw Ty y Cyffredin oddiwrth y Deyrnas! Nid ymddangosai bod yno neb yn gofalu yn ei gylch oddieithr y *Thorntons, &c.* Cyfiawn y galwn am ddialedd Ddwyfol. Siaradai Pitt am y peth heb fod yn wrthwyneb i egwyddorion Eglwys Loegr." (Life, vol. 3. p. 110.) Yn yr ymarfer milwraidd ar y Sabbath, y mae Ty y Cyffredin yn ein herbyn. (p. 266.) Yn y flwyddyn 1809, cynnwysai ei Ddyddlyfr y sylwadau canlynol, "Cynnygiad Wardle ar y Duc

gael ein llywodraethu yn dda, fe ddylai Ty y Cyffredin grynhoi iddo ei hun y doniau penaf yn y deyrnas. Nid yw dyn crefyddol heb dalent yn meddu dim mwy o gymhwysder i fod yn Seneddwr, nag a fedd dyn crefyddol heb rym gewynawl, i fod yn ôf du; ac ni ddylai etholwyr ddewis Cristion heb feddu gwybodaeth wladol dda, i lywio y genedl, mwy nag y dylai y Llywodraeth ddewis Cristion heb wybodaeth am fordwyaeth neu gyflegrwaith i lywio llong ryfel. Er fod dynion crefyddol yn fwy uniawn nac ereill, nid ydynt yn rhydd oddiwrth wendidau dynol, a gallant fod yn gamsyniol mewn gwlad-ddysg, ac yn ddiffygiol o fedr; a phe byddai y genedl yn nwylaw y cyfryw ddynion, pa mor ragorol bynnag a fyddent, darostyngai eu hamryfuseddau y Llywodraeth i ddirmyg, a'r wlad i berygl.1 Dylai ein llywodraethwyr fod yn ddynion galluog, ac o byddant o foesau da, dyna y cwbl a ellir ei ofyn yn gyffredin. Pan geisiai Mr. Gladstone brofi cyfaddasrwydd y Llywodraeth i "ddewis y grefydd wladol,"—"i ddewis o ran crefydd yn well nag y gwna y rhan fwyaf o'r bobl drostynt eu hunain,"—ni honai i'w haelodau namyn rhagorach synwyr a moesau da. "Fe ddylai Llywodr-

o Gaer Efrawg———waith ysgeler. Nid ymddengys fod gan y Ty yr ystyriaeth leiaf o'r euogrwydd o odineb ond yn unig y camwedd mewn ystyr wladyddol." Mewn llythyr at Mr. Hey, efe a chwanegai,—"Pa ryw ddrych a arddangoswn i'r byd! Nid oedd yn ddim mwy nag a ragwelid gan neb un a feddai ryw gymmaint o gydnabyddiaeth a Thy y Cyffredin. Yr ydym yn fyw i'r camwedd gwladol; ond ymddengys ein bod yn llwyr anystyriol o'r drwg moesol. A rhaid fod y derbyniad a roddir i bob mwyseiriaeth, yn y Ty, yn niweidio ein cymeriad yn ddirfawr gyda phawb crefyddol eu meddyliau. (pp. 401, 402.)

Yn y fl. 1813, ymdrechai Mr. Wilberforce i gael dernyn i fewn i siartr Cydfasnachwyr yr India Ddwyreiniol, trwy yr hyn yr awdurdodid Cenhadon Cristionogol i bregethu yr Efengyl yn yr India. Fel hyn y dywaid ei Fuch-draethwyr, "Ni's gellid camgymeryd tymher Ty y Cyffredin; a'r unig ffordd y gallai obeithio cario y cynnygiad pwysig yma drwodd yn llwyddiannus, oedd trwy ddwyn teimlad crefyddol y wlad i wasgu yn rymus ar y Ty." Ac efe ei hun a ddywaid wrth Mr. Hey;—"Y gwir yw, a gwirionedd arswydus ydyw, a byddai opiniwn naw o ddeg, neu o leiaf, fwy-rif cryf o Dy y Cyffredin, yn erbyn unrhyw gynnygiad a allai cyfeillion crefydd ei wneyd: ond, yr ydwyf yn hyderus ei bod yn dra gwahanol yn nghorff ein pobl. (*Life. vol.* iv. p. 102.) "Dadleuai Mr. Stephen, a minnau, ac ereill yn erbyn y trefniad cynnygiedig i gau allan bob goleuni moesol a chrefyddol o'r India Ddwyreiniol." (p. 105.) Mae y Llywodraeth yn tueddu attom yn dda; ond y mae yn dra thebyg y gallant gael eu gorthrechu gan deimlad y Senedd, yn neillduol yr eiddo Ty y Cyffredin.... Ni byddai yn rhyfedd iawn genyf,....pe y rhoddid i fynu gynnyg unrhyw ddïogeliad er attal bolltiad y drws yn ffordd goleuni moesol a chrefyddol." (p. 109.) Mae Ty y Cyffredin yn gyffredinol yn tueddu yn ein herbyn. (p. 112.)

1 Y *Record* a ysgrifenai ar yr achlysur o orchfygiad Syr C. Eardley, fel y canlyn:—

"Pa gyfeiliornadau bynnag a cwympodd Syr Culling iddynt yn grefyddol ac ymarferol, ac yr ydym yn meddwl nad ydynt ychydig na bach, ni all neb feiddio ammeu ei ddiffuantrwydd a'i eirwiredd.... Ond tra y dywedwn fel hyn am yr anfri a roddir i Syr Culling Eardley gan y *Times*, yr ydym yn cyd-lawenhau yn ddiffuant a'n darllenwyr ar ei wrthodiad i gynnrychioli y *West Riding*.... Mae ei dyb nad yw yn ddyledswydd ar lywodraethwyr Cristionogol i gynnal y ffydd Gristionogol, ei amcan i ymosod yn ddïoed yr erbyn trethi Eglwysig, &c. &c., yn ei nodi fel un peryglus i fod yn Aelod Seneddol."—*The Record, Dec.* 18.

Yr ydwyf yn cydsynio a'r *Record* yn gyflawn càn belled a hyny, sef na bydd i dduwioldeb yn unig wneyd un yn Aelod Seneddol da.

aethau fod,—a phrin y dadleuir nad ydynt o herwydd angenrheidiau eu sefyllfa,—yn uwch yn ngraddoliaeth dealldwriaeth nag elfenau anwadal mympwy cyffredin."[1] "Yn nesaf, os y golygwn nodwedd foesol, neu foesoldeb personol llywodraethwyr, wrth yr hyn y golygaf, eu hegwyddorion o rinwedd Cristionogol, neu mewn ystyr îs, o rinwedd dynol, *ni's gwn y gellir yn deg ei gymeryd yn is na'r hyn a nodwedda y lluaws ar y cyfan.*"[2] "Ni's gall Llywodraeth ddewis ei haelodau o'r lluaws; *ac ni's gall wneuthur nodwedd yn ammod awdurdod.*"[3] Dynion galluog a weithiant eu ffordd yno o angenrheidrwydd, er bod heb nodwedd crefyddol; a gallai Mr. Roebuck ddweyd gyda phrïodoldeb, yn ei le yn y Senedd, "Nyni Syr, ydym, neu a ddylem fod, yn flaenion pobl Brydain, o ran meddwl:"[4] ond ni all efe, nac un Aelod arall o Dy y Cyffredin, ddadleu eu bod hwy yn flaenion pobl Brydain, o ran duwioldeb. Ond, pa le y dysgodd Mr. Gladstone bod deall rhagorach, a moesoldeb canolig yn cymhwyso aelodau y Senedd i dywys ac arolygu eglwysi Crist, i benderfynu i eglwysi Cristionogol, ac i weinidogion Cristionogol, pa athrawiaeth sydd wir, pa foesoldeb sydd Ysgrythyrol, a pha ddysgyblaeth sydd yn ol ewyllys Crist? Mae Ty y Cyffredin yn gyfansoddedig o feibion arglwyddi, barwniaid, ac ysweiniaid, o gadbeniaid morawl, a milwriaid yn y fyddin, o gyfreithwyr a henaduriaid, o arianwyr, o fasnachwyr a meistri llaw weithfeydd, o ddirprwy fasnachwyr, a chyfarwyddwyr rheilffyrdd; a pha beth sydd yn eu dygiad i fynu na'u gorchwylion i'w cymhwyso i fod yn llywodraethwyr eglwysi Crist, i eistedd mewn barn ar gredöau a rheolau, neu i benderfynu dros holl Gristionogion y tir, etholiad eu gweinidogion, a gweinyddiad dysgyblaeth eglwysig? Pan oedd ein Harglwydd yn pregethu yn bersonol, yr oedd ei athrawiaethau a'i foes-ddysg yn guddiedig oddiwrth y doethion a'r rhai deallus.[5] Yn nyddiau Paul, yr oedd yr unrhyw athrawiaethau a moes-wersi yn ymddangos yn ffolineb i'r Groegiaid mwyaf goleuedig.[6] Ac os yw aelodau y Senedd yn meddu y rhagoriaethau uchaf yr anturia Mr. Gladstone eu prïodoli iddynt—synwyroldeb rhagorach, a moesoldeb cyffredin, heb ddim yn chwaneg,—y maent yn llawer tebyccach i ddiystyru yr Efengyl nag i'w hanrhydeddu, i sathru ei hyfforddiadau nag i'w parchu; ac y maent yn hollol annghyfaddas i feddu y rheolaeth eithaf ar eglwysi Crist. Ni chymwysa gwladweiniaeth un i gyfarwyddo amgylchiadau eglwys, mwy nag y cymhwysa duwioldeb un i lywodraethu helyntion cenedl. Cadwed pob un o fewn cylch prïodol ei weithrediad ei hunan.

Ond, nid ydyw annghyfaddasrwydd y Llywodraeth i gyflawni yr esgobaeth gyffredinol yma, yn ymddibynu yn unig ar annghrefydd llawer o'i haelodau; canys nid yw annghyssondeb eu hopiniynau, yn llai niweidiol i'w

1 *The State in its Relations, &c.;* Vol. i. p. 288. 2 P. 290. 3 P. 96. 4 *The State in its Relations, &c.; vol.* i. p. 286. 5 Matt. 11. 25. 6 1 Cor. 1. 23.

cymhwysder. Ar hyn y mae Mr. Gladstone yn dywedyd, "Fe all fod y fath beth a bod cyfundebau crefyddol wedi eu rhanu mor gyfartal, neu wedi eu hadranu mor amrywiol, nes bod y Llywodraeth ei hunan yn amrywio yn gyffelyb yn ei gwedd-nod grefyddol, ac felly yn annghymwysedig dufewnol trwy ddiffyg undeb trwyadl, i weithredu mewn pethau crefyddol.[1] Dyma ein cyflwr ni. Os cyflwynir deiseb gan archesgob i ofyn am i'r Sefydliad gael rhyw lywodraeth eglwysig, neu, os gwneir cynnygiad gan ryw arglwydd urddasol er gwneuthur y rhuddell *(rubric)* yn fwy cydwedd âg arfer bresenol, gan bwy y mae y pethau hyn i'w penderfynu? Yn gyntaf, mewn dyddiau dyfodol, efallai mai gan bennadur a fyddo yn llwyr annhebyg i'n Brenines rasusol, ac o gyffelyb ddelw i Harri VIII., neu i Siarl II. Yn ail, gan yr Arglwyddi, y rhai a allant fod yn Esgobyddol, Henaduriaethol, Pabaidd, neu Undodaidd, neu ynte yn ddynion wedi ymroi i wagedd y byd hwn, heb un meddwl ynddynt am grefydd. Yn drydydd, gan Aelodau o Dy y Cyffredin; a gall y rhai hyn fod yn ddynion o egwyddor uchel, neu heb un egwyddor;—Pabyddion, Puseyaid, Deistiaid, Undodiaid, Swedenborgiaid, Crynwyr, Wesleyaid, Eglwyswyr uniawngred, neu Ymneillduwyr efengylaidd; hwy a allant fod yn gredyfus neu ddigred, yn wŷr ieuainc dillynwych, neu hen wŷr wedi ymgaledu mewn anfoes; gallant fod yn oludog neu yn suddedig mewn dyled; yn dra awdurdodwyr, yn ocheneidio am adgyfodiad Laud a Strafford, neu yn weriniaethwyr, y rhai yn eu breuddwydion a ganfyddant ddrychioliaethau eirian o werinlywodraeth; gallant fod yn helwyr, blaenaf ar dranc y cadnaw yn wastadol, neu yn helwyr dinesig mwy craffus, am aur; gallant fod yn hoffwyr gwag bleserau, y rhai ni's meddant orchwylion difrifolach ar unrhyw bryd o'r bron na'r Gân chwareufa, ac ydynt yn myned i Dy y Cyffredin o ran difyrwch yn unig; neu ymbleidwyr gwresog, uchelgais penaf pa rai a all fod cadw un gweinidog i fewn, a bwrw y llall allan. Gan yr ystafelloedd hyn y mae eglwysi Crist yn y wlad hon yn cydsynio, i'w credo a'u cyfreithiau, eu dysgyblaeth, a dewisiad eu gweinidogion, gael eu penderfynu. Ar ba olygiad y byddai dwy ystafell arall, un o honynt i fod yn gynnwysedig o bedwar cant o arianwyr, a'r llall o chwe chant o arlywyddion rheilffyrdd yn llai cymhwys i arolygu yr eglwysi hyny? Mae gadael credöau a dysgyblaeth yr eglwysi yn y fath ddwylaw, yn attalfa ar ffyniant crefydd, ac yn gwneuthur y Senedd yn ddirmygedig.

Pa les a all ein Deddfwyr amcanu ei gynnyrchu trwy arhoni y cyfryw lywodraeth wladol ar yr eglwysi? A ydyw Ty y Cyffredin yn meddwl meithrin crefydd ysbrydol drwy hyny? Och! y mae yn debyg fod y rhan fwyaf o'i aelodau yn ddieithr i grefydd ysbrydol; ac, ond odid yn gwawdio y dynion a'i harddelwant, a'r sefydliadau drwy ba rai y'i lledaenir. A fyddai

1 *The State in its Relations, &c.* Vol. i. p. 304.

i'r rhan fwyaf o'r llywodraethwyr eglwysig hyn gyflwyno eu bywiolaethau i ddynion efengylaidd? A ydynt hwy yn gwrando pregethu efengylaidd? A ydynt hwy yn gydroddwyr i Gymdeithasau efengylaidd, i'r Gymdeithas Feiblaidd, i Gymdeithas Gehhadol yr Eglwys, i Gymdeithas y Traethodau, neu i Genhadaeth Ddinesig Llundain? Yn mha ffordd y maent hwy yn bersonol yn cefnogi crefydd ysbrydol? Gan hyny, a ydynt hwy ynte yn amcanu dal i fynu *foesoldeb* yr Efengyl trwy yr Undeb? Mae ei gorchymynion yn gwahardd pob ymrafaelion; yn annog dyn pan y'i tarewir ar y naill rudd i droi y llall hefyd, ac yn ei rwymo dan berygl y gosb drymaf i faddeu i'r rhai a droseddant i'w erbyn. Maent yn tystio na chaiff meddwon a phutteiniaid fyned i fewn i deyrnas nefoedd. Maent yn gwgu ar falchder, ac yn dyrchafu gostyngeiddrwydd; ac y maent, nid yn unig yn annghymeradwyo dyled, ond yn gorchymyn i'r rhai goludog fel goruchwylwyr Duw, i gyfranu i'r tlodion yn haelionus. Pa gynnifer o'r ddau Dy ydynt yn cydsynio a'r rhëolau buchedd hyn? Pa gynnifer a arddangosant ymostyngiad ymarferol i'w hawdurdod? Mae moes-wersi yr Efengyl, cystal a'i hathrawiaethau wedi bod yn ffolineb i'r byd yn mhob oes. Ai y "ffolineb" yma y mae y rhan fwyaf o'r ddau Dy yn ei ddal i fynu? Ond, onid yw ein Deddfwyr yn amcanu lledaenu athrawiaeth efengylaidd, neu argymhell moesoldeb Cristionogol drwy yr Undeb hwn, y mae yn rhaid bod ganddynt ryw ddybenion ereill mewn golwg; ac y mae yn gweddu i Gristionogion ystyried yn ddifrifol pa beth ydynt. Ond, pa beth bynnag ydynt, y mae cyfansoddiad y Llywodraeth y cyfryw, ag sydd yn gwneuthur ei hymarferiad o awdurdod eglwysig ar unwaith yn ynfydrwydd a bai.

Ofer yw dadleu y dylai Llywodraethau trwy bob moddion yn eu gallu, gefnogi achos Crist. Fe all hyny fod yn eithaf gwir, ac eto fod eu hesgobyddiaeth hwy yn anysgrythyrol, ynfyd, a niweidiol. Dyledswydd pob Aelod Seneddol, pob pendefig, pob gweinidog i'r Goron, a phob pennadur, yw bod yn Gristion cyson. Mae pob llywydd ar y wlad yn rhwym i gydnabod ei euogrwydd a'i golledigaeth fel pechadur, na's gellir ei waredu ond trwy y prynedigaeth, trwy waed Mab Duw, ac ymddiried yn hollol yn nheilyngdod a chyfryngdod Crist am faddeuant, am sancteiddrwydd, ac am nefoedd. Nid yw urddas, cyfoeth, ac awdurdod, namyn chwanegu y rhwymedigaeth ar bob un i ufuddhau i ewyllys Duw, megis y'i datguddir yn y Beibl, rhoddi esampl Gristionogol i ereill, bod yn aelod o Eglwys Gristionogol, llywodraethu ei deulu wrth rëolau Cristionogol, meithrin ei blant yn ofn Duw, gwrthwynebu annuwioldeb, a phob difyriadau afradus a niweidiol, meithrin cenadaethau Cristionogol yn mysg y paganiaid, cynnorthwyo yn lledaeniad addysg efengylaidd yn gartrefol, trwy gyfraniadau haelionus, ac anrhydeddu crefydd yn mhob modd.

Mae pob aelod o'r Senedd dan lawn cymmaint o rwymedigaeth hefyd i

gymeryd deddf Duw yn unig rëol ei ymddygiad cyhoeddus. Dylai pob trefniad gwladol gael ei ystyried yn ngoleuni yr ewyllys Ddwyfol, dylai pob pleidlais gael ei rhoddi yn ofn Duw; a gelwir pob deddfwr i gyffesu ei fod yn cael ei lywodraethu yn mhob peth gan awdurdod Crist. Pwy bynnag sydd yn esgeuluso y dyledswyddau hyn, y mae yn camddefnyddio doniau Duw, a rhaid iddo roddi cyfrif am y camddefnydd hwnw i'w Wneuthurwr.

Mae yn amlwg y dylai y cyfryw egwyddorion lywodraethu unol weithrediad holl aelodau y Senedd. Hwy a ddylent lunio eu cyfreithiau a llywodraethu yn ofn Duw, yn ol yr ysgrythyr, er gogoniant Duw, a lles y genedl. O ganlyniad, ni ddylai eu cyfreithiau fod yn Annghristionogol nac yn anfoesol, yn annghyfiawn nac yn orthrymmus: hwy a ddylent wrthdaro annghrefydd ac annuwioldeb yn eu mysg hwy eu hunain; hwy a ddylent ddarbod i holl swyddogion y Llywodraeth, i filwyr, morwyr, a hedd-geidwaid, gyfleusderau a moddion diwylliant crefyddol; dylent ddifodi pob deddfwriaeth pleidiol, gochel ffurfio unrhyw edwicaeth annghyfiawn, noddi y gwan rhag gormes, lliniaru cyflwr y tlawd trwy bob moddion yn eu gallu, symmud pob attalfeydd ystrywgar ar ddiwydrwydd, gwneuthur yr holl ddeiliaid yn gyfartal yn ngolwg y gyfraith, derbyn cynnifer ag a fyddo yn bossibl i gyfrannogi yn rhagorfreintiau y ffurf-lywodraeth, ac yn gyffredinol, wneuthur happusrwydd pawb yn nôd eu hymdrechion gwastadol. Gelwir arnynt yn mhellach i noddi Cristionogion yn eu hymarferiadau crefyddol, na's goddefont unrhyw attaliad cyhoeddus i bregethiad yr Efengyl, i sicrhau dïogelwch Cenhadau Cristionogol trwy yr holl amherodraeth, i wellau cyflwr brodorion ein trefedigaethau, i fod yn gyfiawn a thêg yn eu hymwneyd â Galluoedd tramor, i gondemnio ac ymwrthod â rhyfel, ac i gynnorthwyo yn hyttrach na lluddias llwyddiant cenhedloedd ereill. Ond, tra yn cyflawni y dyledswyddau Cristionogol hyn, nid yw yn llai dyledus arnynt i'w Harglwydd a'u Prynwr, adael ei eglwysi ef yn rhydd oddiwrth bob rhëolaeth lëygol, na byddo iddynt draws osod gweinidogion arnynt, arosod treth ar yr anfoddawg er cynnal crefydd, nac arfer unrhyw orfodaeth ar eu deiliaid mewn pethau crefyddol.

Fel hyn, pe byddai y Llywodraeth yn hollol Gristionogol, hi a ddylai ddifodi ei Hundeb â'r eglwysi. Ond, a ydyw hi yn Gristionogol? Pa nifer o aelodau y Senedd a broffesant ymddiried trwyadl yn Nghrist am eu hiachawdwriaeth rhag uffern, ac yn y canlyniad, a gymerant ei air ef yn unig rëol eu hymarweddiad? Os ydyw y rhan fwyaf heb y ffydd hon, y maent yn Annghristionogol ac annuwiol; a'r Undeb rhwng yr Eglwys â'r Wladwriaeth, nid yw ddim amgen nag Undeb rhwng eglwysi Crist â chorph o ddynion annychweledig—Undeb yr eglwys â'r byd; a chan y dywedir am bawb nad ydynt gydâ Christ, mai yn ei erbyn ef y maent, undeb ei gyfeillion ef â'i elynion ydyw. Nid yw effaith yr Undeb hwn yn ymddibynu ar

yr hyn a ddylai y Wladwriaeth fod, eithr ar yr hyn yw; a dadleu dros yr Undeb oblegid bod y Wladwriaeth yn rhwym i fod yn efengylaidd, nid yw ond megis pe y dywedid y dylai lleidr gael ei wneuthur yn ymddiriedolwr ar eiddo, am ei fod yn rhwym i fod yn onest; neu, y dylai Swper yr Arglwydd gael ei weinyddu i'r meddw afradus, am ei fod ef yn rhwym i fod yn sobr a rhinweddol. Mae cefnogwyr yr Undeb yn dadleu yn wastadol, nid oddiwrth yr hyn yw y Llywodraeth, ond yr hyn y dylai fod; ac yn casglu yn y modd mwyaf cyfeiliornus, effaith Undeb yr eglwysi â'r Llywodraeth weithredol, oddiwrth yr hyn y tybiant a fyddai effaith eu Hundeb â'r Llywodraeth ddychymygol. Y mae y Llywodraeth y sydd, yn annghrefyddol, a'r eglwysi yn rhwym i ddattod eu Hundeb â hi.

---

## ADRAN II.—BOD YR UNDEB YN CAEL EI GONDEMNIO GAN Y BERTHYNAS DADOL.

Mae Mr. Gladstone ac ereill a ddadleuant dros yr Undeb, wedi sefyll llawer ar y cyffelybrwydd sydd rhwng y genedl a'r teulu, a rhwng swyddogaeth y Wladwriaeth a'r eiddo y tad.[1] Ac efe a chwanega, gan ddywedyd, "Yr ydwyf yn casglu oddiyma, bod y Llywodraeth pan wedi ei chyfansoddi yn iawn, yn meddu cyfaddasrwydd arbenig trwy brïodoliaethau tufewnol cystal ag allanol, i dywys ac ymwhedd â meddwl y bobl, i ymarfer swydd hyfforddwr, ac hyd yn nod, rïaint, mewn mesur, mae yn wir; ond er hyny yn wirioneddol."[2] Mae yr Esgob Wilson yn chwanegu, "Er nad yw Sefydliad yn hanfodol i Gristionogaeth ei hunan, y mae yn hanfodol i bob Llywodraeth Gristionogol a ddymunai gyflawni ei rhwymedigaethau penaf tuag at y bobl a roddwyd i'w gofal. Y mae cyssylltiad rhwng Cristionogaeth â llywyddion gwlad Gristionogol yn ofynol mewn modd arbenig er cyflawni dyledswydd Dadawl y Llywodraeth i'r teulu mawr."[3] Yr athrawiaeth a seilir ar y cyffelybrwydd yma, yw, megis y dylai y tad ddarbod addysg Gristionogol i'w deulu, felly y dylai y Llywodraeth ddarbod addysg Gristionogol i'r genedl. Ond y mae y gyfaledd *(analogy)* a'r athrawiaeth a seilir arni yn dwyllodrus.

Y mae y Llywodraeth yn gynnwysedig o Frenines, Arglwyddi, ac Aelodau Ty y Cyffredin, ac allan o'r tri dosbarth dywededig, y mae Ty y Cyffredin yn meddu y fath ddylanwad yn awr, fel mai ei farn benderfynol a sefydlog sydd yn y diwedd yn penderfynu pob dadl gyhoeddus, fel y mae yn rhaid i ni ystyried y Ty yn ystorfa arbenig awdurdod dadawl y Llywodraeth. Ond,

1 *The State in its Relations, &c.*, Vol. i. pp. 72—76. 85. 2 Ib. p. 282. 3 *Bishop of Calcutta's "Farewell Charge."* p. 24.

os Ty y Cyffredin yw tad y genedl, y mae y gwahaniaeth rhwng tad y genedl â thad y teulu mor fawr, fel ag y mae dyledswyddau y naill yn dra gwahanol oddiwrth yr eiddo y llall.

Gan fod plant wedi eu cyfleu dan awdurdod eu rhïeni trwy eu gwendid a'u hanwybodaeth, heb unrhyw ddewisiad o'r eiddynt eu hunain, y mae eu rhëoliad gan eu tad yn naturiol ac anocheladwy; ond y mae Ty y Cyffredin yn ddewisedig gan etholwyr yr amherodraeth, ac am hyny, tad etholiadol, rhiant trwy ddewisiad ydyw, wedi ei gyfodi i'r urddas hwnw gan ei blant a'i dewisasant, i'r rhai yn unig y mae yn ddyledus am ei sefyllfa a'i awdurdod.

Mae tad y teulu yn meddu rhëolaeth barhaus, ac o fewn rhyw ffiniau neillduol, annghyfrifol, fel y gall benderfynu ar addysg ei blant o'u mebyd i'w llawndwf. Ond, y mae y tad cenedlaethol yn etholedig gan ei blant, ar ammodau neillduol, ac i ddybenion neillduol, ac am hyny ni's gall honi mwy o awdurdod nag a welont hwy yn dda ei ganiattau, y mae yn gyfrifol iddynt am weinyddiad ei swydd, ac fe'i gorfodir ganddynt i'w rhoddi i fynu yn mhen saith mlynedd, am eu bod yn ofni iddo gymeryd gormod o awdurdod arno ei hun; a gellir dirymu ei holl benderfyniadau gan y tad cenedlaethol a etholir nesaf, golygiadau yr hwn a allant fod yn llwyr wrthwyneb i'r eiddo ef.

Felly, gan fod amgylchiadau y tad naturiol mor wahanol i'r eiddo y Llywodraeth, gwelir yn eglur nad yw yn ddïogel dadleu oddiwrth ddyledswyddau y naill am hawlion swyddogol y llall; ond, can belled ag y mae cyffelybrwydd rhyngddynt, y mae y gyfaledd hono yn condemnio rhëoliad yr Eglwys gan y Llywodraeth, fel peth afresymol; canys, pan gynnyddo plant unrhyw deulu i aeddfedrwydd dyndod, fe'u rhyddheir bob amser oddi tan rëolaeth eu rhïeni mewn pethau crefyddol. Pa dad a feddyliai roddi rhëol i'w fab yn ddeng mlwydd ar hugain oed, pa gredo i'w broffesu, neu pa weinidog i'w wrando? Pa fab yn yr oedran hwnw a ymostyngai i'r fath rëolaeth! Erbyn y cyfryw adeg, y mae awdurdod y tad mewn pethau crefyddol wedi d'od i ben, gan fod pob dyn yn gyfrifol i Dduw am ei ymddygiad crefyddol, ac na's gall oddef i neb gyfryngu rhwng ei Wneuthurwr ag ef. Mae y mab erbyn hyny wedi dyfod yn anymddibynol grefyddol; a byddai pob ymgais i arosod credo, neu athraw crefyddol arno, yn gamrwysg. Gan fod rhwymedigaeth y rhïant i ddysgu y plant, yn cyfodi yn unig oddiar eu hangen am wirionedd Dwyfol, a'u hannghyfaddasrwydd i farnu drostynt eu hunain, y mae y rheswm am y penrhëolaeth yma yn darfod, can gynted ag y delo eu galluoedd hwy i aeddfedrwydd; ac o hyny allan hwy a fyddent ar fai oddef ei gweinyddiad. Ac nid llai ffol a beius ydyw mewn cenedl i oddef y Llywodraeth i arosod ei chredo; canys y mae y genedl yn ei chyflawn faintiolaeth. Bu amserau pan y gallasai y Llywodraeth gyda rhyw gymmaint o gyfaddasrwydd ymddangosiadol, ymddwyn tuag at genedl fel tad at blentyn: ond pa ham y dylid ymddwyn tuag at y genedl hon yn awr fel

plentyn? Mae myrddiynau o ddynion yn y wlad hon yn bresenol a allant feddwl drostynt eu hunain ar grefydd, cystal ag y gall y 658 aelodau o Dy y Cyffredin feddwl drostynt.. Yn mhob cenedl rydd, y mae y wasg a'r areithfa yn alluoedd cyd ordeiniol â'r Llywodraeth ei hunan; ac y mae pob dydd yn ei wneuthur yn fwy amlwg yn y wlad hon, nad addysgwyr plant yw Ty y Cyffredin; ond cynnrychiolwyr dynion, yn mysg y rhai y mae llawer mor alluog a hwy eu hunain i chwilio i bob pwnc mewn gwlad-ddysg a moes-ddysg: ac os yw y genedl yn gyfansoddedig o ddynion, ni ddylai y Senedd mwyach ymddwyn tuag attynt fel pe byddent blant. Ac yn wir, ni thrinir hwynt megis plant mewn dim arall. Nid yw y Llywodraeth yn pennodi i ni ein Cyfreithiwr, ein Physygwr, neu ein Masnachwr; a pha ham y dylai hi bennodi ein Bugail crefyddol i ni? Pa ham y detholir i'w phennodiad yr unig beth y medda leiaf o gymhwysder i benderfynu ynddo, ac yn yr hyn y mae ei hamryfyseddau yn debyg o fod yn fwyaf niweidiol? Pan y mae y tad yn dewis y gweinidog i'w blant, y mae efe yn dewis eu physygwr a'u maelierwr iddynt hefyd; os myn y Llywodraeth chwareu y rhïant â dynion, bydded iddi bennu ein physygwyr a'n maelierwyr, cystal a'n gweinidogion i ni. Trined ni yn hollol fel plant, neu yn hollol fel dynion.

Pan fyddo tad yn rhoddi i fynu bob rhëolaeth ar grefydd ei blant, o herwydd eu bod wedi cyrhaedd llawndwf; efe a all fod eto yn ddoethach na hwynt, ac y mae yn ddiau ei fod yn fwy profiadol. Ond, pa ddoethineb crefyddol a phrofiad a fedd y tad cenedlaethol etholedig hwn, yr hwn sydd yn dal ei afael yn rhëolaeth eglwysi Crist? Yma yn ddïau, y mae y berthynas rhwng y Llywodraeth a'r eglwysi, a pherthynas tad a'i blant, yn hollol anngbyfattebol. Yn eglwysi Crist y mae holl ddoethineb crefyddol y wlad yn gynnulledig: ond nid oes nemmawr o ddoethineb grefyddol yn Nhy y Cyffredin. Os gall fod y Senedd mewn gwybodaeth wlad-weiniol yn gyffelyb i dad, a'r genedl fel plentyn; mewn gwybodaeth ysbrydol y mae y Senedd fel y plentyn, tra y mae yr eglwysi yn meddu doethineb y tad: ac ymddiried i'r Senedd, gredo, cyfreithiau, a dysgyblaeth yr eglwysi, sydd megis ped ymddiriedid llywodraeth y tad i'r plentyn.

Ond, nid dyma yr holl afresymoldeb a gynnwysir yn yr Esgobaeth Wladwriaethol. Megis na all neb ddysgu yr hyn ni's gŵyr, ac ni's dirgymhella yr hyn ni's crêd, ni's gall tad annuwiol ddysgu ei blant yn grefyddol. Ar y llaw arall, gwybyddir fod rhai rhïeni annuwiol wedi bod mor ymroddgar i lygru eu plant, fel y barnai y Cangell-lys yn gymhwys gymeryd cadwraeth eu meibion eu hunain oddiarnynt. Y mae yr un annghymwysder yn perthyn i'r Llywodraeth. Os Ty y Cyffredin ydyw y Tad cenedlaethol, y mae yn dad mor annghrefyddol fel y dylai y plant gael eu tynu oddi tan ei lywodraeth. Nid yw chwe chant o aelodau Seneddol, heb ddim mwy o grefydd ganddynt na chwe chant o ddynion a gymerid ar antur o unrhyw ddinas neu

dref yn Mrydain Fawr, syniadau dwyfyddol pa rai gan gynnwys Pabyddiaeth, Uchel Eglwysaeth, Sosiniaeth, ac aneirif amrywiaethau ereill, yn gwneuthur i fynu dryblith berffaith o wrthsyniadau annghymmodlawn, ni feddant hawl i rëoli crêd a dysgyblaeth deuddeng mil o eglwysi Cristionogol.

I derfynu yr olygfa yma ar afresymoldeb yr Undeb, rhaid i ni chwanegu, tra y mae tad y teulu yn arolygu addysg y plant am ei fod yn talu am dano, y mae aelodau y ddau Dy Seneddol, yn lle talu eu hunain am addysg ysbrydol y genedl, yn gorfodi y genedl i dalu am dano, ac yn attafaelu eiddo y sawl a wrthodant dalu: megis pe byddai i dad annuwiol ac anwybodus orfodi ei blant wedi tyfu o honynt i oedran gwŷr, i dderbyn athraw drwg ganddo ef, a'u curo a'u dirwyo onid adeiladent ddarlithfa, a thalu cyflog yr athraw eu hunain.

Mae yn sŷn fod Mr. Gladstone a'r Esgob Wilson yn gallu cyfodi adail mor uchel ar sail mor bwdr!

---

### ADRAN III.—YR UNDEB YN GONDEMNIEDIG GAN HANESYDDIAETH.

Nid oes un gwirionedd yn fwy amlwg yn y Testament Newydd na'n bod yn gadwedig trwy ffydd yn y Gwaredwr.[1] Ond, yn ol athrawiaeth yr un llyfr, nid yw y ffydd hono yn ddiffuant oddieithr ei bod yn arwain i broffes gyhoeddus o Grist yn y byd;[2] ac am hyny yr oedd Crist yn gofyn i'w holl ddysgyblion wneyd cyffes gyhoeddus o hono ef trwy fedydd, yr hwn gan ei ddyfod i fod yn brawf o wir ffydd, a gyssylltid â maddeuant pechodau.[3] Ac felly, megis y daeth yr Arglwydd Iesu Grist i'r byd i dystiolaethu i'r gwirionedd er gorfod rhoddi ei einioes i lawr drosto,[4] felly rhaid i'w ddysgyblion dystiolaethu iddo.

Gan fod ei athrawiaeth ef wedi ei chyhoeddi, ni wiw i ddynion mwyach dderbyn cred eu tadau neu eu gwlad, heb ymchwiliad; ond y mae pob un yn rhwym i chwilio am y gwirionedd, ei dderbyn, ei amddiffyn, a'i ledaenu yn y byd, yn erbyn pob cyfeiliornad, pa mor hybarchus neu boblogaidd bynnag y byddo. Rhagfynegai ein Harglwydd y byddai i'r ymarferiad cydwybodol yma mewn pethau crefyddol, yr ymchwiliad anymddibynol, a'r broffes benderfynol yma, gyffroi cymdeithas hyd ei seiliau yn mhob man. *"Na thybygwch fy nyfod i ddanfon tangnefedd ar y ddaiar: ni ddaethum i ddanfon tangnefedd, ond cleddyf. Canys mi a ddaethum i osod dyn i'amrafaelio yn erbyn ei dad, a'r ferch yn erbyn ei mam, a'r waudd yn erbyn ei chwegr: a gelynion dyn fydd tylwyth ei dŷ ei hun.*[5]...... *A chwi a gaseir gan yr holl genhedloedd er mwyn fy enw i.*"[6]

[1] Io. 1. 12; a 3. 14—16, 36. Marc 16. 15, 16. Act. 13. 39; a 16. 31. Rhuf. 3. 19—28. Gal. 2. 15, 16; a 3. 9, 26. Eph. 2. 8, &c. &c. &c. [2] Matt. 10. 32, 33. Rhuf. 10. 10. [3] Marc 16. 16. Act. 2. 37; a 8. 37; a 22. 16. 1 Pedr 3. 21. [4] Ioan 18 37. [5] Matt. 10. 34—36. [6] Matt. 24. 9.

Yr oedd yr egwyddor Gristionogol o ymchwiliad, cred, a phroffes bersonol yn llwyr wrthwyneb i'r egwyddor baganaidd o gydymffurfiad di ymchwil. Gwnelai yr Efengyl gydwybod yn bob peth, gan ddywedyd, "*Bydded pob un yn sicr yn ei feddwl ei hun......A pheth bynnag nid yw o ffydd, pechod yw.*"[1] Yr oedd paganiaeth yn ei gwneyd yn ddim. Yn ol yr Efengyl yr oedd pob un yn rhwym i wrthod crefydd ei wlad os byddai yn gau; yn ol paganiaeth, yr oedd pob un i gyd-ffurfio a chrefydd ei wlad yn mhob peth. Gwahoddai Cristionogaeth ddynion i ffurfio cymdeithas wirfoddol, ar argyhoeddiad, fel dynion; ond paganiaeth a'u diadellai, trwy gyfraith, fel anifeiliaid, o fewn argae trefniant cenedlaethol.

Y deddfwyr Groegaidd, gan ewyllysio sicrhau i'r werin-lywodraeth y gallu milwraidd mwyaf, trwy gyfrwng yr undeb cymdeithasol perffeithiaf, a waharddent ymneillduaeth oddiwrth y goelgrefydd boblogaidd. Cyfrifid y dyn a anghredai allu duwiau dychymygol a llygredig, yn ddinesydd drwg, ac fel y cyfryw y'i dyfernid. Draco a gospai ymneillduaeth â marwolaeth; Plato a'i croch gyhuddai ger bron y barnwyr fel camwedd; Aristotle ni chaniattai ond un addoliad sefydledig; a Socrates a ddyfernid i farwolaeth fel annghydffurfiwr. Yn y gweriniaethau Groegaidd yr oedd yr Undeb rhwng y Llywodraeth â chrefydd mor drwyadl, fel yr oedd hawlion cydwybod yn hollol ddisylw. Nid ymholai dynion pa beth oedd wir, ond pa beth oedd gyfrwys-gall. Rhaid oedd i'r weriniaeth fod yn un gallu mawr er ymosodiad neu amddiffyniad, a rhaid oedd difodi annibyniaeth crefyddol, yr hwn a fuasai yn tori yr undeb hwnw.[2]

Yr oedd i benteyrniaid paganaidd gymhelliadau cryfach nag i lywodraethwyr gweriniaethol i ymuno yn ofalus â'r offeiriadaeth. Ceisiai pennaethiaid tra-arglwyddaidd bob amser wasgu oddiar eu deiliaid bob manteision dichonadwy iddynt eu hunain, ac i'r dyben yma ymdrechent i'w cadw yn y gwaseidd-dra mwyaf trylwyr. Ymddibynent yn benaf ar eu byddinoedd; ond yr oedd yr ofnau a'r gobeithion a gynnyrchid trwy goelgrefydd yn gefnogaeth rhy amlwg i gael eu gadael heb eu defnyddio yn helaeth. Milwyr da eu cyflog oeddynt offeryn cyntaf eu gallu; a'r ail oedd offeiriadaeth dda ei chyflog. Benthycai offeiriaid i ormeswyr, er cwblhau eu hamcanion hunanol, argoelion a daroganau coelgrefydd, a'r penteyrniaid yn ad-daledigaeth a arwisgent y goelgrefydd â gwychder, ac a gospent annghydffurfwyr â marwolaeth. Ni roddai paganiaeth unrhyw rwystr yn ffordd yr undeb yma. Gan mai dyfais lygredig oedd y goelgrefydd, nid oedd ynddi ddim oedd yn annymunol i bennaethiaid llygredig; ac nid oedd dryg-foesau y llywodraethwyr yn annghydnaws i offeiriadaeth mor llygredig a hwythau. Dyrchafai Nebuchodonosor ei hunan pan orchymynai i'w ddeiliaid o bob cred

1 Rhuf. 14. 5, 23.

2 Gwel "*Christianisme et Paganisme*" *by Count de Gasparin*, chap. 1.

ymgrymu i'w ddelw aur ef; Belsassar yn nghanol ei loddest, ni theimlai anewyllysgarwch i foliannu y duwiau o aur ac o arian; ac ymddangosai i Darius yn ystryw ragorol, i osod deddf freninol na offrymid gweddïau i un duw ond ei hunan dros ddeng niwrnod ar hugain.[1] Gallai Tarquin ysgeler, adeiladu temlau i Iou, heb fod hyny yn peri un cyfyngiad annghyfleus ar ei nwydau; nid oedd cyflawni swyddi archoffeiriaid penaf yn cyffroi unrhyw gnofeydd gydwybod yn Caligula a Nero, o herwydd eu drygioni; ac ar y llaw arall, ni chanfyddai Braminiaid yr India ddim yn eu llyfrau a'u gosodiadau a barai iddynt wrido o herwydd drwg weithredoedd a gormes y *Rajahs* gan y rhai y'u cyfoethogid. Trwy gynnorthwy coelgrefydd y cadarnhai y gorthrymwr ei orthrymder, a thrwy gynnorthwy träarglwyddiaeth y rhoddai yr offeiriad gerddediad i'w gelwyddau. Fel hyn yr oedd Undeb y llywodraeth â'r offeiriadaeth yn gynghreiriaeth trais a thwyll. Nid oedd yr un blaid yn ddigon crêf i lywodraethu ei hunan. Ond, tra fyddai yr offeiriad yn pregethu dros y gormes-deyrn, a'r teyrn yn llywodraethu dros yr offeiriad, yr oedd y ddau yn medru cadw eu traed ar yddfau y bobl yn haws, a gwneuthur eu diraddiad cyffredinol yn wasanaethol i'w mawredd eu hunain. Pan ddechreuodd yr eglwysi ymlygru trwy gynnydd golud eu gweinidogion, dechreuwyd estyn yr Undeb paganaidd yma rhwng y Llywodraeth a'r offeiriadaeth, attynt hwy; ac amherawdwyr dan yr enw Cristionogol, a geisient gymhorth offeiriadaeth Gristionogol lygredig, megis y ceisiasai amherawdwyr paganaidd gymhorth daroganwyr ac offeiriaid paganaidd. Am Cystenyn, yr hwn a roddes nodded cyhoeddus gyntaf i'r eglwysi Cristionogol, prin y gellir meddwl ei fod wedi gwneuthur felly oddiar deimladau crefyddol. Yr oedd Cristionogaeth wedi ffynu yn fawr iawn. Onid oedd Cristionogion yn cyrhaedd dim mwy na'r ugeinfed ran o'r boblogaeth cyn y teyrnasiad yma, fel yr haera Gibbon,[2] eto y mae y nifer hono o Gristionogion proffesedig, mewn adeg ag yr oedd proffes o ffydd yn Nghrist yn eu gosod yn agored i ferthyrdod, yn arwyddo bod llawer chwaneg o honynt yn y dirgel yn argyhoeddedig o'i gwirionedd. Ni's gallai Licinius gwrthymgeisydd Cystenyn, trwy ei zêl baganaidd, gyfodi unrhyw frwdfrydedd cyffredinol o'i du; a phe na's meddem un prawf arall o chwanegiad nifeiriol credinwyr proffesedig, gallem gasglu hyny gyda sicrwydd oddiwrth y crybwyllion a feddwn o arferion y clerigwyr. "O fewn y drydedd ganrif," medd Mosheim, "cymerai yr esgobion arnynt awdurdod dywysogaidd mewn llawer man; neillduolent i'w swydd efengylaidd arwyddluniau ysplenydd mawrhydi amherodrawl. Gorsedd, gylchynedig â gweinidogion, a ddyrchafai was yr Iesu addfwyn a gostyngedig, uwchlaw ei gydraddolion; a gwisgoedd gwychion, a ddallai lygaid a meddyliau y lluaws i roddi mawr fri yn eu hanwybodaeth i'w haw-

1 Dan. 3, a 5, a 6. 2 Pen. 15.

durdod hunan honiadol. Yr henaduriaid yn eu huchelfrydigrwydd a efelychent esampl yr esgobion, a chan esgeuluso dyledswyddau sanctaidd eu swyddogaeth, ymestynent at fywyd moethus a segur. Y dïaconiaid, wrth weled yr henaduriaid yn esgeuluso eu swyddau fel hyn, a drawsfeddiannent eu hiawnderau yn ëofn; a thaenid effeithiau uchelfrydigrwydd llygredig trwy bob gradd o'r swyddogaeth gyssegredig."[1] Yr oedd gwychder ac uchelfrydigrwydd y gweinidogion yn dangos yn eglur fod y Cristionogion wedi dyfod yn gorph galluog, y rhai y dymunai Cystenyn eu hennill i'w gefnogi, ac y mae eu nifer yn ei wneyd yn dra thebyg mai y ddichell hono oedd sail gyntaf ei broffes Gristionogol. "Yr oedd ei ymddygiad at y Cristionogion yn gydffurf drwyadl a'i lesion; ac y mae yn dra thebyg mai yn ei ystryw i ennill eu cefnogaeth y gwreiddiai y ffafr arbenig a ddangosai iddynt."[2] Ond, os dechreuai mewn ystryw, buasai ystyriaethau gwladweiniol yn ei gymhell yn fwy grymus fyth i barhau ei nawdd iddynt. Efe a ddëallasai yn ddiamheuol, oddiwrth y terfysgoedd parhaus a gyffroid gan Licinius, na's gallai ef ei hun, na'r amherodraeth fwynhau cyflwr o lonyddwch sefydlog, tra fyddai yr hen ofergoelion mewn bod; ac am hyny, o hyn allan, efe a ymroddodd yn ddi gel i wrthwynebu hawlion cyssegredig paganiaeth, fel crefydd niweidiol i lesion y Llywodraeth.[3] Ar y llaw arall, y mae yn rhy amlwg mai dyn anghrefyddol oedd efe. Yn y flwyddyn 313 y y cyhoeddodd efe Ddeddf Milan, trwy yr hon y caniattai efe oddefiad cyffredinol, gan sicrhau i'r Cristionogion eu hiawnderau gwladol a chrefyddol.[4] Ond, yn y flwyddyn 325, efe a barai lindagu ei wrthymgeisydd Licinius;[5] a'r un flwyddyn ag y gwysiodd efe Gynghorfa Nicea, a halogid drwy ddïenyddiad, neu yn hyttrach, lofruddiad ei fab henaf.[6] "Ni ddadleuir nad oedd ei yrfa wedi ei nodi a'r rhysedd arferol o annghymedrolder ac uchelfrydigrwydd bydol; ac ni's gellir yn gyfiawn sefyll dros brïodoldeb cyffredinol ei ymarweddiad moesol."[7] Wedi ei ddychweliad at Gristionogaeth, efe a barhaodd fel archoffeiriad, yn ben crefydd Rhufain baganaidd, ac felly parhai i fod yn amwisgedig â mwy o awdurdod gwirioneddol dros y grefydd a adawsai, na thros yr un a broffesai.[8] Ond, megis y buasai efe yn ben yr offeiriadaeth baganaidd, ymddangosai yn iawn iddo ef, ei fod yn y cyffelyb fodd yn ben yr offeiriadaeth Gristionogol. Felly, gan hyny, efe a gymerth arno ei hunan yr awdurdodaeth oruchaf ar y llënorion.[9]

Un o'i amcanion cyntaf yn y llwybr a gymerodd, ydoedd lleihau annibyniaeth yr Eglwys; ac i'r perwyl hyny efe a'i cymmerth i'r undeb mwyaf trwyadl a'r Wladwriaeth; gan gyd-gorphori ynddo ei hun yr awdurdod

1 *Mosheim*, cent. iii. part ii. ch. 2. sec. 4. 2 *Waddington, Hist. of the Church*, p. 79. 3 *Mosheim*, cent. iv. part i. ch. 1. sec. 10. 4 *Waddington*, p. 77. 5 *Mosheim*, et supra. 6 *Gibbon*, ch. 20. 7 *Waddington*, pp. 77, 78. 8 *Gibbon*, ch. 21. 9 *Ibid*, ch. 20.

eglwysig uchelaf â'r awdurdod wladol uchaf.[1] Cymerai arno ei hunan rëol-aeth drwyadl gweinidogaeth allanol yr Eglwys. Trefnai bob peth perthynol i'w dysgyblaeth allanol; cyflwynid pob dadleuon crefyddol i gael eu penderfyniad olaf wrth grebwyll barnwyr o'i osodiad ef; ac ni's gellid galw cymmanfa gyffredinol ond trwy ei awdurdod ef.[2] Er ei fod yn caniattau i'r Eglwys fod yn gorph gwladol gwahaniaethol oddiwrth y Wladwriaeth; eto, efe a gymerai arno ei hun yr awdurdod oruchaf ar y corph cyssegredig yma, a'r hawl i'w ffurfio a'i lywodraethu yn y modd y gwasanaethai yn benaf i'r lles cyffredinol.[3] Ac fel hyn yr oedd efe ar unwaith yn ymarfer arglwydd-iaeth ar yr offeiriadaeth baganaidd a Christionogol. Yr oedd efe yn brif offeiriad paganiaeth, ac yn brif esgob yr Eglwys Gristionogol. Ac efe a weinyddai yr esgobyddiaeth Wladol yma dros lawer o flyneddoedd cyn ei fedyddio; ac yn hir o amser cyn ei fod yn aelod o'r eglwys, ar yr hon yr oedd yn esgob penaf; gan mai ychydig ddyddiau cyn ei farwolaeth y derbyniodd efe y ddefod o fedydd, gan Eusebius, esgob Nicomedia.[4]

Y canlyniad o'r Undeb yma rhwng tywysog annghrefyddol a'r gwŷr llên, y rhai oeddynt wedi ymlygru yn fawr eisoes, oedd yn dra galarus. Erbyn diwedd y ganrif hon nid oedd yn aros namyn rhyw gysgod tlawd o hen lywodraeth yr eglwys. Llawer o'r rhagorfreintiau a berthynent gynt i'r henaduriaid a'r bobl, a draws-feddiannid gan yr esgobion; ac amryw o'r hawl-ion oeddynt gynt yn perthyn i'r Eglwys Gyffredinol, a drosglwyddid i'r amherawdwyr a'r îs farnwyr.[5] Yr ychwanegiadau a wnelid gan yr amher-awdwyr ac ereill at gyfoeth, anrhydedd, a manteision y gweinidogion, a ddylynid gan gynnydd drygfoesau a moethau, yn enwedig yn mysg y dosparth hwnw o swyddogion oeddynt yn cyfanneddu mewn dinasoedd mawrion a goludog. Yr esgobion, ar un llaw, a ymrysonent a'u gilydd mewn modd gwarthus, o barth ehangder cylchoedd eu hawdurdodaeth; tra, ar y llaw arall, y mathrent ar iawnderau y bobl, y treisient ragorfreintiau yr îs weinidogion, ac yr efelychent yn eu hymddygiad a'u dull o fyw, drahausder, rhysedd, a moethusrwydd barnwyr a thywysogion. Yr esampl niweidiol yma a ddylynid yn fuan gan yr amryfal ddospeirth o swyddogion eglwysig. Yr henaduriaid mewn llawer o fanau a arhonent gyfartaledd mewn urddas ag awdurdod â'r esgobion. Cyfarfyddwn hefyd a chwynion mynych o herwydd gwagedd a maswedd-dra y dïaconiaid.[6] Dygid i fewn yn raddol osgordd anferth o ofergoelion yn lle gwir dduwioldeb. Ymgymerid â phererindodau mynych i Palestina, ac at feddrodau y merthyron. Syniadau ffol, a defodau gweigion, a luosogent yn feunyddiol; llwch a phridd o Palestina a werthid ac a brynid yn mhob lle am brisiau uchel, fel y pethau mwyaf effeithiol i

1 *Waddington*, p. 81. 2 *Waddington*, p. 83. 3 *Mosheim*, cent. iv. part ii. ch. 2. sec. 1. 4 *Ibid*, ch. 1. sec. 8. 5 *Ibid*, ch. 2. sec. 1. 6 *Ibid*, cent iv. part ii, ch. 2. sec. 8.

warchod dynion rhag ysbrydion drwg. Dygid gorymdeithiau paganaidd i arferiad yn yr addoliad Cristionogol; a'r effeithiau a brïodolid gynt gan y paganiaid i'w temlau, eu puredigaethau, a delwau eu duwiau, a brïodolid gan y rhai bedyddiedig yn awr i'w heglwysi, eu dwfr sanctaidd, a delwau eu saint.[1] Taenid chwedlau ar led am ryfeddodau a gwyrthiau; tröid yspeilwyr yn ferthyron; llawer o'r myneich a gyfaelient mewn ffug greiriau, ac arddangosid gwrthladdfeydd digrifol âg ysbrydion drwg. "Byddai yn rhaid wrth gyflyfr cyflawn i gynnwys adroddiad o'r amrywiol dwylliadau a arferai dyhirod dichellgar, yn llwyddiannus, i gamarwain yr anwybodus, pan oedd gwir grefydd bron a chael ei llwyr ddisodli gan goelgrefydd erchyll."[2] Dechreuai y nifer o ddynion anfoesol ac annheilwng dan yr enw Cristionogion, gynnyddu yn y fath fodd, fel yr oedd ennghreifftiau o wir dduwioldeb yn brin iawn. Pan oedd dychrynfeydd erledigaeth wedi eu gwasgaru,—pan oedd yr eglwysi yn mwynhau melusion llwyddiant—pan oedd y rhan fwyaf o'r esgobion yn dal o flaen eu praidd yr esamplau heintus o drahausder, moethusrwydd, maswedd-dra, dygasedd, ac ymryson, yn nghyda lluaws o ddrygfoesau ereill, rhy nifeiriol i'w crybwyll,—pan ymollyngai yr îs swyddogion eglwysig i seguryd a gwag geccraeth, a phan oedd torfeydd yn cael eu tynu i broffesu Gristionogaeth, nid drwy rym rheswm, ond trwy yr olwg ar elw, ac ofn cosp,—yna yn wir, nid rhyfedd oedd i'r eglwysi gael eu llygru gan heigiau o oferwyr, a bod yr ychydig rai rhinweddol wedi eu cuddio o'r braidd gan luaws y rhai drygionus a phenrhydd.[3] Yr oedd yr oes yn suddo beunydd o un radd o lygredigaeth i'r llall; ac felly aeddfedid yr eglwysi i'r heresi niweidiol hono a fygythiai unwaith ddifodi athrawiaeth efengylaidd drwy holl wledydd crêd.

Wedi marwolaeth Cystenyn, ei fab Constantius a ddaeth i lywodraeth y taleithiau dwyreiniol, ac mewn amser, a ddaeth yn bennadur yr holl amherodraeth. Ac yn gymmaint a'i fod ef, yr amherodres, a'r holl lŷs, yn Ariaidd, efe a ddefnyddiai ei holl ddylanwad yn y fan, fel pen yr eglwys, i ddiwreiddio yr athrawiaeth efengylaidd, can belled aǵ yr oedd yn bossibl;[4] "a'r holl fyd a ocheneidiai ac a synai wrth ei gael ei hun yn Ariaidd," medd *St. Jerome*.[5] Tra arglwyddiaeth Theodosius a adferai uniawn-gredaeth yr eglwysi, ond ni's gallai adfywio eu duwioldeb;[6] ac o'r pryd hyny, mewn undeb a'r Wladwriaeth, y parhasant i fod mor llygredig, nes o'r diwedd yr aeth afradlonedd, cybydd-dod, twyll, a thrahausder y llēnorion yn gyffredinol, o'r pab i'r mynach mwyaf disylw, mor wrthnaws i gydwybod a synwyr cyffredin Ewrop, fel yr ymdorai oddi tan yr iau waradwyddus a gorthrymus hon yn yr unfed ganrif ar bymtheg.

1 *Mosheim*, cent. iv. part ii. ch. 3. sect. 2. 2 *Ibid.* 3 *Ibid*, sect. 17. 4 *Mosheim*, cent. iv. part ii. ch. 5. sec. 14. 5 *Waddington*, p. 98. 6 *Ibid*, p. 99.

Eglurid natur y berthynas rhwng y pennadur a'r offeiriad dros yspaid y tymhor dan sylw yn fynych, trwy y cyfryw ddygwyddiadau a'r un canlynol. Pepin, yr hwn oedd yn faer y llys i Childeric III, brenin Ffrainc, wedi ffurfio y bwriad i ddïorseddu ei bennadur, a gynnullai yn nghyd bendefigion y freniniaeth, yn y fl. 751, i gymeradwyaeth y rhai y cynnygiai y fath gynllun treisgar. Hwythau a benderfynasant y dylid ymgynghori âg esgob Rhufain; felly, gan hyny, danfonodd Pepin genhadon i ofyn i'r Pab Zacharïas, "Onid oedd y ddeddf Ddwyfol yn caniattâu i bobl ryfelgar ddïorseddu brenin annewr a dïog, a dodi un teilyngach i lywodraethu yn ei le?" Caed atteb boddhäol oddiwrth Zacharïas; ac felly dïorseddwyd Childeric, a Phepin a esgynodd i'r orsedd yn ei le ef. Y pab Stephen II, a gadarnhäodd benderfyniad Zacharïas, a chan fod arno eisiau cynnorthwy Pepin yn erbyn y Lombardiaid, efe a ymwelodd âg ef yn y flwyddyn 754, pan y'i rhyddhäodd oddiwrth ei lŵ o ffyddlondeb i Childeric, yr eneinniodd, ac y coronodd efe ef.[1]

Eto, da fuasai, pe na buasai yr Undeb rhwng y galluoedd gwladol ac eglwysig, yn gynnyrchiol o ddim mwy nag ambell engrhaifft achlysurol o ysgelerder ar y naill ochr neu y llall; ond, och! dros amryw ganrifoedd cyn y Diwygiad, yr ydoedd yn attal lledaeniad yr Efengyl yn wastadol a chyffredinol. Pe na buasai y cyfryw Undeb yn nheyrnasoedd Ewrop, buasai deiliaid heddychol yn mhob teyrnas yn cael eu dïogelu yn eu heinioes a'u meddiannau, pa beth bynnag a fuasai eu cred; buasai terfysgwyr yn cael eu ffrwyno; gallasai dynion duwiol a goleuedig, bregethu Crist i'w cyfoeswyr heb eu llesteirio; a gallasai eglwysi efengylaidd, wedi eu ffurfio trwy eu gweinidogaeth, ragflaenu y caethiwed ysbrydol, y geugoel, a'r anfoes, i'r hwn y suddodd yr eglwysi mor gyffredinol. Ond, trwy yr Undeb, yr oedd pob un a chwiliai y Beibl, gydâ rhyw faint o aidd ac ymröad, yn cael ei attal yn fuan trwy anathemau yr offeiriad, a cheid y Wladwriaeth yn wastad yn barod i roddi yr anathemau hyny mewn grym. Yr eglwys a ddyfarnai Arglwydd Cobham yn Lloegr, John Huss yn Bohemia, a Savonarola yn Florence; ond y Wladwriaeth a'u llosgai yn y fflamau. Pe na buasai Undeb, cawsai Cobham lonydd i arwain y Lollardiaid i fuddugoliaethau newyddion, buasai Huss fyw yn hwy i gadarnhau ei ddysgyblion yn y ffydd, a gallasai Savonarola ddiwygio yr Eidal. Gallasai dynion duwiolfrydig a phenderfynol herfeiddio malais yr offeiriaid, oni buasai fod y Wladwriaeth yn rhoddi y daiardŷ, yr arteithglwyd, y cyffion, a'r ystanc at eu gwasanaeth. Gan hyny, yr Undeb sydd yn gyfrifol am yr anwybodaeth crefyddol, a'r drygfoes gwarthruddol a anurddai y bedwaredd ar ddeg a'r bymthegfed ganrif.

Pan oedd diwygwyr yr unfed ganrif ar bymtheg yn ymdrechu dros

[1] *Mosheim*, cent. viii. part ii. ch. 2. sect. 7.

athrawiaethau yr Efengyl yn erbyn yr awdurdodaeth eglwysig, a'r offeiriaid, yr Undeb ydoedd eu gelyn penaf o hyd. Pe na buasai Llywodraethau Ewrop yn ei wrthsefyll, buasai y Diwygiad yn gyffredinol o'r bron. Yn yr Alban, y diwygiad a orchfygodd y Llywodraeth; ond yn Lloegr, y Llywodraeth a anafodd y diwygiad; ac yn Ffrainc, mewn rhanau o'r Almaen, yn Yspaen, ac yn yr Eidal, y Llywodraethau a'i gorchfygasant ac a'i llethasant. Yr Undeb yn unig a roddes ddannedd a chrafangau i ddau Chwil-lys yr Yspaen a'r Eidal; a heb ei chynnorthwyon galluog, dymchwelasid cydfrawdoliaeth Loyola, er ei dichellion. Megis yr oedd yr Undeb o'r blaen wedi llygru yr eglwysi, felly, ar y Diwygiad, attaliai eu hadferiad i burdeb dysgyblaeth, a bywyd ysbrydol.

Er y dydd hwnw, y mae coelgrefydd wedi cadw ei huchafiaeth atgas yn Ewrop trwy yr Undeb yn unig, a phe y'i symmudid, gallai efengylwyr zelog gael eu hanfon i gynniwair trwy bob cwr o Ffrainc, Almaen Babaidd, Yspaen, Portugal, a'r Eidal.

Ar y llaw arall, ni bu yn llai trychinebus mewn gwledydd Protestanaidd. Yr oedd gan y diwygwyr elyn cawraidd i ymdrech âg ef, a da oedd ganddynt gael cymhorth eu llywodraethwyr trwy eu hamwisgo âg agos yr holl ragorfreintiau a yspeiliasent oddiar y Pab. Gan gael eu camarwain gan zêl efengylaidd rhai o'r Gwladweinwyr penaf, hwy a goleddasant wag obaith y byddai i Lywodraethau Protestanaidd mewn oesoedd olynol, gefnogi flyniant yr Efengyl yn egnïol, a hwy a gydsyniasant ar Undeb yr hwn a fu yn gynnyrchiol o niweid diderfyn. Byth, er pan unwyd Eglwys Loegr â'i phen trahaus a diras, Harri VIII, yr hwn a losgai gyfeillion y Pab, a dilynwyr Zuinglius fel eu gilydd, am na's gallai oddef i ddynion feddu unrhyw syniadau crefyddol amgen na'r eiddo ef, mae y Llywodraeth yn Lloegr, heb braidd yr eithriad o un cyfnod byr, wedi bod yn wastad yn wrthwyneb i grefydd efengylaidd. Er mai Pabyddes ddallbleidiol oedd y Frenines Mari, hi a barhai yn ben cyfreithiol i Eglwys Loegr, ac a ddefnyddiai yr uchafiaeth hwnw a feddai drwy yr Undeb i lethu y Diwygiad Seis'nig. Ni weinyddodd ei marwolaeth les digymmysg i'r achos Protestanaidd, fel y gall y darllenydd farnu oddiwrth y dyfyniadau canlynol:—

"Y ddwy gyfraith a gadarnhawyd yn y flwyddyn gyntaf i Elizabeth, y rhai a elwir yn gyffredin Deddfau yr Uchafiaeth a'r Unffurfiad, ydynt y prif gadwynau a gydiant Eglwys Loegr â'r ffurf-lywodraeth wladol, ac a sefydlant ddarostyngiad a dibyniad y flaenaf; y gyntaf yn dirymu pob awdurdodaeth a gallu deddfwriaethol llywodraethwyr eglwysig, oddieithr dan awdurdodiad o'r Goron; a'r ail yn gwahardd neb rhyw gyfnewidiadau o ddefodau a dysgyblaeth heb gymeradwyaeth y Senedd. Arfer wastadol y frenines hon ydoedd sefyll dros ei huchelfraint."[1] Er fod Elizabeth yn dra phenderfynol

[1] *Hallam's Constitutional History*, Vol. I. p. 231.

yn ei gwrthwynebiad i ymostwng i uchafiaeth babaidd, nid ydoedd mor wrthwynebol i bob rhyw ddaliadau a wrthodid gan Brotestaniaid. Hi a geryddai ddifeinydd unwaith am bregethu yn erbyn yr athrawiaeth o wir bresenoldeb Crist yn y bara a'r gwin; a dywedir ei bod hyd yn nod yn arfer gweddïau ar y Forwyn; ond, ei hymryson mwyaf â'r diwygwyr oedd yn nghylch delwau, yn enwedig y groes, yr hon a gadwai hi, yn barhaus, yn nghydâ chanwyllau cŵyr yn oleu o'i blaen yn ei chapel.[1]

Teimlai y fath wrthwynebiad i'r offeiriaid ymbriodi, a gommeddai yn llwyr gydsynio i ddifodi y gyfraith a wnelsid yn erbyn hyny yn nheyrnasiad ei chwaer.[2] Yr oedd yr holl eglwyswyr enwocaf, heblaw yr Archesgob Parker, a Cox, esgob Ely, megis Jewel, Grindal, Sandys, a Nowell, dros adael y wenwisg heibio, a'r pethau a elwid yn seremonïau Pabaidd. Y frenines yn unig a fu yn achos o gadw y defodau hyny.[3] Cafodd Samson, dëon Eglwys Crist ei ddifeddiannu o'i ddëoniaeth am ommedd gwisgo yr arwisgoedd defodol.[4] Cafodd Parker gan y frenines roddi gorchymyn allan yn erchi i'r holl offeiriaid yn ddïos gydffurfio yn arferiad y gwisgoedd offeiriadol, a phob trefniadau dysgyblaethol ereill. Gwysid gweinidogion Llundain o'i flaen ef, a'u hesgob Grindal, a gelwid arnynt i addaw cydffurfio â'r seremonïau cyfreithiol, yr hyn a wrthodai dau ar bymtheg ar hugain allan o ddeunaw a phedwar ugain o honynt; ac o'r herwydd cawsant eu hattal i weinidogaethu. Ond, yn anffodus, y rhai hyn, megis yr oedd hefyd trwy ystod y teyrnasiad yma, oeddynt y dynion enwocaf am eu nodwedd cyffredinol, a'u talent i bregethu.[5] Gallasai y gweinidogion Puritanaidd, wedi eu cau allan o'u bywiolaethau, honi goddefiad tangnefeddus oddiwrth Lywodraeth gyfiawn i addoli Duw yn ol eu dull neillduol eu hunain: ond, ofer ydoedd disgwyl hyn oddiwrth ysbryd träarglwyddiaethol y frenines, a thymherau trahaus Parker; a'r dibrisdod trylwyr i iawnderau cydwybod oedd gyffredin i bob plaid yn yr unfed ganrif ar bymtheg.

Yr enghraifft gyntaf o gosbedigaeth weithredol yn cael ei gweinyddu ar Ymneillduwyr Protestanaidd, a gymerth le yn Mehefin y flwyddyn 1567, pan gymerwyd cynnulleidfa o fwy na chant i ddalfa, pan ar eu cyflawniadau yn Plummer's Hall; ac anfonid pedwar ar ddeg neu bymtheg o honynt i garchar.[6] Cyflenwid y rhan fwyaf o fywiolaethau yr eglwys gan gydffurfwyr o gywirdeb tra amheus, y rhai a fuasent yn cymeryd eu hofferen-lyfrau i fynu yn llawer rhwyddach nag yr ymadawsent â hwynt.[7]

Dywaid Burnet ar awdurdod adroddiadau yr ymwelwyr, nad oedd dim mwy nac oddeutu dau cant, allan o naw mil a phedwar cant o weinidogion, a feddent fywiolaethau eglwysig, y rhai a ommeddasant gydffurfio; ac yna efe

1 *Hallam's Constitutional History*, Vol. 1. p. 234. 2 *Ibid*, p. 236. 3 *Ibid*, p. 238.
4 *Ibid*, p. 244. 5 *Ibid*, p. 245. 6 *Ibid*, p. 247. 7 P. 248.

a â rhagddo, gan ddywedyd, " Pe buasai dywysog o grefydd wahanol eto yn dyfod i'r orsedd, mae yn debyg y buasent yn troi drachefn mor chwidr ag y troisant yn nyddiau y frenines Mari." Dywedir fod nifer fawr o'r offeiriaid yn y rhan flaenaf o'r teyrnasiad yma, yn suddedig mewn coelgrefydd a phenrhyddid.[1] Cyfarfyddasid â'r fath ddiffyg o weinidogion protestanaidd, ar esgyniad y frenines, fel y bu yn arferiad dros lawer flyneddoedd i benu gwŷr llëyg, crefftwyr yn gyffredin, i ddarllen y gwasanaeth mewn eglwysi gweigion.[2] Er hyny, yr oedd yr archesgob yn parhau i flino y gweinidogion Puritanaidd, gan attal eu llyfrau, rhoddi taw arnynt yn yr eglwysi, a'u herlid mewn cyfarfodydd annghyoedd. Dinaswyr cyffredin a lusgid ger bron brawdleoedd am wrando eu pregethau, ac a garcherid am ommedd cydffurfiad.[3]

Yr oedd y gwŷr eglwysig yn amryw o'r esgobaethau, wedi cyfodi trwy gefnogaeth eu huchafiaid, fath o gyfarfodydd crefyddol a alwent prophwydoliaethau. Cyfarfyddent ar amserau gosodedig i esponio a chyd chwilio i destunau neillduol o'r Ysgrythyr, dan arlywiad cymedrolwr, o osodiad yr esgob. Yr oedd y frenines yn dra anhoff o honynt, ac archai i Parker roddi attalfa arnynt; felly y rhoddwyd pen ar brophwydoliaethau ar hyn o bryd.[4]

Mynasai Grindal, yr hwn a ddilynai Parker, eu cyfodi drachefn; ond y frenines a archai yn gaeth i'r cyfarfodydd crybwylledig gael eu hattal, ac na chaniatteid cynnifer o drwyddedau i bregethu: ac am na chydsyniai Grindal â'i hewyllys yn y peth hwn, difreinid ef o'i swydd dros o gylch pum mlynedd; a'r frenines trwy gylch-lythyrau at yr esgobion, a orchymynai iddynt roddi pen ar y prophwydoliaethau, yr hyn a wnaed, ac ni's adnewyddwyd y cyfarfodydd hyny drachefn.[5] Can gynted ag y daeth Whitgift i'r archesgobaeth, efe a gyhoeddodd rëolau er trefnu dysgyblaeth; un o ba rai oedd yn gwahardd pregethu, darllen, na holwyddori mewn tai annedd lle y byddai neb yn cyrchu heblaw teulu y tŷ. Ond, yr hyn a achlysurai y cwynion trymaf oedd y gorchymyn i law-nodi y tri phwnc,—uchafiaeth y frenines, cyfreithlondeb y Weddi Gyffredin, a gwirionedd yr oll o'r namyn un deugain erthyglau, yr hyn a ddirgymellid ar holl weinidogion yr eglwys.[6] Dadseiniai yr holl deyrnas gan achwyniadau y rhai a attelid, neu a ddifeddiannid o'u bywiolaethau, a'u cefnogwyr lluosog. Ond, gan fod Whitgift yn sicr o gefnogaeth y frenines, ni thynerai un iod o'i benderfyniad.[7]

Yn y flwyddyn 1583, cyfodid yr Uchel Ddirprwy Lŷs, yr hwn oedd i fod yn gynnwysedig o bedwar a deugain o ddirprwywyr, o ba rai yr oedd deuddeg yn esgobion, amryw oeddynt yn gyfrin-gynghorwyr, a'r gweddill oeddynt eglwyswyr a chyfreithwyr. Rhoddid awdurdod i unrhyw dri dirprwywr, o ba rai y byddai un yn esgob, i gosbi pawb a fyddent yn absenol

1 *Hallan's Constitutional History*, Vol. 1. p. 248 *Note*. 2 *Ibid*, p. 249. 3 P. 262.
4 Vol. 1. pp. 266, 267. 5 Pp. 267, 268. 6 P. 269. 7 Pp. 269—271.

o'r eglwys, i ymweled a diwygio heresiau ac ymbleidiau yn ol y gyfraith, i ddifeddiannu pob perchen bywioliaeth eglwysig a ddalient unrhyw ddaliadau croes i'r namyn un, deugain, &c., &c. Wedi cael i'w law y fath beirianwaith ofnadwy, aeth yr archesgob rhagddo i gynnyg y llŵ *ex officio* i'r holl wyr eglwysig a ddrwg-dybid o goledd ysbryd tueddol at Buritaniaeth. Yr erlynwaith yma oedd yn gynnwysedig mewn cyfres o holion mor gynnwysfawr ag i gynnwys holl gylch unffurfiad clerigaidd, eto mor fanol a phennodol, fel nad oedd le i gyfrwys ocheliad, ac i'r holion hyny yr oedd y sawl a ddrwg-dybid yn gorfod atteb ar eu llŵ.[1] Taenid Traethodion, dïenw, gan mwyaf, gyda chyflymdra mawr drwy yr holl deyrnas, yn dychanu yr esgobyddiaeth. O'r cabl-draethodau hyn, y mwyaf hynod oedd un a daenid dan y ffug enw "Martin Mar-prelate,"[2] Am awduriaeth y Traethawd crybwylledig, disgynai drwg dybiau cryfion ar Gymro ieuanc o'r enw Mr. Penry; ac efe a ddygwyd i brawf fel awdwr Traethodyn arall, yr hwn a gynnwysai rai ad-sylwadau llymion ar y frenines ei hunan, a chafodd ei ddïenydddio.[3] Udal, gweinidog Puritanaidd, a syrthiodd i grafangau yr un gyfraith, am gabldraith ar yr esgobion. Ei brawf ef, fel y rhan fwyaf o brawfion gwladweiniol ereill yr oes hon, a warthrudda enw cyfiawnder Seis'nig. Yr oedd yn gynnwysedig gan mwyaf mewn ymgais truenus o eiddo y llŷs i'w faglu i gyffesiad mai ei ysgrif ef ydoedd y gabldraith, o'r hyn yr ydoedd eu prawf hwy yn ddiffygiol. Efe a ochelodd y fagl, er hyny efe a euogfarnwyd, a bu farw o effeithiau y carchariad.[4] Gwysid Cartwright ac amryw o'i blaid i ymddangos ger bron y dirprwywyr eglwysig, lle, gan ommedd o honynt eu heuogi eu hunain trwy gymeryd y llŵ *ex officio,* fe'i traddodid i garchar y *fleet.*[5] Gan i Morice, cyfreithiwr llŷs y gwarcheidwaid, ddadleu yn erbyn cyfreithlondeb y llŵ *ex officio* hwn yn Nhy y Cyffredin, a dwyn ysgrif i fewn i gynnyg ei difodi, y frenines a roddes attalfa ar y cynnygiad; a bu Morice yn garcharor beth amser am ei ëofndra.[6] Yn y flwyddyn 1593 ceisiai y llŷs weithred yr hon a ddyfarnai i garchariad neb un uwchlaw un mlwydd ar bymtheg oed, yr hwn dros yspaid mis o amser a esgeulusai fyned i ryw eglwys, hyd oni wnelai y cyfryw ddatganiad cyhoeddus o'i gydffurfiad âg a ofynai y gyfraith. Yr oedd y sawl a wrthodent ymostwng i'r ammodau hyn yn rhwym i adael y deyrnas; ac os dychwelent heb ganiattâd y frenines, yr oeddynt i gael eu rhoddi i farwolaeth fel drwg-weithredwyr.[7] Ffôdd torfeydd i Holland rhag creulondeb yr esgobion dan y gyfraith hon.[8] Er hyny, wedi deugain mlynedd o drais diball ar y gweinidogion anngydffurfiol, yr oedd eu nifer yn myned ar gynnydd, eu poblogaeth yn gwreiddio yn ddyfnach, a'u casineb at y drefn sefydledig yn myned yn fwy annghymmodlawn![9]

[1] Pp. 271—273. [2] P. 277. [3] P. 278. [4] P. 279. [5] P. 280. [6] P. 287. [7] P. 289. [8] P. 290. [9] P. 306.

Ar y llaw arall, tra yr oedd esgobion yr Eglwys Seis'nig yn poenydio cymmaint ar ereill, nid oedd ganddynt achos i ymorfoleddu beunydd yn eu cyflwr eu hunain. Amlgylchynai Cecil ei balas yn Burleigh âg ettifeddiaethau a berthynent unwaith i esgobaeth Peterborough. Hatton a adeiladai ei dŷ yn Holborn ar ardd esgob Ely; a Chox pan aeth i wrthsefyll yr yspeiliad yma, a dderbyniodd y llythyr canlynol oddiwrth y frenines:—"Brelad balch, chwychwi a wyddoch pa beth oeddych cyn i mi eich gwneyd yr hyn ydych. Oni bydd i chwi gydsynio â'm cais yn ddïoed, mŷn Duw, myfi a dynaf eich twyg!"—ELIZABETH. Wedi ei farwolaeth, hi a gadwodd yr esgobaeth yn wag dros ddeunaw mlynedd.[1] Hi a ddiswyddodd Fletcher, esgob Llundain, trwy ei hawdurdod ei hun, yn unig am briodi "boneddiges dêg a gweddw," ac unwaith pan ydoedd Aylmer wedi bod yn pregethu yn rhy lym yn erbyn gorwagedd benywaidd mewn gwisgoedd, yr hyn a gnöai gydwybod y frenines, hi a ddywedai, wrth ei phendefigesau, os byddai i'r esgob bregethu ar y cyfryw bethau mwyach, y cymhwysai hi ef i'r nefoedd; ond y byddai yn rhaid iddo gerdded yno heb ei ffon, a gadael ei fantell ar ei ol. Ac yn ei haraith i'r Senedd, ar derfyn eisteddiad 1584, pan oedd llawer o achwyniadau yn erbyn llywodraethwyr yr eglwys yn swnio yn ei chlustiau, hi a ddywedai wrth yr esgobion, oni's gwelläent yr hyn oedd yn ei le, ei bod hi yn bwriadu eu diswyddo.[2]

Mae y bras adroddiad yma yn ddigon er profi bod yr esgobion a'r llënorion drwy yr holl deyrnasiad yma yn cael eu cadw mewn cyflwr o ddarostyngiad gwasaidd i'r Goron, trwy yr Undeb; bod y dynion duwiolaf yn y genedl yn cael eu darostwng trwyddo i erledigaeth lem, a'i fod yn llethu crefydd efengylaidd yn barhaus.

Ni ddug esgyniad Iago I i'r uchafiaeth trwy rinwedd yr Undeb, unrhyw fantais i grefydd efengylaidd. Fel yr oedd efe ar ei ffordd i Lundain, y gweinidogion Puritaniaidd a gyflwynent ofyneb iddo, wedi ei llaw-nodi gan 825 o weinidogion, allan o bump ar hugain o wledydd, yn erfyn am symmudiad rhyw gamarferion o'r eglwysi.[3] Gwenieithiai y Puritaniaid iddynt eu hunain y buasai efe yn dangos wyneb iddynt hwy, gan seilio eu hyder ar ryw eiriau cryfion a arferasai efe yn achlysurol er datgan ei ymlyniad wrth yr eglwys Ysgottaidd. Ond yr oedd Iago dros ei holl oes yn gelwyddwr hŷf yn hyttrach na rhagrithiwr medrus.[4] Nid amlygai unrhyw duedd i ddangos ffafr i'r gofynebwyr hyn. Mae yn amlwg fod cynllun ei ymddygiadau tuag at y blaid annghydffurfiol wedi ei wneyd i fynu cyn gwysio ychydig o'u dwyfyddion i gynnadledd hygof Llys Hampton. Yn yr adroddion a ddarllenwn ni am y cyfarfod hwnw, fe'n tarewir weithiau â syndod gan ymddygiad tueddol ac anweddus y brenin, a diffeithdra ffiaidd yr esgobion,

[1] P. 304. [2] P. 305. [3] *Hallam*, Vol. I. p. 403. [4] P. 404.

cymmysgedig yn ol arfer cynffonwyr â thrahausder, tuag at eu gwrthwynebwyr.[1] Tra yr oedd Dr. Reynolds yn llefaru, y brenin a ennynodd yn fflam, gan ddywedyd, "Yr oeddynt yn amcanu at henaduriaeth Ysgottaidd, yr hyn a gyttuna âg unbennaeth cystal ag y cyttuna Duw â'r diafol. Yna y bydd Siôn, a Wil, a Thwm, a Dic yn ymgyfarfod, ac wrth eu pleser yn fy marnu a'm beio I, a'm cynghor: gan hyny, attolwg, arhoswch un saith mlynedd eto cyn gofyn hyny genyf fi, ac os cewch fi y pryd hyny yn godog ac yn fras, a'm corn gwynt wedi ei lenwi, efallai y gwrandawaf arnoch; canys cyfoder y llywodraeth hono, a dîr genyf y'm cedwir mewn ffûn; ond yr ydwyf yn attolwg i chwi, gadewch hono yn llonydd hyd oni welwch fy mod yn myned yn ddioglyd a difywyd. Wel Doctor, A oes genych chwi ddim yn ychwaneg i'w gynnyg?—" Nac oes, ddim ychwaneg, rhynged bodd i'ch mawrhydi." "Os dyna y cwbl a fedd eich plaid i'w ddweyd, mi a wnaf iddynt gydffurfio, neu gyraf hwynt ymaith o'r tir yma ar ffrwst, os na wnaf iddynt ryw beth a fo gwaeth."[2] Ar hyny esgob Bancroft a syrthiai ar ei liniau ac a ddywedai, "Yr ydwyf yn tystio fod fy nghalon yn toddi o lawenydd am fod yr Hollalluog Dduw o'i drugaredd arbenig wedi rhoddi i ni y fath frenin da, na bu ei fath er dyddiau Crist."—" Erioed,'' medd y Canghellwr Egerton, "ni's gwelais y brenin a'r offeiriad wedi eu huno mor gyflawn mewn un dyn o'r blaen.[3] Pan ddywedai y brenin ei fod ef yn cymeradwyo doethineb y gyfraith yn gwneuthur y llŵ yn *ex officio,* gorlenwid yr archesgob â'r fath orfoledd fel y torai allan gan ddywedyd, " Yn ddïau, mae eich mawrhydi yn llefaru drwy gynnorthwyon arbenig Ysbryd Duw."[4] Cwympai Mr. Chadderton ar ei liniau, ac attolygai yn ostyngedig na byddai i'r wenwisg a'r groes gael eu dirgymmell ar rai o weinidogion duwiol swydd Gaerhirfryn; ond y brenin a attebai â gwedd sarrug, " Ni's mynaf fi ddim o'r ymddadleu yma, am hyny bydded iddynt gydffurfio, a hyny ar frys hefyd, os amgen, cânt glywed oddiwrtho."[5]

Yn fuan ar ol hyny rhoddes y brenin gyhoeddiad allan, yn erchi i'r holl swyddogion gwladol ac eglwysig wneyd eu dyledswydd, trwy orfodi pawb i gydffurfio.[6] Efe a roisai orchymyn caeth eisoes i'r holl esgobion i erlyn yr holl offeiriaid na chadwent at y drefn osodedig,—a'r hwn orchymyn ni bu Bancroft, olynwr Whitgift, yn anniben i gydsynio.[7] Ond y trais mwyaf ar iawnderau gwladol y bobl hyn, ydoedd carchariad deg o'r rhai a gyflwynasent yr Ofyneb iddo ar ei ddyfodiad i Loegr, gan fod y barnwyr wedi cyhoeddi yn y *Star-chamber,* fod hyny yn drosedd dirwyedig wrth ddyspwyll, ac yn agos iawn i fradwriaeth a chyflafan mewn ysgelerder.[8]

Cymerai yr Archesgob Bancroft yr arfod yma i adnewyddu erledigaeth y

1 *Hallam,* Vol. 1. p. 404. 2 *Neal's History of the Puritans,* part ii. ch. 1. 3 *Ibid,* p. 17. 4 *Ibid,* p. 18. 5 *Ibid.* 6 *Hallam,* Vol. 2. p. 405. 7 *Ibid,* p. 405. 8 *Ibid,* p. 406.

Puritaniaid, trwy ddirgymhell cadwraeth manol holl wyliau yr eglwys, a defnyddiad yr holl addurnwisgoedd eglwysig, y torynau offeiriadol y gwenwisgoedd, y capiau, cwccwllau, &c. Trwy y gosodiadau caethion hyn, cafodd uwchlaw tri chant o weinidogion Puritanaidd eu dystewi, neu eu difeddiannu o'u bywiolaethau; rhai o honynt a ysgymunwyd, rhai a fwriwyd i garchar, ae ereill a orfuwyd i adael y wlad.[1]

Llwybr arall a gymmerodd y brenin i sarhau yr offeiriaid efengylaidd, oedd rhoddi cyhoeddiad allan i'w ddarllen yn yr eglwysi, yn caniattâu pob difyrwaith cyfreithlawn ar y Sabbath, wedi y gwasanaeth dwyfol, megis dawnsyddiaeth, saethyddiaeth, chwareuyddiaethau Mai, a'r cellweir-gampau arferol ereill.[2] Ond ni roddwyd y cyhoeddiad yma mewn grym gweithredol hyd y teyrnasiad canlynol. Yr oedd llys Iago I, yn cynnwys yr olygfa fwyaf gwaradwyddus a halogedig a welsid yn y wlad hon erïoed, cyfartal i'r eiddo Siarl II, mewn dïofalwch am ryddid benywaidd, ac heb unrhyw gyfaledd mewn rhai ystyrion ereill. Prïodolir meddwdod ysgeler i rai o'r pendefigesau a gymerent eu rhan yn ngwleddoedd rhwysgfawr y llŷs.[3] Yn ol "Hanes Ddarluniadol Lloegr," yr oedd y brenin Iago mor amddifad o un math o wir grefydd ag ydoedd Elizabeth ei hunan. Yn marn y naill a'r llall, nid oedd yr Eglwys namyn peiriant y Wladwriaeth, a than ddylanwad y teimlad yma yr oedd y ddau yn naturiol yn gogwyddo mwy at Babyddiaeth nag at Buritaniaeth.[4] O radd i radd, efe a ymroddodd i bob rhyw benrhyddid. Yr oedd ei iaith yn aflan, arferai y llŵon mwyaf halogedig, a byddai yn meddwi yn fynych. Torai trwy holl gyfreithiau y tir, ac yr ydoedd yn ormeswr mor drwyadl ag y goddefai ei ddiffyg gwroldeb iddo fod: ïe, yn ol barn yr Esgob Burnet, yr oedd "yn watwargerdd ei oes, yn wag athraw rhodresgar, heb farn, gwroldeb, na dïanwadalwch, a'i deyrnasiad yn un ystod o ymddygiadau bawaidd."[5] Dyma y fath ddwylaw, i ba rai y cyflwynodd yr Undeb lywodraeth eglwysi Crist yn y wlad hon!

Yr oedd yn dra anffodus i Siarl I, pen nesaf yr eglwys, fod cyfaill dewisedig, a chydymaith ei ieuenctyd, yn un o'r dynion mwyaf diras yn ei ddydd. A ganlyn yw yr hanes a ddyru Brodie o'i gyfeillgarwch.—Gan fod Iago I., mor dra hoff o faes-gampau, treuliai lawer o'i amser yn Newmarket. A phan fyddai yno, elai i'r chwareufa i weled coeg-chwareuaeth a elwid "Ignoramus," yr hyn a luniesid mewn gwawd o'r gyfraith gyffredin, ar yr hon yr oedd efe yn awyddus i ddangos ei ddiystyrwch ar bob arfod a gaffai, oblegid ei bod yn cyfyngu ar ei awdurdod ef; canys rhan o'i athrawiaeth ef ydoedd, "bod y brenin i benderfynu cyfraith Duw, a'i farnwyr i ddëongli cyfraith y brenin." Yn y chwareudŷ, efe a gyfarfu â George Villiers ieu-

1 *Neal*, part. ii pp. 35, 40. 2 *Hallam*, Vol. 1. p. 545. 3 *Hallam*, Vol. 1. p. 452, *Note*. 4 *Pictorial History of England*, Vol. 2. p. 458. 5 *Neal*, part ii. p. 129.

anc, yr hwn a ddaeth yn anwyl-ddyn ganddo yn ddïoed, ac yn dra buan, efe a wnaed yn farwniad, yn is iarll, yn iarll, yn ardalydd, yn arglwydd uchel lyngesydd Lloegr, yn arglwydd Geidwad y Pum porthladd, &c., a threfnai holl swyddau y deyrnas, heb fod un gwrthymgeisydd iddo.[1] Mae yn resyn meddwl fod sodlau y gwenieithydd yma yn cael eu dilyn gyd â'r fath ddyfalwch ag yr adrywedda adargi ei ysglyfaeth, gan ben yr eglwys, a'r pendefigion, y rhai oeddynt foddlawn i'w galw yr eiddo, ag oeddynt yn proffesu parch addoladwy, o'r braidd, iddo.[2] Mae yn anmhossibl darllen Buchedd Laud, gan Heilyn, a Dyddlyfr Laud, &c. &c., heb ffieidd-dra annïoddefol.[3] Yn gymmaint ag na ddyrchafwyd Villiers trwy dalentau na rhinwedd, felly nid oedd ganddo nemmawr o'r naill na'r llall, er fod ganddo fwy o'r cyntaf nag o'r olaf; ac fel yr oedd ei galon yn cael ei llygru beunydd, felly yr oedd ei farn yn cael ei gwyro drwy ei sefyllfa.[4] Yr oedd y gwenieithiwr yma wedi myned mor hyf, fel yr arferai y fath waeliaith tuag at Siarl, na's clywir yn bresenol namyn yn mysg y radd iselaf o'r bobl, ac nid hyny yn unig, ond bu agos iawn iddo ei daro unwaith.[5] Eto, er syndod pawb, pan aeth efe i ddechreu ymwhedd â'i uchelder, efe a ennillodd feistrolaeth trylwyr arno yn y fan.[6] Ni's gallasai y cyfryw gyfeillach fod yn fanteisiol i feithriniad moesoldeb yn Siarl; ac y mae Milton yn ei ddarlunio ar yr adeg yma ar ei oes, fel un wedi ei lwytho â phob drygfoes.[7] Yr oedd hyn yn barottöad drwg i ben rhëolaeth eglwysi Crist yn y wlad hon.

Y cam nesaf yn ei hanes ydoedd ei uniad â Henrietta Marïa, chwaer Louis XIII, yr hwn oedd y pryd hyny yn frenin Ffrainc, â'r hon y'i prïodid trwy ddirprwy cyn claddu ei dad. Hi a laniodd yn Dover, Meh. 13, 1625, gan ddwyn lluaws o offeiriaid i'w chanlyn, at wasanaeth pa rai y parottoid capel yn nhŷ y brenin, yn St. James's.[8] Ennillai y frenines yn raddol, ddylanwad cyflawn ar y brenin; ei fawrhydi a'i haddolai o'r bron, ac ni's gwnelai ddim hebddi.[9] Yr oedd prïodas y brenin â'r foneddiges hon yn fwy o farn ar genedl na'r pla oedd y pryd hyny yn anrheithio y tir: canys, pan ystyriom ddrygedd y grefydd Babaidd, dylanwad y frenines ar ei gwr, a'r rhan yr oedd hi o angenrheidrwydd yn ei feddu yn addysgiad ei phlant, yr oedd yn hawdd rhagweled y gallasai fod yn dra niweidiol i'n tywysog a'n pobl ni yn Lloegr, gan ystorio dïaledd i genedlaethau dyfodol.[10] Fel hyn, bu i addysgiad Siarl i lywodraethiad eglwysi Crist, yr hyn a ddechreuasid gan hoffddyn llygredig gael ei barhau gan wraig Babaidd.

Nid oedd y gwŷr llên yr ymddiriedai Siarl fwyaf iddynt yn debyg i wrthweithio nemmawr ar y dylanwadau hyn. Yr oedd llawer o'r esgobion yn

1 *Brodie*, "*History of the British Empire*," Vol. 2. pp. 12—19. 2 *Ibid*, p. 19. 3 *Ibid*, p. 20. 4 *Ibid*, p. 20. 5 *Ibid*, p. 21. 6 *Ibid*, p. 22. 7 *Ibid*, p. 45. Sylwnod, lle y dygir prawfion o'r ffaith hon. 8 Neal, Vol. 2. p. 133. 9 *Clarendon*. 10 Esgob Kennett.

druthwyr o'r fath ffieiddiaf i Buckingham. Fel hyn y dywaid Mede, "Mae yn ddrwg genyf glywed eu bod hwy (yr esgobion) mor ymarferol â gweniaith, fel nad ymddengys eu bod yn adnabod unrhyw ddyledswydd arall a berthyn iddynt."[1] Tynid sylw neillduol gan ddwy bregeth o eiddo Sibthorp a Mainwaring. Y dynion hyn yn awyddus am ddyrchafiad eglwysig, gan ddeall y ffordd rwyddaf i gyrhaedd hyny, a ddysgent y brenin y gallai efe gymeryd arian y deiliaid wrth ei ewyllys, ac na feiddiai neb ommedd ei gais, dan berygl damnedigaeth. Mainwaring a ddywedai, "nad oedd Seneddau wedi eu hordeinio i roddi unrhyw hawl i'r brenin, ond er arosod yn fwy gwastad, a chyfodi yn fwy rhwydd yr hyn a berthyn i freninoedd trwy ddeddf wreiddiol a naturiol, fel eu hettifeddiaeth gyfiawn a phrïodol, mewn cyssylltiad â'u coronau amherodrol, o'u genedigaeth." Cafodd yr Archesgob Abbot ei attal o weinyddiad ei swydd gan y brenin, am ommedd trwyddedu pregeth Sibthorp; ond i Sibthorp efe a roddes ryw ddyrchafiad, a Mainwaring yr hwn a gyhuddid ger bron Ty y Cyffredin, ac a ddyfernid i dalu dirwy o fil o bunnau, ac i'w attal o'r weinidogaeth dros dair blynedd, a gafodd faddeuant gan y brenin, bron yn ddïoed, a'i wneyd yn esgob wedi hyny.[2]

Ond, o bawb arall, ellyll penaf y pennadur anffodus hwn oedd Laud, prin yr ymddengys fod ei dalentau uwchlaw y cyffredin; ni's gall fod cyfansoddiad gwaelach na'i Ddyddlyfr. Ond, trwy ei fod wedi ennill ffafr Buckingham, efe a ddyrchafwyd i archesgobaeth Caergaint ar farwolaeth Abbot, yn y flwyddyn 1631.[3] Efe a osodai ger bron ei lygaid fawrhad yr eglwys yn gyntaf, a'r uchelfraint freninol yn nesaf, fel ei nôd a'i amcan yn mhob gweithred. "Er nad oedd yn amddifaid o grefydd," medd Hallam, "yr ydoedd mor ddarostyngedig i lesion bydol,ac mor gymmhlethedig â balchder, fel y daeth yn erlidiwr annoddefol ar y clerigwyr Puritanaidd; a chan fod yn ddarostyngedig i'r hyn a eilw ei gyfeillion yn wendidau tymher,—sef yn ddrwg-anwydog, dïalgar, a chreulawn i fesur mawr, yr oedd nid yn unig yn cymeryd rhan fawr yn nghreulonderau y llŷs a elwid *Star chamber*; ond hefyd, fel yr ymddengys oddiwrth ei ohebiaeth, yn galaru am na's gallasai fyned i fwy o eithafoedd."[4] Fe'i drwg dybid o duedd Babaidd, hyd yn nod pan ydoedd yn yr athrofa; gan mor uchel y daliai hawl-honiadau yr offeiriaid a holl ddaliadau eglwys Rhufain, oddieithr uchafiaeth y Pab yn unig. Yr arferiad o ddelwau, nawdd-ddiffyniad saint ac angelion, ymbiliad ar saint, addoliad yr allor, y gwir bresenoldeb, cyffes yn y glust, a gollyngdod, oeddynt yn mysg ei hoff egwyddorion.[5] Yn y flwyddyn 1605, efe a gyflawnai y swydd o Gapelwr i iarll Dyfnaint, yr hwn a ddenasai y bendefiges Rich i adael ei gwr a'i phlant. Yn yr amgylchiadau hyn yr oedd Laud yn ddigon dïegwyddor i gyfiawnhau y godineb, trwy weinyddu y ddefod brïod-

[1] *Hallam*, Vol. 1. p. 570, *note*. [2] *Hallam*, Vol. 1. pp. 569, 570. [3] *Ibid*, Vol. 2. p. 53. [4] *Ibid*, p. 53. [5] *Brodie*, Vol. 2. p. 238.

asol iddynt.[1] Wedi ei osod ar ben y llywodraeth eglwysig a gwladol, efe a amlygai drahausder meddwl bychan wedi meddwi gan lwyddiant anhaeddiannol. Cymerai arno deyrnwychder tywysog, a thrwy drahausder ynfyd ei agweddau, ffieiddiai ddynion o urddas a dylanwad.[2] Ychwanegai at genfigenusrwydd ei sefyllfa, a rhoddai brawf nodedig o'i ddylanwad, trwy osod ei ddewis-ddyn ei hunan, Juxon, esgob Llundain, yn y swydd o arglwydd uchel-drysorydd.[3]

Deuai amgylchiadau eglwysig yn destun ystyriaeth foreu yn nghyngor-lys Siarl. Yr esgob Laud, yr hwn yn amser y brenin diweddar, a gyflwynasai i'r duc lyfryn ar Buritaniaeth athrawiaethol, a rhoddai chwaneg-len iddo, yn cynnwys enwau swyddogion eglwysig, wedi eu cyfresu dan y llythyrenau O a P; O yn sefyll dros *orthodox*, sef uniawn-gred, a P, dros Puritan, fel y gellid ei ddangos i'r brenin; a chyfyngid pob dyrchafiad eglwysig, fel y gellid disgwyl, i'r blaenaf. Dan y dosparth Puritanaidd y cynnwysid yn nghoflyfr y llys, bawb a ommeddent gymeradwyo pob newyddian athrawiaethol o eiddo y brenin a'r esgobion; yn nghyd â'r rhai a adwaenid yn unig fel amddiffynwyr iawnderau gwladol y bobl.[4] Ond yr oedd y Puritaniaid drwy yr holl deyrnasiad yma yn gorfod goddef drygau llawer gwaeth na cholli dyrchafiad eglwysig. Leighton, Difeinydd o Ysgotland, am gyhoeddi cabldraith lemdost yn erbyn y llywodraeth eglwysig, a ddyfarnwyd i gael ei fflangellu yn gyhoeddus yn *Westminster*, a'i roddi yn y pilwri; i gael rhwygo un ffroen, tori ymaith un glust, a nodi un o'i ruddiau â haiarn poeth! i gael gwneyd yr un peth iddo drachefn yr wythnos ganlynol yn *Cheapside*, a goddef carchariad parhaus yn y *Fleet*. Lilburne, am daenu traethodion yn erbyn yr esgobion, a fflangellwyd o garchar y *Fleet* hyd *Westminster*, yna dodwyd ef yn y pilwri, ac wedi hyny efe a drinid yn dra chreulawn. Prynne, cyfreithiwr tra dysgedig, a Phuritan zelog, a gyhoeddasai gyflyfr mawr dan yr enw "*Histriomastix*," yn llawn o ddychan yn erbyn y chwareudy; yr hyn a gyfrifid yn fradwriaeth, a'r *Star chamber* a'i dyfarnai i sefyll ddwywaith yn y pilwri, i gael ei nodi â haiarn poeth ar ei dalcen, i golli ei ddwy glust, i dalu dirwy o bum mil o bunnau, a goddef carchariad gwastadol. Ond y Puritaniad sarrug a ddefnyddiai ei seibiant yn y carchar i ysgrifenu cabldraith newydd yn erbyn yr awdurdodaeth eglwysig. Am hyn, efe, a dau droseddwyr ereill o'r un dosparth, Burton, difeinydd, a Bastwick, physygwr, a ddygwyd i sefyll drachefn o flaen y brawdlys ofnadwy hwnw. Prynne a gollodd weddill ei glustiau yn y pilwri, a gweinyddid y gosp arnynt oll â'r creulondeb llymaf; yr hyn a oddefasant megis y goddefa merthyron yn wastad, mor wrol âg i gynnyrchu cydymdeimlad dwys ac ysbryd ymddïal yn y dyrfa gynnulledig. Hwy a ddyfarnwyd i garchariad mewn carcharau

1 *Brodie* Vol. 2. p. 240. 2 *Ibid*, Vol. 2. p. 247. 3 *Hallam*, Vol. 2. p. 55. 4 *Ibid*, p. 50.

pellenig.[1] Heblaw adnewyddu yr erledigaeth am annghydffurfiaeth yn ei llymder eithaf, yn yr hyn yr oedd llawer o'r esgobion ereill cynddrwg a'u harchesgob; efe a ymdrechai yn y modd mwyaf disynwyr,—heb ddweyd, drygionus—trwy ddefodau newyddion o'i eiddo ei hun, a thrwy gynnyrchu brawiau yn nghydwybodau tyner dynion duwiol, i gyfodi ebyrth newyddion i'w ormes. Y rhai a bettrusent ddim yn nghylch ei ddefodau newyddion, neu a bregethent ar yr ochr Galfinaidd, a erlynid gan Lys yr Uchel Ddirprwywyr, fel pe buasent yn eglwys-rwygwyr gweithredol. Yr atgasaf o'r erledigaethau hyn oedd am ommedd darllen yr hyn a elwid "Llyfr y Chwareuyddiaethau,"—sef cyhoeddiad y gellid ymarfer â llawer o chwareuyddiaethau ar ol y gwasanaeth prydnhawnol ar y Sabbothau.[2] Yr eglwyswyr manol a ommeddent gydsynio â'r gorchymyn yn gyffredinol, ac a attelid i weini eu swydd, neu a ddifreinid yn y canlyniad. Cafodd deg ar hugain o honynt eu hesgymuno yn esgobaeth Norwich.[3] Y penderfyniad, yr oedd mor amlwg fod y llŷs wedi ei gymeryd, i beidio goddef rhyw gydffurfiad hannerog, yn enwedig er pan gawsai Laud arglwyddiaeth drwyadl ar feddwl y brenin, a argyhoeddai y Puritaniaid, nad allai Lloegr fod yn nawddle iddynt hwy mwyach. Felly dechreuai torfeydd ymfudo i'r America. O'r diwedd, deuai gwŷr o radd uwch na'r trefedigwyr cyntaf yn anobeithiol am ryddid gwladol a chrefyddol Lloegr; gwŷr o feddyliau galluog, wedi eu cymhwyso i fod yn ddeddfwyr a llywyddion gweriniaeth ieuanc,—y doeth a'r pwyllog Arglwydd Say, y dewr, y didwyll, a'r brwdfrydig Arglwydd Brooke, Syr Arthur Haslerig, Hampden, yn gywilyddus o wlad, dros iawnderau yr hon yr ymladdasai ei hunan; Cromwell yn dyheu dan rymusderau na's gallai eu cadw danodd na'u dëall, a thân anorchfygol yr hwn ydoedd yn guddiedig i bob llygad oddieithr yr eiddo ei gâr Hampden;--oeddynt yn ymbarotoi i hwylio i'r America, pan darfu i Laud, er gwae iddo ei hun a'i feistr, gael gorchymyn o'r cynghorlys i attal eu hymadawiad.[4] Yr oedd yr eglwys yn awr ar ogwydd prysur at Babyddiaeth. Gosodid delwau i fynu, neu adnewyddid yr hen rai; rhoddid enw a sefyllfa allor i fwrdd y cymmun; yr hwn a wnelid weithiau o faen; ymgrymid o'i flaen; ac weithiau dodid y groes arno; gwnelid gwisg weinidogaethol yr offeiriaid yn fwy gorwych; cyssegrid yr eglwysi gyda rhyw goegrodres gyfriniol a d'ieithriol. Delid allan athrawiaeth o wir bresenoldeb, gwahaniaethedig oddiwrth yr eiddo Rhufain trwy ryw ddarnodiad disylwedd yn unig, gan yr offeiriaid yn gyffredin. Montague, esgob Chichester, a aeth yn mhell tuag at ganiattau eidduniad ar saint; amddiffynid gweddïau dros y meirw gan lawer; ac mewn gair, prin y perthynai unrhyw synied neillduol i Eglwys Rhufain, na cheid ei gefnogwyr iddo yn mysg yr esgobion, neu y rhai a ysgrifenent dan eu nawdd;[5] ac yr ydym yn

1 *Hallam*, Vol. 2. pp. 50—52. 2 *Ibid*, p. 76. 3 *Ibid*, p. 77. 4 *Ibid*, pp. 79, 80.
5 *Ibid*, pp. 85—87.

sicr yn bresenol, fod ymblaid gref yn yr Eglwys Seis'nig, golygiadau pa rai a gynnwysent wadiad trwyadl o'r bron, o'r athrawiaeth Brotestanaidd.[1]

Fel hyn yr arweiniai yr Undeb dros yspaid y tair teyrnasiad cyntaf wedi y Diwygiad, i erledigaeth gyson ar weision mwyaf zelog Crist yn y wlad hon, ac y tywysai yr eglwysi o fewn y Sefydliad dan yr esgobaeth freninol, yn mhell yn ol i siglen gau athrawiaeth, coelgrefydd, rhagfarn, a chysgadrwydd crefyddol, o'r hyn yr ymdrechasai y Diwygwyr yn ganmoladwy i'w rhyddhau.

Nid rhaid i mi ddywedyd nemmawr am y ddau bennadur, ar y rhai y dodai yr Undeb yr hawl i weinyddu yr esgobaeth freninol, yn ddilynol i Siarl I. Yr oedd nodwedd y cyntaf ac opiniynau crefyddol y llall, yn sicrhau y defnyddient pa ddylanwad bynnag a feddent trwy yr Undeb, yn erbyn crefydd fywiol. Darfu i'r Undeb yn amlwg lygru yr eglwysi Henaduriaethol ac Annibynol yn ystod teyrnasiad Cromwell; ond ar ei farwolaeth ef daeth ei ddylanwad ar yr eglwysi yn llawer mwy trychinebus. Ymwisgai y Llywodraeth newydd mewn awdurdod, yn unig fel yr erlidiai grefydd efengylaidd. "Yna y daeth y dyddiau hyny, y rhai ni's gellir eu hadgofio un amser heb wrido, dyddiau gwaseidd-dra heb gywiredd, a chnawdolrwydd heb gariad; dyddiau talentau còraidd, a chamweddau cawraidd, paradwys calonau oerion a meddyliau culion, oes euraidd yr annewr, y dall-bleidiwr, a'r caethwas. Y brenin a wenieithiai i'w gydymgeisydd, fel y gallai fathru ar ei bobl, ymsuddai i fod megis rhaglaw Ffrainc, gan gymeryd gyda chyfoddiant cywilyddus, ei sarhad gwaradwyddus, a'i haur mwy gwaradwyddus. Anwesau putteiniaid, a digrif eiriau ffyliaid, a drefnent fesurau Llywodraeth, yr hon a feddai bron ddigon o allu i dwyllo, ac o grefydd i erlid. Yr oedd egwyddorion rhyddid yn watwargerdd pob llyswr mingam, ac yn anathema maranatha pob deon truthgar. Yn yr holl uchel leoedd, telid addoliad i Siarl a Iago, Belial a Moloch; a Lloegr a ddyhuddai yr eilunod creulawn ac aflan hyny â gwaed ei meibion dewraf a goreu. Cyflafan a ddilynai gyflafan, a gwaradwydd a orfyddai waradwydd, hyd oni yrid yr âch, yn felldigedig gan Dduw a dyn i grwydro ar hyd wyneb y ddaiar, ac i fod yn ddïareb ac ysgydwad pen i'r cenhedloedd."[2]

Mae effeithiau yr Undeb rhwng eglwyswyr dïalgar a thywysog diras, yn yspaid teyrnasiad Siarl II, yn gyfryw na's gellir ymgydnabod â hwy heb sorriant. Yn Lloegr, cafodd yn agos i ddwy fil o'r gweinidogion goreu yn y wlad eu gyru o'u plwyfau, a'u herlid a'r llymder mwyaf didrugaredd os beiddient weinidogaethu yn un man arall. Dynion tangnefeddus a duwiolfrydig, megis Alleine a Flavel, a lanwent y carcharau. Dynion fel Baxter, y rhai a gymhwysid trwy eu doethineb a'u duwioldeb i ddysgu cenedlaethau pell-

[1] *Hallam*, Vol. 2. p. 91. [2] *Edinburgh Review*, *No.* 84. p. 337.

enig, a warthruddid ac a flinid gan y dynion mwyaf diras, megis y Barnwr Jeffreys, yr hwn oedd yn bersonoliaeth o bob drygedd. Yn Lloegr, yr Archesgob Sheldon a dorai yn agos i ddwy fil o weinidogion duwiol oddiwrth eu cynnulleidfäoedd, i'w hela gan Jeffreys a barnwyr gelynol ereill, fel gwylltfilod.

Yn yr Alban, yr Archesgob Sharp a barodd fwrw pedwar cant o'r gweinidogion gorau o'u plwyfau; ac yna, Lauderdale, a'i offerynau gwaradwyddus, Turner, Dalziel, a Bannatyne, a'u herlynient a'r fath greulondeb, fel y cyfododd y wlad mewn arfau yn erbyn y Llywodraeth, a llofruddiwyd yr Archesgob gan ddynion a yrasid yn wallgof gan ei greulonderau.[1] Tra yr oedd y brenin yn cyfiawnhau yr holl anfadrwydd yma drwy ei esampl, a'r erledigaeth hon ar dduwioldeb trwy ei awdurdod, yr oedd eglwysi Crist, mewn undeb a'r Wladwriaeth, yn caniattâu iddo yr hawl i arolygu eu hathrawiaeth a'u dysgyblaeth, ac a barhaent i'w alw yn eu gweddïau, "Ein brenin crefyddol a grasusol!"

Y pen nesaf a dderbyniodd yr eglwysi oddiwrth yr Undeb, ydoedd Babydd cyfrwys, un yr oedd ei holl ymdrechion yn lluniad y cyfreithiau, a'u gweinyddiad, yn gydgyfeiriedig at adsefydliad Pabyddiaeth ar adfeilion y ffydd Brotestanaidd.

Fel hyn, gydâ'r unig eithriad o Edward VI, yr hwn a fu farw pan yn fachgen, yr oedd yr holl bennaduriaid a osododd yr Undeb ar yr eglwysi, o Harri VIII, hyd Iago II, dros yspaid 140 o flyneddoedd, a wnaethant y gorau o'u goruchafiaeth ofnadwy i ddiffoddi crefydd fywiol.

Wedi y Chwyldröad, paräai y genedl i ddirywio yn raddol mewn gwir dduwioldeb. Ymddangosai fod yr Undeb wedi taro crefydd â dyrnod angeuol. "Arminiaeth isel, a dallbleidiaeth annïoddefol Laud, a rwyddasai y ffordd i gyfnewidiad, yr hwn a gefnogid nid ychydig gan y penrhyddid a'r afradlonrwydd a ymdaenai dros y deyrnas wedi yr adferiad. O'r pryd hwnw allan, y golygiad a goleddid yn Lloegr yn gyffredinol am bregeth berffaith, oedd, ei bod yn draethawd ar ryw destun moesol, eglur, cywir o ran cyfansoddiad, a chymhwyllus, yn y traddodiad o'r hon yr oedd yn rhaid i'r pregethwr fod yn rhydd oddiwrth ddim tebyg i fod dan gyffröad ei hunan, neu yn amcanu cynnyrchu cyffröad yn ei wrandawwyr. Y cynllun hynod yma o hyawdledd yr areithfa, a ddygid rhagddo i'r perffeithrwydd eithaf; fel, tra yr oedd y brawdlys, y Senedd, a'r chwareudy, yn fynych yn cynhyrfu ac yn ennyn eu cynnulleidfäoedd, yr eglwys oedd yr unig le, lle y byddai y teimladrwydd mwyaf brwd yn sicr o gael ei oeri. Y dideimladrwydd digyffelyb yma yn y dull o gyfrannu addysg grefyddol, yn nghyd â'r esgeulusdra trylwyr o bob peth mwyaf cynhyrfiol a brawychus yn natguddiadau yr Efengyl, a gyn-

1 *Hetherington's* "*History of the Church of Scotland,*" pp. 371—456.

nyrchent eu heffaith naturiol, trwy ddiffoddi dyhewyd yn yr Eglwys Sefydledig, a'i adael i'w feddiannu gan yr Ymneillduwyr yn unig. Trwy yr yr achosion hyn estroneiddiwyd y bobl yn raddol i erthyglau yr eglwys, collodd pethau tragywyddol eu gafaelion oddiar y meddwl, a'r hyn oedd yn aros o grefydd, oedd yn gyfyngedig i'r sylw a delid i ychydig ffurfiau a defodau. Gadewid y cyfryw byncіau a llygredigaeth y natur ddynol, yr angenrheidrwydd am adenedigaeth, a chyfiawnhad trwy ffydd, i ddisgyn i ebargofiad, neu ynte fe'u cyfodid yn nod i ddirmyg a gwaradwydd. Y canlyniad ydoedd, fod y grêd a sefydlasid trwy gyfraith, heb feddu unrhyw ddylanwad yn ffurfiad syniadau y bobl; yr areithfa a lwyr orchfygai y ddarllenfa; cydgymmysgid duwioldeb a Phuritaniaeth dan yr un gwarthrudd cyffredin; yr oedd tywyllwch paganaidd o'r bron am y pethau a bethynent i iachawdwriaeth, yn ffynu yn y tir; a'r Saeson wedi dyfod y bobl fwyaf annghrefyddol yn y byd."

"Y fath oedd sefyllfa pethau pan ymddangosodd Whitfield a Wesley, y rhai, pa ffaeleddau bynnag a ganfydda y feirniadaeth lemaf yn eu nodwedd, a gyfrifir trwy yr oesoedd dyfodol, fel ail ddiwygwyr Lloegr."[1]

Wedi eu cynhyrfu trwy zêl y Trefnyddion, deuai llawer o weinidogion y Sefydliad yn ddynion difrifol, efengylaidd, ar y rhai dan Dduw y gorphwysai y gorchwyl o adferu y corph mawr hwnw o eglwysi i fywyd ysbrydol. Meithrin y bywyd ysbrydol hwnw yw amcan addefedig yr Undeb, : od oes unrhyw werth yn yr Undeb, dylai fod yn amlwg yn ei hyrwyddiant ar weinidogaeth bugeiliaid duwiolfrydig; ond o ddyddiau Wesley hyd y pryd hwn, y mae ei ddylanwad wedi bod yn hollol wrthwyneb i'w hymdrechiadau. Gallem farnu am y dylanwad hwnw oddiwrth syniadau prif weinidogion y Goron, y rhai ydynt yn pennodi ein hesgobion, ac yn llywyddu ar ein deddfwriaeth eglwysig. Ychydig o Weinidogion y Goron a gafodd well cyfleusdra i ymgydnabod â chrefydd ysbrydol na Mr. Pitt, yr hwn oedd yn gyfaill i Wilberforce; ac ychydig a fu yn feddiannol ar y fath allu i wneyd y defnydd goreu o'r fath gyfleusderau. Pan y daeth Mr. Wilberforce trwy ras Duw yn Gristion cywir, barnai Mr. Pitt mai iselder ysbryd oedd arno, ac mai cymdeithion a chydymddiddan a fuasai y ffordd oreu i chwalu yr argraffiadau oddiar ei feddwl; ac mewn dwy awr o ymddiddan âg ef ar y peth, efe a wnaeth ei oreu i'w resymu allan o'i argyhoeddiadau, ac felly a roddai achlysur i Mr. Wilberforce i wneyd y sylw canlynol,—"Y gwir yw, yr oedd efe mor soddedig mewn gwladyddiaeth, fel na roisai hamdden iddo ei hunan erïoed i ystyriaeth brïodol am grefydd."[2] Ond, er ei fod yn rhy brysur i fod yn grefyddol, yn rhy drafferthus ei feddwl gyda phethau amser i ymbarottoi erbyn tragywyddoldeb, yn rhy bryderus yn nghylch yr hyn

1 *Hall's Works*, Vol. 4. pp. 84—86. 2 *Life of Wilberforce*, Vol. 1. pp. 93, 94.

oedd ddibwys mewn cydmariaeth, i feddwl am yr un peth angenrheidiol, wedi ei lyncu i fynu yn ormod gan wasanaeth pennadur daiarol i wasanaethu ei Grëwr a'i Brynwr; nid ydoedd yn rhy brysur i goledd rhagfarn gwreiddiol yn erbyn yr unig ddynion o fewn y Sefydliad oeddynt yn zelog yn pregethu Crist, ac yn dwyn crefydd efengylaidd yn mlaen. Pan ydoedd Mr. Pitt wrth gynghor Esgob Prettyman am gefnogi ysgrif yn y Senedd, yr hon a fuasai yn cyfyngu rhyddid yr Ymneillduwyr i fesur mawr, ac yn ol barn Mr. Wilberforce yn bwrw rhai o'u gweinidogion enwocaf i garchar, ceisiai Mr. Wilberforce gyfle i ymddiddan am y peth â'r prif weinidog, ac fel hyn yr adrodda efe am y canlyniad ;—" Treuliasom rai oriau mewn cyd ymddiddan ar swper, a chyffesaf na's gwybuaswn erïoed hyd hyny, mor ddwfn ydoedd y rhagfarn a goleddai yn ei feddwl, yn erbyn y dosbarth o'r offeiriaid o'r rhai y gwyddai fy mod I mor hoff. Ofer ydoedd i mi grybwyll Mr. Robinson o Leicester, Mr. Richardson o York, Mr. Milner o Hull, Mr. Atkinson o Leeds, ac ereill o'r cyffelyb egwyddorion ; yr oedd ei iaith yn gyfryw ag oedd yn rhoi ar ddeall i mi ei fod yn meddwl yn wael am eu nodweddiad moesol."[1] Ond, nid oedd rhagfarn Mr. Pitt yn erbyn crefydd efengylaidd yn dystrywio ei zel dros y Sefydliad ; ac fel y gweddai i gefnogwr yr Undeb, dadleuai yn benderfynol dros amddiffyniad uniawngredaeth trwy erledigaeth. Pan gyflwynid gofyneb i Dy y Cyffredin, yn attolygu am ddifodiant y deddfau cosbawl yn erbyn y rhai a wadent athrawiaeth y Drindod, cefnogid yr ofyneb ddywededig gan Mr. Fox, yr hwn a ddadleuai yn gyfiawn fod pob caethiwed ac ymyriad mewn perthynas i opiniynau crefyddol, pa mor wrthwyneb bynnag a fyddai yr opiniynau hyny i grefydd sefydledig y wlad, neu pa mor beryglus bynnag y gellid eu cyfrif i'r tawelwch cyffredinol, yn annghyfiawn, ac anamddiffynadwy : i'r hyn yr attebai Mr. Pitt, pe y difodid y deddfau hyny, y gellid casglu fod y Ty yn ddi barch i'r Eglwys Sefydledig, er amddiffyniad yr hon y'u lluniwyd ar y cyntaf, ac ar elynion yr hon y dodent ryw gymmaint o attalfa yn barhaus. Gellid ystyried difodiant y deddfau hyn gan y cyffredin, fel y cam cyntaf tuag at symmudiad graddol yr holl fagwyrydd hyny a gyfodasid gan ein tadau er dïogelwch ein ffurflywodraeth wladol ac eglwysig. Gwrthodíd y cynnygiad gan fwy-rif o 142 i 63.[2]

Yma, caiff ein hadolygiad o brofiad dynolryw mewn perthynas i'r Undeb, derfynu ; gellir olrhain ei ddylanwad ar wledydd pabaidd, ei gyssylltiad â'r ymrwygiad diweddar yn Eglwys yr Alban, ei gefnogaeth i grefydd rheswm a choelgrefydd yn Ffrainc ac mewn gwledydd ereill, yn nghyd â'i weithrediad presenol yn y wlad hon, gydâ mwy o brïodoldeb yn yr ail ran o'r Llyfr hwn, yr hwn sydd neillduedig i ymchwiliad i'w effeithiau. Ond, y mae y

[1] *Life of Wilberforce*, Vol. 2. p. 364. [2] *Life of Pitt, by Bishop Tomline*, Vol. 2. pp. 451—454.

braslun blaenorol yn ddigonol er argyhoeddi pawb di ragfarn, bod yr Undeb wedi bod mewn llawer o wledydd, a thrwy lawer o oesoedd, yn gyngrhair twyll a thrais er gwarthruddo y cenhedloedd, yn gyfundeb yr offeiriad a'r pennadur i fathru iawnderau cydwybod, cyd ymdrech gormes freninol ac esgobaethol, i lethu gwir grefydd.

Bu drygedd effeithiau yr Undeb mor eglur a chyffredinol, fel nad oes angenrheidrwydd am brawf pendant o du rhyddid; ond er hyny, gan fod rhai dynion, i'r rhai y mae dichoniaethau anadnabyddus o ddrwg, yn ymddangos yn waeth nag unrhyw swm o ddrwg hanfodol, a'r rhai a dybiant na's gallasai yr Undeb fod mor gyffredinol, oddieithr fod gwir angenrheidrwydd am ei fodoliaeth, bydded i ni gymeryd sylw byr ar brofiad rhai eglwysi rhydd.

Yr oedd eglwysi y tair canrif gyntaf yn rhydd tra yr oeddynt yn anwaddolog gan y Llywodraeth, gallent benderfynu ar eu cred, trefnu eu dysgyblaeth, a dewis eu bugeiliaid crefyddol wrth eu hewyllysiau eu hunain; pob eglwys yn cynnal ei gweinidogion ei hunan oedd yn llwyr annibynol ar bob rhëolaeth allanol. A thra yn y cyflwr yma o dlodi a rhyddid, cyhoeddent y gwirionedd mor ëofn, ac arganmolent ef a'u bucheddau yn y fath fodd, fel y parhäai eu nifer a'u dylanwad i gynnyddu, hyd oni welai Cystenyn Fawr, yr amherawdr, mai call y gwnelai er cadarnhad ei orsedd, gymeryd i fynu broffes o Gristionogrwydd.

Drwy ystod oesoedd yr enciliad oddiwrth wirionedd a dyledswydd, a ddilynodd yr Undeb a ffurfid rhwng yr Eglwys a'r Wladwriaeth, gan y pennadur hwnw, un cymmundeb yn unig, yr hwn a gadwai yr arwyddair prïodol, "*Lux in Tenebris,*" a gynhaliai air y bywyd i'r boblogaeth o'i ddeutu. Yn y dyffrynoedd a orweddent rhwng Mynydd Cenis a Mynydd Viso, yn llethrau yr Alpau Cotianaidd, yr oedd ychydig Gristionogion, a wrthodent ddwyn iau Eglwys Rhufain, a hwynt-hwy yn ffodus hefyd a waredwyd oddiwrth Undeb â'r Wladwriaeth. Yr eglwysi a ffurfid gan y mynyddwyr hyn oeddynt yr unig rai o'r bron, a gadwent athrawiaeth iachus, symlrwydd addoliad, a bywyd ysbrydol, yn y bedwaredd ganrif ar ddeg a'r bymthegfed ganrif. A hyd y dydd heddyw, er y tymhorau hyny o adfeiliad, i'r rhai y mae pob eglwys, ysywaeth, yn ddarostyngedig dan bob rhyw drefniant, y maent yn aros yr unig eglwysi efengylaidd yn yr Eidal.

Tra yr oeddynt hwy yn cadw athrawiaeth yr Efengyl yn yr Eidal, cyfodai eglwys rydd arall ar dueddau dwyreiniol Saxony. Yn agos i ddiwedd yr eilfed ganrif ar bymtheg, pan oedd Cristionogion Silesia Awstriaidd yn cael eu sarhau yn greulawn gan yr Eglwys mewn Undeb â'r Wladwriaeth, ychydig o'r gwladwyr erlidiedig a geisient loches yn Saxony, dan nawdd y Pendefig Zinzendorff. Ar yr 17eg o Fehefin, 1722, y torrasant y pren cyntaf mewn coedwig ar y ffordd rhwng Zittau a Lobau, lle y cyfodasant y tŷ

coed cyntaf o bentref Herrnhutt.[1] Ymunid â hwy yn fuan gan ddeunaw o ymfudwyr ereill;[2] a thros ddeng mlynedd, parhäodd yr ymfudiadau hyn er mwyn rhyddid cydwybod, hyd onid oedd rhai cannoedd o'r dilynwyr tlodion ac erlidiedig hyn i Grist, wedi adeiladu iddynt eu hunain y pentref o elwir Herrnhutt.[3] Yn y flwyddyn 1731, pan nad oedd eu nifer uwchlaw chwe chant, ymwelid â hwy gan Negro o'r enw Anthony, yr hwn a ddarluniai iddynt gyflwr galarus ei gyd gaethion yn yr India Orllewinol.[4] Wedi eu cynhyrfu gan yr adroddiad, cynnygiai dau o'r brodyr fyned drosodd fel cennadon i ynys St. Thomas, ac wedi i'r eglwys gymeradwyo eu hamcan, hwy a adawsant Herrnhutt, Awst 21ain, 1732, ac ar yr 8fed o Hydref, hwy a hwyliasant o Copenhagen i'r ynys hono.[5] Y zêl a ennynid yn yr eglwys hon fel y crybwyllwyd, a barhäodd i ennyn, ac o fewn deng mlynedd, anfonai yr alltudiaid tlodion hyn gennadon i St. Thomas, i St. Croix, i Greenland, i Surinam, i Berbice, at amryw o lwythau Indiaidd Gogledd America, at y Negröaid yn Ngharolina Ddeheuol, i Lapland, i Tartari, i Algiers, i Guinea, i Benrhyn Gobaith Da, ac i Ceylon.[6] Er y pryd hyny y mae eu hymdrechion cennadol wedi cynnyddu i'r fath raddau, fel y mae gan eu 282 cennadon, 64,268 o Negröaid, Indiaid Gogledd America, brodorion Greenland, Hottentotiaid, &c., dan addysg Gristionogol rëolaidd; o ba rai y mae dros ugain mil yn gymmunwyr dan ddysgyblaeth rëolaidd.[7] Gan nad yw nifer y Brodyr Unedig nemmawr dros ddeng mil, y mae rhif eu dychweledigion o'u cydmaru â'u rhif hwy eu hunain, yn gymmaint, fel pe buasai yr holl eglwysi sefydledig ydynt mewn undeb â'r Gwladwriaethau Ewropaidd wedi llafurio gyda diwydrwydd a llwyddiant cyffelyb i'r eiddynt hwy, y buasai yr holl fyd paganaidd o'r bron ar hyn o bryd dan addysg Gristionogol rëolaidd.

Ond, er cymmaint y gwasanaeth a wnaed i achos y Gwaredwr gan y cyfundeb dysyml a brwdfrydig uchod, y mae eglwysi Protestanaidd rhydd Ffrainc, wedi rhagori arnynt, mewn un golygiad o leiaf. Ni's cyfrifaf fel anrhydedd penaf yr eglwysi hyn y gallent gyfrif yn mysg eu meibion, y fath enwogion a Sully, Coligni, ac Andelot, D'Aubigné, Duplessis Mornay, a mintai o wŷr mwy enwog am rinwedd ac am ddewrder, nag unrhyw fintai arall o gyffelyb nifer, o filwyr a deddfwyr cyfoesol, a ganfyddwn ni yn unrhyw gyfnod ar hanes Ffrainc; nid ymdröaf i sylwi ar dduwioldeb a thalentau eu gweinidogion, Du Moulin, Du Bose, Morus, Daillé Drélincourt, Claude, Jurieu, Saurin, Abbadie, &c., &c., ysgrifeniadau y rhai a gyfoethogasant ein llënyddiaeth Brotestanaidd; ond, cyfeiriaf at eu dïoddefiadau er mwyn Crist.

1 *Bost*, "*Hist. de l' Eglise des Freres*," *&c.*, Vol. 1. pp. 256—265. 2 *Ibid*, p. 322.
3 *Ibid*, p. 354. 4 *Ibid*, Vol. 2. pp. 134—137. *Holmes's* "*Historical Sketches of the Missions of the United Brethren*," *Introduction*, p. 3. 5 *Bost*, Vol. 2. p. 146. 6 *Holme's Historical Sketches*, *&c.*, *Introduction*, p. 3. 7 *Twenty-ninth Report of the London Association in Aid of the Moravian Missions, Appendix A.*

A ganlyn ydynt ychydig allan o lawer o'r cyfreithiau trwy y rhai y ceisiai Louis XIV, caethwas anfad, cyffeswr Jesuitaidd a phutteiniaid ymroddedig, ddifodi Protestaniaeth o'r deyrnas, yn y cymeriad o ben yr Undeb rhwng yr Eglwys a'r Llywodraeth.

Yn 1669 gwaherddid i'w ddeiliaid adael y deyrnas dan berygl i'w holl feddiannau gael eu dirwyo, &c., &c. Yn 1680, caniatteid i blant Protestanaidd, saith mlwydd oed, os ymwrthodent â'u crefydd yn erbyn ewyllys eu rhïeni, i'w gadael, a'u gorfodi trwy gyfraith i ddwyn traul eu cynnaliaeth. Yn 1683, gwaherddid yr addoliad diwygiedig yn holl ddinasoedd esgobol yr amherodraeth, ac attelid cyhoeddiad unrhyw lyfrau yn erbyn y grefydd Babaidd. O'r diwedd, Hydref 1685, ymddangosai Deddf y Dirymiad, trwy yr hon y distrywid temlau y Protestaniaid, y gwaherddid addoliad Protestanaidd, y dëolid gweinidogion Protestanaidd o'r deyrnas; ni allai un rhyw Brotestant arall adael y deyrnas, dan berygl cael ei ddyfarnu i'r caethlongau, yr oedd plant Protestaniaid i gael eu dwyn i fynu fel Pabyddion, a dirwyid meddiannau pawb na's cydffurfient o fewn corph pedwar mis o amser.[1] Y flwyddyn ganlynol ychwanegid ordinhad, cyfeiriedig at gyfreithwyr y brenin, yn erchi iddynt gymeryd plant Protestaniaid o bum mlwydd oed ac uchod i fynu, a'u dodi dan ofal Pabyddion. Mai, 1686, ordeiniai y brenin fod i bob gweinidog Protestanaidd a gymerid i fynu yn Ffrainc, gael ei roddi i farwolaeth; bod i'r sawl a gynnorthwyent weinidog gael eu hanfon i'r caethlongau, neu eu carcharu dros eu hoes; yr oedd 5500 o *livers* i gael eu rhoddi i bob achwynwr; a phawb a gymerid i ddalfa ar y weithred o ymgynnull i gynnal addoliad Protestanaidd, oeddynt i ddïoddef marwolaeth.[2] Cydffurfiai torfeydd o Brotestaniaid â'r grefydd sefydledig; a mwy fyth a geisiasant trwy ryw ffordd adael y deyrnas: ac o'r diwedd yr oferddyn treuliedig a barodd fathu tlŵs er côf o'i fuddugoliaeth fel pen yr Eglwys a'r Wladwriaeth, ar "yr heresi ddilëedig."[3] Ond, yn yr un flwyddyn ag y dirymid Deddf Nantes yn y modd creulawn a ddarluniwyd uchod,dechreuai eglwysi y diffeithwch ymgynnull yn mynyddoedd Languedoc. O fewn yr un mis ag y dinystriwyd y deml yn Charenton,cyfarfyddai cynnulleidfäoedd crefyddol y Cevenols yn yr awyr agored; ac yn yr un flwyddyn ag y bu farw Louis yr oferddyn, gan ymorfoleddu yn ei ddifodiad o'r addoliad Protestanaidd, y darfu i fynyddwr ieuanc ardderchog, gynnull ychydig bregethwyr yn ogofeydd Cevennes, ac yno, yn enw Duw, ymrwymo i adfywio eglwysi archolledig a llethedig Ffrainc.[4] Nid oedd Anthony Court, yr hwn a anesid yn Villeneuve-de-berg, yn y Vivarais, yn 1696, namyn dwy flwydd ar bymtheg oed, pan y dechreuodd efe bregethu i'w gyd Brotestaniaid yn eu cyfarfodydd nosol. Heblaw

1 *Histoire des Eglises du Desert, par Charles Coquerel,* Vol. 1. pp. 41—55. 2 *Ibid,* pp. 56, 57. 3 *Ibid,* p. 31. 4 *Ibid,* Vol. 1. pp. 60, 64, 99.

ei fod yn meddu dewrder dïofn, a synwyr cryf, yr oedd yn feddiannol ar gryfder corphorol rhyfeddol, trwy yr hyn y'i galluogid i fyned trwy y lludded mwyaf; ac efe a gyssegrodd ei holl alluoedd meddwl a chorph i wasanaethu ei Brynwr, â diffuantrwydd uwchlaw temtasiwn, ac â ffydd anorfodol gan rwystrau.[1]

Gyrai erledigaeth y mynyddwyr i wrthryfela; ac yn rhyfel y Cevennes yr oedd crefydd wedi dirywio gormod i dwyll-ysbrydoliaeth. Cymerai prophwydi le pregethwyr, a chollwyd dysgyblaeth o angenrheidrwydd. Yr oedd eu gwroldeb yn anhygoel, a'u hymröad yn arwraidd; ond yr oedd eu dïaledd yn waedlyd yn rhy fynych; daethant yn rhyfelwyr di ddeddf yn hyttrach na dysgyblion addfwyn i Grist, ac ymddangosai eglwysi diwygiedig Ffrainc yn agos i'w tranc. Awst 21, 1715, cynnullai Anthony ychydig o'i frodyr er cydymgynghoriad, appwyntiwyd henuriaid, penderfynwyd ar reolau derbyniad ymgeiswyr am y weinidogaeth, a gosodwyd dysgyblaeth fanol mewn gweithrediad; a'r canlyniad fu, i'r eglwysi ddechreu ymadfer yn fuan mewn trefn ac mewn grym.[2] O flwyddyn i flwyddyn ychwanegai rhif eu haelodau; yr henaduriaeth a gynnyddai mewn nifer, a'u cymmanfäoedd a ddeuent yn fwy lluosog.[3] Er fod eu gweinidogion yn annysgedig, yr oedd gwresogrwydd a synwyr cryf yn gwneyd i fynu y diffyg o ddysgeidiaeth. Er bod eu llyfrau crefyddol wedi eu dwyn oddiarnynt, yr oeddynt yn medru y Psalmau ar eu tafod leferydd, ac wedi efrydu y Beibl yn drwyadl.[4] Cynnalient eu cyfarfodydd yn y nos, mewn ogofeydd, mewn coedwigoedd, ar y rhosydd diffaith, neu yn llochesau y creigiau, yn mhell oddiwrth bob cyfanneddle ddynol. Yr oedd bod yn y cyfarfodydd hyn yn dodi y gwrandawwyr mewn perygl o'r caethlongau, a'r pregethwr mewn perygl marwolaeth. Yr offeiriaid penboethion, a'r barnwyr creulon, at wasanaeth pa rai yr oedd y milwyr anwar, a arferent fil o ddichellion i'w bachellu, ac offerynau erledigaeth a daenid fel rhwydwaith dros yr holl wlad.[5] Yn y cyffredin byddai eu rhag-ddarbodaeth yn eu galluogi i osgoi dyfalwch eu gormeswyr; hysbysid lle y cyfarfod i'r brodyr gan ddynion ffyddlawn, y rhai a ymwelent â hwynt yn eu hanneddau, ac arweinwyr call a dewrion a ddygent y gweinidog i'r lle ar hyd llwybrau anhygyrch, yn y nos. Ymohebai y brodyr a gyfanneddent yn y wlad a'u brodyr yn y trefydd; ac ar yr achlysuron hyn byddai y gweinidog yn newid ei letty bob nos; a'i frodyr yn ei chyfrif yn anrhydedd gael ei roesawu ar berygl eu heinioes eu hunain. Pan fyddent yn gynnulledig, byddai yspiwyr ar y bryniau cymmydogol o amgylch, i'w rhybuddio o ddynesäad y gelyn, ac fel hyn yn gyffredin y dïangent rhag eu canfod allan ganddynt. Ond, os byddai yr erledigaeth yn ffynu yn rhy lemdost, rhoddent y cyfarfodydd i fynu yn hollol, ac ymddangosai yr

1 *Coquerel*, Vol 1. p. 21. 2 *Ibid*, pp. 32, 28, 105. 3 *Ibid*, pp. 101—105. 4 *Ibid*, p. 111. 5 *Ibid*, pp. 19, 113.

eglwysi megis wedi diflanu; tra yr oedd pob teulu trwy ddarllen yr Ysgrythyrau, a thrwy addoliad teuluaidd, yn coledd eu ffyrdd a'u dyhewyd erbyn adeg ddedwyddach: ac felly, eu dïanwadalwch a orfodogodd ar holl ymdrechion creulon yr Eglwys a'r Wladwriaeth dros hanner canrif, i ddystrywio eu meddiannau, eu crefydd, a'u bodolaeth.[1]

Lliniarwyd yr erledigaeth dan raglawiaeth Phylip, duc Orleans; ond, can gynted ag y daeth Louis XV. i'w oed, efe a daranai ordinhad allan yn erbyn y Protestaniaid, yr hon oedd gyffelyb mewn llymdostedd i'r eiddo Louis XIV, ac yn rhagori arnynt mewn celfyddgarwch creulondeb.[2] Ond, er holl lymdostedd y Llywodraeth yr oedd yr eglwysi yn parhau i gynnyddu mewn gwroldeb. Gweinidogion a garent y Gwaredwr am iddo ef yn gyntaf eu caru hwy, a feiddient ofn angau, fel y gallent bregethu yr iachawdwriaeth sydd trwy ei waed ef. Court a bregethai drwy holl eglwysi Languedoc, Capel a geisiai Brotestaniaid gwasgaredig Poitou a Saintonge; a Roger a gyflawnai ryw swydd beryglus yn Dauphiné. Yr oedd y gynnulleidfa mewn rhai manau yn cyrhaedd cynnifer a thair mil o bersonau; gwerin, bwrdeiswyr, ac, hyd yn nod bendefigion, yn sefyll ochr yn ochr. Byddai lluaws yn dysgwyl yn bryderus am y dydd y deuai y gweinidog i'r gymmydogaeth; canys yr oeddynt yn teimlo newyn a syched am air Duw. Rhybuddid yr ëofn i fod yn ochelgar, annogid y llwfr i wneuthur proffes ddi gel o'u ffydd; darllenent yr ysgrythyrau, gweddïent, a chyd gyfrannogent o Swper yr Arglwydd. Weithiau tywynai y lloer ar y torfeydd dystawaidd a fyddai yn gwrando geiriau y gweinidog, ac weithiau byddai y dymhestl yn cymmysgu ei rhyferthwy a'u hemynau brwdfrydig.[3] Ond ychydig ydoedd nifer y gweinidogion, a chan na's gallai Court gael gweinidogion, yr oedd yn rhaid iddo wneyd rhai. Ni ddychwelai yr un o'r holl weinidogion dëoledig i'r maes peryglus hwnw yn ol; ond cymerid ieuenctyd duwiolfrydig, y rhai a ymdeimlent yn barod i ddyoddef merthyrdod, oddi ar ol yr aradr, ac o'r gweithdai; a chan na's gellid eu haddysgu yn Ffrainc, fe'u hanfonid i athrofa ddwyfyddol newydd, a agorid erddynt gan Court yn Lausanne,[4] o'r lle y dychwelent i faes eu llafur a'u merthyrdod. Ar y 30ain o Dachwedd, 1728, merthyrid Alexander Roussel yn Montpellier. Yr 22ain o Ionawr, rhoddid Stephen Arnaud i farwolaeth yn Alais.[5] Ar yr 22ain o Ebrill, 1732, halogid Montpellier eilwaith trwy ferthyrdod Durand, gweinidog o'r Cevennes.[6] Yn y blyneddoedd 1745 a 1746, dyfernid lluoedd i'r caethlongau, i alltudiad, i fflangelliad, i ddirwyad, ac i warthruddiad.[7] Mawrth yr 2il, 1746, dyfernid Louis Rang yn Grenoble, ac efe a grogwyd yn Die, lle yr ymddygai yn wrol a siriol hyd y diwedd. Ond heb ei frawychu

1 *Coquerel*, Vol. 1. pp. 112, 113. 2 *Ibid*, pp. 151, 157. 3 *Ibid*, p. 239. 4 *Ibid*, pp. 191—197. 5 *Ibid*, pp. 315, 325. 6 *Ibid*, pp. 325, 326. 7 *Ibid*, pp. 331—334.

na'i darfu gan hyn, parhäai ei frawd Alexander i bregethu trwy dalaith Dauphiné, er ei fod wedi ei ddyfarnu i angeu, a gwobrwy yn cael ei gynnyg am ei ben.[1] Pan gymerwyd Louis Rang i ddalfa yn Livron, ysgrifenai yr hen weinidog hybarch Roger atto i gadarnhau ei ffydd, a gwaeddai yn fynych, "Fy mhlentyn tlawd, mor dda fuasai genyf pe y gallaswn fod yn dy le!" Ac er ei fod yntau hefyd yn cael ei ymlid gan ei elynion, ni phallai yn ei lafur. Yr oedd y cymmanfäoedd mor fynych, a chynnifer yn dyfod iddynt ag o'r blaen; a phan y'i daliwyd mewn coedwig yn agos i Crest, ac y gofynai y swyddog iddo pwy oedd efe, efe a'i hattebai,, "Myfi yw yr hwn yr ydych chwi wedi bod yn ei geisio y pedair blynedd ar bymtheg ar hugain hyn; ac yr ydoedd yn amser bellach i chwi fy nghael."

Ymddygai yn ddiysgog o flaen ei farnwyr. Yn y carchar, efe a gynghorai ei gyd garcharorion i fod yn ddianwadal, ac ar yr 22ain o Fai, 1745, pan ddaeth y dïenyddwyr i'w arwain i'w ferthyru, efe a floeddiai, "O fynyd ddedwydd yr hon a chwennychais mor fynych! Llawenha fy enaid, dyma y dydd ar yr hwn y bydd raid i ti fyned i fewn i lawenydd dy Arglwydd."[2] Tu a'r un pryd, yr oedd carcharau Alais, Uzés, St. Hippolite, Nismes Montpellier, a threfydd ereill, yn llawn o'r rhai a ddïoddefent er mwyn Crist; a gorfodid y Protestaniaid drwy y deheubarth i dalu dirwyon dinystriol.[3] Yn yr un flwyddyn, cymerid Matthew Majal, gweinidog ieuanc, 26ain oed, i ddalfa, yn mhentref Muzel, a chludid ef yn gyntaf i Vernoux, ac wedi hyny i Montpellier. Pan y'i holid, synai ac ymdoddai ei farnwyr wrth y fath amlygiad o foneddigeiddrwydd, synwyroldeb, a duwioldeb, mewn un mor ieuanc. Wedi ei ddwyn i'r dïenyddle, lle yr oedd tyrfa fawr yn gynnulledig, Chwef. 2il, 1746, poenydid ef gan ddau Jesuit â'u dallbleidiaeth haerllug, boddid ei lais gan swn tabyrddau pan geisiai gyfarch y bobl; ond tegwch ei wynebpryd ieuanc, gwresawgrwydd amlwg ei weddïau, ei dawelwch, ei ddïanwadalwch, a'i foneddigeiddrwydd, a ddygai ddagrau o bob llygad. Y Protestaniaid a fendithient Dduw am y gras a roddid iddo, a'r Pabyddion a genfigenent o herwydd y gogoniant a roddai ei ferthyrdod ar achos y Protestaniaid.[4] Awst 1af, Dyfernid a dïenyddid pregethwr o Saintogne, o'r enw Elias Vivien, yn Rochelle.[5] Ionawr 30ain, 1752, cymerid Francis Bénezet i fynu, yn agos i Vigan, yr hwn fel Majal, nid oedd namyn chwech ar hugain oed, ac wedi ei ddwyn i Montpellier, efe a gollfarnwyd am bregethu yn Languedoc. Mawrth 27ain, efe a arweinid i'r dïenyddle; ac er curo y tabyrddau i foddi ei lais, clywai yr edrychwyr ef yn canu yr unfed Psalm ar ddeg a deugain, yn nghanol y rhuad, a'i wynebpryd a gadwai ei sirioldeb digyfnewid hyd y diwedd.[6]

Derbyniai y llys diras, yn nghanol rhysedd a thrais o bob math, y new-

1 *Coquerel*, Vol. I. pp. 334—336. 2 *Ibid*, pp. 354, 346. 3 *Ibid*, p. 348. 4 *Ibid*, pp. 377—386. 5 *Ibid*, p. 419. 6 *Ibid*, Vol. 2. pp. 50, 51.

ydd am y llofruddiaeth yma dan yr enw o weinyddiad barn a chyfiawnder, gydâ llawenydd.[1]

Yn y flwyddyn 1754, Stephen Teissier Lafage, gweinidog ieuanc, a grogid yn Montpellier, a bu farw yn y fath ddïanwadalwch a thangnefedd, fel na's gallasai y milwyr oeddynt o ddeutu y dïenyddle attal eu dagrau.[2]

Yn olaf, Chwefror 19eg, 1762, Francois Rochette, gweinidog ieuanc o Languedoc Uchaf, a thri o frodyr anrhydeddus, Grenier de Commel, Grenier de Saradou, a Grenier de Lourmade ieuanc, a ddïenyddiwyd yn nghyd, gan amlygu y fath wroldeb dïanwadal a barai syndod i'r holl gynnulleidfa.[3] Yn ystod y blyneddoedd hyn aeth amryw o Brotestaniaid trwy ddyoddefiadau annrhaethol. Rhwng 1744, a 1752, derbyniodd pedwar ugain o foneddigion amrywiol gosbedigaethau, chwe chant o Brotestaniaid a garcharwyd, ac wyth cant a ddyoddefasant gosbedigaethau ereill yn y deheubarth yn unig.[4] Gwasgerid cynnulleidfäoedd gan y milwyr; gorfodid y preswylwyr Protestanaidd i lettya y meirch-filwyr; a llusgid plant drwy drais i'r eglwysi Pabaidd, i'w bedyddio. Cydffurfiai torfëydd, a lluoedd a ffoent o'r wlad, diboblid pentrefi cyfain, a llawer a ymguddient mewn ogofëydd a choedwigoedd. Tra yr oedd Voltaire yn ysgrifenu yn eu herbyn yn Paris, yr oedd ei gyfaill diras a digred, y Duc Richelieu yn eu hela â'i feirch-filwyr yn Languedoc. Y llys, yr esgobion, a'r anffyddwyr, oeddynt oll wedi ymgyngrheirio yn eu herbyn, ac yn ymorfoleddu yn eu llwyddiant echryslon. Yn y cyfamser, yr oedd Paul Rabaut, gweinidog ëofn Nismes, a gweinidogion ereill, yn parhau yn y cyflawniad o'u gweinidogaeth beryglus. Y cynnulleidfäoedd oeddynt eto yn ymgasglu; a'u trefnusrwydd yn myned ar gynnydd. Ymgynnullai cynnifer a dwy fil yn y diffaethwch i wrando gair Duw. Ac ar un achlysur, pan oeddid yn ordeinio tri o weinidogion ar yr 8fed o Fai, 1756, nid oedd dim llai na deng mil wedi ymgynnull wrth odreu mynydd yn Languedoc.[5] O'r diwedd, eu dïanwadalwch a ffynnodd. Dechreuai pawb cymhedrol ffieiddio yr erledigaethau hyn. Yr offeiriaid a syrthiasant dan warthruddiad cyffredinol, mewn rhan drwy eu hanfoesoldeb, ac mewn rhan trwy ffyniant yr athroniaeth anffyddl, ac yna, lluaws o Brotestaniaid, dan weinyddiaeth dyner Turgot a Malesherbes, er celu o honynt eu hegwyddorion yn awr y perygl, a wnaethant broffes ddi gêl o honynt y pryd hwn, mewn amryfal ranau o'r deyrnas; ac yn Ionawr, 1788, hwy a gawsant gyfraith goddefiad gan Louis XVI.[6] O'r diwedd, yn dra anffodus iddynt hwy, cymerai Napoleon eu gweinidogion dan ei nawdd, a threfnodd iddynt gael eu tâl o'r llywodraeth; ac felly, deuai yr Eglwys Ddiwygedig yn un o eglwysi sefydledig yr amherodraeth.

Gan hyny, yn ofer yr appelia Mr. Burke a Mr. Gladstone ar ran yr

1 *Coquerel*, Vol. 2. p. 51. 2 *Ibid*, p. 170. 3 *Ibid*, pp. 290, 291, 4 Vol. 1. p. 431. 5 Vol. 2. p. 238. 6 *Ibid*, p. 552.

egwyddor o Sefydliadau, neu Eglwysi Sefydledig, at ymarferiad cyffredin dynolryw.[1] Cafodd yr ymarferiad cyffredinol hwnw, yr hwn oedd baganaidd a phabaidd; ond nid Cristionogol, ei ddefnyddio bob amser i attegu trais a thwyll offeiriadaeth, i lethu rhyddid ac attal y gwirionedd; ac nid da y'i defnyddir yn ddadl dros egwyddor, ar yr hon y teifl oleu yn unig i'w nodi a gwarthruddiad tragyfyth.

Trwy y dernyn blaenorol o hanes eglwysig, gwelwn yr eglwysi gwladwriaethol, fel y buttain amherodrl a ddarlunir yn yr 17eg o'r Datguddiad, yn putteinio gydâ breninoedd y ddaiar, trwy drosglwyddo iddynt yn fradwrus hawl Crist i lywodraethu ei eglwysi, a derbyn eu gwobrwy auraidd ganddynt am eu gwaith; a'r eglwysi rhyddion fel y wraig a ddarlunir yn y 12fed bennod o'r Datguddiad, yn cael ei herlid gan y ddraig, a'i gyru i'r diffeithwch. Gwelwn yr eglwysi Gwladwriaethol fel y buttain wedi ei dilladu â phorphor ac ysgarlad, ac wedi ei gwychu âg aur, ac â llïan main gwerthfawr, a pherlau, Dat. 17. 4: a'r eglwysi rhyddion fel y wraig wedi ei gwisgo â'r haul, yn belydrog gan ogoniant Dwyfol ras, Dat. 12. 1. Gwelwn yr eglwysi Gwladwriaethol fel y buttain, yr hon a eisteddai ar y bwystfil cyffelybiaethol, yn cael ei chynnal gan fwyrifau ofergoelus ac annuwiol, Dat. 17. 3; a'r eglwysi rhyddion fel y wraig a wisgasid â'r haul, yn fföedig ac unig yn y diffeithwch, wedi ei gadael a'i dëoli ganddynt, Dat. 12. 6. Gwelwn yr eglwysi Gwladwriaethol fel y buttain, yn erlid saint Duw, Dat. 17. 6; a'r eglwysi rhyddion fel y wraig a wisgasid â'r haul, yn cael ei chynnal gan Dduw dan yr erledigaeth, Dat. 12. 6. Gwelwn yr eglwysi Gwladwriaethol, fel y buttain, yn ymogoneddu yn lluosogrwydd ei chanlynwyr, ei gallu, a'i chyfoeth, gan ddywedyd, "Yr wyf yn eistedd yn frenines; a gweddw nid ydwyf, a galar ni's gwelaf ddim," Dat. 18. 7; a'r eglwysi rhyddion o'r diwedd yn cael eu cynnorthwyo gan y ddaiar, gan fod y byd o'r diwedd yn dechreu cefnogi rhyddid cydwybod, a pharchu cyfiawnder rhwng gwr a gwr, Dat. 12. 16. Yn yr eglwysi Gwladwriaethol gwelwn ddynesäad gormodol at yr ymadawiad mawr; ac yn yr eglwysi rhyddion gwelwn gydffurfiad cyfattebol â chyflwr rhagfynegedig eglwys Crist.

Mae holl Hanesyddiaeth yn cyhoeddi, y dylai yr Undeb rhwng yr eglwysi a'r llywodraethau, sydd wedi ei brofi trwy ganrifau meithion o gamrëolaeth, a'i gael yn mhob man yn unig yn rymus er drwg, roddi lle o'r diwedd i gyf-

[1] "Gan seilio ar y gyfundrefn grefyddol hono a feddwn yn bresenol, yr ydym yn parhau i weithredu yn unol a'r farn gyffredinol a dderbyniodd dynolryw yn foreu." —*Burke on the French Revolution, Works*, Vol. 5. p. 175.

"Gydâ golwg ar ymarferiad gwledydd Cred, y mae yn nodedig, ac wedi bod o'r braidd yn gyffredinol. Y mae awdurdod ymarferiad o'r pryd hyny, (teyrnasiad Cystenyn) hyd y pryd hwn yn hollol yn ffafr yr egwyddor gyffredinol, sef y dylai crefydd gael ei phroffesu a'i chynnal gan y Wladwriaeth."—"Dymunwn argymell i ystyriaeth ddifrifol bod y prawf hanesyddol ar y testyn hwn yn cyrhaedd yn agos i fod yn dystiolaeth unfrydol."—*Gladstone's State and Church*, Vol. 1. pp. 130, 142.

raith Crist ei hunan am ryddid ysbrydol, trwy yr hyn yn unig y gall ei eglwysi ef gwblhau eu cennadwri lesol, er dwyn cenedloedd y ddaear i wasanaeth y Gwaredwr, a dwyn pob synwyr a phob calon dan deyrnged i'w ogoniant ef.

---

## Adran IV.—Yr Undeb yn cael ei gollfarnu trwy ddeddf Moses.

Mae cefnogwyr yr Undeb rhwng yr Eglwys a'r Wladwriaeth yn apelio ar ei ran yn aml at gyfraith ac ymarferiad yr Hen Destament. Trwy osodiad neillduol yn neddf Moses, yr oedd degwm cynnyrch y tir yn cael ei neillduo at gynnaliaeth yr offeiriaid a'r Lefiaid. Oddiwrth yr hyn y dadleuant fel y canlyn :—Os ydoedd taliad degymau yn cael ei wneyd yn rhwymedig trwy gyfraith y pryd hyny, gellir ei wneyd yn rhwymedig trwy gyfraith eto; ni's gall yr hyn oedd uniawn mewn ystyr foesol y pryd hyny, fod yn gam mewn ystyr foesol y pryd hwn; a chan hyny y mae darbodaeth cenedlaethol at gynnaliaeth gweinidogion crefydd yn meddu awdurdod Ddwyfol uniongyrchol. "Ma e senza dubbio molto periculoso il governarse con gli esempi, si non concorrono non solo in generale, ma in tutti i particolari le medesime rajione." Y mae y sylw hwn o eiddo Guicciardini yn hollol gymhwysiadol at y gynrëol Iuddewig hon, dros yr hon y dadleuir, yr hyn sydd mor bell o gyfiawnhau yr Undeb Seis'nig rhwng yr Eglwys a'r Wladwriaeth, fel y mae yn ei gondemnio yn y modd mwyaf dïammwys.

Gan fod cyfraith Moses wedi ei dirymu yn y modd mwyaf pennodol, mae yn amlwg fod ei gosodiadau yn cael eu cyfrif gan eu Hawdwr Dwyfol yn annghyfaddas i grefydd Crist, yr hon sydd yn fwy ysbrydol a chyffredinol.[1] A charcharu athrawiaeth Gristionogol o fewn ordinhadau Iuddewig, ni byddai ond megis rhoddi gwin newydd mewn hên gostrelau, yr hyn nid amcanai ein Harglwydd ei wneuthur, medd efe.[2]

Gan hyny, pe buasai Undeb rhwng yr Eglwys a'r Wladwriaeth yn osodedig wrth gyfraith Moses, ni's gallaswn weled ynddo un prawf fod y cyfryw Undeb yn cael ei ganiattau gan gyfraith Crist. Ond, mewn gwirionedd, nid oedd y cyfryw Undeb rhwng yr offeiriadaeth a'r Llywodraeth; ac ar y llaw arall, yr oedd gosodiadau y ddeddf Iuddewig yn gyfryw ag i gollfarnu yn eglur Undeb o'r fath ag a ffyna yn y wlad hon yn bresenol.

1. Y mae gweinidogion y Sefydliad yn Lloegr yn cael eu cynnal drwy drethi a arosodir gan y Llywodraeth mewn ffurf o ardreth-dalion blyneddol; a'r adeiladau eglwysig yn cael eu cynnal drwy dalion ereill, dan y ffurf o drethi eglwys: a'r trethi hyn a arosodir, nid drwy awdurdod Duw, ond trwy

[1] Heb. 8. 7—13; a 9. 9, 10. [2] Matt. 9. 17.

awdurdod y Wladwriaeth. Yn Israel yr oedd degymau wedi eu gosod, nid drwy awdurdod y Wladwriaeth, ond drwy orchymyn Duw, canys nid oedd yno unrhyw dreth freninol er cynnaliaeth crefydd; a'r deml a'r holl synagogau yn y tir, a adeiledid, ac a adgyweirid trwy gyfranniadau gwirfodd.[1]

2. Y mae y Llywodraeth yn Lloegr, mewn canlyniad i'w chynnaliad o weinidogion, ac o adeiladau y Sefydliad, yn arhoni rhëolaeth arni, yn caniattau neu yn gwahardd ei chymmanfäoedd, yn cadarnhau neu yn gwrthod ei chanonau, ac yn llunio y cyfryw ddeddfau eglwysig ar a welo yn dda er rhëoliad yr eglwysi. Ond ni allasai y Llywodraeth wladol yn Israel lunio unrhyw gyfraith eglwysig. Y pennadur a lywodraethid gan y gyfraith ganlynol: "*A phan eisteddo ar deyrngadair ei freniniaeth, ysgrifened iddo gopi o'r gyfraith hon mewn llyfr, allan o'r hwn sydd ger bron yr offeiriaid y Lefiaid; a bydded gydag ef, a darllened arno holl ddyddiau ei fywyd: fel y dysgo ofni yr Arglwydd ei Dduw, i gadw holl eiriau y gyfraith hon, a'r deddfau hyn i'w gwneuthur hwynt.*"

Un o'r cyfreithiau hyn yr oedd efe yn rhwym i ufuddhau iddynt oedd fel y canlyn: "*Na chwanegwch at y gair yr ydwyf yn ei orchymyn i chwi, ac na leihewch ddim o hono ef, gan gadw gorchymynion yr Arglwydd eich Duw, y rhai yr wyf fi yn eu gorchymyn i chwi.*"[2] Fel y'i gwaherddid yn bennodol i ddwyn y cyfnewidiad lleiaf i mewn, neu i wneuthur yr ychwanegiad lleiaf at orchymynion y ddeddf Ddwyfol. Gan hyny nid oes olion o unrhyw ddeddf eglwysig wedi ei llunio gan neb un o'r breninoedd Iuddewig. Ni's meddai y prif swyddog hawl i weinyddu y rhëolaeth leiaf ar grêd, addoliad, neu ddysgyblaeth eglwysig y genedl. Gallai wneyd y trefniadau gwladol a chyllidol a fynai; ond nid oedd i ymyraeth âg addoliad Duw ar un cyfrif. Mewn crefydd, yr oedd y bobl i ufuddhau i Dduw yn unig. Mae yr unig eithriad ymddangosiadol i'r ffaith gyffredinol hon, mewn gwirionedd yn ei chadarnhau: canys y mae yn wir ddarfod i Ddafydd benderfynu ffurf y deml a adeiledid yn Sïon;[3] ond efe a wnaeth hyny fel prophwyd, ac nid fel brenin, dan ddylanwad ysbrydoliaeth Ddwyfol, nid drwy hawl-fraint freninol.[4] Ni's meddai un awdurdod ddynol hawl i ymyraeth â chrêd, addoliad, neu ddysgyblaeth y gynnulleidfa Iuddewig; ond yn Lloegr, y mae y Llywodraeth wedi ffurfio corph mawr o gyfreithiau eglwysig, trwy y rhai y llywodraethir yr eglwysi. Mae pob senedd dymhor yn chwanegu rhyw osodiad newydd at y twr anferthol, ac y mae dyledswyddau eglwysig i raddau helaeth yn cael eu rhëoli wrth y deddflyfr gwladol.

3. Dros yspaid goruchwyliaeth Moses, yr oedd Duw ei hunan yn gosod yr archoffeiriad, yr offeiriaid, a gweinidogion israddol crefydd. A chan fod

1 2 Sam. 8. 11. 1 Bren. 7. 51. 2 Bren. 12. 4, 8, 9; a 20. 4—7. 1 Cron. 22. 5—14; a 29. 6. 2 Cron. 24. 4. 2 Deut. 17. 18, 19. 3 Deut. 4. 1, 2. 4 1 Cron. 28. 11. 5 1 Cron. 28. 11—19.

yr offeiriaid fel hyn wedi eu gwneuthur yn hollol anymddibynol ar y brenin a'r llywodraeth, ni wnelai cyfnewidiad yn y llywodraeth unrhyw gyfnewidiad yn yr offeiriadaeth.

Fel hyn, pan olynodd Rehoboam Solomon, ni's gallai efe gyfodi unrhyw hoff-ddyn i'r offeiriadaeth, na diswyddo un o'r offeiriaid a osodasid gan Dduw; yr oedd olyniad y gweinidogion, cystal a'u dyledswyddau yn osodedig gan Dduw, ac ni allasai y pennadur ymyraeth; ond yn Lloegr, y mae y Llywodraeth wladol yn meddu pennodiad y preladiaid, a'r rheiny yn meddu yr hawl i ordeinio y clerigwyr, ac o fysg y rhai hyny, y mae noddwyr llëyg, y rhai a wneir felly trwy gymhwysder arianol yn unig, yn cael eu hawdurdodi gan y Llywodraeth i ddethol bugeiliaid yr eglwysi; fel y mae bugeiliaid yr eglwysi yn cael eu trefnu yn benaf gan y Llywodraeth.

Yn Israel, yr oedd cyllidau yr offeiriaid yn cael eu trefnu heb awdurdod y Llywodraeth; yn Lloegr, y mae eu cyllidau yn cael eu darbod trwy awdurdod y Llywodraeth yn unig.

Yn Israel, yr oedd yr offeiriaid yn cael eu gosod gan Dduw; yn Lloegr, y mae yr offeiriaid yn cael eu pennodi gan y Llywodraeth.

Yn Israel, ni allai breninoedd a phendefigion gyfodi un annghymmwys i'r weinidogaeth; yn Lloegr, gall noddwyr mewn gwirionedd sicrhau eu bywioliaethau i ryw rai a ddewisont, os byddant o fedr canolig, a moesau gweddus.

Yn Israel, ni arddodid bugail ar unrhyw gynnulleidfa gan y Llywodraeth; yn Lloegr, arddodir bugeiliaid ar yr holl eglwysi o'r bron, yn y modd hyny.

Gan hyny, yn gymmaint a bod Duw yn gwarchod yn y fath fodd ar yr offeiriadaeth dros yspaid yr oruchwyliaeth Foesenaidd, fel na's gallasai neb fyned iddi heb ei osodiad pendant ef, ac na's meddai y Llywodraeth un awdurdod yn y peth, efe a ddyfarnodd trwy hyny yr Undeb, trwy yr hwn y cymer y Llywodraeth arni heb ei awdurdod ef, osodiad gweinidogion crefydd lawer mwy ysbrydol.

4. Yr oedd yr holl ddinasyddion Iuddewig yn gydradd grefyddol yn ol cyfraith Moses; nid oedd y Llywodraeth yn meithrin unrhyw eiddigedd trwy gyfodi un blaid uwchlaw y llall, fel pan fyddai y gwyliau arbenig yn cynnull yn nghyd addolwyr Duw i bob lle, y cyfarfyddent fel brawdoliaeth sanctaidd, heb ddim achlysuron o eiddigedd a ddeilliant o'r gwahaniaeth gwladol a sefydlir trwy gyfraith: ond yn yr Undeb Seis'nig, y mae un *sect* o lawer sydd mor efengylaidd, yn cael ei chyflëu gan y Llywodraeth uwchlaw y lleill oll, trwy yr hyn y cynnyrchir eiddigedd ac ymraniad yn y teulu Cristionogaidd. Golygai y trefniant Moesenaidd holl addolwyr Duw megis ar gydraddoldeb perffaith; ond y mae y trefniant Seis'nig yn annghyfiawn yn dyrchafu un blaid, ac yn iselu y lleill oll. Yn yr Alban dyrchefir y blaid Henaduriaethol, a darostyngir y blaid Esgobyddol; yn Lloegr dyrchefir yr Esgobyddol, a darostyngir yr Henaduriaethol. Gan hyny y mae y trefniant

yn mhob rhan o'r deyrnas mor wrthwyneb i'r un Moesenaidd, fel os oedd yr olaf yn ol ewyllys Duw, y rhaid bod y blaenaf yn wrthwynebol iddo.

5. Nid oedd deddf Moses yn caniattâu unrhyw dalion dir-dreisiol at gynhaliaeth crefydd. Fel yr oedd Duw yn gorchymyn i'w bobl ei garu ef â'u holl galon, felly efe a orchymynai iddynt dalu degwm o'r tir i'r Lefiaid.[1] Ond, megys na allasai y barnwyr orfodogi Israeliad i ufuddhau i'r cyntaf o'r gorchymynion hyn, felly ni's gallasai ddirgymhell ufudd-dod i'r ail. Yn y naill a'r llall, cydwybod yr addolydd oedd yr unig gymhellydd a ganiattêid; nid oedd unrhyw gynghaws cyfreithiol wedi ei drefnu er ennill y degymau i'r offeiriaid; nac unrhyw swyddog wedi ei benodi i'w casglu; a chan fod yr Hollalluog wedi gwahardd i unrhyw chwanegiadau gael eu gwneuthur at gyfraith Moses,[2] ni allesid llunio cyfraith wedi hyny er gorfodogi eu taliad. Gan hyny, yr oedd eu taliad trwy yr holl hanes Iuddewig yn wirfoddol mor bell ag i fod yn rhydd oddiwrth ddirdrais swyddogol. Nyni a gawn yr adroddiad canlynol am Hezecïah yn ail Llyfr Cronicl: "*Efe a ddywedodd hefyd wrth y bobl, trigolion Jerusalem, am roddi rhan i'r offeiriaid a'r Lefiaid.*"[3] Nid arch cyfreithiol, ond cyngor duwiol oedd hwn. 1. Nid yw y gair Hebreig a gyfieithir "a ddywedodd," yn dynodi gorchymyn cyfreithiol yn gyffredin. 2. Pe buasai y cymmhwylliad yma yn orchymyn cyfreithiol, buasai raid ei anfon allan at yr holl deyrnas, ac nid at bobl Jerusalem yn unig. 3. Pan welodd y brenin y pentyrau rhoddion a ddygasai y bobl dduwiol o'r wlad, ni's gwyddai o ba le y daethent, (adn. 9, 10.) Yn awr, gan fod Hezecïah yn bryderus am i'r Lefiaid gael eu degymau, ac eto nad oedd yn arfer unrhyw awdurdod i'w casglu o'i freniniaeth, y mae yn ymddangos na's gallasai wneuthur hyny yn gyfreithlawn. Yn ddiweddarach yn yr hanes, nyni a ddarllenwn am Josïa fel y canlyn: "*A'r brenin a wnaeth gyfammod ger bron yr Arglwydd, ar rodio ar ol yr Arglwydd, ac ar gadw ei orchymynion ef......Ac efe a wnaeth i bawb a gafwyd yn Jerusalem, ac yn Benjamin sefyll wrth yr ammod.*"[4] Mae yn amlwg nad oedd Josïa yn arfer unrhyw drais yma. 1. Oblegid bod y gair Hebreig a gyfieithir yma "gwneuthur iddynt sefyll," yn dynodi peri neu wneuthur iddynt unrhyw ffordd, ac felly mor brïodol i ddynodi eu darbwyllo a'u gorfodi i wneyd. 2. Am nad oedd unrhyw orchymyn wedi ei anfon allan at yr holl deyrnas, yr hyn yn ddïau a wnelsid pe y gallasai efe wneyd hyny yn gyfreithlon. 3. Oblegid y cesglir oddiwrth natur ëhang ac ysbrydol y cyfammod, y rhaid bod y rhai a'i gwnelent yn myned iddo yn wirfoddol, ac nas gallesid eu gorfodi. Yn y diwygiad a ddygid yn mlaen gan Nehemiah, C. C. 444, aeth y pennaethiaid a'r bobl i gyfammod difrifol i dalu eu degymau,[5] yr hyn a fuasai yn ddïangenrhaid pe y gallasai y Lefiaid

[1] Num. 28. 21. Lef. 27. 30. [2] Deut. 4. 1, 2. [3] 2 Cron. 31. 4. [4] 2 Cron. 34. 31, 32. [5] Neh. 10. 29—37.

orfodogi taliad trwy attafaeliad neu ryw ffordd arall. Ac er y cyfammod hwnw ni thelid y degymau; canys yn mhen tua deng mlynedd ar ol hyny cyfarwyddid y Prophwyd Malachi i gyfarch y bobl fel hyn: "*A yspeilia dyn Dduw? eto chwi a'm hysbeiliasoch i: ond chwi a ddywedwch, Ym mha beth y'th yspeiliasom? Yn y degwm a'r offrwm. Melldigedig ydych trwy felldith; canys chwi a'm hysbeiliasoch i, sef yr holl genedl hon. Dygwch yr holl ddegwm i'r trysordy, fel y byddo bwyd yn fy nhŷ.*"[1] Pan ail ymwelodd Nehemïah â Jerusalem, yr oedd y degwm eto heb ei dalu.[2] Dyma ffeithiau a brofant na's meddai y Lefiaid lwybr cyfreithiol i godi y degwm os byddai yn cael ei attal oddi wrthynt. Yr oedd yr un rhyddid yn parhau yn amser gweinidogaeth ein Harglwydd, pe amgen ni allasai y Pharisead ddywedyd gyda hunan-foddäad ffrostgar, "Yr ydwyf yn degymu cymmaint oll ar a feddaf;" ac ni allasai ein Harglwydd ddefnyddio taliad degwm o'r mintys, a'r anis, a'r cwmmin, fel prawf o ragrith y Phariseaid.[3] "Taliad a phrisiad y degwm a adawsai Moses i gydwybodau y bobl, heb eu darostwng i ymweliadau cyfreithiol nac offeiriadol;"[4] ac ni allai un breuin Iuddewig wneyd y cyfnewidiad lleiaf yn y trefniad yma. Rhoddwr llawen y mae Duw yn ei garu,[5] ac ni chadiatta i Lywodraeth orfodogi talion er cynnaliaeth crefydd, mwy nag y cymeradwya ddirgymhell dynion i broffesu cariad atto ef. Yr oedd pob dyledswydd tuag atto ef i fod yn rhydd oddiwrth ddirgymhelliad dynol. Gwarthruddid cynnaliad crefydd pe y peidiai a bod yn rhydd: ufudd-dod rhydd a dalai ddegwm; cyfraniadau gwirfoddol a adeiladent yn gyntaf, ac wedi hyny a adgyweirient y babell a'r deml; ac os bu pennaduriaid Judea yn cyfrannu at y gweithfëydd hyn, o'u meddiannau eu hunain, ac nid o unrhyw drysorfa wladol, a gyfodasid i'r perwyl hyny, trwy drethiad eu deiliaid, y gwnaethant hyny. Trwy ofalu yn ngoruchwyliaeth Moses am i bob cyfryw dalion fod yn rhydd, heb ganiattâu hyd yn nod i'r offeiriaid gael eu degymau trwy unrhyw gynghaws cyfreithiol, darfu i Dduw ddyfarnu pob talion dir-dreisiol er cynnaliad crefydd. Ond, gyda ni, y mae y Wladwriaeth wedi caniattâu i'r offeiriaid eu hardreth-dalion a'u treth eglwys, yn gorfodogi eu taledigaeth, ac os bydd rhyw annghydffurfiwr cyndyn yn gommedd talu, fe'u trais ddygir trwy attafaeliad. Gan hyny, y mae ein trefniant yn gorwedd ar dalion gorfodol, yr hyn a gondemniodd Duw trwy gyfraith Moses.[6]

1 Mal. 3. 8—10. 2 Neh. 13. 10. 3 Luc 18. 12, 13. Matt. 23. 23. 4 *Horne's Introduction*, part iii. ch. 3. sec. 6. 5 2 Cor. 9. 7. 6 Nid oedd dyroddiad wyth a deugain o ddinasoedd, a'u maesdrefi i'r Lefiaid, yn unrhyw eithriad i'r adroddiad yma. Rhoddasid y rhai hyn iddynt gan Dduw, megis y rhoddasid holl Ganaan i'r deuddeg llwyth, (Num. 35. 1—8,) ac fe'u caniattâwyd yn rhwydd gan y llwythau heb unrhyw orfodaeth swyddol (Jos. 21. 1—3.) O amser Iosuah yr oeddynt yn ettifeddiaethau y y Lefiaid, ni's cyssylltent hwy yn yr radd leiaf a'r Llywodraeth, ac ni's gorfodent neb o'u cydwladwyr i roddi cynnaliad anfoddog i grefydd; ond yr oeddynt i'r Lefiaid yr

6. Y mae y trefniant Moesenaidd a'r trefniant Seis'nig er cynnaliad crefydd, yn hollol wrthwyneb i'w gilydd yn eu holl brif nodweddau, ac yn gymaint a bod un yn meddu arnodiad yr Hollalluog, y mae yn rhaid barnu am y llall ei bod yn yr absenoldeb o unrhyw arnodiad Dwyfol yn groes i'w ewyllys ef. Y mae ysgariad Moesenaidd yr Eglwys oddiwrth y Wladwriaeth, yn condemnio ein Hundeb ni o'r naill â'r llall, pa fath bynnag a fyddo nodwedd y Llywodraeth. Arhöai ein trefniant yn anysgrythyrol a niweidiol, pe y'i gweinyddid gan freninoedd o fath Dafydd, a chan wladweinwyr o fath Daniel; ond y mae ei gwrthnawsedd i ymarferiad yr Hen Destament yn ymddangos yn fwy amlwg pan ystyriom ei bod yn cael ei gweinyddu gan Lywodraeth annghrefyddol. Pa gyfran a gymerodd breninoedd annuwiol, trwy osodiad Dwyfol, yn ngorchwylion crefyddol yr Iuddewon? I ba radd yr oedd Saul a Manasseh wedi eu hawrdudodi i arolygu cred, addoliad, neu ddysgyblaeth crefydd yn eu breniniaethau. Ni's meddent ddim i'w wneyd âg ef. Pe y buasai Undeb fel yr eiddom ni, buasai yn parhau trwy bob teyrnasiad olynol, pa beth bynnag a allasai fod nodwedd y pennadur: buasai yr eglwys mor unedig â Saul ag â Dafydd; â Rehoboam ag â Solomon; â Manasse ag â Hezecïah; ond nid oedd yn unedig yn y radd leiaf âg un o'r tri phennadur annuwiol hyn. Nid oedd ganddynt esgobaeth i'w chyflawni, na hawl i ymyraeth; yr oedd y gyfundrefn yn gyflawn heb eu cynnorthwy, ac yn myned rhagddi fel pe na buasent yn bod. Gan hyny, yn ol cyn-rëolau yr Hen Destament, pa ddylanwad bynnag a ellid ei ganiattau i Wladweiniaeth dduwiol, ni ddylai un ddigrefydd gael dim; ond y mae ein Llywodraeth ni yn ei haelod galluocaf yn cynnrychioli mwy-rif annghrefyddol, o angenrheidrwydd yn ddigrefydd; a chan fod y trefniant Moesenaidd yn cau brenin digrefydd rhag meddu un rhëolaeth ar yr offeiriadaeth, felly y dylai y trefniant Seis'nig gau allan Dy Cyffredin annghrefyddol rhag meddu un llywodraeth ar weinidogion yr eglwysi. Oni chaniattai Duw i freninoedd digrefydd reoli ar grefydd y wlad pan oedd y bobl yn anwybodus ac anwar, llai o lawer y caniatta efe i Lywodraeth ddigrefydd reoli eglwysi o Gristionogion hyddysg a goleuedig. Os y pennododd efe gyfundrefn yn yr oruchwyliaeth gnawdol, wrth yr hon yr oedd pob peth dan ei reolaeth ef ei hunan, a'i thraul yn cael ei gynnal yn wirfoddol gan y bobl, mwy o lawer yn yr oruchwyliaeth hon, a elwir gwein-

hyn yw eu trigleoedd a'u gerddi i weinidogion Eglwys Rydd yr Alban. Yr ebyrth hefyd a'r offrymau, y rhai mewn rhan neu yn gyfan a berthynent i'r offeiriaid yn ol cyfraith yr Arglwydd, a offrymid yn wirfoddol gan y bobl, heb y possiblrwydd o unrhyw orfodogaeth swyddol. Yr oedd gorchymynion Dwyfol am rai o honynt, fel am y degymau; ond yr oedd ufudd-dod i'r gorchymyn yn cael ei adael at gydwybod pob dyn. —Gwel Pechaberth, Lef. 5. 2—19; a 6. 1—7. Yr offrwm dros gamwedd, Lef. 7. 1—7; a 5. 17, 18. Poeth offrymau, Lef. 7. 8; a 1. 3. Bwyd offrymau, Lef. 7. 9, 10; a 2. 1. Hedd offrwm, Lef. 7. 29—34. Num. 18. 8—11. Lef. 3. 1. Gwel *Horne's Introduction*, part iii. ch. 3. Vol. 3. p. 282.

idogaeth yr Ysbryd *(diaconia tou Pneumatos)* y rhaid ei fod yn gofyn i'r eglwysi *(ekklesiai tôn agiôn)* ddilyn hyfforddiadau ei air yn ddïesgeulus, a darbod o'u gwirfodd er cynnaliad ei addoliad. Y mae y sawl a gasglant oddiar fod un gyfundrefn ddegymol yn Judaa, y gall fod trefniant ddegymol lwyr wahanol yn Lloegr, yn dwylledig o'u gwirfodd. Cyhyd ag y byddo ar gôf na's goddefid gan gyfraith Moses i freninoedd Iuddewig digrefydd, drethu eu deiliaid er cael tâl i'r offeiriaid, neu gyfodi neb i'r offeiriadaeth, ond a osodasid gan Dduw, neu wneuthur cyfreithiau eglwysig, neu wahardd i'r offeiriaid i ymgynnull i ystyried pa fodd y gallent ddiwygio y genedl pan yn llygredig, neu bennodi gweinidogion yn nhâl y Llywodraeth ar gynnull-eidfäoedd eu dinasoedd a'u treflanau, neu ddyrchafu un dosparth o'r addolwyr Iuddewig trwy ddarostwng y lleill oll, neu orfodi eu deiliaid trwy drais i gynnal peiriannaeth eglwysig o'u dyfeisiad eu hunain,—cyhyd a hyny, rhaid fod deddf Moses yn dyfarnu yr holl arferion hyn, y rhai ydynt gymmhlethedig yn Undeb Seis'nig yr Eglwys a'r Wladwriaeth.[1]

---

## ADRAN V.—YR UNDEB YN CAEL EI DDYFARNU GAN BROPHWYDOLIAETHAU YR HEN DESTAMENT.

Yn ol rhagfynegiadau yr Hen Destament, bydd cyflwr eglwys Crist ar y ddaear, yn dra gogoneddus yn y diwedd. Dywedai ein Crëawdwr wrth y temtiwr yn y fan wedi y gwymp, y byddai i'r Gwaredwr dyfodol ysigo ei ben ef![2] Eglurwyd y brophwydoliaerh foreuaf hon, ac ychwanegwyd arni yn yr ymadroddion canlynol: "*Nid ymedy y deyrnwïalen o Juda hyd oni ddêl y Silo* (y tangnefeddus) *ac* ATTO EF *y bydd cynnulliad pobloedd.*" ......"*Gofyn i mi, a rhoddaf y cenedloedd yn ettifeddiaeth i ti, a therfyn-au y ddaear i'th feddiant.*"......"*Holl derfynau y ddaear a gofiant, ac a dröant at yr Arglwydd: a holl dylwythau y cenhedloedd a addolant ger dy fron di.*"......"*Yr holl freninoedd a ymgrymant iddo; yr holl gen-hedloedd a'i gwasanaethant ef.*"[3]......"*Mi a welwn mewn gweledigaeth*

[1] Dadleua rhai y dylai yr eglwysi fod yn unedig â'r Wladwriaeth, oddiwrth 1 Bren. 5. 11, 13; a 2 Cron. 17. 7, 10. Yn y cyntaf o'r enghreifftiau hyn, talai Solomon symiau mawrion i Hiram brenin Tyrus, am goed at y deml, a chadwai 30,000 o'i ddeil-iaid ar y gwaith, yn gymhwys yr un modd a phe buasai ein pennadur ni, wedi dad-gyssylltiad yr Undeb, yn prynu ffawydd Llychlyn i adeiladu lleoedd addoliad, ac yn rhoddi cynnifer o ddynion ar waith i'w hadeiladu. Yn yr ail enghraifft, rhoddai Jehosaphat bump o'i swyddogion, naw Lefiad, a dau offeiriad ar waith i ddysgu ei ddeiliaid, trwy ddarllen Gair Duw iddynt. Pe y dystrywid yr Undeb, efelychai ei Mawrhydi frenin Judah yn hollol, pe y danfonai naw o Ddarllenwyr yr Ysgrythyrau, a dau gapelwr i ddysgu y bobl mewn amryfal blwyfau esgeulusedig, a gofyn i bump o arglwydd-raglawiaid y gwledydd roddi pob cymhorth yn eu gallu iddynt.

Ond, ni ddichon gweithredoedd a ellid eu gwneyd heb, cystal a chyd âg Undeb, fod yn gynreolau yn ei ffafr. [2] Gen. 3. 15. [3] Gen. 49. 10. Ps. 2. 8; a 22. 27; a 72. 11.

*nos, ac wel, megis Mab y dyn oedd yn dyfod gydâ chymylau y nefoedd; ac at yr Hen ddihenydd y daeth, a hwy a'i dygasant ger ei fron ef. Ac efe a roddes iddo lywodraeth, a gogoniant, a breniniaeth, fel y byddai i'r holl bobloedd, cenhedloedd, a ieithoedd ei wasanaethu ef.*"[1]......"*Ar helaethrwydd ei lywodraeth a'i dangnefedd ni bydd diwedd.*"[2]

Y mae arglwyddiaeth cyffredinol Crist, yr hyn a ragfynegir yn yr ymadroddion hyn, yn cynnwys ëhangiad cyfollol a ffyniant yr eglwys; ac y mae y pethau hyn yn cael eu rhagfynegu eto yn yr ymadroddion canlynol;—"*A bydd yn y dyddiau diweddaf fod mynydd ty yr Arglwydd wedi ei barottoi yn mhen y mynyddoedd, ac yn ddyrchafedig goruwch y bryniau; a'r holl genhedloedd a ddylifant atto.*"[3]......"*Cyfod, llewyrcha; canys daeth dy oleuni, a chyfododd gogoniant yr Arglwydd arnat.*"......"*Cenhedloedd hefyd a rodiant at dy oleuni, a breninoedd at ddisgleirdeb dy gyfodiad.*" ......"*Canys y genedl a'r deyrnas ni'th wasanaetho di, a ddifethir.*"[4]

Yn ol y prophwydoliaethau hyn, rhaid i'r holl genedloedd ddylifo i Sïon, a'i gwasanaethu. Ar yr un pryd, dywedwyd y byddai i dorfeydd o fewn y genedl Iuddewig wrthod Crist;[5] y rhoddid y rhai hyny i fynu i galedrwydd calon,[6] ac y dïoddefent gospedigaeth gyfiawn.[7] Ni wnelid yr addewidion iddynt hwy, ond i'r rhai duwiol o'r genedl.[8] Y rhai hyn a ddaethant yn Gristionogion,[9] ac yn wir Israeliaid,[10] y rhai, yn nghydâ'r Cristionogion Cenhedlig yn unedig â hwy ydynt yr un genedl sanctaidd, Sïon Duw.[11] I'r Sïon ysbrydol hon y mae addewidion yr Hen Destament o barth cyfnod yr Efengyl wedi eu gwneyd. Mae y brophwydoliaeth ganlynol yn Esaiah 54, yn cyflëu y gwirionedd yma mewn goleuni eglur: "*Cân di anmhlantadwy nid esgorodd; bloeddia ganu, ac ymorfoledda, yr hon nid esgorodd: o herwydd amlach meibion yr hon a adawyd, na'r hon y mae gŵr iddi, medd yr Arglwydd. Helaetha le dy babell, ac estynant gortynau dy breswylfeydd; nac attal, estyn dy raffau, a sicrha dy hoelion. Canys ti a dorri allan ar y llaw ddehau ac ar y llaw aswy; a'th had a etifedda y Cenhedloedd, a dinasoedd anrheithiedig a wnant yn gyfanneddol.*"[12] Mae y rhagfynegiad yma yn cael ei egluro gan yr Apostol Paul yn y bedwaredd bennod o'r epistol at y Galatiaid, fel hyn: "*Dywedwch i mi y rhai ydych yn chwennych bod dan y ddeddf, onid ydych chwi yn clywed y ddeddf? Canys y mae yn ysgrifenedig fod i Abraham ddau fab; un o'r wasanaethferch, ac un o'r wraig rydd. Eithr yr hwn oedd o'r wasanaethferch a anwyd yn ol y cnawd; a'r hwn oedd o'r wraig rydd trwy yr addewid. Yr hyn bethau ydynt mewn alegori; canys y*

1 Dan. 7. 13, 14. 2 Esa. 9. 7. 3 Esa. 2. 2. 4 Esa. 60. 1, 3, 12. 5 Esa. 53. 1—4. Ioan 12. 37. 6 Esa. 6. 9—12. Jo. 12. 39. 7 Gal. 4. 21—30. 1 Thes. 2. 14—16. 8 Esa. 6. 13. Joel 2. 32. Rhuf. 9. 6—8, 22—24; a 11. 1—10. 9 Act. 2. 41—47; a 4. 4; a 5. 14; a 6. 7; a 21. 20. 10 Rhuf. 9. 8. 11 1 Pedr 2. 9. Gal. 3. 7—29; a 4. 25—31. Rhuf. 9. 8. Heb. 12. 22, 23. 12 Esa. 54. 1—3.

*rhai hyn yw y ddau Destament; un yn ddïau o fynydd Sinai, yn cenhedlu i gaethiwed, yr hon yw Agar: canys yr Agar yma yw mynydd Sinai yn Arabia; ac y mae yn cyfatteb i'r Jerusalem sydd yn awr, ac y mae yn gaeth, hi a'i phlant.* EITHR Y JERUSALEM HONO UCHOD SYDD RYDD, YR HON YW EIN MAM NI OLL. CANYS YSGRIFENEDIG YW, LLAWENHA DI, YR ANMHLANTADWY, YR HON NID WYT YN EPPILIO; TOR ALLAN A LLEFA, YR HON NID WYT YN ESGOR: CANYS I'R UNIG Y MAE LLAWER MWY O BLANT NAG I'R HON Y MAE IDDI WR. *A ninnau, frodyr, megis yr oedd Isaac ydym blant yr addewid. Eithr megis y pryd hwnw, yr hwn a anwyd yn ol y cnawd a erlidiai yr hwn a anwyd yn ol yr Ysbryd, felly yr awrhon hefyd. Ond beth y mae yr Ysgrythyr yn ei ddywedyd? Bwrw allan y wasanaethferch, a'i mab: canys ni chaiff mab y wasanaethferch etifeddu gydâ mab y wraig rydd. Felly, Frodyr, nid plant i'r wasanaethferch ydym, ond i'r wraig rydd."* Dyma ddau gymmundeb, darlunir y naill fel gwraig brïod, a'r llall fel gwraig wrthodedig ag unig. Wrth y naill y golygir y genedl Iuddewig, a fu yn hir fwynhau rhagorfreintiau pobl ddetholedig Duw; ac wrth y llall y golygir yr Israel ysbrydol, eglwys Dduw o fewn y genedl hono. Y gyntaf a gysgodid trwy Agar, y wasanaethferch a brïodasid âg Abraham; a'r ail drwy Sarah, yr hon a fuasai yn hir yn anmhlantadwy ac unig. Y cyntaf, oedd y genedl Iuddewig mewn caethiwed dan y ddeddf, yr hon yr amcanai Duw ei bwrw allan, fel y bwriwyd Agar gan Abraham; yr ail oedd eglwys Crist, yr hon, megis Sarah, ydoedd rydd; a phlant yr hon, trwy ddygiad y dychweledigion o'r Cenedloedd i mewn, oeddynt i ddyfod yn fwy lluosog nag y buasai y genedl Iuddewig erïoed. Mae yr Iuddewon annychweledig fel Ismael, mewn caethiwed, ac wedi eu bwrw allan o ffafr Duw; tra y mae yr holl gredinwyr, Iuddewon a Chenhedloedd, fel Isaac, yn blant yr addewid, ac ettifeddion y bendithion addawedig. Oddiwrth yr eglurhad apostolaidd yma ar y brophwydoliaeth, gwelwn mai Jerusalem ysbrydol, Sïon, neu eglwys Crist, yw y cymmundeb a gyferchir yn Esa. 54. Ac wrth gydmaru Esa. 54, âg Esa. 60, gwelwn yn amlwg mai yr un cyfundeb a gyferchir yn y ddwy brophwydoliaeth; gan hyny y mae y drugeinfed o Esaiah hefyd yn gyfeiriedig at eglwys Crist, dan yr enw Sïon; ac i'r eglwys hon y mae yr holl addewidion wedi eu gwneuthur yn y pennodau olaf o brophwydoliaethau Esaiah.

I'r Sïon ysbrydol hon, eglwys Crist, y rhoddid yr addewid hon; *"Dy holl feibion hefyd fyddont wedi eu dysgu gan yr Arglwydd."*[1] Ar yr hwn ymadrodd y gwnaeth ein Harglwydd yr Esboniad canlynol; *"Y mae yn ysgrifenedig yn y prophwydi, A phawb a fyddant wedi eu dysgu gan Dduw.* POB UN GAN HYNY A GLYWODD GAN Y TAD, AC A DDYSGODD,

[1] Esa. 54. 13.

SYDD YN DYFOD ATTAF FI."[1] Yn awr, gan nad yw pawb o'r rhai a dderbyniasant yr Ysgrythyrau yn ddïau yn dyfod at Grist, rhaid mai dysgeidiaeth yr Ysbryd yw y ddysg ddwyfol hon sydd yn goleuo y deall, ac yn troi y galon. Nid oes neb sydd yn amddifad o'r ddysgeidiaeth hon yn ddinasydd o Sïon, ac yn aelod o eglwys Crist. Felly gan hyny, yn gymmaint a bod yr eglwys yn sanctaidd, a phob un o'i haelodau wedi ei ddysgu gan Dduw, felly y mae arfau ei milwriaeth i fod yn ysbrydol, nid yn gnawdol —moddion ysbrydol, ac nid moddion anianol a ddefnyddir i ddwyn i ben ei buddugoliaethau olaf a mwyaf penderfynol.

"*Fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd, gan ddywedyd, Wele y gwr a'i enw Blaguryn: o'i le hefyd y blagura, ac efe a adeilada deml yr Arglwydd.*"[2] Adeilad Duw yw yr eglwys,[3] yn yr hon y mae pob maen yn faen bywiol;[4] o'r hon y mae pob rhan yn breswylfa sanctaidd i'r Ysbryd;[5] ac o'r hon ni's gall un dyn fod yn gwneyd i fynu ran ond sydd yn dal yn ei gyffes ëofn o Grist, a'i hyder llawn ynddo ef hyd y diwedd.[6] Mae y deml hon i gael ei pherffeithio gan Grist, trwy ei Ysbryd, a thrwy y moddion a welo efe yn dda eu cyfodi ei hunan. Gan hyny, oddieithr bod y moddion a ddefnyddir gan yr Undeb er dwyn yn mlaen ffyniant yr eglwys, yn gyfryw âg a awdurdodir ganddo ef (yr hyn nid ydynt) y maent yn wrthwyneb i'w ewyllys ef yn ol y brophwydoliaeth uchod.

Mae rhagfynegiadau pellach am yr eglwys hon gan y Prophwydi, y rhai a gondemniant yr Undeb fel yr hanfoda yn bresenol yn ein gwlad ni.

Yn ol y brophwydoliaeth, y mae yr eglwys i edrych am dywalltiad o'r Ysbryd ar bob cnawd fel yr achos mawr o'i buddugoliaeth drwyadl:[7] gan hyny, pa beth bynnag sydd yn yr eglwysi yn tueddu i dristau a diffodd yr Ysbryd,—pa beth bynnag sydd yn gwneyd yr eglwysi yn fydol,—pa beth bynnag sydd yn eu harwain i bwyso ar fraich o gnawd yn hyttrach nag ar Dduw, y mae yn tueddu i luddias cyflawniad ei bnddugoliaethau addawedig. Ond, y mae yr Undeb yn gwneuthur hyn oll, fel y dangosaf yn ol llaw.

Yn ol y brophwydoliaeth, y mae yr holl genedloedd i ddylifo i eglwys Crist gan ei gogoniant ysbrydol, a'i phregethiad o'r Efengyl.[8] Ond y mae yr Undeb yn ei llygru, ac yn lluddias pregethiad yr Efengyl, a chan hyny y mae yr Undeb yn lluddias ei lledaeniad a'i llwyddiant.

Ond y mae un ymadrodd yn y Prophwydi yn teilyngu sylw neillduol, ar gyfrif ei bwysigrwydd ynddo ei hunan, ac o herwydd ei fod yn cael ei ddyfynu mewn byrbwylldra yn aml er cefnogi yr Undeb. Yn y 49ain o Esaiah yr ydym yn darllen fel y canlyn: "*Breninoedd hefyd fydd dy dadmaethod, a'u breninesau dy fammaethod; crymant i ti a'u hwynebau tu a'r llawr, a llyfant lwch dy draed.*" Cydsynia yr esponwyr goreu fod

1 Ioan 6. 45. 2 Zech. 6. 12, 13. 3 1 Cor. 3. 9. 4 1 Pedr 2. 5. 5 Eph. 2. 18.—22. 6 Heb. 3. 6. 7 Esa. 59. 21. Joel 2. 28—32. 8 Esa. 2. 2, 3; a 55. 5—12; a 60. 1—3, 12. Dan. 27.

y brophwydoliaeth yma yn golygu eglwys Crist. Felly y'i deallid gan Calfin, Vitringa, Cocceius, Piscator, Poole, Samuel Clarke, Nucculloch, Henry, Gill, Lowth, Scott, Barnes, a Hengstenberg.

Fe ddywedodd Duw yma am ei eglwys y bydd breninoedd yn dadmaethod, a'r breninesau yn fammaethod iddi. Nad yw y gair Hebraeg a gyfieithir yma *tadmaeth,* yn golygu dim mwy na gwrryw yn meithrin a welir yn amlwg wrth ei olrhain yn yr holl fanau y'i canfyddir, sef Num. 11. 12; Ruth 4. 16; 2 Sam. 4. 4; 2 Bren. 10. 1—5; Esther 2. 7. Ac nad yw y gair Hebraëg a gyfieithir *mammaeth* yn golygu dim mwy na benyw yn meithrin a welir wrth ei olrhain yn yr unig fanau ereill y mae i'w gael, Gen. 24. 59; a 32. 15; a 35. 8; Exod. 2. 7; 2 Bren. 11. 2; 2 Cron. 22. 11. Gan hyny, yn mha ystyr y mae breninoedd a breninesau i feithrin yr eglwys? Gan na's gall breninesau cyweddïawl ddylanwadu y Llywodraeth yn uniongyrchol mewn unrhyw wlad, ni's gallant feithrin yr eglwys namyn trwy eu duwioldeb personol; a chan y gall prïodasferch unrhyw frenin fod yn fammaeth i'r eglwys drwy ei duwioldeb personol heb fod unrhyw Undeb rhwng yr Eglwys a'r Wladwriaeth, y mae yn amlwg y gall brenin fod yn dadmaeth iddi yr un modd. Gan nad yw meithriniad brenines yn dal allan Undeb, fe allai nad yw meithriniad brenin yn arwyddo hyny ychwaith. Mae brenines yn dyfod yn fammaeth i'r eglwys trwy ei gwasanaeth personol; felly y gall brenin ddyfod yn dadmaeth iddi pan y gwnelo broffes gyhoeddus o Grist fel ei Waredwr; pan yr addefo ei ymostyngiad trylwyr i air Duw; pan fyddo ei ymarweddiad yn ddilynwiw; pan fyddo yn llywodraethu ei dylwyth yn ofn Duw; pan fyddo yn gwneuthur ei gyfeillion mwyaf mynwesol o ddysgyblion Crist; a phan fyddo drwy ei ddylanwad a'i gyfoeth yn cefnogi gorchwylion o haelioni a duwioldeb, ac felly yn cadarnhau eglwys Crist o fewn ei diriogaethau.

Fe ddichon i'r brenin fod yn dadmaeth i'r eglwys yn mhellach yn yr ymarferiad o'r awdurdod freninol, heb fod unrhyw Undeb rhwng yr eglwysi a'r Llywodraeth. Mewn undeb a'i Senedd, efe a all noddi aelodau eglwys Crist rhag trais, dïogelu iddynt ryddid i addoli, ac amddiffyn eu hawl i bregethu yr efengyl trwy ei deyrnas; a dïammeu mai y nawdd yma o eiddo llywodraeth, yw yr hyn a addewir yma i'r eglwys.

Ond, dadleuwyd yn mhellach, fod yn rhaid i'r brenin yn ei gymeriad o dadmaeth yr eglwys, nid yn unig ei dïogelu, ond ei sefydlu hefyd; bod yn rhaid iddo, nid yn unig ddïogelu i'w gweinidogion ryddid i bregethu, ond gweini cynnaliaeth iddynt hefyd; nid yn unig eu cysgodi hwy fel pob deiliaid dïeuog ereill rhag trais; ond eu doniaw hwy â rhagorfreintiau tu hwnt i bob deiliaid ereill: neu, mewn gair, gymeryd yr eglwys i Undeb a'r Llywodraeth.

Nad hyny yw ystyr y rhan yma o'r brophwydoliaeth sydd amlwg oddiwrth y geiriau a'i dilynant; "*Crymant i ti, a'u hwynebau tu a'r llawr,*

*a llyfant lwch dy draed.*" Mae y geiriau hyn yn dynodi parchedigaeth gostyngedig i eglwys Crist, hollol annghydwedd â phennogaeth eglwysig y Llywodraeth, yr hyn o angenrheidrwydd a ddilyna gynnaliad Gwladwriaethol gweinidogion Cristionogol. Er attal arglwyddiaeth o fewn arglwyddiaeth, ni chaniatta un lywodraeth i weinidogion yr Eglwys gael eu talu gan y Llywodraeth heb fod dan rëolaeth y Llywodraeth; ac y mae Undeb deddfwriaethol rhwng yr Eglwys a'r Wladwriaeth, a gynnwyso arbenicter y Wladwriaeth ar yr Eglwys, yn annghyson â'r brophwydoliaeth hon.

Mae yr un geiriau yn gymhwys yn cael eu defnyddio am ymostyngiad parchus breninoedd duwiol i Grist. Megis y dywedai Duw yma am ymddygiadau breninoedd tuag at ei eglwys. "Crymant i ti;" felly y dywaid efe am Grist, "Tywysogion hefyd a ymgrymant."[1]—"*Ië, yr holl freninoedd a ymgrymant iddo.*."[2] Megis yr addawai Duw yma am ymddygiad breninoedd tuag at ei eglwys, "*A lyfant lwch dy draed*:" felly y dywedodd efe gyda golwg ar Grist. "*A'i elynion a lyfant y llwch.*"[3] Gan hyny, os ydyw yr ymostyngiad gwylaidd o eiddo breninoedd i Grist, a addewir yma yn annghydweddol â'r meddwl am eu bod yn llywodraethu arno ef, felly, y mae yr unrhyw ymostyngiad gwylaidd o eiddo breninoedd a addewir i'r eglwys yn annghyson â'r meddwl eu bod yn llywodraethu arni. Megis y mae ymgrymu a llyfu y llwch ger bron Crist yn arwyddocau ufudd-dod gostyngedig iddo ef, felly y mae ymgrymu a llyfu y llwch o flaen yr eglwys, yn arwyddo ufudd-dod gostyngedig iddi. Ond, gan fod Undeb deddfwriaethol yr Eglwys a'r Wladwriaeth yn cynnwys arbenicter yr olaf, a bod rheolaeth ysbrydol yn annghydweddol âg ufudd-dod ysbrydol, yna y mae y rhagfynegiad hwn, y bydd i freninoedd roddi ufudd-dod gostyngedig i'r eglwys, yn datgan hefyd nad arferant arbenicter ysbrydol; neu, mewn geiriau ereill, na bydd Undeb deddfwriaethol rhwng yr Eglwys a'r Wladwriaeth pan y llwyr gwblheir y brophwydoliaeth hon.[4]

1 Esa. 49. 7. 2 Ps. 72. 11. 3 Ps. 72. 9.

4 "Fe'n dysgir yma," medd Vitringa, "y dylai breninoedd fod yn ddarostyngedig i'r eglwys a'i pharchu mewn gostyngeiddrwydd. *Docetur hoc in loco reges terra atque illustres homines qui olim ecclesiam oppugnavarant hoc tempore ei fore subjectos, et eam summisse veneraturos esse.*"—VITRINGA, *ad loc.*

*Ymgrymant, &c.* "Yr hyn a ddynoda y parch a'r mawrfri a fedda y gwŷr mawr hyn i eglwys Dduw, a'u hymostyngiad trylwyr i efengyl Crist a'i hordinhadau, a chyfreithiau a dysgyblaeth ei dŷ. Canys yna hwy a ddeuant yn aelodau o'r eglwys Gristionogol, a byddant dan ei llywodraeth yn hollol am bethau crefyddol, Dat. 3. 9; a 21. 24."—GILL.

*A llyfant, &c.* "Y mae hyn yn dynodi ymostyngiad tra isel breninoedd a thywysogion i'r eglwys, a'u mawr fri arni; eu parodrwydd i wneyd y swydd iselaf er ei llesäad, a'u gofal mawr am, a'u parch i'r gwaelaf o'i haelodau. Ps. 72. 9; a 102. 14."—GILL.

*Crymant*;—Addefant eu hunain yn blant yr eglwys, a rhoddant iddi yr anrhydedd dyledus oddiwrth blant i'w rhïeni."—SAMUEL CLARKE.

"Hwy a'th barchant ac a'th anrhydeddant yn fawr, a byddant yn dra difalch a pharod i ymostwng i ti."—POOLE.

"Gan roddi y parch trylwyraf i'r eglwys, heb geisio arglwyddiaethu ar ei ffydd; ond gwasanaethu i'w dyddanwch a'i llwyddiant, a'i hanrhydeddu er mwyn yr Arglwydd."—SCOTT.

Ond, yn mhellach; y mae y brophwydoliaeth hon yn condemnio yr Undeb a hanfoda yn awr yn y wlad hon, mewn modd arbenig, o herwydd ei bod yn arddangos gofal caredig, a pharch gostyngedig breninoedd tuag at Eglwys Crist. Yn ol y rhagfynegiad yma, y mae breninoedd i feithrin a pharchu, nid un ran yn unig o'r eglwys, ond yr oll o'r eglwys o fewn eu tiriogaethau; ond trwy yr Undeb, y mae y Wladwriaeth yn dyrchafu ac yn cyfoethogi un ran o Eglwys Crist, ac yn dïanrhydeddu ac yn darostwng y lleill oll; ac ni's gellir dweyd eu bod drwy hyny yn meithrin yr eglwys, mwy nag y gellid dweyd fod dyn yn meithrin teulu, a fyddai yn cyfoethogi un brawd tra fyddai yn darostwng y lleill oll i dlodi ac angenoctid. Os yw y Llywodraeth i ddyfod yn fammaeth i'r eglwys, dylai feithrin â gofal mam, a pharchu âg ymostyngiad plentyn, rydd eglwysi efengylaidd y deyrnas cystal a'r eglwysi gwladwriaethol Seis'nig. Ac ni ellir dywedyd fod y brophwydoliaeth hon wedi ei chwblhau yn Mrydain Fawr, hyd oni byddo y Llywodraeth gan ymwrthod yn dduwiolfrydig a'i Hundeb â'r Eglwysi Sefydledig, yn taenu ei hedyn dros yr holl eglwysi efengylaidd yr un ffunud â phob deiliaid di gamwedd ereill; ac aelodau y Llywodraeth, a'r pennadur ar yr orsedd, wedi eu dychwelyd trwy ras Duw, a'u cymhell gan wir dduwioldeb, yn defnyddio eu dylanwad personol i ddwyn achos y Gwaredwr rhagddo drwy y deyrnas.

---

## ADRAN VI.—YR UNDEB YN CAEL EI GONDEMNIO GAN Y TESTAMENT NEWYDD.

Gwelsom eisoes fod yr Undeb yn cael ei gondemnio wrth gyfraith Moses ac wrth brophwydoliaethau yr Hen Destament; ond y mae ei ddyfarniad mwyaf uniongyrchol a llym-dost i'w gael yn y Newydd. Y mae y dadleuwyr mwyaf gochelgar dros yr Undeb, yn dewis sefyll ar eu hamddiffyniad yn unig ar y tir yma, a dadleu fod y Testament Newydd yn ddystaw ar y peth hwn; ac am hyny treuliant eu hegnïon i geisio osgoi grym yr ymadroddion a gynnwysant ddyfarniad yr Undeb. Ond y mae diffynwyr glewach wedi haeru, bod ei awdurdod o'u tu hwy, ac yn dyfynu adnodau, yn y rhai y tybient fod Sefydliadau gwladol yn cael eu cyfiawnhau yn eglur. Un o'r cyfryw ydyw y ddammeg ganlynol, a geir yn Matt. 13:—"*Cyffelyb yw teyrnas nefoedd i rwyd a fwriwyd yn y môr, ac a gasglodd o bob rhyw beth. Yr hon, wedi ei llenwi, a ddygasant i'r lân, ac a eisteddasant, ac a gasglasant y rhai da mewn llestri, ac a fwriasant allan y rhai drwg.*" Mae y ddammeg yma yn ymddangos i ysgrifenydd zelog, megis pe dynodai "gymdeithas weledig yn cynnwys torfëydd o rai nad ydynt ysbrydol,"—cenedl fedyddiedig—Sefydliad cenedlaethol."[1] Nid yw ei draith yn dra eglur,

1 *Lectures on the Church of England*, lect. 4. p. 165.

ond gellid meddwl ei fod yn golygu wrth y rhwyd, eglwys genedlaethol, yn yr hon y mae y drwg a'r da i gyd aros yn dawel, fel y pysg da a'r rhai drwg yn y rhwyd. Ond, os dyna yw ei feddwl, y mae ei esponiad yn gwneyd i'r ddammeg wrth-ddweyd amryw o orchymynion eglur, yn y rhai y cymhellir yr eglwysi i ysgymuno aelodau beius, ac i gynnal cymmundeb yn unig â'r rhai ydynt yn bucheddu yn ol eu proffes.[1]

Megis y mae y meddwl fod y ddanmeg o'n blaen yn caniattau i eglwys oddef yn ei chymmundeb y drwg a'r da, yr anfoesol a'r rhinweddol, yr halogedig a'r duwiol, yr ymbleidiol a'r tangnefeddus, yn annghyson a'r gorchymynion uchod, felly hefyd y mae yn annghyson âg amcan y ddammeg ei hunan.

Os meddyliai y ddammeg bod i Sefydliad gwladwriaethol gynnull i'w ffald y da a'r drwg, bod i genedl gyfan gael ei dal yn y rhwyd eglwysig, yna ni's gallasai gael ei chyflawni dros y tri chân mlwydd cyntaf; a'i hiaith a fuasai, "nid cyffelyb *yw* teyrnas nefoedd;" ond "cyffelyb FYDD teyrnas nefoedd;" canys yn ddïau, nid oedd yn cael ei gwneyd i fynu o Sefydliadau gwladwriaethol y pryd hyny: ond nid yr eglwys, eithr athrawiaeth yr efengyl a ddynoda y rhwyd. "Y rhwyd yw yr Efengyl. Y pysgodwyr yw yr Apostolion. Mae pregethu Efengylaidd yn dwyn pawb at Grist. Mae yr Efengyl yn cynnull dynion o bob rhyw."[2] "Nid yr eglwys yn weledig nac anweledig, ond athrawiaeth yr apostolion y rhai a wnaed gan Grist yn bysgodwyr dynion, a gydmerir yma i rwyd."[3] Pan ddywedai ein Harglwydd wrth ei apostolion, "Mi a'ch gwnaf yn bysgodwyr dynion,"[4] mae yn ddïau ei fod yn golygu mai pregethiad yr Efengyl a fyddai eu rhwyd. Pan ysgrifenai Paul at y Corinthiaid, gan ddywedyd, "Mi a'ch deliais chwi drwy ddichell,"[5] ei rwyd oedd athrawiaeth yr Efengyl, ei ymarweddiad oedd defnyddiad y rhwyd. Gan hyny, y mae y ddammeg yma yn cael ei chwblhau pan fyddo rhyw Gristion, pwy bynnag a fyddo, yn llefaru am Grist yn y fath fodd ag i ennill rhyw rai yn ddiffuant i dderbyn y gwirionedd am dano, ac i argyhoeddi rhyw rai sydd eto yn annychweledig, o'i wirionedd.

Os dychymyga rhyw un fod y rhwyd yn dynodi yr eglwys am y dywedir bod teyrnas nefoedd yn gyffelyb i rwyd, a'u bod hwy yn tybied mai yr eglwys a olygir wrth deyrnas nefoedd, cymhwysed yr unrhyw ymresymiad at ddammegion ereill.

Yn adn. 24 yr ydym yn darllen, "Teyrnas nefoedd sydd gyffelyb i ddyn a hauodd had da yn ei faes," gan hyny yr eglwys yw yr hauwr hwn; nage, ond yn hyttrach, "Yr hwn sydd yn hau yr had da yw Mab y dyn."[6] Yn

1 Matt. 18. 15—17. Rhuf. 16. 17. 1 Cor. 5. 11, 13. 2 Cor. 6. 14, 17. Gal. 5. 12. 1 Thes. 3. 6, 14. Tit. 3. 10. Dat. 2. 14, 15. 2 "*Verriculum evangelium est...Piscatores apostoli sunt....Evangelica prædicatio omnes ad Christum adducit....Evangelium colligit omnis generis hominess.*"—BULLINGER *ad loc.* 3 WHITBY. 4 Matt. 4. 19. 5 2 Cor. 12. 16. 6 Gwel adn. 37.

adn. 44, darllenwn, "Cyffelyb yw teyrnas nefoedd i drysor wedi ei guddio mewo maes," &c.; ac yn adn. 45 "Drachefn, cyffelyb yw teyrnas nefoedd i farchnattäwr yn ceisio perlau têg," &c.. Felly, yr eglwys yw y trysor a'r pwrcaswr, yr hyn sydd ddisynwyr. Gan hyny, nid yw yr ymadrodd yn arwyddoccau bod yr eglwys yn gyffelyb i rwyd; ond bod y pregethiad o Grist, yn y gosodiad i fynu o'i deyrnas, neu ei freniniaeth ef yn y byd, yn yn gyffelyb i'r rhwyd yma. A chan mai fel hyn y mae, yna, *yn gyntaf,* gwelwn nad yw y ddammeg yn cyfiawnhau yr esgeulusiad o ddysgyblaeth mewn unrhyw eglwys, neu dderbyniad neb y gwybyddir ei fod yn annuwiol, i'r eglwys, canys amcan y pysgodwr yw dal y pysg da, ac nid y rhai drwg; a chan gynted ag y canfyddir y pysg drwg ar dyniad y rhwyd i'r lân, fe'u bwrir ymaith. Fel y mae y ddammeg yn llefaru am y Cristionogion proffesedig hyny, y rhai ni's gwyddys mai drygionus ydynt, yn hyttrach nag am y rhai ydynt annuwiolion amlwg. Ac, *yn ail,* ni's gall y ddammeg gyfiawnhau y trefniant Lloegraidd, yn yr hon y mae mabanod y genedl yn ddïwahaniaeth yn cael eu dwyn i'r eglwys trwy fedydd, am ei bod yn cyfeirio at effaith athrawiaeth Crist ar feddyliau dynion, ac nid effaith *sacrament* ar fabanaeth. Mor bell oedd ein Harglwydd o gyfiawnhau yn y ddammeg hon gyd-gymdeithas annidoledig y duwiol a'r digred mewn Sefydliad eglwysig wladwriaethol, fel mai yr unig beth a ddysgai yma, oedd, y byddai i lawer gymeryd arnynt dderbyn yr efengyl, y rhai ni's dychwelasid, ac ni's sancteiddiasid drwyddi; ac y bydd i'r cyfryw gael eu hysgaru oddiwrth gredinwyr ddydd y farn, er bod mewn cymdeithas annocheladwy â hwy yn awr.

Cymhwylliad arall dros Sefydliad a gyfodwyd oddiar ddammeg yr efrau a'r gwenith, yn y geiriau a ganlyn: "Ymgais a wreiddia yn aml yn y dybenion duwiolaf a dyhewydusaf, mewn zel dros Dduw (ond nid yn ol gwybodaeth ëangedig) i ddifreinio yr Iachawdwr dychweledig, a neillduo yn awr gymdeithas weledig o addolwyr, y rhai hefyd a fyddant yn gymdeithas bur. *Mewn geiriau ereill, ymgais cyn dyfodiad y cynhauaf i symmud yr efrau, er y gwaharddiad eglur i'r fath beth,* RHAG DIWREIDDIO Y GWENITH GYDA HWYNT, yw gwreiddyn pob Sectariaeth."[1] Sylwedd y cymhwylliad yma yw, tra y mae sectariaid, hyny yw, Ymneillduwyr, yn ymdrechu trwy ddysgyblaeth eglwysig i gadw purdeb eu heglwysi, yn erbyn ewyllys ein Harglwydd, bod y Sefydliad trwy oddef i'r annuwiol gael aros yn esmwyth o fewn ei chymmundeb, yn gweithredu yn ol ei rybudd ef, "Gadewch i'r ddau gyd dyfu hyd y cynhauaf." O ganlyniad, y mae y Sefydliad yn fwy ysgrythyrol, ac yn fwy cyson âg ewyllys Crist nag ydyw cynnulleidfa ymneillduedig. Goddefer i mi gyflwyno i'ch sylw y ddammeg a ddëonglwyd fel yna:—"*Teyrnas nefoedd sydd gyffelyb i ddyn a hauodd*

[1] *Lectures on the Church,* p. 26.

*had da yn ei faes; a thra yr oedd y dynion yn cysgu, daeth ei elyn ef ac a hauodd efrau yn mhlith y gwenith, ac a aeth ymaith. Ac wedi i'r eginyn dyfu, a dwyn ffrwyth, yna yr ymddangosodd yr efrau hefyd. A gweision gwr y ty a ddaethant ac a ddywedasant wrtho, Arglwydd, oni hauaist ti had da yn dy faes? o ba le gan hyny y mae yr efrau ynddo? Yntau a ddywedodd wrthynt, Y gelyn ddyn a wnaeth hyn. A'r gweision a ddywedasant wrtho, A fyni di gan hyny i ni fyned a'u casglu hwynt? Ac efe a ddywedodd, Na fynaf; rhag i chwi wrth gasglu yr efrau, ddiwreiddio y gwenith gyda hwynt. Gadewch i'r ddau gyd-dyfu hyd y cynhauaf; ac yn amser y cynhauaf y dywedaf wrth y medelwyr, Cesglwch yn gyntaf yr efrau, a rhwymwch hwynt yn ysgubau i'w llwyr losgi; ond cesglwch y gwenith i'm hysbubor.*" Rhoddes ein Harglwydd ei eglurhad ei hun i ni ar ar y ddammeg hon: "*Yr hwn sydd yn hau yr had da, yw Mab y dyn; a'r maes yw y byd; a'r had da, hwynt-hwy yw plant y deyrnas; a'r efrau yw plant y drwg; a'r gelyn yr hwn a'i hauodd hwynt, yw diafol; a'r cynhauaf yw diwedd y byd.*"[1]

Mae eglurhad ein Harglwydd yn ein galluogi i dynu rhyw addysg sicr oddiwrth y ddammeg hon gyda golwg ar ddysgyblaeth yr eglwysi, cystal a chyda golwg ar ysgariad yr annuwiol oddiwrth y credinwyr yn y diwedd. Y maes yn y ddammeg yw y byd, adn. 38; yr had da yw plant y deyrnas, adn. 38, *h.y.* teyrnas Crist, adn. 41. Mae ei deyrnas ef yn cael ei gwneyd i fynu yn hollol o wir gredinwyr: Matt. 5. 3; a 7. 21; a 11. 2; a 16. 19; a 19. 14, 23; a 21. 31. Luc 17. 21. Rhuf. 14. 17. 1 Cor. 4. 20. Eph. 5, 5. Col. 1. 13; a 4. 11; ac ni's defnyddir y gair yn yr Ysgrythyr i ddynodi y byd, na chydgrynöad yr eglwysi, ond gwir gredinwyr. Yr had da gan hyny, ydynt ddeiliaid teyrnas Crist. Yr efrau, neu y *zizania,* ydynt blant Satan, adn. 38, *h.y.* rhai annuwiol, 1 Ioan 3. 9, 10. Yr had da neu gredinwyr, a hauir yn y byd gan Grist, adn. 37, o herwydd bod yr holl Gristionogion wedi eu geni o'r Ysbryd, a'u creu yn Nghrist Iesu i weithredoedd da, Ioan 3. 5- Eph. 2. 10. Yr efrau, neu *zizania* a heuir yn mysg Cristionogion, nid gan Grist; ond gan Satan, *h.y.* y mae efe yn cymhell rhagrithwyr i wneuthur gau broffes o grefydd, yn lle troi yn ddiffuant at Dduw, adn. 25, 39. Y mae efe yn hau y rhai hyn *yn mysg Cristionogion,* drwy beri iddynt gael derbyniad i'r eglwysi, adn. 25. Gwna hyn *tra y mae y dynion yn cysgu.* Pan fyddo Cristionogion wedi myned yn esgeulus, gau athrawiaethau yn cael eu pregethu, dysgyblaeth wedi llacio, a phroffes yn beth hawdd eu gwneuthur, yna y mae rhagrithwyr yn ffurfio yr eglwysi, adn. 25. Pan fyddo Cristionogion yn effro, ac yn gweled y modd y mae gau broffes yn ffynu, y maent yn awyddus i ysgaru y rhai ysbrydol oddiwrth y lleill, ac i fwrw rhagrithwyr allan o'r eglwys, adn. 28. Ond y

[1] Matt. 13. 24, 37.

mae ein Harglwydd yn collfarnu yr ymgais, am yr arweiniai hyny i fwrw allan wir Gristionogion cystal a rhagrithwyr, adn. 29. Bu hyn mewn gwirionedd lawer gwaith er y pryd hyny; yr eglwysi Rhufeinaidd dan y rhith o ddiwreiddio hereticiaid, a lofruddiasant Gristionogion yn ddi rif. Ysgymmunid hwynt gan yr offeiriaid, ac yna cauid hwy allan o nawdd y gyfraith, a llofruddid hwynt gan y barnwyr. Diwreiddid yr had da, a gadewid y *zizania* i ymledu dros wyneb y maes. Y Sefydliad Seis'nig a ddylynodd siampl y Pabyddion. Trwy ei chanonau, ysgymmunai anghydffurfwyr; ac wedi eu hysgymmuno yr oeddynt yn agored i'w carcharu drwy awdurdod dyfyn-lythyr *de excommunicato capiendo*, hyd oni ymostyngent. Gadewid cydffurfwyr annuwiol i ymorfoleddu; ond y rhai duwiolaf yn y tir, a ddi arddelwid, ac a erlidid. Gan hyny, ein Harglwydd yn rhagweled y cyfryw ymgais, a ddywedodd, "*Gadewch i'r ddau gyd-dyfu hyd y cynhauaf.*" Dylai dynion annuwiol amlwg gael eu cau allan o bob eglwys, Matt. 18. 17. Rhuf. 16. 17. 1 Cor. 5. 11, 13. 2 Cor. 6. 14, 17. 2 Thes. 3. 6, 14. Nid y *zizania* sydd yn debyg i'r gwenith yw y rhai hyn; ond drain ac ysgall, yn nghylch y rhai ni's gall fod camsynied; a'r rhai yr archodd Crist yn bendifaddeu ar gael o honynt eu neillduo oddiwrth gymmundeb â'i bobl ef; ereill ydynt i'w gadael i Dduw.

Yn ol y ddammeg hon, ni's gall mai ewyllys ein Harglwydd yw, bod i blant y drwg gael eu derbyn yn rheolaidd i'w deyrnas ef, o herwydd y rhesymau canlynol:—1. Efe a'i darluniai ei hunan megis pe yr hauasi ei faes â had da yn unig. Gan hyny, ni ddodes efe neb yn yr eglwysi ond plant y deyrnas, gwir gredinwyr; ac ni's gall derbyniad dynion annuwiol i'r eglwysi fod yn unol â'i ewyllys ef, mwy nag y gallai heuad chwŷn gyda gwenith fod yn unol âg ewyllys yr hauwr. Gan mai gelyn y perchen a hauodd yr efrau, neu y *zizania*; felly y diafol, gelyn Crist, a ddug ddynion annuwiol i'r eglwysi: ac y mae y rhai sydd yn ei dwyn i fewn, yn gwneyd gwaith Satan; ac, megis yntau yn elynion Crist. 3. Fel yr oedd *zizania* yn cael ei hau yn y nos, tra yr oedd y gweision yn cysgu, felly y mae dynion annuwiol yn cael eu dwyn i'r eglwysi mewn canlyniad i gysgadrwydd a dirywiad gweinidogion a phobl, trwy yr hyn y dysgir gau athrawiaethau, ac y llaesir yn y ddysgyblaeth. 4. Fel na's gallasai y gweision gydsynio a heuad y *zizania*, yn gymmaint ag y'u darlunir yn rhyfeddu pan y'u gwelsant yn tyfu, felly ni's gall gweision ffyddlon Crist, yn ymwybyddus ddwyn dynion annuwiol i'r eglwysi.

Nid yw y ddammeg yn rhoddi awdurdod i esgeuluso gweinyddiad dysgyblaeth ar droseddwyr amlwg! 1. Oblegid bod y *zizania*, yr hwn ydoedd dra thebyg i'r gwenith, yn cynnrychioli y rhai, er eu bod yn annychweledig, ydynt yn gwneyd y fath broffes o grefydd, fel y mae yn dra anhawdd eu gwahaniaethu oddiwrth Gristionogion. 2. Am mai y rheswm pa ham na's dylid bwrw y rhai hyn o'r eglwysi, yw, rhag y byddai i wir Gristionogion

gael eu bwrw allan felly, adn. 29. Nid yw y rhesymau hyn yn gymhwysiadol at ysgymmuniad troseddwyr cyhoeddus. Pa fodd y gallasai ysgymmuniad Ananïas a Sapphira niweidio yr eglwys yn Jerusalem? Neu, pa fodd y gallasai yr eglwys yn Samaria gael câm drwy ddïarddelwad Simon y Swynwr? Neu, pa ham na ddylasai eglwysi Galatia dori ymaith y gau athrawon oeddynt yn dymchwelyd eu ffydd? Neu yr eglwys yn Mhergamos gau allan y Nicolaiaid?

Ond, onid yw y ddammeg yn dysgu y dylai rhai annuwiol gael eu derbyn i gymmundeb eglwysig, neu y dylai troseddwyr cyhoeddus gael eu goddef yn y meddiant o'r rhagorfraint hono, pa beth a ddysgir ynddi? 1. Y mae yn dangos tra yr ordeiniai Crist i'w eglwysi fod yn bur, bod Satan, trwy Sefydliadau, heblaw moddion ereill, yn llanw yr eglwysi â dynion annuwiol; a bod y rhai a'i cynnorthwyant yn y gwaith yma, yn gweithredu yn hyn megis gweision Satan, a gelynion Crist. 2. Y mae yn dangos am ddynion dïadgenedledig, a ddygir i'r eglwysi, tra yn gwneyd proffes weddus o grefydd, na's dylid eu bwrw allan, rhag wrth hyny, i Gristionogion gael eu bwrw allan yn lle rhai annychweledig.

Mae dichweiniau a fuant yn eglurhad cyflawn ar y perygl a nodai ein Harglwydd yma. Yn erbyn ei gyfarwyddyd ef, darfu i eglwysi mewn undeb â Gwladwriaethau, gymeryd arnynt ysgymmuno llawer a gyfrifid ganddynt hwy yn *zizania;* ond y canlyniad a fu, yn Mrydain ac ar y Cyfandir, fod yr efrau wedi eu gadael i ffynu, a'r gwenith wedi eu diwreiddio; plant y drwg wedi eu gorseddu mewn gallu, a dysgyblion Crist wedi eu dyfarnu ganddynt i'r arteithglwyd a'r fflamau, i garchar ac i ddëoliad.

Gan hyny, y mae y ddammeg yn amlwg yn dyfarnu y Sefydliad eglwysig yn y wlad hon; Yn gyntaf, am ei bod yn derbyn pob math o ddynion i'w mynwes; yn ail, am ei bod tra yn cymeryd arni gasglu yr efrau, wedi diwreiddio y gwenith; tra mewn enw yn bwrw allan gam-grêd ac ymbleidiaeth, wedi bwrw o'i chymmundeb amryw o weision enwocaf Crist. Och! y mae y Sefydliad y fynyd yma yn parhau i droseddu yn erbyn rhybudd ein Harglwydd yn y ddammeg hon; a thra y ceidw yn ei chymmundeb, rai amlwg mewn drygioni, hi a gau allan o'i chymmundeb lawer o Gristionogion duwiolfrydig a goleuedig.

A ganlyn ydyw iaith ei chyfreithiau y rhai ydynt yn awr mewn grym, ac wrth y rhai y mae ei holl glerigwyr yn rhwym:—"Pwy bynnag a ddywedo yn erbyn un ran o uchafiaeth teyrnol y frenines," "Pwy bynnag a haero fod y ffurf o addoliad Dwyfol a gynnwysir yn Llyfr Gweddi Gyffredin, yn cynnwys dim sydd yn wrthnaws i'r Ysgrythyrau," "Pwy bynnag a haero bod yr un o'r namyn un, deugain, erthyglau yn gyfeiliornus mewn un modd," "Pwy bynnag a haero y gall y gweinidogion hyny a ommeddant law-nodi y ffurf a'r dull o addoliad Dwyfol yn Eglwys Loegr, a'u hymlynwyr, mewn

gwirionedd gymeryd arnynt yr enw o eglwys arall," "Bydded ysgymmunedig, ac na's adferer ef ond gan yr Archesgob, wedi ei edifeirwch, a dadgyffesiad cyhoeddus o'r cyfryw gyfeiliornadau drygionus, o'i eiddo."[1] Gorchymynai ein Harglwydd i'r holl rai annuwiol amlwg gael eu hysgymmuno, ac y mae y Sefydliad yn goddef y cyfryw rai i nythu yn esmwyth yn ei mynwes. Ond, tra y gorchymynai ar fod i bawb o foesau da a broffesont ffydd ynddo ef gael aros heb aflonyddu arnynt, y mae y Sefydliad yn ysgymmuno llawer o wir Gristionogion, y rhai ydynt yn Ymneillduwyr duwiol; a hyd yn ddiweddar, yr oedd y Wladwriaeth er ei mwyn, yn eu poenydio â llawer o benydiau ac attaliadau tymhorol.

Prin y mae yn angenrheidiol dweyd un gair am y rhanau hyny yn yr Epistolau, ar y rhai y pwysa cefnogwyr Sefydliadau. Eu dyfyn nodi a fyddai yn ddigon er profi eu hannghyfaddasrwydd : dyma hwy :—"*Ymddarostynged pob enaid i'r awdurdodau goruchel; canys nid oes awdurdod ond oddiwrth Dduw; a'r awdurdodau y sydd, gan Dduw y maent wedi eu hordeinio. Am hyny, pwy bynnag sydd yn ymosod yn erbyn yr awdurdod, sydd yn gwrthwynebu ordinhad Duw: a'r rhai a wrthwynebant, a dderbyniant farnedigaeth iddynt eu hunain......Herwydd pa ham, angenrhaid yw ymddarostwng, nid yn unig o herwydd llîd, eithr o herwydd cydwybod hefyd.*"[2] "*Ymddarostyngwch oblegid hyn i bob dynol ordinhad, o herwydd yr Arglwydd: pa un bynnag ai i'r brenin, megis goruchaf; ai i'r llywiawdwyr, megis trwyddo ef wedi eu danfon, er dïal ar y drwgweithredwyr, a mawl i'r gweithredwyr da.*"[3] Sylwa un awdwr ar y rhanau hyn o'r Ysgrythyr fel y canlyn, "Iawn ddëongliad yr iaith hon, yn ei deongliad ymarferol, yn ei hystyr uniongyrchol, a'r hyn a arwyddocâ, a noda allan y sefyllfa wladwriaethol, sef y sefyllfa berthynasol â'r llywydd gwladol y mynai Duw i'w eglwys ei feddiannu, ac o ganlyniad cynnwysent yr arholiad a elwir yn gyffredin, 'yr Undeb rhwng yr Eglwys a'r Wladwriaeth'."[4] Ond, i'r gwrthwyneb, nid oes y berthynas leiaf rhwng yr ymadroddion hyn â phwnc yr Undeb. Cyfarwyddiadau oeddynt a roddid i ddeiliaid Cristionogol tywysog paganaidd annuwiol, ar ufuddhau o honynt i'w llywodraethwyr, am fod llywodraeth yn osodiad Dwyfol trwy yr hyn yn gyffredin y noddir y gonest, y diwyd, a'r tangnefeddus, rhag trais diddeddf. Ufuddhejd i'r gorchymynion hyn gan Gristionogion dros dri chan mlynedd,tra yr ydoedd Undeb yr Eglwys â Llywodraeth eilunaddolgar ac erlidgar,yn annichonadwy; ac yn ddïau, gellid ufuddhau iddynt gan Gristionogion yr un ffunud, dros dair mil o flwyddi eto i ddyfod, pan fyddo pob Undeb rhwng eglwysi a Gwladwriaethau wedi ei roi i fynu, fel peth beius a niweidiol. Pa ham na's gall Ymneillduwyr yn y wlad hon, a Christionogion yn yr Unol Daleithiau, fod

1 *Canons*, 2, 4, 5, 10. 2 Rhuf. 13. 1—5. 3 1 Pedr 2. 13, 14. 4 *Lectures on the Church*, p. 117.

mor alluog i ufuddhau i'r hyfforddiadau hyn ag ydoedd Cristionogion y tair ganrif gyntaf, i'r rhai ni's cynnygiwyd yr Undeb erioed? Yn wir, nid yw yr ymadroddion hyn yn meddu y berthynas leiaf âg Undeb; y maent yn ein rhwymo i ufuddhau i'r cyfreithiau, pan na byddo y cyfreithiau hyny yn gofyn dim genym a waherddir gan Dduw; i dalu y trethi a arddodir arnom, i amddiffyn iawndrefn, i feithrin ffyddlondeb deiliadol, ac i barchu y rhai ydynt mewn awdurdod, a dim chwaneg. Felly, gall aelod o Eglwys rydd ufuddhau iddynt mor drwyadl ag aelod o Sefydliad.

Ond, yr ydym heb ddarfod â'r adnodau crybwylledig eto: canys er y gellir cyflawni y dyledswyddau a ofynant oddiar law y deiliaid heb Undeb, y maent, yn ol Mr. Gladstone, yn arddodi ar y llywodraethwyr, y ddyledswydd o sefydlu yr Undeb. "Yn olaf," medd efe, "er cael allan pa fodd y penderfynir y pwnc hwn gyda golwg arnom ni fel Cristionogion. Pa beth a ddywaid y gair Dwyfol? Bod y tywysog yn dwyn y cleddyf er dïal ar y drwgweithredwyr, a mawl i'r gweithredwyr da.[1] Nid ydwyf yn dyfynu yr ymadrodd yma i'r un diben ag y bu yn cael ei ddefnyddio, er profi bod gan lywodraethwyr ddyledswyddau llwyr grefyddol, ond dadleuaf ei fod yn eu darlunio fel rhai appwyntiedig i amddiffyn deddf foesol yn ol eu holl foddion a'u cyfleusderau."[2] Yn gyntaf, y mae dernyn o dystiolaeth yr apostol Paul yn cael ei chymmysgu â dernyn o eiddo Pedr, ac yna y ddau ddernyn hyn o awduron gwahanol yn cael eu galw un "ymadrodd." Yr "ymadrodd" hwn, wedi ei gyfansoddi felly, a ddywaid y dylai llywiawdwyr gospi lladron, a llofruddion, tra y cymeradwyont ddynion gonest, sobr, a rhinweddol. Ac oddiar hyn y mae Mr. Gladstone yn casglu y dylent gefnogi moesoldeb *trwy bob moddion*, ac o ganlyniad, trwy Sefydliad. Rhaid bod achos yr Undeb yn anobeithiol, oni's gall gwŷr galluog gael un prawf Ysgrythyrol gwell na hynyna i'w gefnogi.

Yn olaf, dylwn chwilio i ragfynegiad a gynnwysir yn llyfr y Datguddiad, am yr hwn hefyd y tybiwyd ei fod yn cefnogi yr Undeb; a'r hwn a gynnwysir yn y geiriau canlynol:—"*A rhyfeddod mawr a welwyd yn y nef; gwraig wedi ei gwisgo â'r haul, a'r lleuad dan ei thraed, ac ar ei phen goron o ddeuddeg seren......A hi a esgorodd ar fab gwrryw, yr hwn oedd i fugeilio yr holl genhedloedd â gwïalen haiarn: a'i phlentyn hi a gymerwyd i fynu at Dduw, ac at ei orseddfainc ef......A bu rhyfel yn y nef; Michael a'i angelion a ryfelasant yn erbyn y ddraig, a'r ddraig a ryfelodd a'i hangelion hithau......A bwriwyd allan y ddraig fawr, yr hen sarph, yr hon a elwir Dïafol a Satan, yr hwn sydd yn twyllo yr holl fyd; efe a fwriwyd allan i'r ddaiar, a'i angelion a fwriwyd allan gydag ef......A phan welodd y ddraig ei bwrw i'r ddaiar, hi a erlidiodd y wraig a*

1 Rhuf. 13. 14. 1 Pedr 2. 14. 2 *The State, &c.*, Vol. 1. p. 152.

*esgorasai ar y mab; a rhoddwyd i'r wraig ddwy o adenydd eryr mawr, fel yr ehedai hi i'r diffaethwch, i'w lle ei hun......A'r sarph a fwriodd allan o'i safn, ar ol y wraig, ddwfr megis afon, fel y gwnai ei dwyn hi ymaith gyd a'r afon.* A'R DDAIAR A GYNNORTHWYODD Y WRAIG, *a'r ddaiar a agorodd ei genau ac a lyncodd yr afon, yr hon a fwriasai y ddraig allan o'i safn.*"[1] At hyn y cyfeiriai awdwr enwog a galluog y "Darlithiau ar y Sefydliad o Eglwysi Gwladwriaethol" yn yr ymadroddion canlynol:—"Efallai fod Cystenyn yn gweled y byddai iddo drwy sefydliad addysg Gristionogol gyffredinol, wneyd y ddarbodaeth oreu er lleshad cymdeithasol ei bobl, ac er gweinyddiad llwyddiannus ei negeseuon gwleidyddol a dinesig ei hunan. Oni's gallwn amddiffyn diffuantrwydd ei egwyddor fel dyn, nyni a allwn o leiaf, gydnabod iachusrwydd ei wladweiniaeth fel pennadur, ac er bod y diffyniad yma yn gadael yr anaf o annuwioldeb, a rhagrith gwladweinyddol ar goffadwriaeth Cystenyn, nid yw yn dodi un anurddiant ar gydsyniad y blaid arall yn y trefniant pwysig hwn, hyny yw, yr eglwys, yn ei chymeradwyaeth o'r cynnygion a wnelai efe i'r Cristionogion. *Yr ydym yn darllen am y ddaiar yn cynnorthwyo y wraig; ond ni's darllenwn yn un man mai dyledswydd y wraig yw gwrthod y cynnorthwy hwn.*"[1] Y mae geudeb y cymhwylliad yma yn eglur. Os wrth "y ddaiar" y golygir y boblogaeth Ewropaidd yn gyffredinol, a bod "y wraig" yn cynnrychioli eglwys Crist, dengys y gall yr eglwys dderbyn cymhorth oddiwrth y bobl mewn unrhyw wlad, ond gadewir natur y cynnorthwy hwnw yn anmhenderfynol. Fe ddichon ei bod yn ddyledus ar y cenedloedd gynnorthwyo yr eglwys mewn un ffordd, ond yn annghyfreithlawn ceisio ei chynnorthwyo mewn ffordd arall. Gall fod yn gyfreithlawn ei hamddiffyn rhag trais trwy gyfreithiau uniawn; sefydliadau rhydd, a hedd-swyddogaeth effeithiol, tra y mae yn afiawn ei llyffetheirio âg Undeb deddfwriaethol; fel y gall fod yn iawn cynnorthwyo cyfaill mewn cyfyngder, tra y mae yn afiawn arfer twyll na geudeb ar ei ran. Yn wir, y mae y meddylrith o nawdd tadogol y Llywodraeth yn hollol estronaidd i'r delweddiad a ddefnyddir yma. Yn y brophwydoliaeth, dilynir yr eglwysi yn ffoi i'r diffaethwch, pa fodd gan hyny y gall ei bod yn Sefydliad gwladwriaethol? A chan fod y ddaear, *h.y.*, y bobl, yn cynnorthwyo yr eglwys, pa beth a all fod yn cael ei arddangos drwy yr afon a fygythiai ei distrywio onid rhyw erledigaeth oddiwrth Lywodraethau? Fel nad yw y brophwydoliaeth, o'i deall felly, yn cynnwys rhagfynegiad y byddai i'r eglwysi gael eu sefydlu; ond y byddai i'r eglwysi rhydd, pan y'u herlidid gan y Llywodraeth, gael eu cynnorthwyo gan y bobl.

Yn ol Mr. Elliott, golyga y wraig y wir eglwys etholedig o bedair mil a saith ugein-mil, neu y cyntaf anedigion, y rhai y mae eu henwau yn ysgrif-

[1] Dat. 12. 1, 5, 7, 9, 13—16. [2] *Lectures on Establishments*, pp. 110, 111.

enedig yn y nefoedd:[1] un ffyddlawn bob amser yn y galon, ac yn mhob athrawiaeth hanfodol. Y plentyn a anwyd ydoedd yr amherawdr Cystenyn;[2] y ddraig yw Satan; a'i erledigaeth ar y wraig ydoedd yr erledigaeth Ariaidd ar wir Gristionogion dan yr amherawdr Custeint, a'i olynwr Valens; hyny yw, *erledigaeth y Puritaniaid gan y Sefydliad.*[3] Wrth ffoedigaeth y wraig i'r diffaethwch y golygir, "neillduad y wir eglwys oddiwrth y gweddill o'r byd; anweledigrwydd, o ran ei haddoliad cyhoeddus, ac amddifadiad o bob moddion cynnaliaeth ysbrydol."[4] "Dechreuai eglwys ysbrydol Crist, y gymdeithas fendigedig o'r holl ffyddloniaid, ffoi tua'r diffaethwch yn fuan ar ol sefydliad Cristionogaeth yn yr amherodraeth Rufeinig, a thrwy yr haner canrif a ddilynai, neu, mewn geiriau ereill, dechreuai ddiflanu yn gyflym o ran ei nodweddau arbenig o ŵydd y cyffredin."[5] Wrth y llifeiriant a fwrid allan o safn y ddraig, y golygid, goresgyniad yr amherodraeth gan y Visigothiaid, y Gothiaid, a'r Vandaliaid.[6] A chynnorthwyad y wraig gan y ddaear yw y cynnorthwy a roddid i'r wir eglwys y pryd hyny gan y Rhufeiniaid. "Er fod pobl Rhufain wedi myned yn dra choelgrefyddol a daearol, eto hwy a fuant yn wasanaethgar i eglwys Crist yn ei chyfyngder presenol. Yn y rhyfeloedd gwaedlyd a pharhaus hyny a fuant ar gemmaes y byd Gorllewinol, y lluoedd goresgynol anwar, a deneuid gymmaint, neu a lyncid i fynu, megis yn y tir a oresgynent, fel yr oedd yn rhaid eu cydgorphori megis un bobl â'r goresgynedig, er gwneyd i fynu elfenau angenrheidiol y breniniaethau. Ac yn y cydgorphoriad yma, collwyd nid yn unig eu sefydliadau, eu defodau, a'u hieithoedd cyntefig, ond eu crefydd hefyd. Y llwythau olynol, pa un bynnag ai Visigothiaid, Ostrogothiaid, Heruliaid, Huniaid, Vandaliaid, neu y Burgundodiaid, a ymwrthodent â'u paganiaeth am Gristionogaeth.[7]

Yn ol yr Athraw Stuart, yr eglwys yw y wraig; y Messïah yw ei mab; Satan yw y ddraig; yr erledigaeth ar Gristionogion a ddilynodd bregethiad cyntaf yr Efengyl, yw yr erledigaeth a grybwyllir yn adn. 13; enciliad y prif Gristionogion i'r lleoedd mwyaf annghysbell o ffordd yr erledigaeth, yw y ffoedigaeth i'r diffaethwch a grybwyllir yn adn. 14; y llifeiriant a fwrir ar ei hôl yn ei ffoedigaeth, adn. 15, yw yr erledigaeth gynnyddol ar Gristionogion gan yr Iuddewon: a gallu gwladol a milwraidd y Rhufeiniaid yn disgyn ar yr Iuddewon y pryd hwn gyda grym mawr, gan eu gorfodi i geisio eu dïogelwch personol eu hunain, yn hyttrach nag arllwys eu dïaledd ar y Cristionogion, a arwyddoceir yma trwy fod y ddaear yn cynnorthwyo y wraig.[8]

Mae yr esponiadau hyn yn ddigonol i ddangos mor orwag raid fod y cais

1 *Horae Apocalypticae, by Rev. E. Elliott, 2nd edit.* Vol. 3. pp. 7, 8. 2 Pp. 19, 20. 3 Pp. 31, 32. 4 P. 34. 5 Pp. 34, 35. 6 Pp. 47—49. 7 P. 51. 8 *Stuart's Commentary on the Apocalypse," ad loc.*

i dynu cymhwylliad oddiwrth y brophwydoliaeth hon dros yr Undeb rhwng yr Eglwys a'r Wladwriaeth. Os yr esponiad cyntaf a gymeradwyir, yr oedd y ddaear yn cynnorthwyo y wraig, neu y bobl yn cynnorthwyo yr Eglwys, pan oedd pobl Rhufain, y rhai o'r blaen, trwy eu Hariaeth, a yrasant yr eglwys i'r diffaethwch, yn cyfnewid paganiaeth y Gothiaid a'r Vandaliaid yn awr, i'w geu-Gristaeth eu hun. Os yr olaf a ddewisir, cynnorthwyai y ddaear y wraig, neu y bobl yr eglwys, pan ddarfu i'r byddinoedd Rhufeinaidd gan oresgyn Judea, a gwarchae ar Jerusalem, attal creulonder eu herlidwyr Iuddewig. Yn y naill enghraifft, yr oedd yr Eglwys Iuddewig yn erlid y Cristionogion, yn y llall, yr oedd yr Eglwysi Sefydledig Ariaidd yn eu gyru o'r golwg; yn y naill na'r llall, nid oeddynt yn ymheulo yn ffafr unrhyw lywodraeth freninol; ac am hyny, ni ddyru yr un o'r esponiadau uchod y gefnogaeth leiaf i'r Undeb rhwng yr Eglwysi Prydeinaidd a'r Wladwriaeth.

Pe byddai y rhanau blaenorol o'r ysgrythyr o'r ddau Destament wedi eu hesbonio yn gywir yn ffafr yr Undeb, arosodent rwymedigaeth ar bob Llywodraeth ar unwaith, a than bob amgylchiadau i gyfodi Sefydliad, neu roddi eu swyddau i fynu i ddwylaw ereill. Ond y mae hyd yn nod yr ymlynwyr mwyaf trylwyr wrth yr egwyddor yn cilio yn ol oddiwrth y casgliad yma. Mr. Gladstone a addefa fod dyledswydd y Llywodraeth yn y peth yma yn cael ei phenderfynu gan amgylchiadau. "Mae yn wir bod yn rhaid cyfyngu rhwymedigaethau y Llywodraeth i grefydd, yn ol y ffurflywodraeth a fyddo mewn grym yn y wlad."[1] Gan hyny, os bydd y ffurflywodraeth yn gwahardd Sefydliad, megis yn yr Unol Daleithiau, y mae dyledswydd y Llywodraeth i'w sefydlu yn darfod. Ond, gan na gall cyfraith dyn wneuthur deddf Duw yn ddirym, os gall y ffurflywodraeth a fyddo mewn gwlad droi heibio y ddyledswydd i gyfodi Sefydliad, ni's gall fod gorchymyn Dwyfol am ei chyfodiad; ac yn ol casgliad cyfiawn Mr. Gladstone, y mae yr holl destynau a ddyfynwyd, yn profi bod y cyfryw orchymyn yn cael ei gam-gymhwyso. Od oes orchymyn Dwyfol, yn ol yr hwn y gofynir i Lywodraethau sefydlu eglwysi Cristionogol, ni's gall y ddyledswydd hon fod yn ddigwyddol ar unrhyw amgylchiadau: y mae yn gymmaint dyledswydd sefydlu eglwysi yn Nghanada ag yn Mrydain Fawr; ac yn yr India fel yn Nghanada. Dangosai synwyr Mr. Gladstone iddo bod hyn yn anmhossibl. Fel hyn y dywaid. "Yr egwyddor, ar yr hon yn unig, hyd y gallaf fi amgyffred, y gellir llywodraethu ein trefedigaethau, a llefaru yn gyffredinol, yw trwy sicrhau ewyllys da eu trigolion: swyddogaeth uchaf y Llywodraeth, o barth iddynt hwy, debygid, ydyw hyn; cyfryngu rhwng y gwahanol elfenau o'r rhai y mae eu cylchoedd cymdeithasol yn gyfansoddedig, ac ymdrechu yn dyner i roddi goruchafiaeth foesol i'r ardderchocaf ar y gwaelaf

1 *The State, &c.* Vol. 1. p. 300.

o'r elfenau hyny;"[1] dyma osodiad hollol annghyson â'r meddylrith o rwymedigaeth osodedig trwy air Duw, ar bennaethiaid i sefydlu crefydd.

Ar y llaw arall, y mae yr awgrymiadau sydd yn y Testament Newydd, bod Duw yn gofyn ysgariad yr eglwysi Cristionogol oddiwrth y Wladwriaeth, yn eglur.

Gadewch i ni sylwi yn gyntaf ar dystiolaeth ein Harglwydd wrth Pilat am natur ei freniniaeth, yr hon a gynnwysir yn y ddwy hanes gan Luc ac Ioan.—"*A'r holl luaws o honynt a gyfodasant, ac a'i dygasant ef at Pilat: ac a ddechreuasant ei gyhuddo ef, gan ddywedyd, Ni a gawsom hwn yn gwyr-droi y bobl, ac yn gwahardd rhoi teyrnged i Cesar, gan ddywedyd mai efe ei hun yw Crist frenin. A Philat a ofynodd iddo ef, gan ddywedyd, Ai ti yw Brenin yr Iuddewon? Yntau a attebodd iddo, ac a ddywedodd, Yr wyt ti yn dywedyd. A dywedodd Pilat wrth yr Archoffeiriaid a'r bobl, Nid wyf fi yn cael dim bai ar y dyn hwn.*"[2] Cyhuddid ein Harglwydd o arhoni ei fod ef yn frenin yr Iuddewon, ac fel brenin, yn arhoni teyrnged ganddynt, ac yn gwarafun i'r Iuddewon dalu teyrnged i'r amherawdr Rhufeinaidd Tiberius. Pilat, gan hyny, fel llywydd, a ofynai iddo ai gwir oedd y cyhuddiad, ei fod yn arhoni bod yn frenin yr Iuddewon. Yr Iesu a addefai ei wirionedd, ac eto a eglurai natur ei hawliad yn y fath fodd, fel y gwelai Pilat ei fod yn ddigon cydweddol â theyrnasiad yr amherawdr, ac yn y canlyniad efe a dystiolaethodd nad oedd efe yn ei gael ef yn euog o un camwedd yn erbyn y gyfraith Rufeinaidd.

Y mae yn eglur oddiwrth yr hanes yma o'r eiddo Luc, yn gyntaf, i'r Iesu arhoni bod yn frenin yr Iuddewon, yn ol y cyhuddiad a ddygid i'w erbyn gan ei elynion; ond, yn ail, ei bod y fath arglwyddiaeth ag a allasai gydfodoli âg arglwyddiaeth yr amherawdr. Ond, ni buasai arglwyddiaeth fydol yn gydweddol â hi. Arglwyddiaeth yr amherawdr, yr hon a ennillasid trwy oresgyniad, a gyfrwymasid trwy gyfreithiau amherodrol, oedd yn cael ei chynnal drwy drethiad, ac a orweddai yn y diwedd ar orfodaeth. Pe buasai yr Iesu yn arhoni bod yn frenin yr Iuddewon yn yr un ystyr ag yr oedd Tiberius yn frenin iddynt, yna buasai yn rhaid gosod ei gyfreithiau ef yn lle cyfreithiau Rhufain, buasai ei hawl ef i drethu y genedl at draul ei lywodraeth, yn rhwym o ddistrywio hawl yr amherawdr, a buasai raid rhoddi yr hawl hono mewn grym trwy ei fyddin. Pe felly, buasai Pilat dan yr angenrheidrwydd i'w gyhoeddi yn elyn i Cesar; a phan y cawn ni y rhaglaw yn lle hyny yn tystio nad oedd efe yn cael un bai ynddo, y mae yn amlwg nad oedd efe yn ol barn y rhaglaw, yn cymeryd arno osod mewn grym unrhyw ffurf newydd o gyfreithiau gwladol; nad oedd efe yn amcanu cynnal ei lywodraeth drwy drethiad; ac na byddai iddo gasglu cyllid drwy drais.

1 *The State, &c.*, Vol. 2. p. 313. 2 Luc 23. 1—4.

Y mae yr hanes gan Ioan yn cyflëu y ffeithiau hyn mewn goleu eglurach fyth :—"*Yna Pilat a aeth drachefn i'r dadleudy, ac a alwodd yr Iesu, ac a ddywedodd wrtho, Ai ti yw Brenin yr Iuddewon? Yr Iesu a attebodd iddo, Ai o honot dy hun yr wyt ti yn dywedyd hyn, ai ereill a'i dywedasant i ti am danaf fi? Pilat a attebodd, Ai Iuddew ydwyf fi? Dy genedl dy hun, a'r archoffeiriaid a'th draddodasant i mi. Beth a wnaethost ti? Yr Iesu a attebodd, Fy mreniniaeth I nid yw o'r byd hwn. Pe o'r byd hwn y byddai fy mreniniaeth I, fy ngweision I a ymdrechent, fel na'm rhoddid i'r Iuddewon: ond yr awrhon nid yw fy mreniniaeth I oddi yma. Yna y dywedodd Pilat wrtho, Wrth hyny ai Brenin wyt ti? Yr Iesu a attebodd, Yr ydwyt ti yn dywedyd mai Brenin wyf fi. Er mwyn hyn y'm ganed, ac er mwyn hyn y daethum i'r byd, fel y tystiolaethwn i'r gwirionedd. Pob un a'r sydd o'r gwirionedd, sydd yn gwrando fy lleferydd I. Pilat a ddywedodd wrtho, Beth yw gwirionedd? Ac wedi iddo ddywedyd hyn, efe a aeth allan drachefn at yr Iuddewon, ac a ddywedodd wrthynt, Nid wyf fi yn cael dim achos ynddo ef.*"[1] Cyhuddid yr Iesu o honi ei fod yn frenin. Pilat, gan hyny, a ofynodd ai Brenin yr Iuddewon oedd efe; ond, cyn yr attebai yr Iesu hyny, efe a ofynai, a oedd efe yn gofyn hyny oddiar ryw beth a dynasai ei sylw ef ei hunan gan amcanu debygid, gyfeirio sylw Pilat, ac ereill hefyd, at y ffaith, mai malais yr offeiriaid, ac nid unrhyw gamymddygiad o'r eiddo ef, a barasai iddynt ei gymeryd i ddalfa. Pilat a'i hattebai, nad oedd ef Iuddew; ond bod yr offeiriaid wedi ei ddwyn ef o flaen y frawdle hono; ac a ofynai pa beth oedd ei gamwedd ef? Yna yr Iesu a attebodd i'r cwestiwn cyntaf, pa un a oedd efe yn frenin yr Iuddewon, fel hyn: "*Fy mreniniaeth I nid yw o'r byd hwn; pe o'r byd hwn y byddai fy mreniniaeth I, fy ngweision I a ymdrechent, fel na'm rhoddid i'r Iuddewon: ond yr awrhon nid yw fy mreniniaeth I oddi yma.*" Amcan ei atteb oedd, ei ddïeuogi ei hun oddiwrth y cyhuddiad o wrthryfel. Yn awr, gallasai wneyd hyn mewn tair ffordd. Efe a allasai wadu ei honiad o fod yn frenin, ac yna buasai yr holl achwyniad yn disgyn i'r llawr; neu, gan honi ei oruchafiaeth Dwyfol, efe a allasai ddatgan ei fod ef yn frenin ysbrydol a gwladol yr Iuddewon, i'r hwn yr oedd yr amherawdr yn rhwym i ymostwng; ac yna, buasai raid i Pilat naill ai dyfod yn ddysgybl iddo, neu ei gyhoeddi yn euog o wrthryfel; neu, yn drydydd, efe a allasai honi ei fod yn frenin yr Iuddewon, ac eto, addef awdurdod amherodrol Tiberius, trwy egluro mai ysbrydol, ac nid gwladol oedd ei freniniaeth ef: bod y fath ysgariad trwyadl rhwng yr arglwyddiaeth ysbrydol a'r un wladol, fel na's gallai y naill ymyraeth â'r llall; ac yn y canlyniad, na's gallasai ei fod ef yn un gwrthymgeisydd i'r amherawdr. Ac mewn gwirionedd, dyma oedd sylwedd ei attebiad:

[1] Ioan 18. 33—38.

—*"Fy mreniniaeth I nid yw o'r byd hwn: pe o'r byd hwn y byddai fy mreniniaeth I, fy ngweision I a ymdrechent, fel na'm rhoddid i'r Iuddewon: ond yr awrhon nid yw fy mreniniaeth I oddi yma.*" Mae yn amlwg fod ein Harglwydd wedi goddef i Pilat ei ddeall ef felly; oblegid, pan ofynodd Pilat yn mhellach;—"Wrth hyny ai Brenin wyt ti?" efe a attebodd, "Yr ydwyt ti yn dywedyd (yn iawn) mai Brenin ydwyf fi." Pan oedd efe yn sefyll yno dan y cyhuddiad o godi gwrthryfel, am ei fod yn ei alw ei hun yn frenin yr Iuddewon, efe a addefodd yn rhwydd, ei fod ef wedi gwneyd yr honiad hwnw; ac eto efe a gyhoeddid yn llwyr ddiniwed gan Pilat, yr hyn ni's gallasai ei wneyd oni buasai ei fod yn deall bod ei arglwyddiaeth yn hollol ysbrydol. Achwyniad yr offeiriaid oedd, *"Ni a gawsom hwn yn gwyr-droi y bobl, ac yn gwahardd rhoddi teyrnged i Cesar, gan ddywedyd mai efe ei hun yw Crist Frenin."*[1] *Atteb yr Iesu yw, "Fy mreniniaeth I nid yw o'r byd hwn;* nid wyf yn arhoni un deyrnged, nac yn gwahardd un deyrnged i Cesar." Eu cyhuddiad hwy oedd, "Y mae efe yn cyffroi y bobl, gan ddysgu trwy holl Judea."[2] Ei atteb ef oedd, *"Fy mreniniaeth I nid yw o'r byd hun;* nid wyf yn cyfodi byddinoedd i amddiffyn fy iawnderau." Eu haeriad hwy oedd, *"Pwy bynnag a'i gwnelo ei hun yn frenin, y mae yn dywedyd yn erbyn Cesar."*[3] Ei atteb oedd, *"Ni yw fy mreniniaeth I o'r byd hwn;* ac am hyny, ni's gallaf fod yn elyn i freniniaeth Cesar." Pe buasai breniniaeth Crist i gael ei chynnal trwy drethiad a thrwy drais, fel pob galluoedd gwladol; yna buasai ei orsedd ef yn rhwym o ddymchwelyd yr eiddo Cesar; ac felly, pan roddes efe foddlonrwydd i Pilat, nad oedd efe yn elyn i Cesar, trwy dystio nad oedd ei freniniaeth ef o'r byd hwn, y mae yn amlwg nad yw i gael ei chynnal trwy drethiad a thrais. Yn mhellach deallai Pilat fod ein Harglwydd yn golygu na byddai i'w deyrnas ef gael ei chynnal felly byth; canys pe dywedasai ein Harglwydd, Nid yw fy mreniniaeth I yr awrhon o'r byd hwn, ac nid ydyw yn awr yn cael ei chynnal trwy drethiad a thrwy drais, gwelsai Pilat ar unwaith, y gallasai ddyfod yn fuan yn ddigon crêf i ddyfod yn freniniaeth wladol, cynnaliedig trwy drais. A chan y byddai iddi y pryd hyny ddymchwelyd gorsedd Cesar, buasai yn ei deimlo ei hun yn rhwym i gollfarnu ein Harglwydd. Er ei amddiffyn ei hun oddiwrth yr achwyniad o fod yn wrthymgeisydd â'r amherawdr Rhufeinig, yr oedd yn angenrheidiol iddo hysbysu Pilat, y byddai ei arglwyddiaeth ef mor hollol ysbrydol, fel na's gallai byth ymyraeth âg iawnderau yr amherawdr. Ac efe a argyhoeddai Pilat o hyn, drwy ddywedyd, *"Fy mreniniaeth I nid yw o'r byd hwn."* Gan hyny, dyma ystyr brïodol a chyfreithlon ei eiriau: ac ynddynt efe a'n dysgai yn y modd mwyaf difrifol, BOD EI FRENINIAETH EF YN WAHANOL HOLLOL AC AM BYTH ODDIWRTH ARGLWYDDIAETH WLADOL; EI FOD EF YN LLYW-

1 Luc 23. 2. 2 Luc 23. 5. 3 Ioan 19. 12.

ODRAETHU AR GALONAU A CHYDWYBODAU DYNION; Y BYDD IDDO SEFYDLU AC AMDDIFFYN EI LYWODRAETH DROS BYTH HEB GYMHORTH Y TRETHWR A'R MILWR; NA BYDD IDDO ARFER UNRHYW ORFODAETH, NA BYTH DDEFNYDDIO GRYM MILWRAIDD.

Ond y mae yr Undeb yn Lloegr, yr hwn a amcenir i ddwyn ei lywodraeth yn mlaen trwy gynnal ei weinidogion, yn ceisio y diben hwnw trwy drethu y deyrnas er cynnaliaeth ei weinidogion, ac yna yn arfer trais er cefnogi y trethiad hwnw. Tystiai Crist wrth Pilat na byddai i'w deyrnas ef byth gael ei chynnal trwy drethiad a thrwy drais; ac y mae eglwysi Lloegr yn datgan y bydd iddi gael ei chynnal felly. Efe a dystiai am ei deyrnas mai ysbrydol yn unig a fyddai; y maent hwythau yn tystio y bydd hi yn ysbrydol a gwladol; felly y mae eu penderfyniad hwy mewn gwrthwynebiad amlwg i'w ewyllys ef.

Rhan bwysig arall o'r Ysgrythyr yn yr hon y mae ysgariad trwyadl gweinyddiad ysbrydol yr eglwysi oddiwrth weinyddiad gwladol y llywodraeth yn cael ei ddal allan gan ein Harglwydd, yw yr un canlynol:—"*Yna yr aeth y Phariseaid, ac a gymerasant gynghor pa fodd y rhwydent ef yn ei ymadrodd. A hwy a ddanfonasant atto eu dysgyblion, yn nghyd â'r Herodianiaid, gan ddywedyd, Athraw, ni a wyddom dy fod yn eirwir, ac yn dysgu ffordd Duw mewn gwirionedd, ac nad oes arnat ofal rhag neb: oblegid nid wyt ti yn edrych ar wyneb dynion. Dywed i ni gan hyny beth yr wyt ti yn ei dybied? Ai cyfreithlawn rhoddi teyrnged i Cesar ai nid yw? Ond yr Iesu a wybu eu drygioni hwy, ac a ddywedodd, Pa ham yr ydych yn fy nhemtio I, chwi ragrithwyr? Dangoswch i mi arian y deyrnged. A hwy a ddygasant atto geiniog. Ac efe a ddywedodd wrthynt, Eiddo pwy yw y ddelw hon a'r argraff? Dywedasant wrtho, Eiddo Cesar. Yna y dywedodd wrthynt, Telwch chwithau yr eiddo Cesar i Cesar,* A'R EIDDO DUW I DDUW."[1] Gan fod Pompey wedi darostwng Judea tua chàn mlynedd cyn hyn i'r Rhufeiniaid, hi a wnelsid yn dalaeth Rufeinig.[2] Dan yr amgylchiadau hyn, haerai y Phariseaid ei bod yn annghyfreithlawn talu teyrnged i'r amherawdr, am fod Duw wedi dywedyd nad oedd wiw iddynt ddewis estron i fod eu brenin; eu bod yn bobl neillduol i Dduw, ac mai efe yn unig oedd eu brenin.[3] Pan ddug brenin Syria hwynt gynt dan ei iau, darfu i'w tadau gyda bendith Duw fwrw yr iau ymaith.[4] A mynych hefyd dan y barnwyr a gyfodasid ac a ysbrydolasid gan Dduw, yr amddiffynasant eu rhyddid yn erbyn gormes y cenedloedd amgylchynol: galluogasai eu Duw hwynt i ymryddhau o'u caethiwed yn yr Aipht; a Hezecïah trwy ei gynnorthwy hollalluog ef, a wrthryfelasai yn llwyddiannus yn erbyn brenin Assyria.[5] Dan hyfforddiadau o fath y rhai hyn, y

1 Matt. 22. 15—21. 2 Josephus, pen. 14. 4, 5. 3 Deut. 17. 14, 15. Exod. 23. 32. Deut. 7. 2. 4 1 Mac. 2. 24, 68. a 3. 59, &c. 5 2 Bren. 18. 17.

daethai y bobl yn dra anfoddog i'r dreth a arddodid arnynt, ac yr oedd yr holl genedl o'r bron yn barod i wrthryfel.[1] Ond, ar y llaw arall, yr Herodianiaid, sef y rhai a ymlynent wrth Herod, ac a wenieithient iddo, a haerent ei bod yn gyfreithlawn talu teyrnged, gan fod eu noddwr hwy yn cael ei gynnal gan y Rhufeiniaid. Yr oedd y ddwy blaid hyn yn dra gwrthwynebol i'w gilydd; ond gan fod câs cyffredinol wedi eu huno yn awr yn erbyn yr Iesu, deuai un o bob plaid at yr Iesu, dan rith bod yn ddynion crefyddol, (Luc 20. 20,) y rhai a feddent y parch mwyaf i'w ddoethineb a'i uniondeb, i ofyn iddo benderfynu y ddadl gyffröus hon rhyngddynt, sef pa un a ddylasent hwy dalu neu beidio, (adn. 22; Marc 12. 14, 15,) y deyrnged, neu y dreth oedd daladwy ar bob un y cymerasid ei enw ar y rhifres. Pe dywedasai bod y taliad yn gyfreithlawn, gwnelsid ef yn atgas yn ngolwg y bobl, y rhai a ffieiddient y dreth ddywededig; os dywedai ei bod yn anghyfreithlawn, cyhuddent ef o fradwriaeth, fel y gwnaethant hefyd ar ol hyn.[2] A hyn oedd eu prif amcan.[3] Yr Iesu a ofynodd am weled y darn arian yn yr hwn y telid y deyrnged; ar yr hyn y dygasant geiniog Rufeinaidd atto, ar yr hon yr oedd bathiad o ben yr amherawdr, yn nghyd â'r ysgrif hon,—"*Caisar Augoust Ioudaias ealôcêas*"—"Cesar Augustus, ar y cyfryw flwyddyn wedi cymeriad Judea."[4] Fel hyn yr oedd bathau cyffredin y wlad yn profi eu bod yn ddarostyngedig i'r amherawdr Rhufeinig, Tiberius. Ac wedi galw eu sylw at y ffaith yma, y mae ein Harglwydd yn eu hatteb, gan ddywedyd, "*Telwch chwithau yr eiddo Cesar i Cesar,* A'R EIDDO DUW I DDUW." Rhaid cynnal llywodraeth wladol, yr hon sydd angenrheidiol er lluddias aflywodraeth a drygfoes cyffredinol, trwy drethiad. Yr oedd yn gyfiawn bod iddynt gyfrannu at ei chynnaliaeth yn daledigaeth am ei llesion. Yr oedd bod yn ddeiliaid ffyddlon i dywysog a'u gorchfygasai yn beth tra gwahanol i ddewis estron i fod yn frenin arnynt. Yr oedd Duw wedi gorchymyn i'w tadau wasanaethu eu gorchfygwr, Brenin Babilon,[5] ac fe barwyd iddynt geisio heddwch ei deyrnas ef.[6] Nid oedd talu teyrnged ac ufuddhau yn mhob peth gwladol i Cesar, yn ddim amgen na'r hyn oedd ddyledus arnynt i'w pennadur, ac yn lle bod hyny yn ymyriad â'u dyledswydd tuag at Dduw, yr oedd yn rhan o'r ddyledswydd hono. Ac nid oeddynt hwy yn gyfrifol am y defnydd a wnelai Cesar o un ran o'r deyrnged hono. Rhaid cynnal iawndrefn trwy gyfraith; rhaid i'r gyfraith gael ei gweinyddu gan swyddogion gwladol, a'i chefnogi, os yn angenrheidiol â grym milwraidd, i'r hyn yr oedd cyllid yn ofynol. Ac os byddai i'r amherawdr ddefnyddio dim o'r gweddill i adeiladu temlau paganaidd, i gyfrannu tuag at chwareufäau rhydd-wyllt, neu i gyfoethogi cynffonwyr annheilwng,

1 Josephus, 18. pp. 1—6. B. 2. 17, 8. a 2. 16. 4. B. 5. 9, 3. a B. 3. 8, 4. 2 Luc 23. 2. 3 Luc 20. 20. 4 *Hammond ad loc.* 5 Jer. 27. 12—17. 6 Jer. 29. 7.

ni byddent hwy yn gyfrannog yn y cyfryw dreuliad annghrefyddol ac afradus. Ond, ni wiw i hawlion yr amherawdr fyned i ffordd hawlion uwch. Os oeddynt hwy yn rhwym i roddi yr eiddo Cesar i Cesar, yr oeddynt yn rhwym hefyd i roddi yr eiddo Duw i Dduw. Yr eiddo Cesar oedd teyrnged, ac ufudd-dod i'r gyfraith; yr eiddo Duw oedd ffydd, addoliad, ac ufudd-dod. Pan honai Cesar daliad y deyrnged, efe a honai yr hyn oedd ddyledus iddo; ond, os elai i honi hawl i arglwyddiaethu ar gydwybod, os cymerai arno drefnu eu crêd, neu ymyraeth er gosod rhëolau eu haddoliad, yna efe a drawsfeddiannai hawlion Duw, a rhaid ei wrthsefyll: Pan orchymynai Antiochus Epiphanes i'w tadau beidio â'u haberthau, halogi eu Sabbathau, rhoddi i fynu eu llyfrau, a chyfodi delwau yn eu gwlad, eu tadau yn gyfiawn a ommeddasant ufuddhau.[1] Yn yr un ysbryd, y darfu i'r tri llanc Hebrëaidd, er eu bod yn ddeiliaid ffyddlon i Nebuchodonosor, ommedd ymgrymu i'w ddelw aur ef; a Daniel er ei fod yn ddifeius yn ei swydd, fel prif weinidog Darius, a anufuddhäai yn ddigêl i'r gyfraith hono a waharddai i neb weddïo ar Dduw dros ddeng niwrnod ar hugain. Wrth dalu teyrnged, rhoddent yr eiddo Cesar i Cesar, ac mewn ufudd-dod trylwyr i gyfreithiau Duw, moesol a Seremonïol, y rhoddent yr eiddo Duw i Dduw.

Fel hyn y sefydlai ein Harglwydd, rëol amlwg o weithrediad. Y mae yn ddyledus arnom ufuddhau i'r pennadur mewn pob rhyw bethau gwladol na byddont yn ymyraeth â chyfraith Duw; ond, os bydd i'r pennadur arhoni hawlion a berthynant yn unig ac yn hollol i Dduw, rhaid anufuddhau iddo, a'i wrthsefyll yn hyny.

Dyrysodd ein Harglwydd ei elynion trwy yr atteb hwn. Ni's gallasent achwyn arno wrth y bobl, am ei fod yn dal y dylasai holl gyfraith Duw gael ufudd-dod yn erbyn pob gorchymynion gwrthwynebol; ac ni's gallasent ei gyhuddo wrth y Rhufeiniaid, am ei fod ef yn dysgu y dylesid amddiffyn holl hawlion cyfiawn Cesar yn gydwybodol. Trwy yr atteb hwn, efe a gondemniai y Phariseaid, y rhai a ommeddent roddi yr eiddo Cesar i Cesar; a'r Herodianiaid, y rhai a esgeulusent roddi yr eiddo Duw i Dduw. Pan honai y Phariseaid ufudd-dod trylwyr i gyfraith Duw, efe a gydsyniai a'u hathrawiaeth, ond, a'u condemniai am eu bod yn fradwrus i'w harglwydd daearol; a phan ddadleuai yr Herodianiaid dros ymddarostyngiad i'r pennadur, efe a gydsyniai â'r opiniwn hwnw hefyd, ond a'u condemniai am oddef troseddiad o orchymynion Duw. Efe a gadarnhai yr hyn oedd gywir, ac a ddyfarnai yr hyn oedd gau yn mhob golygiad. Yn yr ychydig eiriau hyn, efe a ochelai eu magl, a ddyfarnai eu cyfeiliornadau, ac a sefydlai egwyddor o gymhwysiad cyffredinol.

Gadewch i ni ystyried pa ddefnydd a wnelsai yr eglwysi boreuol o'r cyfarwyddyd hwn. Os oedd yn ddyledus ar yr Iuddewon roddi yr eiddo Cesar i

[1] 1 Mac. I. 41, 64.

Cesar, felly yr oedd ar y Cristionogion; ac os oedd y blaenaf yn rhwym o roddi yr eiddo Duw i Dduw, felly yr oedd yr olaf. Gan hyny, hwy a ymdrechent i fod yn ddeiliaid tangnefeddus a threfnus: ond, megis yr Iuddewon, felly hwythau, ni's goddefent i unrhyw amherawdr, arglwyddiaethu ar eu ffydd, eu haddoliad, neu eu dysgyblaeth. Pe buasai Nero neu Caligula yn cynnyg enwi eu bugeiliaid, trefnu lleoedd ac oriau eu haddoliad, neu osod rheolau i dderbyn ymgeiswyr am fedydd a Swper yr Arglwydd, buasent yn gwrthsefyll y cyfryw feistrolaeth, am na chydsafasai â hawlion yr Hollalluog, gan dystio bod yn rhaid iddynt hwy roddi yr eiddo Duw i Dduw. Gan eu bod yn rhwym i ufuddhau i Dduw yn mhob dim, yr oedd hyny y rheswm cryfaf pa ham na ddylasai yr amherawdr arglwyddiaethu arnynt mewn pethau crefyddol. Gan mai pagan ydoedd, ni's gallasai fod yn gwybod ewyllys Duw; a chan y byddai i'w orchymynion ef mewn pethau ysbrydol wrthdaro gorchymynion Duw yn wastadol, buasai ei waith yn ymarfer unrhyw feistrolaeth ysbrydol ar yr eglwysi, yn eu dwyn i ymrysonaeth gwastadol â'i awdurdod, neu i gydffurfiad llygredig â'i fympwy ef. Yr unig ffordd i ochel y ddeuryw ddrygau hyn ydoedd, trwy sefydlu ysgariad trwyadl rhwng y llywodraeth dymhorol a'r un ysbrydol; a thra yn parchu awdurdod bennadurol Cesar mewn pob pethau gwladol, i ommedd unrhyw awdurdod iddo mewn pethau ysbrydol.

Mae y rhesymau hyn yn eu holl rym yn wynebu at Wladwriaeth annghrefyddol yn dwyn arni enw Cristionogol. Ni dderbyniodd unrhyw Wladwriaeth erioed, pa mor dduwiol bynnag y byddai, unrhyw awdurdod gan Dduw i arglwyddiaethu ar ei eglwysi; ac am hyny ni's gall yr eglwysi drosglwyddo yr awdurdod hono i unrhyw Wladwriaeth dan un amgylchiad, heb fod yn euog o roddi yr eiddo Duw i Cesar; ond rhaid fod Gwladwriaeth annghrefyddol yn annghymmwysach fyth i'w hymarfer. Ac os bydd i Wladwriaeth annghrefyddol unrhyw arglwyddiaeth ar yr eglwysi mewn pethau ysbrydol, y mae mor debyg o lunio cyfreithiau annghydnaws â chyfraith Crist, fel y byddai yr eglwysi mewn perygl o ymrysonaeth mynych â hi, neu o gydsyniaeth bechadurus â chyfreithiau croes i gyfraith Crist: ac am hyny, y mae yr eglwysi yn rhwym i ochelyd Undeb â'r cyfryw Wladwriaeth. Ond, y mae y Wladwriaeth yn Lloegr yn annghrefyddol; a chyhyd ag y byddo Ty y Cyffredin yn cynnrychioli y cyffredin, fel y dylai, ac y byddo y cyffredin heb fod yn grefyddol, y mae yn rhwym o fod felly. Gan hyny, y mae yr Undeb rhwng yr Eglwysi Seis'nig a'r Wladwriaeth, yn cael ei warafun yn yr ymadroddion hyn, mor amlwg ag y gwarafunid yr Undeb rhwng yr eglwysi o fewn yr amherodraeth Rufeinig a'r amherawdr Nero, ynddynt. Gan fod Ty y Cyffredin, y rhan alluocaf o'r Wladwriaeth, yn gyfansoddedig o ddynion o bob rhyw nodwedd ac opiniwn mewn pethau crefyddol, y mae yn annghyfaddas i arglwyddiaethu ar grêd, addoliad a

dysgyblaeth yr eglwysi;—a'r syrthni beius o du yr eglwysi, neu ymattaliad cyfrwys oddiwrth ddeddfwriaeth o du y Wladwriaeth; yr hon yn ei hagwedd a ddywaid, "Ni chewch chwi ddiwygio dim;" a'r eglwysi megis yn ei hatteb, "Yr ydym yn cydsynio i beidio a gwneyd dim, os peidiwch chwithau a gwneyd dim hefyd," yw yr unig fodd y gochelir y gwrthdarawiadau hyny, yn y rhai y gorfodir yr eglwysi i gydnabod eu bod dan yr Undeb yn rhoddi i Cesar fwy na'r eiddo Cesar, ac nad ydynt yn rhoddi yr eiddo Duw i Dduw.

Pa un a allai y Wladwriaeth, pe byddai oll yn gyfansoddedig o ddynion crefyddol, arolygu yr eglwysi i fuddioldeb, sydd bwnc o ddyfaliad yn unig; canys yn ol y gyfundrefn gynnrychiol, yr hon yw yr oreu, ac a sicrha fwyaf o rinwedd mewn Llywodraethau, ni all fod y fath Deyrnedd, hyd oni fyddo y cynnrychioledig, sef corph y bobl wedi dyfod yn grefyddol; ac yna byddai y rhesymau a ddefnyddir yn ddadlyddiaeth dros yr Undeb, wedi diflannu. Heblaw hyny, pe y caniatteid y gallai y cyfryw Lywodraeth dduwiol arglwyddiaethu ar yr eglwysi, nid yw hyny yn ddigon i brofi diniweidrwydd Undeb parhaus; oblegid ni's gellir trosglwyddo crefydd efengylaidd oddiwrth un blaid mewn awdurdod i un arall; oddiwrth un Ty y Cyffredin i un arall; gan hyny, pe y gellid ffurfio yr Undeb dan Deyrnedd dduwiol, cyssylltai yr Eglwysi wrth Deyrnedd annuwiol yn fuan. Pe y buasai Undeb rhwng yr eglwys yn Israel â Solomon yn oddefol, ni buasai yn oddefol pan feddiannai Rehoboam orsedd Solomon. Pe y gallasai Hezecïah arolygu yr eglwys hono i fuddioldeb, ni's gallasai Manasseh wneyd hyny. A chan fod cyfnewidiadau cyffelyb yn nodweddiad llywodraethwyr olynol, yn sicr o gymeryd lle, yr unig drefniant a all fod yn ddïogel, a raid fod ysgariad trylwyr y llywodraeth ysbrydol oddiwrth yr un wladol.

Fel y mae y rhan hon o'r Ysgrythyr yn profi y buasai yn annoeth a beius yn yr eglwysi boreuol, ganiattau i Nero neu Caligula arglwyddiaethu ar eu hathrawiaeth, addoliad, a dysgyblaeth, o herwydd bod y tywysogion hyn yn annghrefyddol, y mae yn profi mor gadarn mai annoeth ydyw caniattau i Dy y Cyffredin unrhyw arglwyddiaeth o'r fath ar yr eglwysi yn y wlad hon, am ei fod yntau yn annghrefyddol yr un ffunud. Gan y gwaherddid i Cesar arglwyddiaethu ar yr eglwysi, yn yr ymadroddion hyn, gwaherddir hyny i Dy y Cyffredin yr un modd. Oni's gallai Cesar bennodi esgobion Phillippi, na rhoddi attalfa ar unrhyw erthygl o grêd yr eglwys yn Nghorinth, neu benderfynu pwy a dderbynid at fwrdd yr Arglwydd yn Ephesus, oblegid y buasai ufudd-dod iddo ef yn y pethau hyn yn lluddias yr eglwysi i roddi yr eiddo Duw i Dduw, felly, ni ddylai y Llywodraeth, neu y Weinyddiaeth yn y deyrnas hon, enwi preladiaid neu fugeiliaid, gwahardd adolygiad credo yr eglwysi, penderfynu i bwy y gweinyddir bedydd a Swper yr Arglwydd, rhag y bydd i'r eglwysi wrth ufuddhau i'r Wladwriaeth, dros-

eddu rhyw ddeddf Ddwyfol, ac felly ballu rhoddi yr eiddo Duw i Dduw. Y rheswm pa ham na's gallai Nero arfer unrhyw arglwyddiaeth ar yr eglwysi, oedd, fel y byddent yn rhydd i roddi yr eiddo Duw i Dduw; ac y mae yr un rheswm yn rhwymo yr eglwysi yn awr na's goddefont i'r Llywodraeth Wladol ymyraeth i'w rheoli mewn pethau ysbrydol. Gan fod cyfraith Duw yn gofyn i'r eglwysi gael bugeiliaid duwiol, na's bedyddier neb, heb broffes gredadwy o edifeirwch a ffydd, bod yr efengyl i gael ei phregethu i bob creadur; bod yr holl Gristionogion i ymddwyn megis brodyr, a bod Crist yn oruchaf yn ei dŷ ei hun,—os bydd y Wladwriaeth yn ordeinio bod i blwyfau dderbyn bugeiliaid annuwiol, yn gwahardd i weinidogion Crist bregethu yr efengyl mewn plwyfau lle y mae y gweinidogion yn annuwiol, yn gorfodi gweinidogion plwyfol dan berygl dirwyon cyfreithiol i dderbyn dynion annghymmwys i'r sacramentau, ac yn arhoni i'r Goron fath o uchafiaeth llwyr annghyson âg uchafiaeth Crist; yna rhaid i'r eglwysi roddi yr eiddo Duw i Dduw, a gommedd ufuddhau i'r Wladwriaeth. Ond er gochel y cyfryw wrthdarawiad dylai yr eglwysi gael eu rhyddhau oddiwrth y Wladwriaeth; a thra yn rhoddi pob ufudd-dod gwladol i'r Llywodraeth, dylent fod yn rhydd oddiwrth ei harglwyddiaeth i gyflawni holl gyfraith Crist.

Yn y drydedd bennod o'r Epistol at yr Hebreaid, gelwir Cristionogion yn dŷ Crist, *ar* yr hwn y mae efe;[1] ae ar yr hwn gan hyny ni's gellir goddef un estron i arglwyddiaethu heb ei awdurdod ef; ond, trwy yr Undeb, y mae y Wladwriaeth yn cael ei goddef i gymeryd y cyfryw lywodraeth heb ei awdurdod ef; ac y mae yr eglwysi wrth oddef y fath beth, yn dymchwelyd hawlion Crist ar ei dŷ ei hun.

Fe lefarir am Grist mewn amryw ranau o'r Ysgrythyr fel brenin ei eglwys,[2] a Christionogion ydynt ei ddeiliaid ef, ar y rhai nid oes gan ereill ddim mwy o hawl i ymarfer arglwyddiaeth ysbrydol, nag a fedd tywysog tramor o hawl i roddi cyfreithiau i ni yn Mrydain. A phan fyddo y Senedd yn rhoddi cyfreithiau i eglwysi Cristionogol yn Mrydain, y mae yn gymmaint o ddïystyrwch ar bennaduriaeth Crist, ag a fyddai gwaith pennadur Ffrainc neu yr Almaen, a gymerai arno roddi cyfreithiau i drigolion Caint neu Sussex, o ddïystyrwch ar bennaduriaeth ei Mawrhydi, brenines yr amherodraeth hon. Ond trwy yr Undeb, y mae y Senedd yn rhoddi deddfau i'r eglwysi, ac felly yn cam-oresgyn iawnderau pennadurol Crist.

Darlunir eglwys Crist yn yr Ysgrythyr megis ei brïod-ferch;[3] ar yr hon

1 Heb. 3. 5, 6; a 10. 21. Matt. 10. 25; a 25. 14, 19, 30. Rhuf. 7. 6. 1 Cor. 7. 22. Gal. 6. 10. Eph. 2. 19; a 6. 6. Col. 3. 24. 1 Tim. 3. 15. 1 Pedr 4. 17.

2 Matt. 3. 2; a 4. 17; a 9. 35; a 13. 38; a 16. 28. Luc 19. 12. Ioan 18. 36, 37. 1 Cor. 15. 24, 25. Col. 1. 13. Heb. 1. 8. Ps. 2. 6; a 110. 1, 2. Esa. 9. 7. Dan. 7. 13, 14. Zec. 6. 13; a 9. 9, 10.

3 Ioan 3. 29. Dat. 21. 9; a 22. 17. Eph 5. 25—27. Rhuf. 7. 4. 2 Cor. 11. 2.

o ganlyniad y medd efe yr unig hawl i lywodraethu: ac am hyny, pan fyddo unrhyw eglwys yn cymeryd ei llywodraethu gan unrhyw allu ysgaredig oddiwrth Grist, y mae yn anffyddlondeb godinebus iddo ef, megis yr eiddo gwraig a fyddai yn euog tuag at ei gwr trwy ei rhoddi ei hun dan awdurdod gwr arall. Ond trwy yr Undeb, y mae y Wladwriaeth heb awdurdod Crist, yn llywodraethu fel hyn ar eglwysi y Sefydliad; a'r eglwysi trwy eu cydsyniad, ydynt yn euog o anffyddlondeb godinebus i Grist, megis y bu eglwys Rhufain mewn ffyrdd ereill.[1]

Gan fod Cristionogion yn blant Duw, yn gorph Crist, yn deml yr Ysbryd Glan,[2] y maent yn etholedig o'r byd gan Grist,[3] nid ydynt o'r byd,[4] y maent wedi eu galw allan o'r byd.[5] Gan fod cyfeillach y byd yn elyniaeth i Dduw,[6] nid gwiw i Gristionogion garu y byd,[7] ni ddylent gydymffurfio âg ef;[8] ond rhaid iddynt ymneillduo oddiwrtho yn mhob peth oddieithr gorchwylion angenrheidiol einioes. Canys fel hyn y gorchymodd Crist trwy ei apostol, "*Na ieuer chwi yn anghymarus gyd â'r rhai digred; canys pa gyfeillach sydd rhwng cyfiawnder âg anghyfiawnder? A pha gymmundeb sydd rhwng goleuni â thywyllwch?—O herwydd pa ham, deuwch allan o'u canol hwynt, ac ymddidolwch, medd yr Arglwydd,*"[9] Ac ufuddheid i'r gorchymynion hyn can belled gan y prif Gristionogion, fel yr oedd yr eglwysi yn gyfansoddedig o "saint a ffyddlon frodyr,"[10] y rhai oeddynt epistolau Crist,[11] ac a lewyrchent fel goleuadau yn y byd.[12] Gan hyny, od oes unrhyw eglwysi, yn lle bod yn gyfansoddedig o "saint a ffyddlon frodyr," neillduedig oddiwrth y byd, yn gollwng yr holl fyd yn rhwydd i gymmundeb â hwy, y maent wedi ymwrthod a'u galwedigaeth, a diystyru gorchymynion Crist. Ond, trwy yr Undeb, y mae cymmysgiad trwyadl o'r eglwys a'r byd yn y wlad hon. Mae credinwyr ac anghredinwyr yn cymdeithasu, nid yn unig yn ngorchwylion y fuchedd hon; ond yn ngalwedigaethau aelodau eglwysig, heb y gwahaniaeth lleiaf.

Mae ein Harglwydd wedi tystio yn eglur yn ei air pwy a ddylai fod yn fugeiliaid eglwysi. Maent yn cael eu pennodi yn uniongyrchol ganddo ef,[13] ac nid oes neb yn cael eu happwyntio felly, ond y sawl a fyddo yn ddïargyhoedd, yn caru daioni, yn sobr, yn gyfiawn, yn sanctaidd, yn dymherus, yn dal yn lew y gair ffyddlawn, &c.[14] Ar y llaw arall, y mae gweinidogion annychweledig, y rhai nid ydynt yn iach yn y ffydd, nac yn bucheddu yn sanctaidd, yn cael eu galw gan yr Ysbryd Glan yn "fleiddiau," a "gweinidogion Satan."[15] Gorchymynir i Gristionogion wylio rhagddynt.[16] Ni's dylent wrando arnynt,[17] nac mewn un modd eu cynnorthwyo yn eu gau

1 Dat. 17. 1—5. 2 Ioan 1. 12, 13. Gal. 3. 26; a 4. 5. 1 Cor. 12. 12, 27. Eph. 4. 12; a 5. 30. 1 Cor. 3. 16; a 6. 19. Eph. 2. 21. 3 Ioan 15. 19. 4 Ioan 17. 14. 5 1 Ioan 3. 11; a 5. 19. 6 Iago 4. 4. 7 1 Ioan 2. 15. 8 Rhuf. 12. 2. 9 2 Cor. 6. 14—18. 10 1 Cor. 1. 2. Eph. 1. 1. Phil. 1. 1. 1 Thes. 1. 6. 11 2 Cor. 3. 3. 12 Phil. 2. 15. 13 Act. 20. 28. Eph. 4. 11, 12. 14 Tit. 1. 5—9. 1 Tim. 3. 1—7. 15 Act. 20. 29. 2 Cor. 11. 15. 16 Matt. 7. 15, 16. 17 Ioan 10. 4, 5.

ddysgeidiaeth.[1] Ac fel y mae yr eglwysi yn rhwym i beidio derbyn y cyfryw fel bugeiliaid; ond i ofalu ar fod eu gweinidogion yn ddynion ffyddlon, fel y cyflawnont y dyledswyddau hyn, yr oedd y prif eglwysi yn dewis eu gweinidogion eu hunain.[2] Gan hyny, pan fyddo rhyw eglwysi yn goddef i ddynion annychweledig, a chyfeiliornus i ddyfod yn fugeiliaid iddynt, y maent yn diystyru yr holl gyfarwyddiadau dwyfol hyn. Ond, trwy yr Undeb, y mae yr eglwysi yn derbyn y cyfryw fugeiliaid,—a than orfod i wneyd; canys fe fydd i'r Wladwriaeth yn wastadol sefyll dros hawlion noddwyr: a chyhyd ag y gallo dynion annuwiol sicrhau ordeiniad, yr hyn a wnant bob amser mewn Sefydliad, cyhyd a hyny y gall noddwyr annuwiol ar-osod gweinidogion annuwiol ar yr holl eglwysi, y rhai yn gamweddus a arhosant dan gaethiwed yr Undeb.

Yn ol cyfraith Crist, fe ddylai Cristionogion gynnal eu gweinidogion.[3] Gan hyny, pan fyddo eglwysi yn gorfodogi eu gweinidogion i geisio eu cyflog gan y byd, ac yn treiglo y baich o gynnal eu bugeiliaid ar ereill, y maent yn esgeuluso eu dyledswydd. Ond, oddi tan yr Undeb, mae yr eglwysi yn gadael dieithriaid i gynnal eu gweinidogion, heb dalu ond ychydig, os dim yn wirfoddol eu hunain tuag at eu cynhaliaeth.

Megis yr oedd pob talion tuag at gynnal crefydd, dan gyfraith Moses, yn wirfoddol, felly y mae Duw yn gofyn yr un peth yn bresenol. Y rhëol Ddwyfol yw hyn, "*Pob un megis y mae yn rhagarfaethu yn ei galon, felly rhodded; nid yn athrist, neu trwy gymhell:* CANYS RHODDWR LLAWEN Y MAE DUW YN EI GARU."[4] Ac y mae pob erledigaeth yn annghydnaws âg ysbryd yr Efengyl. Ond y mae yr Undeb wedi ei adeiladu yn hollol ar orfodaeth. Os gommeddir y talion a arddodwyd yn lle y degymau, neu y trethi eglwysig, fe'u cyfodir trwy drais; gorfodir gelynion neu gyfeillion i'w talu yr un ffunud, pa mor anfoddog bynnag a fyddont.

Ewyllys datguddiedig Crist yw, bod i aelodau a droseddont gael eu bwrw allan o'r eglwysi, gan yr eglwysi mewn undeb a'u gweinidogion.[5] Pa gynnulleidfa o fewn y Sefydliad sydd yn ufuddhau i'w ewyllys? Ni's goddefa y Wladwriaeth iddynt wneyd.

Yn ol tystiolaethau Crist a'i apostolion y mae yr holl Gristionogion yn frodyr, rhwym i garu eu gilydd, ac i ymddwyn tuag at eu gilydd mewn caredigrwydd.[6] Ond y mae yr Undeb yn dyrchafu un dosbarth o Gristionogion, ac yn darostwng y lleill oll; yn cau allan weinidogion ffyddlon Crist o areithfäau y Sefydliad, os byddant anghydffurfwyr, ac yn cau duwiolion allan o'r prif athrofäau oni byddant Esgobyddion; yn gorfodi llaweroedd i

1 2 Ioan 10, 11. 2 Act. 1. 15, 23, 26; a 6. 1—6. 3 Gal. 6. 6. 1 Cor. 9. 14. 1 Tim 5. 17, 18, &c. 4 2 Cor. 9. 7. 5 Matt. 18. 17. Rhuf. 16. 17. 1 Cor. 5. 11. 2 Thes. 3. 6, 14. 6 Matt. 23. 8. Gal. 1. 2. Col. 1. 2. Ioan 13. 34, 35. Rhuf. 14. 1; a 15. 7. 1 Ioan 3. 14. Matt. 25. 34—40.

gynnal cyfundrefn a gollfernir ganddynt yn erbyn eu cydwybod; ac fel hyn yn creu ymraniad parhaus yn mysg eglwysi Crist.

Yn olaf, y mae Crist wedi gorchymyn i'w ddilynwyr bregethu yr Efengyl i bob dyn.[1] Gan hyny, y mae yr eglwysi hyny yn pechu, y rhai a gydsyniant âg unrhyw ddeddf a'u lluddiant i ufuddhau i'r gorchymyn hwn. Ond, y mae yr Undeb yn eu lluddio. Canys tra y mae cannoedd, ïe yr ydwyf yn ofni, filoedd o blwyfi yn y wlad hon, lle ni phregethir yr Efengyl, ni's gall un o weinidogion y Sefydliad bregethu yn un o honynt heb gydsynied y person. Ni buasai yr Apostolion yn cyttuno i roddi trefydd a phentrefi Judea i fynu felly.

Fe ddichon y tybia rhai darllenwyr, gan mai ychydig o'r ymadroddion hyn sydd yn cynnwys gwaharddiad eglur a phennodol o'r Undeb rhwng yr Eglwysi a'r Gwladwriaethau, gan fod y ddyledswydd o ysgariad, gyda golwg ar amryw o'r ymadroddion crybwylledig yn gasgliadol yn unig, na's gall fod mor eglur nac mor bwysig ag y dadleuir ei bod gan ei chefnogwyr. Ond, a oddef y dybiaeth yma ei chwilio? Onid oes amryw o ymlynwyr duwiol wrth y Sefydliadau, y rhai a ddaliant Ddwyfol sefydliad Esgobyddiaeth, a gredant eu bod yn rhwym i gyssegru dydd yr Arglwydd, y dylai Cristionogion ymgynnull ar amserau pennodol i gynnal addoliad cyhoeddus, y dylai babanod gael eu bedyddio, bod Swper yr Arglwydd yn ordinhad i barhau yn yr eglwys, bod caeth-wasïaeth a rhyfel yn wrthnaws i Gristionogaeth, &c., &c.? Nid oes i'r un o'r athrawiaethau hyn gymmaint o brawf ysgrythyrol drostynt, a'r athrawiaeth hon o ysgariad yr Eglwys oddiwrth y Wladwriaeth. Mae yr Ysgrythyrau yn cynnwys egwyddorion gweithrediad wedi eu sefydlu, y rhai ydynt gymhwysiadol at aneirif amgylchiadau lle y dygwyddont; ac y mae yr egwyddorion a ddylent gymhell yr eglwysi i ysgaru oddiwrth y Wladwriaeth, yn cael eu gosod i lawr yn helaeth yn y Testament Newydd. Ond, yn gyffredin y drygau hyny yn unig a waherddir yn bendant, y rhai oeddynt mewn bod y pryd hyny; ac yr oedd perygl Undeb yr Eglwys a'r Wladwriaeth yn y pellder o ddwy ganrif a hanner y pryd hyny. Mae yn ddïau bod Duw wedi gweled yn oreu i Gistionogion, na byddai dim gorchymyn mwy pendant ar hyn nag ar ryw bynciau pwysig ereill. Un rheswm a allwn ni ei ganfod yn eglur,—Buasai gorchymynion tra eglur yn cau allan yr angenrheidrwydd o chwilio i egwyddorion, tra yn awr y bydd yr ysgariad, pa bryd bynnag y cymero le, yn effaith adnabyddiaeth mwy trwyadl o natur eglwys Gristionogol, ac ymröad mwy mabaidd i ufuddhau i bob amnaid o ewyllys Duw.

[1] Marc 16. 15. Act. 4. 19, 20; a 5. 29, 42; a 8. 1—4.

## PENNOD II.

### EGWYDDORION YR UNDEB RHWNG YR EGLWYS A'R WLADWRIAETH YN LLOEGR, YN GONDEMNIEDIG GAN AIR DUW.

Awn rhagom oddiwrth yr ystyriaethau cyffedinol hyny a ddangosant fod Undeb Eglwysi a Gwladwriaethau yn wrthwyneb i amcan ein Harglwydd, ac annghydnaws â nodwedd eglwys Gristionogol, i ystyried pa mor bell y mae rhai o egwyddorion neillduol yr Undeb yn Mrydain yn gyson a'r amlygiadau o ewyllys Duw a ganfyddwn ni yn y Testament Newydd. Yr egwyddorion a ddaw dan ein sylw ydynt gynhaliaeth Gweinidogion Cristionogol gan y Wladwriaeth, goruchafiaeth y Wladwriaeth, noddaeth, a chynnaliad y Sefydliad trwy orfodaeth.

---

### ADRAN I.—AR GYNHALIAD GWEINIDOGION CRISTIONOGOL GAN Y LLYWODRAETH.

Pa ddyroddiad personol bynnag a wnaed o ddegymau a thiroedd i glerigwyr y wlad hon, y mae yn rhaid olrhain eu perchenogaeth o ddegymau trwy Loegr a Chymru i gyfraith. "Tua'r flwyddyn 794, darfu i Offa, brenin y Mers, wneyd cyfraith, drwy yr hon y rhoddai i'r eglwys ddegymau ei holl deyrnas."[1] "Y gyfraith hon o eiddo Offa, a roddes i'r eglwys yr hawl wladol gyntaf iddynt yn y wlad hon, fel perchenogaeth ac ettifeddiaeth, ac a alluogai y clerigwyr i'w casglu a'u derbyn fel eu dyled gyfreithlawn trwy orfodaeth yr awdurdod wladol."[2] Yr hawl hon o eiddo y clerigwyr i'r degwm, yr hon a grëasid drwy gyfraith, a gadarnhawyd wedi hyny trwy yr un awdurdod. Trwy 32 Henry VIII. pen. 7. "Holl ddeiliaid y deyrnas hon...... a dalant bob degymau yn gyflawn, yn ol arferion cyfreithlon y plwyfau, o'r rhai y mae y cyfryw ddegymau yn ddyledus."[3] Trwy 2 a 3 Edward VI. pen. 13. "Pawb a dalant bob math o ddegymau plwyfol, y rhai o iawnder neu ddefod y dylid eu talu."[4] Yn mhellach, y mae hawl y clerigwyr i ran fawr o'r degymau a delir yn yr oesoedd diweddar hyn yn seiliedig ar gyfraith a luniwyd wedi y Diwygiad; canys trwy 2 a 3, Edward VI. pen. 13. "Pob cyfryw rosdir diffrwyth, neu ddiffeithdir a orweddai hyd yn hyn yn ddiffrwyth, a heb dalu degymau o herwydd y cyfryw ddiffrwythdra, ac yn awr, neu ar ol hyn a ddiwyllir, ac a wneir yn hyar neu weirglodd-dir, a dâl ddegwm yr ŷd neu y gwair a gynnyrchir o hono, wedi pen y saith mlynedd ar ol y cyfryw ddiwylliant."[5] Fel hyn, nyni a welwn fod y degwm, yr hyn yw prif gynhal-

1 *Burn's "Ecclesiastical Law, 9th ed.* Vol. 3. p. 679. 2 P. 680. 3 P. 743.
4 P. 745. 5 P. 685.

iad y Gweinidogion o fewn y Sefydliad, wedi ei roddi iddynt gan y Wladwriaeth, a rhan fawr o hono wedi ei roddi ar ol y Diwygiad.

Nid llai rhodd y Wladwriaeth ydoedd meddiannau yr esgobion, a elwir eu tymhorolion, wrth yr hyn y golygir yr holl bethau a feddianna yr esgobion trwy freiniolaeth oddiwrth y pennadur, megis cestyll, maenordai, tiroedd, &c.[1] Y mae dau brawf o hyn; yn gyntaf, rhaid i'r esgob dalu gwarogaeth am danynt i'r Goron; ac yn ail, y mae y cyllid o'r cyfryw feddiannau yn mhob esgobaeth yn myned i'r Goron, fel yr unig feddiannydd mewn bod, dros gyhyd ag y bydd heb esgob arni. "Pan urdder esgob, ac y'i cyssegrer, wedi ei arwain i wyddfod y brenin, efe a wna ei wriogaeth am ei dymhorolion, neu ei farwniaeth."[2] "A phan elo esgobaeth yn wag, nid yr esgob newydd, ond y brenin trwy ei hawlfraint a bïau ei thymhorolion o'r pryd yr elo yn wag, hyd oni dderbynio yr esgob newydd hwynt gan y brenin."[3]

Gan fod yr holl feddiant eglwysig yma wedi ei ddyroddi gan y Wladwriaeth ar yr esgobion a'r clerigwyr, y mae y Llywodraeth wedi penderfynu ar ba ammodau y bydd iddynt eu dal, a thrwy Weithred yr Unffurfiad, wedi trosglwyddo y cyfan oddiwrth yr offeiriaid Pabaidd i'r rhai Protestanaidd.

Trwy weithred 1. Elizabeth,—"Pob periglor, ebrwyad, neu weinidog arall a rwymid i ddefnyddio y llyfr gweddi gyffredin yn ngwasanaeth cyhoeddus yr eglwys, ac nid unrhyw ddefod, seremoni, trefn, neu ffurf arall. Pob offeiriad a droseddai y ddeddf hon, oedd am y trosedd cyntaf i gael ei ddirwyo o gyflog blwyddyn, a'i garcharu chwe mis; ac am yr ail drosedd, i'w garcharu flwyddyn, a'i ddifuddio o'i holl ddyrchafiadau ysbrydol, a gallai y noddwr gyflwyno ei fywioliaeth i arall, megis pe y buasai efe wedi marw." Yr oedd hyn yn bwrw allan y Pabyddion diffuant, ac yn dodi gweinidogion Protestanaidd yn eu lle; ac yn ol y gyfraith hon y mae gweinidogion Protestanaidd Lloegr yn dal meddiannau eglwysig y Wladwriaeth hyd y dydd hwn, yn lle yr offeiriaid Pabaidd a'u meddiannent o'r blaen. Hyd y Diwygiad, rhodd y Llywodraeth ydoedd i'r Sefydliad Pabaidd: ond wedi y Diwygiad, yr ydoedd yn rhodd y Llywodraeth i'r Sefydliad Protestanaidd, yr hon sydd yn eu dal hyd heddyw ar yr ammodau a urddodid gan y Llywodraeth.

Trwy 6 a 7, William IV, adgyfrenid tymhorolion yr esgobion, a'u cyllidau a gyfartalwyd i ryw fesur.[4] A thrwy 6 a 7, Wm. VI., 7 Wm. IV., 1 Victoria, pen. 69. 1 a 2 Victoria, pen. 64, a 2 a 3 Vict., pen. 32., gosodid ŷd rent, taladwy mewn arian, ac *annewidiol mewn swm,* er yn anwadal mewn gwerth, yn lle y degymau, trwy Loegr a Chymru.[5] Trwy y cyfreithiau hyn, darfu i'r Llywodraeth arfer yr hawl o adgyfrannu, ac o *ragattal cynnydd meddiant eglwysig* wrth ei hewyllys; yn gymmaint ag mai effaith y cyfryw osodiad o

1 *Burn*, Vol. 1. p. 226. 2 P. 211. 3 *Ibid*, p. 226. 4 P. 195. 5 *Ibid*, Vol. 3. p. 698.

ŷd-rent sefydlog ydyw eithrio yr holl diroedd a ddygir eto dan driniogaeth, oddiwrth ddegymau, a lluddias y gwr eglwysig i gymeryd mantais ar unrhyw welliadau mewn ammaethyddiaeth, ac felly leihau yn annhraethol werth marchnadol pob bywioliaeth. Trwy 2 a 3 Edward VI. pen. 13, gall perchenog y degwm roddi cyfraith am ddegwm yn y llŷs eglwysig;[1] a thrwy 6 a 7 William IV., pen. 71, pan fyddo y degwm dalion yn ddyledus un niwrnod ar hugain wedi y dydd tâl blyneddol, gall y sawl a feddo hawl iddo, attafaelu am eu daliad.[2]

Oddiwrth yr amrywiol gyfreithiau hyn, ymddengys,—1. Bod hawl yr offeiriaid i'r degymau ar y cyntaf yn seiliedig, nid ar ddyroddion personol, ond ar gyfreithiau cyffredinol.

2. Bod meddiant eglwysig yr esgobion yn ddyroddiad o'r Goron.

3. Bod perchenogaeth eglwysig y rhan yma o'r deyrnas wedi ei drosglwyddo trwy weithred Seneddol oddiwrth yr offeiriaid Pabaidd i weinidogion Protestanaidd.

4. Mai y Wladwriaeth yw perchenog y meddiannau eglwysig hyn, yr hyn a ganiatteir, a attelir, a gyfrenir, a gymmyddir, neu a leiheir ganddi fel y gwelo yn addas.

5. Bod pawb a ddaliont berchenogaeth ddegymawl yn rhwym o gyfrannu at gynhaliaeth yr offeiriaid, pa un bynnag a fyddont yn cymeradwyo hyny neu beidio, gan y gall y clerigwyr orfodogi taliad eu dyledion trwy gyfraith.

Wrth ystyried y drefn hon o gynnal gweinidogion yr eglwysi, yr ydym yn dyfod at ddau ymholiad: 1. A yw hyn yn gyson â'r Ysgrythyr?—2. A yw y drefn hon yn gweithio yn dda? Gellir yn fwy cyfleus chwilio i'r ail ymholiad mewn rhan arall o'r Gwaith hwn; ond yma ystyriwn pa gyfarwyddiadau a gafodd yr eglwysi yn y Testament Newydd o barth cynhaliaeth eu gweinidogion.

Mae ymarferiad yr apostolion cystal a'u hiaith yn profi mai ewyllys Crist oedd, bod i'r aelodau cymhwysaf yn yr eglwysi gael eu neillduo i'r weinidogaeth. Neillduid Paul a Barnabas i'w cennadwriaeth apostolaidd, mewn modd difrifol gan yr henaduriaid yn Antiochia.[3] Appwyntid henuriaid gan yr apostolion a'u cymdeithion, trwy etholiad yr eglwysi, yn yr holl eglwysi a seilid ganddynt.[4] Yr oedd henuriaid yn eglwys Ephesus,[5] yn yr eglwys yn Phillippi,[6] yn yr eglwysi Iuddewig,[7] ac yn yr eglwysi a gyferchid gan Pedr.[8] Ac fe sonir am fugeiliaid ac efengylwyr fel ordinhad sefydlog Crist:—"*Pan ddyrchafodd i'r uchelder, efe a gaethiwodd gaethiwed, ac a roddes roddion i ddynion......Ac efe a roddes rai yn apostolion, a rhai yn brophwydi, a rhai yn efengylwyr, a rhai yn fugeiliaid, ac yn athrawon; i berffeithio y saint, i waith y weinidogaeth, i adeilad corph Crist: hyd*

1 *Burn*, Vol. 3. p. 750. 2 *Ibid*, p. 733. 3 Act. 13. 1. 4 Act. 14. 23. Tit. 1. 5. 5 Act. 20. 17. 6 Phil. 1. 1. 7 Heb. 13. 7, 17. 8 1 Pedr 5. 1—4.

*oni ymgyfarfyddom oll yn undeb ffydd, a gwybodaeth Mab Duw, yn wr perffaith, at fesur oedran cyflawnder Crist.*"[1] Am hyny y mae cyfarwyddiadau manol yn cael eu rhoddi yn yr epistolau at Timotheus ac at Titus mewn perthynas i'r dosbarth o ddynion, y rhai yn unig a ddylent gael eu pennodi i'r weinidogaeth hon.[2] Ac er y gall y gweinidogion a bennodir fel hyn, lafurio am eu cynhaliaeth pan fyddo amgylchiadau yn gofyn hyny, fel y gwnelai Paul mewn amryw leoedd,[3] eto eu dyledswydd yn gyffredinol yw gadael eu galwedigaethau bydol, fel y cyssegront eu hunain yn hollol i'r weinidogaeth;[4] ac ar y cyfrif hwnw hwy a ddylent gael eu cynnal. Gan eu bod yn cael eu cau allan oddiwrth bob gorchwylion ennillfawr, y rhai y gallasent eu dilyn, ac yn cyssegru eu hamser a'u galluoedd i wasanaeth yr eglwysi, hwy a ddylent gael eu cynnal ganddynt. Mae ewyllys ein Harglwydd wedi ei ddatgan yn eglur ar y peth hwn, gan yr apostol Paul yn y geiriau canlynol:—"*Oni wyddoch chwi fod y rhai sydd yn gwneuthur pethau cyssegredig yn bwytta o'r cyssegr? a'r rhai sydd yn gwasanaethu yr allor yn gydgyfrannogion o'r allor? Felly hefyd yr ordeiniodd yr Arglwydd i'r rhai sydd yn pregethu yr efengyl, fyw wrth yr efengyl.*"[5] Hwy a allant ymfoddloni ar y gosodiad pendant yma; gan ei fod ef wedi addaw y bydd i'r rhai a geisiant yn gyntaf deyrnas Dduw a'i gyfiawnder ef, gael pob cynhaliaeth dymhorol angenrheidiol yn ychwanegol.[6] A chan ei fod ef wedi addaw y bydd efe gyda hwy, fel pregethwyr ei Efengyl hyd ddiwedd amser, ni's gall efe eu gadael mewn angen.[7] Ei ofal ffyddlon ef yw yr arlwy i'w weinidogion; a gellir dywedyd am danynt hwy yn llawer mwy prïodol nag y dywedid am y Lefiaid gynt, "*Yr Arglwydd Dduw yw eu hettifeddiaeth hwynt.*"[8] Crist, yr hwn a ordeiniodd iddynt gael eu cynnal, a ofala am eu cynhaliaeth.

Ond, ni adawyd y drefn i weini cynhaliaeth iddynt yn anmhenderfynol. Dangosai ein Harglwydd trwy ddammeg y defaid a'r geifr, y fath fawr fri a ddyru efe ar garedigrwydd a wneir i'w ganlynwyr er ei fwyn ef.[9] Fel y mae yr holl Gristionogion yn aelodau o un corph, gofynir iddynt gydymdeimlo â phob aelod mewn cyfyngder.[10] Mae hyd yn nod brodyr tramor mewn cyfyngder yn wrthddrychau haeledd trefnusedig.[11] Canmolid yr eglwysi hyny yn yr oes apostolaidd, a gyfrannent yn haelionus tuag at gynnal Cristionogion tramor yn eu hangenoctyd;[12] ac annogid y Corinthiaid i ddilyn yr esampl dda.[13] Fe â yr egwyddorion cyffredinol hyn yn mhell tuag at sicrhau darbodaeth i weinidogion oddiwrth gyfiawnder a haeledd, ffydd a chariad eglwysi duwiol. Ond, yn ychwanegol at hyn, y mae yr

1 Eph. 4. 8—13. 2 1 Tim. 3. Tit. 1. 3 Act. 18. 3; a 20. 34, 35. 1 Cor. 9. 12—15. 1 Thes. 2. 9. 4 Act. 6. 2—4. 1 Tim. 2. 4; a 4. 15. 5 1 Cor. 9. 13, 14. 6 Matt. 6. 25—33. 7 Matt. 28. 20. 8 Jos. 13. 33. 9 Matt. 25. 34—40. 10 1 Cor. 12. 12, 26, 27. 11 1 Cor. 16. 1, 2. 12 2 Cor. 8. 1—6. 13 2 Cor. 8. 7, 13, 14; a 9. 6, 7.

eglwysi wedi cael eu siars neillduol o barth cynhaliaeth eu gweinidogion.—*"Pwy sydd un amser yn rhyfela ar ei draul ei hun? pwy sydd yn planu gwinllan ac nid yw yn bwytta o'i ffrwyth hi? neu pwy sydd yn porthi praidd, ac nid yw yn bwytta o laeth y praidd?......Canys ysgrifenedig yw yn neddf Moses, Na chau safn yr ych sydd yn dyrnu......Os nyni a hauasom i chwi bethau ysbrydol, ai mawr yw os nyni a fedwn eich pethau cnawdol?*[1] Os yw gweinidogion yn llafurio dros yr eglwysi, fe ddylai yr eglwysi eu cynnal hwythau. Fel y mae y milwr a ymladda dros ei wlad yn derbyn ei gynhaliaeth, a'r bugail, wobrwy ei ofal am y praidd, fel y caniatteid i'r ŷch a ddyrnai yr ŷd, fwytta o hono, ac fel y cynhelid yr offeiriaid am eu gwasanaeth yn y deml; felly ewyllys Crist yw, bod i weinidogion gael eu cynnal gan yr eglwysi. Yn wir y mae hyn yn bwnc diolchgarwch cyffredinol, gan mai cynhaliaeth dymhorol a weinyddir yn gydnabyddiaeth am lesion ysbrydol; a chyfiawnder cyffredinol, gan mai "teilwng i'r gweithiwr ei fwyd."[2]

Yn y 6ed bennod o'r epistol at yr eglwysi Galatiaidd, y mae ewyllys Crist yn cael ei ddatgan fel hyn eto:—*"A chyfranned yr hwn a ddysgwyd yn y gair, â'r hwn sydd yn ei ddysgu yn mhob peth da."*[3] A rhoddid y cynghor hwn i'r Thessaloniaid, *"Ac yr ydym yn attolwg i chwi, frodyr, adnabod y rhai sydd yn llafurio yn eich mysg, ac yn eich llywodraethu chwi yn yr Arglwydd, ac yn eich rhybuddio: a gwneuthur cyfrif mawr o honynt mewn cariad, er mwyn eu gwaith."*[4]

Timotheus hefyd, yr hwn a adawsid yn Ephesus, i drefnu yr eglwys yno, a dderbyniai yr hyfforddiadau canlynol oddiwrth Paul mewn perthynas i'r gweinidogion: *"Cyfrifer yr henuriaid sydd yn llywodraethu yn dda, yn deilwng a barch dau-ddyblyg: yn enwedig y rhai sydd yn ymboeni yn y gair a'r athrawiaeth. Canys y mae yr ysgrythyr yn dywedyd, Na chau safn yr ych sydd yn dyrnu yr yd: ac, Y mae y gweithiwr yn haeddu ei gyflog."*[5] Mae yr holl orchymynion hyn yn cyflwyno cynhaliad anrhydeddus eu gweinidogion i gyfiawnder a haelioni, i ffydd a chariad yr eglwysi; a chan na all disgyblion Crist, fod byth yn ddïystyr o'i awdurdod ef, y mae eu cynhaliaeth yn ddïogelach a mwy dïanwadal nac unrhyw gynhaliaeth a allesid ei sicrhau iddynt trwy unrhyw osodiadau cyfreithiol.

Mae ein Harglwydd wedi amlygu ei ewyllys, er yn llai eglur a mynych, eto yn ddigon eglur, y dylai efengylwyr gael eu cynnal gan Gristionogion. Pan adawai Paul Phillippi, fel y pregethai yr efengyl i'r paganiaid trwy Macedonia a Groeg, anfonai yr eglwys yn Phillippi iddo o'r cynnorthwyon angenrheidiol arno, ac efe a gydnabyddai eu bod wedi gwneuthur yn dda.[6] A phan anfonasant gynnorthwy drachefn i Rufain, efe a'i cydnabyddai yn

1 1 Cor. 9. 7, 9, 11. 2 Matt. 10. 10. 3 Gal. 6. 6. 4 1 Thes. 5. 12, 13.
5 1 Tim. 5. 17, 18. 6 Phil. 4. 14, 16.

"aberth cymeradwy, boddlawn gan Dduw."[1] A Ioan a ganmolai haelioni Gaius tuag at rai o'r cennadon Cristionogol, gan ddywedyd,—"*Yr anwylyd, yr ydwyt yn gwneuthur yn ffyddlawn yr hyn yr ydwyt yn ei wneuthur, tuag at y brodyr, a thuag at ddïeithriaid; y rhai a dystiolaethasant am dy gariad di ger bron yr eglwys: y rhai os hebryngi fel y gweddai i Dduw, da y gwnai: canys er mwyn ei enw yr aethant allan, heb gymeryd dim gan y cenhedloedd. Ni a ddylem, gan hyny, dderbyn y cyfryw rai, fel y byddom gydgynnorthwywyr i'r gwirionedd.*"[2]

Trwy y gyfres flaenorol o ysgrythyrau, gorchymynir i'r eglwysi gynnal eu gweinidogion; trwy y rhai hyn fe'u cymhellir i gynnal cennadaethau cartrefol a thramor hyd oni byddo yr efengyl yn cael ei "phregethu i bob creadur."

Mae yr ufudd-dod a amlygid i'r gorchymynion hyn gan yr eglwysi apostolaidd mwyaf canmoladwy, yn eglurhad da ar yr arlwy a wnelid fel hyn gan ein Harglwydd i'w weinidogion. Megis y sylwasom eisoes, yr oedd yr eglwys dlawd ac erlidiedig yn Phillippi, nid yn unig yn cyfrannu tu hwnt i'w gallu er cyflenwi diffygion eu brodyr tlottach yn Judea; ond hefyd, yn anfon cynnorthwy i Paul, pan oedd efe yn pregethu i'r paganiaid.[3] A chawn enghraifft o gariad hunanymwadol yn yr eglwys yn Jerusalem, yr hon, tebygaf, sydd yn ddïeilfydd; canys, pan oedd dallbleidiaeth yr Iuddewon wedi darostwng llawer o honynt i angen, y lleill a fwriasant eu holl eiddo i un drysorfa gyffredinol, trwy yr hyn y cyflenwid angenrheidiau pawb.[4]

Fel hyn, trwy haeledd yr eglwysi, a hunanymwadiad y gweinidogion, mae yn amlwg fod gweinidogion wedi eu harlwy i'r holl eglwysi, mewn adeg pan nad oedd ond ychydig o rai goludog yn beiddio gwneuthur proffes o ffydd yn Nghrist. Meddai Ephesus ei henuriaid; Phillippi, ei hesgobion a'i dïaconiaid; meddai holl eglwysi Asia Leiaf a Chrete eu gweinidogion; a meddai yr Hebreaid yr eiddynt hwythau; ac nid oes genym un rheswm i feddwl fod un o'r eglwysi hebddynt.[5]

Wrth adolygu yr ymadroddion ysgrythyrol uchod, fe ymddengys,—

1. Mai ewyllys Crist ydyw, bod gweinidogion i'r eglwysi, ac efengylwyr, i bregethu yr Efengyl i'r holl fyd.

2. Bod Crist wedi gorchymyn i bob eglwys gynnal ei gweinidog, pan fyddo yn bossibl.

3. Os bydd eglwys yn rhŷ dlawd i allu gwneyd hyny, y dylai eglwysi ereill ei chynnorthwyo.

4. Y dylai yr eglwysi yr un ffunud gynnal yr efengylwyr, y rhai a fyddont yn pregethu i'r paganiaid.

1 Phil. 4. 18. 2 3 Ioan 5—8. 3 2 Cor. 8. 1—5. Phil. 4. 16—18. 4 Act. 2. 47; a 4. 34. 5 Act. 20. 17. Phil. 1. 1. Act. 14. 23. Tit. 1. 5. Heb. 13. 7, 17. 1 Pedr 5. 1—4. Iago 5. 14.

5. Bod Crist wedi cyflwyno i ofal ei eglwys gyffredinol, y ddyledswydd o gynnal ei weinidogion ef trwy y byd.

6. Os bydd gweinidog neu efengylwr yn methu cael cynhaliaeth ddigonol oddiwrth ei frodyr Cristionogol, y gall efe lafurio mewn un rhyw alwedigaeth fydol er ei gynhaliaeth ei hunan.

Mae yn amlwg fod annghysondeb nodedig rhwng y drefn a ordeiniodd Crist er cynhaliaeth ei weinidogion, a'r hon a ddewisodd yr Eglwysi Seis'nig dan yr Undeb.

Yn ol cyfraith Crist, y mae y gweinidog i gael ei gynnal trwy zêl yr eglwys; yn ol yr Undeb, y mae yn cael ei gynnal trwy weithred Seneddol.

Yn ol cyfraith Crist, efe a ddylai gael ei gynnal gan y credinwyr; yn ol yr Undeb, efe a gynhelir gan ddynion o bob math, gan gynnwys Pabyddion, Undodiaid, anffyddiaid, a'r afradloniaid mwyaf diras.

Yn ol cyfraith Crist, efe a ddylai gael ei gynnal gan y rhai a gyfrannent o'u heiddo eu hunain; yn ol yr Undeb mae y Wladwriaeth wedi pleidleisio yr eiddo ereill i'w gynnal.

Yn ol cyfraith Crist, dylai yr hyn oll a offrymmir tuag at ei gynhaliaeth gael eu rhoddi yn wirfoddol; yn ol yr Undeb, fe'u telir dan arswyd attafaeliad.

Y mae dylanwadau moesol y ddwy drefn er cynhaliad gweinidogion Crist yn dra gwahanol.

Mae y drefn osodedig gan Grist yn gyfiawnaf, oblegid yn ol hòno, y rhai a dderbyniant addysg yn unig a dalant am dano; tra, yn ol trefn y Sefydliad, y mae yn rhaid i bawb dalu am yr addysg pa un bynnag a dderbyniant hwy ef ai peidio.

Mae y drefn a ordeiniodd Crist, yn galw ar Gristionogion i dalu, yr hyn a wnant yn rhydd, am eu bod yn ei hystyried yn ddyled arnynt i'w thalu, i Grist, ac i'w gweinidogion; tra y mae y gyfundrefn Seis'nig yn gorfodi llawer i dalu, y rhai a ommeddent pe y gallent.

Mae y drefn a ordeiniwyd gan Grist yn ymarfer ffydd a chariad credinwyr, y rhai ydynt fel hyn yn gwneuthur offrwm diolchgar iddo ef; ond y mae y gyfundrefn Seis'nig yn dirdreisio treth oddiar annghredinwyr, yr hyn a delir i'r Llywodraeth yn anfoddog, gan ofn cyfraith.

Y mae y drefn a appwyntiwyd gan Grist yn llawer mwy dyddannus i weinidog duwiol, am y gall dderbyn gyda diolchgarwch a llawenydd, yr hyn a gyfrennir gan ei frodyr drwy haeledd a serchogrwydd, mewn dyled i Grist, a chyfiawnder iddo ef; tra dan y gyfundrefn Seis'nig y rhaid iddo gyfodi ei gyllid trwy rym cyfraith oddiar y rhai ydynt efallai yn ei felldithio ef a'i grefydd, tra yn ei thalu.

Mae y drefn a osodwyd gan Grist yn tueddu i ddynesu gweinidogion a phobl at eu gilydd, yn gymmaint a bod y gweinidogion dani wrth dderbyn

eu cynhaliaeth oddiwrth serchogrwydd eu praidd, yn teimlo yn ddiolchgar am hyny, a'r bobl yn canfod bod gwneuthur caredigrwydd yn ffynhonell serchogrwydd cystal a'i dderbyn; ond y mae y drefn Seis'nig yn estron-eiddio y naill blaid oddiwrth y llall, gan roddi i'r gweinidog achos i gwyno o herwydd ôl-ddyledion, a chyfrwys ocheliad i dalu, tra y mae y praidd yn cael eu temtio i feddwl bod eu bugail yn hunanol a chreulon.

Mae trefn Crist, gan ofyn cynhaliad y gweinidogion yn unig ar law y rhai ydynt yn gwerthfawrogi y gwirionedd, ac yn cyfrannu yn ewyllysgar, yn tynu yr annuwiolion i wrando yr Efengyl heb arian a heb werth; ond y drefn Seis'nig, yr hon sydd yn eu trethu i gynnal yr hyn ni's credant, neu a ddirmygant, sydd yn cau eu clustiau yn erbyn y gwirionedd.

Mae trefn Crist yn amlygu grym crefydd i'r byd, yr hon y gallant ei mesur i ryw radd wrth yr aberthau a wna Cristionogion yn wirfoddol er ei chynhaliaeth; tra mae y drefn Seis'nig yn peri i'r byd gredu bod Cristion-ogion mor hunanol ac mor gybyddlyd ag ydynt hwy eu hunain, ac na's cynhalient eu gweinidogion oni bai eu gorfodi i wneyd hyny.

Yn olaf, yn ol y drefn a osodwyd gan Grist, y gweinidogion goreu yn gyffredin a gynhelir oreu, am y gall Cristionogion werthfawrogi gras eu gweinidogion cystal a'u talentau; ond, dan y drefn Seis'nig, y mae y bywiol-aethau mwyaf goludog yn myned i geraint y noddwyr; ac felly y mae y gweinidogion gwaethaf yn fynych yn cael eu talu oreu, a'r eglwysi yn cael eu goresgyn gan rai a geisiasant y weinidogaeth er mwyn eu helw yn unig.

Os ydyw y sylwadau hyn yn gywir, y mae y Cristionogion a oddefont i'w gweinidogion gael eu talu gan y Llywodraeth, yn dïystyru ewyllys Crist; yn achwyn ar ei ddoethineb ef; yn esgeuluso eu dyledswydd; yn niweidio eu nodweddiad Cristionogol; yn amlygu hunanolrwydd bydol trwy geisio gochelyd gwobrwyad cyfiawn gwasanaeth a dderbyniwyd; yn ceisio elusenau i swyddogion Crist oddiar ddwylaw ei elynion ef; yn cyffroi rhagfarn yn erbyn yr Efengyl yn meddyliau degwm-dalwyr digrefydd; yn nychu defnyddioldeb y weinidogaeth; yn cyfleu gweinidogion Crist dan dâl a dyl-anwad dynion annuwiol; ac yn cyhoeddi i'r byd na's gall dysgyblion Crist gynnal ei addoliad, a chyhoeddi ei wirionedd, oddieithr bod dynion bydol, ac annghredinwyr o bob dosbarth yn eu cynnorthwyo. Gan hyny, y mae yn teilyngu ystyriaeth mwyaf difrifol gweinidogion ac eglwysi Cristionogol, oni ddylent hwy ar unwaith ymwrthod â threfn mor ddïanrhydeddus i'r Efengyl, a dychwelyd at yr un sydd yn gorwedd ar awdurdod Crist.

---

## ADRAN II.—GORUCHAFIAETH Y WLADWRIAETH.

Un canlyniad a ddeillia o'r arlwyad a wneir gan y Wladwriaeth er cynhal-iad gweinidogion Cristionogol yw, ei bod yn arhoni ac yn ymarfer yr hawl o

oruwchrëoli yr eglwysi. Mae yr hawl hon yn cael ei arhoni yn y cyfreithiau canlynol, y rhai ydynt eto mewn grym :—

Trwy 26 Henry VIII. pen. 1, "Bod i'r Brenin, ei ettifeddion, &c., gael ei gymeryd, ei dderbyn, a'i gyfrif, yn unig ben goruchaf Eglwys Loegr ar y ddaear,......a medda awdurdod o amser i amser, i ymweled, darostwng, diwygio. trefnu, unioni, attal, ac adgyweirio pob cyfryw gyfeiliornadau, heresiau, camarferion, tramgwyddiadau, tremygau, ac ysgelerderau,......*y rhai y gellir trwy un math o awdurdod, neu frawdwriaeth ysbrydol, eu diwygio yn gyfreithlon, &c.*"[1]

Trwy 37 Henry VIII. pen. 17, ordeinir, "Bod eich mawrhydi, ac y bu yn wastadol yn gyfiawn, yn ben goruchaf Eglwys Loegr ar y ddaear, ac yn meddu cyflawn awdurdod i geryddu, cospi, a darostwng pob math o heresiau, cyfeiliornadau, drygau, pechodau, camarferion, eilunaddoliadau, ffugiadau, ac ofergoelion, a ddeilliont ac a gynnyddont o fewn yr unrhyw; *ac i ymarfer pob rhyw frawdwriaeth arall, a elwir yn gyffredin brawdwriaeth eglwysig,*......NI'S MEDD ARCHESGOBION, ESGOBION, ARCHDDIACONIAID, A PHERSONAU EGLWYSIG EREILL, UN MATH O FRAWDWRIAETH EGLWYSIG OND TRWY AC ODDIWRTH EICH MAWRHYDI BRENINOL......Yn gymmaint ag mai eich Mawrhydi yw unig ddïamheuol a goruchaf ben Eglwys Loegr, i'r hwn yn ol yr Ysgrythyrau sanctaidd, *y mae pob awdurdod a gallu wedi ei roddi yn gyflawn i wrandaw a phenderfynu pob rhyw achosion eglwysig, ac i geryddu pob drygioni a phechod ;* ac i bwy bynnag a appwyntier gan eich mawrhydi i'r perwyl hyny,......ordeinier ac arosoder trwy awdurdod y Senedd hon, bod i hawb a phwy bynnag, yn gystal lfëygol a phrïod, athrawon yn y gyfraith wladol, a bennoder i'r swydd o ganghellwr, prif beriglor, dirprwywr, rhaglaw, ysgrifenydd, neu gofrestrydd, *allu gweinyddu ac ymarfer yn gyfreithlon, bob math o frawdwriaeth, a elwir yn gyffredinol, brawdwriaeth eglwysig,* a phob ceryddon a gorfodogaethau perthynol i'r unrhyw."[2]

Trwy 1 Edward VI. pen. 12, "Os bydd i neb trwy bregethu cyhoeddus, geiriau neu ddywediadau eglur, haeru......nad yw, neu na ddylai y brenin fod yn ben goruchaf Eglwys Loegr ar y ddaear......yn ddigyfrwng dan Dduw, efe, ei gynnorthwywyr, ei gefnogwyr, ei annogwyr, a'i gynghorwyr, a gaiff am y trosedd cyntaf, ei ddirwyo o'i feddiannau, a'i garcharu dros ewyllys y brenin ; am yr ail drosedd, efe a ddirwyir o'i feddiannau, ac o elw ei diroedd a'i ddyrchafiadau ysbrydol dros ei fywyd, ac a garcherir hefyd dros holl yspaid ei einioes ; ac am y trydydd trosedd, efe a fydd yn euog o uchel fradwriaeth."[3]

Trwy 1 *Mary, sess.* 1, *cap.* 1, dirymwyd y gosb o fradwriaeth.

Trwy 1 *Elizabeth, cap.* 1, *s.* 17, "*Pob cyfryw frawdwriaethau,* rhagor-

1 *Burn's "Eccl. Law,"* Vol. 3. p. 657. 2 *Ibid,* Vol. 2. p. 43. 3 *Ibid,* Vol. 3. p. 658.

freintiau, goruchafiaethau, a blaenoriaethau *ysbrydol ac eglwysig a ymarferwyd, neu y gellid yn gyfreithlon eu hymarfer hyd yn hyn, trwy unrhyw allu neu awdurdod ysbrydol neu eglwysig, mewn ymweliad a'r corph eglwysig, a phersonau, ac er diwygio, trefnu, a cheryddu am bechod, a phob math o heresiau, ymraniadau, camarferion, tramgwyddiadau, diystyrwch, ac ysgelerderau, a gyssylltir ac a unir â choron amherodrol y deyrnas hon dros byth.*"[1]

Trwy *canon* 1, darfu i'r eglwys mewn cynghorfa, O. C. 1603, ordeinio, "bod i bob gwr eglwysig sylwi ar, a chadw......yr holl gyfreithiau a'r gosodedigaethau a wnaed er adferu i Goron y deyrnas hon yr hen frawdwriaeth ar y Corph eglwysig."

Trwy *canon* 2, "Pwy bynnag o hyn allan a haero, nad yw ei fawrhydi y brenin, yn meddu yr un awdurdod mewn pethau eglwysig, ag a feddai breninoedd duwiol yn mysg yr Iuddewon, ac amherawdwyr Cristionogol ar y brif eglwys, *neu a achwyno ar un ran o'i uchafiaeth breninol,* a adferwyd yn yr achosion dywededig i'r Goron, a *thrwy gyfreithiau y deyrnas hon a sefydlwyd ynddi,* ysgymmuner ef yn weithredol."

Trwy *canon* 36, "Na bydd i neb o hyn allan gael ei dderbyn i'r weinidogaeth,......oddieithr iddo yn gyntaf law-nodi y tair erthygl ganlynol,— 1. Mai ei fawrhydi y brenin, dan Dduw, yw unig lywydd goruchaf y deyrnas hon, yn gystal *mewn pob pethau ysbrydol neu eglwysig* â thymhorol, &c.

Mae y gosodiadau hyn yn datgan yn eglur,—1. Bod y Goron yn meddu pob brawdwriaeth ysbrydol neu eglwysig, a fu erioed yn cael ei hymarfer gan unrhyw allu ac awdurdod ysbrydol, pa un bynnag ai pab, cynghorfa, prelad, neu eglwys.

2. Y gall y Goron gan hyny weinyddu pob rhyw ddysgyblaeth eglwysig er cosbi heresi, ymraniad, a phechod o bob math.

3. Nad oes gan esgobion a gweinidogion un math o frawdwriaeth ysbrydol o fewn yr eglwysi, ond a ddeillia o'r Goron.

4. Y gall y Goron drosglwyddo ei hawdurdod ysbrydol i gyfreithwyr eglwysig, y rhai a allant weinyddu pob rhyw ddysgyblaeth eglwysig yn ei henw.

Ac yn ol y rheolau uchod, rhaid i holl weinidogion Eglwys Loegr gydnabod y goruchafiaeth hwn o eiddo y Goron mewn pethau ysbrydol, rhaid iddynt gadw a gwneuthur y deddfau hyn trwy y rhai y'i cyhoeddwyd ac y'i cadarnhawyd, *ac ni's gwiw iddynt achwyn ar un ran o hono dan berygl ysgymmundod.*

Dydd Iau, Chwefror 27, 1845, pan gyflwynai Arglwydd Fortescue eirchion i Dy yr Arglwyddi am adolygiad ar y rhuddell *(rubric)*, dywedai esgob Exeter,—" Fy arglwyddi, yr oedd ein henafiaid lawer yn rhŷ ddoeth, rhŷ

[1] *Burn*, Vol. 2. p. 304.

rinweddol, a rhŷ ffyddlawn, i feddwl trosglwyddo goruchafiaeth ysbrydol i unrhyw bennadur a allai fod yn llywodraethu y deyrnas hon." I'r hyn yr attebai Arglwydd Brougham, "Yr ydwyf fi yn gwahaniaethu oddiwrtho ef (yr esgob) mewn un pwynt;—Yr ydwyf fi yn dal fod awdurdod y Senedd yn oruchaf yn mhob peth; a bod brawdwriaeth y Senedd yn cyrhaedd dros bob peth yn y wlad, ysbrydol a thymhorol."[1] Y dyfyriad canlynol o *Hooker*, a ddengys ei fod ef yn cyttuno ag Arglwydd Brougham. "Os yw y weithred sydd genym i'w chyflawni yn ymarferus yn nghylch pethau crefydd yn unig, y mae y gallu i'w chyflawni fel hyn yn ysbrydol; ac os yw y gallu hwnw yn gyfryw, fel nad oes unrhyw allu i'w oruwchrëoli, yna y'i galwn, yr arglwyddiaeth, neu y gallu goruchaf, can belled ag y mae ei ffiniau yn cyrhaeddyd. Gan hyny, pan ddywedir bod gan freninoedd Cristionogol arglwyddiaeth ysbrydol, neu allu goruchaf mewn achosion a threfniadau eglwysig, y meddwl yw, eu bod o fewn eu ffiniau a'u tiriogaethau eu hunain *yn meddu awdurdod a gallu i orchymyn, hyd yn nod mewn pethau perthynol i'r grefydd Gristionogol;* ac nad oes neb uwch na mwy, a all yn y cyfryw amgylchiadau eu goruwch-réoli pan y'u cyfleir i deyrnasu fel breninoedd.[2] Felly, gan hyny, yn gymmaint a bod y goron yn meddu yn ol y gyfraith "bob brawdwriaeth ysbrydol y gellir ei ymarfer gan unrhyw allu ysbrydol," y mae hefyd yn ol Hooker yn meddu pob brawdwriaeth mewn pethau ysbrydol, neu "mewn pethau crefydd yn unig," ar a arferwyd erïoed gan esgob, cynghorfa, neu eglwys.

Ond, nyni a welwn fod Arglwydd Brougham yn honi i'r Senedd yr hyn a ommeddai yr esgob i'r Goron, a'i reswm am hyny oedd, bod gallu ysbrydol y Goron yn gaffaeledig o'r Senedd; ac yn hyn hefyd yr oedd efe yn gywir. Y 26 *Hen. VIII, cap.* 1, a ddywaid, "bod y brenin i feddu awdurdod i ymweled o amser i amser, &c." Y gyfraith 1 *Eliz., cap.* 1, a ordeinia "bod brawdwriaeth ysbrydol i gael ei uno a'i gyssylltu dros byth a Choron amherodrol y deyrnas hon." Ond ni ddarfu i'r Senedd ymddihattru o'i uch-hawlaeth ei hunan wrth wneuthur y pennadur yn ben i'r eglwys fel hyn; canys tra y mae y pennadur yn gweinyddu y cyfreithiau eglwysig megys y gweinydda y rhai gwladol, ni chaniattäodd y Senedd yn y blyneddoedd diweddar unrhyw ddeddfwriaeth i'r eglwys heblaw yr eiddi ei hun. Y mae amryw gyfreithiau yn dangos i ba fesur y mae y Goron yn caffael ei hawdurdod o'r Senedd. Ni's medd canonau yr eglwys un grym hyd oni chaffont gydsynied y brenin; ond y mae hyn trwy 25 *Henry VIII. cap.* 19, ac nid drwy unrhyw awdurdod wreiddiol yn y Goron.[3]

Gall unrhyw athrawon yn y gyfraith, a appwyntir gan y Goron, weinyddu pob math o frawdwriaeth ysbrydol; ond y mae y Goron yn derbyn yr hawl yma oddiwrth y Weithred Seneddol 37 *Henry VIII. cap.* 17.

1 *The Times, Feb.* 28, 1845. 2 *Hooker's Polity, book* 8. 3 *Burn,* Vol. 2. p. 24.

Y mae amryfal amgylchiadau dan y rhai y gwaherddir i'r llŷs eglwysig yn bresenol gyhoeddi ysgymundod, er y gallai wneuthur hyny yn ddiweddar. Gan na's gellid gwneyd y cyfnewidiad hwn trwy awdurdod y Goron, fe'i dygwyd i weithrediad trwy 53 Geo. III. cap. 127. Pan y cadarnhawyd y Weithred Seneddol 59 Geo. III., er trefnu rhandiroedd eglwysi ychwanegol, rhoddid yr ymadrodd canlynol i fewn gyda golwg ar ryw ddirprwywyr appwyntiedig gan y Goron: "Bydd yn gyfreithlon i'r dirprwywyr drefnu rhandir," &c., yr hyn a brofai na's gallasai y dirprwywyr breninol wneyd y fath drefniad heb y cyfryw weithred. Defnyddiwyd y cyflelyb iaith mewn gweithredoedd Seneddol dylynol, perthynol i'r cyffelyb bethau.[1] Yr appeliad a orweddai gynt o Lŷs y Bwäau, sef Uchel gynghor-lys Archesgob Caergaint, i Lys y Dirprwywyr, a drosglwyddwyd i Bwyllgor brawdwriaethol y Cyfrin-gynghor. Gwnaed hyn, nid trwy uchelfraint y Goron, ond trwy ddwy weithred Seneddol, 2 *a* 3 *Wm. IV. cap.* 72, *a* 3 *a* 4 *Wm. IV. cap.* 41. A dylid sylwi yn arbenig ar y ffaith yma, oblegid bod trosglwyddiad yr awdurdod o un llys i'r llall, wedi ei fwriadu, nid i effeithio unrhyw amcan eglwysig ar a oedd o'r blaen yn annghyfreithlon; ond yn unig er cwblhau rhyw amcanion cyfreithiol arbenig, mewn modd mwy goddefol. Ac mor ddiweddar a'r teyrnasiad presenol, y mae yr esgob a thri ar-drethwyr *(assessors)* wedi eu hawrdudodi, nid gan y Goron; ond drwy gyfraith y ddysgyblaeth eglwysig, 3 a 4 Victoria, i gyhoeddi dedryd ar amryfal droseddau eglwysig. Y cyfreithiau hyn a brofant yn ddigonol, bod goruchafiaeth y Wladwriaeth wedi ei gyfleu mewn modd rhanedig a deilliedig yn y Goron; ond ei fod yn gyflawn ac anneilliedig yn y Senedd, ac felly cyfiawnheir ymadrodd Arglwydd Brougham, sef "bod brawdwriaeth y Senedd yn cyrhaedd dros bob peth yn y wlad, ysbrydol a thymhorol." A chydag ef y mae Hooker yn dal mai y Ddeddfwriaeth neu y Senedd, yw ffynhonell goruchafiaeth y brenin. "Pwy a amheua na raid i'r brenin a'i derbynia, *ei ddal oddiwrth a than y gyfraith,* yn ol y gwir-air. *Rex non debet esse sub homine, sed sub Deo* ET LEGE?"[2] Mae yr arglwyddiaeth fwyaf sefydlog, lle y mae y gyfraith yn llywodraethu y brenin lwyraf, gwir effaith yr hyn a welir yn neillduol mewn achosion eglwysig cystal a gwladol."[3] Mae y brenin yn "*Major singulis, universis minor.*"[4] Arwireddau ein llywodraeth freninol ydynt, *Lex facit regem; Rex nihil potest nisi quod jure potest.*"[5] Gan hyny, gwir sefyllfa eglwysi Crist o fewn y Sefydliad yw, y gall y Goron ymarfer arglwyddiaeth ysbrydol arnynt yn mhob peth eglwysig, ac y medd y Senedd awdurdod uwch a mwy trylwyr fyth arnynt.

Darluniad esgob Warburton o'r Undeb hwn sydd fel y canlyn: "Mae yr eglwys yn rhoddi i fynu ei hannibyniaeth, ac yn gwneuthur y pennadur ei phen goruchaf, heb gymeradwyaeth a chaniattâd yr hwn, ni's gall weinyddu,

1 *Burn,* Vol. I. pp. 306*c*., 306*d*. 2 *Hooker, book* 8. 3 *Ibid.* 4 *Ibid.* 5 *Ibid.*

trefnu, na deddfu dim. Canys y mae y Wladwriaeth trwy y cyngrhair yma wedi ymgymeryd ag amoddiad yr Eglwys, *a chan na weinyddir nodd-iad i unrhyw gymmundeb, heb fod awdurdod arno yn y cymmundeb a fyddo yn noddi, y mae yn canlyn o angenrheidrwydd, bod y pennadur gwladol yn oruchaf.* Noddiad, sydd fath o warchodaeth, ac y mae gwarchodaeth yn ei natur yn arwyddo goruchafiaeth a llywodraeth."[1]...... "Ni ddyroddir unrhyw frawdwriaeth i'r swyddwr gwladol drwy yr uchafiaeth yma, ond a weinyddid gan yr eglwys fel corph gwladwriaethol cyn y cyttundeb.'"[2]

Addefa Hooker mai pwnc cyfraith yn gwbl yw yr uchafiaeth yma. "Am arbenicter mewn pethau eglwysig, nid yw gair Duw yn un man yn appwyntio bod i bob breninoedd ei feddu, mwy nag y dengys fod un brenin i fod heb ei feddu; am ba achos, y mae yn ymddangos mai ar hawl ddynol yn unig y mae yn sefyll, bod y cyfryw arglwyddiaeth yn cael ei rhoddi i freninoedd Cristionogol."[3]

Ond y mae y fath uchafiaeth Gwladwriaethol heb awdurdodiad Dwyfol, yn annghyson â hawlion Crist.

Mae yr Ysgrythyr yn tystiolaethu mai Crist yw brenin ei eglwys,[4] ac am hyny y mae goddef i'r Wladwriaeth lywodraethu arni heb ei awdurdodiad ef, yn gymmaint bradwriaeth ag a fyddai ethol estron yn yr Iwerddon, neu yn Nghanada, i fod yn llywodraethwr ar y wlad, heb gymeryd un sylw o ewyllys ein pennadur.

Mae Crist yn ben ac arglwydd ei eglwys, fel y mae gwr yn ben ac arglwydd ei dylwyth ei hun.[5] A phan fyddo unrhyw eglwysi heb awdurdod oddiwrtho ef, yn caniattau arglwyddiaeth ysbrydol i estron arnynt, y maent yn gwrthryfela yn erbyn ei awdurdod ef, gymmaint ag y byddai gweision, y rhai yn absenoldeb eu meistr, a wahoddent arall i gymeryd arno lywodraethu ei dŷ ef.

Mae Crist wedi ymostwng i ddarlunio yr eglwys yn yr Ysgrythyr fel ei brïodferch, ac yntau ei hunan fel prïod yr eglwys.[6] Ac am fod Eglwys Rufain wedi rhoddi i ereill, yr anrhydedd dyledus iddo ef, fe'i gelwir yn ngair Duw yn buttain, a phob eglwys mewn cymmundeb a'r eglwys lygredig hono, a elwir yn buttain hefyd.[7] Gan hyny, pan fyddo unrhyw eglwys, yn goddef i neb un yn amddifad o awdurdod Crist, lywodraethu arni, y mae yn gweithredu megis y gwnelai gwraig a oddefai i estron lywodraethu arni yn absenoldeb ei gwr. Byddai yr eglwys hono yn euog o odineb, fel y bu Eglwys Rufain.

[1] *Warburton's "Alliance," book* 2. c. 3. [2] *Ibid.* [3] *Hooker, book* 8. [4] Ps. 11. 6. Esa. 9. 6, 7. Dan. 7. 14 Zech. 9. 9. Io. 18. 37, 39; a 19. 19. Col. 1. 13. 2 Cor. 10. 5, &c. [5] Heb. 3. 5, 6. Gal. 6. 10. Matt. 10. 25; a 25. 14—30. Rhuf. 7. 6; a 14. 9. 1 Cor. 7. 22. Eph. 2. 19; a 6. 6. Col. 3. 24, &c. [6] Eph. 5. 22, 23, 25. 2 Cor. 11. 2. Io. 3. 29 Rhuf. 7. 4. Dat. 19. 7; a 21. 9. [7] Dat. 17. 1, 2, 5.

A thrachefn, fe elwir yr eglwys yn yr Ysgrythyr yn gorph, pen yr hwn yw Crist,[1] ac am hyny y mae yr eglwys a wnelo y swyddog gwladol ei phen, yn dyfod yn gorph a dau ben, yr hyn sydd anferthwch, ac anghenfildod.

Ond y mae hyn oll yn beth a wnaeth Eglwys Loegr. Wrth ganiattau yr arglwyddiaeth ysbrydol yma i'r Wladwriaeth arni, hi a aeth yn fradwrus, anufudd, godinebus, ac annaturiol; y mae yn gymmundeb ag y mae iddi ddau frenin ysbrydol, yn dylwyth a dau feistr gwahanol, yn wraig a dau ŵr, ac yn gorph a dau ben.

Nid yw ond ofer i ddadleuwr dros yr Undeb haeru nad yw y brenin ond pen yr eglwys dan Grist. Pa le y mae appwyntiad Crist o hono? A appwyntiwyd y diras Siarl II, gan ein Harglwydd? neu y Pabaidd Iago II, i fod ei raglaw? Oni's gwnaed, nid oedd gan yr eglwysi sefydledig ddim mwy o hawl i wneyd un o'r personau crybwylledig yn ben iddynt, nag a fyddai gan gymdeithas o Wyddelod i wneuthur y pab eu prif lywydd dan y Frenines.

Ac nid yw ond ofer haeru bod y Sefydliad wedi cymeryd gofal o hawlion Crist, ac na's goddefa i'r Wladwriaeth lunio unrhyw ddeddfau croes i gyfraith Crist. Pe byddai hyn mor gywir ag ydyw o annghywir, eto byddai anffyddlondeb y Sefydliad yn aros yn amlwg. Ië, pe na throseddid un o gyfreithiau Crist trwy ddeddfwriaeth y Llywodraeth, byddai pob gweinidog a ganiattäai uchafiaeth y Llywodraeth er mwyn ei thaledigaeth, yn ymddwyn yn gyffelyb i genhadwr teyrnas mewn llys tramor, yr hwn a dderbyniai ddobr gan y Llywodraeth dramor, ac a ganiattäai iddi lywodraethu ei holl ymddygiadau, ond iddi beidio gofyn dim ganddo a fyddai yn groes i hyfforddiadau pendant ei bennadur ei hunan. Diswyddid y cyfryw genhadwr yn waradwyddus gan unrhyw dywysog yn Ewrop. Pa fodd y rhydd cenhadon Crist gyfrif iddo ef am eu cydsyniad i fod yn ddobryddion y Wladwriaeth?

Ond, yn mhellach, dychymyg disail yw, y gall y Wladwriaeth gymeryd arni frawdwriaeth ysbrydol heb droseddu un o gyfreithiau Crist, fel y gwelir trwy gip-olwg ar ei gosodiadau cyfreithiol.

Mae uchafiaeth y Wladwriaeth yn penderfynu cyflëad gweinidogion o fewn y Sefydliad; ei hathrawiaeth a'i haddoliad; ei dysgyblaeth a'i llywodraeth; ac yn mhob un o'r pethau hyn, y mae y Wladwriaeth yn troseddu cyfraith Crist.

1. Ychydig o bethau a allant ddylanwadu yn fwy grymus ar nodwedd ysbrydol Sefydliad na nifer a nodwedd ei esgobion. Ond ni's medd hawl na gallu i benderfynu y naill ffordd na'r llall. Ni's gall y Sefydliad benderfynu ar eu rhif, cylch eu brawdwriaeth, na nifer yr eglwysi a gyfleir dan eu gofal. Er fod hyn yn beth o natur hollol ysbrydol, gan y Senedd yn unig y gellir ei benderfynu. *Y 6ed a'r 7ed, William IV. cap.* 77, a grëodd

[1] Col. 1. 18. Eph. 1. 23.

ddwy esgobaeth newydd, ac a adluniodd gyflwr yr hen esgobaethau, er dosparthiad mwy cyfartal ar y llafur esgobyddol. Y Senedd yn unig a all benderfynu pa nifer o olynwyr yr apostolion a fydd, i ddosparthu, fel y tybia rhai, ddoniau ysbrydol i'r eglwysi.

Mae nodweddiad yr esgobion yn fwy pwysig fyth i'r Sefydliad, na'u rhif. Medda yr esgob awdurdod dra mawr yn ei esgobaeth; gan na's gall neb bregethu o'i mewn heb ei drwydded ef, ac efe a all roddi neu wrthod ei drwydded, ei pharhau neu ei galw yn ol wrth ei ewyllys, felly y mae curadiaid dan ei awdurdod yn hollol. Ac y mae yn meddu dylanwad fawr ar y personiaid hefyd, nid yn unig trwy rym cyfraith, ond mewn rhan trwy y noddaeth fawr sydd at ei law, ac mewn rhan trwy y synied sydd yn ffynu mor gyffredinol, y dylid ufuddhau i'w orchymyn yn mhob pethau na byddont yn wir bechadurus. Dros rai canrifoedd, etholid yr esgobion gan y gweinidogion a'r bobl; ond yn Lloegr, y mae yr eglwysi wedi gadael y ddyledswydd bwysig hon, yr hon sydd yn llwyr ysbrydol, ac yn dwyn perthynas fywiol â ffyniant crefydd yn y wlad, i gael ei chyflawni er drwg neu er da, gan y Llywodraeth. Yn yr Iwerddon, y mae yr esgobaethau yn ddyroddol trwy fraint lythyrau; mae noddaeth yr Esgobaethau Cymreig yn perthyn i'r Goron. Yn Lloegr, trwy 25 Hen. VIII. cap. 20, caniatta y brenin drwydded i'r Dëon a'r seneddr gadeiriol—corph tra annghymmwys,—i ethol, ond ar yr un pryd, a bennoda iddynt pwy i'w ethol; ac oni bydd i'r Dëon a'r seneddr ethol y cyfryw un o fewn ugain niwrnod, bydd pob troseddwr yn agored i *praemunire.* Y gosb trwy ysgrif-len *praemunire*[1] yw, "y bydd y diffynydd o'i ddyfarniad, allan o nawdd y brenin; ei diroedd, ei feddiannau, a'i anifeiliaid, a ddirwyir i'r brenin, a'i gorph a garcherir wrth ewyllys y brenin."[2]

Tybia llawer fod cyssegriad prelad yn ei wneuthur ef yn olynwr yr apostolion, ac yn feddiannol ar yr awdurdod annghyfrannogol i ordeinio bugeiliaid i'r eglwysi, ac i gyfrannu doniau ysbrydol. Y dynion i dderbyn yr awdurdod arswydlawn yma, a etholir yn ddï eithriad gan weinidogion y Goron; y prif weinidogion, a'r canghellorion. Y Canghellorion a'r prif weinidogion yn unig ydynt i benderfynu y llinell ar hyd yr hon y mae y dylanwad apostolaidd i ddisgyn o genedlaeth i genedlaeth, a'r ffynhonellau, o'r rhai y byddo ordeiniad, gras, ac awdurdod fugeilaidd i gael eu trosglwyddo i'r eglwysi.

Mae y berthynas rhwng y gweinidog a'i eglwys yn llawer agosach na'r berthynas rhwng y prelad a'i glerigwyr, a chan ei fod o bwys mawr i lwyddiant yr eglwys na byddo y nifer dan ofal un gweinidog yn ormod i'w arolygaeth, fe ddylai yr eglwysi feddu yr hawl ddiattalfa i sicrhau iddynt eu hunain gynnifer o weinidogion ag a fyddo yn eisiau arnynt. Ond y Llywodraeth yn unig a benderfyna i'r Sefydliad, nifer y gweinidogion cystal a nifer yr esgobion. Mae plwyfau dinesig mawrion yn cynnyddu i fod bob

[1] *Burn*, Vol. 1. pp. 202, 203. [2] *Encyc. Brit. art.* "*Praemunire.*"

un yn ddinas, a'r Undeb yn rhoddi yr hawl annghyfrannogol i weinyddu addysg ynddynt i'r person. Mae torfeydd anferth yn aros heb iddo ymweled â hwy na chyfrannu addysg iddynt; ac eto ni's medd y miloedd amddifaid o addysg, un hawl i ddewis drostynt eu hunain weinidogion, yn y rhai y gallont ymddiried. Gweithredoedd Seneddol mewn perthynas i adeiladu Eglwysi, yn unig a allant yn araf, ac yn anmherffaith ryddhau eu dwylaw. Er mai llwyr ysbrydol yw swydd gweinidog, ni all trigolion *St. George, Westminster, Marylebone, St. Pancras, St. Luke, Shoreditch,* a bröydd poblogaidd ereill, ddarpar ar gyfer eu hangenion ysbrydol, na lluosogi eu gweinidogion, heb ganiattad y Llywodraeth.

Y Wladwriaeth hefyd a bennododd i holl eglwysi y Sefydliad pwy a fydd eu gweinidogion. Mae detholiad dynion cymmwys, o'r pwys mwyaf i'w llwyddiant. Eu dyledswydd sanctaidd ac annrhrosglwyddadwy ydyw dewis dynion cymmwys. Yr oedd y brif eglwys yn Jerusalem yn dewis hyd yn nod apostol.[1] Dewisid gweinidogion hefyd gan yr holl eglwys.[2] Dros rai canrifoedd yr oedd yr holl eglwysi Cristionogol yn dewis eu gweinidogion eu hunain;[3] hyd y dydd heddyw, rhaid i bobl Ysgotland roddi "galwad," cyn y gellir sefydlu gweinidog arnynt; ac yn ddiweddar darfu i agos hanner gweinidogion y Sefydliad Albanaidd ysgaru oddiwrth y Wladwriaeth, am na chaniattäai y Wladwriaeth iddynt roddi i'w heglwysi yr hawl i roddi eu gwrth-lais yn appwyntiad eu gweinidogion. Ond am yr eglwysi yn Lloegr, ydynt mewn undeb a'r Wladwriaeth, ni's meddant un llais yn netholiad eu gweinidogion. Er nad oes neb i gael eu gwneyd yn weinidogion yn ol cyfraith Crist, ond dynion ffyddlon, ac y gwaherddir i'r eglwysi dderbyn neb ereill, eto goddefant i neb un gael ei osod arnynt a gyhoeddir yn gyfrifol gan y Wladwriaeth. Y noddwr ei hunan a gyflwyna y neb a welo efe yn dda o'r un fil ar bymtheg o glerigwyr Prydain Fawr, er y gall fod yn nodedig o wageddol neu anefengylaidd; ac, efallai yn cael ei ddrwgdybied yn euog o anfoesoldeb; ac ni's gall yr esgob osod neb arall yn weinidog y lle. Os bydd i'r esgob ommedd derbyn cyflwynedig y noddwr o fewn wyth niwrnod ar hugain, "bydd gan y noddwr hawl i alw ar raglaw yr esgob i osod yr eglwyswr a gyflwynai efe yn y fywioliaeth, ac i roi ei hawl mewn grym trwy ysgrif-len a elwir *quare impedit,* oddieithr i'r esgob ddwyn rhyw achos rhesymol fel ei ddadl pa ham nad yw y llênwr cyflwynedig yn gymmwys."[4] Yr unig "achos rhesymol," yw prawf cyfreithiol o analluogrwydd, heresi, neu anfoes. Nid yw y diffyg o ysbrydolrwydd, seguryd, drwg-dymher, ymlyniad hanner pabaidd wrth seremonïau, pregethu adgenhedliad yn y bedydd, gwadu yr athrawiaeth o gyfiawnhad o ras trwy ffydd, a buchedd annghrefyddol yn profi bod y galon heb ei chyfnewid, yn achosion rhesymol yn ngolwg y gyfraith. Ac fel hyn, yn ngwrthwyneb i gyfraith Crist, i

1 Act. 1. 2 Act. 6; a 14. 23, Groeg. 3 Gwel yr Adran nesaf. 4 *Burn,* 1. 156, *cf.*

flaenddrych apostolaidd, i ymarferiad y tri chanrif cyntaf o'r cyfnod Cristionogol, ac i synwyr cyffredin, y mae yr eglwysi er mwyn tâl y Llywodraeth, yn goddef i weinidogion annuwiol gael eu gosod arnynt, gan noddwyr annuwiol, trwy ordeiniad y Llywodraeth.

Fel hyn y mae yr Undeb wedi rhoddi awdurdod i'r Wladwriaeth i benderfynu nifer yr esgobion a'r gweinidogion, a hefyd i ddethol y dynion; a'r eglwysi er mwyn eu gwaddoliadau, wedi gadael heibio eu dyledswydd bwysig o beidio derbyn neb i fod yn weinidogion arnynt ond dynion duwiol, meddiannol ar y cymhwysderau a nodir yn ngair Duw i'r swydd.

2. Mae y Wladwriaeth yn barnu ar yr athrawiaeth i'w dysgu yn y Sefydliad.

Gelwir ar Gristionogion unigol, ac felly ar yr eglwysi, i gynnal yr holl wirionedd, i sefyll yn y ffydd, i ymdrech yn mhlaid y ffydd, ac i gynnyddu mewn gwybodaeth.[1] Dylai pob eglwys fod "yn golofn a sylfaen y gwirionedd."[2] Mae gweinidogion a phobl yn nghyd, i "gynnal gair y bywyd;"[3] ac i "gydymdrech gyda ffydd yr efengyl."[4] Ond y Wladwriaeth a wahardda y Sefydliad i ddiwygio unrhyw gyfeiliornad, neu i gynnyddu dim mewn gwybodaeth ysbrydol; ac felly y mae yn dyfod yn golofn a sylfaen cyfeiliornad cystal a gwirionedd, ac yn cynnal nid yn unig air y bywyd; ond athrawiaethau gwrthwyneb i'r gair hwnw. Rhaid i ddwy neu dair o enghreifftiau eglurhaol ddigoni yma. Yn ngwasanaeth y bedydd a'r *catechism*, cynnwysir yr athrawiaeth o fod babanod yn cael eu hadgenhedlu trwy yr ordinhad o fedydd, dysgeidiaeth a ddylai gael ei llysu gan yr eglwysi, am ei bod yn groes i'r Ysgrythyr ac i ffaith. Mae y chweched erthygl ar hugain yn dywedyd am weinidogion "drwg," a feddent weithiau "yr awdurdod bennaf yn ngweinidogaeth y gair a'r sacramentau." "Yn gymmaint ag nad ydynt yn gwneuthur hyny yn eu henw eu hunain, ond yn enw Crist, ac mai trwy ei gommisiwn a'i awdurdod ef y maent yn gweini; nyni a allwn arfer eu gweinidogaeth hwy, trwy wrando'r Gair, a derbyn y Sacramentau." Y mae hyn yn hollol groes i'r Ysgrythyr, lle y gwaherddir i'r cyfryw ddynion gael eu gwneuthur yn weinidogion,[5] y dywedir nad yw Crist yn eu hadwaen,[6] yr erchir iddynt gael eu hysgymuno,[7] ac y gwaherddir i Gristionogion wrando arnynt.[8] Dylai y Sefydliad ddiwygio y cyfeiliornad yma.

Yn ngwasanaeth Urddiad yr offeiriaid, gorchymyna y Wladwriaeth trwy ddeddf yr unffurfiad, i'r esgob gan ddodi ei ddwylaw ar ben yr ymgeisydd penliniedig, ddywedyd, "Derbyn yr Ysbryd Glan i swydd a gwaith offeiriad yn eglwys Dduw, yr hwn yr awrhon a roddir i ti trwy arddodiad ein dwylaw

1 1 Cor. 16. 13. Jud. 3. 2 Pedr 3. 18. 2 1 Tim. 3. 15. 3 Phil. 2. 16. 4 Phil. 1. 27. 5 1 Tim. 3. 1—7. Tit. 1. 5—9. 6 Mat. 7. 22, 23. 7 Gal. 5. 12. 8 Matt. 7. 15. Io. 10. 5. 2 Io. 10, 11.

ni. Pechodau pwy bynnag a faddeuech, fe'u maddeuir; a phechodau pwy bynnag a attaliech, fe'u hattelir."

Erthygl 36 a ddywaid, "Mae llyfr urddiad Offeiriaid yn cynnwys,......ac nid oes ynddo ddim sydd o hono ei hun yn ofergoelus, neu yn annuwiol." Mae yn sicr fod hyn yn gyfeiliornus, ac fe ddylai y cyfeiliornad gael ei ddiwygio.

Ond ni oddef y Wladwriaeth i'r cyfeiliornadau hyn a'u cyffelyb gael eu diwygio o'r Llyfr Gweddi Cyffredin. Y cyhoeddiad breninol rhag-ddodol i'r Erthyglau sydd fel y canlyn :—"Fod Erthyglau Eglwys Loegr......yn cynnwys gwir athrawiaeth eglwys Loegr, yn gyttunol â Gair Duw; y rhai yr ydym gan hyny yn eu sicrhau ac yn eu cadarnhau, gan orchymyn i'n holl ddeiliaid caredig barhau yn yr Unffurf hono o broffes, a gwahardd yr annghydfod lleiaf oddiwrth y dywededig Erthyglau."—Yn ol *canon* 36, rhaid i bob pregethwr yn y Sefydliad dystio, "Nad yw y Llyfr Gweddi Cyffredin. ac urddiad esgobion, offeiriaid, a dïaconiaid, yn cynnwys ynddo ddim gwrthwyneb i air Duw." Y pedwerydd *canon* a ddywaid fel hyn, "Pwy bynnag yn ol hyn a haero fod y ffurf o addoliad Duw......a gynnwysir yn y Llyfr Gweddi Cyffredin......yn cynnwys dim sydd yn wrthnaws i'r Ysgrythyrau, ysgymmunir ef yn weithredol." Y pummed *canon* a chwanega, "Pwy bynnag yn ol hyn a haero fod yr un o'r namyn un, deugain Erthyglau...... mewn un ran......yn gyfeiliornus......ysgymmuner ef." Ac er nad yw y canonau hyn yn rhwymo y llëygion, y mae grym cyfraith ynddynt i'r llênorion; ac fel hyn y mae y Wladwriaeth yn gorfodogi yr holl wŷr eglwysig i gyhoeddi y cyfeiliornadau hyn ac ereill, yn wirioneddau. Ac yn ol 13 Elizabeth. cap. 12, s. 2, "Os bydd i ryw wr eglwysig, neu y sawl a feddo fywioliaeth eglwysig, yn fwriadol ddal allan neu gadarnhau unrhyw athrawiaeth a fyddo yn llwyr annghydnaws i rai o'r Erthyglau dywededig, ac os wedi ei wysio o flaen esgob neu raglaw yr esgobaeth, y parha yn gyndyn yn ei farn, heb alw yn ol ei gyfeiliornadau, &c......efe a ddifuddir o'i holl ddyrchafiadau eglwysig."[1] Fel hyn y mae y Wladwriaeth wedi lluddias llênorion yn effeithiol rhag cynnyg gwellhau unrhyw gamsyniadau yn athrawiaethau y Sefydliad; ac er parhad y cyfeliornadau hyn, ni's goddefir unrhyw gymmanfa o'r Sefydliad i ymgyfarfod, yr hon a allai adolygu yr erthyglau, diwygio y Gweddïau, ac amcanu at wneuthur proffes gyflawnach o'r athrawiaeth efengylaidd.

3. Mae goruchafiaeth y Wladwriaeth yn dyfod i wrthdarawiad âg awdurdod Crist mewn perthynas i addoliad Duw.

Yn ol cyfraith Crist, dylai Cristionogion gilio oddiwrth y rhai sydd yn peri annghydfod a rhwystrau, Rhuf. 16. 17, ac am hyny ni ddylent wrando ar unrhyw bregethwr dallbleidiol, a fynai gau ymneillduwyr duwiol allan o

1 *Burn*, Vol. 1. p. 105.

eglwys Crist, gan eu camenwi yn ymbleidwyr, pa mor dangnefeddus bynnag a fyddont. Yn ol yr un gyfraith, dylai pob gweinidogion nad ydynt yn pregethu yr Efengyl, ond a bregethant yr athrawiaeth o gyfiawnhad trwy ffydd a gweithredoedd, gael eu cau allan o'r eglwys, Gal. 1. 8; a 5. 12. Ac am hyny, os drwy esgeulusiad dysgyblaeth y byddant yn aros yn yr ymarferiad o'u gweinidogaeth, dylai Cristionogion eu gochel yn ol y cyfarwyddiadau hyn, megis pe byddent wedi eu cau allan. Yn ol yr un gyfraith, dylai Cristionogion fod yn ofalus na roddont eu hwyneb i weinidogion na byddont yn iach yn y ffydd, 2 Ioan 10. 11. Ond yn ngwrthwyneb i'r cyfreithiau hyn o eiddo Crist, y mae y Wladwriaeth wedi cymeradwyo y cyfreithiau canlynol, y rhai ydynt eto mewn grym. Yn ol 1 *Elizabeth, cap.* 2, rhaid i'r plwyfolion ddyfod i eglwys y plwyf bob Sul a dydd gŵyl, dan y perygl o gael eu dirwyo ddeuddeg ceiniog am eu hesgeulusdra, y rhai a godir drwy drais gan y gwarcheidwaid eglwyisig. "Ni's gall neb gael ei ryddhau yn gyfreithlon rhag dyfod i eglwys ei blwyf ei hun, na'i awdurdodi i fyned i le arall, oddieithr iddo yn gyntaf gael ei drwyddedu yn gyfreithlon gan ei esgob-raglaw, yr hwn yw y barnwr prïodol am resymoldeb ei gais."[1] Yn ol 3 Iago. *cap.* 4, mae y rhai na byddont yn bresenol yn y weddi gyffredin yn ol 1 *Elizabeth. cap.* 2, i gael eu gorfodogi i dalu deuddeg ceiniog, ac oni feddant eiddo i attafaelu arnynt, i'w carcharu hyd oni thalont. Yn ol 23 *Elizabeth. cap.* 1, "Y mae pob un uwchlaw un mlwydd ar bymtheg oed, ar nad elo i ryw eglwys, capel, neu le arferol y darllenir y weddi gyffredin, i gael ei ddirwyo i'r frenines o ugain punt y mis;" a thrwy 21 Geo. III, cap. 32, "Pob cyfreithiau a wnaed ac a ddarparwyd er cefnogi mynychiad gwasanaeth Dwyfol ar ddydd yr Arglwydd......a fyddant eto mewn grym, ac a roddir mewn gweithrediad yn erbyn pawb a droseddont y cyfreithiau dywededig."[2]

Ewyllys Crist yw, bod i Gristionogion gyfarfod yn mhob lle cyfaddas i weddïo, "Yr wyf yn ewyllysio," medd Paul, "i'r gwyr weddïo yn mhob man."[3] Trwy weddi gymdeithasol yr oedd yr ugain a chant dysgyblion i Grist, mewn goruwch-ystafell yn Jerusalem, yn ymbarottoi i dderbyn dawn addawedig yr Ysbryd Glan.[4] Trwy weddi gymdeithasol yr ymnerthent yn erbyn bygythion eu herlidwyr.[5] Trwy weddi gymdeithasol y ceisient ryddhâd yr apostol Pedr o'r carchar.[6] Ymunai Paul â'r Iuddewon crefyddol mewn gweddi ar lan yr afon yn Phillippi.[7] Yn Miletus, efe a weddïai gyda henuriaid Ephesus:[8] ac yn Tyrus, cyssegrai lan y môr i'r un gwaith sanctaidd.[9] Eto, yn ngwyneb yr holl enghreifftiau hyn o weddi gymdeithasol, y mae y Wladwriaeth wedi ordeinio drwy 52 *George III, cap.* 155, "Na byddo i un gynnulleidfa neu dorf o Brotestaniaid ymgynnulledig er addoliad

1 *Burn*, Vol. 3. p. 405. 2 *Ibid*, pp. 406—408. 3 1 Tim. 2. 8. 4 Act. 1. 14. 5 Act. 4. 23, 24. 6 Act. 13. 12. 7 Act. 16. 13—16. 8 Act. 20. 36. 9 Act. 21. 5.

crefyddol, lle y byddo yn wyddfodol fwy nag ugain o bersonau heblaw teulu a gweinidogion y sawl y cynnalier y cyfryw gyfarfod, tyrfa, neu gynnulleidfa yn ei dŷ neu ar ei diriogaethau, gael eu goddef neu eu caniattau, oddieithr bod lle y cyfryw gyfarfod wedi ei hysbysu yn ddyledus i esgob y dalaeth, yr archddïacon, neu ynadon yr heddwch."[1] Gan fod yr eithriad cynnwysedig yn y gyfraith hon yn gyfyngedig i ymneillduwyr,[2] y mae y Wladwriaeth eto yn gwahardd aelodau y Sefydliad i gyfarfod i weddïo, hyd fwy o nifer nag ugain heblaw y teulu. Gan y gall ymneillduwyr yn bresenol gyfarfod yn rhydd hyd unrhyw nifer, y mae yr attaliad yma ar weddi gymdeithasol yn cael ei gadw ar gyfrifon eglwysig yn unig; ac ar y cyfryw seiliau yn unig y dadleuid dros hyny gan esgob Exeter ac arglwydd Brougham y tro olaf y dygid y peth o flaen Ty yr Arglwyddi, yr esgob a ddadleuai fod y cyfryw gyfarfodydd i addoli yn groes i ysbryd y drydedd Erthygl ar hugain; ac arglwydd Brougham a ddadleuai y byddai caniattau y cyfryw gyfarfodydd yn attalfa i'r plwyfolion fyned i'r eglwysi plwyfol.

4. Y mae y Wladwriaeth yn llywodraethu yr eglwysi, ac yn trefnu eu dysgyblaeth.

Mae dysgyblaeth eglwysig yn gynnwysedig yn bennaf mewn trefnu derbyniad personau i fedydd a Swper yr Arglwydd, a rhoddi ceryddon yr eglwys ar ei haelodau troseddedig. Amlygodd ein Harglwydd ei ewyllys ar y pethau hyn, a rhoddes gyfarwyddiadau pa fodd i gwblhau ei ewyllys ef. Mae yr hawl i lywodraethu wedi ei gyfleu trwy awdurdod Crist yn y gynnulleidfa ei hunan, ac ni's gellir ei throsglwyddo ar neb arall. Henuriaid pob eglwys ydynt trwy ei awdurdod ef yn meddu yr arolygaeth gyffredinol. Am hyny y'u gelwir *episcopoi*, esgobion, neu arolygwyr,[3] a *poimenes*, bugeiliaid, neu areilwyr,[4] ac y'u cynghorir i borthi eglwys Crist, megis y portha bugail ei ddïadell;[5] a'r apostol Pedr a'u hannogai at yr un ddyledswydd fel hyn: "*Yr henuriaid sydd yn eich plith, attolwg iddynt yr ydwyf fi......porthwch braidd Duw, yr hwn sydd yn eich plith,* (episcopountes) *gan fwrw golwg.*"[6] A gelwir eu swydd weinidogaethol, *episcopê*, yr esgobyddiaeth, yr arolygaeth.[7] Fe'u gelwir yn mhellach yn llywodraethwyr, *presbuteroi proestôtes;* a'r apostol Paul a ddywaid wrth yr eglwysi mewn perthynas iddynt, "*Ufuddhewch i'ch blaenoriaid, ac ymddarostyngwch.*"[8] Ond, tra y gelwir ar henuriaid fel hyn i arolygu eu heglwysi, yr eglwys ei hunan gan gynnwys gweinidogion a chynnulleidfa, a bïau y gallu goruchaf eithaf i'w llywodraethu ei hunan. Felly ymunai yr holl eglwys, fel y gwelsom, yn nghyd a'r un apostol ar ddeg, i ddethol dau frodyr, un o ba rai oedd i'w ddewis trwy goelbren i gymeryd lle yr apostol gwrthgiliedig Judas; yr un

1 *Burn*, Vol. 2. p. 220. 2 *Ibid.* 3 Act. 20. 28. Phil. 1. 1. 1 Tim. 3. 2. Tit. 1. 5—7. 4 Eph. 4. 11. 1 Pedr 5. 4. 5 Act. 20. 28. 1 Pedr 5. 2. 6 1 Pedr 5. 1, 2. 7 1 Tim. 3. 1. 8 Heb. 13. 17.

eglwys a ddewisai ei dïaconiaid; ac eglwysi Asia Leiaf, dan gyfarwyddyd Paul a Barnabas, a etholent eu gweinidogion.[1] Eglwysi ereill a etholent eu cenhadon, a elwid *apostoloi ecclêsiôn*, y rhai a elent gydâ Phaul i ddwyn eu cyfraniadau i Jerusalem.[2] Pan gyfododd dadl athrawiaethol fawr yn Antiochia, ymunai y gynnulleidfa yn Jerusalem gyd â'r apostolion a'r henuriaid i'w phenderfynu.[3] Os cyfodai dadl rhwng dau Gristion, yr oeddynt i gyflwyno y peth i farn y gynnulleidfa.[4] Erchid i'r eglwys yn Rhufain ochel ymbleidwyr;[5] annogid y gynnulleidfa yn Nghorinth i ysgymuno aelod a droseddasai;[6] ac yr oedd yn rhaid i'r gynnulleidfa yn Thessalonica dynu ymaith oddiwrth bob un a fyddai yn ddiystyr o'r gorchymynion a roisid iddynt gan apostol Crist.[7]

Gan fod Crist fel hyn wedi ordeinio bod i'r eglwysi weithredu llywodraeth arnynt eu hunain, yr hyn sydd hanfodol i'w purdeb, ei ffyddlondeb, a'i hiachusrwydd, rhoddwyd hyfforddiadau Dwyfol iddynt hefyd o barth y ddysgyblaeth sydd iddynt i'w gweinyddu. Sylwn yma ar ddau brif bwynt yn unig, sef derbyniad a dïarddelwad aelodau.

Mewn perthynas i'r cyntaf, fe'u dysgir gan ein Harglwydd a'i apostolion, na's derbyniont neb i gymmundeb eglwysig trwy fedydd oddieithr ar broffes gredadwy o edifeirwch a ffydd.[8]

Gan hyny, ewyllys Crist yw, na byddo i neb ond credinwyr gael eu bedyddio, fel y byddo yr eglwysi yn gymdeithasau o "saint a ffyddlon frodyr." Ac od oes rhyw fabanod i gael eu bedyddio, rhaid eu bod yn fabanod saint a ffyddlon frodyr y rhai a'u cyflwynant o'r galon i Dduw trwy Grist, ac a'u dygant i fynu iddo ef.

Ond, yn gymmaint ag y bydd i rai dynion annuwiol, fel Simon o Samaria, ymwthio i gymmundeb a'r eglwysi, trwy broffes o ffydd heb gyfnewidiad calon,[9] y mae ein Harglwydd wedi cyfarwyddo yr eglwysi yn mhellach i gau allan o'u cymdeithas bob troseddwyr amlwg yn erbyn deddf Duw.[10]

Ar y llaw arall, y mae mor amlwg mai ewyllys Crist yw, bod i holl Gristionogion unrhyw le, feddu cymmundeb a'u gilydd fel brodyr; a chan ei fod ef wedi gwahodd pob credinwyr at ei fwrdd, (1 Cor. 11. 23, 25), nid oes gan un eglwys hawl i gau allan neb o'i wahoddedigion ef. Pa beth bynnag fyddo eu gwahaniaeth athrawiaethol neu ymarferol, y mae pob gwir gredinwyr a dderbynir gan Grist, yn rhwym o dderbyn y naill y llall.[11]

Gan hyny, ni's gall eglwysi Cristionogol roddi i fynu y ddyledswydd hon o hunan lywodraethiad, na chaniattâu meistroliad oddiwrth ereill am dder-

1 Act. 14. 23. Gwel adran nesaf. 2 2 Cor. 8. 19, 23. 3 Act. 15. 12—29. 4 Matt. 18. 17. 1 Cor. 6. 4. 5 Rhuf. 16. 17. 6 1 Cor. 5. 11, 13. 7 2 Thes. 3. 6, 14. 8 Marc 16. 15, 16. Act. 2. 38; a 8. 36, 37. 1 Pedr 3. 21. Act. 8. 12; a 9. 6, 11, 17, 18; a 10. 44—48; a 16. 14, 15, 31, 34; a 18. 8. 9 Act. 8. 13—23. 1 Cor. 5. 11, 12. 2 Cor. 6. 14, 15. Gal. 5. 12. 10 Dat. 2. 14, 15. Rhuf. 16. 17. Tit. 3. 10. Matt. 18. 15—17. 2 Thes. 3. 6—14. 11 Matt. 23. 8. Rhuf. 14. 1; a 15. 7.

byniad neu ddïarddelwad aelodau, heb ddiystyrwch amlwg ar ewyllys Crist. Ond, y mae yr Eglwysi Seis'nig wedi gwneyd y pethau hyn oll.

Yn gyntaf, pa fodd y mae unrhyw gynnulleidfa o'r Sefydliad yn ei llywodraethu ei hunan? Ni's medd yr eglwys un llais yn nerbyniad na diarddelwad aelodau: nid yw yn cynnal unrhyw gyfarfodydd er cymmundeb brawdol, er cydymgynghoriad mewn perthynas i'w gwelliant ysbrydol, neu er ystyried y moddion trwy y rhai y gellid dwyn achos Crist rhagddo. Fe'i suddir yn y Sefydliad. Ac y mae y Sefydliad ei hunan heb hunan lywodraeth. Ni's medd unrhyw gymmanfa gynnrychiolaethol, canys nid yw y Gymmanfa eglwysig namyn cynghorfa o urddasolion a dirprwywyr, na fyddent ond megis rhith cynnrychiolaeth; ac eto, nid eisteddodd y rhith hwnw i wneyd dim, er y flwyddyn 1717.[1] Heblaw hyny, ped eisteddai y Gymmanfa, ni's gallai gadarnhau un rëol heb ganiattâd y Goron.[2] Ac ni all cydsynied y Goron roddi grym mewn un rëol ar yr Eglwysi Seis'nig, heb ei chadarnhau trwy weithred Seneddol;[3] fel y mae y Sefydliad wedi ei ddarostwng gan yr Undeb i gyflwr o anweithiolrwydd trwyadl. Ni's gall wneuthur cyfraith iddi ei hunan, unioni unrhyw gam, diwygio unrhyw gyfeiliornad, na cheisio unrhyw welliant; mae y Wladwriaeth yn gwylio arni fel y dywalgi ar yr hydd-afr, ac ni's goddefa yr ysgogiad lleiaf. Y mae pob peth arall ar gynnydd, ond cyfreithiau a ffurfiau y Sefydliad ydynt yn cael eu gadael ganrif ar ol canrif yn anadchwiliedig ac annewidiedig. Yn ol ewyllys Crist, dylai pob eglwys barhau trwy ei hunanlywodraethiad i'w chyfaddasu ei hunan i'r radd uchaf o wareiddiad; ond y mae y Wladwriaeth yn gwahardd, a'r eglwysi yn rhoddi y blaen i archiad y Wladwriaeth ar orchymyn Crist.

Gan fod yr eglwysi wedi bod yn euog o ddïystyru eu dyledswydd o hunan-lywodraethiad, ni's gallant mwyach gyflawni ewyllys Crist gyda golwg ar dderbyniad aelodau. Dylai eglwys fod yn gymdeithas o saint a ffyddlon frodyr, a dylai pawb a dderbynier i'r gymdeithas roddi rheswm am y gobaith eu bod felly, trwy eu hymarweddiad a'u proffes. Gan hyny, ni ddylid bedyddio neb ond y sawl a fyddont yn proffesu eu bod yn edifarhau ac yn credu yn Nghrist. Dyna orchymyn Crist; ond y mae yr eglwys wedi derbyn gorchymyn arall trwy reol *(canon)* 68, yr hon sydd fel y canlyn: "Na byddo i un gweinidog ommedd neu oedi bedyddio un plentyn......a ddygir i'r eglwys atto ef ar y Suliau neu y gwyliau i'w fedyddio;......ac os y gommedda fedyddio......efe a attelir o'i weinidogaeth gan esgob y dalaeth dros yr yspaid o dri mis." Y rheol hon, yr hon a wnaed gan gymmanfa o urddasolion a dirprwywyr, ni buasai yn rhwymo gweinidogion yr eglwysi oddieithr ei chadarnhau gan y Goron; ond y mae cydsynied y Goron wedi ei gwneuthur yn gyfraith, ac fel hyn wedi troi yr eglwys o fod yn gynnulleidfa o "saint a ffyddlon frodyr," i fod yn gronfeydd o holl boblogaeth pob ardal. Miloedd

1 *Burn*, Vol. 2. p. 30. 2 *Ibid*, p. 24. 3 *Ibid*, p. 27.

o *Marylebone, St. Pancras, Shoreditch,* a *St. Luke,* a ddygasant eu miloedd plant i'w bedyddio heb y meddwl lleiaf am eu cyflwyno i Dduw, na'u magu erddo ef. Mae y rhai hyn yn dyfod yn aelodau o'r eglwys, nes y mae yr eglwys nid yn unig yn dyfod yn fyd, ond yn cynnwys y rhan fwyaf digyfrif o'r byd; ei haelodau yn byw heb addoliad, heb y Beibl, heb areiliad gweinidogaethol, heb un rhîth o grefydd, ac, efallai, heb foesoldeb cyffredin. Ac y mae eglwysi Crist a'i weinidogion yn offerynau y Wladwriaeth, i droseddu gorchymynion Crist fel hyn.

Yn ol cyfraith Crist, dylai pob cyfryw aelodau gael eu bwrw allan o'r eglwys, tra y dylai ei holl ddysgyblion ef gael eu derbyn yn rhydd i gymmundeb; ond y mae yr eglwysi wedi derbyn gorchymynion gwahanol oddiwrth y Gymmanfa a'r Goron. Tra y dylai pob credinwyr gael eu derbyn at fwrdd yr Arglwydd, fe fydd i lŷs y Bwäau, gan weithredu trwy awdurdod y Goron, gefnogi unrhyw weinidog a attalio oddiwrth fwrdd yr Arglwydd, neb un, pa mor iach bynnag yn y ffydd, a sanctaidd mewn buchedd, pa mor dduwiol a chrefyddol bynnag a fyddo, os bydd yn gwrthod y *"conffirmasiwn;*[1] neu yn perthyn i blwyf arall,[2] neu yn ymneillduwr,[3] neu yn pettruso penlinio wrth fwrdd yr Arglwydd,[4] neu yn siarad yn erbyn awdurdod y brenin mewn achosion eglwysig.[5] Ond, ar y llaw arall, y mae gan y plwyfolion yn gyffredinol hawl i ddyfod at y bwrdd, pa mor fydol neu oferwag bynnag a fyddo eu bucheddau.

Yn ol 1 *Edward VI, cap.* 1, "Ni all y gweinidog, heb achos cyfreithlon ei ommedd (sef Swper yr Arglwydd) i neb a'i dymuno yn ddyhewydus a gostyngedig." Mae bod yn ddrwg-fucheddwr amlwg a hynod, a byw mewn malais a dygasedd, yn achosion cyfreithlon, *o bydd modd dwyn prawf cyfreithiol o'r peth;* ond fe fydd i lŷs y Bwäau gan weithredu trwy awdurdod y Goron, gosbi unrhyw weinidog, yr hwn trwy gydsyniad yr holl eglwys, ar yr hon y byddo yn weinidog, a ommeddo y cymmun i neb un annuwiol ac annychweledig, yr hwn ni's gallai brofi yn gyfreithiol ei fod yn ddrwg-fucheddwr amlwg a nodedig, neu ei fod yn byw mewn malais a dygasedd.

Gan hyny, ychydig sydd yn dyfod dan geryddon eglwysig am unrhyw achosion, oblegid bod pob eglwys lëawl wedi trosglwyddo eu dyledswydd ar lŷs eglwysig, ar yr hwn y mae un dieithr i'r achos yn llywyddu drwy awdurdod, nid oddiwrth y gynnulleidfa, ond oddiwrth y Goron, yr hwn fydd raid iddo gael prawf cyfreithiol, a barnu yn ol cynreolau cyfreithiol.

Ond y mae cyfraith Crist yn cael ei throi heibio yn neillduol pan fyddo amryw droseddau yn cael eu cyflawni gan y rhai yn y sefyllfa o fugeiliaid eglwysig. Mae yr holl reolau crybwylledig uchod am ddïarddelwad aelodau

1 Rhuddell i Drefn y "Conffirmasiwn." 2 *Canon* 28. 3 *Ibid,* 27. 4 *Ibid.*
5 *Ibid.*

camweddus o'r eglwysi, yn cyfarwyddo hefyd i ddïarddel gweinidogion a droseddont. Ac y mae cyfarwyddiadau arbenig ereill o barth i'r rhai hyn. Mae Crist yn llwyr ddïarddelwi gweinidogion anfoesol.[1] Efrau ydynt, a heuir yn ei faes ef gan ei elyn;[2] plant drwg ydynt;[3] dieithriaid ydynt, y rhai ni wiw i ddefaid Crist eu dilyn.[4] A'r gweinidogion hyny a ddysgant gau athrawiaeth yn lle yr Efengyl, ydynt weinidogion Satan.[5] Y maent mewn perygl o felldith Duw;[6] dylid eu torri ymaith o'r eglwys;[7] ac ni ddylai un Cristion ddweyd Duw yn rhwydd iddynt.[8] Er hyny, os bydd gweinidog anfoesol, neu un a fyddo yn gwyrdroi yr Efengyl yn y Sefydliad, ni's gall y gynnulleidfa a arweinir ganddo ef i ddistryw, ymwrthod ag ef. Y maent wedi rhoddi eu hawlion i fynu er mwyn twyll-wobrwy y Wladwriaeth; ac yn awr, y swyddog Gwladol yn unig, yr hwn a lywydda yn llŷs y Bwäau, a all benderfynu pa ddirwy a delir gan y clerigwr a droseddo felly. Gall gweinidog fod yn annghyfarwydd ar ffordd iachawdwriaeth; efe a all fod yn gwadu colledigaeth hollol dyn, iachawdwriaeth o ras, trwy ffydd, ac adgenhedliad gan yr Ysbryd Glan, trwy offerynoldeb gair Duw; efe a all fod yn trefnu ei ymarweddiad, nid yn ol cyfraith Crist, ond yn ol egwyddorion y byd; ac ni all y swyddog Gwladol gymeryd un sylw o hyn oll. A pha mor bell y mae efe yn debyg, fel un a weithreda yn lle yr eglwys, i roddi cyfraith Crist mewn grym er diswyddiad gweinidog y gall efe yn gyfreithlon olrhain ei gamweddau, fe'n dysgwyd trwy amryw enghreifftau gofidus yn yr ychydig flyneddoedd diweddaf.

5. Cyn i'n Harglwydd adael y byd, efe a ddywedodd wrth ei ddisgyblion, "*Ewch i'r holl fyd, a phregethwch yr Efengyl i bob creadur;*"[9] ac efe a ychwanegai, "*Wele, yr wyf fi gyda chwi bob amser, hyd ddiwedd y byd.*"[10] Efe ei hun a bregethai yr Efengyl ar ochr y mynydd,[11] ar làn y llŷn,[12] a thrwy holl bentrefi a threfi Galilea.[13] Wedi ei farwolaeth ef, ei ddisgyblion a bregethent yn mhob lle;[14] ac yr oedd pob pregethwr aiddgar a elai allan at y paganiaid i gael ei gynnorthwyo yn ei waith.[15] Ond y mae y Wladwriaeth mewn amryfal ffyrdd wedi lluddias gweinidogion y Sefydliad i ufuddhau i'r gochymynion hyn. Llawer gwaith y darfu iddi attal pregethiad yn hollol o fewn y Sefydliad hyd oni ddeuai archiad pellach oddiwrth y Goron, ac y mae y Goron yn meddu yr un hawl yn awr.

Er bod lle i ofni bod lluaws o ddynion annychweledig ac annghrefyddol, wedi eu hordeinio o fewn y Sefydliad, y mae y gyfraith yn rhoddi i bob un o'r rhai hyn yr hawl annghyfrannogol i bregethu yn ei blwyf; ac felly, tra mewn llawer o blwyfydd, ni's gall personiaid annuwiol gyflawni cyfraith Crist, trwy

1 Matt. 7. 23. 2 Matt. 13. 25. 3 Matt. 13. 38. 4 Ioan 10. 6. 5 2 Cor. 11. 13—15. 6 Gal. 1. 8. 7 Gal. 5. 12. 8 2 Ioan 10. 9 Marc 16. 16. 10 Matt. 28. 20. 11 Matt. 5. 1. 12 Matt. 13. 1—3. 13 Matt. 4. 23; a 9. 35; a 11. 1. 14 Act. 8. 1—4; a 11. 19. 15 3 Ioan 6—8.

bregethu yr Efengyl i'r bobl, y mae y Wladwriaeth yn gwahardd i unrhyw weinidogion duwiol o fewn y Sefydliad wneuthur hyny.

Pa mor fawr bynnag y gall plwyf fod, a pha mor esgeulus bynnag y gall fod yr hwn a fyddo yn weinidog arno yn ol y gyfraith, ni's beiddia y bobl gyfodi un capel cynnorthwyol o fewn y plwyf, heb gydsyniad yr esgob, y noddwr, a'r person, oddieithr dan ryw amgylchiadau a ddynodir mewn rhai o'r cyfreithiau a wnaed yn ddiweddar o barth adeiladu eglwysi. Pa mor esgeulus bynnag, a pha mor ddrygfoes bynnag y gall person fod, ni faidd un o bregethwyr y Sefydliad bregethu o fewn ffiniau ei blwyf, heb ei gydsynied. Pa faint bynnag o anwybodaeth, neu o anghrefydd a all fod yn ffynu mewn esgobaeth, nid oes gan un gweinidog heb fywioliaeth eglwysig o fewn yr esgobaeth, pa mor rinweddol, doeth, a sanctaidd bynnag y byddo, hawl ar un cyfrif i weinidogaethu o'i mewn, heb drwydded yr esgob. O ganlyniad, pan fyddo y Llywodraeth wedi gosod esgob annuwiol ar unrhyw dalaeth, y mae yn ei alluogi i fesur mawr, i gau allan yr Efengyl o'r eglwysi o fewn ei diriogaeth. Gellir attal unrhyw eglwyswr yn ol y gyfraith am bregethu mewn unrhyw le na byddo wedi ei drwyddedu gan yr esgob, er y gall fod miloedd yn y gymmydogaeth heb glywed yr Efengyl yn cael ei phregethu erioed, ac na ddeuant i eglwys y plwyf.

Os ydyw yr uchafiaeth yma o eiddo y Wladwriaeth, ynddo ei hunan yn ddïanrhydedd i Grist, ac os ydyw yn weithredol yn rhoddi amryw o'i orchymynion ef o'r neilldu, pa fodd y gall y rhai a ewyllysient ei anrhydeddu ef barhau y cyfryw beth drwy gefnogi yr Undeb rhwng y Wladwriaeth a'r Eglwys? Y mae goddef unrhyw gymdeithas o ddynion anawdurdodedig ganddo ef, a mwy fyth, goddef cymdeithas o ddynion na's gall lai na bod o ran ei chyfansoddiad, wedi ei gwneyd i fynu o ddynion y byd, i arlywio gweinidogaeth eglwysi Crist mewn pethau ysbrydol, yn dangos yn yr eglwysi a gydsyniant â'r cyfryw beth, ddïystyrwch ar awdurdod, a dïofalwch am anrhydedd yr Arglwydd Iesu Grist, am bechadurusrwydd yr hyn y mae yn ofidus meddwl. Ac y mae pob aelod o'r Sefydliad na's gwrthdystio yn gyhoeddus yn erbyn yr Undeb, yn rhwym o fod yn gyfrannog o'r euogrwydd crybwylledig. Adgofiwch egwyddorion yr uchafiaeth, y rhai a osodwyd ger eich bron yn awr, ac yna ystyriwch pa beth yw nodweddiad y trawsfeddiant o du y Wladwriaeth, a'r gwaseidd-dra ar ran pob un o'r eglwysi.

Gan fod y Wladwriaeth o angenrheidrwydd yn gyfansoddedig o ddynion y byd, y mae yn sefyll dros ei huchafiaeth ar yr eglwysi, nid er mwyn yr Efengyl, yr hon ni's derbynir ganddynt, ond er gweini i ddybenion y llywodraeth, yr hyn y gallant ei brisio; pan y mae y dynion hyn yn ymwthio i mewn i drefnu pethau crefyddol, y mae eu bai yn fwy neu lai, yn ol fel y byddo cydwybodau eu deiliaid wedi cyfleu eu hunain dan yr iau yn wirfoddol, neu beidio; ond y maent yn feius, yn gymmaint a bod pob cymhwysiad o

bethau cyssegredig i ddybenion gwladol yn cyfrannogi o natur cyssegr-yspail. Yr un ffunud y mae y rhai a ymgyssylltant â'r Wladwriaeth, yn fwy neu lai beius, yn ol eu gwaith yn ceisio, neu yn unig yn cymeradwyo y cynghrair hwn â'r gallu llywodraethol. Ond, y maent yn feius; ac nid oes enw arall ond putteindra ar y pechod a gyflawnasant fel eglwysi. *Fel hyn y mae cyssegr-yspeiliad a phutteindra yn ddau brif nodwedd yr Undeb,* yn ol fel y meddylia un am y Wladwriaeth, yr hon a gymerth drysor a ymddiriedasid i gadwraeth yr Eglwys, ac a ddylasai fod yn ddihalog; neu am yr eglwys, yr hon a'i rhoddes i fynu......Duw yw priod yr eglwys, yr hon yw enaid y natur ddynol. Iddo ef y tyngodd hi ffyddlondeb trylwyr. Hi a dyngodd nad ufuddhäai i neb ond efe, ac mai ynddo ef yn unig y cydnabyddai hi hawlion annysgarol priod. Ond, y mae yr Undeb a ffurfiodd hi fel cymdeithas ysbrydol, â chymdeithas nad oes ynddi ddim ysbrydol, gan drosglwyddo i'r gymdeithas wladol hono yr awdurdod a berthyna i Dduw yn unig, wedi ei darostwng i gyflwr o odineb cyhoeddus a pharhaus."[1]

---

## ADRAN III.—AM NODDAETH.

Yn ol y cynreolau apostolaidd, y rhai yn mysg Cristionogion a feddant rym cyfreithiau, dylai yr eglwysi ethol eu gweinidogion eu hunain. Yr holl gynnulleidfa yn Jerusalem a ddetholai ddau frawd, un o ba rai oedd i gael ei ddewis trwy goelbren i lenwi lle Judas wrthgiliedig.[2] Yr holl gynnulleidfa a ddewisent eu dïaconiaid;[3] ac fel hyn y cofnodir pennodiad bugeiliaid ar eglwysi Asia Leiaf gan Paul a Barnabas, yn yr hanes gan Luc,—"*Ac wedi ordeinio iddynt henuriaid yn mhob eglwys, a gweddïo gyd âg ymprydiau, hwy a'u gorchymynasat hwynt i'r Arglwydd.*"[4] Etholiad cynnulleidfäol

1 *Vinet*, "Essai sur la Manifestation des Convictions Religieuses." pp. 231, 232.
2 Act. 1. 3 Act. 6.
4 Act. 14. 23. Y geiriau ydynt, *Cheirotonêsantes dè autois presbuterous kat ècclêsian, &c.*, ystyr yr hyn yw, eu bod wedi eu happwyntio trwy etholiad boblogaidd, fel yr ymddengys oddiwrth yr ystyriaethau canlynol;—

*Cheirotoneô*, h. y. *tên cheira teinô.* Manum protendo. Hoc autem quia fiebat in suffragiis ferendis, hinc factum est ut ponatur pro scisco, decerno, creo. Act. 14. 23, *Cheirotonêsantes* cum creassent *seu potius per suffragia creassent.—Stephen.*

"*Ecclêsia* (y gynnulleidfa) oedd gynnulleidfa o bobl wedi cyfarfod yn ol cyfraith i ymgynghori yn nghylch lles y cyffredin."

Pan orffenid y ddadlyddiaeth, gofynai y cyhoeddwr i'r bobl a gydsynient hwy â'r penderfyniad."

"Y dull y rhoddent eu pleidiolaeth oedd drwy gyfodi eu dwylaw, ac am hyny fe'i gelwid *cheirotonia*; ac yr oedd *cheirotonein* yn arwyddoccau ordeinio, neu sefydlu unrhyw beth; *apocheirotonein*, dirymu trwy bleidiolaeth."—*Potter's Antiquities*, Ed. 1818. Vol. 1. pp. 107, 113.

*Cheirotoneô cheirotonia*, a'u cyfansawdd-eiriau, a ddefnyddir yn fynych i ddynodi etholiad poblogaidd, trwy gyfodiad dwylaw, ac anfynych, os byth y'u defnyddir mewn un ystyr arall gan Aristophanes, Demosthenes, Æschines, Plutarch, a Xenophon.—Gwel enghreifftiau cynnulledig gan Stephen.

wedi ei sefydlu fel hyn gan yr apostolion, a barhaodd dros yspaid lled faith yn yr eglwysi Cristionogol. Y mae Mosheim, yr Hanesydd Henaduriaethol dysgedig, Bingham, y casglydd Esgobyddol o Henafiaethau Eglwysig,

*Cheirotoneô*, pleidioli drwy gyfodi i fynu y dwylaw, intrans. Yn nghyf. y T. N. dewis trwy bleidiolaeth. Act. 14. 23.—*Robinson's Lexicon.*

Yr unig le arall y defnyddir y gair ynddo yn y Testament Newydd, yw 2 Cor. 8. 19, *Ou monon de, alla cai cheirotonêtheis upo tôn eclêsiôn, &c.* "Ac nid hyny yn unig, eithr hefyd a ddewiswyd (trwy bleidiolaeth) gan yr eglwysi," &c.

Megis yr oedd *cheirotonia* yn yr *ecclêsia* wladol bob amser yn dynodi etholiad drwy bleidiolaeth, felly y mae yn dwyn yr un arwyddocäad yn yr *ecclêsia* Gristionogol.

Refert enim Lucas constitutos esse per ecclesias presbyteros a Paulo et Barnaba: sed rationem vel modum simul notat quum dicit, factum id esse suffragiis: *cheirotonêsantes*, inquit, *presbuterous cat' ecclêsian.*—Calv. Inst. lib. 4. cap. 3. sec. 15.

*Cheirotonêsantes autois presbuterous, &c.*, quum ipsi per suffragia creassent per singulas ecclesias presbyteros. Ortum est hoc verbum ex Graecorum consuetudine, qui porrectis manibus suffragia ferebant. Est autem notanda vis hujus verbi, ut Paulum ac Barnabam sciamus nihil privato arbitrio gessisse nec ullam in ecclesia exercuisse tyrannidem, nihil denique tale fecisse quale hodie Romanus Papa, et ipsius asseclæ quos ordinarios vocant.—*Beza, ad loc.*

Act. 14. 23. Et cum suffragiis creassent illis per singulas ecclesias presbyteros, &c.

Iterum commendatur nobis ordinaria electio....Eligitur enim communibus populi suffragiis, qui optimorum testimonio probatus est.—*Bullinger, ad loc.*

Quoniam evangelii profectus id postulabat, ut apostoli per varias regiones vagarentur, delectos populi suffragiis per singulas civitates presbyteros præfecerunt illis, ut absentium apostolorum vices gererent.—*Pellican, ad loc.*

Act. 14. 23. " Quumque ipsis per suffragia creassent, &c.—*Piscator, ad loc.*

E dopo ch' ebbero loro per ciascuna chiesa ordinati, per voti communi, degli anziani."—*Diodati.*

Pan ordeinient trwy bleidiolaethau cyffredin, sef gyda chymeradwyaeth a chydsynied yr eglwysi, i'r rhai y cedwid yr hawl hon gynt, hyd yn nod o ddyddiau yr apostolion.—*Diodati, ad loc.*

Notandum quod apostoli....presbyteros constituerint per *cheirotonian* sive suffragia fidelium....Erasmus hic, " ut intelligamus suffragiis delectos."....Grotius, " accessisse consensum plebis credibile est ob id, quod in re minori supra habuimus."—Cap. 6. 2, 8. Ergo *cheirotonein* hic dicitur de apostolis, quemadmodum apud Demost. de *nomothetais* qui suffragiis praesidebant. Seqentibus temporibus vocabulum *cheirotonia* cum plebs suffragari desiisset, pro episcopali creatione presbyterorum, et *cheirothesia* usurpatum est. Sed diu etiam in Ecclesia Romana retentum est, ut episcopus certe non sine populi assensu crearetur.—*Cocceius, ad loc.*

*Cheirotonein* apud Graecos veteres proprie et primarie significat eligere, vel per suffragia creare, tandem vero, ut multae voces aliae significationem mutavit; valetque tantum creare, vel constituere, vel ordinare; quo sensu verbum hoc usurpat tum Philo ....tum Lucianus....tum Maximus Tyrius.—*Poole*, ad loc.

" Pan ddarfu iddynt," trwy gydunol bleidiaeth y bobl, "osod henuriaid iddynt yn mhob eglwys." Yn yr hen Feibl Seis'nig fe'i cyfieithid, " Pan ordeiniasant iddynt henuriaid trwy etholiad." Yr awdwr enwog crybwylledig (Mr. Harrington) a ymdrechodd yn helaeth i amddiffyn y deongliad yma yn erbyn gwrthddadleuon Dr. Hammond, Dr. Seaman, ac ereill, y rhai a wnant *cheirotonia* yr un a *cheirothesia.*—*Doddridge*, ad loc.

Act. 14. 23, " Pan ordeiniasent iddynt henuriaid trwy etholiad yn mhob eglwys." —*Beibl Geneva.*

" Pan ordeiniasent iddynt henuriaid trwy etholiad yn mhob cynnulleidfa."—*Tyndale, Cranmer.*

*Martin.*—Felly y maent yn dirdynu y gair hwn yma er cymhell etholiad y bobl, ac eto, yn eu heglwysi yn Lloegr, nid yw y bobl yn ethol gweinidogion, ond eu hesgob. Tra mae yr Ysgrythyr sanctaidd yn dywedyd iddynt hwy ordeinio i'r bobl; a pha rym bynnag sydd yn y gair, fe'i llefarir yma am yr apostolion, ac ni pherthyna i'r bobl."

y Dëon Waddington, Paolo Sarpi, Hanesydd Pabaidd Cymmanfa Trent, a Beza, un o dadau yr Eglwys Galfinaidd, Neander, yr Hanesydd Lutheraidd yn ein dyddiau ni, Bost, awdwr Hanes y Brodyr Morafiaidd, ac hyd yn nod

*Fulke.*—"Nid ydym ni yn bwriadu rhoddi mewn grym unrhyw etholiad amgen nag y mae y gair yn ei arwyddocau, ac ni bydd i'n hesgobion, os gwnant yn iawn, ordeinio neb rhyw weinidogion nac offeiriaid heb dystiolaeth y bobl, neu, o leiaf, y rhai ydynt dan y cymeriad uchaf lle y maent yn adnabyddus. Lle y defnyddir y blaenddod *autois* "iddynt," fel pe na buasai y bobl heb roddi cydsyniad neu dystiolaeth, dangosir ffolineb mawr; ac heblaw hyny, gwrthwynebir ymarferiad y brif eglwys dros lawr can mlynedd wedi yr apostolion. Nid yw bod y gair *cheirotonia* wedi ei dynu gan dadau yr eglwys ar ol dyddiau yr apostolion, i arwyddocäad gwahanol i'r hyn y'i defnyddid cyn hyny yn un rheswm i'n dysgu ni pa fodd y'i defnyddid gan yr apostolion."

*Martin.*—Mewn perthynas i *cheirotonia*, fe ddywaid St. Jerome iddynt yn pen. 58, *Esai*, ei fod yn dynodi rhoddi urddau sanctaidd, yr hyn a wneir nid yn unig trwy weddi y llais, ond trwy arddodiad dwylaw hefyd.... Lle y geill y geiryddolion mawr hyn, y rhai a ddirdynant natur wreiddiol y gair yma yn y fath fodd i ddynodi estyniad halogedig y llaw mewn etholiadau, ddysgu tarddiad eglwysig arall iddo.... sef estyn y llaw i roddi urddau."

*Fulke.*—"Am dystiolaeth St. Jerome, yr hon a ddyfynwch, nid ydych yn ei deall.... Nid ei amcan ef yw dywedyd pa beth y mae *cheirotonia* yn ei arwyddocau yn briodol, ond bod arddodiad dwylaw yn ofynol mewn ordeiniad cyfreithlon, yr hyn a ddeallid gan lawer wrth y gair *cheirotonia*, er nad arwyddocäai y fath beth yn y lle crybwylledig. Ac am hyny, rhaid i chwi chwilio am ryw awdurdod ychwanegol i brofi eich geirdarddiad eglwysig, bod *cheirotonia* yn dynodi estyn allan y dwylaw wrth roddi urddau. Nid yw y lleoedd a ddyfynwch yn yr ymyl-ddail, allan o deitlau pregethau Nazianzen, o unrhyw wasanaeth, er eu bod yn nghorph ei Homilau; canys er fod yr holl drefn o wneuthur offeiriaid, yn cael ei galw *cheirotonia* trwy draws-enwad, nid yw yn ymddangos bod etholiad yn cael ei gau allan lle yr oedd ordeiniad trwy arddodiad dwylaw. Am yr hyn a ddyfynir genych chwi allan o Ignatius, y mae yn profi yn eich erbyn, bod *cheirotonein* yn gwahaniaethu oddiwrth arddodiad dwylaw; gan y'i gwneir yn swydd wahanol oddiwrth *cheirothetein*, yr hyn a ddynoda arddodiad dwylaw: ac felly, yn ol eich awdwr chwi eich hunain, y mae *cheirotonia* ac *epithesis tôn cheirôn*, yn gwahaniaethu."—A Defence of the English Translations of the Bible against the Cavils of Gregory Martin, by William Fulke, D.D., Master of Pembroke Hall, Cambridge. Ed. of Parker Society, pp. 245—248.

Act. 14. 23, "Lorsque par l'avis des assemblées, ils eurent établi des prêtres ou des pasteurs dans chaque église," &c. *Le Sueur, Histoire de l'Eglise*, Geneva, 1674, P. 159.

I'r holl ddadl yma gwrthebir bod y gair *cheirotonein* yn arwyddo, naill ai yn gyntaf, ordeinio trwy arddodiad dwylaw, (*Hammond* in Dod. ad loc); neu, yn ail, ethol, neu appwyntio, fel y gair *procheirotoneô*, Act. 10. 41. (*Bloomfield*, Recensio ad loc.); ond na's gall olygu "gosod y rhai a etholodd ereill." (*Campbell and Bloomfield*).

Mae y cyntaf o'r ystyrion hyn yn annerbyniadwy, am nad yw y gair *cheirotonia* byth yn meddu ystyr *cheirothesia* mewn unrhyw ysgrifenydd, cyssegredig nac awdurol, hyd amser Llyfr yr Actau; ac nid yw yn fwy goddefol rhoddi yr ystyr yma iddo am fod ysgrifenwyr eglwysig diweddarach wedi ei arfer felly, nag a fyddai i olygu y gair *episcopos* yn golygu prelad yn lle henuriad yn y Testament Newydd, neu y gair *ecclésia* yn dynodi adeilad, neu gorph o glerigwyr, neu grynhöad o eglwysi llëawl, mewn cenedl gyfan, yn lle cynnulleidfa Gristionogol, o herwydd bod y geiriau hyn wedi eu derbyn yn y cyfryw ystyrion newyddion, ar ol hyny. Medda y gair yr ail ystyr, o ddetholiad gan unigolion; ond y mae hyn yn ystyr anfynych, a chyrchiadol, na's dylid ei arfer heb angenrheidrwydd. Mae yn wir fod yr ystyr o beri ethol, neu ethol trwy gyfrwng ereill, yn anfynych a chyrchiadol hefyd; ond y mae mor gyson ag arferiad gyffredin mewn geiriau ereill, fel y gellid ei oddef yma, hyd yn nod pe na chaffem un enghraifft o hyny mewn unrhyw ysgrifenydd awdurol. Dywedir yn wastad fod dynion yn gwneyd yr hyn y parent i ereill ei wneyd. Dywedir fod pen saer yn adeiladu tŷ, am ei fod yn arolygu yr adeiladwyr; dywedir fod Arglwyddi y Morlys yn morio llestr, pan y'i morir dan eu cyfarwyddyd; a dywedir fod brenin yn goresgyn gwlad, pan fyddo yn anfon ei filwyr i'w goresgyn. Felly, gallasai Luc ysgrifenu fod Paul a Barnabas yn ethol

Hooker, er ei dueddiadau gwrth-boglogaidd cryfion,—oll yn cyd-addef bod hyn yn ffaith.1 Am hyny, yr etholiad cynnulleidfäol a ddaeth yn egwyddor

henuriaid trwy bleidiolaeth, pan y parent iddynt gael eu hethol felly. Yn yr unrhyw ystyr parwyddawl y defnyddiai yr un ysgrifenydd y gair *crinô* yn yr ymadrodd canlynol;—"*O herwydd iddo osod diwrnod yn yr hwn y barna efe y byd mewn cyfiawnder trwy y gwr a ordeiniodd efe.*" (Act. 17. 31.) Megis gan hyny y dywedir y barna Duw y byd, am ei fod wedi appwyntio Crist i'w farnu; felly y gellid dywedyd i Paul a Barnabas ethol henuriaid trwy bleidiolaeth, oblegid eu bod wedi trefnu iddynt gael eu hethol felly. Gallasai Luc ddefnyddio y gair *cheirotoneô* yn yr ystyr yma, pe na buasai Xenophon neu Demosthenes erioed wedi cael achlysur i'w ddefnyddio felly. Ond, y mae Cocceius yn sylwi, "*cheirotonein* hic dicitur de apostolis quemadmodum apud Demosthenem de *nomothetais* qui suffragiis praesidebant." Un o'r ymadroddion at yr hwn y gall gyfeirio yw y canlynol, yn yr araith yn erbyn Timocrates: *Tôn de nomôn tôn keimenôn mê exeinai lusai mêdena, ean mê en nomothetais. Tote de exeinai tô boulomenô tôn athênaiôn luein eteron tithenti anth' otou an luê. Diacheirotonian de poiein tous proedrous peri toutôn tôn nomôn prôton men peri tou keimenou ei dokei epitêdeios einai tô demô tôn athenaiôn ê ou: epeita peri tou tithemenou.* OPOTERON D' 'AN CHEIROTONESOSIN 'OI NOMOTHETAI TOUTON EINAI. (Oratores Graeci, Reiske, vol. 1, p. 710). Nid oedd y swyddogaeth o *nomothetai* "i arosod deddfau newyddion trwy eu hawdurdod eu hunain, canys ni ellid gwneyd hyny heb gydsyniad y senedd, a chymeradwyaeth y bobl; ond i adolygu yr hen rai; ac os canfyddent ynddynt ddim yn ddiles, neu yn niweidiol, yn ol ansawdd pethau ar y pryd, neu yn wrthwyneb i ereill, *parent iddynt gael eu difodi trwy weithred y bobl.*" (*Potter's Ant. vol.* 1, *p.* 92). Yn gyson a'r mynegiad yma o eiddo yr Archesgob Potter, ymddengys oddiwrth yr ymadrodd uchod, bod cyfraith newydd a gynnygid yn Athen, wedi ei chymeradwyo gan y *nomothetai* i gael ei dwyn ger bron yr *ecclésia*, neu y gynnulleidfa.

Y *proedroi*, neu y llywyddion, oeddynt yna *poiein diacheirotonian*, i benderfynu trwy gyfodi dwylaw, yn gyntaf, pa un a ddifodid yr hen gyfraith, yn ail, a gadarnheid y ddeddf gynnygiedig. A chan mai *nomothetai*, neu gynnygwyr y cyfreithiau, a gychwynent weithred yr *ecclésia*, DYWEDID EU BOD CHEIROTONEIN TON NOMON, YN AROSOD Y GYFRAITH DRWY GYFODIAD DWYLAW. Yr un ffunud yn hollol y gellid dweyd am yr apostolion, y rhai a gynhalient yn *ecclésia* y Cristionogion yr un swyddi yn gymmwys a'r *proedroi* a'r *nomothetai* yn yr *ecclésia* wladol, eu bod fel rhai yn llywyddu ar yr eglwys *poiein diacheirotonian*, ac yn ordeinio etholiad yr henuriaid *cheirotonein tous presbuterous.*

Felly, gan fod yr ystyr berwyddol i *cheirotoneô* mor ganiattäol ag yw yr ystyr o ddetholiad unigol, y mae y rhesymau canlynol dros ddewis yr ystyr gyntaf yn hyttrach.

Y mae yn nes i ystyr wreiddiol a chyffredin y gair, yr hyn yw deddfu, neu ethol trwy bleidiolaeth.

Gan mai ystyr arferol y gair yw ethol drwy bleidiolaeth, pe buasai Luc yn ewyllysio cau allan y meddylddrych o bleidleisiaeth ar yr achlysur yma, efe a fuasai yn arfer y y gair *eclegomai*, neu *cathistêmi*, neu ryw air cyffelyb, na chynnwysai y meddylrith crybwylledig.

Ni buasai etholiad henuriaid gan yr eglwysi yn cael ei ddwyn i ymarferiad mor gyffredinol, a'i barhau cyhyd, heb gynreol apostolaidd, ac ystyried mor foreu yr ymddangosodd, ac mor gyflym y cynnyddodd awdurdod a honiadaeth glerigawl.

Y mae etholiad gynnulleidfäol henuriaid yn gyson â gweithrediadau cynnulleidfäol ereill, appwyntiedig neu oddefedig gan yr apostolion. Yr eglwysi yn unig a allent adwaen cymhwysderau a nodweddau y brodyr i gael eu pennodi, gan nad oedd yr apostolion yn gwneyd namyn ymweliadau byrion. *Gwel* Act. 16. 1—3.

1 Cynnulleidfa y bobl a ddewisent eu llywodraethwyr a'u hathrawon eu hunain, neu a'u derbynient trwy gydsynied rydd ac awdurdodol, pan y'u harganmolid gan ereill.—*Mosheim*, cent. 1. p. 2. c. 2. sec. 6.

Nid oedd un esgob i gael ei draws-osod ar unrhyw bobl uniawngred yn groes i'w cydsynied..... Weithiau byddai yr esgobion mewn cynghorfa yn cynnyg un, a'r bobl yn ei gymeradwyo; weithiau, drachefn, byddai y bobl a'r esgobion yn cydsyniaw.... Os byddent yn ymranedig, yr oedd yr archesgob i ofalu am eu huno, a'u sefydlu yn eu

yr holl eglwysi Calfinaidd a Henaduriaethol. Fe'i cydnabyddir yn y Cyffesion Saxonaidd, Helvetaidd, a Belgwysaidd; a'r eglwysi Ffrengig a'i

dewisiad; ond nid i draws-osod arnynt un annewisedig. Yr ydym yn dysgu hyn oddiwrth un o epistolau Leo, lle y dyru efe i ni ar un waith rëol ac ymarferiad yr eglwys, a'r rhesymau am hyny:—"Yn netholiad esgob, medd efe, "rhodder y blaen i'r sawl y byddo y clerigwyr a'r bobl yn cyduno i'w geisio. Os byddant hwy yn ymranedig yn eu dewisiad, yna bydded i'r prif esgob roddi y blaen i'r hwn a feddo fwyaf o bleidleisiau, a mwyaf o gymhwysderau; gan ofalu bob amser, nad ordeinier neb yn erbyn ewyllys a dymuniad y bobl, rhag iddynt ddirmygu a chasâu eu hesgob, a dyfod yn annghrefyddol, neu anfoesgar, pan na's gallont gael y sawl a ewyllysiont."—*Bingham's Antiquities, book* 4. c. 2. sec. 4.

*St. Jerome* a ddywaid yn bendant, fod yr henuriaid a'r clerigwyr ereill yn cael eu dewis gan y bobl cystal a'r esgobion. Ac fe sylwa Possidius, mai defod yr eglwys, ac arfer St. Awstin yn ordeiniad offeiriaid a chlerigwyr ydoedd dal sylw ar y mwyrif, neu gydsynied cyffredinol y bobl Gristionogol. A *Servicius*, yr hwn a lefara am farn ac ymarferiad Eglwys Rhufain, a ddywaid, pan fyddai dïacon i gael ei ordeinio yn henuriad neu esgob, y'i dewisid yn gyntaf gan y clerigwyr a'r bobl.—*Ibid*, sec. 10.

Yn llywodraeth foreuaf y gymdeithas Gristionogol gyntaf, sef yr un yn Jerusalem, yr oedd yr holl eglwys, ac nid yr henuriaid yn unig, yn cydweithredu a'r apostolion, Act. 15. 2, 4, 22, 23.—*Deon Waddington, Hist. of the Church*, ch. 2. p. 20.

Am y rhan fwyaf o'r eglwysi apostolaidd, gosodid yr esgobion cyntaf gan yr apostolion: a llywyddion cyntaf y rhai nid oeddynt apostolaidd, mae yn debyg, oeddynt y cenhadon a'u seiliasant; ond ar eu marwolaeth hwy, disgynai etholiad olynwr ar aelodau y gymdeithas. Yn yr etholiad hon yr oedd y bobl i fod yn gyd gyfrannog â'r henuriaid a'r is glerigwyr, heb eithriad na gwahaniaeth; ac y mae yn amlwg bod eu hawl yn y peth hwn, nid mewn dwyn tystiolaeth yn unig, ond mewn barnu ac ethol. —*Ibid*, p. 23.

Yr oedd peth amrywiaethau yn y drefn o ethol, yn ol yr amserau a'r amgylchiadau, gan na rodded un rëol ar hyn yn yr Ysgrythyr; ond y mae cyd brawfion cryfion i ddangos na's traws-osodid esgob ar bobl uniawngred un amser yn groes i'w cydsynied. —*Ibid, Note.*

Il modo dell elegere i ministri, fù come si è detto di sopra, instituito dalli santi apostoli, che li vescovi, preti, e altri ministri della parolla di Dio, e li diaconi ministri delle cose temporali, fossero eletti de tutta l' Università de' fedeli.—*Paolo Sarpi, Trattato de la Materie Beneficiarie.* Opere, Vol. 3. p. 27.

Habemus ergo esse hanc, ex verbo Dei, legitimam ministri vocationem, ubi, ex populi consensu et approbatione, creantur, qui visi fuerint idonei.—*Calv. Inst. lib.* 4. *chap.* 4. *sec.* 15.

Iterum repeto quod antea dixi, nunquam receptum fuisse in Christianis ecclesiis jam constitutis, ut quis admitteretur ad functionem ecclesiasticam nisi libere et legitime electus ab ecclesia cujus intererat.

Quid igitur spectarunt apostoli quum pastores et diaconos constituerint in ecclesiis quas ædificabant? hoc nimirum, ut qui eligebantur essent, quaod ejus fieri posset *anepiléptoi*, et invito gregi non obtruderentur.

Tum ergo ne in ædificatis quidem ecclesiis erunt omnia suffragiis multitudinis committenda, neque tamen absque totius ecclesiae consensu deligendi fuerint pastores.—*Beza, Confessio Fidei, cap.* 4. *sec.* 135.

Pour ce qui est du choix des fonctionnaires ecclesiastiques, il est évident que les premiers diacres, et les delégués qui accompagnaient les apôtres avaient été choisis dans le sein des églises qui leur avoient donné leurs pouvoirs. 2 Cor. 8. 19. On pourrait conclure de plusieurs exemples, qu' on en agissait de même pour l'institution des presbyters.—*Neander, Histoire de l' Etablissement de l' Eglise*, Vol. 1. p. 130.

Qui est ce qui nomme les pasteurs d' une église? Bièn que la parôle ne dise pas expressément que chaque église se choisisse les conducteurs, il est cependant assez naturel de le conclure de certains passages. Si, par exemple, de simples frères furent appelés à choisir deux candidats pour la charge d' apôtre, a plus forte raison peuvent ils nommer un pasteur.—Act. 1. 15, 16.

Act. 14. 23; 2 Cor. 8. 19. Semblerait établir la nomination des pasteurs par des

corfforent yn un o'u rheolau disgyblaethol;1 a'r diwygwyr Ysgottaidd cystal a'u brodyr ar y Cyfandir, a gymeradwyasant yr un

églises....Quoi qu' il en soit à cet égard, imposer comme de force à une église un pasteur, ou même un diacre, serait assurément manifester un esprit, bien différent de celui des apôtres, (Act. 1. 6,) qui requiraient l' assistance et le concours des églises dans des choses ou, selon nos idées, ils auraient pu ne le point faire.—*Bost, Essai sur la Nature des Eglises, &c.* p. 41.

Pan fyddo i'r gallu yma (o urddiad) wedi ei dderbyn felly unwaith, feddu rhyw ddeiliad ar yr hwn y gallo weithredu, ac wrth yr hwn y byddo i'w rwymo, yna y mae cydsynied y bobl yn dyfod i fewn, ac nid yn gynt. Myfi a allaf dderbyn y gallu i urddo yn gyfreithlawn heb ofyn cenad unrhyw dyrfa; *ond ni's gallaf roddi y gallu hwnw mewn gweithrediad ar unrhyw bobl yn hollol groes i'w hewyllys hwy. Ac nid oes un dyn yn Eglwys Loegr trwy drefniad cyfraith yn meddu gofal gweinidogaethol unrhyw blwyf, nad yw y bobl, mewn effaith yn ei ddewis i hyny.* Canys, er nad ydynt yn dewis, trwy roddi o bob un ei bleidlais bersonol, eto ni's gallant ddywedyd bod eu gweinidogion yn cael eu gwthio arnynt trwy drais, &c., &c.—*Hooker, Polity, book* 7. *sec.* 14.

Ministri ipsi erant.....delecti ut plurimum ex cœtibus ipsis, magno sane rei sacræ adjumento ecclesiarum commodo....Quæ quidem singula tam aperta sunt e sacris literis, et primeva historia, ut probatione ulteriori non indigeant.—*Weismann, Historia Ecclesiastica. Halle,* 1745, p. 96.

Gan hyny, er gochelyd pob cyfryw ddynion annysgedig ac annghyfaddas, yr oedd y ddefod arferedig yn yr amseroedd gynt yn un dra rhagorol, yr hyn oedd fel hyn:—Pan fyddai eisiau gweinidog, ymgynnullai yr holl blwyfolion, neu y rhan fwyaf o honynt, ar ryw ddyddiau pennodol cyn yr etholiad, ac ymgynghorent yn nghylch pennodiad gweinidog newydd. Byddai enwau rhyw gynnifer o ddynion cywir, pwyllog, duwiol, doeth, sobr, aiddgar, dianwadal, a dysgedig, yn cael eu rhagddodi ar ysgriflen, mewn rhyw le cyhoeddus yn y ddinas neu y dref, ac oddi tanodd hysbysiad ysgrifenedig bod y gwŷr a enwid uchod, wedi eu pennodi i gael eu dewis ar y dydd gosodedig yn weinidogion ar gynnulleidfa Duw, ac ychwanegid, os y gwyddai neb am fai neu anmherffeithrwydd amlwg ynddynt, naill ai o ran eu hathrawiaeth neu eu buchedd, bod i'r cyfryw rai fod yn wyddfodol ar y dydd crybwylledig, a dwyn ymlaen y gwrthddadleuon a allent yn gyfreithlon. Oni ddygid unrhyw wrthddadl deilwng yn mlaen ar y dydd gosodedig, yna elid yn mlaen gyd â'r etholiad. Ond cyn yr etholiad, wedi cynnull y plwyfolion yn nghyd yn enw Crist, hwy a ymroddent i ympryd a gweddi; ac wedi traddodi pregeth ar swydd y gweinidog a dyledswydd y plwyfolion, byddai rhyw weinidog neu weinidogion ereill, yn nghydâ rhai o henuriaid y gynnulleidfa hono, yn dodi eu dwylaw ar y gweinidog dewisedig, gan ddymuno ar iddo gael o Ysbryd Duw a'i ffrwythau....Meddwn dystiolaethau digonol mewn amryw ysgrifeniadau hen o eiddo yr ysgrifenwyr henaf, mai dyma oedd y ddefod yn yr amseroedd gynt. *St. Cyprian,* hen ysgrifenydd Lladinaidd, a ddywaid, "Y bobl gyffredin eu hunain a feddant yr awdurdod o flaen pawb arall, i ddewis offeiriaid teilwng, neu i wrthod rhai annheilwng. Yr hyn beth a gafodd ei ddechreuad fel y gwelwn o awdurdodiad Duw, bod i'r offeiriad yn mhresenoldeb y bobl, gael ei ddewis yn amlwg, ac yn ngolwg pob dyn, a'i gydnabod yn deilwng a chymhwys trwy farn y cyffredin, a thystiolaeth eglur."—*Becon's Works. Ed. of Parker Society, p.* 7.

Propter quod plebs obsequens præceptis dominicus, et Deum metuens, a peccatore præposito separare se debet, nec se ad sacrilegi sacerdotis sacrificia miscere; quando ipsa maxime habeat potestatem vel eligendi dignos sacerdotis, vel indignos recusandi. Quod et ipsum videmus, ut sacerdos, plebe praesente, sub omnium oculis deligatur, et dignus atque idoneus publico judicio ac testimonio comprobetur.—*Cyprian. Op. Oxon.* 1682. *Epist.* 67, *in note, p.* 7; *Becon's Works.*

Electio ordinarie facta est ab apostolis, aut eorum delegatis (Tit. 1. 5); sed præsenti, adplaudenti subinde postulante, populo ecclesiam constituente, quippe penes quem jus electionis erat; Act. 14. 23; Ubi verbum *cheirotonein* denotat per suffragia, quæ protensis manibus dari solebant, eligere; uti 2 Cor. 8. 19.—*Venema Historia Ecclesiæ, tom.* 3. *p.* 202.

1 Vocentur et eligantur, electione ecclesiastica et legitima, ministri ecclesiæ; id est, eligantur religiose ab ecclesia, vel ad hoc deputatis ab ecclesia, &c.—*Sylloge Confessionum, p.* 68. *Confessio Helvetica, sec.* 18.

egwyddor.1 Rhaid i ni benderfynu wrth y prawf Ysgrythyrol yma, mai ewyllys ein Harglwydd yw, bod i bob cynnulleidfa wrthod gweinidog annuwiol; ac am hyny y dylent fod yn ofalus i ddethol gweinidog meddiannol ar y cymhwysderau gofynol yn y Testament Newydd. Ond, y mae yr eglwysi,

Filius Dei est summus sacerdos, unctus ab aeterno Patre, qui ut non funditus intereat ecclesia, ministros evangelii ei attribuit, partim a se immediate vocatos, ut prophetas et apostolos, partim vocat'one humana electos. Nam et ecclesiae electionem approbat, et immensa bonitate efficax est, etiam sonante evangelio per electos suffragiis aut nomine ecclesiae.—*Ibid, p.* 276. *Confessio Saxonica. sect.* 12.

Credimus ministros, seniores, et diaconos debere ad functiones illas suas vocari et promoveri legitima ecclesiae electione, &c.—*Ibid, p.* 347. *Confessio Belgica, sec.* 31.

Bydded i'r hwn y cyhoeddir ei etholiad i'r eglwys, bregethu gair Duw yn gyhoeddus am dri sabbath olynol,....a chymerir dystawrwydd y bobl yn arwydd o'u cydsynied cyflawn. Ond, os y cyfyd ymryson, a bod y dywededig etholedig yn rhyngu bodd y cynghorlys, ond heb ryngu bodd y bobl, neu y rhan fwyaf o honynt, oedir ei dderbyniad, a dychwelir y cwbl i ystyriaeth y Gymmanfa Daleithiol;....ac er y gellir cyfiawnhau y dywededig etholedig, yno ar y pryd, eto, ni roddir ef yn weinidog ar y bobl hyny yn erbyn eu hewyllys, neu er anfoddlonrwydd y rhan fwyaf o honynt.—*Discipline of the Reformed Churches of France*, chap. 1. canon 6. *Quick's Synodicon*, p. 17.

Vous voyez, en second lieu, comme les apôtres ont deféré à l' église le droit de créer ses propres officiers, comme ils l' avoient pratiqué lors qu'il fut question de subroger un apôtre à Judas; car ils le proposérent à l' assemblée laquelle en choisit deux, Joseph et Matthias, entre lesquels on jeta le sort, afin que Jésus Christ declarât lui-même du ciel, lequel le deux lui étoit le plus agréable, et qu 'ainsi celui là tint sa vocation immédiatement de lui, ce qui étoit une condition nécessaire à la charge d' apôtre. De celle des diacres il n'étoit pas de même et ainsi il n'étoit pas nécessaire d'y employer le sort; c'est pourquoi le chose fut simplement remise au choix de l'assemblée. Et ainsi s'est il observé en l'ancienne église en l'élection des pasteurs, comme nous le voyons en Saint Cyprien, et en une infinité des passages des autres anciens. Mais aux siècles suivans les évêques de Rome ont ôté ce droit au peuple Chrétien, et se le sont réservé à eux seuls; convertissans le ministère en une denomination monarchique. Pour nous nous avons ramené l' ancien ordre, et restitué à l'église de droit qui lui appartenoit. Car encore qu'en l'élection d'un pasteur nous n' assemblions pus toute une église pour recueillir les suffrages de tous les fidèles qui la composent, en quoi il y auroit du désordre et divers inconvénients, neanmoins procède a son élection, dans un synode composé des pasteurs et anciens, qui sont députés de toutes les églises de la province, et qui les représentent. La on voit les témoignages qu'il a de sa vie, et puis en l'examine sur la doctrine, et sur la dextérité qu'il a à détailler la parôle de Dieu; après quoi on le propose à l'église pour y être vu et ouï; et si elle l'approuve et l'agrée, on le lui donne pour pasteur, avec prière et imposition des mains.—*Le Faucheur, Sermon sur Actes*, 6. 1—6.

1 Yn y "Llyfr Dysgyblaeth cyntaf," a dynwyd i fynu gan John Knox, Spottiswood, Douglass, ac ereill, yn y flwyddyn 1560, ac yna a lawnodwyd gan y *kirk* a'r arglwyddi, nyni a gawn y geiriau hyn: "Perthyna i'r bobl ac i bob cynnulleidfa ar wahan i ethol eu gweinidog.....Dylid gochel hyn yn hollol, na byddo un dyn yn cael ei wthio drwy drais, neu ei fwrw ar un gynnulleidfa; ond rhaid cadw y rhyddid yma gydâ phob gofal i bob eglwys, i feddu o honynt eu pleidleisiau yn etholiad eu gweinidogion."

Mae "Ail Llyfr y ddysgyblaeth," yr hwn y cyttunwyd arno yn nghymmanfäoedd cyffredinol 1577, a 1578, ac a gynnwys ddysgyblaeth bresenol y Sefydliad Albanaidd, yn cynnwys y gwireddau canlynol:—"Etholiad yw dewisiad person neu bersonau mwyaf cyfaddas i swydd a fyddo gwag, trwy farn yr henuriaid, a chydsynied y gynnulleidfa ar yr hon y byddo y person neu y personau i gael eu happwyntio."

Yn yr etholiad yma rhaid gochel rhag bod neb yn cael ei ddwyn trwy drais i unrhyw swydd yn yr eglwys, yn erbyn ewyllys y gynnulleidfa i'r hon y'u pennoder....Yr ydym yn dewis adferu a chadw o fewn y deyrnas hon, ryddid etholiad personau a elwir i swyddau eglwysig, yr hyn a gedwid yn ddi dor tra fu yr eglwys heb ei llygru gan Anghrist."

drwy yr Undeb, wedi trosglwyddo yr holl awdurdod hon i ereill, heb awdurdodiad oddiwrth Grist.

Fel canlyniad arall o gynhaliad cyfreithiol gweinidogion y Sefydliad, penderfynwyd bod i berchenogion ettifeddiaethau o ba rai y mae cyflogau y gweinidogion i gael eu talu, feddu yr hawl i'w henwi i'r bywiolaethau. Y mae eglwysi plwyfol Crist o fewn y Sefydliad, tuag 11,000, a gweinidogion 952 o honynt yn ddewisedig gan y Goron; 1248, yn ddewisedig gan esgobion ac archesgobion; 787, gan ddëoniaid a chabidwliaid, *(deans and chapters)*; 1851, gan urddasolion ereill; 721, gan athrofäau, a 5996, gan noddwyr annnghyoedd.[1] Pan fyddo noddwr yn cyflwyno gweinidog i esgob, i'w osod fel bugail ar eglwys, ni's medd yr eglwys un llais yn y peth; ac y mae yr esgob bron yn ddinerth; canys oddieithr iddo allu profi bod annghymmwysder cyfreithiol yn y cyflwynedig, rhaid iddo ei dderbyn i'r fugeiliaeth. Nid yw bod y cyflwynedig yn annerbyniol gyd a'r bobl, yn llesg, yn swrth, o dalent fach, o gyrhaeddiadau Dwyfyddol byrion, ac yn brin o rinweddau; ei fod yn ddrwg-dymherus, neu afreolaidd; ei fod yn hoff o hela, saethu, mynychu dawns-gymmanfäoedd, a chwareu cardiau, yn unrhyw annghymmwysderau cyfreithiol. Oddieithr i'r esgob allu profi ei fod ef yn hereticaidd neu yn anfoesol, rhaid iddo ei dderbyn i fod yn weinidog eglwysig, neu fe all y noddwr gyfodi iawn oddiarno mewn cyfraith o *quare impedit* yn y llys gwladol; a gall y cyflwynedig gwrthodedig gael barn yn ei erbyn yn y llys eglwysig yn ol yr hyn a elwir *duplex querela*. Os yn y cynghaws olaf hwn, na's prawf yr esgob ei achwyniad; neu y byddo yr achos o'i ommeddiad i'w osod yn y fugeiliaeth yn annigonol mewn cyfraith, rhydd yr archesgob orchymyn i'r cyflwynedig gael ei osod yn ei swydd, a dyfernir yr esgob i dalu y treuliadau.[2] Trwy yr ansawdd yma ar y gyfraith, pa bryd bynnag y bydd i noddwr ddewis un annghymmwys a beius allan o'r un fil ar bymtheg eglwyswyr, llawer o ba rai ydynt yn annuwiol, gan ei gyflwyno i fod yn fugail rhyw eglwys, ni all na'r esgob na'r eglwys roddi rhwystr uniongyrchol yn ei ffordd. Oni bydd annghymmwysder cyfreithiol ynddo, rhaid ei dderbyn.

Ychydig bethau a allant fod yn bwysicach i eglwys na dewisiad eu bugail. Gall gweinidog doeth, sanctaidd, aiddgar, a serchog, fod yn offeryn tröedigaeth llawer o eneidiau, a meithrin lleshad ysbrydol holl aelodau yr eglwys. Dan ei ofal bugeilaidd, gall crefydd deuluaidd a phersonol, addysg, gofal am anghenion y tlodion, a zel genhadol gyd ffynu. Gall rhieni weled eu plant yn cynnyddu yn ofn yr Arglwydd, gall teuluoedd fod yn unedig a dedwydd, y gynnulleidfa fod yn dduwiolfrydig a sanctaidd, a gall crefyddoldeb yr holl gymmydogaeth gael ei feithrin. Ar y llaw arall, gall gweinidog

1 (P. 173.) *M'Culloch's "Statistics,"* Vol. 2. p. 406.

2 *Burn*, Vol. 1. pp. 157, 159, 161.

annuwiol estroneiddio aelodau duwiolaf ei eglwys oddiwrth ei weinidogaeth, gwaghau yr ysgol a'r deml, gosod crefydd yn nôd i ddirmyg y gwatwarwr, dwyn deif-wynt ysbrydol i waered ar y lle, a gadael yr eglwys, wedi hanner canrif o gamymddygiadau, mor glaiar ag eglwys Laodicea, ac mor farw ag eglwys Sardis.

Eto, yn y gorchwyl pwysig yma, ni fedd eglwys o fewn y Sefydliad un llais. Gall y noddwr, y cyflwynedig, a'r esgob, fod oll yn ddynion bydol, y rhai ni's gofalant ddim am eu llês ysbrydol; ond gall y cyflwynedig gan gael ei gefnogi gan ei noddwr, a'i gynnorthwyo gan yr esgob, ddïystyru anfoddlonrwydd yr eglwys, a chymeryd rheolaeth eu haddoliad, llywodraeth eu hysgolion, a holl areiliaeth fugeilaidd eu plwyf arno ei hunan, yn erbyn eu hewyllys hwynt. Mae yn wir, tra y cymer arno eu harwain hwy i'r nefoedd, nad yw efe yn gwybod y ffordd yno ei hunan; ond rhaid iddynt eu rhoddi eu hunain dan ei arweiniad, am eu bod yn chwenych gochel talu ei gyflog. Nid ymddŵg dynion fel hyn mewn pethau llawer mwy dibwys. Byddai yr un personau ag a oddefant yn dawel i estroniaid enwi eu gweinidog yn dra digofus am ymyriad o'r fath mewn perthynas i unrhyw swyddog arall. Ni chaniattäent i estron enwi yr athraw i ddysgu eu plant, y meddyg i weini ar eu teuluoedd, y cyfreithiwr i drin eu hachosion, neu yr aelod i'w cynnrychioli yn y Senedd. Ac eto y mae cymhwysderau eu gweinidog yn meddu dylanwad grymusach arnynt er da neu ddrwg nag un o'r swyddogion crybwylledig hyn.

Byddai trosglwyddo yr hawl afrwymedig o ddewis eu gweinidog i unrhyw noddwr, pa mor ddoeth a duwiol bynnag a fyddo, yn rhyfyg beius; ond y mae y noddwyr i'r rhai y mae eglwysi y Sefydliad Seis'nig wedi ymddiried yr hawl yma, yn dra annghyfaddas i'w gweinyddu.

Ennillir yr hawl, nid drwy eu rhagoroldeb personol hwy, neu trwy etholiad iddi; ond drwy y digwyddiad o'u bod hwy yn dal yr ettifeddiaeth a fyddo yn talu y cyflog, neu wedi prynu yr hawl gan y rhai a fyddont yn ei dal. Fel hyn y mae yn ddichonadwy i ddynion eithaf dïallu, anwybodus, annghrefyddol, ac anfoesol, fod yn dewis gweinidogion i eglwysi y Sefydliad Seis'nig, allan o un fil ar bymtheg o eglwyswyr, y mysg y rhai y mae lluaws o ddynion annghrefyddol ac annychweledig.

A chan fod y noddwyr hyn yn gyffredin yn oludog, ac mai "*Haws yw i gamel fyned drwy grai y nodwydd ddûr, nag i oludog fyned i mewn i deyrnas Dduw,*"[1] y maent fel dosparth yn debycach nag ereill o fod yn annghrefyddol, ac felly yn llawer llai galluog i iawn farnu cymhwysderau gweinidog da. A'r hyn a wna y peth yn waeth ydyw, bod yr hawl yma yn fynych yn ysgaredig oddiwrth y perchenogaeth o'r ettifeddiaeth a'i trosglwyddai ar y dechreu, fel y gall y noddwr fod yn estron i'r bobl, ac yn llwyr ddïofal am eu lleshad. I'r cyfryw ddwylaw y cydsyniodd un fil ar

1 Matt. 19. 24.

ddeg eglwysi plwyfol y Sefydliad i drosglwyddo yr hawl o ddewis eu gweinidogion, er mwyn y cyflogau.

Yn ol cyfraith Crist, dylai Cristionogion brofi y gweinidogion a bregethant iddynt, ni's dylent wrando ar y rhai ni phregethant yr Efengyl, na derbyn athrawon cyfeiliornus i'w tai, a dylent ymneillduo oddiwrth ddrwgweithredwyr, pa un bynnag ai gweinidogion neu aelodau a fyddont.[1] Ond y mae eglwysi y Sefydliad, er mwyn y cyflogau, wedi cyflwyno i ddynion, y rhai yn gyffredin, mae lle i ofni, ydynt amddifaid o grefydd ysbrydol, yr hawl drwyadl o ddethol eu gweinidogion iddynt, heb gadw iddynt eu hunain gymmaint a hawl i ymchwilio a gwrthdystio.

Mae y ddefod hon o eiddo yr eglwysi o fewn y Sefydliad yn llai esgusawl, yn gymmaint a'i bod yn hollol wrthwyneb i ymarferiad yr eglwysi oeddynt dan gyfarwyddyd uniongyrchol yr apostolion, fel y gwelsom eisoes. Y mae dïystyru y cynreolau hyn, yn ddïystyrwch ar awdurdod Crist ei hun, trwy yr hon y gweithredai yr apostolion; canys, oddieithr y gellir dadleu amgylchiadau neillduol er dangos bod unrhyw ymarferiad apostolaidd wedi ei bwriadu i fod dros adeg fer yn unig, rhaid golygu pob cyfryw ymarferiad megis ordinhad o awdurdodiad parhaus, yr hon sydd i'w pharchu a'i chadw gan bob dysgybl i Grist.

Gan hyny, pan fyddo unrhyw gynnulleidfa o'r Sefydliad yn ymostwng i draws-osodiad gweinidog gan y noddwr, y mae yn cydsynio i ddïystyru trefniad a ffurfiwyd gan yr apostolion, ar awdurdod Crist, i'r eglwys gyffredinol. Pa hawl a fedd noddwr i benu y gweinidog? Mae ei ettifeddiaeth yn ei gyfaddasu i arlwy y cyflog, ond, gan nad yw hyny yn rhoddi iddo na thalent, na duwioldeb, nac hyd yn nod moesau da, nid yw yn ei gymmwyso i ddewis gweinidog; ac ni's gall drosglwyddo yr hawl i wneuthur hyny. Os attebir bod hyn wedi ei drefnu trwy gyfraith gan y Wladwriaeth, rhaid i ninnau ofyn, Pwy a roddes awdurdod i'r Wladwriaeth i ymyraeth fel hyn â dyledswyddau pennodol yr eglwys? Ni fedd y Wladwriaeth y fath hawl, ac os y traws-gymerodd hi hawl yr eglwys trwy offerynoliaeth y cyflog, mae yr eglwys yn rhwym o roddi y cyflog i fynu ac adennill yr hawl. Y mae yn rhwym i adennill ei hannibyniaeth, pa mor ragorol bynnag y gall y gweinidog traws-osodol fod; ond y mae y niweid yn ddwysach fyth pan fyddo y gweinidog a draws-osoder yn annuwiol.

Mae y niweid a wneir trwy bennodiad gweinidogion annuwiol i eglwys, yn profi ehangder y niweid y rhaid fod yr holl Sefydliad yn ei oddef oddiwrth yr achos hwn. Os ydyw bod i eglwys efengylaidd gael gweinidog annuwiol yn osodedig arni, yn ddrwg mor annïoddefol ag a fyddai i ddïadell o braidd gael blaidd wedi ei osod yn fugail arni, i'r morwyr pan yn cael eu lluchio gan

1 Matt. 7. 15—20. Ioan 10. 5. 2 Ioan 9—11. Rhuf. 16. 17. 1 Cor. 5. 11, 13. 2 Cor. 6. 14—18, &c. &c.

y dymhestl, fod dan fôr-lywydd meddw, neu i fyddin yn ngwlad y gelyn, feddu bradwr yn faes-lywydd arni, rhaid ei fod yn annïoddefol i'r Sefydliad feddu llawer o'i eglwysi yn cael eu cam-arwain gan amryw o'r fath weinidogion. *Ond cyhyd ag y parhäo cyfundrefn y noddaeth, rhaid i'r drwg yma barhau.* Nid yw noddwyr goludog y wlad hon yn efengylaidd a duwiol yn gyffredin, ac am hyny, nid ydynt yn penu gweinidogion efengylaidd a duwiol; ac ni all gweinidogion annuwiol byth lunio ac adeiladu eglwysi efengylaidd a duwiol. *Fel hyn, y mae yr un drwg yma o noddaeth yn sicrhau y bydd i eglwysi y Sefydliad barhau, fel y buant bob amser, i radd helaeth, yn anwybodus ac annghrefyddol. Noddwyr annghrefyddol ydynt ffynhonell lygredig i'r Sefydliad, yr hyn ni's gall unrhyw welliadau yn amgylchiadau ei gweinyddiad byth ei unioni; a rhaid i'r noddaeth fod yn wastadol yn ffynhonell niweid, mor gynnyrchiol, fel y mae yn rhaid i eglwysi y Sefydliad barhau yn anwybodus ac annghrefyddol, heb y cyfryw wyrthiau o ras, ar na's gallwn ei ddisgwyl tra yn euog o'r diystyrwch yma ar awdurdod Crist.*

Byddai i gyfraith yn awdurdodi y bobl i roddi eu gwrthleisiad, cyffelyb i'r hyn a gymeradwywyd gan Gymmanfa Gyffredinol yr Alban, liniaru y drwg, oblegid na byddai i eglwys wedi ei goleuo a'i hefengyleiddio unwaith, byth wedi hyny dderbyn un annuwiol a gyflwynid gan y noddwr i fod yn weinidog arni; ac fel hyn lluosogid eglwysi efengylaidd. Goddefer i mi yma ddarlunio gweithrediad y gyfraith wrthleisiol, neu y *veto* hono yn yr Alban; yr hyn a fu yn dra llesol.

"Y *veto* a gynnygid gan Dr. Chalmers, ac a gollid trwy fwy-rif o ddau, yn y flwyddyn 1833; ac yn 1834, ar gynnygiad Arglwydd Moncrieff, fe'i hennillwyd trwy fwy-rif o 46.

"Bu y defnyddiad o'r hawl a ennillwyd fel hyn gan gymmunwyr Eglwys yr Alban, mor gymedrol, fel, er bod tri chant o gyflwyniadau wedi eu gwneuthur er pan gymeradwywyd y Gyfraith, na chaed namyn tua deuddeg o enghreifftiau o'r gwrthleisiad; na chymmaint ag un enghraifft o ail wrthleisiad yn un o'r lleoedd gweigion.

"Ar y llaw arall, ei ddylanwad, yr hwn a deimlid drwy holl boblogaeth yr Alban, a gyfiawnhäai ddoethineb y rhai a wnaethant y gyfraith yn fuan. Ni's gallai rhieni arfaethu mab i'r weinidogaeth mwyach, heb un gofal am ei nodwedd crefyddol, a'i alluoedd meddyliol; ac ni allai noddwyr benderfynu wrth eu mympwy yn hwy pwy a fyddai yn weinidog plwyf, neu bennodi gwr ieuanc i swydd ysbrydol bwysig, fel gwobrwyad am ryw wasanaeth gwladol a wnelsid gan ei rieni, er gwasanaethu rhyw un a ymddibynai arno, neu foddio cyfaill: ond yr oedd rhieni a noddwr yn awr yn gorfod ystyried pa un a oedd talentau a rhinweddau y gwr ieuanc yn debyg o sicrhau iddo gydsyniad y plwyfolion,

"Yr oedd effaith y gyfraith hon mor dda ar yr henaduriaethau hefyd. Cyn y weithred hon y brif attalfa ar noddaeth drylwyr oedd yn eu arholiaethau; ond yr oedd llawer o'r henuriaid eu hunain wedi eu bwrw ar blwyfau anfoddog; yr oedd llawer yn ymddibynu ar noddwyr am ddyrchafiad, yr oedd hawl i appelio oddiwrth eu barn at lysoedd eglwysig uwch, y rhai oeddynt y pryd hyny yn hollol dan ddylanwad yr ymblaid a elwid Cymedrolaeth; a phe tybiasid eu bod hwy yn gwneyd dim tu hwnt i'w hawdurdod, yr oedd y llysoedd gwladol yn barod i gyfryngu yn ebrwydd. Y rhai hyn, neu ryw resymau ereill mwy grymus fyth, a'u dirymasai yn y fath fodd, fel y dywedir, er fod llawer o ddynion annheilwng ac annghyfaddas wedi eu cyflwyno, nad oedd ennghraifft mewn côf i gymmaint ag un cyflwynedig gael ei wrthod gan yr henaduriaeth ar gyfrif annghyfaddasrwydd moesol, cyn cymeradwyo cyfraith y gwrthleisiad. Yr oedd henaduriaethau eu hunain yn gwaelu trwy ddylanwad niweidiol noddaeth trylwyr; nid oedd arswyd dyfarniad y lluaws yn ddigon grymus i'w hattal i gymeradwyo dynion, y rhai yr oedd eu diffyg o gymhwysderau cyffredinol yn waradwydd i'r eglwys; ac nid oedd "prawf y cyflwynedig" mwy na "galwad y bobl," yn fynych iawn, yn ddim amgen na gwatwargerdd trwyadl. Ond, er pan gymeradwywyd cyfraith y gwrthleisiad, y mae yr henaduriaethau wedi cael eu harwain i ystyried lles y bobl yn fwy gofalus, a'u arholiaethau wedi dyfod yn y canlyniad yn fwy manol; ac mewn dau amgylchiad, bu i'r prawfedig a enwid gan y noddwr, *ac a gymeradwyid gan y bobl,* gael ei wrthod gan yr henaduriaeth, ar gyfrif ei annghymmwysder.

"Os bu i'r ddau attaliad yma gael dylanwad daionus ar y noddwyr yn newisiad gweinidogion, effeithiasant yn fwy grymus fyth ar yr efrydwyr dwyfyddol eu hunain. Dan arglwyddiaeth noddaeth anattaliedig o'r bron, yr oedd unrhyw wr ieuanc na's meddai ddigon o dalent i'r llys cyfreithiol, na digon o ymröad i fasnach, yn sicr o gael bywioliaeth gysurus os gallai ei rieni sicrhau ffafr noddwr. Ond wedi gwneyd y *veto* yn gyfraith, gwyddai pob efrydydd dwyfyddiaeth, oni byddai yn feddiannol ar gryn alluogrwydd, dysgeidiaeth, a difrifwch, o leiaf, y cawsai ei wrthleisio gan y bobl, neu ei wrthod gan yr henaduriaeth, hyd yn nod pe buasai yn llwyddo i gael ei enwi gan y noddwr. Bellach, erbyn bod derbyniad i'r weinidogaeth yn cael ei ommedd i'r annghrefyddol a'r dilafur, gwelai dynion galluog, dysgedig, a rhinweddol, eu ffordd yn agored i sefyllfeydd yn y rhai y gallent fod yn ddefnyddiol. Pa un bynnag a fuasent o deuluoedd goludog heb noddaeth eylwysig, neu o'r radd isaf, yn mhellach fyth oddiwrth wenau y mawrion, nid oeddynt yn debyg o gael eu gofidio mwyach wrth weled rhai a ymddibynent ar noddwyr, heb unrhyw ragoriaeth, nac onid cymhwysder anmheus, yn cael eu cyfodi dros eu penau drwy bleidgarwch annheg. O ganlyniad, tra yr oedd cynnifer o ymgeiswyr o'r dospeirth uchaf, ag ydoedd cyn cym-

eradwyaeth y gyfraith ddywededig, yr oedd yr efrydwyr o bob dosparth yn ddïau yn fwy hyddysg a galluog nac o'r blaen. Ac ni ddarfu i lymder cynnyddol disgyblaeth adael yr eglwys heb weinidogion; gyrai hyn y rhai annheilwng ymaith, ond attynai ddynion o wir deilyngdod. Yn y flwyddyn 1838, sef yn mhen y pedair blynedd wedi i'r *veto* ddyfod i weithrediad, yr oedd nifer yr ymgeiswyr yn bum cant, ac yn y flwyddyn 1839, yr oeddynt tua saith gant, tra nad oedd holl nifer y lleoedd gweigion yn yr eglwys, gan gynnwys yr eglwysi anwaddoledig, a swyddi trefedigaethol, ddim oddiar hanner cant. Felly yr oedd nifer yr ymgeiswyr y flwyddyn hono mewn cyfartaledd digonol i ddiwallu yr eglwys â gweinidogion dros bedair blynedd ar ddeg; ac ar yr un pryd yr oedd y cyflenwad blyneddol ychwanegol o ymgeiswyr yn ddau cymmaint a nifer blyneddol y gwagleoedd.

"A thrachefn, pan fyddai i'r ymgeisydd wedi ei gymeradwyo dan y *veto* ddyfod yn weinidog plwyf, yr oedd efe yn dechreu ar ei weinidogaeth dan amgylchiadau tra gwahanol i'r rhai a gyfodent yn fynych oddiar noddaeth annherfynol o'r bron.

"Yr oedd y cyflwynedig gormesol a wthid ar bobl anfoddog, yn rhyw fath o fod hollol neillduedig oddiwrthynt; chwerwedig efallai gan eu gwrthwynebiad, dïofal fe ddichon am eu lles, ond, pa fodd bynnag, yn dechreu ei ofal bugeilaidd a thadol am danynt dan wedd un oedd yn benderfynol i fỳnu dyledion a ffieiddid gan ddyledwyr sarrug, ac i weithredu awdurdod a gaseid, ar rai a fuasai yn ei fwrw ymaith pe y gallasent: ond dan y *veto*, ni ddechreuai ei lafur gweinidogaethol yn eu mysg cyn sicrhau eu cyfeillgarwch yn gyntaf; a chan fod yn ddyledus i'w cydsynied hwy am ei bennodiad i'r lle, efe a deimlai ddiolchgarwch am eu caredigrwydd yn gymmhlethedig â chymhelliadau ereill i wneuthur daioni iddynt.

"Yr oedd dylanwad y *veto* yn dra llesol ar y gynnulleidfa hefyd. Pan y gwthir gweinidog ar bobl yn erbyn egwyddor eu heglwys, ac yn erbyn eu hargyhoeddiad hwythau o'i gymhwysder; rhaid fod eu meddyliau yn gauedig yn erbyn ei addysgiadau, oblegid eu bod yn amheu ei gariad, ac yn annghredu ei awdurdodiad oddiwrth Grist; ond pan fyddont wedi datgan eu cred ddifrifol fod eu gweinidog yn gymhwys i wneyd lles iddynt, a phan fyddo efe yn ymgymmeryd a'i weinidogaeth yn eu mysg trwy eu cydsyniad eu hunain, yn ol pob rhëol o eiddo yr Efengyl, a'u heglwys hwythau, yna y maent yn barod i wrando arno gydâ pharch a serchogrwydd.

"Teimlid effaith y gwelliant yma yn mherthynas gweinidogion Eglwys yr Alban a'u pobl, yn mhell tu hwnt i derfynau y plwyfau yn y rhai y cyflëid gweinidogion newyddion dan y gyfraith hon.

"Fel yr oedd noddaeth afrwymedig, a'r bydolrwydd trwyadl yr hyn y buasai yn brif achos o'i gynnyrchu yn yr eglwys wedi gyru llawer o honi, ac oeri meddyliau mwy a arhosasent ynddi, felly yn awr, gydâ llawenydd y

gwelai ei chyfeillion gynnydd ar ei hysbrydolrwydd, a'r olwg a adnewyddai eu hymlyniad wrthi. Amlygid bywiogrwydd newydd yn awr yn lluosogiad moddion addysg trwy y tir. Dros yspaid y tymhor echrys o ddirywiad a marwolaeth ysbrydol, o 1730, pan ddechreuid traws-osodiad gweinidogion yn gyffredinol, hyd 1834, pan wnaed y *veto* yn ddeddf, prin y cyfodid unrhyw adeiladau ychwanegol i addoliad Duw, er fod y boblogaeth yn cynnyddu yn barhaus. Mor ddiweddar a'r flwyddyn 1797 annghymeradwyai y Gymmanfa bob cynnygiadau i adeiladn capelau cynnorthwyol; ac ni allasai un aelod o'r eglwys adeiladu un oddieithr dan gyfarwyddyd yr awdurdod hono, yr hon ar y pryd hyny ydoedd hollol wrthwynebol i'r fath beth.

"Effaith yr ymddygiad yma, yr hwn ydoedd mor esgeulus o leshad y bobl, ag ydoedd o niweidiol i'r Sefydliad, ydoedd na chwanegwyd namyn triugain a thri o gapeli cynnorthwyol at adeiladau y Sefydliad, tra y cyfodai chwe chant o gynnulleidfäoedd o ymneillduwyr o fewn y ganrif hono. Ond wedi cymeradwyo y *veto,* cafodd aelodau efengylaidd yr eglwys fywyd newydd, a than eu hyfforddiad gwelid egni adnewyddol yn hynodi eu holl weithrediadau. Yn y flwyddyn 1834, caniatteid derbyniad i weinidogion capelau cynnorthwyol, i lysoedd eglwysig, a rhagorfreintiau ereill, trwy gyfraith o eiddo y Gymmanfa. Yn 1835, cyfodid dwy a thriugain o eglwysi, yr hyn nid oedd ond un yn llai na'r nifer a adeiladasid drwy ystod yr holl ganrif flaenorol; ac erbyn pen y pum mlynedd, holl nifer yr eglwysi newyddion a adeiladasid, neu a adeiladid, ydoedd 201, yn cynnwys chwanegiad o fwy na'r bummed ran o holl nifer yr eglwysi o fewn y Sefydliad yn 1834.

"Yr ydoedd ymddygiad blaenorol wedi peri cryfhad ar ymneillduaeth, a chynnyddu ei chwerwder. Dan ddylanwad cymedrolaeth, cynnyddai ychydig gynnulleidfäoedd ymneillduedig y ddau Erskine a'u cyfeillion hyd bum cant o nifer, a'r holl gynnulleidfäoedd ymneillduedig yn y flwyddyn 1834 oeddynt chwe chant, neu fwy na hanner nifer cynnulleidfäoedd y Sefydliad. Ond tra y darfu i fwy-rif efengylaidd 1834, gyfodi 201 o eglwysi newyddion o fewn y pum mlynedd wedi cymeradwyo cyfraith y gwrthleisiad, eu hegwyddorion a'u duwioldeb a ddylanwadai lawer o ymneillduwyr fel y darfu i un cyfundeb (y *burgher synod)* cynnwysedig o ddeugain o eglwysi, ail ymuno â hwy.

"Fel hyn bu i gyfraith y gwrthleisiad dan weinyddiad yr anormesolion yn Eglwys yr Alban, trwy gael ei chefnogi gan amrywiol ddeddfau daionus ereill a gymeradwyid ganddynt, ffrwyno cam-driniaethau noddaeth, gymhell yr henaduriaethau i fod yn fanylach yn eu arholiadaethau ar ymgeiswyr am y weinidogaeth; ac felly bu yn offerynol i gyfodi cymhwysderau meddyliol a moesol ymgeiswyr, ac ychwanegai yn flyneddol at nifer y gweinidogion duwiol. Cydiai serchiadau gweinidogion a'u cynnulleidfäoedd yn nghyd, boddlonai gydwybodau yr aelodau duwiolaf a mwyaf goleuedig o'r eglwys, ac adfywiai eu serchiadau tuag atti wrth ei golygu fel Sefydliad; lluosogai yr

swm, er bod yn gyfnewidiol mewn gwerth, wedi ei arosod yn lle holl ddegymau Lloegr a Chymru.[1] Ac yn ol 6 a 7 Wm. IV. cap. 71, "Pan fyddo yr ardreth degymawl heb ei dalu dros un diwrnod ar hugain wedi y tâl ddyddiau hanner blwyddol, gall y sawl fyddo i'w dderbyn attafaelu am dano."[2]

Mae y gyfraith am dreth eglwysi yn gyffelyb. "Y mae adgyweiriad adail yr eglwys yn ddyledswydd y mae y plwyfolion yn rhwym i'w chyflawni. Ni's medd y plwyfolion ddim modd i fwrw ymaith y baich o adgyweirio yr eglwysi, mwy nag o adgyweirio y pontydd a'r prif-ffyrdd.[3]......Mae gan y llys ysbrydol awdurdod a brawdwriaeth, trwy geryddon eglwysig i orfodi y golygwyr eglwysig i gwblhau eu dyledswydd mewn perthynas i adgyweiriadau yr eglwys, i orfodi y plwyfolion i gwblhau eu dyledswydd trwy ddarpar moddion er gwneyd yr adgyweiriadau dywededig, ac wedi arosod y dreth gyfreithiol, i orfodi pob un i gyfrannu y swm arosodedig arno.[4] Ac yn ol 53 Geo. III. cap. 127, "Os bydd i neb un a fyddo wedi ei ddogni yn brïodol â threth eglwys, ommedd neu esgeuluso talu y swm a ddognir arno felly, bydd yn gyfreithlon i ryw un o ynadon yr heddwch dros y sîr yn yr hon y bydd yr eglwys grybwylledig, i alw y cyfryw un o flaen dau neu fwy o ynadon ereill, a thrwy archeb dan eu llaw hwy gyfarwyddo pa fodd y telir yr hyn a fyddo dyledus, cyd na byddo y swm uwchlaw deg punt dros ben y costau; ac ar ommeddiad i dalu, bydd yn gyfreithlon i neb un o'r cyfryw ynadon, trwy warant, godi yr arian trwy attafaeliad a gwerthiad eiddo y cyfryw droseddwr."

Fel hyn, er y dichon na charcherir personau yn awr am wrthddadleu yn gydwybodol yn erbyn yr Undeb rhwng yr Eglwys a'r Wladwriaeth, eto y mae y sawl ydynt dan ddegymau a threthi, yn rhwym trwy gyfraith i gynnal y gweinidogion, ac i adgyweirio yr adeiladau at wasanaeth crefyddol; a gellir rhanu y talwyr hyn yn gyffredin i bum dosparth,—Aelodau duwiolfrydig eglwysi y Sefydliad, aelodau bydol ac anystyriol, ymneillduwyr efengylaidd, Pabyddion, ac anghredinwyr. Gadewch i ni ystyried effaith talion gorfodol ar bob un o'r dospeirth hyn.

1. Y mae aelodau duwiol a zelog y Sefydliad yn cydsynio yn llawen â gofynion y gyfraith er cynhaliaeth gweinidogion duwiol, am y buasai iddynt heb y gyfraith, dalu yn llawen fwy nag a dalant yn awr at eu cynnal. Ond y mae y trefniant gorfodol wedi achlysuro dau ddrwg mawr gyda golwg ar y dosparth yma. 1. Y mae wedi llwyr dywyllu, a chuddio rhag y byd, yr haeledd, â'r hwn y buasai iddynt hwy mewn ufudd-dod i orchymynion Crist, gynnal eu gweinidogion, oblegid bod eu talion presenol yn cael eu gwneyd dan orfodaeth y gyfraith.

Buasai pum mil o weinidogion yn cael eu cynnal trwy zel a haeledd

[1] *Burn*, Vol. 3. p. 698. [2] *Ib.* p. 733. *margin.* [3] *Ib.* Vol. 1. pp. 338, 339. [4] *Ib.* p. 388.

eglwysi Lloegr yn brawf grymus o'u ffydd a'u cariad ; ond nid yw un fil ar bymtheg o weinidogion yn gynhaliedig trwy orfodaeth cyfraith, yn un prawf o ffydd a chariad y rhai a'u cynhaliant. 2. Y mae y rhan fwyaf o'r gweinidogion yn fydolion, y rhai, yn ol cyfraith Crist, ni ddylasent fod yn weinidogion ar un cyfrif; ac yn y cyfryw amgylchiadau, y mae aelodau duwiol eglwys yn cael eu gorfodi i dreulio yr arian ar gynhaliaeth gweinidog annuwiol, a'r rhai, pe y buasent yn rhydd i ddewis, y gallasent sicrhau un ffyddlon.

2. Y mae aelodau bydol o'r eglwysi, gan eu bod yn aml yn anfoddog i dalu yr hyn sydd ddyledus i'w gweinidogion, yn cael mynych achlysuron o ymrysonau â'u gweinidogion, weithiau o barth swm y talion, ac weithiau o barth ol-ddyledion. Mae y cyfryw ymrysonau tra y parhaont yn difa yr amcan, er mwyn yr hyn y sefydlid y weinidogaeth, ac yn tueddu i estroneiddio y gweinidog a'r bobl oddiwrth eu gilydd.

Gwrthodai Paul dderbyn cyfranniadau gwirfoddol yr eglwys yn Corinth, rhag lleihau ei ddylanwad fel gweinidog; (1 Cor. 9. 12); ond y mae gweinidogion y Sefydliad, er distryw eu dylanwad, yn gorfodi eu gwrandawwyr trwy gyfraith, i dalu yr hyn sydd ddyledus iddynt. Mae cyfraith a defod wedi dallu meddyliau dynion yn y fath fodd, fel y mae gweinidogion Crist, mewn dïystyrwch beius ar esampl apostol ysbrydoledig, yn sicrhau eu budd eu hunain er dinystr eu defnyddioldeb.

3. Mynych y mae ymneillduwyr efengylaidd yn cwyno bod y talion gorfodol yma yn annghyfiawn: (1.) Oblegid eu bod hwy, y rhai a wrthwynebant Undeb yr Eglwys a'r Wladwriaeth yn cael eu gorfodi i gynnal yr hyn a gondemniant. (2.) Am en bod yn cael eu gorfodi i gynnal gweinidogion pobl ereill, gweinidogaeth y rhai nid yw o un gwasanaeth iddynt hwy (3.) Am eu bod hwy, er eu bod yn llawer tlottach nag aelodau y Sefydliad, yn cael eu gorfodi i dalu yn ddwbl, yn gyntaf, dros weinidogion y Sefydliad, ac yn ail, dros yr eiddynt eu hunain. I hyn yr ettyb y rhai a ddadleuant dros y Sefydliad, bod yn rhaid trethu pawb yr un ffunud er cwblhau amcan cenedlaethol mawr; ac os ydynt hwy yn dewis cynnal ail ddosbarth o weinidogion, mai canlyniad eu llŷs eu hunain yw hyny yn unig. Ond pa fodd y gall yr atteb yma foddloni yr Ymneillduwr? Gan ei fod ef yn credu bod yr Undeb yn gamweddus, ac y byddai eglwysi y Sefydliad yn fwy effeithiol pe y peidient a bod yn sefydledig, ni's gall lai na theimlo bod y dreth a arosodir arno er cynnal yr Undeb niweidiol hwnw, yn orthrymus ac annghyfiawn. Ond pan fyddo efe yn ymdrechu i'w symmud, y mae cefnogwyr yr Undeb yn dïal hyny megis camwri, ac felly y mae ymryson gwastadol yn cael ei achlysuro rhwng gweision Crist.

4. Pabyddion ac annghredinwyr a feddant wrthddadleuon cyffelyb, ac iawn y gallant deimlo y caledi o orfod cynnal yr hyn y mae y naill yn ei

gyfrif yn heresi, a'r llall yn ei alw yn dwyll; a'r naill a'r llall yn ei olygu yn niweidiol.

Os mynai gweinidog o'r Sefydliad bregethu i'r ddau ddosparth yma, os byddai ynddo ryw fesur o ofal am lwyddiant ei gennadwriaeth, efe a ymwrthodai a'u cyfraniadau. Felly y gwnelai gweinidogion cyntaf Crist, fel y dysgwn oddiwrth yr ymadrodd canlynol o drydydd epistol Ioan;—"*Yr anwylyd, yr ydwyt yn gwneuthur yn ffyddlawn yr hyn yr ydwyt yn ei wneuthur tuag at y brodyr, a thuag at ddieithriaid; y rhai a dystiolaethasant am dy gariad di ger bron yr eglwys; y rhai os hebryngi fel y gweddai i Dduw, da y gwnai. Canys er mwyn ei enw ef yr aethant allan heb gymeryd dim gan y Cenhedloedd.*"

Rhaid fod y Pabyddion a'r digred, wrth gael eu gorfodogi i gynnal crefydd a wrthodir ganddynt, yn cael eu hestroneiddio yn fwy fyth oddiwrthi hi, ac oddiwrth eu gweinidogion, gweinidogaeth y rhai yn y canlyniad sydd yn rhwym o ddyfod yn ddiffrwyth, a'u cennadwriaeth yn fethiant.

Trwy y gyfundrefn yma y cauir clustiau y werin annghrefyddol yn gyffredinol yn erbyn gweinidogion y Sefydliad, am eu bod yn gweled bod y dospeirth tlottaf yn talu am weinidogion y rhai goludog, bod y lluaws yn talu am weinidogion yr ychydig; a bod y rhai ydynt yn gwrthdystio yn erbyn eu gweinidogaeth yn gorfod talu cystal a'r rhai a'i defnyddiant. Dyma y peth, yn gymmaint a dim, a estroneiddiodd y Gwyddelod yn erbyn Protestaniaeth. Y mae gwneuthur i'r Ymneillduwyr a'r Pabyddion dalu am weinidog y pendefig cymmydogol a'i dir-ddeiliaid, yr un peth a phe y'u gorfodid i dalu am ei gyfreithiwr, neu ei physygwr; ac y mae haeru bod hyny yn ol trefniant sydd yn fanteisiol i'r wlad, mor annhebyg o argyhoeddi y meddwl yn y naill amgylchiad, ag a fyddai yn y ddau ereill.

Y dybenion, er mwyn y rhai yr ordeiniodd Crist y weinidogaeth, ydyw, fel y byddo i efengylwyr trwy droi pechaduriaid o feddiant Satan at Dduw, achub eu heneidiau, ac fel y byddo i weinidogion adeiladu disgyblion Crist mewn ffydd a duwioldeb. I'r dybenion hyn y mae yn angenrheidiol eu bod hwy yn caru ac yn cael eu caru; canys ni wrendy dynion ar y sawl a ddirmygir neu a gasheir ganddynt. Am hyny yr oedd yr apostol Paul yn eiddigeddus i ochel pa beth bynnag a anmharai fri, neu serchogrwydd ei wrandawwyr. Er mwyn hyn y meithrinai dymher mor foddlon yn Ephesus, fel y gallai ddywedyd;—"*Arian neu aur, neu wisg neb, ni chwennychais,*" tra yr oedd efe mor dlawd ar y pryd, fel y gallai ddywedyd yn mhellach, "*Ië, chwi a wyddoch eich hunain, ddarfod i'r dwylaw hyn wasanaethu i'm cyfreidiau i, ac i'r rhai oedd gyda mi.*"[1]. Wrth y Corinthiaid hefyd, yn mysg y rhai yr ofnai y camgymerid ei egwyddorion, ac y rhwystrid ei weinidogaeth, os y derbyniai ddim arian ganddynt, y gwnelai y broffes hon, "*Ni*

1 Act. 20. 33, 34.

*byddaf ormesol arnoch; canys nid ydwyf yn ceisio yr eiddoch chwi, ond chwychwi: a myfi yn ewyllysgar iawn a dreuliaf, ac a ymdreuliaf, dros eich eneidiau chwi.*"[1] Ymddengys i mi, fod y blaenddrychau hyn yn rheolau i holl weinidogion Crist, y rhai ni's gallant feddu rhesymau cryfach nag a feddai efe, dros fynu eu cynhaliaeth oddiar ddwylaw gwrandawwyr anfoddog. Ond, trwy ein trefniant ni, y mae gweinidogion yn cael eu gwneyd yn gasglwyr treth, ac yn gyfrannog o'r hygasedd a fydd yn disgyn ar y trethwr yn gyffredin; ond gyda hyn o wahaniaeth pwysig, bod trethwyr ereill yn casglu y dreth i'r Llywodraeth, tra y mae gweinidogion y Sefydliad yn casglu iddynt eu hunain. Dirdreisiant feddiannau eu brodyr, neu gorfodant hwy i dalu rhag ofn y gwneir hyny â hwy: bugeiliaid a roddant eu defaid i fynu i'w cnoi gan yr heddyneid, am y dreth eglwys, mae y gweinidog yn cael ei annghofio yn y periglor, dybenion y weinidogaeth yn cael eu haberthu i foddion anmheuadwy, ymraniadau diderfyn yn rhwygo yr eglwysi, ac efengyleiddiad yr annuwiol yn pallu.

Dan gyfraith Moses, yr hon oedd drefniad o osodiadau manol, a gorthrymdreth lem, ni's gallasai yr offeiriaid orfodogi yr Israeliaid i dalu eu degymau, ac ni's gallai pennaduriaid arosod degwm-ddeddfau ar eu rhan; ond, nyni, dan yr Efengyl, yr hon sydd gennadwri iachawdwriaeth, holl nodweddiad yr hon yw cariad, ac ewyllys da i ddyn, a awdurdodwn y gweinidog i orfodogi ei wrandawwyr anfoddog i dalu iddo am ddwyn cennadwri Crist iddynt. Rheol y taliad yn ol gosodiad yr apostol yw,—"*Pob un megis y mae yn rhagarfaethu yn ei galon, felly rhodded; nid yn athrist, neu trwy gymhell: canys rhoddwr llawen y mae Duw yn ei garu.*"[2] Rheol y Sefydliad yw, "Pob dyn, megis y trefnodd y gyfraith, felly taled, pa mor rwgnachlyd bynnag y byddo; canys fe fyn y periglor ei hawl." Ewyllys datguddiedig Crist, yw, bod i'r gwrandawwyr dalu i'r athraw yn wirfoddol a pharod, gan olygu cyfiawnder, ac mewn teimlad o ddïolchgarwch, "*A chyfranned yr hwn a ddysgwyd yn y gair, â'r hwn sydd yn ei ddysgu, yn mhob peth da.*"[3] Ond ewyllys y Llywodraeth ydyw, bod i'r holl blwyfolion na byddont yn wrandawwyr dalu i'r athraw, yn erbyn yr hwn y maent yn gwrth dystio, ac felly gymeryd y baich oddiar y gwrandawwyr, y rhai a ddylent ei ddwyn. Dïystyrir cyfiawnder cyffredin, a synwyr cyffredin hefyd yn y trefniad, ac aberthir dybenion y swydd weinidogaethol i'r moddion er cynnaliad y gweinidog.

BIBLIOTHECA BODLEIANA

1 2 Cor. 12. 14, 15. 2 2 Cor. 9. 7. 3 Gal. 6. 6.

## TERFYNIAD Y RHAN GYNTAF.

Yn awr, bydded i ni adgrynhoi yr hyn a ddywedwyd. Mae yr Undeb rhwng yr Eglwys a'r Wladwriaeth mewn unrhyw wlad, gan gynnwys fel y gwna, arddeliad yr Eglwys i'r Wladwriaeth, yn anegwyddorol, yn afresymol, a niweidiol. Gan mai y byd yw y Wladwriaeth, y mae yn gyngrair agos rhwng yr eglwys a'r byd, yr hyn a waharddodd Crist. Gan mai yr Eglwys, mewn pethau ysbrydol yw y fam, a'r Wladwriaeth ei phlentyn, y mae yn israddoliaeth annaturiol, ar y fam i'r plentyn. Fel condemnir yn amlwg mewn Hanesyddiaeth, fel peth sydd wedi bod yn wastadol yn elynol i grefydd ysbrydol. Ac fel condemnir gan drefniadau goruchwyliaeth Moses, gan iaith y prophwydi Hebreaidd, a chan dysgeidiaethau eglur Crist a'i apostolion.

Mae Undeb yr Eglwysi a'r Llywodraeth yn y wlad hon, yn gorwedd yn benaf ar bedair o egwyddorion,—cynhaliad cyfreithiol y gweinidogion, uchafiaeth y Llywodraeth, noddiaeth, a gorfodaeth. Wrth gynnal yr Undeb hwn, y mae Cristionogion, i'r rhai y gorchymynwyd drwy awdurdod Crist, bod iddynt gynnal eu gweinidogion eu hunain, wedi troi y ddyledswydd hono ar y Llywodraeth; ac er eu bod yn rhwym i ddeongli cyfraith Crist, a'u rhoddi mewn grym drostynt eu hunain, y maent wedi cyflwyno yr hawl i'w harolygu i'r Llywodraeth, hyny yw, i'r byd; a chaniattâu felly i uchafiaeth y byd ormesu ar uchafiaeth Crist.

Ewyllys mynegol Crist yw, bod iddynt ddethol eu gweinidogion â'r gofal mwyaf, yn ol y cyfarwyddiadau a roddes efe i'r perwyl hyny; ac y maent hwy wedi gadael pennodiad eu gweinidogion i ereill, y rhai gan mwyaf ydynt ddynion y byd, heb adael iddynt eu hunain gymmaint a hawl i roddi eu llais yn erbyn y pennodedig gormesol. A thra y dylai pob offrwm i Dduw fod yn rhydd, ac na ddylai gweinidogion Cristionogol dderbyn unrhyw gyfroddion a lesteirio eu defnyddioldeb, y mae Cristionogion y Sefydliad yn goddef i filoedd gael eu hestroneiddio oddiwrth yr Efengyl, trwy eu gorfodi i dalu tuag at gynhaliad y da a'r drwg yn ddiwahaniaeth dan berygl cael eu hyspeilio o'u meddiannau. Y mae cefnogaeth yr egwyddor gyntaf o'r Undeb, yn cau Cristionogion y Sefydliad dan yr euogrwydd o ddïofalwch hunanol a chybyddlyd o ddyledswydd bendant.

Eu caniattâd o uchafiaeth y Llywodraeth mewn pethau eglwysig, sydd anffyddlondeb i Grist, eu Brenin, a'u Pen. Y drydedd egwyddor a ddelir ganddynt, sydd ddinystriol i'w llesiant ysbrydol; a'r bedwerydd, sydd yn ei gwneyd yn eglwys-rwygwyr tuag at eu brodyr ymneillduedig, ac yn annghgivaredig tuag at bob annghydffurfiwr arall. Y mae y pedair egwyddor hyn, yn anysgrythyrol, llygredig, a niweidiol; a thrwy osod eglwysi Crist dan ddylanwad dynion y byd, y mae yn attal eu rhydd weithrediad, yn dystrywio eu hysbrydolrwydd, ac yn sicrhau parhâd eu llygredigaethau.

Pe yr awr hon y buasai yr Undeb hwn yn cael ei gynnyg i Gristionogion am y waith gyntaf, prin y meddyliaf fod nebun nad ymwrthodai ag ef yn y fan. Defod yw yr unig reswm am ei barhad. Mae Cristionogion wedi bod yn ymarferol âg ef o'u mebyd; mae rhyw gofion mawreddawg yn gyfwëedig âg ef; mil o weithiau y clywsant ei gyfenwi yn hybarchus; ychydig sydd yn chwilio gair Duw ar y peth hwn; mae Gweinyddiaethau llywodraethol, noddwyr, preladiaid, meddiannwyr bywiolaethau, a disgwylwyr am fywiolaethau, oll yn teimlo dyddordeb yn ei sefydlogrwydd; a lluaws yn perthyn i blaid wleidyddol fawr, yn arswydo rhag pob cyfnewidiadau, yn enwedig y cyfryw a gryfhäai yr elfen boblogaidd yn un o'n sefydliadau. Mae syniadau cyfeiliornus, wedi eu cymeryd i fynu yn awchus, a'u hail adrodd yn ddyfal, yn ei wisgo â math o gyssegredigaeth. A llawer o'r rhai yn benderfynol a gauant eu llygaid rhag y drygau a achosa, a'u clustiau rhag pob dadleniad o'i lygredigaeth, a ganmolant y mwyaf cibddall a phenchwidr o'i amddiffynwyr; a ogoneddant resymau sydd a'u gwendid yn ddi gêl, â'u hosanna; a attegant eu hachos crynedig â dëongliadau o'r Ysgrythyr, teilwng o Rufain ei hunan; a gamddarluniant y drefn ysgrythyrol a ddylai gael ei lle; a ragfynegant y canlyniadau mwyaf alaethus o gyfnewidiadau a achlysurent adfywiad cyffredinol ar grefydd; a floeddiant "Ichabod," pan y dylent floeddio fel Dafydd yn y rhag-olwg ar adeiladiad y deml, "O byrth, dyrchefwch eich penau, ac ymddyrchefwch ddrysau tragywyddol, a Brenin y gogoniant a ddaw i mewn;" a appeliant at ferthyron yr hen amser, y rhai pe y gallai eu grymmusderau cawraidd ymfrwydro unwaith eto ar y ddaear, a dywysent fyddin yr ail ddiwygiad yn ddewrwych; a phan fyddo pob rheswm yn pallu dros eu hymlyniad wrth gyfundrefn sydd lygredig anfeddyginiaethol, hwy a wrthgyfodant eu penderfyniad annewidiol i bob rhesymaeth, ac a ymgyfodant i fath o wrhydri, gan hoelio eu lluman wrth yr hwylbren mewn amddiffyniad i'r hyn y byddai i bob dyn goleuedig ymdrechu i'w ddymchwelyd yn nghymmorth Duw.

Dan yr amgylchiadau hyn, y mae galwad ar y fintai fechan, yr hon gyda llai o ddewrder nag y mae y cyfnod yn ei ofyn, sydd yn chwilio eu dyledswydd yn ngair Duw, i wysio eglwysi Crist, gyda mwy o benderfyniad ac ymröad, i gyflawni ewyllys eu Prynwr. Bydded iddynt ofyn, er mwyn Crist, ar i'r eglwysi trwy y wlad hon ddefnyddio darbwylliad yn lle gorfodaeth er dwyn achos Duw yn mlaen; na byddo iddynt dderbyn neb yn weinidogion ond y cyfryw ag a gymeradwyir yn ngair Duw; bod iddynt sefyll dros arglwyddiaeth Crist, trwy arhoni yr hawl o ymostyngiad diattalfa i'w holl gyfreithiau ef; a bod iddynt gynnal eu gweinidogion eu hunain yn ol ei ewyllys ef.

Os y cyfarfyddwn yn yr achos yma â rhyw ymosodiadau bryntion, mae yr achos yn werth y frwydr. Mae y beddrod isel yn Thermopylæ yn dweyd

## TERFYNIAD Y RHAN GYNTAF.

Yn awr, bydded i ni adgrynhoi yr hyn a ddywedwyd. Mae yr Undeb rhwng yr Eglwys a'r Wladwriaeth mewn unrhyw wlad, gan gynnwys fel y gwna, israddoliad yr Eglwys i'r Wladwriaeth, yn anegwyddorol, yn afresymol, a niweidiol. Gan mai y byd yw y Wladwriaeth, y mae yn gynghrair agos rhwng yr eglwys a'r byd, yr hyn a waharddai Crist. Gan mai yr Eglwys, mewn pethau ysbrydol yw y fam, a'r Wladwriaeth ei phlentyn, y mae yn israddolaeth annaturiol, ar y fam i'r plentyn. Fe'i condemnir yn amlwg mewn Hanesyddiaeth, fel peth sydd wedi bod yn wastadol yn elynol i grefydd ysbrydol. Ac fe'i condemnir gan drefniadau goruchwyliaeth Moses, gan iaith y prophwydi Hebreaidd, a chan dystiolaethau eglur Crist a'i apostolion.

Mae Undeb yr Eglwysi a'r Llywodraeth yn y wlad hon, yn gorwedd yn benaf ar bedair o egwyddorion,—cynhaliad cyfreithiol y gweinidogion, uchafiaeth y Llywodraeth, noddaeth, a gorfodaeth. Wrth gynnal yr Undeb hwn, y mae Cristionogion, i'r rhai y gorchymynwyd drwy awdurdod Crist, bod iddynt gynnal eu gweinidogion eu hunain, wedi troi y ddyledswydd hono ar y Llywodraeth; ac er eu bod yn rhwym i ddeongli cyfraith Crist, a'u rhoddi mewn grym drostynt eu hunain, y maent wedi cyflwyno yr hawl i'w harolygu i'r Llywodraeth, hyny yw, i'r byd; a chaniattâu felly i uchafiaeth y byd ormesu ar uchafiaeth Crist.

Ewyllys mynegol Crist yw, bod iddynt ddethol eu gweinidogion â'r gofal mwyaf, yn ol y cyfarwyddiadau a roddes efe i'r perwyl hyny; ac y maent hwy wedi gadael pennodiad eu gweinidogion i ereill, y rhai gan mwyaf ydynt ddynion y byd, heb adael iddynt eu hunain gymmaint a hawl i roddi eu llais yn erbyn y pennodedig gormesol. A thra y dylai pob offrwm i Dduw fod yn rhydd, ac na ddylai gweinidogion Cristionogol dderbyn unrhyw gyfroddion a lesteirio eu defnyddioldeb, y mae Cristionogion y Sefydliad yn goddef i filoedd gael eu hestroneiddio oddiwrth yr Efengyl, trwy eu gorfodi i dalu tuag at gynhaliad y da a'r drwg yn ddiwahaniaeth dan berygl cael eu hyspeilio o'u meddiannau. Y mae cefnogaeth yr egwyddor gyntaf o'r Undeb, yn cau Cristionogion y Sefydliad dan yr euogrwydd o ddïofalwch hunanol a chybyddlyd o ddyledswydd bendant.

Eu caniattâd o uchafiaeth y Llywodraeth mewn pethau eglwysig, sydd anffyddlondeb i Grist, eu Brenin, a'u Pen. Y drydedd egwyddor a ddelir ganddynt, sydd ddinystriol i'w llesiant ysbrydol; a'r bedwerydd, sydd yn ei gwneyd yn eglwys-rwygwyr tuag at eu brodyr ymneillduedig, ac yn anngharedig tuag at bob annghydffurfiwr arall. Y mae y pedair egwyddor hyn, yn anysgrythyrol, llygredig, a niweidiol; a thrwy osod eglwysi Crist dan ddylanwad dynion y byd, y mae yn attal eu rhydd weithrediad, yn dystrywio eu hysbrydolrwydd, ac yn sicrhau parhâd eu llygredigaethau.

Pe yr awr hon y buasai yr Undeb hwn yn cael ei gynnyg i Gristionogion am y waith gyntaf, prin y meddyliaf fod nebun nad ymwrthodai ag ef yn y fan. Defod yw yr unig reswm am ei barhad. Mae Cristionogion wedi bod yn ymarferol âg ef o'u mebyd; mae rhyw gofion mawreddawg yn gyfwëedig âg ef; mil o weithiau y clywsant ei gyfenwi yn hybarchus; ychydig sydd yn chwilio gair Duw ar y peth hwn; mae Gweinyddiaethau llywodraethol, noddwyr, preladiaid, meddiannwyr bywiolaethau, a disgwylwyr am fywiolaethau, oll yn teimlo dyddordeb yn ei sefydlogrwydd; a lluaws yn perthyn i blaid wleidyddol fawr, yn arswydo rhag pob cyfnewidiadau, yn enwedig y cyfryw a gryfhäai yr elfen boblogaidd yn un o'n sefydliadau. Mae syniadau cyfeiliornus, wedi eu cymeryd i fynu yn awchus, a'u hail adrodd yn ddyfal, yn ei wisgo â math o gyssegredigaeth. A llawer o'r rhai yn benderfynol a gauant eu llygaid rhag y drygau a achosa, a'u clustiau rhag pob dadleniad o'i lygredigaeth, a ganmolant y mwyaf cibddall a phenchwidr o'i amddiffynwyr; a ogoneddant resymau sydd a'u gwendid yn ddi gêl, â'u hosanna; a attegant eu hachos crynedig â dëongliadau o'r Ysgrythyr, teilwng o Rufain ei hunan; a gamddarluniant y drefn ysgrythyrol a ddylai gael ei lle; a ragfynegant y canlyniadau mwyaf alaethus o gyfnewidiadau a achlysurent adfywiad cyffredinol ar grefydd; a floeddiant "Ichabod," pan y dylent floeddio fel Dafydd yn y rhag-olwg ar adeiladiad y deml, "O byrth, dyrchefwch eich penau, ac ymddyrchefwch ddrysau tragywyddol, a Brenin y gogoniant a ddaw i mewn;" a appeliant at ferthyron yr hen amser, y rhai pe y gallai eu grymmusderau cawraidd ymfrwydro unwaith eto ar y ddaear, a dywysent fyddin yr ail ddiwygiad yn ddewrwych; a phan fyddo pob rheswm yn pallu dros eu hymlyniad wrth gyfundrefn sydd lygredig anfeddyginiaethol, hwy a wrthgyfodant eu penderfyniad annewidiol i bob rhesymaeth, ac a ymgyfodant i fath o wrhydri, gan hoelio eu lluman wrth yr hwylbren mewn amddiffyniad i'r hyn y byddai i bob dyn goleuedig ymdrechu i'w ddymchwelyd yn nghymmorth Duw.

Dan yr amgylchiadau hyn, y mae galwad ar y fintai fechan, yr hon gyda llai o ddewrder nag y mae y cyfnod yn ei ofyn, sydd yn chwilio eu dyledswydd yn ngair Duw, i wysio eglwysi Crist, gyda mwy o benderfyniad ac ymröad, i gyflawni ewyllys eu Prynwr. Bydded iddynt ofyn, er mwyn Crist, ar i'r eglwysi trwy y wlad hon ddefnyddio darbwylliad yn lle gorfodaeth er dwyn achos Duw yn mlaen; na byddo iddynt dderbyn neb yn weinidogion ond y cyfryw ag a gymeradwyir yn ngair Duw; bod iddynt sefyll dros arglwyddiaeth Crist, trwy arhoni yr hawl o ymostyngiad dïattalfa i'w holl gyfreithiau ef; a bod iddynt gynnal eu gweinidogion eu hunain yn ol ei ewyllys ef.

Os y cyfarfyddwn yn yr achos yma â rhyw ymosodiadau bryntion, mae yr achos yn werth y frwydr. Mae y beddrod isel yn Thermopylæ yn dweyd

mwy wrth y teithydd haelfryd, na'r Pyramidiau uchel-grib. Canys pan ydoedd y tri chànwr o Sparta, yn sefyll ar y cyfyng-fwlch rhwng mynydd Œta a'r môr, i warchod rhyddfreinniau eu gwlad yn erbyn llu afrifaid o oresgynwyr, yr oeddynt yn gwneyd yr hyn a fydd byw yn nghalonau gwladgarwyr dewrion tra y parhao y byd: ac y mae rhyddfreinniau eglwysi Crist yn werthfawrocach nag ydoedd rhyddfreinniau Groeg. Boed i bob gweinidog, a phob Cristion sydd yn gwybod fod egwyddorion Undeb yn llygredig, a dïanrhydeddus i Grist, benderfynu y rhoddant derfyn ar gaethiwed Eglwysi y Sefydliad, trwy ddistrywio yr Undeb, a thrwy gymmorth Duw, hwy a lwyddant o'r diwedd.

# RHAN II.

---

*Effeithiau yr Undeb.*

Wedi dangos fod egwyddorion yr Undeb yn anysgrythyrol a llygredig, gallaswn ystyried fy ngorchwyl wedi ei gyflawni, a gofyn i'm brodyr Cristionogol gyd-lafurio â mi er ei symmud. Ni's gall unrhyw effeithiau daionus gyfiawnhau yr hyn sydd ddrwg mewn egwyddor; a dylai pob Cristion geisio distrywiad yr Undeb, am ei fod yn feius, heb oedi i olrhain ei ganlyniadau. Ac ni's gall effaith yr hyn sydd ddrwg mewn egwyddor, fod yn dda yn y pen draw: ond y mae egwyddor ddrwg yn sicr o gynnyrchu effeithiau drygionus, yn fuan neu yn hwyr. A phan fyddo unrhyw drefniad, megis yr Undeb, wedi cael ei ddangos yn bechadurus, dylai pawb call ei gollfarnu fel peth sicr o fod yn niweidiol o'r diwedd. Ond ychydig sydd yn gwerthfawrogi egwyddor syml, yn ol ei theilyngdod. Ar y llaw arall, y mae lluaws a brofant bob egwyddor, wrth ei chynnyrchion; ac felly, tra fyddo effeithiau unrhyw ddefod sefydlog heb fod a'i niweidiolrwydd yn amlwg, hwy a gauant eu llygaid rhag gweled eu treisiadau ar egwyddor. Dywaid estroniaid mai dyma wendid arbenig y Saeson, y rhai ydynt hynod fel elw-geiswyr, ac nad ysgogant yn ddifrifol ar ddim ond yn anfynych, oni bydd yn arwain i ganlyniadau pwysig *yn ddioed.*

Gan mai fel hyn y mae, af rhagof i ystyried effeithiau yr Undeb ar *bersonau* ac ar *bethau,* fel y gallo y rhai hyny ydynt wedi ymarfer â barnu trefniadau, yn bennaf wrth eu canlyniadau, weled, pa reswm a feddwn ni fel Cristionogion, i ddymuno dadgorphoriad yr Undeb.

---

## PENNOD I.

### EFFEITHIAU YR UNDEB AR BERSONAU.

Af rhagof yn bresenol i olrhain dylanwad trychinebus yr Undeb ar breladiaid, bugeiliaid, a churadiaid, ar aelodau Eglwysi y Sefydliad, ac ar ymneillduwyr, y rhai ydynt yn dyoddef niweid mawr oddiwrth y cynghrair dïegwyddor rhwng yr Eglwysi a'r Wladwriaeth, â'r hyn y bu ein diwygwyr mor weiniaid a chydsynio, yn nyddiau gwybodaeth hannerog, ac ymrysonfa annhrefnus, am fod yn dda ganddynt gael cefnogaeth y Llywodraeth trwy ddobraeth, yn erbyn eu gelyn cawraidd ac annghymmodlawn o Rufain.

ADRAN I.—DYLANWAD YR UNDEB AR ESGOBION.

Gosododd yr Arglwydd Iesu Grist fugeiliaid ac athrawon,[1] i ddychwelyd yr annuwiolion,[2] i borthi ei braidd fel ei is-fugeiliaid ef,[3] i adeiladu Cristionogion yn eu ffydd,[4] ac i fod yn achos offerynol i iachawdwriaeth eu gwrandawwyr.[5] Ac i'r diben hwn, i roddi iddynt esamplau uchel o dduwioldeb,[6] i fod yn garwyr daioni, yn sobr, yn gyfiawn, yn sanctaidd, yn dymherus, yn dal yn lew y gair ffyddlawn,[7] ac yn llawn o'r Ysbryd Glan a doethineb.[8] Ond, pa ragoriaeth bynnag sydd ofynol mewn bugail eglwys, y mae mwy yn ofynol yn y rhai a gymeront arnynt y swyddi o fugeilio bugeiliaid. Ni's gall preladiaeth fod yn fuddiol ond pan fyddo y prelad, gan ragori ar y bugeiliaid a fyddont dan ei lywodraeth, yn defnyddio ei ddylanwad fawr i'w gwneyd yn ddoethach ac yn well dynion. Er cyflawni ei swydd yn iawn, rhaid ei fod yn fwy rhydd na'i frodyr oddiwrth uchelfrydedd a chybydd-dra, o feddylfryd mwy ysbrydol, yn fwy cyssegredig i'w weinidogaeth, yn fwy pryderus am ddwyn pechaduriaid at Grist, yn fwy brawdol a rhyddfrydig at ei gyd-gristionogion, yn fwy aiddgar dros anrhydedd ei Feistr, yn fwy trylwyr gyssegredig i Dduw. Megis y mae y gweinidog a fyddo yn llai duwiol nag aelodau yr eglwys ar yr hon y'i gosodwyd yn fugail, yn niweidiol iddynt, o herwydd bod ei weinyddiadau yn tueddu i'w darostwng hwy yn gydwastad ag ef ei hunan; felly y mae y prelad llai duwiol na'r gweinidogion ar y rhai y byddo yn llywodraethu, o gyffelyb niweid iddynt hwy. Mae ei ddyledswydd ef tuag attynt hwy yr un a'r eiddynt hwythau at yr eglwysi. Ei orchwyl ef yw dychwelyd gweinidogion annychweledig, arwain y cyfeiliornus, adennill y gwrthgiliedig, adfywio y llwfr, nerthu y llesg, a chalonogi a chynnorthwyo y mwyaf ymroddgar. Er cwblhau yr amcanion hyn, rhaid ei fod yn rhagori arnynt hwy mewn doethineb a phrofiad Cristionogol, mewn ffydd a gwresogrwydd, mewn addfwynder a hunanlywodraethiad, mewn sancteiddrwydd ac ysbrydolrwydd meddwl. Efe a ddylai fod yn alluog i ddweyd fel Paul, "Byddwch ddilynwyr i mi, megis yr wyf finnau i Grist."[9] "Byddwch ddilynwyr i mi, frodyr, ac edrychwch ar y rhai sydd yn rhodio felly, megis yr ydym ni yn siampl i chwi."[10]

Dylai dyn gael ei ddewis i swydd fel hyn, gyda golwg syml ar ei gymhwysderau ysbrydol, gan ddynion duwiol, yn y modd mwyaf gochelgar, ac â'r weddi ddifrifolaf. Pan ddewisai yr eglwys yn Jerusalem Matthïas, fel yr un cymhwysaf i olynu y gwrthgiliwr Judas yn ei le fel apostol, hwy a geisient arweiniad gan Dduw:[11] pan neillduid Paul i'w gennadwriaeth at y Cenhedloedd gan henuriaid Antiochia, hwy a gyflawnent y ddyledswydd

1 Eph. 4. 11. 1 Cor. 12. 28. 2 Matt. 28. 19. 3 Act. 20. 28. 1 Pedr 5. 2. 4 Eph. 4. 12. 5 1 Tim. 4. 16. 6 1 Tim. 4. 12. 1 Pedr 5. 3. 7 Tit. 1. 8, 9. 8 Act. 6. 3. 9 1 Cor. 11. 1. 10 Phil. 3. 17; gwel hefyd Act. 20. 31—35. 11 Act. 4.

hono gyd ag ympryd a gweddi;[1] ac hyd yn nod ein Harglwydd ei hunan cyn dewis ei ddeuddeg apostol, a dreuliai yr holl nos mewn gweddi.[2] Ac nid â llai o symlrwydd, difrifwch, ac ymddibyniaeth ar Dduw, y dylai dynion duwiol ddewis y preladiaid a feddant y fath ddylanwad tra mawr er drwg neu dda yn Eglwysi y Sefydliad. Ond, ychydig o debygolrwydd y sydd y bydd i weinidogion y llywodraeth eu dewis hwy felly. Gan fod preladiaid yn meddu pleidleisiau yn y Senedd, lle y mae pleidiau yn fynych agos yn gyf-wastad, bydd temtasiwn gref ar y gwladweinwyr mwyaf crefyddol i wneuthur zel dros eu plaid wladyddol yn brif gymhwysder i esgobaeth; ac yn ail, gan mai y prif weinidogion yw y galluocaf o'u plaid yn gyffredin, a'u bod yn cael eu dewis heb un sylw ar eu nodwedd grefyddol, er mwyn eu cydnabyddiaeth â helyntion gwladol, a'u medr gweinidogaethol, maent yn amddifaid o dduwioldeb yn aml. Gan hyny, cyfodwyd dynion i'r fainc esgobyddol o ran ystyriaethau pleidgarol: penderfynid dewisiad y cyflwynedig gan y dymuniad i foddhau cefnogwr galluog, neu i gryfhau plaid, trwy ddwyn iddi ddadleuwr galluog a hysbys, heb i ni grybwyll cymhwysderau gwaelach eto. Bydded i unrhyw offeiriad o alluoedd da, yr hwn a fyddo yn dra chwannog i gyrhaedd dyrchafiad a gallu, ofalu am fod yn gyfrifol, ond nid yn rhy grefyddol, ei wneyd ei hun yn ysolhaig da, ysgrifenu rhyw waith o deilyngdod llëenyddol, bod yn gefnogwr cymedrol, ond diysgog i'r blaid a fyddo mewn awdurdod, gofalu nad amlygo ei farn ar ddim ag y byddai hyny yn annghyfleus i'r Weinyddiaeth, bod yn elyn i gyfnewidiadau trylwyr, tra na byddo yn anhoff o ddiwygiadau graddol, meithrin cyfeillach teuluoedd galluog, a phreladiaid dylanwadol; bod yn gefnogwr dïymmod ond da ei dymher ar yr Eglwys yn erbyn ymneillduaeth; uwchlaw pob peth, bod yn ddyn di-berygl, yr hwn yn ngweinyddiad ei swydd esgobol, na'i orchwylion Seneddol, ni's bwriai rwystrau yn ffordd y Llywodraeth, ac efe a fydd agos yn sicr o gyrhaedd urddau uchaf ei alwedigaeth. Ni ddywedaf,—"Y rhaid i'r sawl a fyno lywodraethu wasanaethu; a gwenieithio ac ymwhêdd, a gwylio yn wastadol, a chwilotta pob lle, a bod yn gelwydd byw,—os mŷn fod yn fawr-beth yn mysg y gwaelion;"—ond llwybr rhy agos i hyn a arweiniodd i fawredd yn fynych. Gall llywodraethau ddisgwyl yn hyderus am wasanaeth dynion ystwyth y rhai nid ydynt byth yn ffurfio opiniynau annghyfleus; ond hwy a fyddent yn agored i flinder, pe y pennodent ddyn, yr hwn mewn uniondeb diwyrni, a chariad aiddgar at wirionedd, a edrydd ei argyhoeddiadau yn ddïgêl, ac a amlyga y duedd leiaf at dymher diwygiwr.

Heblaw hyny, os digwydd i brif weinidog y Goron, a'r arglwydd ganghellwr, y rhai ydynt yn bennaf i benderfynu ar y cyfryw swyddogion, fod yn ddynion di-grefydd, yna, er eu bod yn ddynion moesol a chyfrifol,

[1] Act. 13. 3. [2] Luc 6. 12.

ni's gallant amgyffred y cymhwysderau ysbrydol, wrth y rhai yn unig y dylent gael eu cyfarwyddo yn eu dewisiad. Fel hyn y dywaid Crist am ei ddisgyblion, "*Pe byddech o'r byd, y byd a garai yr eiddo ; ond, oblegid nad ydych o'r byd, eithr i mi eich dewis allan o'r byd, am hyny y mae y byd yn eich cashau chwi ;*"[1] a'r apostol Paul a ychwanegai, "*Y dyn anianol nid yw yn derbyn y pethau sydd o Ysbryd Duw : canys ffolineb ydynt ganddo ef; ac ni's gall eu gwybod, oblegid yn ysbrydol y bernir hwynt.*"[2] "*Oblegid hyn,*" medd Ioan, "*nid edwyn y byd chwi, oblegid nad adnabu efe ef.*"[3] Cyhyd ag y parhao y tystiolaethau hyn yn wir, y mae dynion annghrefyddol a fyddont yn weinidogion y Goron, pa mor ganmoladwy a galluog bynnag a fyddont fel gwladweinwyr, yn debyg o ystyried y meddylfryd ysbrydol hwnw, a'r cariad at wirionedd yr Efengyl, yr hwn yn ol yr ysgrythyrau sydd anhebgor i'r bugail eglwysig, ac am hyny yn llawer mwy i'r prelad, yn annghymmwysder i fainc yr arglwyddi. Dan y dylanwad y mae barn y cyffredin wedi ei gyrhaedd, nid yw yn debyg y cawn weled gweinyddiaeth gyffelyb i hono a gyfansoddid o Clifford, Arlington, Buckingham, Ashley, a Lauderdale. A hyderir na bydd nemmawr o ganghellwyr cyffelyb i Arglwydd Jeffrey mewn ysgelerder mwy : ond byddai i gynweis llawer mwy cyfrifol na Buckingham, a changellorion llai ysgeler na Jeffreys, ddethol bydolion lled weddeiddfoes i'r esgobyddiaeth o flaen dynion o ddifrifwch efengylaidd. Yn yr ymrysonau eglwysig a fuant yn Ysgotland er's dyddiau, yr oedd y blaid a elwid cymedrolion, yn ffafr y Llywodraeth yn llawer mwy na'r un efengylaidd ; ac y mae ein hanesyddiaeth yn dangos mai y cyffelyb ddosparth yn Lloegr a anrhydeddid yn fwyaf cyffredin gan Weinidogion y Llywodraeth yn olynol. Mae yn dda gennyf gael datgan fy argyhoeddiad, bob y prif weinidog presenol yn gydwybodol yn ei bennodiadau, ac wedi dyrchafu dynion tra theilwng. Yn llawen y datganaf y parch mawr yr ydwyf yn ei deimlo tuag at lawer o breladiaid, â'r rhai y meddaf yr anrhydedd o fod yn gydnabyddus, yn enwedig Archesgob Caergaint, dyrchafiad yr hwn i'r swydd urddasol hono, sydd mor lesol i Eglwys Loegr ag ydyw o anrhydeddus i Arglwydd John Russell. Dealler mai am sefydliadau ac nid personau yr ydwyf fi yn ysgrifenu—am yr hyn a fu ac a fydd,—am lwybr noddaeth yn y dyddiau mynedol, a'i lwybr tebygol yn y dyddiau dyfodol. "Rhyw ddamwain ddedwydd ydwyf," medd Alexander yr amherawdr wrth *Madame de Staël,* pan y'i harweinid wrth sylwi ar ei rinweddau personol ef, i farnu yn rhŷ dyner am y gyfundrefn lywodraethol greulon, yr oedd efe yn ben iddi. Damweiniau dedwydd ydynt Arglwydd John Russell, ac Archesgob Caergaint.

Tra y meddwn lawer o achos ofni fel hyn, y bydd i olyniaeth o wladweinwyr bydol, fel mewn amserau o'r blaen, sicrhau olyniaeth o esgobion bydol,

1 1 Ioan 15. 19. 2 1 Cor. 2. 14. 3 1 Ioan 3. 1.

y rhai wedi eu dyrchafu i sefyllfëydd o ddylanwad ehang, a chynfreinniau annarluniedig, a ddefnyddiant y naill a'r llall, i ddarostwng crefydd ysbrydol yn hyttrach na'i meithrin; ni's gellir rhoddi unrhyw ymddibyniaeth ar y caniattad a ddyru y pennadur i'r dëon a'i Seneddr esgobol i ddewis esgob; canys os gwrthodant ddewis y sawl a gynnygia gweinidog y Goron iddynt, bydd pob un o aelodau y seneddr esgobyddol yn agored i boenydiau annïoddefol y *præmunire.* Gan hyny, ni's gwrthodir mo hono byth; a phan wedi ei ethol yn ddyledus, y'i cyflwynir gan ddau esgob i'r archesgob, ac y gwnelo efe yr addewidion gofynol, y mae efe mor sicr o'i gyssegriad ag oedd efe o'r blaen o'i etholiad. Nid oes wrthodiad byth yn cymeryd lle, y mae noddaeth y prif weinidog yn ei gludo drwy bob rhwystrau. Mae pob archesgob olynol yn dywedyd wrth bob un a gyflwynir i'w gyssegru ganddo yn esgob, "Derbyn yr Ysbryd Glan i swydd a gwaith esgob yn eglwys Dduw, a gyflwynir i ti yr awrhon trwy arddodiad ein dwylaw ni. A chofia gynhyrfu gras Duw yr hwn a roddwyd i ti trwy yr arddodiad dwylaw yma o'r eiddom." Ar yr hyn, y mae y cyflwynedig, yn ol barn llawer, yn cael ei gyfrif yn mysg olynwyr yr apostolion.

Pan y mae yr henaduriaid Seis'nig yn cael eu dyrchafu i'r esgobyddiaeth fel y crybwyllwyd, gan y Llywodraeth, y mae dylanwad eu sefyllfa newydd yn rhwym o fod yn beryglus, hyd yn nod i'r dynion doethaf a goreu.

1. Fe'u gosodir gan y Llywodraeth yn gyntaf yn berchenogion ar lŷs, a a phum mil o bunnau yn y flwyddyn. Dywedai ein Harglwydd, "*Anhawdd yr â goludog i mewn i deyrnas nefoedd. Haws yw i gamel fyned drwy grai y nodwydd ddûr, nag i oludog fyned i mewn i deyrnas Dduw.*"[1] Pan feddyliom am y geiriau hyn o eiddo Crist, sydd yn cael càn lleied o ystyriaeth, rhaid i ni weled fod dyfod yn feddiannol ar y cyfoeth yma—nid trwy ettifeddiaeth, na thrwy ddiwydrwydd, yr hyn a barottöa erddo, ac mewn mesur a lywodraetha ei ddylanwad, ond trwy ddyroddiad disymmwth—yn beryglus i lwyddiant ysbrydol neb un.

2. Yn y lle nesaf, fe'i gwneir yn Arglwyddi. Y mae anrhydedd yn rhwydol, ac yn eu hachos hwy yn chwanegu meddwdod mawredd at yr eiddo golud. Ond y mae y dull yma yn fwy niweidiol fyth mewn golygiad arall. Pan ymgynghorid â'r apostolion o barth gweinyddiad y drysorfa elusenol yn Jerusalem, hwy a attebent, "*Nid yw gymhesur i ni adael gair Duw, a gwasanaethu byrddau:*" ac yna, wedi cyfarwyddo yr eglwysi i ddewis eu dïaconiaid, hwy a chwanegent, "*Eithr ni a barhawn mewn gweddi a gweinidogaeth y gair.*"[2] Timotheus hefyd a gyfarwyddid fel hyn gan yr apostol Paul mewn perthynas i ddyledswyddau uniongyrchol ei weinidogaeth: "*Myfyria ar y pethau hyn, ac yn y pethau hyn aros; fel y byddo*

[1] Matt. 19. 23, 24. [2] Act. 6. 2—4.

*dy gynnydd yn eglur i bawb......Pregetha y gair, bydd daer mewn amser, allan o amser; argyhoedda, cerydda, annog gyda phob hir ymaros ac athrawiaeth.—Gwylia di yn mhob peth, dioddef adfyd, gwna waith efengylwr, cyflawna dy weinidogaeth.*"[1] Mewn gwrthwynebiad i'r cyfarwyddiadau hyn, y mae ein hesgobion ni yn cael eu llwytho â dyledswyddau yn eu hesgobaethau, y rhai ni's gadawant nemmawr hamdden iddynt, na thuedd ynddynt i "bregethu y gair," a gwneyd "gwaith efengylwr;" ac yna fe'u temtir i'w gwneyd eu hunain yn wleidyddion hyfforddus, a dadleuwyr medrus trwy fod galwad arnynt i gymeryd rhan yn y dadlyddiaethau gwladgrefyddol mynych sydd yn awr yn dwyn sylw y Senedd.

3. Mae y Llywodraeth wedi gosod magl arall i bob esgob; fel pe na buasai cyfoeth ac urddas, cyfathrachau pendefigaidd, a chyffröadau gwlad bleidiol, yn ddigon o rwystrau yn ei ffordd i ostyngeiddrwydd ac ysbrydolrwydd meddwl, y mae wedi ei amgylchynu â lluaws o lênorion rheidus, a rhoddi noddaeth ehang yn ei law. Mae archesgobion ac esgobion Cymru a Lloegr, yn meddu yn nghyd, ddeuddeg cant ac wyth a deugain o fywiolaethau at eu llaw i'w rhoddi, heblaw dyrchafiadau eglwysig ereill. Mae yn llaw Archesgob Caergaint 148 o fywiolaethau; Archesgob Caerefrog, 103; Esgob Llundain, 86; Esgob Norwich, 95; Esgob Lincoln, 156; Esgob Ty Ddewi, 102; Esgob Llanelwy, 120.[2] Tra mae y noddaeth yma yn tueddu i ddarostwng yr offeiriaid i dymher wasaidd waradwyddus, y mae yn temtio yr esgob i hunan-ddyrchafiad anweddus, ac yn debyg o gynnyrchu ynddo dymher drahaus, a ffrom, tuag at y rhai a ymddibynant gymmaint ar ei ffafr am eu cynhaliaeth.

4. Ar y llaw arall, y mae y Llywodraeth wedi bwrw temtasiwn wrthwynebol i'w ffordd, o waseidd-dra tuag at weinidogion y Goron, trwy ddal o'i flaen y gobaith am drosglwyddiad i esgobaeth gyfoethocach. Darfu i'r weithred ddiweddar, 6 *a* 7 *William IV*, er cyfartalu cyllidau yr esgobaethau, leihau y demtasiwn hon, mae yn sicr; ond eto, y mae esgobaethau Winchester, Durham, a Llundain, yn claer-dywynu o flaen llygaid y rhai a bennodir gan y gweinidog i'r esgobaethau tlottaf. Yr efengylwr Timotheus, at sefyllfa yr hwn y cyfeiriodd ysgrifenwyr esgobyddol yn aml, fel enghraifft eglurhäol o swydd esgobion taleithiol, a gafodd y cynghor canlynol gan yr apostol Paul, yr hwn a gawsai achlysur i sylwi ar gybydd-dra a hunanfoethiant llaweroedd;—"*O bydd genym ymborth a dillad, ymfoddlonwn ar hyny. Ond y rhai sydd yn ewyllysio ymgyfoethogi, sydd yn syrthio i brofedigaeth a magl, a llawer o chwantau ynfyd a niweidiol, y rhai sydd yn boddi dynion i ddinystr a cholledigaeth. Canys gwreiddyn pob drwg yw ariangarwch; yr hon a rhai yn chwanog iddi, hwy a gyfeiliornasant*

1 1 Tim. 4. 15. 2 Tim. 4. 2, 5. 2 *M'Culloch's Statistics*, Vol. 2, p. 406.

*oddiwrth y ffydd, ac a'u gwânasant eu hunain â llawer o ofidiau. Eithr tydi, gwr Duw, gochel y pethau hyn.*"[1] Yn wyneb y rhybuddion apostolaidd hyn i weinidogion Crist, y mae y Llywodraeth yn symbylu y curad i'w ddyledswydd trwy y gobaith am Berigloriaeth, y periglor â'r gobaith am Gôr-weinyddiaeth *(prebendary)*, y côr-weinydd â'r gobaith am Ddëoniaeth, y Dëon â'r gwobrwyon uwch o Esgobaeth, a'r Esgob â'r drychiolaethau o *Lambeth* a *Bishopthorpe*, lle y gall ystyried ei hun yn gydradd a'r mwyaf dyrchafedig yn y deyrnas.

5. Y mae y dyledswyddau a esyd y Llywodraeth ar yr esgob, yn anfanteisiol hefyd i feithriniad ysbryd rhyddfrydig tuag at eglwysi ereill, neu duedd i ddiwygio yr eiddo ei hun. Cyn ei gyssegriad, gofynir y drydedd waith iddo gymeryd llw yr uchafiaeth, trwy yr hwn y cydsynia i drosglwyddo arolygaeth ysbrydol eglwysi y Sefydliad, i'r Llywodraeth, mewn anfri ar awdurdod Crist; ac yn y canlyniad, fel y mae yn naturiol, rhaid iddo amddiffyn yr uchafiaeth Llywodraethol hwnw. Ar ordeiniad offeiriad, y mae y Llywodraeth yn ei rwymo i ddywedyd wrth yr ymgeisydd a fyddo ar ei liniau o'i flaen, mewn efelychiad i'r geiriau awdurdodol, trwy y rhai y darfu i'n Harglwydd cyn ei esgyniad, roddi yr Ysbryd i'w apostolion, "Derbyn yr Ysbryd Glan i swydd a gwaith offeiriad yn Eglwys Dduw, yr hwn a gyflwynir i ti yn awr, trwy arddodiad ein dwylaw ni;"—"Pechodau pwy bynnag a faddeuoch, hwy a faddeuir, a phechodau pwy bynnag a attalioch, hwy a attelir." Sylwa Esgob Rhydychain ar y geiriau yna fel hyn: "Onid yw hyn oll y gwirionedd dwysaf, *y mae y gwagedd mwyaf cableddus.*" Pe ymattaliasai yr esgob, yna, gallasem feddwl fod y ffurf grybwylledig yn ymddangos iddo ef yn "wagedd cableddus," ac nid y "gwirionedd dwysaf." Ond, y mae efe yn ei chymeradwyo yn galonog, fel yn ddynodol o awdurdod esgobol aruthrol; canys efe a ddywaid fel hyn, "Ond gwirionedd ydyw, yr unrhyw wirionedd ag a drôdd ffolineb yr oruwch ystafell hono yn sylwedd a orthrechodd y byd. Yn unig bydded i'n ffydd gydio ynddo: canys y mae Crist gyda ni mewn presenoldeb ysbrydol, mor wirioneddol ag yr oedd gyda hwy."[2] Fel hyn y mae yr esgob yn meddwl ei fod ef fel Crist, tragywyddol Fab Duw, yn rhoddi yr Ysbryd Glan, a hyny nid i apostolion, y rhai oeddynt eisoes yn gyssegredig i Grist; ond i wyr ieuainc, lawer o honynt mor wageddol, efallai, ag y buasent mewn ansawdd burach ar yr eglwysi yn cael eu cau allan oddiwrth fwrdd yr Arglwydd fel helwyr, dawnswyr, a chwareuwyr cardiau, neu Buseyaid hanner pabaidd.

Y mae y dymchwyddiad peryglus yma ar esgobion yn debyg o gael ei gadarnhau trwy y weddi y'u rhwymir gan y Llywodraeth i'w defnyddio pan yr arddodant eu dwylaw ar bennau yr ieuenctyd a benliniant o'u blaen yn y

[1] 1 Tim. 6. 8—11. [2] *Ordination Sermon*, p. 24. *Rivington's*, 1848.

Cadarnhad, (*confirmation*). Y credir fod yr Ysbryd Glan yn cael ei gyfrannu drwy arddodiad dwylaw y preladiaid hyny a appwyntiwyd gan y prif weinidog, ac y gorfyddwyd y seneddr eglwysig a'r archesgob i'w hethol a'u cyssegru dan arswyd y *præmunire*, a ellir ei gasglu oddiwrth iaith rhai o'n hesgobion galluocaf. Fel hyn y mae Esgob Llundain mewn "Cyfarchiad i'w ddarllen yn yr Eglwys," er parottöad i'r cadarnhad, a roddwyd allan ganddo yn 1848, yn gwneuthur i'r offeiriad, yr hwn a ddymunir gan yr Esgob i'w ddarllen fel yr eiddo ei hun, i ddywedyd fel hyn,—"Fy nyledswydd I ydyw cynghori yr aelodau ieuengaf o'm dïadell, y rhai ydynt mewn oedran i ddeall natur yr addewidion hyny a wnaed drostynt ar eu bedydd, i gofleidio y cyfleusdra i gymeradwyo a chadarnhau yr unrhyw yn gyhoeddus......fel TRWY ARDDODIAD DWYLAW, a thrwy weddi, yn ol arferiad yr eglwys yn mhob oes, Y GALLONT ETTIFEDDU Y FENDITH O DDERBYN YSBRYD SANCTAIDD DUW." Mae torfeydd o blant yn cael eu dwyn i'r cadarnhad gan rieni bydol, a chan weinidogion bydol; holl blant yr ysgolion plwyfol uwchlaw rhyw oedran pennodol, a yrir weithiau fel dïadell o anifeiliaid, i'r cadarnhad. Gwelais eu hysgafnder di gêl ar amser gweinyddiad y ddefod; gwn am rai enghreifftiau yn y wlad, pan wnelid y seremoni yn achlysur o lawenydd dydd gŵyl, ac ofnwyf mai felly y mae eto mewn llawer o drefi a phentrefi y wlad. Ni's gall yr esgob fod yn gwybod dim am y plant, ond trwy dystiolaeth yr offeiriaid, y rhai, efallai, a fyddant yn annuwiol eu hunain; eto efe a orfodir gan y Llywodraeth i ddywedyd am yr holl gannoedd a miloedd plant a fydd yn ymgymmell i gael arddodiad ei ddwylaw arnynt, "fod Duw wedi gweled yn dda eu hadgenhedlu trwy ei Ysbryd Glan, a rhoddi iddynt faddeuant o'u holl bechodau;" a'i fod ef yn dodi ei ddwylaw arnynt, "i'w sicrhau trwy yr arwydd hwn, o ffafr Duw, a'i ddaioni grasol tuag attynt." Y mae hyn oll yn tueddu i wneyd yr esgob yn dra hunandybus.

Yn nesaf, mae y Llywodraeth yn rhwymo yr esgob i orfodi ei offeiriaid i ddal athrawiaeth, disgyblaeth, a threfn addoliad Eglwys Loegr i fynu mewn rhyw bethau tra amheus. Os cyhuddir un gweinidog o fewn ei esgobaeth, o wadu rhyw un o'r "namyn un, deugain erthyglau," o droseddu rhyw un o'r canonau, neu o osgoi oddiwrth y rhuddell, rhaid iddo ofalu am fod y trosedd yn cael ei gospi. Os achwynir wrth esgob fod gweinidog yn gwadu ei bod yn gyfreithlon gyffredinol i arfer gweinidogaeth dynion drwg, rhaid i'r esgob ddal y chweched erthygl ar hugain yn ei erbyn, yn yr hon yr hònir cyfreithlondeb hyny. Os bydd i un gweinidog esgeuluso mewn dim i gadw at y sermonïau a bennodir yn y rhuddell, pa mor orhenaidd ac annghyfleus bynnag y byddo, rhaid i'r esgob pan wneler achwyniad wrtho, roddi y bedwaredd ar ddeg o'r canonau mewn grym yn ei erbyn. Os achwynir wrth esgob fod gweinidog yn beio ar un ran o'r uchafiaeth teyrnawl, yn erbyn yr

ail reol, *(canon)*, neu ei fod wedi haeru fod unrhyw osodiad yn Llyfr gweddi cyffredin yn wrthnaws i'r Ysgrythyr, yn erbyn y bedwaredd reol, neu fod un ran o'r "namyn un, deugain erthyglau," yn gyfeiliornus, yn erbyn y bummed reol, neu fod neb rhyw weinidogion ymneillduedig a'u cynnulleidfäoedd, yn cyfansoddi eglwysi Cristionogol, yn erbyn y ddegfed reol, neu os achwynir ei fod wedi gwadu fod pob gwr lleyg yn y plwyf yn rhwym i dderbyn Swper yr Arglwydd dair gwaith yn y flwyddyn, yn erbyn yr ail reol ar hugain; neu ei fod wedi gweinyddu Swper yr Arglwydd i ymneillduwyr proffesedig; neu i neb un a fyddo yn petruso penlinio yn y cymmun, neu i bersonau o blwyfau ereill, yn erbyn y seithfed ar hugain, a'r wythfed ar hugain o'r rheolau, neu ei fod wedi pregethu mewn unrhyw dŷ annghyoedd, yn erbyn rheol 71; neu ei fod wedi bod yn bresenol mewn unrhyw gyfarfodydd offeiriadol er diwygiad y Sefydliad, yn erbyn rheol 73, rhaid i'r esgob roddi y rheolau hyn mewn grym, a gosod cospedigaeth gyfreithiol ar y troseddwyr, yr hyn mewn geiriau ereill, yw bod yn offeryn y Llywodraeth i gospi dynion da am wneyd eu dyledswydd. Mae yr esgob yn cael ei rwymo gan y Llywodraeth i wneuthur hyn oll, am mai y Llywodraeth yn unig sydd yn gwneyd y canonau yn rhwym ar y clerigwyr, a'r Llywodraeth yn unig sydd yn lluddias eu hadolygu a'u diwygio.

Y mae yn amlwg oddiwrth y crybwylliad yma o rai o'r swyddau a osodir ar brelad gan y Llywodraeth, fod y gweinidog a gyfodir yn ddisymwth trwy ordeiniad prif weinidog y Goron, i'r urddas esgobol yn rhwym o fyned dan demtasiynau aunghyffredin o rymmus. Pa fodd y gall un oedd a'i sefyllfa mor isel, oddef dyrchafiad mor fawr ar unwaith heb ben-feddwi? Mae y wên hono o eiddo gwladweinydd, wedi ei wneyd ar unwaith yn bendefig, yn feistr llys, yn berchenog ar gyllid arglwyddaidd, yn olynwr yr apostolion. O hyn allan y mae yn llewyrchu yn y Senedd, ac yn troi yn nghylchoedd mwyaf ysplenydd y genedl fwyaf goludog ar y ddaear; neu, os encilia i'w balas, y mae yn gweinyddu o fewn i'w ffiniau barwnaidd, noddaeth ehang, yn meddu arglwyddiaeth drylwyr ar un ran o dair o'i glerigwyr, a thrwy uchelfraint annherfynol y mae yn llywodraethu y lleill â'i arswyd; heb fod neb yn beiddio amheu ei olygiadau, neu wrthwynebu ei ewyllys; ac y mae yn gallu edrych yn mlaen am hir fwynhad o wychder a rhagorfreintiau ysplenydd Lambeth.

Oni bydd i ddyn dan yr amgylchiadau hyn gael ei ddirywio, rhaid ei fod yn feddiannol ar ddoethineb a rhinwedd anarferol. Byddai yr amgylchiadau hyn yn ddinystriol i ddefnyddioldeb y rhan fwyaf o ddynion fel gweinidogion yr Efengyl. Darfyddent a bod yn fugeiliaid, deuai eu pregethau yn arglwyddaidd, difywyd, ac anfynych; a hwy a gynnyddent mewn bydolrwydd, cybydd-dod, hunan-foethiant, balchder, a thrahausder. Os ydyw yn haws dan bob rhyw amgylchiadau, i gamel fyned trwy grai y nodwydd ddûr,

nag i oludog fyned i deyrnas Dduw, y mae cyfoeth, urddas, noddaeth, ac uchelfreinniau, fel hyn wedi eu cyd bentyru, yn rhwym o chwanegu yr anhawsder yn fawr.

Prin y gallai y dynion goreu yn y deyrnas fyned trwy y fath brawf tanllyd heb eu niweidio. Ond, i wneyd y peth yn waeth, y mae gwladweinwyr bydol, yn debyg yn y cyffredin i gyfodi bydolion yn esgobion, ac i wneyd dynion o dymherau uchelgais, y rhai ni chaed un prawf o ysbrydolrwydd ynddynt erioed, yn ddarostyngedig i demtasiynau digon cryfion i lygru y dynion doethaf a duwiolaf.

Ond, pan y mae dynion bydol yn cael eu dewis gan y Llywodraeth a'u gwneyd yn fwy bydol trwy anfanteision eu sefyllfa, rhaid y bydd i'w dyrodd-iad o fywiolaethau, eu cynghorion ymweliadol, eu cylch-deithiau i weini y cadarnhad, eu cymdeithas gyfrinachol â'r offeiriaid, a'u holl ddylanwad, yn rhwystr yn ffordd crefydd efengylaidd, ac yn achlysur i chwanegu at nifer periglorîaid bydol a llygredig trwy yr holl dir. Mae yr Undeb, trwy niweidio nodweddiad yr esgobion, yn niweidio nodweddiad yr eglwysi a lywyddir ganddynt. Mae periglorîaid, curadiaid, a phobl, oll yn cyfrannogi o'r haint o fydolrwydd; ac os oes rheswm i gredu y bydd i weinidogion y Goron ddewis y rhan fwyaf o breladiaid y Sefydliad, o fysg dynion anefengylaidd a bydol, yn wastadol, y mae lle hefyd i ofni y bydd i eglwysi y Sefydliad barhau o dan eu dylanwad, fel hwythau yn anefengylaidd a bydol.

---

### ADRAN II.—DYLANWAD YR UNDEB AR WEINIDOGION.

Mae y gair *episcopos*, yr hyn a arwyddocâ oruchwyliwr, neu esgob, yn cael ei arfer bum waith yn y Testament Newydd.[1] Yn epistol cyntaf Pedr fe'i cymhwysir at ein Harglwydd; yn y pedwar lle arall fe'i cymhwysir at fugeiliaid cynnulleidfäoedd: ni chymhwysir mo hono o gwbl at esgob taleithiol, neu brelad. Cyfarfyddir â'r gair *episcopé* ddwy waith, yn yr ystyr o esgobaeth, neu swydd arolygwr.[2] Unwaith fe'i cymhwysir at Judas, ac unwaith fe'i defnyddir i ddynodi swydd bugail eglwysig; ond nid yw byth yn dynodi swydd esgob taleithiol, neu brelad. A'r un ffunud, y mae y gair *episcopeo*, yn cael ei ddefnyddio am weinyddiad y swydd fugeilaidd: ond nid byth am weinyddiad y swydd breladaidd.[3] Gan hyny, pan gyfarfyddwn â'r gair hwn yn y Testament Newydd, rhaid i ni ei gymhwyso at weinidogion cynnulleidfäol, ac nid at breladiaid.

Darluniai ein Harglwydd gymhwysderau y rhai y gellir eu dewis fel *episcopoi*, gweinidogion eglwysi, yn yr ymadroddion canlynol :—

"*Ac o Miletus efe a anfonodd i Ephesus, ac a alwodd atto henuriaid yr eglwys. A phan ddaethant atto, efe a ddywedodd wrthynt,......*

1 Act. 20. 28. Phil. 1. 1. 1 Tim. 3. 2. Tit. 1. 7. 1 Pedr 2. 25. 2 Act. 1. 20. 1 Tim. 3. 1. 3 1 Pedr 5. 2.

*Edrychwch, gan hyny, arnoch eich hunain, ac ar yr holl braidd ar yr hwn y gosododd yr Ysbryd Glan chwi yn olygwyr,* (episcopous)*, i fugeilio eglwys Dduw, yr hon a bwrcasodd efe a'i briod waed.....Am hyny, gwyliwch, a chofiwch, dros dair blynedd na pheidiais I nos a dydd i rybuddio pob un o honoch â dagrau......Arian, neu aur, neu wisg neb, ni chwennychais. Ië, chwi a wyddoch eich hunain, ddarfod i'r dwylaw hyn wasanaethu i'm cyfreidiau I, ac i'r rhai oedd gyda mi. Mi a ddangosais i chwi bob peth, mai wrth lafurio felly, y mae yn rhaid cynnorthwyo y gweiniaid; a chofio geiriau yr Arglwydd Iesu, ddywedyd o hono ef, mai dedwydd yw rhoddi, yn hyltrach na derbyn.*"[1]

"*Paul a Thimothëus, gweision Iesu Grist, at yr holl saint yn Nghrist Iesu y rhai sydd yn Phillippi, gyd â'r esgobion (h.y.* y bugeiliaid eglwysig) *a'r diaconiaid......Yn unig ymddygwch yn addas i efengyl Crist; fel pa un bynnag a wnelwyf ai dyfod a'ch gweled chwi, ai bod yn absenol, y clywyf oddiwrth eich helynt chwi, eich bod yn sefyll yn un ysbryd, âg un enaid, gan gydymdrech gyda ffydd yr efengyl.*[2]*......Gwnewch bob dim heb rwgnach, ac ymddadleu; fel y byddoch ddiargyhoedd a diniwed, yn blant difeius i Dduw, yn nghanol cenhedlaeth ddrygionus a throfäus, yn mhlith y rhai yr ydych yn dysgleirio megis goleuadau yn y byd, yn cynnal gair y bywyd.*[3]*......Am hyny fy mrodyr anwyl a hoff, fy llawenydd a'm coron, felly sefwch yn yr Arglwydd, anwylyd......Bydded eich arafwch yn hysbys i bob dyn, y mae yr Arglwydd yn agos. Na ofelwch am ddim: eithr yn mhob peth, mewn gweddi ac ymbil gyda diolchgarwch, gwneler eich deisyfiadau chwi yn hysbys ger bron Duw.*[4]*......Gwir yw y gair, Od yw neb yn chwennych swydd esgob, (h.y.* bugail) *gwaith da y mae yn ei chwennych. Rhaid gan hyny i esgob (h.y.* bugail)*, fod yn ddiargyhoedd, yn wr un wraig, yn wyliadwrus, yn sobr; yn weddaidd, yn llettygar, yn athrawaidd; nid yn wingar, nid yn darawydd, nid yn budr-elwa; eithr yn dirion, yn anymladdgar, yn ddiariangar, yn llywodraethu ei dŷ ei hun yn dda, yn dal ei blant mewn ufudd-dod, yn nghyda phob onestruydd; (oblegid, oni fedr un lywodraethu ei dŷ ei hun, pa fodd y cymer efe ofal dros eglwys Dduw?) Nid yn newyddian yn y ffydd, rhag iddo ymchwyddo, a syrthio i ddamnedigaeth diafol. Ac y mae yn rhaid iddo ef hefyd gael tystiolaeth dda gan y rhai oddi allan, rhag iddo syrthio i waradwydd, ac i fagl diafol.*[5] *......Tydi gan hyny, fy mab, ymnertha yn y gras sydd yng Nghrist Iesu. A'r pethau a glywaist genyf trwy lawer o dystion, traddoda y rhai hyny i ddynion ffyddlawn, y rhai a fyddant gymhwys i ddysgu eraill hefyd.*[6] *......Rhaid i esgob, (h.y.* bugail) *fod yn ddiargyhoedd, fel goruchwyliwr*

[1] Act. 20. 17, 18, 28, 31, 32—35. [2] Phil. 1. 1, 27. [3] Phil. 2. 14—16. [4] Phil. 4. 1, 5, 6. [5] 1 Tim. 3. 1—7. [6] 2 Tim. 2. 1, 2.

*Duw; nid yn gyndyn, nid yn ddigllawn, nid yn wingar, nid yn darawydd, nid yn budr-elwa; eithr yn llettygar, yn caru daioni, yn sobr, yn gyfiawn, yn sanctaidd, yn dymherus, yn dal yn lew y gair ffyddlawn.*[1] *Yr henuriaid sydd yn eich plith, attolwg iddynt yr wyf fi, yr hwn wyf gyd henuriad......Porthwch braidd Duw, yr hwn sydd yn eich plith, gan fwrw golwg arnynt, nid trwy gymhell, eithr yn ewyllysgar; nid er mwyn budr-elw, eithr o barodrwydd meddwl; nid fel rhai yn tra arglwyddiaethu ar ettifeddiaeth Duw, ond gan fod yn esamplau i'r praidd.*"[2]

Ar y llaw arall, dywedir am ddynion annychweledig hyd yn nod pe yn bregethwyr yr Efengyl, eu bod yn ddyeithriaid iddo ef:—"*Ymogelwch rhag gau-brophwydi, y rhai a ddeuant attoch yn ngwisgoedd defaid; ond oddi mewn bleiddiaid rheibus ydynt hwy; wrth eu ffrwythau yr adnabyddwch hwynt.*[3]*......Llawer a ddywedant wrthyf yn y dydd hwnw, Arglwydd, Arglwydd, oni phrophwydasom yn dy enw di? ac oni fwriasom allan gythreuliaid yn dy enw di? ac oni wnaethom wyrthiau lawer yn dy enw di? Ac yna yr addefaf wrthynt, Ni's adnabum chwi erïoed; ewch ymaith oddi wrthyf, chwi weithredwyr anwiredd.*"[4]

Y mae pawb annychweledig neu annuwiol, a gymeront arnynt fod yn Gristionogion, pa un bynnag fyddont ai bugeiliaid ai peidio, yn cael eu darlunio fel efrau yn mysg y gwenith, plant y drwg, ac wedi eu hau yn mysg credinwyr gan yr un drwg.[5] Gelwir y rhai a bregethant gau athrawiaeth yn apostolion gau, wedi ymrithio yn apostolion i Grist, a gweinidogion Satan, yn cymeryd arnynt fod yn weinidogion cyfiawnder.[6] Pregethwyr a wyrant athrawiaeth yr efengyl, yn enwedig yr athrawiaeth o gyfiawnhad yn nghyfiawnder Crist, trwy ffydd yn unig, a ddylent gael eu tori ymaith oddiwrth yr eglwys.[7] Mae yn amlwg oddiwrth y rhanau crybwylledig o'r Ysgrythyr, mai yr unig fugeiliaid sydd yn gweini i eglwysi Crist trwy ei awdurdod ef, yw y rhai ydynt iach yn y ffydd, ac yn ddynion ffyddlon, sanctaidd, a phrofiadol; y rhai ydynt yn cymeryd arnynt fugeiliaeth eu heglwysi, nid er mwyn y cyllid; ond mewn zel o'r galon, yn sobr, cyfiawn, a chymedrol: y mae pawb ereill, er eu hordeinio yn rheolaidd, yn draws ymwthwyr i'r weinidogaeth, na's addefir ganddo ef.

Gadewch i ni ddychymygu am fynyd, pa effaith a adewid ar y wlad, pe byddai holl weinidogion Eglwysi y Sefydliad yn gyfryw ag y tystir yn y Testament Newydd y gweddai eu bod. Yn y flwyddyn 1847, yr oedd nifer y clerigwyr yn Lloegr a Chymru, yn 16,000.[8] Poblogaeth Lloegr a Chymru yn 1841, oedd 15,906,829, a rhaid ei bod erbyn hyn uwchlaw 16,000,000. Gan hyny nifer y bugeiliaid yn y Sefydliad, sydd at eu gilydd

1 Tit. 1. 7—9. 2 1 Pedr 5. 1—3. 3 Matt. 7. 15, 16. 4 Matt. 7. 22, 23.
5 Matt. 13. 24, 25, 38, 39. 6 2 Cor. 11. 3. 12—15. 7 Gal. 1. 8, 9; a 5. 12.
8 *Horsman* "*Speech on Bishopric of Manchester Bill.*" p. 20.

yn un i bob mil o'r boblogaeth, neu un i bob dau cant o deuluoedd. Gan hyny pe y'u hiawn drefnid, y mae digon o weinidogion yn y Sefydliad y pryd hwn, i ddwyn yr Efengyl at aelwyd pob teulu yn y tir; a phan y tynwn allan o'r nifer uchod, y mil-filoedd ymneillduwyr, sydd wedi darbod iddynt eu hunain helaethrwydd o arolygaeth fugeilaidd, ac yna pan ystyriom yr offerynolaeth llëygaidd sydd wedi ei ddwyn i weithrediad yn y blynedd-oedd diweddar hyn, byddai yr 16,000 gweinidogion hyn, pe y byddent yn ffyddlon, i'r hyn y maent yn rhwym wrth gyfraith Crist i fod, yn fwy na digon er cyflenwi diffygion ysbrydol y wlad.

Buasai un fil ar bymtheg o weinidogion yn yr oes apostolaidd yn pregethu yr Efengyl i lawer mwy nag un fil-fil ar bymtheg o ddynion, ac felly y gallai y rhai hyn wneyd; ond y mae cyffyrddiad cyffiadol y Llywodraeth wedi eu dirymu. Fe all ambell weinidog, trwy ras Duw, orchfygu i ryw fesur, ddylanwad y trefniant dan yr hwn y mae yn byw; ond y mae cyllid cyfreithiol, y rhagolwg ar ddyrchafiad, golud, ac urddas, dylanwad oll-bresenol yr uchafiaeth wladwriaethol, yr attalfeydd lluosog sydd ar zel efengylaidd, yn nghyd a'r rhyddid di attalfa i fod yn swrth, ymddibyniaeth ar noddwyr o fydolion, a'r perchenogaeth o hawlfreintiau arbenig, yn rhwym o fod yn attalfa barhaus i offeiriaid Lloegr i fod yn efengylwyr aiddgar i'r werin yn gyffredinol.

Ond, gadewch i ni ystyried y pethau hyn yn fanylach. Yn gyntaf, olrheiniwn y dylanwad y mae yr Undeb yn ei feddu ar weinidogion y Sefydliad, trwy ddarpar cyllid cyfreithiol iddynt. Yn hyn yr ymogonedda ei gefnogwyr fwyaf: am ei fod yn rhoddi urddas, ac annibyniaeth, meddynt hwy, i'r gweinidog. "Y rhai fel chwareuwyr, sydd raid iddynt foddio i fyw, fel chwareuwyr a fyddant byw i foddio. Rhaid alltudio gwirionedd noeth o'r areithfa, ac na chlywer yno ddim, ond a wenieithio i falchder, ac a anweso waeleddau y rhai a ddygant y gôd. Tra y gall y rhai y mae eu cyllid yn ddïogel wawdio y gwaseidd-dra yma, a chymeryd arnynt awdurdod tad tuag at ei blentyn."

Fel y mae yn fwyaf anffodus i'r benddysg hon, y mae yn gwrthdaro cyfraith Crist, yr hwn a ordeiniodd bod i'r gweinidog gael ei gynnal trwy offrymau gwirfodd yr eglwys; a pha mor olygus bynnag y gall ymddangos, nyni a allem ddysgwyl y'i gwrthbrofid gan ffeithiau. Ac mewn gwirionedd, y mae profiad maith ac ehang, wedi ei gwrthbrofi yn drylwyr. Y modd yr ufuddheir i gyfraith Crist gan eglwys gynnulleidfäol sydd fel y canlyn: Pan y gelwir y bugail gan yr eglwys, i ymsefydlu yn eu mysg, y mae yr eglwys yn addaw iddo mewn cyfarfod eglwysig, ryw swm pennodol yn flyneddol, a'r dïaconiaid ydynt y swyddogion sydd i ofalu am gwblhad yr addewid hon. Gwahoddir y sawl a feddant eisteddleoedd yn y capel, i gyfrannu yn ol eu gallu, ac ar ddiwedd y flwyddyn, y mae y derbyniadau yn cael eu hysbysu i'r eglwys yn un o'i chyfarfodydd. Os byddant yn fyr o'r swm addawedig,

gwneir y diffyg i fynu gan aelodau yr eglwys, yn ol eu gallu a'u haeledd. Nid oes gan y gweinidog law yn y byd yn y trefniadau arianol hyn; ond y maent yn cael eu trefnu gan y diaconiaid a'r eglwys hebddo ef. Os bydd gweinidog yn myned yn anffyddlon neu analluog, bydd ei gynnulleidfa yn lleihau, a'r derbyniadau yn pallu, ac yntau yn y canlyniad, mewn amser yn gorfod rhoddi i fynu ei swydd. Dan y cyfryw amgylchiadau, efallai y byddai i weinidog annghrefyddol, gwan, neu anwybodus, gael ei demtio i wenieithio i'r gynnulleidfa, ac i'w wneyd ei hunan yn boblogaidd drwy ei waseidd-dra; ond ni byddai i'r cyfryw ddichellion gwaelion namyn prysuro ei symmudiad, gan y byddai iddynt o angenrheidrwydd oeri yr holl aelodau difrifol a deallus tuag atto, y rhai ydynt gefnogwyr pennaf y gweinidog. Nid yw dyn ffyddlon a zelog byth dan y fath demtasiwn. Yr ydys wedi cael, bron heb unrhyw eithriad allan o filoedd o amgylchiadau, yn Mrydain, ac yn yr Unol Daleithiau, bod y cyfryw weinidog, os bydd yn ddyn synhwyrol a da ei dymher, yn cael ei gynnal yn haelionus a serchog gan yr eglwys: ac ni ddylai neb arall fod yn weinidog, na disgwyl cynhaliaeth. Heblaw hyny, y mae yn amlwg oddiwrth natur y peth, mai y gweinidog ffyddlonaf sydd yn sicr o gael ei werthfawrogi fwyaf: canys prif gynhalwyr y weinidogaeth yw gwir Gristionogion, dymuniad pennaf y rhai yw eu hiachawdwriaeth eu hunain, ac iachawdwriaeth eu teuluoedd. Mae y cyfryw rai yn sicr o werthfawrogi yn bennaf, y pregethu a'u goleuo ac a'u gwelläo yn fwyaf, a gyrhaeddo eu cydwybodau, ac a dwymno eu calonau yn bennaf. Y gweinidog ëofn, difrifol, diffuant, a serchog, gyda'r hwn y mae yr Arglwydd yn gweithio, (Marc 16. 23); yr hwn sydd yn gweddïo yn yr Ysbryd Glan, (Jud, 20); a'r hwn sydd yn pregethu "yn eglurhad yr Ysbryd," â'r Ysbryd Glan, yr hwn a anfonwyd i waered o'r nef yn cydweithio, yw y gweinidog a wna fwyaf o lês iddynt hwy, a ennill eu parch fwyaf, ac er mwyn yr hwn y maent yn barod i wneyd yr aberthau mwyaf. Fe ddichon y bydd i'r bydol-ddyn dramgwyddo ac encilio, ond yr eglwys a adeiledir, a'r aelodau a gefnogant ei ymdrechion mewn diolchgarwch serchog. Yn lle cael ei demtio i waseidd-dra a gweniaeth, y mae y cyfryw weinidog yn cael pob cymhelliad i fod yn ffyddlon, o ran athrawiaeth ac ymddygiadau Cristionogol. Ni ddarfu i Grist yn y gyfraith a osododd efe am gynhaliaeth ei weinidogion, esgeuluso rhoddi iddynt îs gymhelliadau i gyflawni eu dyledswydd, yn chwanegol at y rhai a dynir oddiar ofal am ei ogoniant, ac adnabyddiaeth o'i ewyllys ef. Y gweinidog a wneir gan Grist yn ymddibynol ar yr eglwys, os y llafuria yn galed dros yr eglwys, a'i charu yn ddiffuant; os y gwylia ar eu llesäad, a'u hadeiladu trwy ei gynghor profiadol, a'i fuchedd sanctaidd, os dychwela bechaduriaid at Dduw, a'i fod yn ddiariangar, efe a all fod yn ddibryder yn nghylch ei gynhaliaeth. Y mae ei frodyr yn sicr o fod yn haelfrydig a serchog. Gwnant fwy nag a ymrwymant i'w wneyd; a rhoddant

yn llawen. Y maent yn ei gyfrif yn deilwng o barch dau-ddyblyg, (1 Tim. 5. 17), ac yntau yn teimlo o flwyddyn i flwyddyn, yn y profiad o'u caredigrwydd, gymhelliadau adnewyddol i ymgyssegru i Grist, ac iddynt hwythau.

Ond yn y Sefydliad, y mae y cwbl yn wrthwyneb i hyn oll. Y mae y degwm-dreth yn berchenogaeth y person fel y mae yr ardreth yn berchenogaeth y meistr tir, ac nid yw y person yn fwy dyledus i'w gynnulleidfa am y naill, nag ydyw y meistr tir i'w dir-ddeiliaid am y llall. Yn ol 6 *a* 7 *Wm. IV*, rhaid iddynt dalu, neu oddef attafaeliad ar eu meddiannau. Nid oedd efe mewn un modd yn ddyledus iddynt hwy am y perchenogaeth o'i fywioliaeth; efallai eu bod wedi anfon gofyneb yn erbyn ei bennodiad; efallai eu bod yn awr yn anfoddlon i dalu yr hyn sydd ddyledus iddo; pa fodd y gall efe deimlo yn ddiolchgar iddynt hwy am ei gyllid? Ac heblaw hyny, nid yw ei gyllid yn ymddibynu ar ei dduwioldeb, ei rinwedd, ei ddiwydrwydd, ei zel, neu ei ddefnyddioldeb; fe'i sicrheir iddo drwy gyfraith. Fe'i telir yn gyflawn iddo ef, pa mor amddifad bynnag a fyddo efe o'r holl bethau hyn. Gan hyny, pa gymhelliad o îs radd sydd iddo ef i'w meithrin? Mae yn wir fod yn rhaid iddo gyflawni y dyledswyddau a osodir arno gan y Llywodraeth. Rhaid iddo breswylio yn y plwyf naw mis o'r flwyddyn; rhaid iddo ymgadw oddiwrth anfoesoldeb ysgeler ac amlwg; rhaid iddo ddarllen y gwasanaeth Sabbothol; rhaid iddo ddarllen pregeth, yr hon, efallai, a ysgrifenwyd gan ddyn arall; rhaid iddo ddarllen gwasanaeth y bedydd uwchben pob plentyn a ddygir at y bedydd-faen; rhaid iddo ddarllen y gwasanaeth priodasol dros yr holl rai a geisiont hyny yn ol y gyfraith; a rhaid iddo ddarllen gwasanaeth y claddedigaeth, pan fyddo angau wedi cymeryd lle.

Pan fyddo efe fel hyn wedi talu ei ddyled i'r Llywodraeth, am ei gyflog o'r Llywodraeth, ni all y gyfraith ofyn mwy ganddo; ac efe a all ymollwng i fuchedd o hunan-foethiant trwyadl o'r bron, heb unrhyw berygl.

Dan y cyfryw gymhelliadau i seguryd, pa fodd y gellir disgwyl i weinidogion y Sefydliad yn y cyffredin, fod yn ddiwyd? Caniattawn eu bod hwy fel dynion ereill. Er bod o honynt yn gyfrannog i fesur cyffredin o uniondeb a bywiogrwydd, pa fodd y llafuriant yn galed pan y mae y gwely man-blu yma yn eu gwahodd i orphwyso arno? Pa faint o physygwyr, cyfreithwyr, swyddogion milwraidd, neu swyddwyr gwladol, a fyddent yn ddynion llafurus dan yr amgylchiadau hyn? Nid un o ddeg. A chan fod y clerigwyr fel dynion ereill, a oes mwy nag un periglor o ddeg yn pregethu, yn holwyddori, yn ymweled â'r cleifion, yn addysgu o dy i dy, wyr, gwragedd, a phlant ei gynnulleidfa? Pa beriglor sydd yn llafurio yn ei fyfyr-gell, ac yn llafurio yn mysg ei bobl, yn llafurio ar y Sabboth, ac yn llafurio trwy yr wythnos, gyd â'r cyffelyb ymröad calonog ag y gwna y physygwr a'r cyfreithiwr, er ennill cynhaliaeth gysurus i'w teuluoedd? Olrheinied nebun yr arolygaeth fugeilaidd yn y deg plwyf cylchynol i'w drigfan, a gweled.

Pan y mae cyflog y gweinidog yn cael ei dalu gan ei eglwys, os â efe yn ddïofal ac esgeulus, yn gyfeliornus mewn athrawiaeth, neu yn anfoesol mewn buchedd, efe a symmudir o'i swydd yn y fan, am y bydd i'r bobl gilio oddi tan ei weinidogaeth. Ond pa fodd y symmudir gweinidog drwg yn y Sefydliad o'i blwyf? Ei ettifeddiaeth yw ei gastell. Y mae ei gyllid cyfreithiol yn ei wneyd yn ddiogel i gyflawni troseddau gweinidogaethol o fewn cylch tra ehang. Efe a all fod yn anwybodus a dilafur, efe a all fod yn heliwr a a chwareuwr cardiau, efe a all fod yn lŵth a gwingar, efe a all fod yn falch ac ymrysongar, efe a all fod yn gynflonwr gwenieithgar, efe a all fod yn gasâwr dynion da, ac hyd yn nod yn anfoesol dan gêl; ac eto, o fewn rhagfuriau ei rydd-feddiant, gall roddi beiddiad i wawd y byd a'i ŵg, fel y rhoddai barwniad gwrïogaethol feiddiad i'w elynion gwarchaeawl o uchelderau ei graig gastellog.

Y mae hyd yn nod yr awydd a fedd dynion i ennill meddwl da eu cymmydogion, yn cael ei nychu drwy drefniant y Sefydliad. Dan y trefniant ysgrythyrol, y mae rhyw awydd blysig am newid gweinidogion yn cael ei ddal dannodd trwy fod y cyllidau mwyaf yn gyssylltiedig yn gyffredin â'r sefyllfeydd mwyaf eu llafur a'u cyfrifoldeb, ac o ganlyniad, bod y rhai nad ydynt yn gymhwys i'w llenwi yn gyffredin yn arswydo ymgymeryd â'r gorchwyl, ac o'r herwydd yn ymfoddloni i goledd ewyllys da y bobl yn mysg y rhai y maent yn llafurio. Ond y mae yr arlwyaeth wladol wedi cyfnewid y drefn iachus yma ar bethau. Yn y Sefydliad, fe all y bywiolaethau gwerthfawrocaf ddyfod i afael dynion o alluoedd bychain, ac ychydig o zel, cystal ag i ddynion o'r cyrhaeddiadau pennaf. Ac â'r ffaith yma o'u blaen, rhaid fod lluaws o weinidogion y Sefydliad yn meddu dymuniad cryf am gael gadael eu plwyfau. Y mae yn y Sefydliad 5230 o guradiaid, a'u cyflog addefedig at eu gilydd, yn £81 yn y flwyddyn. Mae y rhai hyn yn cael eu gorfodi trwy eu sefyllfa israddol, a'u gwobrwyad annigonol, i edrych allan am fywiolaethau. Ond y mae y bywiolaethau eu hunain yn dlodion yn y cyffredin, fel y mae 4882 o berchenogion bywiolaethau eglwysig, a'u cyllid islaw £200; ac y mae 1979 yn ychwaneg, yn derbyn llai na £300. Y mae yn ddigon anhawdd iddynt gynnal eu teuluoedd ar y symiau hyn; ac felly, allan o 6861 o bersoniaid, a 5230 o guradiaid, y mae yn rhaid fod llaweroedd yn edrych allan am unrhyw gyfnewidiad a all wellhau eu cyflwr. Wedi eu hysgaru oddiwrth eu pobl eisoes trwy addysg, trwy annibyniaeth, a thrwy undeb a noddaeth pendefigaidd; y maent yn cael eu hysgaru yn mhellach oddiwrthynt trwy y gobaith am ddyrchafiad. Tra y maent yn gwybod bod 3433 o fywiolaethau yn amrywio mewn gwerth o £300 i £1000 yn y flwyddyn, mor ddyfal y rhaid fod llawer o'r 12,091 gweinidogion hyn yn dymuno gadael cynnulleidfäoedd, y rhai y maent mor dlodion mewn cydmariaeth tra yn y cyssylltiad â hwy! Y mae cyflogau mor fawrion heb unrhyw chwanegiad llafur neu gyfrifoldeb, i'w cyrhaedd, nid trwy deilyngdod,

ond trwy ffafr, yn sicr o siglo meddyliau lliaweroedd; ac mewn modd tra niweidiol, nychu eu zel ar ran yr eglwysi yr ymdrechent i'w gadael. Ac y mae y sefyllfeydd mwy ysplenydd sydd at law y Llywodraeth i'w rhoddi, yn sicr o ddylanwadu yn fwy niweidiol fyth ar feddyliau rhai o'r bywiolaethwyr hyn, y rhai ydynt o achres uchel, dysg, neu dalent ragorol, nid yn unig er dattod y cylymau a ddylai rwymo y gweinidog wrth ei eglwys, ond hefyd er gwenwyno eu meddyliau â thrachwant bydol, hollol wrthnaws i ysbrydolrwydd crefydd.

Y mae effaith y trefniant yn rhy amlwg yn mydolrwydd digêl llawer o'r clerigwyr, y rhai trwy eu presenoldeb yn y ddawns-gymmanfa, a'r rhedeg-faes trwy eu diwydrwydd yn hela, ac yn saethu, trwy eu hanadnabyddiaeth o'r ysgrythyrau, a'u hannghymmwysder gweinidogaethol, ydynt yn peri dïanrhydedd mawr i'r grefydd y cymeront arnynt fod yn weinidogion iddi.

Sylwn yn nesaf ar y dylanwad y mae uchafiaeth y Wladwaiaeth yn ei gael ar Weinidogion y Llywodraeth.

Prin y mae un cymhwysder mwy angenrheidiol i weinidog na didwyllder, Fe oddef dynion lawer gan y rhai y gwyddant eu bod yn berffaith ddidwyll yn eu hopiniynau. Ar y llaw arall, y mae unrhyw radd o annghywirdeb mewn gweinidog yn niweidiol i'w ddylanwad, a dinystriol i'w enw da. "Y mae yn ddiogel gynyf," medd yr Esgob Wilberforce, "na's gellid rhoddi dyrnod mwy marwol i'n heglwys, na bod y bobl, y rhai o drugaredd ydynt mor nodedig am eu gonestrwydd trylwyr, yn cael lle i amheu bod eu gwyr eglwysig yn credu un peth, tra yn dysgu peth arall."[1]

Nid rhaid i'r clerigwyr amlygu annghywirdeb mewn amryw bethau, er rhoddi y dyrnod hwn. "*Y neb sydd ffyddlawn yn y lleiaf, sydd ffyddlawn hefyd mewn llawer; a'r neb sydd annghyfiawn yn y lleiaf, sydd annghyfiawn hefyd mewn llawer.*"[2] Y mae annghywirdeb ymarferol mewn un peth yn dangos dyn yn ddiffygiol o ddiffuantrwydd o'r iawn ryw. Ni's gall dyn geirwir fod yn gelwyddwr weithiau, mwy nag y gall fod yn gelwyddwr yn fynych.

Soniai yr apostol yn fynych am y didwyllder angenrheidiol yma, ac a roddai le mawr iddo yn ei appeliadau at yr eglwysi. Fel hyn y dywedai wrth henuriaid Ephesus, "*Chwi a wyddoch, nad atteliais ddim o'r pethau buddiol heb eu mynegi i chwi...... O herwydd pa ham, yr ydwyf yn tystio i chwi y dydd heddyw, fy mod I yn lan oddiwrth waed pawb oll: canys nid ymatteliais rhag mynegi i chwi holl gynghor Duw,*"[3] Efe a allai wneyd y broffes ganlynol wrth Gristionogion Corinth, "*Ein gorfoledd ni yw hyn; sef tystiolaeth ein cydwybod, mai mewn symlrwydd a phurdeb duwiol, nid mewn doethineb cnawdol, ond trwy ras Duw yr ymddygasom*

1 *Charge*, Dec. 31, 1845, p. 15. 2 Luc 16. 10. 3 Act. 20. 20, 26, 27.

*yn y byd.*"[1] "*Canys nid ydym ni megis llawer, yn gwneuthur masnach o air Duw, eithr megis o burdeb, eithr megis o Dduw, yn ngŵydd Duw yr ydym yn llefaru yn Nghrist.*"[2] Ac mewn gwir lawenydd yr adgofiai yr eglwys yn Thessalonica o'i ddidwyllder, yn yr ymadroddion canlynol: "*Canys ein cynghor ni nid oedd o hudoliaeth......nac mewn twyll. Oblegid ni fuom ni un amser mewn ymadrodd gwenieithus, fel y gwyddoch chwi; nac mewn rhîth cybydd-dod; Duw yn dyst.*"[3]

Gall gweinidog duwiol a fyddo yn bugeilio eglwys rydd, ddefnyddio yr unrhyw iaith. Nid oes dim i'w luddias ef a'i bobl i chwlio i mewn i ewyllys Crist, ac ufuddhau iddo yn gyflawn, i'r hwn yn unig, fel pen ei dŷ ei hun, yr ydym yn rhwym i ufuddhau.[4] Gellir symmud pob cyfeiliornad o'r eglwys, ac ymwrthod â phob drwg ymarferol, trwy gydfyfyrio ar air Duw. Mae pob gwirionedd yn gorwedd yn agored i'w hymchwiliad, a phob dyledswydd yn eu gwahodd i hyny.

Ond, y mae amgylchiadau gweinidog tlawd yn y Sefydliad yn gyfryw ag i'w demtio ef yn gryf i fod yn dwyllodrus. Tra eto yn ei ieuenctyd, fe'i gorfodir i ddatgan ei gred yn y namyn un, deugain erthyglau, pan nad oedd ei oedran na'i seibiant yn gyfryw ag a gaaniattäai iddo wneyd ymchwiliad teilwng iddynt. Pan gyrhaeddai ei dair blwydd ar hugain oed, ac y'i hordeinid, gofynid iddo law-nodi y tair erthygl ganlynol o *canon* 36; 1. "Mai ei fawrhydi y brenin, dan Dduw, yw yr unig ben goruchaf yn y wlad hon, *yn mhob pethau ysbrydol neu eglwysig*, cystal ag mewn achosion tymhorol." &c. 2. "Nad yw Llyfr y weddi gyffredin, nac urddiad esgobion, offeiriaid, a diaconiaid, *yn cynnwys dim gwrthwyneb i air Duw, &c.*" 3. "Ei fod yn cydnabod y namyn un, deugain, Erthyglau......*yn unol â gair Duw.*" Fel hyn, efe a wystlid i gydnabod yr Uuchafiaeth Gwladwriaethol, ac i ddal bod yr holl lyfr gweddi cyffredin, a'r namyn un, deugain erthyglau yn gyson â gair Duw. Yn mhellach, pan y'i gosodwyd yn ei fywioliaeth, efe a wnaeth y dystiolaeth ganlynol, "Yr ydwyf yma yn tystio fy nghydsyniad trwyadl â'r oll, a phob peth a gynnwysir ac a arddodir yn y llyfr a elwir Llyfr y weddi gyffredin, &c. Yn olaf, er na ddarfu iddo lawnodi y *canonau*, y mae efe yn rhwym wrth eu hathrawiaethau, a gall y barnwr eglwysig ei gosbi am unrhyw drosedd o honynt. Trwy yr ail reol *(canon)* os yr achwyna efe ar un ran o uchafiaeth y brenin, efe a ysgymmunir *ipso facto.* Yn ol y bedwaredd, os dywaid efe bod y ffurf o addoliad arferedig yn Eglwys Loegr yn cynnwys dim ynddo, gwrthwyneb i'r Ysgrythyr, efe a ysgymmunir. Yn ol y bummed reol, os yr haera fod y namyn un, deugain erthyglau yn goelgrefyddol neu gyfeiliornus mewn un rhan, efe a ysgymmunir. Yn ol yr wythfed reol, os yr haera fod y ffurf a'r dull o wneuthur a chyssegru esgobion,

[1] 2 Cor. 1. 12. [2] 2 Cor. 2. 17. [3] 1 Thes. 2. 3, 5. [4] Heb. 3. 6. Act. 5. 29.

offeiriaid, a dïaconiaid, yn cynnwys ynddo ddim sydd yn groes i air Duw, efe a ysgymmunir. Ac yn ol y ddegfed reol, os y dywaid fod ymneillduwyr a'u gweinidogion yn eglwysi Cristionogol, efe a ysgymmunir. Yn olaf, yn ol 13 *Elizabeth, cap.* 12, "Os bydd iddo ddal un athrawiaeth groes i un o'r namyn un, deugain erthyglau, efe a ddifeddiannir o'i ddyrchafiadau eglwysig."[1] Neu, "Os bydd iddo lefaru neu bregethu er diraddio llyfr y weddi gyffredin," efe a ddifeddiannir.[2] Mae ysgymmundod yn annghymmwyso un i wneyd ei ewyllys, neu i ddwyn yn mlaen gŵyn mewn cyfraith; ac yn ei wneyd yn agored i gael ei garcharu yn ol ysgrif-len *de excommunicato capiendo,* wedi ei chaniattau o'r Canghell-lys, a'i chyfarwyddo at y Siryf.[3]

Fel hyn y mae pob gweinidog yn y Sefydliad wedi ei ymrwymo yn y modd mwyaf trylwyr i holl drefniant yr Eglwys wladol, tra nad oedd onid newyddian, analluog i'w chwilio yn ddyladwy: ac o dipyn i beth daeth ei lesion tymhorol yn gymhlethedig ynddi. Os bydd iddo ddal pob pyncyn o'r gyfundrefn yn zelog, efallai y gwobrwyir ei ddadleuyddiaeth a bywioliaeth, côr-weinyddiaeth, dëoniaeth, neu esgobaeth, pendefigaeth, a phalas, a phum mil o bunnau yn y flwyddyn. Os amheua wirionedd un o'i hathrawiaethau, os gwna yr ymosodiad lleiaf ar yr uchafiaeth, neu un ran o'r Llyfr gweddi cyffredin, neu ryw nn o'r erthyglau, efe a all ddisgwyl cuchiau ac nid ffafr; a gall ei gyfrif ei hun yn ddedwydd, os gyda Mr Head, ni cha' namyn ei attal o'r weinidogaeth dros dair blynedd, a'i amddifadu o'i gyllid dros yr amser hwnw, gyda y blaenddrych o adferiad yn unig ar ei ymwrthodiad a'i syniadau annghyttunol.[4]

Gadewch i ni yn awr ystyried rhai o'r pethau hyn yn Llyfr y Weddi Gyffredin, a'r namyn un, deugain erthyglau, y mae pob gweinidog o'r Sefydliad yn tystio am danynt eu bod yn unol â gair Duw. Yn gyntaf, y mae Llyfr y weddi gyffredin yn ngwasanaeth y bedydd, y catechism, gwasanaeth y confirmasiwn, a'r erthyglau, yn dysgu yr athrawiaeth o adgenhedliad ysbrydol trwy fedydd yn eglur.[5]

Gan y cymerir yn ganiattäol felly am yr holl blwyfolion eu bod yn adgenedledig, ychwanega y sylw canlynol at wasanaeth y cymmun;

SYLW—"Bod i *bob un o'r plwyfolion* gymmuno dair gwaith yn y flwyddyn, o'r rhai y bydd y pasg yn un."

Pan fyddo un o'r plwyfolion yn glaf, y mae Llyfr y Weddi Gyffredin yn cyfarwyddo, bod i'r offeiriad wedi cyffesiad ei "ollwng ef, os efe yn ostyngedig ac yn ffyddlawn a'i dymuna, yn y wedd hon. Ein Harglwydd Iesu Grist, yr hwn a addawodd feddiant i'w eglwys i ollwng pob pechadur a fyddo gwir edifeiriol, ac yn credu ynddo ef, o'i fawr drugaredd, a faddeuo i ti dy

1 *Burn*, Vol. 1. p. 105. 2 *Ibid*, Vol. 2. p. 141. 3 *Ibid*, Vol. 2. pp. 248, 250.
3 Camwedd Mr. Head oedd ei waith yn beio amryw ymadroddion yn ngwasanaeth y bedydd. 4 Gwel Rhan II. pen. 2. adr. 4.

gamweddau: a thrwy ei awdurdod ef a ganiattawyd i mi, *y'th ollyngaf o'th holl bechodau, &c.*"

O'r diwedd, y mae y plwyfolion yn meirw; yr annghrefyddol, y bydol, yr halogedig, a'r anfoesol, a wysir i dderbyn eu dedfryd ofnadwy fel gelynion Crist, a dygir eu cyrph i'r fynwent, ac y mae Gwasanaeth y Claddedigaeth yn dywedyd am bob un; "Yn gymmaint a rhyngu bodd i'r Goruchaf Dduw *o'i fawr drugaredd, gymeryd atto ei hun enaid ein hanwyl frawd* yma a ymadawodd o'r byd, gan hyny, yr ŷ'm ni yn rhoddi ei gorph ef i'r ddaear." Ac wedi hyny gorfodir yr offeiriad i fyned rhagddo fel hyn: "Yr ydym yn mawr ddiolch i ti fod yn wiw genyt waredu ein brawd hwn allan o drueni y byd pechadurus hwn." Y mae gweinidog y Sefydliad yn tystio bod hyn oll yn unol â gair Duw!

Pan ddelo y dïaconiaid at yr esgob i'w hordeinio yn offeiriaid, fe'u gorfodir i benlinio ger ei fron, ac efe a ddywaid wrth bob un, gan gynnwys y bydolion a'r Puseyaid yn eu mysg, "*Derbyniwch yr Ysbryd Glan;......Pechodau pwy bynnag a faddeuoch, fe'u maddeuir; a phechodau pwy bynnag a attalioch, hwy a attelir.*" Ar gyssegriad esgob, y mae yr archesgob yn defnyddio geiriau cyffelyb, gan ychwanegu, "Cofia gyffroi gras Duw, *yr hwn a roddir i ti trwy arddodiad ein dwylaw ni.*"

Mewn perthynas i'r holl ddywediadau hyn ar ordeiniad a chyssegriad, y rhai yn ol Esgob Rhydychain ydynt "wagedd cableddus," onid ydynt y "gwirionedd dwysaf," y mae pob offeiriad yn rhwym i ddal y farn a ganlyn: Erthygl 36. "Mae Llyfr cyssegriad Archesgobion ac Esgobion; ac urddiad offeiriaid a dïaconiaid.....yn cynnwys ynddo bob peth angenrheidiol i gyfryw gyssegriad ac urddiad; *ac nid oes ynddo ddim y sydd o hono ei hun yn ofergoelus neu yn annuwiol.*" Fel hyn y mae yr holl rai a gynnygir gan weinidogion y Llywodraeth yn olynol, yn cymeryd arnynt roddi yr Ysbryd Glan i bob math o wyr ieuainc a ddelont i gael eu hordeinio; ac y mae yn rhaid i'r offeiriaid broffesu nad yw hyn yn ofergoelus neu annuwiol!

Ac heblaw bod yr uchafiaeth Gwladwriaethol yn rhwymo y Gweinidog i ddatgan ei gydsynied â holl ddywediadau y Llyfr Gweddi Cyffredin, a gwasanaeth yr ordeiniad, y mae yn ei orfodi hefyd i gydsynio â'r namyn un, deugain erthyglau. Yr ugeinfed Erthygl a ddywaid, "Y mae i'r Eglwys allu i osod Cynheddfau a Sermonïau, *ac awdurdod mewn Amrafaelion yn nghylch y Ffydd.*" Y chweched Erthygl ar hugain a ddywaid, "Er bod yn yr Eglwys weledig bob amser, rai drwg yn nghymmysg a'r rhai da, a bod weithiau i'r rhai drwg yr awdurdod bennaf yn ngweinidogaeth y Gair a'r Sacramentau; eto, yn gymmaint ag nad ydynt yn gwneuthur hyny yn eu henw eu hunain, ond yn enw Crist; *ac mai trwy ei gommissiwn a'i awdurdod ef y maent yn gweini, nyni a allwn arfer eu gweinidogaeth hwy* trwy

wrando gair Duw, a derbyn y Sacramentau."[1] Mae Erthygl 36, yn datgan nad yw Llyfr cyssegriad esgobion, ac urddiad offeiriaid yn cynnwys dim sydd ynddo ei hun yn ofergoelus neu yn annuwiol; ac y mae yn rhaid i weinidogion y Sefydliad dystio nad oes yn y tair erthygl hyn ddim sydd yn groes i air Duw! Mae yn wir nad yw Dr. Paley yn gofyn i'r clerigwyr eu credu. "Y mae y rhai a ddadleuant," medd efe, "na's gall dim llai gyfiawnhau llaw-nodiad y namyn un, deugain erthyglau, na chrediniaeth weithredol o bob gosodiad gwahaniaethol a gynnwysant, yn tybied o angenrheidrwydd, fod y Llywodraeth yn disgwyl cydsyniad deng mil o ddynion, a hyny mewn olyniad parhaus, nid ar un gosodiad dadleuedig, ond ar gannoedd. Mae yn anhawdd dirnad pa fodd y gellid disgwyl hyn gan neb a sylwodd ar amrywiaeth anfeddyginiaethol opiniynau dynol ar bob peth byr o brawf dïamheuol."[2]

Y mae yn wirionedd, fel y dywaid yr Archddïacon, ei bod yn anhawdd dirnad y byddai i un fil ar bymtheg o glerigwyr, gredu bod pob un o'r namyn un, deugain erthyglau, yn ol gair Duw, ond y mae yn sicr bod y Llywodraeth yn eu gorfodi i ddweyd eu bod yn credu hyny.

Pan fyddo i unrhyw weinidog ganfod cyfeiliornadau y Llyfr Gweddi Cyffredin, neu nodweddiad anysgrythyrol y dyledswyddau a arddodir arno, efe a all gilio o'r Sefydliad; ond trwy hyny, efe a'i rhoddai ei hun a'i deulu o angenrheidrwydd, yn agored i ddioddef llawer. Yn ol gosodiad y gyfraith eglwysig, "Unwaith yn offeiriad, offeiriad yn wastadol." Gellir ei erlyn yn llys y Bwäau am weinyddu mewn unrhyw esgobaeth heb drwydded yr esgob, hyd yn nod wedi iddo ymneillduo, fel y bu i Mr. Shore yn ddiweddar, gael ei erlyn dan y cyfryw amgylchiadau, gan Esgob Exeter. Ond os arbedir iddo yr erledigaeth ddywededig, fe'i cyfrifir gan lawer o'i gyfeillion blaenorol yn eglwys-rwygwr, fe'i gochelir fel gwrthgiliwr, bydd yn watwargerdd a dïareb; cyll ei sefyllfa mewn cymdeithas, a darostyngir ef i dlodi, bydd heb orchwyl, ac heb obeithion.

Ychydig o ddynion a feddant ddigon o wroldeb i ymsuddo i'r fath affwys o drallod, *ac am hyny, rhaid iddynt gyfaddasu eu cred at eu hamgylchiadau oreu y gallont.* Ni wiw son am ddynoethi cyfeiliornadau y Llyfr gweddi, neu ymwrthod âg arferion anysgrythyrol; canys pe y cynnygiai gweinidog wneyd y naill neu y llall, fe'i hattelid i weinidogaethu, neu fe'i hamddifadid o'i fywioliaeth yn y fan. Pa beth gan hyny a wna efe? Yn gyntaf, efe a all wneyd ymdrechiadau egnïol, trwy ddarllen dim ond ar un ochr i'r ddadl, a chymdeithasu â chydffurfwyr aiddgar yn unig, er ei ddarbwyllo ei hun fod holl ddywediadau y Llyfr gweddi yn

1 Gwel Matt. 7. 15—23. Ioan 10. 5. 2 Cor. 11. 3, 12—15. Gal. 1. 6—9; a 5. 12. 1 Tim. 3. 2—7. 2 Tim. 2. 2. Tit. 1. 5—8. 2 Ioan 10, 11. 1 Cor. 5. 11—13. 2 *Moral Philosophy, book* 3. *chap.* 22.

wirionedd, a bod holl osodiadau y Llywodraeth yn ysgrythyrol. Os metha yr ymdrech yma, a bod cyfeiliornadau y llyfr gweddi yn parhau i ymwthio i'w sylw, ei ymdrech nesaf a fydd i guddio ei syniadau ymneillduol trwy ddystawrwydd hollol ar y pwnc. Ond y mae hwn yn llwybr arswydus i'w gymeryd gan weinidog i Grist. Oni osodwyd ef gan Grist yn yr eglwys fel tyst dros y gwirionedd? Onid yw celu y gwirionedd, yn anffyddlondeb i Grist, ac yn gam a'r byd? Mae ei ddystawrwydd yn attal dymchweliad cyfeiliornad, ac yn cadarnhau ereill mewn twyll niweidiol. Heblaw hyny, yn ei amgylchiadau ef, y mae celu yn dwyll; canys efe a ysgrifenodd a'i law ei fod yn credu gwirionedd y llyfr gweddi, ac ar yr ammod hwnw y'i goddefir i ddal ei fywioliaeth; fel mai effaith ei ddystawrwydd ef yw peri i'r bobl, i'r offeiriaid, a'r esgob, gredu ei fod yn dal fod y llyfr gweddi yn hollol gyson â'r Ysgrythyrau. Y mae dystawrwydd yn anmhosibl hefyd, o'r bron. Rhaid y cymer amgylchiadau le, dan ba rai y byddai peidio a dweyd dim yn gyfystyr ag addefiad o ymneillduad oddiwrth y Llyfr gweddi; ac yn y cyfryw gyfwng, efe a demtid yn gryf i'w amddiffyn ei hun oddiwrth ddrwg-dybiau cydffurfwyr zelog trwy broffes na byddo yn hollol ddidwyll.

Ond, er gochel y boen yma, y mae un llwybr eto wedi ei adael i weinidog y Sefydliad; efe a all fwyhau pwysigrwydd yr Undeb, dyrchafu "yr eglwys," fel y buraf a'r oreu yn y byd, ei ddarbwyllo ei hunan ei bod yn brif ddiffyn-glawdd Protestaniaeth; efe a all lanw ei amser a meddyliau am ddyledswyddau ei weinidogaeth, ac efe a all benderfynu na bydd iddo ddarllen, siarad, na myfyrio ar y pynciau dadleuol hyny. Fel hyn, efe a all ymdrechu i gelu rhagddo ei hunan gyfeiliornadau y llyfr gweddi, a gochel pob casgliadau o barth llyffetheiriau cyfreithiol ei weinidogaeth, gan lechu dan y meddwl fod llawer o ddynion rhagorol yn gwneyd y cwbl y gelwir arno yntau i'w wneyd; ac na ddylai pethau mor ddibwys beryglu sefydliad mor hen, ac mor angenrheidiol.[1]

Yr ydwyf yn meddwl fod arwyddion o'r ansawdd meddwl yma yn lluosog.

Mae yn beth cyffredin i'w glywed yn mysg gweinidogion y Sefydliad, grochgyhuddiadau cryfion ar babyddiaeth, yr hyn ni's gofyna am ddim gwroldeb, gan fod y taranwr yn lluchio ei ergydion yn erbyn llei-rif diystyredig, ac yn cael ei gefnogi gan y torfeydd a'i mawrygant. Ond nid yw y camarferion lluosog sydd o fewn y Sefydliad, yn cyffroi unrhyw daranau digofus o'r fath,—pennodiad bydolion yn breladiaid,—attaliad yr Efengyl o

1 Mae rhai yn tawelu eu cydwybodau â'r sylw, nad oes un eglwys yn berffaith, ac na adawodd Paul yr eglwys yn Antiochia am fod iddi ei ffaeleddau. Ond nid gadael eglwys yw ymwrthod â Sefydliad. Nid yw ymwrthod a chymdeithas anysgrythyrol eglwysi a'r llywodraeth, yn wrthodiad cymmundeb â chynnulleidfa o Gristionogion yn ein cymmydogaeth; ac oni ymneillduodd Paul oddiwrth eglwys Antiochia, efe a ofalodd am roi pen ar eu hymarferion ymbleidiol. Gal. 2. 11—16.

filoedd o blwyfau, yn y rhai trwy yr Undeb, y mae gweinidogion annuwiol, yn cyfyngu yr hawl i weini addysg ysbrydol iddynt eu hunain,—y rhwydd-der i ddwyn ieuenctyd annghrefyddol i'r weinidogaeth,—yr halogiad arswydus ar fedydd, yn enwedig mewn plwyfydd dinesig mawrion,—y ffaith fwy aswydus, o fod yr un fil ar bymtheg gweinidogion y Sefydliad yn gadael rhyw filiwnau o dlodion allan o boblogaeth o un filiwn ar bymtheg yn hollol ddi ddysg,—dallbleidiaeth atgas y canonau, y rhai a ysgymmunant bawb a gydnabyddant unrhyw eglwysi ereill i Grist, yn Mrydain, heblaw yr eiddom ein hunain,--cymmysgiad trylwyr yr eglwys a'r byd wrth fwrdd yr Arglwydd, —y rhwymedigaeth sydd ar bob gweinidog plwyfol i ddiolch i Dduw yn gyhoeddus, am gymeryd atto ei hun enaid pob dyn annuwiol yn y plwyf, a fyddo farw heb ei ysgymmuno,—yr esgeulusdra hollol o'r bron o ddysgybl-aeth eglwysig ysgrythyrol,—gormes y gyfundrefn drwyddedawl,—hela, dawnsio, a chwareu cardiau, llawer o'r clerigwyr,—eirchion y Llywodraeth i eglwysi Crist i bregethu ar unrhyw bynciau, a gweddïo mewn unrhyw ffurf-iau, a arddodir gan y Llywodraeth,—croch-gyhuddiadau mynych ein brodyr ar enwadau ereill, fel eglwys-rwygwyr,—cyfeiliornadau yr erthyglau a'r llyfr gweddi, a goresgyniad uchelfreinniau breninol Crist gan yr uchafiaeth Gwladwriaethol,—y llwyr amddifadiad o hunan-lywodraethiad, ac o ganlyn-iad o bob hunan-ddiwygiad o'r Sefydliad, &c., &c., &c.: mae yr holl ddrygau aruthrol hyn yn cael eu goddef, a'u celu. Ymosodir yn fynych ac yn llym ar yr Ymneillduwyr, am eu bod yn weiniaid mewn cydmariaeth: ond prin yr ysgydwir tafod i gondemnio gormes y Llywodraeth ar Eglwysi y Sefydliad, am fod y Llywodraeth yn grêf, ac yn dwyn y gôd. Mae rhai yn chwilio yn awchus i'r dyfodiant, ac yn gorfodi prophwydoliaeth annghyf-lawnedig i ddatguddio iddynt helynt cenedlaethau pellenig; ond ni chymerir sylw o amgylchiadau pwysig a mawreddog ydynt yn cymeryd lle ger bron ein llygaid. Dadleuant yn fedrus pa beth yw Jerusalem i fod yn y mil-flwyddiant, ond ni ofynant pa beth yw Ysgotland a Chantou de Vaud yn awr. Nid oes un gongl o'r ysgrythyrau prophwydoliaethol nad olrheiniasant, ond ychydig a wyddant pa beth y mae yr unrhyw ysgrythyr yn ei ddywedyd am gyfansoddiad a dysgyblaeth eglwysi Gristionogol. Mae llyfrau a thraethodion yn ddi ddiwedd yn galw sylw at y milflwyddiant, ond prin y ceir yr amnaid lleiaf pa fodd y dylid puro ac adfywio yr eglwysi presenol. Darlunir drygau oddiallan i'r eglwys â ffyddlondeb angerddol; ond y mae drygau tufewnol yn cael llonydd i nythu. Yr ydym yn clywed llawer am ddyfodiad buan ein Harglwydd, ond ychydig sydd yn ymdrechu i drefnu y tŷ erbyn y delo: pe y deuai, efe a ganfyddai y Sefydliad mewn llawer o bethau yn debyg i'r deml yn Jerusalem, yr hyn a gyffröai ei ddigofaint, a phrin y gwna neb ddim tuag at ei buro. Mae y lampau wedi tywyllu, ac nid oes neb a'u trinia. (Matt. 25. 5.) Ymddengys bod yr holl ddarllen a'r

myfyrio, ar eglwysi a Sefydliadau, gyda llawer ar un ochr. Rhoddir darlleniad helaeth i "Ddarlithoedd Mr. M'Neile ar yr Eglwys," ac hyd yn nod i Draethodau llai poblogaidd Mr. Gladstone; ond gadewir cyfansoddiadau galluocach Wardlaw, Ballantyne, Conder, Gasparin, Vinet, a Baird, yn annarllenadwy ac anadnabyddus. Ië, y fath arswyd a gynnyrchir drwy y trefniant, fel y mae rhai yn ofni gwneyd yr hyn sydd gymhwys hyd oni welont ereill yn ei wneyd. Pan gynnygir ar unrhyw egni o gymmwynasgarwch Cristionogol,—megis Cenhadaeth Ddinesig Llundain, er enghraifft, yr ymholion cyntaf a ymgynnygiant i'r cyfryw, debygid, yw, nid pa un a yw e yn iawn, yn ysgrythyrol, a defnyddiol; ond rhyw rai o'r fath a ganlyn; Pa beth y mae y clerigwyr ereill yn ei feddwl o'r cynllun? Pa beth a ddywaid yr esgob? A ydyw y cynllun yn troseddu unrhyw reol? A ydyw e yn unol â chyfraith eglwysig? Pa fodd yr effeithia ar "yr eglwys"? A allaf fi ei wneyd yn ddïogel?

Y mae hyn oll yn dra anfanteisiol i ffurfiad nodwedd rhydd, difrifol, a diffuant, awyddus i gael allan y gwirionedd, a pharod i'w arddelwi; eto, y mae hyn yn anhebgor i effeithiolrwydd gweinidogion Cristionogol.

Gellid casglu oddiwrth ddistawrwydd llaweroedd ar amryw destunau pwysig, y rhai ydynt yn gofyn am benderfyniad, ac oddiwrth eu gwaith yn darllen un ochr i'r ddadl yn unig, pan na's gellir ffurfio barn deg heb ymchwiliad trwyadl i'r ddwy ochr, eu bod yn ofni na ddeil eu hopiniynau eglwysig eu chwilio. Ond, nid cywirdeb yw dal heb ymchwiliad, opiniynau, y rhai y gallai ymchwiliad eu cyfnewid. Goddefer i mi adgoffa geiriau yr Esgob Wilberforce yma: "Yr ydwyf yn sicr na's gellid rhoddi dyrnod mwy angeuol i'n heglwys na rhoddi achos i bobl, y rhai o drugaredd Ddwyfol ydynt hynod am eu gonestrwydd trylwyr, i feddwl bod eu heglwyswyr yn dysgu un peth, tra yn credu peth arall." Os yw hyn yn wirionedd, pa faint o lesgrwydd ein pwlpudau, o annghrefydd cymdeithas, ac o estroneiddiad y lluaws oddiwrth yr offeiriaid, a ellir ei olrhain i'r achos yma, sef na chredir am lawer eu bod yn ddiffuant!

Yn mhellach, ystyriwn ddylanwad noddaeth. Yn ol ewyllys Crist, megis y mae wedi amlygu yn arferiad yr eglwysi oeddynt dan arweiniad yr apostolion, dewisid y gweinidogion gan yr eglwysi. Y mae eglwysi cynnulleidfäol yn dilyn y cynrëolau apostolaidd eto, ac y mae yr effaith yn rhagorol. Y mae yn rhaid i weinidog a ddewiser gan yr eglwys, fod yn gyfaddas iddi yn mhob golygiad yn y cyffredin. Pan y'i dewisir yn rhydd fel hyn, y mae yn debyg o gael ei barchu, a'i werthfawrogi, gan y rhai a fyddant wrth ei barchu ef yn cyfiawnhau eu dewisiad eu hunain. Fe all fod yno lei-rif yn anfoddog ar yr etholiad, ond hwy a wyddant mai llais y mwyrif a ddylai mewn cyfiawnder ffynu; ac ni bu dim ymryson personol rhyngddynt a'r gweinidog; am hyny, os bydd efe yn weinidog effeithiol, efe

a all eu hennill yn fuan; ac yn wir, y mae dynion difrifol a serchog, synhwyrol a ffyddlon, yn cael eu caru a'u parchu yn gyffredin gan yr aelodau goreu a mwyaf eu dylanwad o'u heglwys.

Ond y mae gweinidogion y Sefydliad yn cael eu dewis heb gydsynied yr eglwys, ac yn aml yn erbyn ei hewyllys amlygedig, gan y noddwr cyfreithiol. A ganlyn ydyw parthiad noddaeth yn y wlad hon. Mae y Goron yn cyflwyno i 952 o fywiolaethau; yr archesgobion a'r esgobion i 1248, corphoriaethau eglwysig i 787, urddasolion i 1851, colegau i 721, a noddwydd annghyoedd i 5096.[1] Yn y pennodiad i'r bywioliaethau hyn, nid ymgynghorir a'r bobl, nid yw y cymhwysderau y mae y gyfraith yn eu gofyn yn y gweinidogion ond bychain iawn, rhaid i'r prawfion o analluoedd ac annghrefydd yn yr ymgeisydd fod yn dra amlwg; ac os bydd i'r esgob wrthod un a gyflwynir, heb seiliau da, gall y cyflwynedig a'r noddwr ddwyn cŵyn cyfreithiol yn ei erbyn.[2] Effaith yr ansawdd yma ar y gyfraith yw, mai prin y gwrthodir neb a gyflwynir; gellir dwyn plant i fynu gyd â'r sicrwydd y bydd iddynt gael bywioliaeth teuluaidd, a bod hawl i roddi bywioliaeth eglwysig yn eiddo marchnadol gwerthfawr.

Yr oedd effaith y gwrthleisiad, a ganiatteid trwy gyfraith y Gynhadledd Gyffredinol i eglwysi Ysgotland, yn dra nodedig, hyd oni's dirymwyd hi gan gyfraith y Llywodraeth. Tueddai wyr ieuainc difrifol i efrydu i'r weinidogaeth, tra yr attaliai bawb ereill; a sicrhäai luaws o weinidogion efengylaidd i'r plwyfau Ysgotaidd. Ar y llaw arall, y mae y noddaeth ddïattalfa yn Lloegr, yn sicrhau cyflenwad parhaus o fydolion i swyddau eglwysig. Ychydig mewn cydmariaeth yn mysg y mawrion a'r goludog sydd yn dyfod yn ddisgyblion i Grist, gan fod ei athrawiaeth ef yn rhy ddarostyngol, a'i iau yn rhy wasgedig. *"Haws yw i gamel fyned drwy grai y nodwydd, nac i oludog fyned i mewn i deyrnas Dduw"* Gan hyny, y mae y noddwyr goludog a phendefigaidd, y rhai a feddant 5096 o fywiolaethau at eu llaw, yn debyg o roddi y rhan fwyaf o honynt i ddynion, y rhai ydynt fel eu hunain, yn annychweledig. Rhoddir bywiolaethau colegaidd heb unrhyw olwg ar gymhwysderau gweinidogaethol. Gall unrhyw ddyn, pa mor annuwiol bynnag a fyddo yn ei ymarweddiad, os daw yn ysgolhaig da, ennill cymmrawdaeth *(fellowship)* yn Rhydychain neu Gaergrawnt; ac yn ol rheol 33, y mae cymmrawdaeth colegawl yn rhoddi hawl i ordeiniad, ac wedi y caffer hyny, y mae cymmrawd yn cael bywioliaeth golegawl yn ei gylch, fel ei hawliaeth, fel y mae y noddaeth golegawl o 721 o fywiolaethau, yn rhwym o chwyddo y nifer o weinidogion annuwiol yn Eglwysi y Sefydliad. Ni's meddwn un sail i ddisgwyl i arweinwyr y gwlad-bleidiau mawrion yn y Llywodraeth yn y cyffredin, fod yn gyfryw ddynion ag a werthfawrogant grefydd ysbrydol.

1 *M'Culloch's Statistics.* 2 *Burn*, Vol. 1. p. 156.

Yr oedd Mr. Pitt, ac Arglwydd Liverpool, y rhai oeddynt yn mysg y rhai mwyaf cryfrifol o brif weinidogion, yn wrthwynebwyr di gêl i olygiadau efengylaidd. Ac ni bu y cyfreithwyr galluog a gyfodid gan ystyriaethau pleidiol o bryd i bryd i'r swydd o Arglwydd Ganghellwr, yn hynod yn wastad am eu difrifwch crefyddol. Gan hyny, y mae noddaeth y Goron o 952 o fywiolaethau, o angenrheidrwydd yn ffurfio corph mawr arall o weinidogion bydol ac annychweledig. Yn olaf, pan fyddo y prif weinidog a'i gydswyddogion yn ddynion bydol, ac oddiar ystyriaethau gwlad-bleidiol yn dethol dynion bydol fel esgobion, rhaid i noddaeth yr esgobion bydol hyny eto chwanegu nifer y gweinidogion annychweledig a gyflëir ar eglwysi Crist yn y tir. Wrth ystyried tuedd noddaeth, ni wiw i ni fod yn ddi sylw o'r cymhelliad cryf sydd i noddwyr o bob dosparth i ddarpar ar gyfer eu ceraint eu hunain. Mae 958 o fywiolaethau, heblaw 952 yn noddaeth y Goron, at law noddwyr a feddant blant, brodyr, a chefnderwydd i ddarpar erddynt. Mae y bywiolaethau hyn, gan amrywio yn eu gwerth, o £50, i fil o bunnau yn y flwyddyn, yn wobrwyon ymgynnygiedig i ieuenctyd o bob sefyllfa; ac a ellir meddwl, yn ansawdd gydymgeisiol y dyddiau hyn am alwedigaethau, a'r anhawsder a ganfydda rhieni, yn enwedig, o'r dospeirth uchaf, i ddarbod arlwy i'w plant, na byddai i noddwyr roddi eu bywiolaethau teuluaidd i luaws o wyr ieuainc o alluoedd gweiniaid, iechyd gwael, a heb ddim ysbrydolrwydd? Dylem sylwi hefyd fod yn haws i eglwyswr ddysgu ei feibion i'r swydd eglwysig nac i unrhyw alwedigaeth arall. Hwy a allant yn y cyffredin, arolygu y graddau cyntaf o ddysgeidiaeth awdurol eu hunain. Y mae ysgolion awdurol yn lluosog yn y tir; ac megis y ceir fod y cyfreithiwr yn dysgu ei feibion i'r gyfraith, a'r swyddog milwraidd neu forawl yn dysgu ei feibion i'r fyddin neu y llynges, felly y ceir fod llënorion yn dysgu eu meibion i'w galwedigaeth eu hunain. Fel hyn y mae gwyr ieuainc o ymarweddiad dichlyn, ond heb dduwioldeb, yn cael eu cymhell, ac o'r braidd eu gorfodi gan eu hamgylchiadau, i alwedigaeth, yr hon o'u rhan eu hunain ni buasent byth yn ei dewis. Ar y cyfan, y mae yn rhy amlwg i bawb a ymholant i'r peth hwn, fod yr offeiriaid Seis'nig fel corph, yn cael eu harwain i'r weinidogaeth, nid trwy eu cymhwysder arbenig iddi; ond trwy amgylchiadau sydd yn gwneuthur hyny yn gyfleus. Nid yw y corph hwnw o ddynion galluog a duwiol, wedi eu tynu mewn rhif cymhesur o bob dosparth o'r wlad, mewn aeddfedrwydd oedran, ac wedi llawer o brofiad Cristionogol, (1 Tim. 3. 6); ond o wyr ieuainc, y rhai a fwriadwyd gan eu rhieni i'r swydd o'u mebyd, fel y mae plant ieuengaf pendefigion yn y gwledydd Pabaidd, yn cael eu bwriadu i'r mynachdy am fod hyny yn gyfleus. Mae meibion noddwyr ac arianwyr cyfoethog, esgobion ac eglwyswyr, yn cyflenwi rhengau yr offeiriaid, nid cymmaint am eu bod wedi eu cyssegru ei hunain i wasanaeth Crist a'u cyd-greaduriaid, ag am eu bod heb feddu galluoedd

digonol i fyned yn gyfreithwyr neu feddygon, nac ysbryd digonol i fyned i'r fyddin neu y llynges, neu arian digonol i anturio mewn masnach, neu gyllid digonol i fyw yn segur. Fel hyn y mae y weinidogaeth yn cael ei llygru yn barhaus yn y Sefydliad; ac fe fyddai disgwyl i'r eglwyswyr fod dan yr amgylchiadau crybwylledig, fel corph, byth yn ddynion difrifol ac efengylaidd, yn groes i holl egwyddorion adnabyddus ein natur, càn gystal ag yn erbyn profiad cyffredinol.

Tra y mae noddaeth drylwyr fel hyn yn dwyn lluaws o ddynion annghymmwys i mewn i'r weinidogaeth, y mae hefyd yn cau allan lawer a fuasent ei haddurniadau disgleiriaf. Pe byddai i'r eglwysi gael penderfynu ar ddetholiad eu gweinidogion, fe fyddai i alluogrwydd, cywirdeb, a difrifwch, sicrhau i bob gweinidog ieuanc sefyllfa i fod yn ddefnyddiol ac yn gysurus; ond gan fod y rhan fwyaf o fywiolaethau yn y tir yn annghyraeddadwy i unrhyw wr ieuanc na's medd ddylanwad heblaw ei nodweddiad, trwy fod yr holl byrth iddynt yn cael ei llenwi gan ymgeiswyr annghenog, y rhai ydynt feibion, brodyr, a cheraint ereill i'r noddwyr, am hyny y mae gwyr ieuainc galluog a duwiol yn gorfod troi i ymofyn rhyw fath arall o alwedigaeth; ac fel hyn, tra y mae y Wladwriaeth yn sicrhau cyflenwad parhaus o weinidogion annychweledig ac annghyfaddas, y mae yn cau llawer o'r swydd weinidogaethol, a allent weithredu yn y modd grymmusaf ar grefydd y genedl.

Y mae Duw wedi galw ei weinidogion yn y wlad hon i waith anrhydeddus ond mawr ei bwys. Eu gorchwyl yw cynnal athrawiaeth yr Efengyl yn ei phurdeb, perffeithio duwioldeb yr eglwysi, cyfeirio eu hymdrechiadau, a galw Cristionogion o bob dosparth i ymdrech egnïol ac unedig yn ngwasanaeth y Gwaredwr. Mewn adeg o fywiogrwydd meddwl ac ymchwil dïarswyd, eu dyledswydd hwy ydyw amddiffyn ysbrydoliaeth yr Ysgrythyr, gwirionedd Cristionogaeth, ac hyd yn nod y bod o Dduw, mae yn rhaid iddynt, nid yn unig ymosod ar ddïofalwch y dospeirth uchelradd, a darostwng balchder uchelfrydig pendefigion, y rhai y mae yn ffiaidd ganddynt glywed eu bod yn bechaduriaid colledig, y rhai heb ffydd ostyngedig yn Nghrist ydynt yn rhwym o fod dan lîd Duw byth; ond y mae yn rhaid iddynt ymwneyd hefyd â barn a chydwybod dynion o ddysg a gwybodaeth, cyfreithwyr, physygwyr, peiriannyddwyr, a golygwyr,—y Goliathau a wawdiant y sawl ni's gallant ymwneyd a hwy â grym cawraidd, fel yr eiddynt hwy eu hunain, a'r rhai ni's darostyngir dan ddisgyblaeth drwy unrhyw chwareu plant. Y maent i ddychwelyd Siartriaid a Sosialiaid at Grist, casineb y rhai at grefydd sydd wedi ei chwerwi trwy eu ffieidd-dra o'r sefydliadau gwladol â'r rhai y mae yn gyssylltiedig. Crefftwyr a llaw-weithyddion, y ni annghelfydd y rhai ni's delir danodd trwy awdurdod mwyach, ac ni's byddant byth eto y cyfryw ddïadelloedd dynol hywaith ag a arweinid yn y dyddiau gynt gan y rhai a gymerent arnynt fod yn olynwyr yr apostolion, i'r porfeydd duwinyddol a

fynent hwy—ydynt yn awr yn honi sylw parchus, rhydd a brawdol; tra na's gellir dwyn y myrddiynnau lluosog sydd yn ninasoedd ac ardaloedd gweithfäol y deyrnas yma yn llwyr estronaidd, i eglwysi Crist, i wrando yr Efengyl heb y dyfalwch mwyaf hunan-ymwadol.

Ni bu erioed eisiau cynnifer o gymhwysderau amrywiol mewn gweinidogion ac efengylwyr, am na bu y byd erioed mor hyddysg, annibynol, a dïofn. Mae beirniadaeth ysgrythyrol iachus, adnabyddiaeth ehang o ddynion a phethau, awduriaeth, pregethu, a bywiogrwydd bugeilaidd, oll yn angenrheidiol erddynt, oni's diystyrir hwy fel offeiriaid hurt Foh-kien. Mae hen hawliaeth i awdurdod apostolaidd wedi ei throsglwyddo trwy olyniaeth, yn cael ei gyfrif yn awr gydâ'r dirmyg a haeddai, os nid ei daflu yn ol yn ddigofus fel twyll digywilydd. O hyn allan, meddwl, calon, a nodwedd ydynt yr unig bethau a roddant hawliaeth i gyfrifoldeb, fel y rhag-drefnodd ein Harglwydd. Gan hyny, y mae yn gweddu i Weinidogion eglwysig yn anad neb, fod yn Gristionogion profiadol, yn meddu llawer o ffydd, gobaith a chariad, yn gweddïo yn yr Ysbryd Glan, ac am hyny, yn cael yr hyn a geisiant mewn gweddi.

Er bod yn efrydwyr llafurus, rhaid iddynt er hyny, fod yn ddynion y byd yn hyttrach na dynion y fyfyrgell; dynion y bwthyn a'r gweithdy yn hyttrach na'r gyfarchfa; nid eilirai *(butterflies)* yn ymchwyfan dros ddiwrnod heulog, yn ymchwyfan uwchben paradwys o rosynau, ond milwyr, y rhai yn ystorm ac ymdrechfa dyledswydd a ddysgasant oddef caledi: nid pendefigion, nid gwerinwyr, ond dynion wedi eu cymeryd o bob graddau, yn perthyn i bawb, ac yn cyd-ymdeimlo â phawb; dosparth, y rhai trwy eu gwybodaeth a'u doethineb, eu rhinwedd a'u zel, a ymddyrchafasant i bendefigaeth foesol a deallol; olynwyr Luther a Chalfin, Bunyan a Baxter, Whitfield a Wesley, Scott a Martyn, a blaenion y genedl am dduwioldeb a grym.

Ond, pa fath ydyw gweinidogion y Sefydliad mewn gwirionedd? Y mae yn ofid genyf ei ysgrifenu. Y mae yn eu mysg ddynion uchel mewn rhinwedd, y rhai y mae yn llawen genyf ddangos parch iddynt. Yr ydwyf yn adnabod ac yn caru llawer o weision ffyddlon, egnïol, a diffuant i Grist; ond wedi tynu y cyfryw eithriadau allan, pa beth yw y gweddill? Mae yn ofidus dweyd. Wedi eu dewis gan bendefigion ac ysweiniaid, gan golegau a chorphoriaethau eglwysig, gan ganghellorion ac esgobion gwladwriaethol, gwnaed llawer yn weinidogion trwy bleidiolaeth lygredig, denwyd llawer i alwedigaeth annghydrywiol gan y cyllid a gynnygia iddynt, a llawer a gymerant arnynt y swydd weinidogaethol am eu bod yn rhy hurt, di egni, neu annewr, i gymeryd unrhyw swydd arall arnynt. Prin y maent yn cael unrhyw hyfforddiant dwyfyddol, y maent yn ymwystledig i'r holl gyfeiliornadau ydynt yn y llyfr gweddi gyffredin, a'r holl gam-arferion a awdurdodir gan yr Undeb. Maent yn arswydo rhag pob diwygiadau, yn

wasaidd i'r noddwyr, yn annghydoddefol o'r ymneillduwyr; mae eu zel yn cael ei gloffi gan attalfeydd y Llywodraeth, a'u seguryd ei demtio trwy ryddid di derfyn i ymollwng iddo. A chan eu bod wedi eu hysgaru oddiwrth y bobl trwy eu haniad, eu dysgeidiaeth foreuol, eu bywyd athrofäol, eu cyfathrach bendefigaidd, a'u zel dros eu rhagorfreintiau eglwysig, ni's meddant nemmawr o ddylanwad ar y lluaws. Ni wrendy cyfreithwyr, athronwyr, a golygwyr y newyddiaduron arnynt; y Breinlenwyr, a'r Cymdeithaswyr (*Chartists and Socialists*) a'u casânt ac a'u dirmygant; prin y cyffyrddant a myrddiynnau y dosparth gweithyddol, ychydig o ddychweledigion a ennillant o fysg y dosparth dillyn-wych; ac o dan eu harweiniad y mae y fyddin Gristionogol yn ddi fywyd, yn ddi wroldeb, ac yn ddi lwyddiant.

Ond, pa bryd bynnag y rhoddir pen ar yr Undeb rhwng yr Eglwys a'r Wladwriaeth, rhoddir pen ar y llyffeitheiriau gwladwriaethol yn nghyd; bydd i'r eglwysi ail ennill eu hawl i'w llywodraethu eu hunain, ac i bennodi eu gweinidogion; a chan na byddai gan y gweinidogion unrhyw ddyrchafiadau i'w disgwyl oddiwrth arglwyddi y tir, hwy a gydymgorphorent a'u dïadellau, a chan fod yn foddlawn, yn fywiog, a serchog, hwy a ddeuent ar y cyfrifon hyny yn ddylanwadol. Boed i Dduw o'i drugaredd, wedi y terfyner yr Undeb ansanctaidd yma, gyfodi i'w eglwysi rhyddion y cyfryw weinidogion ag a'u hamgylchont eu hunain â disgyblion grymmus i Grist; a thrwy eu cydymdrech, fe all llawer o fysg y dospeirth llënyddol, dillyn-foes, a llaturus, y rhai ydynt yn awr yn estroniaid oddiwrth y Gwaredwr, gael eu tywys i'w wasanaethu ef â zel serchog a chyssegredig.

---

### ADRAN III.—DYLANWAD YR UNDEB AR Y CURADIAID.

Gadewch i ni yn nesaf olrhain dylanwad yr Undeb ar y 5230 curadiaid ydynt yn y Sefydliad. Pe rhoddid pen ar noddaeth, fel y byddai gweinidogion yn ymddibynol ar gymeradwyaeth yr Eglwysi, byddai i bob gwr ieuanc duwiol a galluog gael sefyllfa fel bugail eglwysig; tra y byddai i'r oferwag, y llesg, a'r annuwiol gael eu gwrthod gan y cynnulleidfäoedd. Ac yn y canlyniad, attelid dynion annghymmwys rhag ceisio ordeiniad. Y fath ydoedd effaith deddf y gwrthleisiad yn Scotland, yr hon gan gau allan obaith am ddyrchafiad oddiwrth yr ieuenctyd di ddysg ac annuwiol, a rhoddi sicrwydd o'r bron am alwedigaeth i wŷr ieuainc o synwyr, gallu, ac egwyddor Cristionogol, a welläodd y dosparth o ymgeiswyr am y weinidogaeth yn y rhan hono o'r wlad yn ddirfawr. Ond, y mae ein trefniant ni yn tynu yr analluog a'r dïog at y weinidogaeth, tra y mae yn gyru y galluog a'r egnïol ymaith. Noddaeth sydd yn rheoli pob peth. Ni's gall gwarchgloddiau papur, yn y ffurf o law-nodi erthyglau a chanonau, ddylanwadu nemmawr ar

wyr ieuainc anysgrythyrol, a fyddont yn meddu addewid am fywiolaethau; gall unrhyw ddyn na byddo yn hynod mewn anfoesoldeb, gael y tystiolaethau gofynol yn rhwydd, ac fel hyn gall agos bob un sydd yn meddu bywiolaethau yn barod iddynt, weithio ei ffordd mewn gwirionedd, i'r dyrchafiad a ddisgwylir, trwy yr holl rag-drefniadau. Y canlyniad yw, bod gweinidogion yn cael eu traws osod ar yr eglwysi gan noddwyr, o'r pum dosparth yma. 1. Cymdeithion Colegawl; 2. Ymlynwyr gwlad-bleidiol wrth y Weinyddiaeth Lywodraethol; 3. Meibion noddwyr; 4. Meibion dynion cyfoethog, y rhai a dalant am sefyllfeydd iddynt; ac yn 5. Meibion clerigwyr, y rhai ydynt yn cael ei bod yn haws iddynt ddysgu eu meibion i'r "eglwys," nag i unrhyw alwedigaeth arall. Nid oes un o'r dospeirth yma yn cael eu gyru i'r weinidogaeth o herwydd eu zel a'u cymhwysder, ond am fod eu bywiolaethau yn barod iddynt, neu ei bod mewn rhyw fodd arall yn gyfleus iddynt: ac fel hyn y mae y Sefydliad yn cael cam, trwy fod llawer yn cael eu gollwng i'r weinidogaeth heb fod ynddynt y cymhwysder lleiaf i'r alwedigaeth sanctaidd.

Gellid meddwl ar y dechreu fod yr eglwysi yn cael eu dïogelu rhag trawswthiad dynion annghyfaddas i'r swydd weinidogaethol, trwy yr awdurdod ddyspwyllaidd i ordeinio a ganiattâ y gyfraith i'r esgob. Ar y pen hwn ysgrifena Burn fel hyn: "Gan y dywedir ei fod at ddyspwyll yr esgob, pwy a ollynga efe i urdd offeiriad neu ddïacon, ac nad yw dan rwymau i roddi unrhyw reswm am ei ommeddiad, y mae hyn yn arwyddo y gall efe sefyll ar unrhyw gymhwysder blaenorol a farno efe yn gymhwys, *yn gyson â chyfraith ag iawnder.*" Ond y mae y geiriau olaf hyn yn rhoddi ar ddeall i ni, y byddai gan gyfeillion gwr ieuanc, i'r hwn y gwnelsid addewid o fywioliaeth deuluaidd, le i godi cwyn cyfraith, os byddai i'r esgob ommedd ei ordeinio heb roddi rhyw reswm, neu ddangos rhyw achos cyfreithiol am hyny. O ran y peth yn weithredol, yr ydwyf yn credu bod esgobion duwiol yn ordeinio dynion na roisant erïoed un prawf o'u duwioldeb; ac fe ddywedir fod esgobion a gondemniant Buseyaeth yn eu "Cynghorion," yn ordeinio gwyr ieuainc na cheisiant gelu eu golygiadau Puseyaidd. Nid yw yr awdurdod ddyspwyllaidd yma, i ordeinio, erbyn ei chymmesuro fel hyn, yn gadael nemawr o allu yn llaw yr esgob i gau dynion annghymmwys allan, os byddant o sefyllfa uchel, a chefn da iddynt; ond fe'i dodir mewn gweithrediad yn awr ac eilwaith ar ryw ymgeisydd di noddaeth, yr hwn y tybia yr esgob fod ei olygiadau yn rhy Galfinaidd neu yn rhy ryddfrydig.

Edrychwn yn awr ar ba ammodau y mae gwr ieuanc yn dechreu ar ei weinidogaeth. Wedi ysgrifenu a'i law ei fod yn credu yn uchafiaeth ysbrydol y Goron, a chysondeb y llyfr gweddi gyffredin a'r erthyglau â'r ysgrythyrau, yna y mae efe yn datgan yn mhellach "ei gydsyniad di ffuant a'r cyfan oll a gynnwysir ac a ofynir yn a thrwy y llyfr a elwir llyfr gweddi gyffredin;"

ac wedi hyny y mae efe yn dyfod dan awdurdod haiarnol y drwydded esgobol. Yn ol rheol 36, "Nid oes neb i gael ei oddef i bregethu mewn un plwyf, eglwys, neu gapel, neu unrhyw le arall o fewn y llywodraeth hon, oddieithr ei fod wedi cael trwydded, naill ai gan yr Archesgob, neu gan Esgob y dalaeth." Yn ol 13 a 14, Siarl II, "Na dderbynier ac na oddefer neb i bregethu fel darlithydd, oddieithr ei fod wedi ei gymeradwyo a'i drwyddedu i hyny yn gyntaf gan archesgob y dalaeth, neu esgob yr esgobaeth." Ac yn ol deddf yr Unffurfiad, "Na byddo i neb gael ei oddef i bregethu mewn un eglwys, capel, neu le o addoliad cyhoeddus, oddieithr ei fod wedi ei gymeradwyo yn gyntaf, a'i drwyddedu i hyny gan archesgob y dalaeth, neu esgob yr esgobaeth."

Gall yr esgob roddi neu attal y drwydded yma wrth ei ddyspwyll. Gommeddai esgob Llundain drwyddedu y Parch. Richard Povah, i'r ddarlithfa yn eglwys St. Bartholomew, gan haeru "na's gallasai yn gyson â'i ddyledswydd fel esgob Llundain ei gymeradwyo fel un cymhwys i'r fath ddarlithfa." Ar yr hyn y dywedai Arglwydd Ellenborough, "Nid oes un enngbraifft o gais am ysgriflen *Mandamus*, i orfodi esgob i gymeradwyo; y cwbl a allwn ni ei wneyd yw ei rwymo i ymofyn."[1] Trwy y gallu träarglwyddiaethol yma, fe ddichon yr esgob gau gwr da, dysgedig, a ffyddlon, allan o'r esgobaeth, heb roddi un rheswm am hyny; ac y mae y wybodaeth o hyn yn rhwym o dueddu i beri i'r holl wyr ieuainc a fyddont yn awyddus am guradiaethau o fewn ei esgobaeth, gydffurfio â'i holl gyfeiliornadau, a'i ymraniadau.

Distrywir eu hannibyniaeth yn mhellach trwy yr awdurdod sydd gan yr esgob i alw ei drwydded yn ol. Yn y gyfraith rhwng Hodgson a Dillon, penderfynid y gall esgob dynu yn ol ei drwydded i weinidogaethu mewn capel annghyssegredig, yn benderfynol a dïammodol; ac wrth draethu ei farn, dywedai Dr. Lushington, "Nid oes gan un offeiriad o Eglwys Loegr unrhyw hawl i weinyddu mewn un esgobaeth, mewn un modd fel offeiriad o Eglwys Loegr, oddieithr ei fod yn feddiannol ar awdurdodiad gyfreithiol i wneuthur hyny; ac efe a all feddu yr awdurdodiad hyny yn unig pan y'i derbynio ar ddwylaw yr esgob, yr hyn y gellir ei ddyroddi iddo pan fyddo yn gweinyddu fel curad cyflogedig." "Gall yr esgob wrth-alw y cyfryw drwydded pan y barno yn gymhwys, yn ol dyspwyll nad yw ddarostyngedig i'w chwilio gan y barnwr eglwysig."[2] Athrawiaeth benderfynol y gyfraith eglwysig yw, "y gall y rhag-esgob, wrth ei ddyspwyll, ddiswyddo curad, trwy wrth-alw ei drwydded, heb fyned trwy gynghawsedd cyfraith."[3] Ac yn wir fe gadarnheir hyny trwy gyfraith; canys yn ol 1 *a* 2 *Vict. cap.* 106, fe all esgob yn y modd byraf wrth-alw ei drwydded.[4]

1 *Burn*, Vol. 1. p. 36. 2 *Ibid*, Vol. 1. p. 306. 3 *Ibid*, Vol. 2. p. 74.
4 *Ibid*, p. 75.

Mae yr ansawdd yma ar y gyfraith yn gosod 5230 o guradiaid yn hollol at drugaredd yr esgobion. Os bydd curad yn rhy efengylaidd, neu yn rhy gyfeillgar âg ymneillduwyr duwiol, neu yn gwadu yr athrawiaeth o adgenhedliad yn y bedydd, neu yn amheu priodoldeb y canonau, neu yn troseddu yn erbyn y mawrion trwy ei bregethu ffyddlawn, efe a all fod mor ddifeius a Daniel, ac mor ymroddgar a Phaul; er hyny gall yr esgob wrth-alw ei drwydded heb roddi un rheswm am hyny, ac efe a all ei fwrw allan o'i esgobaeth yn hollol. Ni's gellir dyfarnu y drwgweithredwr mwyaf ysgeler o fewn tiriogaethau ei Mawrhydi heb brawf o flaen rheithwyr; ond gall gweinidog i Grist, o'r cymhwysderau uchaf, y medusrwydd mwyaf, a'r zel dduwiolfrydicaf, gael ei yru oddiwrth ei gynnulleidfa, ei amddifadu o'i gyllid, a'i ddëol o'r esgobaeth, heb unrhyw brawf,—ïe, heb unrhyw reswm, oddieithr ordinäad dräarglwyddiaethol y rhag-esgob *(ordinary).* Ac fe wnaed hyn o fewn y teyrnasiad presenol!

Fe ddichon y tybia y darllenydd na byddai hyny yn gymmaint o niweid i'r cyfryw gurad mewn gwirionedd, gan y'i croesawid yn ebrwydd gan esgobion ereill. Ond, yn rheol 48, cawn y ddeddf a ganlyn, "Os bydd i guradiaid a gweinidogion symmud o un esgobaeth i un arall, ni oddefir iddynt wasanaethu mewn un modd, heb gael tystiolaeth ysgrifenedig dan law esgob yr esgobaeth y daethant o honi, i'w gonestrwydd, eu galluogrwydd, a'u cydffurfiad â chyfreithiau eglwysig Eglwys Loegr." Gan hyny, pan fyddo esgob yn gwrth-alw ei drwydded, ac yn gyru curad o'i esgobaeth, gan na bydd iddo law-nodi unrhyw dystiolaethau yn ei ffafr, ac na's gall unrhyw esgob arall heb y cyfryw dystiolaeth dderbyn y curad yn gyson â'r rheolau; y mae y weithred orthrymus sydd yn ei yru o un esgobaeth, yn ei yru o bob esgobaeth mewn gwirionedd, ac yn ei orfodi i droi yn ymneillduwr neu newynu. Pe anturiai bregethu heb drwydded, efe a fyddai yn ddarostyngedig i gael ei ysgymmuno, ar yr hyn wedi pen deugain niwrnod gellir anfon ysgriflen ***de excommunicato capiendo*** o'r Canghell-lys yn ei erbyn, ac wedi ei gymeryd yn garcharor, efe a all fod dan orfod i ddioddef yr holl ganlyniadau a gyssylltodd y Wladwriaeth â'r bygyliadau esgobol.

Fel hyn, ar un llaw, os cydffurfia curad yn mhob peth âg ewyllys yr esgob, gan gefnogi yr uchafiaeth yn zelog, a sefyll dros ddoethineb dïgyfeiliorn y llyfr gweddi, gwirionedd anffaeledig pob un o'r namyn un, deugain erthyglau, ac awdurdod y canonau, yna y mae tangnefedd a llawnder o'i flaen; ïe, efallai y gall efe ei hunan ddringo i binaclau mawredd eglwysig, i bendefigaeth a llys; ond, os y saif e dros awdurdod Crist yn erbyn awdurdod ysbrydol y Llywodraeth; os ymchwilia i athrawiaeth a dysgyblaeth y Sefydliad gydâ pharch calon i'r gwirionedd; os condemnia y canonau, a dyfod o hono mewn un modd i wrthdarawiad â rhagfarnau a nwydau yr esgob, yna y mae efe at drugaredd archdeyrn annghyfrifol, yr hwn a all unrhyw fynyd

ddistrywio ei obeithion a mallu ei enw da. Y mae y cyfryw amgylchiadau, os nad wyf yn camsynied, yn attalfa i guradiaid Prydain, wneyd unrhyw ymchwiliad dïofn, boneddigaidd, ac annymddibynol am y gwirionedd.

Sylwais o'r blaen ar ddylanwad trefniant cymmhlethedig o gyfraith eglwysig, a noddaeth ddiderfyn, yn yr unrhyw gyfeiryd.

Y mae ychwanegiad tra annymunol hefyd yn debyg o gael ei wneyd at nodweddiad curad ieuanc, trwy amgylchiadau ei gyflwr. Gan gael ei attal trwy ganlyniadau mor arswydlon, i ammheu un athrawiaeth o'r llyfr gweddi, rhaid iddo amddiffyn ffurf-reol ei urddiad i'r offeiriadaeth. "Derbyn yr Ysbryd Glan i swydd a gwaith offeiriad......Pechodau pwy bynnag a faddeuoch, hwy a faddeuir; a phechodau pwy bynnag a attalioch, hwy a attelir." Trwy y geiriau hyn efe a demtir i gredu ei fod ef wedi derbyn yr Ysbryd Glan, trwy arddodiad dwylaw yr esgob. Yna fe'i gelwir i ystyried y nawfed, y ddegfed, yr unfed ar ddeg, a'r ddeuddegfed o'r canonau, y rhai a ddyfarnant bob cynnulleidfäoedd ymneillduol fel eglwys-rwygiaid, ac a ysgymmunant y sawl a'u cydnabyddo yn eglwysi i Grist: y mae yn adgofio hefyd mai efe ydyw bugail cyfreithiol y plwyf, a noddir yn ddi eithriad gan y Llywodraeth; a phan ychwaneger at hyn eto, ei ddysgeidiaeth ddidoledig, mewn ysgol ddidoledig, ac mewn prif athrofa ddidoledig, yn nghyd â'i ddarllen didoledig, ei gyfeillachau didoledig, a mynychiad gwastadol cynghorion didoledig esgobion ac archddïaconiaid, ni's gellir llai na dysgwyl i bob curad ieuanc gael ei lenwi â hunan-dyb Puseyaidd. A hyny yn neillduol os y traws-wthiwyd ef ar ei blwyf, er diogelu y fywioliaeth deuluaidd, heb ganddo dalent, gwybodaeth, na duwioldeb, y mae efe agos yn sicr o'i amddiffyn ei hunan yn erbyn ei wrthymgeisydd annghydffurfiol trwy honiadau uchel; gan gyhoeddi ymneillduaeth mewn ëofndra dall-bleidiol, yn eglwys-rwygiad ac fel hyn gyssylltu â'i waseidd-dra llwfr i'r mawrion, ymddidoliad trahaus-falch oddiwrth ddisgyblion a gweinidogion Crist. Dan y cyfryw ddygiad i fynu y mae curadiaid yn dyfod yn bersoniaid y tir.

---

ADRAN IV.—DYLANWAD YR UNDEB AR AELODAU EGLWYSI Y SEFYDLIAD.

Ewyllys Crist, fel y mae wedi ei amlygu yn y Testament Newydd, ydyw, bod i bob eglwys ddethol ei gweinidog ei hunan, gydag ystyriaeth ofalus o'r cymhwysderau gweinidogaethol y mae yn ofynol eu bod ynddo;[1] ond y mae Eglwysi y Sefydliad yn goddef i ddieithriaid ddewis eu gweinidogion erddynt hwy. Y mae eglwys yn rhwym na dderbynio neb ond gweinidog duwiol i lywodraethu arni;[2] ond y mae Eglwysi y Sefydliad yn derbyn torfeydd o weinidogion annychweledig, am fod y Llywodraeth wedi rhoddi yr hawl i'w

1 Act. 1. 15, 23—26; a 6. 3; a 14. 23. Gwel t.d. 116. 2 Matt. 7. 15—23. Io. 10. 4, 5. 2 Cor. 11. 3, 12—15. Gal. 1. 6—9. 1 Tim. 3. 1—7. Tit. 1. 5—9. 2 Ioan 8—10.

pennodi i noddwyr. Y mae bod heb wasanaeth gweinidog ffyddlon a llafurus, yn niweid mawr i unrhyw eglwys; ond y mae bod yn gyflëedig dan arweiniad un annuwiol a chyfeiliornus, yn llawer mwy niweidiol. Canys, os bydd gweinidog annuwiol yn cael ei garu a'i ddilyn gan eglwys, y mae efe yn eu harwain hwy yn nghyd ag ef ei hunan i ddistryw; os y dirmygant ac y casânt ef, efallai y dysgant ddirmygu a chasâu crefydd ei hunan, o'r hon y mae efe yn gynnrychiolydd annheilwng;—ac os byddant yn ddisylw o hono ef a'i ddysgeidiaeth, y maent yn gyffredin yn suddo i anwybodaeth a dideimladrwydd crefyddol trwyadl.

Darfu i eglwys weithiau, gydsynio fel hyn i olyniaeth o weinidogion annuwiol, y naill genedlaeth ar ol y llall, fel na thorodd goleuni yr Efengyl erioed ar annghrefydd y dref-lan; ac y mae yr holl drigolion dros oesoedd wedi ymlusgo yn anenwog i'r bedd, mewn dygn anwybodaeth o ffordd iachawdwriaeth. Weithiau, y mae eglwys yn fwy beius fyth, wedi meddu gweinidog ffyddlon, yn derbyn gan y noddwr cyfreithiol, trwy gydsyniad ymollyngar, ryw ddewis-ddyn annuwiol, yr hwn a ddaw yno i wadu yr hyn a ddysgasai ei ragflaenor, ac i wrth-weithio effeithiau gweinidogaeth ffyddlawn. Os arweiniwyd Eglwysi y Sefydliad fel hyn, i fod yn ddisylw o orchymyn Crist, a'u llesion ysbrydol eu hunain, drwy awydd cybyddlyd i ochel y baich o gynnal eu gweinidogion trwy sicrhau eu cyflogau o'r Llywodraeth, nid yw hyn namyn gwneyd eu heuogrwydd yn fwy. Cyfraith Crist yw, bod iddynt gynnal eu gweinidogion.[1] Gan hyny, pan er gochel y ddyledswydd hon, y dodant y baich ar y Llywodraeth, y mae yn rhaid eu bod yn gwneyd cam â hwy eu hunain trwy eu hesgeulusdra. Ni's gall fod unrhyw esgeulusdra o ddyledswydd yn ddiniweid; ac y mae pob Cristion yn y Sefydliad, trwy gydsynio i beri i'r Llywodraeth gynnal ei weinidog, yn lle gwneuthur hyny ei hunan, yn niweidio ei nodweddiad Cristionogol ei hunan.

Yn mhellach, megis y darfu i'r eglwysi ollwng o'u dwylaw eu hawl eu hunain i bennodi eu gweinidogion, y maent yn yr un modd wedi esgeuluso sefyll dros hawlion Crist arnynt. Tŷ Crist yw eglwys o wir gredinwyr, ar yr hwn ni's medd neb ond efe ei hunan hawl i lywodraethu.[2] Ond y mae Eglwysi y Sefydliad wedi goddef i'r Llywodraeth drawsfeddiannu ei awdurdod ef. Y mae estron yn llywodraethu ei dŷ ef, a deddfau yn cael eu llunio gan wlad-bleidwyr bydol i lywodraethu ei eglwysi ef, trwy eu cydsynied. Dylai yr eglwys fel prïodferch Crist, sefyll yn eiddigus dros ei arglwyddiaeth ef;[3] ond y mae wedi cydsynio i gyfathrach odinebus â'r Llywodraeth, nid o gariad, ond am arian; ac y mae y Llywodraeth yn talu yr arian er

1 Gal. 6. 6. 1 Tim. 5. 17, 18. 1 Cor. 9. 11—14. 2 Heb. 3. 5; a 10. 21. Matt. 10. 25; a 26. 45; a 25. 14—30. Rhuf. 7. 6; a 14. 9. 1 Cor. 7. 22, 23. Gal. 6. 10. Eph. 2. 19; a 6. 6. Col. 3. 24. 1 Tim. 3. 15, &c. &c. 3 Eph. 5. 22. 2 Cor. 11. 2. Io. 3. 29. Rhuf. 7. 4. Dat. 19. 7; a 21. 9.

mwyn cadw yr eglwys dan ei hawdurdod. Trwy y cydsynied anffyddlon yma i drosglwyddo awdurdod Crist i'r Llywodraeth, y mae yr eglwysi o angenrheidrwydd yn ymostwng i esgeulusiad gwaradwyddus, neu halogiad gwarthus ar ordinhadau eu Harglwydd. Gweinidogion a phobl a roisant y rheolaeth ar eu dysgyblaeth i fynu i estron; llysoedd eglwysig wedi eu cyfodi dan awdurdod y Llywodraeth, y fath nad adnabyddid i'r Testament Newydd, sydd yn trefnu eu holl weinyddiad tufewnol. Ordeiniodd Crist mai y rhai a edifarhânt ac a gredant yn unig a fedyddir;[1] ac y mae yr eglwysi dan arch y Llywodraeth yn goddef i blant yr holl blwyfi gael eu bedyddio, er na byddo gan blant na rhïeni, ffydd na duwioldeb. Efe a ordeiniodd na byddo i neb ond ei wir ddisgyblion dderbyn swper yr Arglwydd, mewn cof o'i gariad, a thystiolaeth o'u ffyddlondeb;[2] ond y mae yr eglwysi dan arch y Llywodraeth, yn goddef i bawb na's gellir profi trwy gyfraith eu bod yn hereticaidd neu anfoesol, i'w dderbyn, er y gallant fod yn wrthwynebwyr di gel i athrawiaeth yr efengyl, yn ymroddedig i bleserau bydol, yn byw heb grefydd deuluaidd, yn llawn o ysbryd ymbleidiaeth chwerw, a heb un arwydd o dduwioldeb yn eu bucheddau. Mae yr eglwys a'r byd wedi eu cydgymmysgu yn hollol wrth fwrdd yr Arglwydd. Fe all y chwareudai, y dawns ystafelloedd, a'r rhedeg-faesydd, arllwys eu holl gynnwys i gynnulleidfäoedd y cymmunwyr, i gael eu croesawi gan yr eglwysi, fel "aelodau o Grist, plant i Dduw, ac etifeddion teyrnas nefoedd." Os bydd i neb annuwiol "ymlusgo i mewn" i'r eglwysi yn amryfus,[3] dylai y cyfryw un gael ei droi allan. Erchir i'r eglwysi ochel pob cydgymdeithas â'r cyfryw rai; nid oes gymmundeb i fod rhwng goleuni a thywyllwch, cyssondeb rhwng Crist a Belial, na chyfeillach rhwng Cristionogion a bydolion;[4] ond ni wneir un sylw o'r gosodiadau hyn yn eglwysi y Sefydliad. Cydieuir credinwyr âg annghredinwyr, y cyfiawn â'r annghyfiawn, addolwyr Crist âg addolwyr Belial, yn eu holl weithrediadau eglwysig. Dynion o ysbryd ymbleidiol, y rhai a fwriant eu brodyr allan, dilynwyr ffyrnig Dïotrephes, y rhai gan dreisio cyfraith cariad mewn dallbleidiaeth ddi gywilydd, a benliniant ystlys yn ystlys â disgyblion Crist wrth yr allor, oddiwrth yr hon y mae y brodyr ffyddlonaf a mwyaf cyfrifol o'r ymneillduwyr yn cael eu cau allan yn anfoesgar. Fe all y cybydd, yr athrodwr, a hyd yn nod y rhai a gyfrifir yn gyffredinol yn butteiniaid a meddwon, gymeryd eu lle wrth fwrdd yr Arglwydd mor rwydd ag yn eu heisteddleoedd: ac y mae Cristionogion y Sefydliad yn cydsynio â hyn oll! Mae gweinidogion anwybodus, ac hyd yn nod annghrefyddol, yn parhau dan amddiffyniad y gyfraith, i gam ddarlunio yr Efengyl, a chamarwain y gynnulleidfa: a Christionogion y Sefydliad yn eu cefnogi!

1 Marc 16. 16. Act. 2. 38; a 8. 37; a 10. 47. 2 1 Cor. 11. 27—29; a 5. 11, 13. 2 Thes. 3. 6, 14. 3 Jud. 4. 4 2 Cor. 6. 14—18. Rhuf. 16. 17. Io. 15. 19. Gal. 5. 12. Dat. 2. 14, 15.

Un o nodau yr eglwysi boreuol oedd, eu bod yn cynnal gair y bywyd i'r anwybodus, yn llewyrchu fel goleuadau yn y byd;[1] oddiwrthynt hwy y seiniodd gair yr Arglwydd;[2] yr oedd eu ffydd yn gyhoeddus yn mysg y cenhedloedd,[3] ac yr oeddynt yn llythyrau Crist, a ddeallid ac a ddarllenid gan bob dyn.[4] Ond am Gristionogion yn Eglwysi y Sefydliad, tra y maent yn foddlawn os gallant sicrhau eu hiachawdwriaeth eu hunain, nid ydynt yn gwneyd nemmawr dros ereill. Y mae cynnulleidfäoedd goleuedig yn goddef plwyfi o'u hamgylch yn y rhai ni phregethir yr Efengyl, heb ymweled â hwy na chymeryd sylw o honynt, yn eu hanwybodaeth a'u hannuwioldeb. Ni's gwnant fwy o ymdrech i ddychwelyd pobl plwyfau ereill, na phe byddai y bobl hyny heb eneidiau ganddynt i'w hachub: ïe, ychydig iawn a wneir ganddynt tuag at ddychwelyd y rhai annuwiol o fewn eu plwyfau eu hunain. Wele, leied sydd yn neng mil plwyfau Lloegr, o Gristionogion y Sefydliad yn ymroddi i ymweled a'r tlodion a'u dysgu, i ddosparthu yr Ysgrythyrau, neu i ddyfod yn athrawon yn yr Ysgolion Sabbothol! Ac o'r rhai hyny ychydig, ïe, prin neb, yn ddynion o ddysg.

Ac megis y maent yn ddi ymdrech tuag at yr anwybodus a'r annychweledig, nid oes ganddynt ond ychydig o gymdeithas ysbrydol a'u gilydd. Y mae pob Cristionogion yn frodyr; ond ychydig o gydgymdeithas frawdol sydd iddynt hwy. Hwy a ddylent "ymannog y naill y llall i gariad a gweithredoedd da, heb esgeuluso eu cyd gynnulliad eu hunain;" ond nid ydynt hwy byth yn cyfarfod fel eglwysi, oddieithr eu bod yn cyfarfod a'r holl blwyf unwaith yn yr wythnos i ddarllen y gwasanaeth, a gwrando pregeth. Pa gyfarfodydd eglwysig a gynhelir ganddynt hwy er gwellâu eu dysgyblaeth, er gweddïo gyd a'u gilydd, er annog eu gilydd, er ymgynghori pa fodd i adfywio crefydd yn eu teuluoedd, ac yn yr eglwys, er llunio moddion diwygiad ysbrydol eu cymmydogaeth?

Y mae eglwyswyr Puseyaidd ac eglwyswyr efengylaidd, y rhai a ddaliant y syniadau mwyaf gwrthwynebol i'w gilydd, yn cyd dyfu o fewn y Sefydliad. Y naill blaid a gyhudda y llall o anffyddlondeb, toriad addunedau, a bradwriaeth i'r eglwys; a'r naill a haera y dylai y llall gael ei bwrw o'i chorlan Saif y ddwy yn dŷn dros uniawn gredaeth yr un crynhöad mawr o athrawiaethau; ac apelia y ddwy at y llyfr gweddi. Ychwanegir milwyr newyddion beunydd at y ddwy fyddin; ac y mae yr ymrestrwyr newyddion er gwrthwynebu eu gilydd yn ffyrnig, yn parhau i danysgrifiaw yr unrhyw erthyglau, ac i ddatgan eu cydsyniad â'r un llyfr gweddi. A rhaid, naill ai bod y llyfr gweddi yn hollol aneglur, neu rhaid bod un blaid yn anonest: eto, y mae y Cristionogion ydynt o fewn y Sefydliad, wedi rhwymo eu traed a'u dwylaw gan y Llywodraeth, yn sefyll yn edrychwyr mud a digyffro ar y gynhen.

1 Phil. 2. 15, 16. 2 1 Thes. 1. 8. 3 Rhuf. 1. 8. 4 2 Cor. 3. 2, 3.

Maent yn aros yn ddigyffro er fod dewisolion annuwiol y noddwyr yn gallu ymwthio i'r pulpudau cenedlaethol; er bod gweinidogion wedi eu profi yn feius yn gallu cadw eu lle er gwaethaf beiad y cyffredin; er bod eu dysgyblaeth yn hollol ddi rym; er bod dynion annuwiol trwy rym hawl gyfreithiol yn dyfod at fwrdd yr Arglwydd; er fod canonau gwrth-Gristaidd yn cyhoeddi ymneillduwyr duwiol, yn ymbleidwyr ysgymmunedig; er nad yw y Sefydliad byth yn symmud camarferiad, yn diwygio cyfeiliornad, nac yn meddu unrhyw hunan lywodraethiad, ond ei bod wedi ei dyfarnu i analluogrwydd parhäol i fyned yn mlaen. Y mae y Llywodraeth wedi eu hysbeilio o'u hiawnderau, ni's gadawodd unrhyw swyddogaethau eglwysig iddynt.

Ond, yn wir, nid yw llawer o honynt yn chwennych unrhyw gyfnewidiad yn eu hamgylchiadau. Y mae y gyfundrefn o waseidd-dra i'r Llywodraeth, nid yn unig wedi dwyn eu rhyddid i weithredu oddiarnynt, ond eu bri ar hyny hefyd. Trwy hir syrthni, ac ymddidoliad oddiwrth eu gilydd, trwy ddylanwad y gweinidogion hyny, y rhai y mae eu helw a'u rhagorfreintiau yn gymmhlethedig a chefnogi y gyfundrefn fel y mae, trwy fath o arswyd gwladbleidiol rhag pob newyddiaeth, ofnir bod llawer o aelodau Eglwysi y Sefydliad, yn foddlon i'w rhwymau, yn osgoi grym yr Ysgrythyrau, yn arswydo rhag gwneyd ymchwiliad ëofn a rhydd i'w dyledswydd; ac felly yn cael eu temtio i gyfiawnhau yr hyn yr ofnent ei ddiwygio, ac yn mwyhau drygau ymneillduaeth, er gwneuthur eu cyfundrefn anamddiffynadwy eu hunain yn fwy goddefadwy.

Ar y cyfan, galarus ydyw cydmaru yr hyn a ddylai Eglwysi y Sefydliad fod, â'r hyn ydynt. Dylent fod yn gyfansoddedig o "saint a ffyddlon frodyr," dan arolygaeth gweinidogion galluog a ffyddlon. Dylent fod yn "halen y ddaear," a "goleuni y byd;" yn "llythyrau Crist, a ddeallir ac a ddarllenir gan bob dyn;" yn filwyr y gwirionedd, wedi ymddilladu mewn arfwisg Ddwyfol, ac yn ymdrech yn ddyfal yn mhlaid y ffydd; dylai pob aelod neillduedig fod yn efengylwr i'w gymmydogion, ac oll yn nghyd, ymdrechu i ddarostwng yr holl genedl i Grist.

Ond, y maent yn dŵr cymmysglyd o gredinwyr a rhai digred; yn goddef i estroniaid ar-osod ar yr eglwysi, luaws o weinidogion annuwiol, y rhai ydynt yn dwyn malldod ysbrydol arnynt, a gweinidogaeth pa rai er hyny a gefnogant. Maent wedi llwyr adael y ddisgyblaeth eglwysig ysgrythyrol, yr hon sydd hanfodol i burdeb a bywiogrwydd eglwysi Cristionogol. Nid ydynt yn gwneuthur braidd ddim i'r torfeydd heintus ydynt o'u hamgylch. Os yw y gweinidogion yn aml yn ymbleidiol a didoledig, felly y mae llawer o honynt hwythau. Maent yn cymdeithasu yn rhydd, wrth eu byrddau eu hunain ac wrth fwrdd yr Arglwydd, â'i elynion ef, oddiwrth y rhai y dylent ymneillduo; ac yn byw mewn ysgariad trwyadl o'r bron, oddiwrth ei ddilynwyr annghydffurfiol ef, â'r rhai y dylent ymuno. Ychydig o honynt sydd yn

efengylwyr i'r tlodion; ychydig sydd yn dysgu yn yr Ysgolion Sabbothol, ac o'r rhai hyny, ychydig iawn sydd yn ddynion o ddysg. Y maent yn gweled pentrefi mawrion o'u hamgylch yn suddedig mewn anwybodaeth ac anfoes, ac yn eu goddef i fyw a marw, heb eu dysgu na'u rhybuddio. Mae crefydd bersonol a theuluaidd yn gwywo. Ychydig o bennau teuluoedd sydd yn esponio yr Ysgrythyrau i'w plant a'u gweinidogion, ac yn gweddïo gyda hwy, oddieithr trwy ddarllen gweddïau o lyfr.

Wedi eu dwyn i fynu mewn modd mor ddigalon, y mae plant rhieni crefyddol yn aml yn troi allan yn fydolion trwyadl; a'r byd yn cryfhau ei fyddinoedd o'r rhai a ddylasent fod yn weinidogion y Gwaredwr. Prin y mae Cristionogion y Sefydliad yn gwneyd yr argraff lleiaf ar dyrfäoedd y dosparth gweithyddol, y myrddiynnau sydd yn ynfydu ar ol dillynwychedd, a byddin y bobl ddysgedig a gwyddorol, tra y mae anffyddiaeth dirgel ac ehang, yn gwneuthur anrhaith ddïattalfa yn eu plith. Dylai yr eglwysi yn y claiarineb Laodiceaidd yma edifarhau, cyfarfod i gyd-ymddiddan a chyd-ymgynghori; hwy a ddylent gyduno mewn gweddi daer am ddawn yr Ysbryd Glan, a dechreu llafurio am dröedigaeth pechaduriaid, a'u gwelliant ysbrydol hwy eu hunain. Ond, nid ydynt hwy byth yn cyfarfod fel eglwysi, oddieithr i fyned drwy y gwasanaeth Sabbothol; ni's meddant gymdeithasau brawdol, na gweddi gymdeithasol, na gweithredoedd o ymostyngiad, nac ymdrech am adfywiad ysbrydol.

Ac nid yw yn hawdd gweled, pa fodd y gellir cynnyrchu unrhyw welliant mawr dan yr Undeb. Y mae uchafiaeth Gwladwriaethol, a noddaeth ben-defigol, yn rhwymo y Sefydliad i barhau yn gorphoriaeth bydol.

Gan y rhaid i Lywodraeth gynnrychioliadol adlewyrchu priodoliaethau ei chynnrychioledig, cyhyd ag y byddo y rhan fwyaf o'r bobl yn fydol, rhaid i'r Llywodraeth fod felly hefyd; ac y mae Llywodraeth fydol, yn rhwym yn y cyffredin o gyfodi dewisedigion bydol i'r fainc esgobol; ac fe fydd i esgobion bydol ordeinio gwŷr ieuainc mor fydol a hwy eu hunain yn ddi-betrus. Trachefn, fel y mae y noddwyr y rhai ydynt wŷr mawr a goludog, yn debyg o fod, fel dosparth, yn fydolion, a bod yn rhaid i'r gweinidogion yn y cyffredin fod yn debyg i'r noddwyr gan y rhai y'u dewisir, mae yn rhaid i'r gweinidogion yn gyffredinol, fod yn fydolion; ac megis na all yr eglwysi yn gyffredinol, gyfodi mewn ysbrydolrwydd goruwch eu gweinidogion, rhaid i'r eglwysi fod yn fydol hefyd. Felly y mae esgobion bydol, a noddwyr bydol, yn debyg o sicrhau parhad o weinidogion bydol, ac eglwysi bydol trwy y tir.

---

### ADRAN V.—DYLANWAD YR UNDEB AR YMNEILLDUWYR.

Mae y Llywodraeth, trwy ddyrchafu un sect, yn rhwym o ddarostwng y lleill. Fe ddichon fod y goddefiad mwyaf trylwyr ar a gyd-saif âg unrhyw

Sefydliad, a gall ymneillduwyr gael dyfodfa at yr holl urddau a'r elw cyssylltiedig â swydd wladol; er hyny os bydd y Llywodraeth yn talu i weinidogion y Sefydliad yn unig, ac yn dyroddi arnynt urddau a ommeddir i ereill, y mae yn donio eu *sect* âg awdurdod, a thros hir amser, o leiaf, â rhagoriaeth nifer, yr hyn a ddarostynga bob sectau ereill yn gyfattebol, i esgeulusdra ac anmharch. Bydd i ddynion dillyn-falch yn mhob gwlad ymlynu wrth grefydd y Llywodraeth. Ni ddewisai yr un mursenydd fod yn Babydd yn St. Petersburg, yn Brotestant yn Madrid, neu yn Ymneillduwr yn Llundain. A byddai yr holl rai a berthynant i'r dospeirth uchelwych, hyd yn nod o bell, dan demtasiwn i gywilyddio o unrhyw *Sect* a gauwyd allan o ffafr y Llywodraeth. Yr effaith a bar y blaenoriaeth yma a ddyru y Llywodraeth i un blaid ar y llall, yw peri hunan-ddyrchafiad anweddus yn y blaid hono.

Yn yr Unol Daleithiau, lle y mae pob plaid yn gydradd yn wyneb y gyfraith, byddai yn annaturiol i un blaid siarad am y lleill fel eglwys-rwygwyr; ond pan y mae un blaid yn cael ei gwneyd yn grefydd sefydledig y Llywodraeth, gall ymgyfenwi fel "yr Eglwys" yn y wlad hono yn ebrwydd, a chyhoeddi ei hanathemau croch uwchben pob ymneillduwyr oddiwrthi, fel rhai yn ymddwyn mewn modd beius a rhyfygus. Felly, iaith y Sefydliad yn Lloegr, trwy ei chanonau, sydd fel y canlyn ;—

Canon 9 ;—*Awdwyr Sism yn Eglwys Loegr yn cael eu ceryddu.*— " Pwy bynnag yn ol hyn, a ymneillduont o gymmundeb y saint, megis y mae wedi ei gymeradwyo yn ol rheolau yr apostolion, yn Eglwys Loegr, ac a ymgorphoront mewn brawdoliaeth newydd, &c.,......bydded iddynt gael eu hysgymmuno *ipso facto.*"

Canon 10 :—"*Cefnogwyr Sismaticiaid yn Eglwys Loegr i'w ceryddu.* —Pwy bynnag ar ol hyn, a gadarnhaont y gall y gweinidogion a ommeddont law-nodi y ffurf a'r drefn o addoliad Duw yn Eglwys Loegr, a bennodir yn llyfr y cymmundeb, gyd â'u hymlynwyr, gymeryd arnynt eu hunain yr enw o eglwys arall, na's sefydlwyd trwy gyfraith, &c ,......bydded iddynt gael eu hysgymmuno."

Canon 11 : " Pwy bynnag ar ol hyn, a gadarnhäo, neu a ddalio, bod o fewn y deyrnas hon, gyfarfodydd, cymmanfäoedd, neu gynnulleidfäoedd ereill o ddeiliaid ganedig y brenin, heblaw y rhai a gynhelir ac a ganiatteir yn ol cyfreithiau y wlad hon, a allant yn gyfiawn eu galw eu hunain yn eglwysi gwirioneddol a chyfreithlon, bydded iddo gael ei ysgymmuno."

Canon 12 : " Pwy bynnag ar ol hyn, a gadarnhäo ei bod yn gyfreithlon i weinidogion neu ddynion lleygion, neu y naill o honynt, ymuno a gwneuthur rheolau, trefniadau, neu gyfansoddiadau mewn achosion eglwysig, heb awdurdod y brenin, ac a ymostyngont i gymeryd eu rheoli a'u llywodraethu ganddynt, bydded iddynt gael eu hysgymmuno *ipso facto.*" Yn ol y

canonau hyn a'u teitlau, gelwir ymneillduwyr yn eglwys-rwygwyr, neu sismaticiaid. Y mae y cyhuddiad yn annghywir. Y mae ymneillduwyr eglwys-rwygol, ac y mae Eglwyswyr eglwys-rwygol; ond nid yw ymneillduwyr fel y cyfryw yn eglwys-rwygol. Mae y gair *Schism* o'r gwreidd-air Groeg *schisma*, yn dynodi rhwyg, neu ymraniad yn mysg disgyblion Crist, y rhai fel un ddïadell, un frawdoliaeth, un corph, a ddylent fod yn un ;[1] a'r rhai a achosant yr ymraniad yma, ydynt sismaticiaid, neu eglwys-rwygwyr. Mae Sism neu ymraniad yn cyfodi mewn eglwys, trwy dymherau anfrawdol, pan fyddo ei haelodau yn ymrafaelio â'u gilydd ;[2] mae yn cyfodi pan fyddo rhyw aelodau o'r eglwysi yn dal cyfeiliornadau peryglus, yr hyn a fydd yn rhoddi y ffyddloniaid dan orfod i wrthdystio yn eu herbyn ;[3] y mae yn cyfodi pan fyddo rhyw aelodau yn gorfodi eu cyd-Gristionogion i ymneillduo oddiwrthynt drwy eu trosedd o orchymynion amlwg Duw ;[4] ac y mae yn cyfodi pan y mae unrhyw Gristionogion, ar unrhyw gyfrifon, yn gommedd cymdeithasu â'u cyd-Gristionogion, y rhai ydynt iach yn y ffydd, a duwiolfrydig yn eu hymarferiad.[5] Ond, pan fyddo Cristionogion mewn ysbryd brawdol yn dal athrawiaethau yr efengyl, ac yn ufuddhau i orchymynion Crist, nid ydynt yn sismaticiaid ; ac os bydd unrhyw sism yn cyfodi mewn canlyniad i'w ffyddlondeb, y rhai a wrthwynebant y gwirionedd, ac nid hwy, ydynt ei awdwyr.[6]

Yn ol y gwirioneddau eglur hyn, y mae y rhai a berthynant i'r Sefydliad yn fwy sismaticiaid nag yw yr ymneillduwyr. Mae yr ymneillduwyr yn sefyll dros weinidogaeth iachus, yn erbyn y crynswth o athrawiaeth gyfeiliornus a ollyngir i fewn i areithfäau y Sefydliad drwy noddaeth ; ond y mae yr Eglwyswyr yn cydnabod ac yn cynnal y gweinidogion cyfeiliornus. Mae ymneillduwyr yn arhoni awdurdod Crist, yn erbyn yr uchafiaeth Gwladwriaethol ; ond y mae Eglwyswyr yn cefnogi uchafiaeth gwladol ; dadleua yr ymneillduwyr dros ufudd-dod i gyfreithiau Crist, o barth gweinyddiad trefn eglwysig ; ond, y mae yr Eglwyswyr yn edrych dros hyny. A phan y byddo yr ymneillduwyr yn gwneuthur hyn mewn ysbryd brawdol, nid ydynt yn euog o sism, mwy nag yr ydoedd Paul, pan y gwrthwynebodd efe Pedr yn ei wyneb yn Antiochia.[7] Nid sefyll dros y gwirionedd, ond ei wrthsefyll sydd sism ; nid cyflawni cyfreithiau Crist, ond eu hanmharchu, sydd sism. Am hyny, yr ydwyf yn dywedyd drachefn, fod Eglwyswyr o ysbryd brawdgarol yn fwy sismaticaidd nag ymneillduwyr o ysbryd brawdgarol. Yn mhellach, gan na's gorchymynodd Crist erioed yn yr ysgrythyr, ac na's cefnogodd drwy

1 Ioan 10. 16. Matt. 23. 8. Eph. 3. 15. Heb. 2. 11, 12. Eph. 1. 22, 23; a 4. 1, 5. Ioan 17. 20, 21. Rhuf. 14. 1; a 15. 5—7. 1 Cor. 1. 10. 2 Rhuf. 16. 17. 1 Cor. 1. 10; a 2. 3; a 11. 18, 19; a 12. 25. Gal. 5. 23. 3 Gal. 2. 11—13. 2 Ioan 9—11. 4 2 Thess. 3. 6—14. 5 Gal. 2. 12. Jud. 19. 6 Matt. 10. 32—38. Rhuf. 16. 17. Gal. 5. 1 2 Thess. 2. 15. 7 Gal. 2. 11.

unrhyw flaen-ddrych, syppyniad lluaws o eglwysi yn un corphoriaeth eglwysig, ac na's caniattaodd Undeb y cyfryw gorphoriaeth â'r Wladwriaeth; nid yw ymnellduad oddiwrth y cymdeithasau hyn, tra yn coledd cariad at y rhai a gydsyniant â hwynt, yn un rhwygiad yn eglwys Crist. Ac os bydd i unrhyw rwyg gyfodi o'u hymneillduaeth hwy, nid ei awdwyr yw y rhai a wrthodant yr athrawiaethau a'r ymarferiadau y gwyddant eu bod yn ngwrthwyneb i ewyllys Crist; ond y rhai a wnant gydsyniad â'r athrawiaethau a'r ymarferiadau hyn yn ammod cymmundeb â hwy.

Eto, pa mor ddiystyr a thwyllodrus bynnag y gall fod y cyhuddiad hwn yn erbyn yr ymneillduwyr, y mae yn cael ei ddwyn yn eu herbyn gan y Sefydliad ei hunan, canys fe gymeradwywyd y canonau hyn gan gymmanfa o archesgobaeth Caergaint, yn 1603, cawsant gymeradwyaeth y pennadur, ac ar-osodwyd hwynt mewn grym trwy awdurdod y Goron, ar daleithiau Caergaint a Chaerefrog; ac y mae yn rhaid i bob esgob, pan yr appelier atto, eu dodi mewn gweithrediad; a rhaid i bob gweinidog, pan y'i rhybuddir i hyny gan yr esgob, ymostwng iddynt; hwynt-hwy ydynt y cyfreithiau eglwysig a gyfrwymant yr offeiriaid, ac fe wnaeth Eglwys Loegr y cyfreithiau canlynol mewn perthynas iddynt;—"Pwy bynnag, ar ol hyn, a haero, nad yw cymmanfa sanctaidd y genedl hon, a ymgynnullodd yn enw Crist, a thrwy awdurdod y brenin, yn Wir Eglwys Loegr trwy gynnrychioliad, ysgymmuner ef;" "Pwy bynnag a haero nad oes unrhyw ddyn, o'r offeiriaid neu o'r lleygion, nad oeddynt eu hunain yn gynnulledig yn y gymmanfa sanctaidd ddywededig, i fod yn ddarostyngedig i'w phenderfyniadau, &c.,... ...bydded ysgymmunedig."[1] Gan hyny, y mae pob offeiriad nad addefo awdurdod y canonau hyn, yn ddarostyngedig i ysgymmundod.

Heb gymmorth yr Undeb, ni buasai y bygythiadau canonaidd hyn namyn testynau dirmyg; ond pan y'u cyhoeddir mewn modd rhwysgfawr, gan gynghorfa o'r offeiriaid sydd yn nhâl y Llywodraeth, fel athrawiaeth yr eglwys wladwriaethol, y maent yn arddodi y gwarth-nod o sism ar ymneillduwyr yn meddyliau myrddiynau. Dan loches y canonau hyn y mae esgobion yn eu harchiadau yn eu cyhoeddi yn sismaticiaid, a'r offeiriaid yn adseinio hyny o'r areithfäau; ac y mae, hyd yn nod dynion rhyddfrydig yn y Sefydliad, yn ofni gwadu hyny yn gyhoeddus.

Trwy gynnorthwy yr Undeb, y mae y Sefydliad gan ymgyfodi uwchlaw pob cyd-ymryson yn gallu edrych i lawr yn drahaus ar bob eglwysi ereill, fel sectariaid. "Nid Eglwys Wladol yn unig yw hon," medd esgob canmoladwy Calcutta; "*ond crefydd Crist ein Harglwydd*, megis y'i sefydlwyd trwy ei ragluniaeth a'i ras yn Mrydain Fawr, yn yr ail ganrif......*y grefydd Gristionogol*, wedi ei sefydlu mewn doethineb a thynerwch gan Lywodraeth Gristionogol. Llawer llai y gellir dywedyd am ein heglwys ei bod yn gorph

1 *Canons* 139, 140.

sectaidd, fel y mynai rhai ei galw; hyny yw, nifer bach o Gristionogion a'u torasant eu hunain ymaith oddiwrth y corph o Gristionogion trwy ryw hynodion; ond eglwys genedlaethol ein Llywodraeth, pendefigion a phobl ein gwlad grefyddol."[1]

Mae yr athrawiaeth hon, a ffynhonodd yn yr Undeb, ac a gynhaliwyd i fynu ganddo, heblaw ei bod yn annghyfiawn i'r eithaf tuag at yr ymneillduwyr, yn achosi llawer o gamwri iddynt.

Mae dynion a fagwyd o'u hieuenctyd i edrych ar ymneillduwyr fel sismaticiaid, y rhai y dylent, yn ol cynghor yr apostol, eu gochel, (Rhuf. 16. 17), yn ofni gwrando yr Efengyl oddiar eu gwefusau. Pe byddai i weinidog ymneillduedig agoryd Capel er cynnal addoliad mewn unrhyw bentref mawr, lle y byddai periglor moesol a charedig, athrawiaeth yr hwn a fyddo yn gyfeiliornus, a buchedd yr hwn a fyddo yn ol helynt y byd hwn; ychydig o'r pentrefwyr a feiddient fyned i wrando y sismatic; ond, pe buasai y ddau weinidog yn gydradd yn ngwyneb y gyfraith, fel mewn pentref o'r Unol Daleithiau, elsai y lluaws i wrando yr Efengyl; ond yma, lle mae y Llywodraeth yn cynnal y gweinidog bydol, ac yn cuchio ar yr efengylwr, mae ei athrawiaeth yn cael ei drwg-dybied, a'i berson ei ddirmygu, fel na's gall gasglu cynnulleidfa. Y cyffelyb ysbryd a fu hyd yma yn attalfa i lafur efengylaidd ymneillduwyr yn mhob dinas o'r deyrnas.

Ond, gan y gall aelodau o'r Sefydliad fyned i wrando gweinidog ymneillduedig y dyddiau hyn, heb fod dan orfod i dalu rhyw ddirwy trwm iawn i gymdeithas o herwydd cymeryd y fath ryddid, y mae rhai o'r dospeirth uchaf, y rhai y mae eu duwioldeb wedi myned yn drech na'u rhagfarn, yn dïanc i gapel weithiau, lle y byddo gweinidog ymneillduedig galluog, yn egluro yr Efengyl yn y fath fodd ag i ehangu eu golygiadau, a thwymno eu serchiadau yn llawer mwy nag y gwna gweinidogion cymmydogaethol y Sefydliad. Ond ni welir un byth o'r cyfryw Eglwyswyr duwiol a rhyddgarol, yn cyd-uno â'u brodyr annghydffurfiol wrth fwrdd yr Arglwydd. Hwy a wrandawyant ar ymneillduwyr hyawdl a galluog; ond byddai eu gwaith yn myned yn ymneillduwyr eu hunain mor dramgwyddedig i'r dosparth â'r rhai y cyfeillachent yn gyffredin, ac a'u gosodai yn nod i'r fath ystorm o warthrudd-iad, fel nad oes un o fil yn meddu digon o wroldeb i ddyfod i'r penderfyniad hyny; tra y mae yr ychydig ydynt yn gwneuthur, yn cael eu dylunio yn gyffredin, fel dynion llawn o ryw afreoleiddrwydd eithafol a beius iawn.

Y mae dylanwadau cyffelyb yn dylanwadu ar ymneillduwyr goludog eu hunain. Pan fyddo meddiannu cyfoeth mawr wedi agoryd y drws iddynt hwy, ac yn fwy fyth i'w plant, i gymdeithas y mawrion; eu hymneillduaeth yw y prif attalfa, sydd raid ei symmud o'r ffordd. Mae y bendefigaeth bron

[1] *Farewell Charge*, May 1825, pp. 22, 23.

yn llwyr wedi ymgyssegru at y Sefydliad. Yn anymddibynol ar ystyriaethau gwlad-bleidiol amlwg, y mae y trefniant a fedda ffafr y Goron, a gwenau y Llywodraeth, a'r hon sydd yn cynnwys o'i mewn breladiaid, arglwyddiaethau, a phalasau, yn eu had-dynu yn llawer mwy na Henaduriaeth salwedd; ac nag Annibyniaeth fwy gwerinyddiaethol. Gan hyny, yn gymmaint a bod yn rhaid i'r sawl a amcanont gael derbyniad i'r gymdeithas gaeth a phendefigaidd yma, adael y gwrengolder hwnw o'u hol, y mae meibion ymneillduwyr cyfoethog yn aml yn ymwrthod â chymmundeb eu tadau, gan ddirmygu ymneillduaeth, a thrwy gefnogi yr Undeb yn zelog, y maent yn profi eu hawl i ymddysgleirio yn y cylchoedd pendefigaidd hyny, o'r rhai y mae annghydffurfiaeth yn cael ei gau allan.

Efallai nad yw yr ychwanegiad parhaus a wneir at rengau ymneillduaeth, o fysg y tlodion, trwy bregethu ffyddlon, a'r golled barhaus o blant yr aelodau goludog, yn meddu dylanwad anffafrol i ysbrydolrwydd eglwysi ymneillduedig; ond ar yr un pryd, rhaid eu bod yn cael eu hafrwyddo lawer iawn yn eu gweithrediadau trwy y ffaith o fod y cyfoeth a ddefnyddiai eu rhieni unwaith i gynnal eu gweinidogion, eu hysgolion, eu cenhadaethau, a'u haelodau tlottaf, yn myned drosodd yn barhaus, trwy wrthgiliad y meibion, i gynnorthwyo y rhai a'u cyfrifant hwy fel sismaticiaid niweidiol.

Wedi eu tlodi fel hyn trwy ddylanwad uniongyrchol y Sefydliad, fe'u trethir i'w gynnal drachefn. Gan mai y Wladwriaeth yw perchenog y meddiannau eglwysig hyny â'r rhai y mae yn cynnal gweinidogion y Sefydliad er mwyn y gwasanaeth a ddychwelir ganddynt hwythau, y mae ganddi hawl i gymeryd y meddiannau hyny i fynu pan y gwelo bod y cymhwysiad yma o honynt yn annysgrythyrol a niweidiol. Pan ganfu y Llywodraeth bod gweinidogaeth yr offeiriaid Pabaidd yn niweidiol i'r wlad, hi a drosglwyddodd ei thrysorau eglwysig i weinidogion Protestanaidd, yn eithaf cyfiawn; ac mor gyfiawn y gallai yn awr eu trosglwyddo i ysgolfeistri, neu eu defnyddio i unrhyw ddiben daionus arall, pan y canfyddo fod y defnyddiad presenol o honynt yn niweidiol.[1] Dan yr amgylchiadau hyn, y mae cymhwysiad o'r ardrethion eglwysig at gynnal gweinidogion un sect, yn amddifadu ymneillduwyr o'u rhan o'r budd y gallai pawb ei dderbyn, pe y'u cymhwysid i amcanion cyffredinol. Ond, y mae trethi eglwys yn disgyn arnynt yn fwy uniongyrchol fyth; a chan eu bod yn credu fod eglwysi y Sefydliad yn cael

1 Yma, ac yn mhob man arall yr ydwyf yn cyfyngu hawl y Llywodraeth i eiddo a ddyroddwyd gan y Llywodraeth. Ni's gall "adgymeryd," yr hyn ni fenthyciodd erioed. Nid yw gwaddoliadau a roddir gan unigolion i eglwysi neu fywiolaethau, yn eiddo y Llywodraeth, mwy na gwaddoliadau cyssylltiedig â chapeli ymneillduol. Gyda golwg ar y cyfryw eiddo, ni's medd y Llywodraeth ddim i'w wneyd ond edrych ar fod ewyllys y cyfranydd yn cael ei gwblhau yn gyfreithiol; ac nid yw y cyfryw berchenogaeth, gan na's dyru i'r Llywodraeth un hawl i ymyraeth mewn pethau ysbrydol, yn cyfansoddi unrhyw Undeb eglwysig rhwng yr Eglwys a'r Llywodraeth.

eu nychu yn hyttrach na'u lleshau trwy noddaeth y Llywodraeth, ac y byddai i attaliad y cyfryw noddaeth arwain i adfywiad crefyddol drwy y deyrnas, rhaid eu bod yn ei deimlo yn galed bod raid iddynt hwy gyfrannu o'u diwydrwydd er cynnal Undeb, yr hwn y gwyddant ei fod yn groes i ewyllys Crist, ac yn niweidiol i lesion pennaf y genedl.

Am geisio distrywio yr Undeb hwn y'u gwarth-nodir fel rhai gwlad-bleidiol; ond, pa fodd y gallant ddattod trefniant gwladyddol oddieithr trwy foddion gwladyddol? Pa fodd y gallant ddwyn y Llywodraeth i wneuthur deddfau uniawn ar hyn, oddieithr trwy gyfarfodydd a gofynebau? Y mae natur wleidiadol yr Undeb yn gorfodi y rhai a geisiant ei symmud i ymwneyd a moddion gwleidiadol. Ac os yw Pabyddion ac anffyddiaid hefyd yn teimlo y gormes, ac yn ceisio ei symmud o herwydd rhyw resymau o'r eiddynt eu hunain, nid yw yn gyfiawnach gyhuddo ymneillduwyr efengylaidd o ymfrawdoli â hwy yn yr ymdrechion hyn, o herwydd eu bod yn pleidleisio ac yn gweithredu ar yr un ochr yn y peth hwn, nag a fyddai cyhuddo Eglwyswyr efengylaidd o ymfrawdoli â chwiredwyr ac oferwyr, am fod eu pleidleisiau yn gymmysgedig â phleidleisiau rhai o'r cyfryw nodweddiad yn mhlaid y Sefydliad. Ac os ydyw yr angenrheidrwydd am weithrediad gwleidyddol, i ysgaru yr Eglwys oddiwrth y Wladwriaeth, yn arwain rhai ymneillduwyr i suddo yn ddyfnach nag y byddai dda iddynt i ryw bynciau gwleidiadol ereill, y mae hyny yn rheswm newydd pa ham y dylent ddistrywio yr Undeb can gynted ag y byddo modd, er mwyn tynu ymaith yr achlysur yma i ruthro i ymrysonfa gwlad-bleidiaeth. Ond, i ba fesur bynnag y gall fod ymneillduwyr yn troseddu trwy eu cyd-gymdeithas â gwleidyddion annghrefyddol, neu trwy chwerwder eu hysbryd, rhaid i Gristionogion Eglwysig gyfrannogi o'u heuogrwydd, am mai hwynt-hwy a'u gyrasant i'r naill a'r llall. Ar symmudiad yr Undeb darfyddai y ddau, ac fe fyddai i'r gwahanol enwadau yn Lloegr, fel yn Unol Daleithiau America, gan roddi heibio amcanion gwleidiadol, a chynnen ymblaid boethlyd, gydweithredu yn dangnefeddus, er cynnydd mawr yr eglwysi, a chysur y wlad yn gyffredinol.

Gadewch i ni yn awr adolygu y drygau y mae yr Undeb yn ei achosi i'r ymneillduwyr. Trwy ddyrchafu un enwad cyd-ymgeisiol, y mae o angenrheidrwydd yn llethu y lleill, a thrwy eu gwarth-nodi hwy fel sismaticiaid fe'u cauir allan o gymdeithas a chyd-ymdeimlad eu cyd-Gristionogion. Y mae yn rhwystro eu hymdrechion i ddysgu yr anwybodus; y mae yn denu plant eu haelodau cyfoethocaf i'w gadael, ac felly yn tlodi eu gweinidogion, eu hysgolion, eu hathrofäau, a'u cenhadaethau; y mae yn eu hamddifadu o'u cyfran o fudd oddiwrth feddiannau eglwysig y genedl; y mae yn eu gorfodi trwy y dreth eglwys i gynnal trefniant eglwysig a gollfarnant; a thrwy

eu rhodli dan orfod i geisio ymwared gwleidiadol oddiwrth gamwri gwleidiadol, y mae yn eu gwneyd yn ddarostyngedig i gael eu cablu gan eu cyd-Gristionogion, fel gwlad-bleidwyr terfysglyd, yn haeddu y cerydd llymaf.

---

## PENNOD II.

### DYLANWAD YR UNDEB AR BETHAU.

Awn rhagom yn awr i ystyried dylanwad yr Undeb ar ffyniant gwir grefydd yn ein gwlad. Y mae ei egwyddorion fel y gwelsom yn llygredig ac annysgrythyrol, ei ddylanwad ar amryfal ddospeirth pwysig o ddynion yn adwythig; ac yn olaf, y mae yn niweidio amryw o sefydliadau mawrion ein gwlad, mewn cyssylltiad â chrefydd. Wrth fyned rhagom yn ein hymchwil, nyni a ganfyddwn nad yw yn cynnyddu nemmawr ar nifer gweinidogion Cristionogol, ei fod yn lluddias eu dosparthiad doeth trwy y wlad, bod ei adnoddion yn cael eu cam-arfer, ei fod yn cynnal llygredigaeth mewn athrawiaeth; ei fod wedi andwyo disgyblaeth eglwysig, ei fod yn attal efengyleiddiad y wlad, ei fod yn parhau ymraniadau yn yr eglwysi, ei fod yn gwneyd diwygiad y Sefydliad yn anmhossibl, ei fod yn lluddias cynnydd crefydd, ei ei fod yn dyrysu y Llywodraeth, a'i fod yn cyfnerthu holl Sefydliadau Pabaidd Ewrop.

---

#### ADRAN I.—DYLANWAD YR UNDEB AR NIFER Y GWEINIDOGION.

Dywedwyd a meddyliwyd llawer gormod am *luosogiad* gweinidogion *yn unig.* Gweinidogion drygionus ydynt y gelynion penaf i achos Crist; a thra yn proffesu tywys dynion i fywyd tragywyddol, y maent yn eu harwain yn hyttrach trwy eu pregethu a'u siampl, i ddinystr tragywyddol. Pe gwnelai y Llywodraeth ei pheriglorïaid a'i hebrwyaid mor lluosog a'r mynneich yn y bedwaredd ganrif ar ddeg a'r bymthegfed ganrif, os dynion digrefydd a fyddent, ni's gwnaent namyn ychwanegu annghrefydd y wlad. Ni ennillir dim i achos crefydd trwy luosogi gweinidogion annychweledig. Pa lesäad ydoedd i'r Iuddewon cyn dinystr eu cenedl, bod yr athrawon crefyddol hyny yn cael eu lluosogi yn eu plith, am y rhai y dywedai Crist,—"*Gwae chwi, ysgrifenyddion a Phariseaid, ragrithwyr! canys yr ydych yn cau teyrnas nefoedd o flaen dynion: canys chwi nid ydych yn myned i fewn, a'r rhai sydd yn myned i mewn, ni's gadewch i fyned i mewn...... Gwae chwi, ysgrifenyddion a Phariseaid, ragrithwyr! canys amgylchu yr ydych y môr a'r tir i wneuthur un proselyt; ac wedi ei gwneler, yr*

*ydych yn ei wneuthur ef yn fab uffern, yn ddau mwy na chwi eich hunain.*1 Mae yn wir eu bod hwy yn lluosogi defodau crefyddol dros yr holl dir; ond barn Duw am danynt ydoedd, "*Yn ofer y'm hanrhydeddant i, gan ddysgu gorchymynion dynion yn ddysgeidiaeth.*" A chyhoeddai ein Harglwydd eu diwedd hwy a'u dysgyblion, gan ddywedyd, "*Gadewch iddynt: tywysogion deillion i'r deillion ydynt: ac os y dall a dywys y dall, y ddau a syrthiant yn y ffos.*"2

Ni's gall periglorиaid ffraeth-falch, dallbleidiol, bydol, helwyr, dawnswyr, ariangar, drygnawsaidd, anwybodus, hunan-foethus, di ddaioni, y rhai ni's galwyd i'r weinidogaeth gan yr Ysbryd Glan, nad arddelwir fel gweinidogion gan Grist, y rhai ydynt yn ddieithr i'r efengyl, ac yn gymmaint gelynion i wir grefydd ag ydoedd Paul pan yr oedd efe ar yr un pryd, yn Pharisead manylaidd, ac yn erlidiwr creulon, namyn camddarlunio crefydd, sicrhau paräad marwolaeth ysbrydol yn yr eglwysi, a gwneyd yr Efengyl yn gas i'r lleill o'r byd. Y maent yn caledu y digrefydd yn ei annuwioldeb; yn peri i laweroedd feddwl am bob crefydd, mai rhagrith ydyw; maent yn gwrthwynebu disgyblion Crist; ac y maent trwy ddefod grefyddol lednais, yn gorchuddio angenoctyd ysbrydol y wlad oddiwrth y rhai oni buasai hyny a ymdrechasent fwy er ei symmud ymaith. Pe na's goddefid i neb annghrefyddol ddwyn eu plant i'w bedyddio; pe na's gollyngid neb o'r fath at fwrdd yr Arglwydd; neu pe na's gallai y cyfryw ddyfod yn weinidogion, pe torrid ymaith o'r eglwysi bob gweinidogion a chymmunwyr annuwiol, yn ol y gorchymyn Dwyfol,3 byddai eglwysi Crist yn y wlad hon mewn llawer gwell amgylchiadau i bregethu Crist i'r byd, er y dichon y lleiheid llawer ar nifer eu haelodau. Gan hyny, tra yn adolygu yr Undeb, bydded i ni ymofyn pa fath yw nodweddiad y cyfryw weinidogion, yn hyttrach na'u rhif. Eto, nyni a ddylem ystyried eu nifer hefyd. Os ydyw Eglwysi y Sefydliad wedi aberthu eu rhyddid, eu purdeb, eu zel, eu disgyblaeth, a'u cyfundeb âg eglwysi ereill, er mwyn eu Hundeb a'r Llywodraeth, pa faint a ennillasant hwy yn nifer eu gweinidogion trwy yr Undeb?

Holl nifer y bywiolaethau ydynt 10,533;4 nifer y curadiaid ydynt 5,230;5 ac fel hyn y mae nifer yr offeiriaid gweinidogaethol ryw faint uwchlaw 15,763. Mae Mr. Horsman, yn cyfrif holl nifer y clerigwyr yn Lloegr a Chymru, gan gynnwys amryfal urddasolion a phenau colegau, yn 16,010. Ond, gan fod 3087 o'r rhai hyn heb ddyledswyddau i'w cyflawni ganddynt, fe leiheir nifer y clerigwyr gweithiol i 12,923, ar gyfer 10,533 o fywiolaethau, y rhai a wnant i fynu 11,077 o blwyfau. Gan fod llawer o'r bywiolaethau hyn wedi eu cynnyrchu trwy zel bersonol, a llawer o'r curadiaid yn

1 Matt. 23. 13, 15. 2 Matt. 15. 9, 14. 3 1 Cor. 5. 11, 13. 4 *M'Culloch* Vol. 2. p. 396. 5 *Ibid*, p. 412.

cael eu cynnal gan y "Gymdeithas er cynnorthwy Gweinidogaethol," y "Gymdeithas Ged Guradol," a ffynhonellau gwirfoddol ereill, nid yw yr holl glerigwyr gweithiol yn cael eu darbodaeth o'r Llywodraeth. Ond, gadewch i ni gymeryd yn ganiattâol fod y Llywodraeth yn darbod 12,923 o weinidogion i 16,000,000 o boblogaeth; gan roddi un gweinidog i bob 1238 o eneidiau. Y mae hyn yn gyflenwad mawr, a phe gellid meddwl fod yr holl weinidogion hyn, neu, hyd yn nod eu hanner, yn ddynion dychweledig, fe barai hyny i Gristionogion oddef llawer iawn cyn y cynnygient leihau eu nifer.

Ond, och! y mae genym ry fach o sail i'r dybiaeth hono, pa un bynnag a wnelom a'i ystyried nodweddiad y gwŷr ieuainc yn y Prif athrofeydd, y noddwyr a'u detholant, y rhesymau am ba rai y mae cynnifer yn "myned i'r eglwys," nifer Pulpudau a gynnygir at wasanaeth "Cymdeithas Genhadol yr Eglwys," nifer y cyfroddwyr clerigawl at "Gymdeithas y Beiblau," neu y cyfartaledd o'r eglwyswyr a elwir yn efengylaidd, mewn unrhyw ardal, o unrhyw wlad o'r bron. Ond, pa beth bynnag a all fod eu teilyngdod, ni byddai i ddattodiad yr Undeb leihau eu nifer yn gymmaint ag y tybia llawer, yn anwybodus.

Er ein galluogi i ffurfio barn gywir am hyn, dylem ystyried pa beth a wnaed eisoes gan rydd eglwysi.

Dengys y daflen ganlynol y nifer o eglwysi a berthynent i'r tri Enwad efengylaidd yn 1831, er pa amser yr ychwanegasant yn fawr at eu rhif:—

***Nifer Cynnulleidfäoedd amrywiol Enwadau yn Lloegr a Chymru, yn* 1831.**[1]

| Lle. | Poblogaeth. | Eglwys-wyr. | Anni-byn-wyr. | Bed-ydd-wyr. | Trefn-yddion Wes-leyaidd | Trefn-yddion Calfin-aidd. | Trefn-yddion ereill. | Cen-hadaeth Gar-trefol- | Y cyfan o Ym-neilldu-wyr. |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llundain a Middlesex, | 1,568,300 | 246 | 103 | 65 | 59 | 22 | 7 | ...... | 256 |
| Swydd Gaerlleon,.... | 334,391 | 142 | 31 | 7 | 48 | 8 | 30 | ...... | 124 |
| Cernyw, ............ | 302,440 | 221 | 31 | 16 | 219 | 3 | 39 | ...... | 308 |
| Dyfnaint, .......... | 494,478 | 490 | 63 | 44 | 93 | 5 | 18 | 28 | 251 |
| Durham, ............ | 253,910 | 112 | 14 | 10 | 72 | ...... | 28 | 37 | 161 |
| Swydd Gaerhirfryn, .. | 1,336,854 | 292 | 100 | 40 | 154 | 9 | 80 | 66 | 449 |
| Swydd Gaerefrog, .... | 1,371,359 | 760 | 170 | 63 | 532 | 1 | 147 | 10 | 923 |
| Gogledd a Deheubarth Cymru, .......... | 806,182 | 998 | 374 | 159 | 214 | 300 | 15 | ...... | 1,062 |
| Lloegr a Chymru .... | 13,897.187 | 11,825 | 1,840 | 1,201 | 2,818 | 427 | 666 | 453 | 7,405 |

1 Tynwyd allan o Daflen Cynnulleidfäoedd Lloegr a Chymru, Ystadegau *M'Culloch*, vol. 2, p. 415.

Ond, er y flwyddyn 1831, y mae y rhydd eglwysi efengylaidd wedi lluosogi yn ddirfawr. A ganlyn ydyw nifer capelydd yr amryfal enwadau efengylaidd, megis yr adroddir o'r ffynhonellau cywiraf, yn Almanac yr Ymneillduwyr Protestanaidd am 1849.—

| | | | |
|---|---|---|---|
| Annibynwyr | Lloegr | 1920 | 2570 |
| | Cymru | 650 | |
| Bedyddwyr | Lloegr | 1450 | 1825 |
| | Cymru | 375 | |
| Trefnyddion Wesleyaidd | Lloegr | 5429 | 5917 |
| | Cymru | 488 | |
| Trefnyddion Calfinaidd Cymreig, tuag | | | 800 |
| Enwadau llai | | | 159 |
| Y cyfan | | | 11,271 [1] |

Er hyfforddi y cynnulleidfäoedd a gyfarfyddant yn yr un fil ar ddeg Capeli hyn, y mae y nifer canlynol o weinidogion :—

| | | | |
|---|---|---|---|
| Annibynwyr | Lloegr | 1391 | 1696 [2] |
| | Cymru | 305 | |
| Bedyddwyr | Lloegr | 1093 | 1331 [3] |
| | Cymru | 238 | |
| Y Cyfundeb Wesleyaidd | | | 972 [4] |
| Wesleyaid ereill | | | 660 [5] |
| Enwadau llai | | | 159 [6] |
| Trefnyddion Calfinaidd Cymreig | | | 500 [7] |
| Y cyfan | | | 5318 |

1 Almanac, t.d. 58. Yr "enwadau llai" ydynt, yr Eglwys Henadurol yn Lloegr, 77; Cymmanfa yr Henaduriaid Cyfunol, 30. Capeli yr Arglwyddes Huntingdon, 30; y Morafiaid, 22.

2 Y Blwydd-lyfr Cynnulleidfäol am 1848, lle y cair mynag o'u henwau, a'r eglwysi y gweinyddant iddynt. Yr holl nifer yn Lloegr, yw, 1514, o'r rhai y mae 123 heb ofal eglwysig.

3 *Baptist Manual, for* 1848.

4 Nifer y gweinidogion yn Mrydain Fawr, yw 1195, o ba rai y mae 36 yn yr Alban, a 187 yn oedranus, analluog, &c. *Min.* p. 99. *Alm.* p. 58.

5 Almanac, pp. 51—53.—Heblaw hyn, y mae tua 12,000 o bregethwyr cynnorthwyol.

6 Rhaid bod nifer eu Gweinidogion tua'r un faint a nifer eu capeli.

7 Tua 450 wedi eu derbyn yn aelodau o'r Gymdeithasfa, ac oddeutu hanner cant ereill yn pregethu yn rheolaidd; ond heb eu derbyn etto yn aelodau o'r Gymdeithasfa.

Yn y flwyddyn 1838, darluniai Mr. Conder y nifer a wrandawent gyda'r enwadau hyn, uwchlaw 3,000,000, yn cynnrychioli poblogaeth o 4,500,000, mewn cyssylltiad â'u Capeli.[1] Mae y cynnulleidfäoedd wedi lluosogi yn ddirfawr er y pryd hyny. Gan hyny, nyni a allwn yn ddiogel gasglu, bod erbyn hyn, 4,000,000 o addolwyr mewn cyssylltiad â hwy: felly, y mae y 4,000,000 addolwyr hyn yn cynnal 5318 o weinidogion y gair, sef tuag un am bob 752 o addolwyr.

Yn y flwyddyn 1837, darluniai Mr. M'Culloch nifer y cynnulleidfäoedd Protestanaidd yn yr Alban fel y y canlyn:—

*Crynodeb o Gynnulleidfäoedd yr Alban,* 1837.

| | | |
|---|---|---|
| Yr Eglwys Sefydledig, | | 1023 |
| Ymneillduwyr Henaduriaethol, | 541 | |
| Esgobyddion Albanaidd, | 72 | |
| Esgobyddion Seis'nig, | 4 | |
| Annibynwyr, | 88 | |
| Sectau ereill, | 40 | |
| Y cyfan na pherthynent i'r Sefydliad | | 745 |
| Mwyrif y Sefydliad, | | 278 [2] |

Ond, y mae nifer y rhydd eglwysi wedi cynnyddu yn ddirfawr er y pryd hyny. Cefais y Crynodeb a ganlyn gan gyfaill yn yr Alban yn ddiweddar:—

*Crynodeb o Gynnulleidfäoedd yr Alban,* 1847.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gweinidogion | y Sefydliad | | 1105 |
| ,, | yr Eglwys Rydd | 625 | |
| ,, | y Gymmanfa Gymdeithasol | 393 | |
| ,, | yr Ymneillduwyr Gwreiddiol | 34 | |
| ,, | y Gymmanfa Gynnorthwyol | 115 | |
| ,, | y Cameroniaid | 30 | |
| ,, | y Cynnulleidfäwyr | 75 | |
| ,, | yr Esgobyddion Albanaidd | 101 | |
| ,, | yr Esgobyddion Seis'nig | 9 | |
| ,, | y Bedyddwyr | 40 | |
| ,, | Eglwysi Rhydd | | 1422 |

Y mae nifer cynnulleidfaoedd yr Eglwys Rydd yn bresenol wedi cyrhaedd tuag 847;[3] a nifer eu Gweinidogion rheolaidd uwchlaw 700. Gan hyny,

1 *Conder's View of all Religious*, p. 421. 2 *M'Culloch,* Vol. 2. p. 430. 3 *Missionary Record of the Free Church, June,* 1848

rhaid i ni chwanegu at y crynodeb blaenorol, 75 o Weinidogion yr Eglwys Rydd, yr hyn a wna holl nifer Gweinidogion Eglwysi Rhydd yn yr Alban, yn 1497; a mwyrif Gweinidogion yr Eglwysi Rhydd, ar Weinidogion y Sefydliad, yn 392. Felly y mae zel bersonol yn yr Alban, yn cynnal un ran o bedair yn ychwaneg o Weinidogion, nag a gynhelir gan y Llywodraeth. Y boblogaeth yno yw 2,628,957, ac os cyfrifwn yr aelodau a'r ymlynwyr wrth y rhydd eglwysi yn hanner y boblogaeth, sef 1,314,478, yna y mae zel bersonol yn yr Alban, yn cynnal 1497, neu 1500 o Weinidogion, am 1,314,478 o'r boblogaeth, yr hyn sydd yn un Gweinidog am bob 876 o wrandawyr.

Nid yw effeithiau zel bersonol yn llai grymmus yn yr Unol Daleithiau. Poblogaeth yr Unol Daleithiau yn y flwyddyn 1840 oedd, 17,062,666.[1] a darlunir nifer Gweinidogion y pum enwad Efengylaidd yn y dafleu ganlynol, yr hon a gymerwyd allan o gyflyfr gwerthfawr, a gyhoeddodd Mr. Baird, ar ansawdd crefydd yn yr Unol Daleithiau.[2]

*Nifer Gweinidogion y pum enwad efengylaidd yn yr Unol Daleithiau.*

| Enwadau. | Eglwysi. | Gweinidogion | Cymmunwyr. | Gwrandawwyr |
|---|---|---|---|---|
| Esgobyddion ............ | 1,164 | 1,033 | 105,745 | 712,000 |
| Henaduriaid a Chynnulleidfäwyr ............ | 8,111 | 5,411 | 751,803 | 4,350,000 |
| Bedyddwyr ............ | 8,561 | 4,375 | 622,478 | 3,423,000 |
| Trefnyddion ............ | 12,445 [3] | 4,112 [4] | 935,418 | 5,400,000 |
| Y cyfan ................ | 30,281 | 14,931 | 2,415,444 | 13,885,000 |

Mae yr Amseroni Americanaidd am y flwyddyn 1846 yn cadarnhau adroddiad Mr. Baird, gan gyfrif eglwysi yr enwadau efengylaidd yn 29,490; y Gweinidogion yn 15,231, a'r cymmunwyr yn 2,651,003.[5] Gan hyny, nyni a allwn ddweyd yn ddi betrus, fod yno 15,000 o Weinidogion am 17,000,000 o boblogaeth. Mae pobl yr Unol Daleithiau dan anfanteision mawrion o ran cynhaliad Gweinidogion, yn gyntaf o herwydd bod ymlifiad blyneddol cryf o ymfudwyr Ewropaidd yno, y rhai ydynt yn dwyn gyda hwy yr annghrefydd a'r difrawder, i'r hwn y'u suddasid gan Sefydliadau eglwysig

1 *American Facts, by G. P. Putnam*, 1845, p. 27. 2 *Baird's Religion in United States*, chap. 16. p. 600. 3 Mae *Mr. Baird* yn eu cyfrif yn 25,134, ond gan fod llawer o honynt yn fychain iawn, myfi a'u dodais yn ol nifer eu pregethwyr cynnorthwyol.

4 "Holl nifer y Pregethwyr Trefnyddol ydyw 10,505; ond gan fod y nifer yma yn cynnwys eu pregethwyr cynnorthwyol, myfi a roddais i mewn nifer y pregethwyr teithiol yn unig, y rhai ydynt wedi llwyr ymroddi i'r Weinidogaeth."—*Baird*, p. 601.

5 *American Almanac for* 1846, p. 191. Gwnaethum yr un cyfnewidiadau ag o'r blaen yn nifer y cynnulleidfäoedd a gweinidogion Trefnyddol.

Ewrop; ac yn ail, am fod y boblogaeth, fel poblogaeth ein trefedigaethau ni ein hunain, yn daenedig dros arwyneb mawr, a than y cyfryw amgylchiadau y mae yn anhaws cynnal Gweinidogion. Eto, er y rhwystrau hyn, y mae Cristionogion yr Unol Daleithiau yn cynnal 15,000 o Weinidogion efengylaidd i 17,000,000 o bersonau, sef gweinidog ar gyfer pob 1133 o'r boblogaeth; nifer digonol o'r bron i dori eu holl anghenion. Mae yn agos i 14,000,000 allan o 17,000,000 yn gwrando mewn gwirionedd ar yr Efengyl yn cael ei phregethu gan bymtheng mil o Weinidogion ffyddlon; ac yn cynnal iddynt eu hunain Weinidogion yn ol y cyfartaledd o Weinidog am bob 925 o wrandawwyr.

Fe ymddengys oddiwrth y cyfrifon hyn, fod rhydd Eglwysi Lloegr, dan yr holl anfanteision a fwriodd y Sefydliadau i'w ffordd, wedi darbod 5318 o Weinidogion ar gyfer 16,000,000, sef un am bob 3008 o'r trigolion; rhydd eglwysi efengylaidd yr Alban ydynt yn darbod un gweinidog am bob 1752 o'r holl boblogaeth, tra yn yr Unol Daleithiau, lle nid oes y cyfryw rwystrau yn bod, y mae yr eglwysi efengylaidd yn arlwy un gweinidog am bob 1133 o'r holl boblogaeth.

Mae y cyfrifon hyn yn ein galluogi yn mhellach i farnu y fath gyflenwad mawr o weinidogion y gellid disgwyl i zel bersonol ei gynnyrchu pan fyddo i ffyniant syniadau iachus ddattod cyssylltiad yr eglwysi a'r Wladwriaeth. Gan fod rhydd eglwysi efengylaidd Lloegr yn cynnal un gweinidog am bob 752 o wrandawwyr, gan fod rhydd eglwysi efengylaidd yr Alban, yn cynnal un gweinidog am bob 876 o wrandawwyr, a chan fod eglwysi efengylaidd yr Unol Daleithiau yn cynnal un gweinidog am bob 952, nyni a allwn gasglu y bydd i bob mil o wrandawwyr trwy Loegr a Chymru gynnal eu gweinidog pan fyddo Eglwysi y Sefydliad hefyd yn rhydd.

Dylai y rhai a farnant fod y disgwyliad yma yn ofer, oddiwrth farweidddra presenol y lluaws yn Eglwysi y Sefydliad, gofio y byddai i amgylchiadau newyddion gynnyrchu ynddynt egwyddorion newyddion. Ni's gallwn ddadleu pa beth a wnelai Eglwysi y Sefydliad pe y byddent yn rhydd, oddiwrth yr hyn a wneir ganddynt yn awr tra y maent dan gadwaen orthrymmus y Llywodraeth, mwy nag y gallasem rag-weled ymdrechion presenol Eglwys Rydd yr Alban oddiwrth ddideimladrwydd cydmariaethol ei haelodau cyn yr ymrwygiad. Nid yw aelodau eglwysi y Sefydliad yn Lloegr, o angenrheidrwydd, yn ol mewn haelioni i'r holl enwadau ereill; a gellid gwneyd yr hyn a wneir gan eglwysi rhydd Lloegr, yr Alban, a'r Unol Daleithiau, gan Eglwysi y Sefydliad hefyd, yr un ffunud, pe y byddent yn rhydd.

Mae yn wir fod rhifedi mawr o'r rhai a hawlir yn fynych gan ysgrifenwyr y Sefydliad, pan y gwnant gydmariaeth fostfawr o nifer ei haelodau a'r eiddo ymneillduwyr, nad ydynt yn perthyn mewn gwirionedd i unrhyw enwad crefyddol.

Efallai bod yn rhaid i ni gyfrif y bedwaredd ran o'r boblogaeth yn y

dosparth annghrefyddol yma ; o ganlyniad, gellir lleihau gwir aelodau Eglwysi y Sefydliad i 8,000,000. Ac am y rhai hyn gallwn haeru yn hyderus oddiar y profiad helaeth a gafwyd mewn enwadau ereill, y byddent yn alluog i gynnal un gweinidog am bob mil. Gan hyny, byddai y cyflenwad o Weinidogion wedi diddymiad yr Undeb, fel y canlyn :—

| | |
|---|---|
| Gweinidogion i 8,000,000 o Eglwyswyr........................ | 8,000 |
| „ i 4,000,000 o Ymneillduwyr Efengylaidd.. | 5,318 |
| Yr holl weinidogion ar gyfer 16,000,000 ................. | 13,318 |

Neu, mewn geiriau ereill, byddai un gweinidog am bob 1201 o'r boblogaeth, rhifedi a fyddai yn fwy o agos i bedwar cant na'r nifer bresenol o offeiriaid gweithiol, ac er y byddai y nifer yn llai nag a ddarbodir yn awr rhwng y Sefydliad a'r rhydd eglwysi yn nghyd, eto byddai effeithiolrwydd rhagorach y gweinidogion a ddewisid ac a gynhelid gan yr eglwysi, a'u dosparthiad gwell trwy y wlad, yn sicr o wneuthur yr holl ddarbodaeth o hyfforddwyr crefyddol i'r holl bobl, yn llawer mwy effeithiol nag ydyw yn bresenol.

## ADRAN II.—DYLANWAD YR UNDEB AR GYFLEAD GWEINIDOGION

Fel y mae yr Undeb yn dwyn dynion annghyfaddas i'r Weinidogaeth, ac yn cynnal nifer annigonol o Weinidogion, felly y mae yn cyflëu y Gweinidogion mewn anystyriaeth gwastraffus o anghenion y boblogaeth. Gellai tair mil ar ddeg o offeiriaid gweithiol, pe y'u detholid ar gyfrif eu duwioldeb, a phe y'u cyflëid yn ddoeth, trwy gynnorthwy Gweinidogion yr enwadau ereill, fod agos yn ddigon i gyfarfod âg anghenion y wlad : ond, o dan deyrnasiad noddaeth, y maent wedi eu cyflëu yn y fath fodd, fel y gadewir miliwnnau o'r bobl heb eu haddysgu ganddynt.

Gadewch i ni yn gyntaf olrhain cyflëad annghyfartal y gweinidogion mewn amryw o'r esgobaethau.

*Taflen o'r Boblogaeth a'r bywiolaethau mewn pedair o randiroedd poblogaidd.*[1]

| Esgobaethau. | Bywiolaethau. | Poblogaeth. |
|---|---|---|
| Caerlleon .................................. | 616 | 1,883,958 |
| Lichfield .................................. | 623 | 1,045,481 |
| Llundain.................................... | 577 | 1,722,685 |
| Caerefrog .................................. | 828 | 1,496,538 |
| Y cyfan .................................. | 2,644 | 6,148,662 |

1 *M'Culloch*, Vol. 2. p. 396. Nid yw ffurfiad esgobaethau Ripon a Manchester, yn gwneyd un gwahaniaeth yn nifer yr offeiriaid gweithiol.

*Taflen o'r Boblogaeth a'r Bywiolaethau mewn pedair-ar-bymtheg o Esgobaethau.*[1]

| Esgobaethau. | Bywiolaethau. | Poblogaeth. |
|---|---|---|
| Llanelwy | 160 | 191,156 |
| Bangor | 131 | 163,702 |
| Bath a Wells | 440 | 403,795 |
| Caerodor | 255 | 232,026 |
| Caergaint | 343 | 405,272 |
| Carlisle | 128 | 135,002 |
| Chichester | 266 | 254,460 |
| Ty Ddewi | 451 | 538,451 |
| Ely | 156 | 133,722 |
| Caerloyw | 283 | 315,512 |
| Hereford | 326 | 206,327 |
| Llandâf | 194 | 181,244 |
| Lincoln | 1,273 | 899,468 |
| Norwich | 1,076 | 690,138 |
| Rhydychain | 208 | 140,700 |
| Peterborough | 305 | 194,339 |
| Rochester | 93 | 191,875 |
| Salisbury | 408 | 384,683 |
| Worcester | 222 | 271,687 |
| Y cyfan | 6,718 | 5,753,559 |

*Taflen o'r Boblogaeth a'r Bywiolaethau mewn pedair o'r Esgobaethau Amaethyddol.*[2]

| Esgobaethau. | Bywiolaethau. | Poblogaeth. |
|---|---|---|
| Lincoln | 1,273 | 899,468 |
| Norwich | 1,076 | 690,138 |
| Rhydychain | 208 | 140,700 |
| Peterborough | 305 | 194,339 |
| Y cyfan | 2,862 | 1,924,645 |

1 *M'Culloch*, Vol. 2. p. 396. 2 *Ibid.*

1. Mewn pedair o Esgobaethau, yn cynnwys 6,148,662, o eneidiau, nid oes namyn 2644 o Weinidogion; ac mewn pedair ar bymtheg ereill, yn cynnwys 5,753,559, o eneidiau, y mae 6,718 o Weinidogion. Gan hyny y mae y Llywodraeth yn darbod dau cymmaint o Weinidogion i'r boblogaeth leiaf. Yn y pedair ar bymtheg o Esgobaethau, y mae yn darbod un gweinidog am bob 856 o'r boblogaeth; ac yn y pedair Esgobaeth, un Gweinidog am bob 2325 o'r boblogaeth.

2. Yn y pedair Esgobaeth boblogaidd, y mae 6,148,662 o eneidiau, yn nghyda 2644 o Weinidogion; ac y pedair Esgobaeth amaethyddol y mae 1,924,645 o eneidiau, a chanddynt 2,862 o Weinidogion. Yn y pedair Esgobaeth gyntaf. y mae y boblogaeth yn dri chynnifer ag ydyw yn y pedair olaf; ac er hyny y mae rhifedi gweinidogion y pedair gyntaf, yn llai na'r nifer yn y pedair olaf. Yn y pedair gyntaf y mae un Gweinidog am bob 2,325 o eneidiau, ac yn y pedair ereill, y mae un Gweinidog am bob 672 o eneidiau. Gan hyny rhaid bod y Llywodraeth wedi lluosogi Gweinidogion mewn afradlonedd difudd yn yr Esgobaethau amaethyddol, neu y mae wedi bod yn esgeulus bechadurus, o ddarbod Gweinidogion yn yr Esgobaethau poblogaidd.

Y mae effeithiau cyffelyb ysywaeth yn ymddangos wrth gydmaru y cyflenwad Gwladwriaethol o Weinidogion mewn gwahanol wledydd.

*Taflen o nifer y Clerigwyr mewn tair o Wledydd poblogaidd, yn* 1831.[1]

| Gwlad. | Clerigwyr. | Poblogaeth. |
|---|---|---|
| Caerefrog | 760 | 1,371,359 |
| Caerhirfryn | 292 | 1,336,854 |
| Caerludd a Middlesex | 246 | 1,358,300 |
| Y cyfan | 1,298 | 4,066,513 |

1 *M'Culloch*, Vol. 2. p. 415.

*Taflen o'r nifer o Eglwyswyr mewn ugain o Wledydd.*

| Gwledydd. | Eglwyswyr. | Poblogaeth.[1] |
|---|---|---|
| Bedford | 127 | 95,,483 |
| Berkshire | 160 | 145,389 |
| Buckingham | 214 | 146,529 |
| Cambridge | 174 | 143,955 |
| Devon | 490 | 494,478 |
| Dorset | 263 | 159,252 |
| Hereford | 227 | 111,211 |
| Hertford | 131 | 143,341 |
| Huntingdon | 97 | 53,192 |
| Leicester | 254 | 197,003 |
| Lincoln | 607 | 317,465 |
| Norfolk | 699 | 390,054 |
| Rhydychain | 242 | 152,126 |
| Rutland | 50 | 19,385 |
| Somerset | 494 | 404,200 |
| Suffolk | 501 | 296,317 |
| Sussex | 322 | 272,340 |
| Westmoreland | 67 | 55,041 |
| Wiltshire | 314 | 240,156 |
| Worcestershire | 201 | 211,565 |
| Y cyfan | 5,634 | 4,048,482 |

*Taflen o'r nifer o Eglwyswyr mewn tair o'r Gwledydd Ammaethyddol.*

| Gwledydd. | Eglwyswyr. | Poblogaeth. |
|---|---|---|
| Huntingdon | 97 | 53,192 |
| Norfolk | 699 | 390,054 |
| Suffolk | 501 | 296,317 |
| Y cyfan | 1,297 | 739,563 |

1 *M'Culloch*, Vol. 2, p. 415.

Wrth gydmaru y Daflen gyntaf â'r ail, nyni a ganfyddwn fod y Llywodraeth wedi darbod 1298 o weinidogion ar gyfer 4,066,513 o'i deiliaid a gyfanneddant mewn rhyw rannau o'r deyrnas, a 5,634 ar gyfer 4,048,482, a gyfanneddant mewn rhannau ereill o'r deyrnas. I un corph, arlwya un gweinidog am bob 3132 o eneidiau, ac i'r corph arall trefna un gweinidog am bob 718; neu, mewn geiriau ereill, y mae yn cynnal pedwar o weinidogion i un corph am bob un a gynhalia i'r llall.

Wrth gydmaru y Daflen gyntaf â'r drydedd, nyni a ddysgwn fod y Llywodraeth wedi darbod 1,298 o weinidogion am 4,066,513 o eneidiau mewn tair o wledydd, a 1,297 o weinidogion am 739,563 o eneidiau mewn tair o wledydd ereill. Er fod poblogaeth un dosparth yn bump am un o boblogaeth y dosparth arall, y mae y Llywodraeth wedi trefnu yr un nifer o weinidogion i'r naill ag i'r llall. Gan hyny, os ydyw wedi darbod digon o weinidogion i'r boblogaeth fwyaf, y mae wedi gwastraffu gormod bedair gwaith i'r lleiaf; os prin y cyflawnodd ddiffygion y lleiaf, y mae wedi gadael y mwyaf yn amddifad o bedair rhan o bump o'r nifer gofynol.

Ond nid yw y rhifnodau hyn yn darlunio yn briodol gyflead annghyfartal y gweinidogion trwy y wlad, oblegid trwy fod yr annghyfartaledd hwnw yn cyfodi yn bennaf oddiar ddiofalwch y Llywodraeth o'r boblogaeth *drefol*, ni's gellir ei amlygu trwy olrhain unrhyw rannau mawrion o'r wlad, yn y rhai y cynnwysir dospeirth ammaethyddol a dinesig; fe'i deallir yn well trwy gydmaru dinas, a dosparth hollol ammaethyddol; megis pe y cydmerid dinas Llundain a swydd Rutland.

Yr holl nifer o blwyfau yn y brif ddinas, os cymerwn i mewn yr holl blwyfau sydd o fewn wyth milldir i *St. Paul* ydynt 190,[1] ac y mae hyn yn cynnrychioli yr holl nifer o weinidogion appwyntiedig gan y Llywodraeth i'r brif ddinas; yr hyn sydd 190 o weinidogion am 2,022,384 o boblogaeth, neu un gweinidog am bob 11,069 o eneidiau. Ond y mae 98 o'r plwyfau hyn yn gorwedd o fewn y ddinas, a'u hymdrechion eglwysig yn cael eu cyfyngu i 54,626 o eneidiau, sef poblogaeth y rhan hono o'r brif ddinas. Yna y mae yn aros 92 o blwyfau, yn y rhai y cynnwysir gweddill poblogaeth y brif ddinas, sef 2,022,384—54,626=1,967,758 o eneidiau.

Gan hyny, yr holl arlwy a wnaeth y Llywodraeth ar gyfer anghenion ysbrydol y brif ddinas, a chau y ddinas allan, yw 92, neu un gweinidog i bob 21,388 o'r boblogaeth. Ond gan fod yn rhaid i holl bersoniaid y brif ddinas heblaw rhai yn y ddinas, gael curadiaid, y rhai nad ydynt yn appwyntiedig gan y Llywodraeth, ond a gynhelir yn gyffredinol trwy gyllidau swyddol y personiaid, mae yn ofynol i ni chwanegu y curadiaid hyn at nifer y gweinidogion a gynhelir gan y Llywodraeth. Fel hyn y mae y Llywodraeth yn cynnal 184 o weinidogion i 1,967,758, neu un i bob 10,694 o'r boblogaeth.

1 *London City Mission Magazine*, Jan. 1843, p. 4.

Yn swydd Rutland yn 1831, yr oedd 19,385 o eneidiau yn wasgaredig rhwng 54 o blwyfau, ar gyfer y rhai y darperid gan y Llywodraeth 50 o weinidogion,[1] yr hyn ydoedd un gweinidog i bob 387 o ddynion. Ac fel y mae 27 × 387=10,449, yr hyn sydd lai na 10,694, y rhif a neillduir gan y Llywodraeth i bob gweinidog yn y brif ddinas, y mae y Llywodraeth yn cynnal cynnifer saith waith ar hugain o weinidogion ar gyfer ammaethyddion swydd Rutland, ag a gynhalia ar gyfer dinasyddion Llundain. Fe ganiattâ y Llywodraeth saith ar hugain o weinidogion i 10,449 o lafurwyr gwledig, a dim ond un gweinidog i 10,449 o'r Llundeiniaid. Y mae y Llywodraeth yn trefnu cymmaint saith waith ar hugain o lafur i un gweinidog dinesig, ag a drefna i un gweinidog gwledig. Gan hyny, rhaid bod yr Undeb wedi bod yn wastraffus bechadurus yn ei ofal am lafurwyr gwledig, neu yn esgeulus bechadurus o ddinasyddion y brif ddinas.

Ac ysywaeth, nid yw y gydmariaeth yma o Lundain a swydd Rutland, namyn engraifft o esgeulusdra y Llywodraeth o amryw ddinasoedd a threfydd mawrion y deyrnas. Y mae Cymdeithas y Bugeil-ged *(Pastoral Aid Society)* yn cynnorthwyo 301 o bersoniaid yn bresenol, y rhai a feddant dan eu gofal ar y cyfan boblogaeth o 2,077,703 o eneidiau, neu 6902 at eu gilydd i bob un.[2] Ar yr un pryd, y mae yn Lloegr a Chymru 4774 o blwyfau, y rhai a feddant boblogaeth at eu gilydd, o 100 i 300 bob un.[3] Cyfrifer poblogaeth pob un o'r plwyfau hyn yn 300, ac wele genym 4774 o weinidogion ar gyfer 1,432,200, tra y mae 301 o weinidogion mewn rhan arall o'r deyrnas wedi eu trefnu ar gyfer 2,077,703 o eneidiau. Neu, dyweder, er mwyn rhwyddineb, bod 4774 o weinidogion i 1,500,000 o eneidiau, a 300 o weinidogion i 2,000,000 o ddynion. Mewn geiriau ereill, y mae y Llywodraeth yn trefnu un gweinidog i bob 300 o wladwyr, ac un gweinidog i bob 6900 o ddinasyddion; a chan fod 23 × 300=6900, y mae y Llywodraeth wedi rhoddi i bob gweinidog dinesig gymmaint dair gwaith ar hugain o ofal, ag a ddyru hi i bob gweinidog gwledig. Tyner y bummed ran o'r cyfrif dinesig, a gwelwn fod 1,500,000 o lafurwyr gwledig yn cael gan y Llywodraeth 4774 o weinidogion, a 1,500,000 o ddinaswyr yn cael dim ond 240. Mae y 1,500,000 llafurwyr, wedi cael cynnifer bedair gwaith ar bymtheg o weinidogion ag a gâ y 1,500,000 dinasyddion. Gan hyny, rhaid bod y llafurwyr yn meddu llawer gormod o weinidogion arlwyedig gan y Llywodraeth, neu y dinasyddion lawer yn rhy fach.

Er hyny, nyni a ganfyddwn yr annghyfartalwch yn fwy fyth, yn nosparthiad y gweinidogion gan y Llywodraeth, pan y detholom i wneyd y gydmariaeth, rai plwyfydd dinesig, a rhai plwyfydd gwledig.

1 *M'Culloch*, Vol. 2, p. 415. 2 Adroddiad, 1848. Y mae gan y Gymdeithas yn awr o'i blaen 56 o geisiadau ychwanegol oddiwrth bersoniaid, yn meddu poblogaeth o 5688 at eu gilydd dan eu gofal. 3 *Horsman*, p. 20.

Yn Hydref 1846, yr oedd dau ar bymtheg o blwyfau yn y brif ddinas, yn y rhai yr oedd y cyflenwad o weinidogion fel y canlyn :—

*Taflen o Glerigwyr dau ar bymtheg o blwyfau y Brif Ddinas.*1

| Plwyfau. | Clerigwyr. | Poblogaeth. |
|---|---|---|
| St. Sior, Southwark | 5 | 50,000 |
| St. Sior, Ddwyreiniol | 4 | 42,000 |
| Poplar | 2 | 21,000 |
| Limehouse | 2 | 22,000 |
| Shadwell | 1 | 10,000 |
| Spitalfields | 2 | 21,000 |
| Shoreditch, St. Leonard | 3 | 35,000 |
| Hoxton | 2 | 24,000 |
| Haggerstone | 2 | 19,000 |
| Clerkenwell, St. Iago | 2 | 30,000 |
| St. Ioan | 1 | 8,000 |
| St. Luke, Old Street | 2 | 15,000 |
| St. Barnabas | 1 | 14,000 |
| Newington, Surrey | 7 | 60,000 |
| Christ Church | 2 | 15,000 |
| St. Anne's, Soho | 2 | 17,000 |
| Stepney, St. Dunstan's | 3 | 25,000 |
| Cyfanrifau | 43 | 428,000 |

Fel hyn y mae y Sefydliad yn darbod 43 o weinidogion ar gyfer 428,000 o ddinasyddion, sef un am bob 9953 o eneidiau. Ond allan o 11,077 o blwyfau a berthynant i'r Sefydliad, y mae 1907 yn meddu bob un lai na chant o eneidiau o'u mewn. Fel hyn y mae y Sefydliad wedi darbod 43 o weinidogion i 428,000 o'r boblogaeth ddinesig, a 1907 o weinidogion i 190,700 o'r boblogaeth dreflanawl. Yn y brif ddinas trefna un gweinidog i bob 9953 o eneidiau, yn y wlad, un gweinidog i bob cant o eneidiau. Ac fel mai 99 × 100=9900, y mae y Llywodraeth yn trefnu cynnifer 99 o weithiau i ofal gweinidog yn y ddinas, ag a drefna hi i ofal un yn y wlad. Mewn 1907 o blwyfau gwledig, y mae 9900 o bersonau, yn meddu 99 o weinidogion, ac mewn dau ar bymtheg o blwyfau y brif ddinas, ni's medd 9900 o bersonau namyn un gweinidog. Yn yr enghraifft gyntaf y mae gwastraff ddirfawr ar hyfforddwyr cyhoedd, ac yn yr ail, esgeulusdra dirfawr.

Yn mhellach, mae yn alarus meddwl pa mor ehang y mae yr esgeulusdra dywededig ar y naill law, a'r gwastraff crybwylledig ar y llaw arall, yn cael ei ddwyn yn mlaen. Gan fod ar y cyfan 11,077 o blwyfau, yn cynnwys 16,000,000 o ddynion, a 1907 o'r rhai hyny, yn meddu bob un lai na chant

1 *Horsman*, p. 21. Mae y rhestr hon yn cynnwys holl offeiriaid y plwyfau hyn, ac nid yn unig y rhai a ddarbodir gan y Llywodraeth.

o drigolion, ac felly yn meddu llai na 190,700 o drigolion cyd-rhyngddynt; a 4774 yn cynnwys bob un o honynt lai na 300 o drigolion; ac am hyny, yn nghyd, cynnwysant lai na 1,432,200.[1] O 11,077 o blwyfau, y mae 6681, yn nghyd yn cynnwys llai na 1,622,900 o ddynion; ac os tynwn ni y nifer uchod o gyfanswm y plwyfi a'r boblogaeth, nyni a gawn fod yn ngweddill 4396 o blwyfau, yn cynnwys 14,377,100. Gan fod 12,923 o offeiriaid gweithiol, a bod y Llywodraeth wedi trefnu 6681 o'r rhai hyn i blwyfau yn cynnwys llai na 300 o bersonau bob un, y mae yn aros 6242 o weinidogion i'r 4396 plwyfau ereill. Fel hyn mewn 6681 o blwyfau, y mae y Llywodraeth wedi darbod un gweinidog i lai na 300 o eneidiau, ac mewn 4396 o blwyfau, y mae wedi darbod un gweinidog i 2300 o eneidiau; ac megis mai 7 × 300=2100, y mae y Llywodraeth wedi darbod saith gwaith mwy o weinidogion i'w deiliaid mewn un ran o'r wlad, nag a arlwyodd hi i'r rhai a gyfanneddant ran arall o'r un wlad. Mewn 4396 o blwyfau, y mae 2300 o bersonau yn cael un gweinidog rhyngddynt, ac mewn 6681 o blwyfau, y mae 2300 o bersonau yn cael saith o weinidogion rhyngddynt. *Y mae mwy na haner yr offeiriaid gweithiol yn cael eu treulio gan y Llywodraeth ar yr wythfed ran o'r boblogaeth, a saith ran o wyth yn cael eu gadael gydag arlwy nad yw yn gyfartal a'r hyn a ganiatteir i'r wythfed ran arall Y mae pedair mil-fil ar ddeg yn cael eu newynu, tra y mae dwy fil-fil yn cael eu gorlenwi.*

Ar y llaw arall, y mae zel bersonol mor gynnil ag yw y Llywodraeth o afradlon—mor ddoeth ag yw y Llywodraeth o ddifeddwl. Pa un bynnag a olygom ai gwledydd Lloegr, ai y rhandiroedd gweithfäol, neu y brif ddinas, nyni a ganfyddwn, tra yr oedd y Llywodraeth yn ddisylw o'u poblogaeth gyfattebol, bod zel bersonol yn cymeryd hyny yn rheol ei darbodaeth.

Yn gyntaf, bydded i ni gydmaru y nifer o weinidogion y Sefydliad a'r nifer o weinidogion yr eglwys rydd mewn amryfal wledydd.

*Taflen o Rif yr Eglwyswyr a'r Gweinidogion Ymneillduedig mewn Tair Gwlad Ammaethyddol, yn* 1831.[2]

| Gwlad. | Poblogaeth | Eglwys-wyr. | Anni-bynwyr. | Bedydd-wyr. | Trefn-yddion. | Tri Enwad. | Yr holl Ymneill-duwyr. |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Norfolk ... | 390,054 | 699 | 34 | 40 | 99 | 173 | 206 |
| Rutland ... | 19,385 | 50 | 4 | 2 | 7 | 13 | 14 |
| Suffolk ...... | 296,317 | 501 | 35 | 39 | 41 | 115 | 132 |
| Cyfanrifau | 705,756 | 1250 | 73 | 81 | 147 | 301 | 352 |

[1] *Horsman*, p. 20. [2] *M'Culloch*, Vol. 2, p. 415.

*Taflen o Nifer yr Eglwyswyr a Gweinidogion Ymneillduedig mewn Tair o'r Gwledydd poblogaidd, yn* 1831.[1]

| Gwlad. | Poblogaeth | Eglwys-wyr. | Anni-bynwyr. | Bedydd wyr. | Trefn-yddion. | Tri Enwad. | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llundain a Middlesex, | 1,358,300 | 246 | 103 | 65 | 88 | 256 | 306 |
| Lancashire......... | 1,336,854 | 292 | 100 | 40 | 243 | 383 | 581 |
| Yorkshire ......... | 1,371,359 | 760 | 170 | 63 | 680 | 913 | 1,047 |
| Cyfanrifau... | 4,066,513 | 1,298 | 373 | 168 | 1,011 | 1,552 | 1,934 |

Poblogaeth y tair gwlad ammaethyddol yw 705,756, tra y mae poblogaeth y tair gwlad law-weithyddol a dinesig yn 4,066,513, yr hyn sydd bum cymmaint a'r gyntaf. Y nifer o weinidogion a ddarbodir gan y Sefydliad ar gyfer y cyntaf yw 1250, ac ar gyfer yr olaf 1298, yr hyn sydd yn lled agos yr un faint. Mae y Llywodraeth yn darpar un gweinidog am bob 564 o'r boblogaeth wledig, a dim ond un am bob 3132 o'r boblogaeth law-weithyddol; ac fel mai 5 × 564=2820, y mae yn darpar un gweinidog i 2820 o'r llaw-weithyddion a'r dinasyddion, a phump o weinidogion i 2820 o lafurwyr ammaethyddol.

O'r tu arall, nifer y gweinidogion gan y rhydd Eglwysi Efengylaidd, ar gyfer 705,756 o eneidiau yn y tair gwlad ammaethyddol, yw 301, yr hyn a ddyru un gweinidog i bob 2344 o'r boblogaeth; a nifer y gweinidogion a ddarparwyd ganddynt i bob 4,066,513 o eneidiau yn y tair gwlad boblogaidd, yw 1552, yr hyn a rydd un gweinidog i bob 2620. Y mae y cyfartaledd yn lled gyffelyb yn y ddwy engghraifft. Fel y mae y boblogaeth yn y gwledydd llaw-weithyddol yn gymmaint bum waith ag yn y gwledydd ammaethyddol, felly y mae nifer gweinidogion yr Eglwysi rhydd yn y gwledydd cyntaf yn bum cymmaint ag yn y gwledydd olaf. Y mae cyflead gweinidogion yn y gwledydd hyn, gan y Llywodraeth, yn wastraffus ac anystyriol, a'u cyflead gan zel bersonol yn gynnilaidd a doeth. I'r boblogaeth ammaethyddol, yr hon sydd bum waith yn llai na'r un law-weithyddol, y mae yr eglwysi rhydd wedi arlwy nifer o weinidogion, pedair gwaith llai na'r nifer a arlwyir gan y Llywodraeth; ond i'r boblogaeth ddinesig a llaw-weithyddol, yr hon sydd gymmaint bum waith a'r un ammaethyddol, y mae yr eglwysi rhydd wedi darbod mwy o weinidogion na'r Llywodraeth o 254. Gwnaeth y rhydd eglwysi efengylaidd lai i'r tair gwlad ammaethyddol, oblegid mai y rhai hyn ydynt y lleiaf eu pwys; ond am y tair gwlad mwyaf eu poblogaeth, a'r rhai ydynt y mwyaf pwysig, darfu i'r eglwysi rhydd hyn arlwy 254 mwy o weinidogion na'r Sefydliad.

Goddefer i ni yn nesaf gydmaru yr arlwy o weinidogion a wnaed gan y Llywodraeth, â'r hyn a wnaed gan zel bersonol yn ardaloedd llaw-weithfäol swyddi Caerhirfryn a Chaerefrog. Ni's gallaf wneyd yn well ar y pen hwn na gwneuthur defnydd o lafur gwerthfawr Mr. Baines o Leeds, cyfran o gynnyrch ymchwiliadau ehang a manol yr hwn a gynnwysir yn y Daflen ganlynol, yr hon a gymerais allan o'i Draethawd rhagorol a gyfenwir, "Ansawdd Grefyddol, Addysgiadol a Chymdeithasol y cymmydogaethau Llaw-weithyddol."

1 *M'Culloch*, Vol. 2, p. 415.

*Taflen o'r Eglwysi, Capeli, ac Eisteddleoedd yn rhandir y Cottwm, swydd Gaerhirfryn,* (Lancashire.)

| Lleoedd. | Poblogaeth. | Eglwysi Esgobyddol. | | | | | | | | Capeli Ymneillduol. | | | | | | Mwy trwy Gyfroddion Gwirfoddol. | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Adeiladwyd cyn 1800. | | Adeiladwyd er 1800. Seneddol. | | Adeiladwyd er 1800. Trwy Gyfroddion Gwirfoddol. | | Cyfanrif. | | Cyn 1800. | | Wedi 1800. | | Cyfanrif. | | | |
| | | Eglwysi | Eistedd-leoedd. | Eglwysi | Eistedd-leoedd. | Eglwysi | Eistedd-leoedd | Eglwysi | Eistedd-leoedd. | Capeli | Eistedd-leoedd. | Capeli | Eistedd-leoedd. | Capeli | Eistedd-leoedd. | Capeli | Eistedd-leoedd. |
| Plwyf Ashton ........ | 73,383 | 4 | 4,149 | 4 | 5,206 | 1 | 60 | 9 | 9,415 | 1 | 300 | 45 | 19,552 | 46 | 19,852 | 37 | 1 0,437 |
| Bwrdeisdref Bolton ... | 50,500 | 2 | 2,450 | 1 | 2,500 | 3 | 3,500 | 6 | 8,450 | 3 | 1,770 | 16 | 8,485 | 19 | 10,255 | 13 | 1,805 |
| Bwrdeisdref Liverpool... | 284,000 | 13 | 15,911 | 1 | 1,450 | 26 | 34,326 | 40 | 51,687 | 14 | 11,034 | 53 | 44,466 | 67 | 55,500 | 27 | 3,813 |
| Bwrdeis. Manchester .. | 242,176 | 11 | 14,551 | 3 | 6,400 | 12 | 12,450 | 26 | 33,401 | 9 | 10,136 | 61 | 40,981 | 70 | 51,117 | 44 | 17,716 |
| Salford............... | 63,416 | 3 | 4,100 | 1 | 1,950 | 5 | 5,500 | 9 | 11,550 | 1 | 600 | 25 | 13,890 | 26 | 14,490 | 17 | 2,940 |
| Oldham | 42,593 | 2 | 2,300 | 1 | 1,837 | .. | .. | 3 | 4,137 | 2 | 1,163 | 18 | 6,845 | 20 | 8,008 | 17 | 3,871 |
| Bwrdeisdref Preston .. | 50,829 | 2 | 2,550 | 2 | 2,300 | 5 | 5,350 | 9 | 10,200 | 5 | 3,720 | 13 | 9,430 | 18 | 13,150 | 9 | 2,950 |
| Plwyf Rochdale | 67,874 | 4 | 2,510 | 2 | 2,612 | 4 | 3,700 | 10 | 8,822 | 3 | 860 | 48 | 19,591 | 51 | 20,451 | 41 | 11,629 |
| SWYDD GAERHIRFRYN. | 1,224,708 | 83 | 93,918 | 25 | 34,985 | 92 | 92,345 | 20 | 221,248 | 96 | 59,445 | 472 | 243,339 | 568 | 302,784 | 368 | 81,536 |

*Taflen o Eglwysi, Capeli, ac Eisteddleoedd, yn Rhandir y Gweithfeydd Gwlan, Swydd Gaerefrog,* (Yorkshire.)

| Lleoedd. | Poblogaeth. | Eglwysi Esgobyddol. Adeiladwyd cyn 1800 | | Adeiladwyd wedi 1800. Seneddol. | | Ereill. | | Cyfanrif. | | Capeli Enwadau ereill. Cyn 1800. | | Er 1800. | | Cyfanrif. | | Mwyrif Capeli Gwirfoddol. | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Eglwysi. | Eistedd-leoedd. | Eglwysi. | Eistedd-leoedd. | Eglwysi. | Eistedd-leoedd. | Eglwysi. | Eistedd-leoedd. | Capeli | Eistedd-leoedd. | Capeli | Eistedd-leoedd. | Capeli | Eistedd-leoedd. | Capeli | Eistedd-leoedd. |
| Huddersfield | 25,018 | 1 | 1,620 | 1 | 400 | 3 | 2,916 | 5 | 4,936 | 1 | 600 | 10 | 9,948 | 11 | 10,548 | 6 | 5,612 |
| Plwyf Leeds | 151,840 | 10 | 10,665 | 3 | 4,650 | 7 | 6,022 | 20 | 21,337 | 11 | 7,730 | 58 | 38,169 | 69 | 45,899 | 49 | 24,562 |
| Plwyf Sheffield | 110,840 | 4 | 4,400 | 4 | 8,000 | 5 | 2,570 | 13 | 14,970 | 10 | 8,715 | 26 | 17,435 | 36 | 26,150 | 13 | 11,180 |
| Plwyf Wakefield | 28,321 | 3 | 3,534 | 2 | 3,000 | 2 | 1,150 | 7 | 7,684 | 5 | 2,571 | 14 | 6,828 | 19 | 9,399 | 12 | 1,715 |
| Rhandir Gweithfeydd Gwlan swydd Gaerefrog | 844,563 | 87 | 72,784 | 29 | 31,526 | 51 | 32,426 | 167 | 136,736 | 116 | 66,903 | 501 | 216,448 | 617 | 283,351 | 450 | 146,615 |

*Taflen o'r Eglwysi, Capeli, ac Eisteddleoedd, yn Rhandiroedd Cottwm a Gwlan Swyddi Caerhirfryn a Chaerefrog.*

| Lleoedd. | Poblogaeth. | Eglwysi Esgobyddol. Adeiladwyd cyn 1800. | | Adeiladwyd wedi 1800. Seneddol. | | Ereill. | | Cyfanrif. | | Capeli Enwadau ereill. Cyn 1800. | | Er 1800. | | Cyfanrif. | | Mwyrif Capeli Gwirfoddol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Eglwysi. | Eistedd-leoedd. | Eglwysi. | Eistedd-leoedd. | Eglwysi. | Eistedd-leoedd. | Eglwysi. | Eistedd-leoedd. | Capeli. | Eistedd-leoedd. | Capeli. | Eistedd-leoedd. | Capeli. | Eistedd-leoedd. | Capeli. | Eistedd-leoedd. |
| Rhandir swydd Gaerhirfryn | 1,224,708 | 83 | 93,918 | 25 | 34,885 | 92 | 92,345 | 200 | 221,248 | 96 | 54,445 | 472 | 243,339 | 568 | 302,784 | 368 | 81,536 |
| Rhandir swydd Gaerefrog | 844,563 | 87 | 72,784 | 29 | 31,526 | 51 | 32,426 | 167 | 136,736 | 116 | 66,903 | 501 | 216,448 | 617 | 283,351 | 458 | 146,615 |
| Y ddau Randir ynghyd.... | 2,069,271 | 170 | 166,702 | 54 | 66,511 | 143 | 124,771 | 367 | 357,984 | 212 | 126,348 | 973 | 459,787 | 1185 | 586,135 | 818 | 228,151 |

Y peth cyntaf a dŷn ein sylw pan edrychom ar gyflwr crefyddol yr ardaloedd gweithfäol, yw y mawr angenrheidrwydd am egnïad parhäus i gyflenwi eu hangenion crefyddol ac addysgiadol. Y mae cynnydd y boblogaeth wedi bod fel y canlyn :—

*Cynnydd y Boblogaeth yn y Rhandiroedd Gwlan a Chottwm er y flwyddyn* 1800.

| Rhandir. | Poblogaeth 1801. | Poblogaeth 1841. | Cynnydd. | Cynnydd y Cant. |
|---|---|---|---|---|
| Lancashire ............ | 493,834 | 1,224,708 | 730,874 | 148 |
| Yorkshire ............ | 414,000 | 844,563 | 430,563 | 104 |
| Cyfanrif ............ | 907,834 | 2,069,271 | 1,161,437 | 126 |

Felly, gan fod poblogaeth yr ardaloedd yma yn dyblu ei hunan mewn llai na deugain mlynedd, y mae yn angenrheidiol bod yr arlwyaeth o weinidogion crefyddol hefyd yn cael eu dyblu mewn deugain mlynedd.

Ond, ni allodd yr Undeb wneyd hyny. Yr oedd yn y flwyddyn 1801, yn y Sefydliad, 170 o Eglwysi i 907,834 o eneidiau yn yr ardaloedd hyn ; ac os cymerwn yn ganiattäol bod yr eglwysi hyny yn cael eu cyflenwi gan yr Undeb, bod yr Undeb yn trefnu un gweinidog i bob eglwys, ac y gall un gweinidog gymeryd gofal ysbrydol mil o eneidiau ; yna buasai yr Undeb yn darbod athrawon crefyddol i 170,000 o bersonau yn yr ardaloedd hyn, gan adael 737,834 heb ddarbod gweinidogion erddynt.

Gan hyny, er cyflawni yr esgobyddiaeth a gymherth arni ei hunan yn effeithiol, dylasai y Llywodraeth fod wedi darbod i'r ardaloedd hyn er y pryd hyny 737 ychwaneg o weinidogion, y rhai oeddynt angenrheidiol y pryd hyny, ac 1161 o weinidogion ereill oeddynt yn ofynedig i'r 1,161,437, y rhai a chwanegwyd at y boblogaeth yna er y pryd hyny. Yn y cyfan, dylasai y Llywodraeth chwanegu 1898 o weinidogion er gwneyd y Sefydliad yn effeithiol fel arlwy cenedlaethol o foddion crefyddol i holl boblogaeth yr ardaloedd dywededig. Ond, yn lle ychwanegu 1898 o weinidogion i'r ardaloedd hyn, prin yr ychwanegodd y Llywodraeth ddim oll attynt o'r dydd hwnw hyd yn awr. Darfu i gyfraith Syr Robert Peel ychwanegu ychydig o weinidogion yn ddiweddar,— trefniad doeth a llesol, ond tra chyfyng. A dyma y cwbl a wnaeth y Llywodraeth o'r bron.

Mae yn wir fod eglwysi Seneddol hyd y nifer o 54 wedi eu cyfodi, yn cynnwys 66,511 o eisteddleoedd ; ond fe gyfodid y rhai hyn gan mwyaf ar

draul trysorfäau a gyfodid trwy zel bersonol, fel na's gellir yn deg eu prïodoli i'r Llywodraeth, yr hon ni's gwnaeth namyn cynnorthwyo yn eu cyfodiad. Ond, pa fodd bynnag, gadawer iddynt gael eu prïodoli i'r Undeb. Ac yna, rhwng y flwyddyn 1800 a'r flwyddyn 1841, pan y dylasai yr Undeb fod wedi arlwy 1898 o weinidogion ychwanegol i'r bobl, efe a ychwanegodd 54 iddynt. Dylasai ddarpar i 1,899,271, ac arlwyodd i 54,000, gan adael 1,845,271, heb weinidogion. Darlunir yr ardaloedd gweithfäol weithiau fel mewn cyflwr truenus o amddifadrwydd ysbrydol: ac y mae yn ddïamheuol y buasent felly, pe yr Undeb yn unig a fuasai wedi cyflenwi eu hangenion. Allan o boblogaeth o 907,834, yn 1801, gadawai y Llywodraeth 737,000 heb weinidogion, ac er y pryd hyny, ni wnaeth namyn cynnorthwyo i arlwy 54 ychwaneg, tra y mae y boblogaeth wedi cynnyddu felly 2,069,271, gan adael i 1,845,000 heb weinidogion.

Ond y mae zel bersonol wedi gwneuthur yr hyn a adawsai yr Undeb heb ei wneyd. Er cael eu llyffetheirio gan lawer o attalfëydd, y mae Cristionogion o fewn y Sefydliad, er eu bod dan gaethiwed y Llywodraeth, wedi ychwanegu yn y deugain mlynedd diweddaf 143 o eglwysi, ac o ganlyniad 143 o weinidogion i'r ardaloedd hyn, ac felly, wedi lleihau nifer y rhai oeddynt heb weinidogion, o 143,000. Y nifer o fewn y ddwy randir yma, a arlwyir â gweinidogion gan y Sefydliad yw 367,000; a'r nifer a adewir gan y Sefydliad heb arlwyaeth, yw 1,702,271. Yr hyn oll a wnaeth yr Undeb, drwy gynnorthwy zel bersonol, ydyw arlwy gweinidogion i lai nag un ran o bump o'r boblogaeth, gan adael pedair rhan o bump heb weinidogion.

Ond, y mae zel y rhydd eglwysi efengylaidd wedi gwneuthur llawer i'w harlwy eu hunain â gweinidogion, fel y gellir gweled trwy y taflenau canlynol:—

*Nifer Capeli y Tri Enwad Efengylaidd yn Rhandir Gweithfeydd Cottwm swydd Gaerhirfryn,* (Lancashire.)

| Enwadau. | Eglwysi a Chapeli. | Eisteddleoedd. | Ysgolion Sabbothol. | Athrawon Ysgol. Sab. | Ysgolorion Sabbothol. |
|---|---|---|---|---|---|
| Bedyddwyr............ | 68 | 28,885 | 59 | 1,520 | 10,868 |
| Annibynwyr ......... | 92 | 57,496 | 108 | 3,556 | 30,206 |
| Wesleyaid ............ | 116 | 66,260 | 124 | 4,735 | 32,602 |
| Eglwysi Rhydd...... | 276 | 152,641 | 291 | 9,811 | 73,676 |
| Y Sefydliad ......... | 200 | 221,248 | 199 | 7,167 | 75,930 |
| Mwy o'r Sefydliad ... | ... | 68,607 | ... | ... | 2,254 |
| Mwy o eglwysi rhydd | 76 | ... | 92 | 2,644 | ... |

*Nifer Capeli ac Ysgolion y Tri Enwad Efengylaidd yn Rhandir Gweithfeydd Gwlan, swydd Gaerefrog,* (Yorkshire.)

| Enwadau. | Eglwysi a Chapeli. | Eisteddle-oedd. | Ysgolion Sabbothol. | Athrawon Ysgol Sab. | Ysgolorion Sabbothol. |
|---|---|---|---|---|---|
| Bedyddwyr............ | 65 | 30,394 | 71 | 3,473 | 12,700 |
| Annibynwyr........... | 91 | 59,161 | 108 | 5,043 | 23,714 |
| Wesleyaid ............ | 229 | 117,123 | 237 | 13,410 | 48,511 |
| Eglwysi Rhydd...... | 385 | 206,678 | 416 | 21,926 | 84,925 |
| Y Sefydliad........... | 167 | 136,736 | 180 | 5,801 | 40,499 |
| Mwy o Rydd-eglwysi | 218 | 69,942 | 236 | 16,125 | 44,426 |

*Nifer Capeli ac Ysgolion y Tri Enwad Efengylaidd yn ardaloedd Gweithfäol Gwlan a Chottwm, swyddi Caerhirfryn a Chaerefrog.*

| Enwad. | Eglwysi a Chapeli. | Eisteddle-oedd. | Ysgolion Sabbothol. | Athrawon Ysgol. Sab. | Ysgolorion Sabbothol. |
|---|---|---|---|---|---|
| Eglwysi Rhydd....... | 661 | 359,313 | 707 | 31,737 | 158,601 |
| Y Sefydliad........... | 367 | 357,984 | 379 | 12,968 | 116,429 |
| Mwy o Rydd-eglwysi | 294 | 1,335 | 328 | 18,769 | 42,172 |

Oddiwrth y Tafleuau hyn gwelir bod y Rhydd Eglwysi Efengylaidd wedi gwneyd llawer mwy na'r Sefydliad yn Rhandiroedd y Gweithfäoedd Gwlan a Chottwm, er cyfarfod ag anghenion crefyddol y bobl. Os cymerwn ni yn ganiattäol bod un gweinidog i bob eglwys a chapel, ac y gall un gweinidog gymeryd gofal bugeilaidd 1000 o ddynion, mae y Sefydliad yn cynnal 367 o weinidogion; a'r Rhydd eglwysi efengylaidd, 661. Os gall y Sefydliad weini addysg i 367,000, tra y gall gweinidogion yr eglwysi rhyddion addysgu 661,000: os ydyw y Sefydliad yn gadael 1,702,271, heb ddarbod gweinidogion ar eu cyfer, y mae yr eglwysi rhydd yn lleihau y nifer hyny i 1,041,271. Mae yr eglwysi rhydd yn cynnal 294 mwy o weinidogion na'r Sefydliad, wedi sefydlu 328 mwy o Ysgolion Sabbothol, addysgu 42,000 mwy o Ysgolorion Sabbothol, a darbod 18,000 ychwaneg o athrawon Ysgolion Sabbothol; hyny yw, y mae eu gweinidogion a'u hysgolion agos yn ddau cynnifer a'r eiddo y Sefydliad, a'u hathrawon Ysgolion Sabbothol

yn fwy na dau cymmaint. At y rhai hyn rhaid ychwanegu 24 o gynnulleidfäoedd perthynol i'r Morafiaid, yr Henaduriaid, a rhai enwadau efengylaidd bychain ereill.

Pe trwy ryw anffawd ddisymmwth, y diflannai holl weinidogion ac ysgolion y Sefydliad yn yr ardaloedd gweithfäol hyn, arhosai tua dwy ran o dair o'r addysg efengylaidd a weinyddir yn awr i'r bobl, yno.

Mae rhai yn wir, yn meddwl y byddai i ddattodiad yr Undeb leihau nifer gweinidogion eglwysi y Sefydliad yn ddirfawr. Ond nid yw y rhandiroedd hyn yn rhoddi sail i'r cyfryw dyb pa fodd bynnag. Pa ham nad allai eglwysi y Sefydliad gynnal eu gweinidogion mor rwydd ag y gwna eglwysi efengylaidd ereill? Os yw y tri enwad efengylaidd yn awr yn cynnal 661 o weinidogion, pa ham na allai yr enwad esgobyddol mawr pan yn rhydd o reffynau y Llywodraeth, gynnal ei 367 o weinidogion? Byddai dadleu bod aelodau eglwysi y Sefydliad yn rhŷ fydol, dïofal, a hunanol, i wneuthur yr hyn y mae yr holl eglwysi efengylaidd ereill yn ei wneyd, yn gyhoeddiad dedfryd gollfarnol ar yr Undeb, yr hyn a'u gwnaeth felly. Ond er cynddrwg y bu effeithiau yr Undeb, ni ddiffrwythwyd yr eglwysi mor drwyadl a hyny dan ei ddylanwad. Nid oes un dosparth o grefyddwyr nad ydynt yn cynnal eu gweinidogion yn gyfattebol i'w hanghenion. Efallai fod y 661 o weinidogion a berthynant i'r tri enwad efengylaidd yn y cymmydogaethau hyn yn brawf llai nodedig o'r hyn a all zel bersonol ei wneyd pan yn rhydd o lyffetheiriau y Llywodraeth, na'r nifer o weinidogion a gynhelir gan gyrph crefyddol ereill. Pa mor arbwyllog bynnag, neu, pa mor goel-grefyddol bynnag, rhaid i bob sect gael ei gweinidogion; ac y mae holl nifer y gweinidogion a gynhelir yn y cymmydogaethau hyn, trwy zel bersonol anngbydffurfwyr, nid yn 661, ond yn 1185. Y mae ymneillduwyr o bob math, gan gynnwys y Pabyddion, mewn gwirionedd, yn cynnal tri chynnifer o weinidogion ag a gynhelir gan y Sefydliad. Nid yw y Sefydliad yn y cymmydogaethau hyn, er ei chefnogi gan awdurdod y Llywodraeth, ac arlwy y Llywodraeth, ac yn cynnwys o'i mewn holl bendefigaeth y tir, yn meddu mor bedwaredd ran o holl nifer gweinidogion crefydd. Y mae zel ymneillduol yn cynnal y tair rhan ereill o'r pedair. Pwy a all feddwl, pan y delo dattodiad yr Undeb, y bydd i eglwysi y Sefydliad fwrw ymaith eu gweinidogion, ac ymysgwyd oddiwrth y baich o gynnal 367 o weinidogion, pan y mae enwadau tlottach yn yr un gymmydogaeth yn cynnal 1185?

Yn wir, y mae y Sefydliad wedi atteb yr ymholiad yma eisoes; canys y mae rhan fawr o'i gweinidogion yn barod yn cael eu cynnal gan eu pobl? Ac y mae y gor-nifer, fel ffrwyth zel bersonol ar y rhai a gynnyrchir trwy yr Undeb, yn llawer mwy nag ydyw gor-nifer y gweinidogion ymneillduedig ar yr eiddo y Sefydliad. Ar y pen yma, cawn brawf boddlonol yn y taflenau canlynol.

*Cydmariaeth o rif yr Eglwysi a arlwyir gan y Llywodraeth i ardaloeda Gweithfeydd Cottwm swydd Gaerhirfryn, a'r nifer o Eglwysi a Chapeli a arlwyir i'r unrhyw gymmydogaethau drwy zel bersonol.*

| Enwadau. | Eglwysi a Capeli. | Eisteddle-oedd. | Ysgolion Sabbothol. | Athrawon. | Ysgolorion. |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhydd eglwysi y 3 Enwad | 276 | 152,641 | 291 | 9,811 | 73,676 |
| Eglwyswyr Gwirfoddol .... | 92 | 92,345 | 66 | 2,389 | 25,310 |
| Cyfanrif Gwirfoddolion...... | 368 | 244,986 | 357 | 12,200 | 98,986 |
| Eglwyswyr y Llywodraeth. | 108 | 128,903 | 133 | 4,778 | 50,620 |
| Gor-nifer Gwirfoddolion..... | 260 | 116,083 | 224 | 7,422 | 48,366 |

*Cydmariaeth o nifer yr Eglwysi a arlwyir gan y Llywodraeth i ardaloedd Gweithfeydd Gwlan swydd Gaerefrog, â'r nifer o Eglwysi a Chapeli a arlwyir i'r unrhyw ardaloedd drwy zel bersonol.*

| Enwadau. | Eglwysi a Chapeli. | Eisteddle-oedd. | Ysgolion Sabbothol. | Athrawon. | Ysgolorion |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhydd eglwysi y 3 Enwad | 385 | 206,678 | 416 | 21,926 | 84,925 |
| Eglwyswyr Gwirfoddol ..... | 57 | 32,426 | 45 | 1,450 | 10,124 |
| Cyfanrif Gwirfoddolion ..... | 436 | 239,104 | 461 | 23,376 | 95,049 |
| Eglwyswyr y Llywodraeth. | 116 | 104,310 | 135 | 4,351 | 30,375 |
| Gor-nifer Gwirfoddolion.... | 320 | 134,734 | 326 | 19,025 | 64,674 |

*Cydmariaeth o'r Eglwysi a arlwyir gan y Llywodraeth i ardaloedd y Gweithfeydd Cottwm a Gwlan, â'r Eglwysi a'r Capeli a arlwyir i'r unrhyw ardaloedd trwy zel bersonol.*

| Enwadau. | Eglwysi. | Eisteddle-oedd. | Ysgolion Sabbothol. | Athrawon. | Ysgolorion. |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwirfoddolion swydd Gaerhirfryn ............ | 361 | 244,986 | 357 | 12,900 | 98,286 |
| Gwirfoddolion swydd Gaerefrog............... | 436 | 239,104 | 461 | 23,376 | 95,049 |
| Cyfanrif Gwirfoddolion ... | 804 | 484,090 | 818 | 35,576 | 194,035 |
| Eglwyswyr y Llywodraeth swydd Gaerhirfryn | 108 | 104,310 | 133 | 4,778 | 50,620 |
| Eto, yn swydd Gaerefrog | 116 | 104,310 | 135 | 4,351 | 30,375 |
| Holl Egl. y Llywodraeth | 224 | 233,213 | 268 | 9,129 | 80,995 |
| Gor-nifer y Gwirfoddolion | 580 | 250,877 | 550 | 26,447 | 113,040 |

Mae y taflenau blaenorol yn dangos bod zel bersonol yn y pedwar enwad efengylaidd, wedi arlwy eisoes yn yr ardaloedd llaw-weithyddol, dri chymmaint o weinidogion, ysgolion, ac athrawon, ag a arlwyir yn uniongyrchol neu yn achlysurol gan y Llywodraeth; a phan fyddo i eglwysi y Sefydliad gael eu hysgaru oddiwrth y Llywodraeth, ni bydd i ond cyfran fechan iawn o'r addysg efengylaidd a weinyddir yn bresenol gael effeithio arno drwy hyny; a phe byddai i'r holl weinidogion a gynhelir gan y Llywodraeth, ddiflannu i ganlyn cyflogau y Llywodraeth, byddai tair pedwaredd ran o weinidogion y pedwar enwad efengylaidd mawr hyny yn aros wedi'n i bregethu Crist i'r bobl, o ba rai y byddai 143, sef yn agos i'r bummed ran, yn weinidogion yr eglwysi Lloegraidd rhydd. Ond, gan fod 143 o eglwysi Lloegraidd yn cynnal y gweinidogion heb gynnorthwy y Llywodraeth yn awr, nid oes un amheuaeth na byddai i'r 224 eglwysi y rhai y cynhelir eu gweinidogion yn awr gan y Llywodraeth ddechreu cynnal eu gweinidogion eu hunain ar ddattodiad yr Undeb, fel y gwna y lleill. Y mae y nifer o weinidogion eglwysig a gynhelir gan y bobl eisoes yn 143, a holl nifer y gweinidogion a gynhelir gan y bobl yn 1328, tra nad yw nifer y rhai a gynhelir gan y Llywodraeth namyn 224. Y mae yn anhawdd meddwl y byddai i 224 o gynnulleidfäoedd perthynol i'r Sefydliad eu gwarthruddo eu hunain trwy aros heb weinidogion, a heb addoliad cyhoeddus, er eu bod, efallai, y cynnulleidfäoedd cyfoethocaf yn yr ardaloedd llaw-weithyddol, tra fyddo 1328 o gynnulleidfäoedd tlottach na hwy, yn cynnal eu gweinidogion a'u hysgolion, ac ar yr un pryd yn cyfodi trysorfeydd i anfon cenhadon i fysg paganiaid. Ond yn hyttrach, y mae pob tebygolrwydd y darperid nifer fwy o weinidogion i'r cymmydogaethau pwysig hyny yn ebrwydd, pe y symmudid gefynau y Llywodraeth oddiarnynt.

Yn olaf, cymerais yn ganiattäol o hyd, bod y 54 eglwysi seneddol, wedi eu darbod gan yr Undeb; ond y mae hyny yn gyfeiliornus. Y mae agos yr holl eglwysi wedi ei hadeiladu yn benaf trwy gyf-roddion gwirfoddol, a'r gweinidogion a gynhelir yn bennaf gan y bobl; fel y dylai y 54 eglwysi hyn gael eu chwanegu gydâ phrïodoldeb at y nifer a arlwywyd trwy zel bersonol, ac felly ni's gadewir namyn 170 allan o'r 1028 cynnulleidfäoedd y pedwar enwad efengylaidd,—hyny yw, llai na'r bummed ran o'r cyfan,—i gael effeithio arnynt trwy ddattodiad yr Undeb.

Yn olaf, gadewch i ni gydmaru y nifer o weinidogion a ddarparwyd gan y Llywodraeth, â'r nifer a arlwywyd trwy zel bersonol, i'r brif ddinas.

A ganlyn sydd daflen a wnaed wedi ymchwilion manol, ac a gyhoeddwyd gan bwyllgor Cenhadaeth Ddinesig Llundain yn eu misolyn am Ionawr 1843.

*Taflen o nifer yr Eglwysi a'r Capeli yn y Brif-ddinas, Ionawr* 1843.

| Dosbarth. | Plwyfydd | Poblogaeth. | Eglwysi. | Eisteddle. Eglwysig. | Capeli Ymneill. | Eisteddle. Ymneill. | Annibyn-wyr. | Henadur-iaid. | Bedydd-wyr. | Trefnydd-ion. | Pedwar Enwad. | Holl Enwadau. |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Ddinas ......... | 98 | 54,626 | 60 | 32,346 | 21 | 18,610 | 4,600 | 1,000 | 1,400 | 150 | 7,150 | 50,956 |
| Eto, oddiallan i'r Muriau......... | 10 | 70,448 | 13 | 15,397 | 20 | 10,400 | 4,140 | 700 | 1,000 | 2,760 | 8,600 | 25,797 |
| Southwark ......... | 6 | 98,668 | 15 | 12,700 | 26 | 14,360 | 2,290 | ... | 6,440 | 4,030 | 12,760 | 27,060 |
| Westminster ...... | 10 | 222,043 | 36 | 39,982 | 35 | 20,708 | 10,460 | 1,970 | 2,720 | 660 | 15,810 | 60,690 |
| All-blwyfau o fewn cylch Cyfrifon Marwoldeb,..... | 22 | 905,538 | 100 | 119,212 | 187 | 110,280 | 42,730 | 2,100 | 21,899 | 28,445 | 95,174 | 229,492 |
| All-blwyfau oddiallan i gylch Cyfrifon Marwoldeb | 5 | 360,113 | 46 | 58,255 | 53 | 31,242 | 7,438 | 2,319 | 5,735 | 9,663 | 25,155 | 89,497 |
| Treflanau y Brif-ddinas........... | 39 | 310,948 | 80 | 73,398 | 105 | 44,628 | 21,658 | 1,280 | 7,040 | 8,770 | 38,748 | 117,926 |
| Y Brif-ddinas ...... | 190 | 2,022,384 | 350 | 351,290 | 447 | 250,228 | 93,316 | 9,369 | 46,234 | 54,478 | 203,397 | 601,418 |
| Y Brif-ddinas a chau y ddinas allan | 92 | 1,967,758 | 290 | 318,944 | 426 | 231,618 | 88,716 | 8,369 | 44,834 | 54,328 | 196,247 | 550,462 |

Mae y daflen flaenorol yn ein galluogi i farnu am esgeulusiad y Brif-ddinas gan y Llywodraeth. Mae yr holl boblogaeth yn 2,022,384: ond er canfod cyfartaledd gweinidogion y Llywodraeth âg anghenion y boblogaeth, mae yn rhaid i ni dynu nifer poblogaeth y ddinas allan o boblogaeth y brif-ddinas yn ei heangder presenol. Y mae arlwy mawr o weinidogion gan y Llywodraeth o fewn y ddinas; ond gan eu bod yn cyfyngu eu gweinidogaeth yn hollol o fewn eu plwyfau eu hunain, ac nad yw eu dylanwad i'w deimlo o'r tu allan i furiau y ddinas, ni byddai eu cynnwys o fewn unrhyw ddarluniad o'r arlwy o addysg gyhoeddus i gorph presenol y brif-ddinas namyn cam arwain y darllenydd. Gan hyny, wedi y tynom bob pen o gyfrifon y ddinas allan, bydd eglwysi a chapeli y brif-ddinas bresenol yn sefyll fel y canlyn:—Y boblogaeth yw, 1,967,758; y plwyfau ydynt 92; eglwysi a chapeli perthynol i'r Sefydliad, 290; eisteddleoedd, 318,944; capeli ymneillduol, 426; eisteddleoedd, 231,618; o'r rhai y mae 88,716 yn perthynu i'r Annibynwyr, 8369 i'r Henaduriaid, 44,834 i'r Bedyddwyr, a 54,328 i'r Trefnyddion. Eisteddleoedd y pedwar Enwad, ydynt 196,247, a'r eiddo yr holl enwadau ydynt 550,462. Os cymerwn yn ganiattäol fod pob eglwys blwyfol, a phob eglwys randirol yn meddu dau weinidog, nyni a allwn dynu at nifer gweinidogion y Sefydliad. Gan fod y plwyfi yn 92, a'r capeli perchenogol tua 50. Nifer yr eglwysi rhandirol yw, 290—142=148. O ganlyniad, nifer y gweinidogion yn eglwysi y Sefydliad ydyw, 2×92 a 2×148, a 50=530: ac y mae yr eglwys yn darbod addysg i 530,000 allan o 1,967,758; gan adael 1,437,758, sef dwy ran o dair o'r holl bobl heb un arlwyad o weinidogion ar eu cyfer. Ac ni's gellir prïodoli y ddarbodaeth yma o weinidogion Cristionogol yn hollol i'r Undeb. Canys, yn gyntaf, rhaid i ni dynu allan weinidogion y capeli perchenogol, y rhai ni's cynhelir gan y Llywodraeth, ond gan y bobl; ac yn nesaf, rhaid i ni dynu nifer mawr allan dan ben yr eglwysi rhandirol; canys fe gyfodwyd y rhan fwyaf o'r eglwysi hyn trwy gyf-roddion gwirfoddol; y mae amryw o honynt heb feddu ond gwaddolion bychain iawn, a'u gweinidogion yn ymddibynu yn benaf ar ardrethion eu heisteddleoedd; a'u curadiaid yn cael eu darbod iddynt gan mwyaf gan Gymdeithasau y Bugeil-ged, a'r Cynnorthwy Curadyddol; fel y mae o leiaf hanner gweinidogion yr eglwysi rhandirol heb gael eu cynnal gan y Llywodraeth, ond gan zel bersonol. Pan dyner y rhai hyn allan, gwelir nad yw y nifer a gynhelir gan y Llywodraeth namyn 332; canys 530—50—148=332. Yr hyn oll a wnaeth yr Undeb i'r brif-ddinas, yw arlwy 332 o weinidogion, i 1,967,758 o eneidiau. Y mae yn darbod gweinidogion i 332,000 o'r bobl, ac yn gadael 1,635,758 o honynt, sef mwy na phedair rhan o bump heb weinidogion. Dylasai arlwy un gweinidog i bob mil o'r boblogaeth; ond, nid yw yn arlwy un i bob 5,926.

Y mae braidd yn anmhossibl gor-fawrygu pwysigrwydd y brif-ddinas.

Y mae 2,022,384 o ddynion yn gynnulledig o'i mewn, a'r rhai hyny yn chwanegu yn ol y nifer o 30,000 yn flyneddol. Mae ei phoblogaeth eisoes yn gyfartal a'r eiddo swyddi Bedford, Berks, Bucks, Cambridge, Caerlleon, Cernyw, Cumberland, Dorset, Durham, a Rutland. Y mae eisoes yn gymmaint ddwy waith a phoblogaeth Cymru oll, a braidd yn gymmaint a'r eiddo Ysgotland. Dyma lle y mae eisteddle yr amherodraeth; yma y mae llys y Frenines yn tynu atto bendefigaeth fwyaf ysplenydd y byd. Yma yr ymgynnulla gweinidogion y Senedd amherodrol y rhai a lywodraethant diriogaethau ehang y Goron Brydeinaidd. Yn ei llysoedd cyfreithiol y mae miloedd o'r meddyliau mwyaf bywiog ac egnïol yn y deyrnas yn ymdrechu hyd eithaf eu galluoedd deallol er ennill golud a chlod. Y mae ei thrafnidiaeth yn lledu ei breichiau i gasglu cyfoeth yr holl fyd, ac yn llwytho ei masnachwyr, arianwyr, cyfnewidwyr, a thrafnidwyr o bob math, â chyfoeth tywysogaidd. O honi yr arllwysa llëenyddiaeth amrywiaethol, i ddyrchafu neu warthruddo, i oleuo neu wyrdroi, i fendithio neu felldithio yr holl deulu dynol. Y mae pob tref a phentref drwy y deyrnas yn tremio ar ei Newyddiaduron. Iddi fel canolfa dillyn-ddull, gwychder, coethiant, gwybodaeth, a haeledd, y mae myrddiynnau o ddynion dysgedig yn dyfod i borthi eu chwaeth, tra y mae dïeithriaid o bob gwlad yn ymweled â hi i chwilio i'n sefydliadau neu feirniadu ein hymddygiadau. Ar y llaw arall, y mae llawer o ddefnydd llygriad ynddi. Dyru gyfleusdra i foethiant a glythineb annherfynol, er gwanhau a llygru y goludog, i'r rhai y mae difyrion gwastraffus yn dilyn y naill y llall mor gyflym, nes peri i oes o seguryd annheilwng ymddangos yn drafferthus, a gorlethu â lludded y rhai y gellid dweyd am danynt mai eu hunig orchwyl yw peidio gwneyd dim. Yn mysg y dospeirth gweithiol, y mae y myrddiynnau a geisiant ryw gynhyrfiad yn yr yspeidiau byrion oddiwrth eu llafur dybryd, yn cael eu llygru yn y gwirod-dai, y gerddi tê, a'r chwareudai isel-ryw; trwy y Newyddiaduron Sabbothol, a'r gwib-deithiau Sabbothol, trwy ddarlithoedd y Socialiaid, a misolion anffyddol; ac uwchlaw y cwbl, trwy y tlodi anobeithiol i'r hwn y mae torfeydd wedi suddo hyd y gwefusau, trwy yr hyn y'u gwnaed yn ddïofal o grefydd, ffyddlondeb fel deiliaid, cymeriad, a bywyd ei hunan.

Nid oes un lle yn y byd y mae mwy o eisiau gweinidogion effro, ac eglwysi effro, nag un lle y byddai eu hegnïadau yn fwy effeithiol. Pa ryw ddylanwad a gaffai Llundain ar y byd pe byddai ynddi ond un gweinidog difrifol, goleuedig am bob mil o'r trigolion; pe byddai i dlawd a chyfoethog, tywysogion, pendefigion, seneddwyr, cyfreithwyr, golygwyr Newyddiaduron, awdwyr, masnachwyr, celfyddwyr a llafurwyr, ymwelwyr o bob gwlad, a dïeithriaid o bob teyrnas, ganfod yma fil o bregethwyr effro, a mil o gynnulleidfäoedd, y rhai y byddai eu duwioldeb, eu zel, a'u brawdgarwch, yn

gyfryw ag i adgofio profiad yr eglwys yn Jerusalem pan oedd gras Duw wedi ei gwneuthur yn foliant ar y ddaiar ![1]

Eto i'r ddinas ddigymhar yma, yr hon y mae y Llywodraeth gan gymeryd arni arlwy ar gyfer ei hangenion ysbrydol, yn cynnal yn uniongyrchol ac achysurol 430 o weinidogion, 90 o ba rai ydynt wrth ei gorchymyn yn cyfyngu eu gweinidogaeth i 54,000 o ddynion o fewn muriau y ddinas, ac yna cyflwyna i ofal 332 ereill, 1,967,758 o eneidiau. Mae y cyfryw gyflead ar weinidogion yn gwneuthur y rhaniad plwyfol yn ynfydrwydd; ac yn gwneuthur y Sefydliad ei hunan, gyda golwg ar y brif ddinas, o leiaf, yn ddim amgen na thwyll. Pa beth a all 332 o weinidogion ei wneyd er dwy fil-fil o ddynion? Pa beth y maent yn ei wneyd mewn gwirionedd? Wedi eu dewis drwy nodd-aeth, yn annibynol ar eu pobl, a rhyddid ganddynt i wneyd can lleied ag a fynont o'r bron o ddim o natur ysbrydol, a ydynt hwy yn arwain y brif ddinas at Grist? A wnant hwy byth? A allant hwy, neu eu holynwyr, hyd ddydd y farn?

Ond, y mae zel bersonol wedi gwneyd rhyw beth tuag at gyflenwi yr addysg weinidogaethol a attelid gan y Llywodraeth. Mae eisteddleoedd yr holl Ymneillduwyr mewn 426 o Gapeli oddiallan i'r Ddinas, yn 231,618, o ba rai y mae 196,247, yn eisteddleoedd perthynol i'r pedwar enwad efengyl-aidd. Gan hyny, yn gymmaint a bod eisteddleoedd yr enwadau tua phum chweched ran o holl eisteddleoedd yr ymneillduwyr, rhaid bod nifer eu gweinidogion tua phum chweched ran o holl nifer y gweinidogion ymneill-duedig oll, gan gynnwys yr Offeiriaid Pabaidd; a chaniattau un gweinidog i bob capel, y mae gweinidogion y pedwar enwad yma tua phum chweched ran o 426=355. Fel hyn meddwn 355 o weinidogion y pedwar enwad efengylaidd, a 198 o weinidogion eglwysig yn cael eu cynnal gan zel ber-sonol i'r brif ddinas ddiweddar. Mae y Llywodraeth yn cynnal 332 o weinidogion, y Sefydliad yn cynnal 530; a zel bersonol yn cynnal 553. Felly y mae zel bersonol yn cynnal 23 o weinidogion yn fwy na'r Sefydliad, a 221 mwy na'r Llywodraeth. Pe diddymid yr Undeb, byddai 553 o weinidog-ion y brif ddinas allan o 885 heb deimlo dim oddiwrth hyny; ac nid oes un amheuaeth nad allai y 92 plwyfau, a'r 74 eglwysi rhandirol gynnal yn rhwydd y 332 gweinidogion a gynhelir yn awr mewn rhan gan y Llywodraeth. Diau na byddai yr Eglwyswyr, y rhai ydynt y cyfoethocaf o'r holl ddospeirth, yn rhy dlawd, neu yn rhy grintach i ddarpar cynhaliaeth iddynt, megis y gwneir gan yr ymneillduwyr o bob dosparth, hyd yn nod yr Undodiaid a'r Pab-yddion.

Fe'n dysgir oddiwrth y ffaith uchod fod zel bersonol wedi gwneyd llawer mwy na'r Llywodraeth er lledaenu gwybodaeth grefyddol yn y brif ddinas,

1 Act. 2. 41—47; a 4. 31—37.

ac yn rhandiroedd gweithfäol swydd Gaerhirfryn a swydd Gaerefrog: a gwelir effeithiau cyffelyb mewn trefydd mawrion, a rhandiroedd poblogaidd ereill o'r wlad. Ond y mae yn amlwg fod y Llywodraeth, a zel bersonol wedi hollol fethu llwyr efengyleiddio y boblogaeth. Os oes 885 o weinidogion mewn pump o enwadau efengylaidd ar gyfer y brif ddinas oddiallan i'r "Ddinas," y rhai hyn a fyddent yn gyflenwad o weinidogion i 885,000 o'r trigolion allan o 1,967,758, ac felly gedy 1,082,758, heb weinidogion. Ac y mae yr effaith o hyn yn waeth nag yr ymddengys ar yr olwg gyntaf; canys yn gymmaint a bod areiliaeth gweinidogion yr eglwysi plwyfol, a'r eglwysi rhandirol, nid yn cyrhaedd at y 480,000 y rhai y gallasent mewn mesur eu harolygu, ond at y 1,967,758, y rhai ydynt yn hollol o'r tu hwnt i'w harolygaeth, y mae hyny yn bwrw ar y gweinidogion hyn y fath bwn o lafur eglwysig cyd rhwng priodasau, bedyddiadau, claddedigaethau, cofrestr-iadau, cyfarfodydd plwyfol, elusen ysgolion, &c., &c., fel na's gadewir iddynt nemmawr ddim amser i gymdeithasu fel bugeiliaid â'u pobl; a chan fod pob un o'r 480 gweinidogion hyn wedi cymeryd arno fugeiliaeth 4099 o eneidiau, rhwng y rhai y mae yr yspeidiau byrion o amser a achuba oddiwrth y llwyth dywededig o wasanaeth eglwysig, y canlyniad yw, ei fod yn cael ei analluogi o'r bron i fod yn fugail, ac nad yw y berthynas fugeilaidd yn mhlwyfi dinesig y Sefydliad yn bod mwyach. Ni's medd Llundain 480 o fugeiliaid Eglwys-ig; ond 480 o bregethwyr a darllenwyr, o'r rhai ni's gall nemmawr fod yn fugeiliaid o gwbl. Y mae y meddylddrych ysgrythyrol o eglwys a bugail bron wedi llwyr ddiflannu o'n holl drefydd mawrion.

Gan hyny, mor bryderus y dylasai y Sefydliad fod dan yr amgylchiadau hyn yn y gweinyddiad o'i hesgobyddiaeth, i hyrwyddo adeiladaeth lleoedd addoliad drwy zel bersonol, a chalonogi esgobyddion ac ymneillduwyr i gyn-nal gweinidogion ereill, a chynnull eglwysi ereill o fysg y lluaws anhyddysg.

Ond, yn lle hyny, annghefnogi y naill a'r llall a wnaeth. Nid rhaid i mi ail-adrodd yr hyn a ddywedwyd eisoes, am y rhwystrau y mae bodolaeth y Sefydliad yn ei roddi yn ffordd lluosogiad cynnulleidfäoedd ymneillduedig. Mae yn amlwg bod ofn cael eu cyfrif yn sismaticiaid, cael eu diarddelwi o gymdeithas uchel-radd, cael eu gwarthnodi a'u di noddi, cael eu niweidio yn eu masnach, a'u llesteirio yn eu hymdrechion i ddyfod rhagddynt yn eu galwedigaethau, yn nghyd â'r cyffelyb ganlyniadau o gymdeithasu âg ymneillduwyr, yn rhwym o gadarnhau llawer o Eglwyswyr yn eu penderfyniad dïymchwil i beidio bod dim a wnelont âg ymneillduaeth. Gan hyny, y mae ymneillduwyr yn llafurio i ledaenu gwybodaeth o Grist, dan lawer o anfanteision. Yn y cyfamser y mae yr Undeb wedi rhoddi attalfa lawer mwy effeithiol ar zel bersonol o fewn y Sefydliad ei hunan. Y mae rhai, a feddyl-iant fod y Llywodraeth yn rhwym i arlwy gweinidogion i'r holl boblogaeth yn edrych yn eiddigeddus ar bob ymdrech gwirfoddol fel pe y tueddai i

leihau cyfrifoldeb y Llywodraeth. Ereill ydynt hwyrfrydig i gyfrannu at gynhaliad gweinidogion, am eu bod yn meddwl y dylai rhyw ran o'r meddiannau esgobyddol a phrif eglwysig anferth a berthyn i'r Sefydliad, gael ei neillduo i hyny.

Ond, y mae yr attalfeydd i zel bersonol a achlysurir trwy yr Undeb, fyth yn fwy na'r rhai hyn.

1. Pa mor fawr bynnag y byddo plwyf, a pha mor esgeulus bynnag y byddo ei beriglor, ni all un gyfran o'i blwyfolion eu ffurfio eu hunain yn eglwys wahaniaethol heb ddyfod yn ymneillduwyr. Yn ol 1 *a* 2 *Vict. cap.* 107, y mae yn gyfreithlon i'w mawrhydi mewn cynghorfa benderfynu, trwy orchymyn mewn cynghor, bod i blwyf gael ei rannu yn blwyfau gwahaniaethol; ond ni's gall pum mil o blwyfolion, y rhai y byddo eu gweinidog cyfreithlon yn ddyn annuwiol, neu wedi ei orlwytho â gorchwylion fel na's gall fod yn fugail arnynt oll, ddewis iddynt eu hunain weinidog, pa mor ewyllysgar bynnag a fyddont i'w gynnal. Gall y cyfrin-gynghor alluogi yr esgob neu y noddwr i osod periglor newydd arnynt; ond ni's meddant hwy yr hawl leiaf i sicrhau gweinidog iddynt eu hunain.

2. Pan fyddo y cyfrin-gynghor yn ewyllysgar i ganiattau i blwyf gael ei rannu, a'r bobl yn awyddus i adeiladu lle addoliad newydd, gall yr esgob attal y cyfan trwy ommedd cyssygru y lle. "Canys er y gall neb un o ddeiliaid y frenines adeiladu eglwysi a chapeli, eto rhaid i'r esgob eu cyssegru cyn i'r gyfraith eu cydnabod yn eglwysi neu gapeli."[1]

3. Pe byddai yr esgob yn ewyllysgar i gyssegru lle, ni's gall efe wneuthur hyny hyd oni byddo yr adeilad wedi ei waddoli yn deilwng.[2] Gall mil o ddynion heb weinidog, a heb addoliad cyhoeddus, mewn ardal dlawd, trwy ymdrechion dirfawr gyfodi dwy neu dair mil o bunnau tuag at adeilad newydd; a gall eu zel a'u hymröad sicrhau cyllid digonol i unrhyw weinidog duwiol a weinyddo iddynt; ond oddieithr iddynt allu cyfodi mil arall fel gwaddol, rhaid iddynt roddi eu bwriad i fynu, ac aros heb weinidog.

4. Ond, pa ham nad allent hwy addoli mewn adeilad annghyssegredig? (1.) Ni ellir arfer un adeilad annghyssegredig at wasanaeth y Sefydliad heb drwydded yr esgob.[3] (2.) Ni ellir caniattau i un offeiriad weinyddu yn y fath adeilad heb drwydded yr esgob.[4] (3.) Y mae yr esgob yn meddu awdurdod gyflawn i attal ei drwydded oddiwrth y sawl y gwelo ef yn dda.[5] (4.) Pan fyddo yr esgob wedi rhoddi ei drwydded, gall ei galw yn ol pan y myno, heb unrhyw gynghawsedd cyfraith flurfiol.[6] Gan hyny, megis y gall y cyfrin-gynghor attal adeiladiad eglwys randirol, ac y mae y gyfraith yn gwahardd cyssegriad unrhyw adeilad heb waddoliad, felly y mae gan yr esgob

1 *Burn*, Vol. 1. p. 322. 2 *Ibid*, p. 323. 3 *Ibid*, p. 322, can. 71. 4 *Ibid*, Vol. 2. p. 61. can. 48, 36. 5 *Ibid*, Vol. 1. p. 156. c, d, m, q. 6 *Ibid*, Vol. 2. p. 74, 75; a 1. p. 306.*b*.

awdurdod gyfreithiol i attal defnyddiad adeilad annghyssegredig; ac os dyn bydol a fydd efe, heb ewyllysio gweled gweinidog efengylaidd yn ei esgobaeth, gall roddi attalfa ar eu hymdrechion i gael y cyfryw un, pa un bynnag ai i le cyssegredig neu ddigyssegredig.

5. Ond tybier bod capel wedi ei adeiladu, a'r esgob yn ewyllysgar i'w drwyddedu, y mae y gyfraith yn gwahardd i'r bobl enwi eu gweinidog. "Pa bryd bynnag y byddo capel cynnorthwyol yn cael ei adeiladu, gan berson y fam eglwys y mae yr hawl i enwi y gweinidog, oddieithr bod cyttundeb arbenig i'r gwrthwyneb, yr hyn a ddyru ad-daledigaeth i berson y fam eglwys."[1] Gall y periglor fod yn ddyn heb grefydd, efe a all fod heb wneyd dim tuag at gyfodi y capel, gall y rhai y'i cyfodwyd trwy eu zel annghymeradwyo ei athrawiaeth; ond er hyny efe a fedd yr hawl i bennodi gweinidog iddynt, athrawiaeth yr hwn y gallant ei chondemnio, ac yn nodweddiad yr hwn ni's gallant deimlo un ymddiried.

6. Yn wir, ni's gallant gyrhaedd y pwynt yma heb ei gydsynied. Er cael awdurdodiad i adeiladu capel cynnorthwyol, y mae cydsynied yr esgob, y noddwr, a'r person, oll yn ofynol. "Ni's gellir agor capel er cynhaliad addoliad cyhoeddus," medd Syr John Nicholl, "heb gydsynied yr esgob, gweinidog y plwyf, ac yr ydwyf yn meddwl noddwr y fywioliaeth."[2] Gall y naill neu y llall o'r tri, felly, ar unrhyw fympwy, neu unrhyw olwg ar hunanles, amddifadu y bobl o'u hawl amlwg i ymgynnull i addoli, oddieithr iddynt gydsynio i adael eu cymmundeb eu hunain.

7. Pe byddai i'r bobl, yn ddisylw o'r attalfa gyfreithiol, adeiladu eu capel heb ganiattad yr esgob, y noddwr, a'r person, ni feiddiai un o weinidogion y Sefydliad bregethu iddynt ynddo, pa mor ddymunol bynnag y byddai hyny iddynt. "Yn ol y gyfraith, ni's gall neb fŷnu gweinyddiad gwasanaeth dwyfol heb gydsynied y person, a thrwydded yr esgob; ac y mae y sawl a weinyddo heb y fath gydsynied, yn ddarostyngedig i geryddon eglwysig." Canys nid oes un egwyddor gyffredinol o gyfraith eglwysig, wedi ei sefydlu yn fwy diysgog na hyn, sef "nad all unrhyw offeiriad weinyddu mewn unrhyw eglwys na chapel o fewn plwyf, heb gydsynied y person."[3]

8 Gallai y bobl eto ymgynnull i dai annedd, ac yn y plwyfau poblogaidd hyny, lle nid oes weinidog mewn gwirionedd, a lle y mae miloedd heb eu dysgu mewn pethau crefyddol, hwy a allent wahodd gweinidogion duwiol i'w cyfarfod yn y cynnulleidfäoedd bychain hyn. Ond rhagwelwyd, a rhagflaenwyd eu hamcanion; canys y mae rheol 71 yn arosod, "na byddo i un gweinidog bregethu......mewn unrhyw dŷ annedd......dan berygl diswyddiad." Mae yn wir fod Crist wedi gorchymyn i'w weinidogion bregethu yr Efengyl i bob creadur;[4] ac y mae ar gof am yr apostolion, eu bod beunydd

1 *Burn*, Vol. I. p. 305. 2 *Ibid*, p. 300; *Syr J. Nicholl in Burn*, Vol. I. p. 306*a*.
3 *Ibid*, Vol. I. p. 306*a*. 4 Marc 16. 16.

yn y deml, ac o dŷ i dŷ, na pheidiasant a dysgu a phregethu Iesu Grist;[1] ond y mae y Llywodraeth wedi gosod deddf, na's gwiw i un gweinidog o'r Sefydliad drwy Loegr, bregethu Crist heb drwydded yr esgob, a heb gydsynied y person; a heb y cyffelyb drwydded a chydsynied, ni wiw i boblogaeth esgeulusedig adeiladu iddynt eu hunain leoedd addoliad, na chynnal iddynt eu hunain weinidogion, neu eu ffurfio eu hunain yn eglwysi Cristionogol. *Y mae y cyfreithiau hyn yn rheswm digonol am y ffaith, o fod y Llywodraeth wedi gadael mil-fil o eneidiau yn y brif ddinas yn unig heb weinidogion, a Christionogion yn edrych ar hyny heb wneuthur dim.*

Ond, fe ddaw diddymiad yr Undeb, ac yna symmudir yr attalfeydd cyfreithiol ydynt yn ffordd dygiad gweinidogion newyddion i fewn, y rhai a gyfodant oddiar noddaeth ac edwicaeth blwyfol. Yna y gall aelodau duwiol o eglwysi y Sefydliad, adeiladu iddynt eu hunain dŷ gweddi yn y lle, a'r pryd y mynont, a galw hefyd unrhyw weinidog duwiol a ddewisont, i weinidogaethau yn eu mysg. Yna hefyd y derfydd y rhagfarnau gwaelion a ffynant yn erbyn ymneillduaeth; a bydd i eglwysi Lloegr, wedi eu rhyddhau oddiwrth lyfetheiriau y Llywodraeth, eu profi eu hunain mor zelog ag eglwysi yr America: ni bydd Llundain yn llai cyflenwol â themlau Cristionogol na Chaerefrog Newydd; ac ni bydd genym mwyach achos i ofni cynnydd dirfawr y boblogaeth, i'r rhai y bydd i zel Gristionogol arlwy gweinidogion ac athrawon yn ol eu hangenion.

---

## ADRAN III.—DYLANWAD YR UNDEB AR GYNHALIAD GWEINIDOGION.

Nid yw yn sicr fod y trefniant o daliad sydd yn gwneuthur yr offeiriaid yn fwyaf goludog, y trefniant goreu. Yr oedd gweinidogion cyntaf Crist yn dlodion. Gweithiai Paul er ei gynnal ei hun yn Corinth, Ephesus, a Thessalonica;[2] ac ni allai fod gweinidogion ereill yn derbyn cynhaliaeth helaethach na'r apostolion yn yr eglwysi hyn. Mae yn debyg fod pob gweinidogion y pryd hyny yn llafurio i'w cynnal eu hunain, oblegid bod yr eglwysi yn gyffredin yn dlodion; eto yr oedd gras mawr ar yr eglwysi hyn, a'u gweinidogion a ddewisid gan yr eglwysi, ac a gymeradwyid gan yr apostolion, oeddynt yn ddynion grymmus yn ddïammeu.

Pan fyddo eglwysi yn dlodion, gall eu gweinidogion hefyd fod yn dlodion, heb anfantais: ond y mae Crist wedi ordeinio bod iddynt gael eu cynnal yn ol eu hangenion, pa un bynnag ai i dlodion neu gyfoethogion y byddont yn gweinyddu. Efe a honodd hyn iddynt ar yr egwyddor o gyfiawnder: *"Na feddwch aur, nac arian, nac efydd i'ch pyrsau; nac ysgrepan i'r daith,*

1 Act. 5. 42. 2 1 Cor. 9. 11—15. 2 Cor. 11. 7—9. 1 Cor. 4. 11, 12. Act. 18. 1—3. Act. 20. 33—35. 2 Thess. 3. 8, 9.

*na dwy bais, nac esgidiau, na ffon ; canys teilwng i'r gweithiwr ei fwyd.*[1] *......Ac yn y ty hwnw arhoswch, gan fwytta ac yfed y cyfryw bethau ag a gaffoch ganddynt: canys teilwng yw i'r gweithiwr ei gyflog.*"[2] Y mae Paul hefyd yn appelio at gyfiawnder y Cristionogion pan yn gofyn am gynhaliaeth i'w gweinidogion: "*Os nyni a hauasom i chwi bethau ysbrydol, ai mawr yw, os nyni a fedwn eich pethau cnawdol?*"[3] Ac megis y dylai y rhai ydynt yn cyssegru eu hamser a'u galluoedd i wasanaeth yr eglwysi, o gyfiawnder gael eu cynnal gan yr eglwysi, y mae taliad y ddyled hon yn cael ei ofyn yn bendant trwy awdurdod Crist; "*Oni wyddoch chwi fod y rhai sydd yn gwneuthur pethau cyssegredig yn bwytta o'r cyssegr? a'r rhai sydd yn gwasanaethu yr allor yn gyd-gyfrannogion o'r allor? Felly hefyd yr ordeiniodd yr Arglwydd, i'r rhai sydd yn pregethu yr efengyl fyw wrth yr efengyl.*[4]*......A chyfraned yr hwn a ddysgwyd yn y gair, â'r hwn sydd yn ei ddysgu, yn mhob peth da.*[5]*......Cyfrifer yr henuriaid sydd yn llywodraethu yn dda, yn deilwng o barch dau-ddyblyg; yn enwedig y rhai sydd yn poeni yn y gair a'r athrawiaeth. Canys y mae yr ysgrythyr yn dywedyd, Na chau safn yr ych sydd yn dyrnu yr yd; ac, Y mae y gweithiwr yn haeddu ei gyflog.*"[6]

Y mae y gosodiadau hyn yn gofyn cynhaliad i'r holl rai a elwir i weinidogaethu trwy awdurdod Crist, ag ydynt yn meddu y cymhwysderau i'r weinidogaeth a gyfrennir gan ei Ysbryd ef; ond nid ydynt yn cymhell yr eglwysi i roddi, nac yn rhoddi hawl i'w gweinidogion i ddisgwyl, dim yn dynesu at gyfoeth. Mae yn gweddu i weinidogion cyflëedig mewn cylch boneddigaidd fod wedi cael dysgeidiaeth haelfrydig, yn meddu llyfr-gell dda, ac yn alluog i gyssegru eu hamser a'u galluoedd i'r weinidogaeth, heb fod dan ofalon bydol; am fod y pethau hyn yn angenrheidiol er eu gwneyd yn effeithiol: ond, gellir cael y pethau hyn heb lawer o olud. Nid yw yn ddymunol fod gweinidogion mor gyfoethog a'r aelodau cyfoethocaf o'u heglwysi, nac mor dlawd a'r tlottaf. Byddai y naill sefyllfa yn eu gwneyd yn agored i falchder, a'r llall, i waseidd-dra. Gwnelai y naill hwy yn hunanfoethus, a'r llall a'u llwythai â gofalon. Sefyllfa ganolig, mae yn debyg, yw yr un y gall gweinidogion weini yn fwyaf effeithiol ynddi er lles ysbrydol yr eglwys, yn yr hon y byddo gweinidog a fyddo yn byw o fewn ei gyllid, ac yn cadw ychydig dros ben ei draul at elusen, yn gyfoethocach na'r cyfoethocaf a fyddo yn byw uwchlaw ei foddion; yn y cyfryw sefyllfa, efe a ddiogelir rhag cenfigen y tlawd trwy symlrwydd ei ddull o fyw, ac a amddiffynir rhag diystyrwch y goludog, trwy ei annibyniaeth, ei ledneisrwydd, a'i wybodaeth.

Gweinydda yn mhellach i leshad yr eglwysi, fod cyllid y gweinidog yn cyfatteb i amgylchiadau yr eglwys. Mae cyfoeth yn cyfodi gweinidog pobl

1 Matt. 10. 9, 10. 2 Luc 10. 7. 3 1 Cor. 9. 11. 4 1 Cor. 9. 13, 14. 5 Gal. 6. 6. 6 1 Tim. 5. 17, 18.

dlodion i sefyllfa yn yr hon ni's gall y naill blaid gyd-ymdeimlo a'r llall yn drwyadl: ac ar y llaw arall, os bydd eglwys yn oludog, prin y gall y gweinidog, os bydd yn dlawd iawn, gymdeithasu â'i haelodau ar dir cyfartal, neu ymweled â hwy yn eu tai, neu eu derbyn yn ei dŷ ei hun.

Mae yn amlwg fod yr egwyddorion eglur hyn wedi eu hesgeuluso yn ormodol gan y Llywodraeth. Holl gyllid y Sefydliad y 1836 oedd yn £.3,439,767, ac os cyfrifir yr offeiriaid gweithiol yn 12,923, rhoddai y cyfan-swm uchod i bob un y swm o £266 yn flyneddol. Ond er cael sicrwydd o'r hyn a delir mewn gwirionedd i'r offeiriaid gweithiol yn gyffredinol, y mae yn rhaid i ni dynu llawer allan o gyfan-swm cyllid y Sefydliad cyn gwneyd ein cyfartaledd.

1. Yn gyntaf, mae yn rhaid i ni dynu allan gyllidau yr esgobion. Holl gyllidau yr esgobaethau, yn ol y cyfrif a roddwyd i ddirprwywyr yr ymchwiliad eglwysig, ar gyfartaledd o dair blynedd, a ddiweddai gyda 1831, oedd fel y canlyn :—

| | |
|---|---|
| Caergaint | £.19,182 |
| Caerefrog | 12,629 |
| Durham | 19,066 |
| Ely | 11,105 |
| Llundain | 13,929 |
| Caerwynt | 11,151 |
| Cyfanrif chwech esgobaeth | 87,062 |
| Cyfanrif saith ar hugain o esgobaethau | 160,292 |

Yn ol 6 a 7 Wm. IV, cap. 77, ordeiniwyd fod, "Er darbod ychwanegiad at gyllidau yr esgobaethau lleiaf, y cyfryw symiau blyneddol ag a benderfynir arnynt, i gael eu talu i'r dirprwywyr, o gyllidau yr amryfal esgobaethau mwyaf, fel ag i adael at eu gilydd, gyllidau blyneddol i archesgob Caergaint, o £15,000; i archesgob Caerefrog, o £10,000; i esgob Llundain, £10,000; i esgob Durham, £8,000; i esgob Caerwynt, £7,000; i esgob Ely, £5,500; i esgob Llanelwy, £5,200; i esgob Worcester, £5,000; i esgob Caer Baddon a Wells, £5,000; a bod cyllidau blyneddol yr amryfal esgobion ereill, i fod, nid yn llai na £4,000, na mwy na £5,000."[1] Y mae cyllidau yr esgobaethau lleiaf wedi eu mwyhau er pan gadarnhawyd y gyfraith uchod, trwy y gweddill a ddeuai i law o'r esgobaethau cyfoethocaf; yr yr hyn a gyrhaeddai y swm o £157,000 a dalwyd i ddwylaw y diprwywyr.[2] Heblaw hyny, cafwyd y swm o £92,402, trwy arwerthiad rhyw ettifedd-

1 *Burn*, Vol. 1. p. 195*d*. 2 *Horsman*, p. 9.

iaethau esgobol, a'r dirprwywyr eglwysig a ddefnyddiant y swm yma o £249,402 fel y canlyn :—

| | |
|---|---|
| I fwyhau cyllidau esgobaethau tlodion | 106,388 |
| Ar drigleoedd esgobyddol | 143,014 |
| Y cyfan | £249,402 |

Treuliwyd y £143,014 i bwrcasu ac adgyweirio trigleoedd wyth o'r esgobion, ac fe'u rhanwyd fel y canlyn :—

| | |
|---|---|
| Ripon | 16,111 |
| Bath a Wells | 3,000 |
| Rhydychain | 6,500 |
| Exeter | 3,500 |
| Worcester | 7,000 |
| Caerloyw | 23,627 |
| Rochester | 28,832 |
| Lincoln | 54,444 |
| Y cyfan a dreuliwyd ar wyth o lysoedd ... | £143,014 |

Pan orphener holl drefniadau y dirprwywyr, bydd holl draul flyneddol y Llywodraeth er cynnal yr esgobion, heblaw llôg yr arian a dreuliwyd ar y llysoedd, fel y canlyn :—

| | |
|---|---|
| Caergaint | 15,000 |
| Caerefrog | 10,000 |
| Llundain | 10,000 |
| Durham | 8,000 |
| Winchester | 7,000 |
| Ely | 5,500 |
| Llanelwy | 5,200 |
| Worcester | 5,000 |
| Bath a Wells | 5,000 |
| 19 o Esgobaethau ereill £4,000 | 76,000 |
| Y cyfan ar 28 o Esgobaethau | £146,700 |

Rhaid i ni dynu y swm uchod allan o gyllid y Sefydliad, cyn y gallwn gael allan y talion a wneir i'r offeiriaid gweithiol.

2. Yn nesaf, rhaid i ni dynu allan gyllidau yr eglwysi cadeiriol a'u hoffeiriaid. Y mae deon Durham yn meddu cyllid o £4,800 yn y flwyddyn,

heblaw traul y Sefydliad; a'r seneddr, £32,160. Medd deon Rhydychain £3,113, a'r seneddr £14,736. Deon Westminster, £2,979, a'r seneddr £17,566. Holl gyllidau blyneddol yr amrywiol eglwysi cadeiriol yn Lloegr a Chymru, yw £284,241; a chyllidau yr unrhyw wedi talu allan bob treuliadau o honynt, yw £208,289.[1] Trwy ddeddf ddiweddar, y mae y cyllidau corawl wedi eu lleihau; fel, o hyn allan, megis y byddo y cor-weinyddwyr yn meirw, bydd pob sefydliad corawl i gynnwys deon, cyllid yr hwn at ei gilydd sydd i fod yn £1,680; pedwar *canon*, cyllidau y rhai at eu gilydd a fydd £800, a chwech o îs-ganonwyr, y rhai a dderbyniant £150, bob un.[2] Felly, bydd yr eglwysi cadeiriol, a chynnwys yr îs-ganonwyr, yn sefyll yn debyg i hyn:—

| | |
|---|---|
| 26 o Ddeoniaid, yn ol £1,680, ..................... | 43,680 |
| 104 o Ganonwyr, yn ol £800, ..................... | 83,200 |
| 156 o Is-ganonwyr, yn ol £150, ................. | 23,400 |
| Y cyfan ............................................. | £150,280 |

Rhaid tynu y swm yma eto allan o gyllid y Sefydliad, cyn gwneyd allan gyfartaledd cyllid ei hoffeiriaid gweithiol.

3. Yn nesaf, cyn y deuwn ni i wneyd cyfartaledd o gyllidau y nifer fawr o'r offeiriaid gweithiol, rhaid i ni dynu allan gyllidau rhai o'r bywiolaethau cyfoethocaf. Rhai o'r cyfryw ydynt fel y canlyn:—

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 954 | a feddant | gyllidau o | .................... | £.500 | i | £.750 |
| 323 | „ | „ | .................... | 750 | i | 1000 |
| 134 | „ | „ | .................... | 1000 | i | 1500 |
| 32 | „ | „ | .................... | 1500 | i | 2000 |
| 13 | „ | „ | .................... | 2000 | i | 3000 |
| 3 | „ | „ | .................... | 3000 | i | 4000 |
| 1 | „ | „ | .................... | | | 4843 |
| 1 | „ | „ | .................... | | | 7306 |

Fel hyn y mae 1461 yn meddu cyllidau a amrywiant o £.500 i £.3000 ac uchod; ac os cymerwn ganol-rif eu cyllid yn £.700, bydd holl swm eu cyllid blyneddol yn £.1,022,700.

Y mae y tri rhifiant yma o'u cyssylltu, yn fawr,—

| | | |
|---|---|---|
| Cyllidoedd | 28 o esgobion .......................... | 146,700 |
| „ | 286 o ddeoniaid a chanoniaid......... | 150,280 |
| „ | 1461 o bersoniaid....................... | 1,022,700 |
| „ | 1619 rhwng esgobion ag offeiriaid, | £.1,319,680 |

1 *M'Culloch*, Vol. 2. pp. 399, 411. 2 *Horsman*, p. 27.

4. Byddai yn gyfleus i'n hymchwiliad i ni ysgaru pedwerydd dosbarth, cyllid y rhai sydd uwchlaw y canol-rif. Y mae 830 o bersoniaid, a'u cyllidau o £400 i £500; 1326, a'u cyllidau o £300 i £400; 1979, a'u cyllidau o £200 i £300, ac fel hyn y mae 4135, cyllidau y rhai ydynt yn amrywio rhwng £200 a £500, ac os cymerwn ganol-rif eu cyllid hwy yn £300, cyrhaedda y cyfan £1,240,500.

Os ychwanegwn at hyn holl gyllidau y tri dosbarth blaenorol, yr hyn yn nghyd a wna £1,319,680, fe wna y symiau hyn yn nghyd £2,560,180, a thyner hyny o £3,439,767, yr hyn a ganfyddwn yw swm cyllid y Sefydliad, nyni a gawn yn ngweddill i'w gyfrannu rhwng y lleill o'r offeiriaid, y swm o £879,587.

5. Y mae yn aros eto 4882 o bersoniaid, rhwng y rhai y mae y swm o £879,587 i gael ei rannu, yr hyn a roddai i bob un at eu gilydd gyllid o £180. Ond y mae hyny uwchlaw y canol-rif gwirioneddol; canys y mae 297 yn cael dan £50 yn y flwyddyn; 1629, yn cael dan £100; a 1602 yn cael dan £150; tra y mae 1354 yn unig yn cael rhwng £150 a £200. Byddai y canol-rif o £150, uwchlaw y gwir. At y personiaid tlodion hyn, rhaid ychwanegu eto 5230 o guradiaid tlottach, cyllid blyneddol y rhai sydd at eu gilydd yn £81; gan nad yw y cyfan-swm namyn £423,630. Mae y ddau ddosparth yma yn nghyd yn gwneyd y nifer o 10,112; a chan nad yw holl nifer yr offeiriaid gweithiol namyn 12,923, y maent yn gwneyd i fynu fwy na thair rhan o bedair o'r offeiriaid gweithiol. Y rhai hyn yn nghyd ydynt yn derbyn tua £732,300 a £423,630, yr hyn sydd yn £1,155,930. Ond, fel y gwelsom fod 1619 o'r offeiriaid yn derbyn £1,319,680. y mae 1619 o offeiriaid yn derbyn mwy gan y Llywodraeth na'r 10,112, y rhai ydynt yn gwneyd agos yr holl waith. Mae yr 1619 offeiriaid a gawsant wobrwyon mawrion y Sefydliad, yn meddu at eu gilydd £808 yn y flwyddyn; a'r 10,112 offeiriaid gweithiol, yn meddu at eu gilydd £114. Yr 1619 ydynt yn derbyn gan y Llywodraeth gyflogau saith gymmaint a'u brodyr mwy llafurus.

Y mae yr annghyfartalwch yn nghyfraniadau y Llywodraeth o'i ffafrau, yn ymddangos yn fwy nodedig, wrth eu hystyried bob yn rhan. Y mae yn esgobaeth Caerloyw, lle y cyfrannwyd £23,000 ar y Llŷs esgobol, 97 o fywiolaethau dan £100 yn y flwyddyn. Yn Lincoln, lle y treuliwyd £54,000 ar y Llŷs a'i diroedd, y mae 218 o fywiolaethau dan £100 yn y flwyddyn; ac yn yr wyth esgobaeth, ar y rhai y treuliodd y dirprwywyr £143,000 ar wyth o lysoedd, y mae 502 o offeiriaid, cyllidau swyddol y rhai sydd bob un islaw £100 yn y flwyddyn.[1] Gan nad yw cyllidau y 502 offeiriaid hyn yn nghyd, namyn £50,200, treuliodd y Llywodraeth fwy na dau gymmaint a

[1] *Horsman*, pp. 14, 15.

chyllid y 502 gweinidogion, ar yr wyth tŷ hyn. Yr oedd traul pob tŷ at eu gilydd £17,876; felly llyncai pob un gyllid blyneddol 178 o weinidogion yn yr esgobaethau hyny. Ac er bod pob un o'r esgobion hyny yn meddu cyllid eisoes, darfu i drefniadau y dirprwywyr gyfodi pob un i £4,000, cymmaint a 40 o'u personiaid. Ffeithiau fel hyn a arweiniai Mr. Sydney Smith i ddywedyd, gyda pheth gormodiaith; ond gyda pheth gwirionedd hefyd,—" Pa beth, a ydyw Eglwys Loegr i fod yn ddim amgen na chronfa o gardottwyr ac esgobion? y gwir barchedig Deifas yn ei balas, a Lazarus mewn urddau wrth ei borth, yn cael ei ymgeleddu gan gŵn, a'i gysuro â briwsion."[2]

Ond, tra yr ydoedd y dirprwywyr yn adeiladu neu yn adgyweirio llysoedd yr esgobion, yr oeddynt hefyd yn ychwanegu at y bywiolaethau tlottaf yn yr esgobaethau hyn. Eto, nid oedd eu cynnorthwy namyn yr hyn a ddygai i fwy o eglurdeb y mawr-fri rhagorach a roddai y Llywodraeth ar eu hesgobion. Treulient ar y palasau £143,000, a chyfrannent yn gynnorthwy i'r offeiriaid rheidus, fel y'u geilw Mr. Horsman, £5,259; felly treulient gymmaint saith waith ar hugain ar y palasau, ag a dreulient ar y gweinidogion. Ac fel y mae gwaethaf, y mae mewn lleoedd ereill lawer yn gyffelyb eu hamgylchiadau i'r 502 gweinidogion yn yr wyth esgobaeth uchod; gan fod 10,000 allan o'r 13,000 offeiriaid gweithiol, yn meddu at eu gilydd lai na £114 yn y flwyddyn.

Y mae y tlodi yma, a achlysurir i'r gweinidogion trwy yr Undeb, yn fwy niweidiol, am fod yr Undeb yn sicrhau y talion lleiaf i'r rhai a ddylent dderbyn fwyaf. Prin y gall gweinidogion cyfoethog ar gynnulleidfäoedd tlodion, fod yn frodyr yn mysg brodyr. Pa fodd y gall y tir-ddeiliaid a'r llafurwyr a wnant i fynu eglwys, ar yr hon y byddo yswain mewn urddau yn weinidog, deimlo tuag atto ef fel brodyr at frawd? Rhwyddach o lawer yr ymddiriedent yn, ac y carent weinidog, yr hwn yn gyffelyb mewn duwioldeb, a fyddai yn fwy cydradd a'u sefyllfa. Ac am resymau cyffelyb, y mae gweinidog tlawd iawn yn gorfod ymdrechu âg anhawsderau dirfawr mewn dinas gyfoethog, ac wrth fod yn weinidog ar gynnulleidfa oludog. Gall gras mawr, talent fawr, a phenderfyniad cryf i ochelyd pob dyled, ei alluogi i'w gorfodi, fel Paul yn Corinth gynt; ond y mae cymmaint o fri yn cael ei roddi ar gyfoeth yn y wlad hon, fel mai prin y gall gweinidog hynod o dlawd weinidogaethu i bobl gyfoethog fel brawd i frodyr; ac oddieithr ar achlysuron anfynych iawn, byddai y cyfryw un wedi ei gyfleu mor annghyfleus ag a fyddai gweinidog cyfoethog yn mysg pobl dlodion.

Ond, y mae y Llywodraeth trwy ei Hundeb a'r eglwysi, wedi creu y ddau ddrwg yma. Y mae ei gweinidogion cyfoethog yn aml yn mysg y tlodion, a'i gweinidogion tlodion yn mysg y cyfoethogion. Y 6681 plwyfi a feddant

1 *Horsman*, p. 15.

dan dri chant o eneidiau bob un ynddynt, a gynnwysant y rhan fwyaf o lawer, efallai o'r 1461 o weinidogion ydynt yn cael o £500 i £3,000 yn y flwyddyn. Ar y llaw arall, gellir barnu am y modd y mae y Llywodraeth yn talu i'w gweinidogion dinesig, oddiwrth y mynegiadau canlynol o adroddiad Cymdeithas y Bugeil-ged; *(Pastoral Aid Society.)* "Mae y Gymdeithas yn bresenol yn cynnorthwyo 301 o bersoniaid, y rhai a feddant dan eu gofal boblogaeth o 2,077,703 o eneidiau, neu bob un at eu gilydd, 6,902. Canol-rif cyllid y personiaid hyn sydd tua £200, tra y mae 154 o honynt heb feddu persondai."[2] "Darfu i'r pwyllgor yn ystod y flwyddyn ganiattau ugain o gedion newyddion." "Nifer poblogaeth yr ardaloedd i'r rhai y caniattawyd y cedion hyn, sydd 152,218, yr hyn sydd yn rhoddi tuag 8,000 o eneidiau at eu gilydd i bob person, tra nad yw eu cyllid at eu gilydd yn fwy na £164, ac y mae 13 o honynt heb bersondai."[2] "Mae gan y pwyllgor restr o 56 o ymgeisyddion o'u blaen yn bresenol." "Nifer y boblogaeth at eu gilydd dan ofal pob un o'r ymgeiswyr hyn, yw 5688; a'u cyllid at eu gilydd, sydd £183 yr un, a 44 o honynt ydynt heb bersondai."[3] Y 301 gweinidogion hyn, cyllid y rhai sydd at eu gilydd yn £200 yn y flwyddyn, yn mysg masnachwyr, perchenogion llaw-weithydd, a maelierwyr y trefydd mawrion, a 1461 gweinidogion, cyllid y rhai sydd yn amrywio rhwng £500 a £1,000 yr un, yn mysg pentrefwyr tlodion, ydynt yn rhwym o gyfarfod â chymmaint o anhawsder a'u gilydd i fod megis brodyr yn mysg brodyr.

Yn ol 6 a 7 Wm. IV, y mae cyllid archesgob Caergaint wedi ei ddarostwng i £15,000; ac y mae yr Undeb trwy gynnorthwy zel bersonol, wedi sicrhau £200 yn y flwyddyn bob un i 301 o weinidogion, y rhai a feddant dan eu gofal 2,077,703 o eneidiau, yr hyn a wna 6902 i bob un, at eu gilydd. Gan hyny, y mae cyllid yr archesgob yn gyfartal i'r eiddo 75 o'r personiaid hyn, ac yn llyncu i fynu gymmaint ag a ddarparodd y Llywodraeth at addysg ysbrydol 517,650 o eneidiau.

Mae y Llywodraeth wedi trefnu £60,700 yn y flwyddyn, i archesgobion Caergaint a Chaerefrog, yn nghyd ag esgobion Llundain, Durham, Winchester, Ely, a Llanelwy; a thrwy gynnorthwy zel bersonol, darparodd £60,200 yn y flwyddyn i 301 o bersoniaid, yn meddu dan eu gofal 2,077,703 o eneidiau. Rhoddes yr un swm i saith o esgobion ag a ddyru i weinidogion dwy fil-fil o'r bobl; a thra y mae wedi rhoddi palasau i'r esgobion, ni roddes gymmaint a bwthyn i 154 o'r gweinidogion hyn.

Y mae y cyfrifon hyn yn dangos pe y diddymid yr Undeb, fod yn debyg y byddai i'r wlad hon gynnal cynnifer, efallai, o weinidogion, ag a fedd o rai gweithgar yn bresenol, gan roddi iddynt gystal cyllid.

Nifer yr offeiriaid gweithiol yn bresenol yw, 12,923, o ba rai y mae 2871

1 Adroddiad, t.d. 24. 2 *Ibid,* t.d. 26. 3 *Ibid,* t.d. 28.

yn derbyn cyllid blyneddol o £200 ac uchod. Ond gan fod 5230 o'r curadiaid yn derbyn at eu gilydd gyllid o £81 ; a 4882 o bersoniaid yn derbyn at eu gilydd gyllid o £150; y mae 10,112 o weinidogion, y rhai yn nghyd a dderbyniant yn flyneddol £423,630, a £732,300=£1,155,930; yr hyn a wna at eu gilydd gyllid o £114 yn y flwyddyn.

Y mae yn dra annhebyg y byddai eglwysi y Sefydliad wedi diddymiad yr Undeb yn analluog i gynnal 10,112 o weinidogion â chyllid blyneddol o £114 at eu gilydd.

Pe cymerem yn ganiattäol fod y bedwaredd ran o'r boblogaeth yn ymneillduo oddiwrth y Sefydliad, a bod pedwaredd ran arall, trwy hir esgeulusdra y Sefydliad, wedi suddo i ymarferion annghrefyddol, fel na's gwnelent unrhyw aberth er cynhaliaeth gweinidogion Cristionogol, bydd yn aros wyth mil-fil o Eglwyswyr: a phe byddai i'r rhai hyn gynnal 10,112 o weinidogion yn ol £114 yr un, neu ar y draul o £1,155,930 yn y cyfan, byddai i hyn arlwy un gweinidog am bob 791, ar y draul o dri swllt yr un.

A oes genym le i feddwl y bydd i'r Eglwysi Sefydledig, pan wedi eu rhyddhau o reffynnau y Llywodraeth, wneyd yr aberth ?

Os cymerwn yn ganiattäol, fel o'r blaen, fod ymneillduwyr efengylaidd yn cyrhaedd i bedair mil-fil, y rhai ydynt yn cynnal 6000 o weinidogion, nyni a ganfyddwn eu bod yn cynnal at eu gilydd, un gweinidog am bob 666 o eneidiau.[1] Y mae cyflogau y gweinidogion hyn yn amrywio o £50 i £600, a chyfrifa Mr. Conder y canol-rif yn £110.[2] Cyfranner y swm yma rhwng 666 o bersonau, ac fe ddaw yn dri swllt a phedair ceiniog i bob un. Gan hyny, y mae pedair mil-fil o ymneillduwyr efengylaidd yn Lloegr a Chymru yn cynnal 6000 o weinidogion â'r cyflog o £110 yr un at ei gilydd, ar y draul at ei gilydd o 3*s.* 4*c* yr un i bob aelod o'u cynnulleidfäoedd. Os bydd i wyth mil-fil o Eglwyswyr wedi eu neillduo oddiwrth y Llywodraeth, wneuthur cymmaint, fe fydd iddynt gynnal dau gynnifer o weinidogion am yr un gyflog, hyny yw, hwy a gynhalient 12,000 o weinidogion ar £110 o gyflog bob un, tra nad yw y Llywodraeth yn awr yn cynnal onid 13,000, o ba rai y mae 10,000, nad ydynt yn cael mwy na £114 o gyflog at eu gilydd.

Y mae aelodau eglwys Rydd yr Alban, y rhai a wnant i fynu y bedwaredd ran o holl boblogaeth yr Alban, ac ydynt tua 657,239 mewn nifer, yn cynnal uwchlaw 700 o weinidogion. Derbyniai y gweinidogion hyn yn y flwyddyn ddiweddaf (1847—8) £80,959, o'u trysorfa gyffredinol, yr hon a weinyddai £115 i bob un. Eu casgliadau i ddybenion cynnulleidfäol a gyrhaeddent yn mhellach i'r swm o £71,850; o'r hyn y gwnelid ychwanegiad at gyflogau amryw o'r gweinidogion; a'r holl swm a gyfodwyd o fewn y flwyddyn i ddybenion crefyddol, gan yr holl eglwysi ynghyd, oedd £221,589,

1 Gwel t.d. 190. 2 *Condor's View, &c.* p. 422.

yr hyn a roddai £316 i bob gweinidog at eu gilydd. Ychydig iawn o bendefigaeth yr Alban a berthynant i'r eglwys Rydd; ond y mae 657,239 o'r dospeirth canol a thlottaf, yn cynnal iddynt eu hunain 700 o weinidogion, neu un am bob 938 o'r aelodau, ar y draul o chwe' swllt yr un i bob aelod. Pe y gwnelai wyth mil-fil o Eglwyswyr wedi eu rhyddhau o reffynnau y Llywodraeth, gymmaint, gan eu bod yn ddeuddeng waith eu nifer, hwy a allent gynnal 16,800 o weinidogion ar y cyflog o £115 yn y flwyddyn, bob un at eu gilydd, yr hyn a fyddai yn fwy nag yw cyflog 10,000 o offeiriaid yn awr, at eu gilydd, ac a gyfodent heblaw hyny 43*l.*, i ddybenion crefyddol ereill yn mhob un o'r 16,800 cynnulleidfäoedd, yr hyn a fyddai yn ddarpariaeth llawer helaethach o addysg grefyddol nag a wneir yn awr gan y Sefydliad.

Y mae profiad yr Unol Daleithiau, lle y gadewir cynhaliad gweinidogion Cristionogol fel y dylid, gan y Llywodraeth i'r eglwysi Cristionogol, yn gyffelyb i'r eiddo eglwysi Rhydd Lloegr a'r Alban. Nifer y gwrandawwyr mewn pedwar o enwadau efengylaidd yw, 13,885,000, ac y maent yn cynnal o weinidogion rheolaidd 14,931, heblaw pregethwyr llëawl; hyny yw, un gweinidog am bob 925 o wrandawwyr. Mewn perthynas i gynhaliad y gweinidogion hyn, y mae Mr. Baird yn ysgrifenu fel y canlyn :—

"Y mae gweinidogion yr holl enwadau efengylaidd oddieithr dau, yn derbyn cyflog gan eu pobl, ac fe ddysgwylir iddynt ymgyssegru i'w galwedigaeth brïodol. Yr eithriaid ydynt ran o weinidogion y Bedyddwyr, a holl bregethwyr y Crynwyr."[1] "Ychydig o honynt, os neb, sydd yn derbyn cyflogau a'u galluogai i fyw yn gydradd a'u plwyfolion cyfoethocaf; nid yw eu cyllidau yn gymmaint a'r eiddo y rhan fwyaf o gyfreithwyr a physygwyr. ......Nid oes ond ychydig, os neb o honynt, y rhai trwy gynnilwch a allant wneyd dim heblaw byw ar eu cyflogau: eto, ar y llaw arall, y mae y rhan fwyaf yn alluog i fyw yn gysurus a pharchus, trwy gynnilwch. Yn Lloegr Newydd, os eithriwn Boston, y mae cyflogau y Gweinidogion Cynnulleidfäol, Esgobyddol, a Bedyddiol, yn y trefydd mawrion, o 800 i 1200 o ddolars; yn y pentrefi ac eglwysi y wlad, maent yn amrywio o 300 neu 400, i 700, neu 800; heblaw hyny, y mae gan y gweinidog weithiau dŷ ac ychydig erwau o dir, ac y mae yn derbyn amryw o anrhegion."[2] Mae y cyflogau yn eglwysi mwyaf a goludocaf y prif ddinasoedd, yn dda; 1500 *dollar*, 1800, 2000, neu 2500 ydynt symiau a roddir yn gyffredinol, ac mewn rhai amgylchiadau, 3000, 3500, ac hyd yn nod 4000." "Fel y mae, y maent yn alluog i fyw trwy gynnildeb mawr, yn gysurus; ac ni oddefir gweinidog ffyddlawn yn un man mewn angen. Nid yw y gweinidogion yn cael eu parchu yn fwy gan y bobl mewn un wlad yn y byd. Perthyna llawer o

[1] *Baird*, p. 403. [2] *Ibid.*

honynt i deuluoedd o'r radd uchaf; a chan y gallant, o leiaf roddi dysg da i'w teuluoedd, y mae eu plant yn gyffredin yn llwyddiannus, ac yn fynych yn ymgyfathrachu â rhai o'r teuluoedd mwyaf goludog ac enwog yn y wlad."[1] Gan hyny, pan fyddo i eglwysi y Sefydliad gael eu rhyddhau o'u caethiwed i'r Llywodraeth, os gwnant gymmaint ag a wneir dros achos Duw gan yr eglwysi Americanaidd, hwy a gynhaliant yn gysurus un gweinidog am bob mil o wrandawwyr; hyny yw, 8000 o weinidogion, heblaw lluaws o bregethwyr llëol. Os y gwnant gymmaint ag aelodau eglwys Rydd yr Alban, hwy a gynhaliant 16,800 o weinidogion, ar yr un cyflog at ei gilydd ag a delir gan y Llywodraeth yn awr i 10,000 allan o'r 13,000 offeiriaid gweithiol, sef £115.; ac os y gwnant gymmaint ag y mae eglwysi Rhydd Lloegr yn ei wneuthur, hwy a gynhaliant 15,800 o weinidogion ar y cyflog o 110*l.*, yr un at eu gilydd, heblaw cyfodi symiau mawrion at ysgolion, cenhadaethau, a gweithredoedd ereill o haeledd Cristionogol.

Os dadleuir na bydd i Gristionogion y Sefydliad amlygu yr un haelioni a'r Americaniaid, yr Albaniaid, a'r ymneillduwyr Seis'nig, fe ddyfernir y Sefydliad i waradwydd tragyfyth. Gan hyny, a ddarfu i'r Sefydliad wywo cymmaint ar haelioni ei haelodau, pwlu eu hystyriaeth o'u dyledswydd i'r fath raddau, eu dylenwi yn gymmaint â dïofalwch crefyddol, ac âg ariangarwch, fel, tra y mae aelodau o rydd-eglwysi ereill, cartrefol a thramor, yn cynnal eu gweinidogion yn haelfrydig, mai hwynt-hwy yn unig a ommeddent? Os felly, y mae yn bryd i'r Undeb ddarfod. Pren gwenwynig marwol ydyw, dan gysgod yr hwn y mae zel a chydwybod yn trengu. Ond, er cynddrwg y bu ei ddylanwad, ni's gall fod Eglwyswyr wedi eu niweidio gymmaint, fel na's gellir gobeithio y byddai i ryddid adferu eu bywiogrwydd. Nid gwiw i ni farnu am yr hyn a wnaent mewn rhyddid, oddiwrth yr hyn a wneir ganddynt mewn rhwymau. Nid oedd aelodau eglwys Rydd yr Alban, tra y telid i'w gweinidogion gan y Llywodraeth, yn meddwl dim mwy am ymarfer haelioni Cristionogol tuag attynt, nag y mae Cristionogion y Sefydliad yn awr. Ond darfu i amgylchiadau newyddion alw allan egwyddorion newyddion. Nid yw Cristionogion Seis'nig o angenrheidrwydd yn waelach na Christionogion Albanaidd; a gadawer iddynt yn unig gael eu rhyddhau o gadwaen auraidd y Llywodraeth, a buan yr efelychant eu brodyr gogleddol mewn haeledd. Gan fod aelodau eglwysi Rhydd Lloegr, yr Alban, a'r America, yn cynnal eu gweinidogion yn haelfrydig, fe fyddai i eglwysi y Sefydliad wedi eu rhyddhau, wneuthur yr un modd o'r diwedd.

Dadleuir yn aml fod rhyw gyllidau eglwysig mawrion yn ofynol i attynu dynion o urddas a thalent i'r weinidogaeth, drwy yr hyn y gwneir yr holl gorph o weinidogion yn fwy dylanwadol; ac y byddai i ysgariad yr eglwysi

1 *Baird*, pp. 304—36.

oddiwrth y Llywodraeth, trwy ddystrywio y cyllidau mwyaf hyn, waelu y weinidogaeth. Ond—1. Os ydyw bywiolaethau goludog yn attynu dynion dawnus a dysgedig, y maent yn attynu mwy o rai dirym a drygionus, y segur a'r bydol, y rhai a berthynant i noddwyr. 2. Nid yw dynion o radd uchel, a dawn fawr heb dduwioldeb, yn alwedig i'r weinidogaeth gan Grist, ac ni's gallant gyflawni eu dyledswyddau. Gorchwyl gweinidog yw dychwelyd pechaduriaid at Grist, ac adeiladu Cristionogion; ond pa fodd y gall y rhai ydynt annychweledig eu hunain, wneyd y naill na'r llall? 3. Fe fydd i ddynion uchel-radd a dawnus, os wedi eu galw gan Dduw i'r weinidogaeth, a'u cymhell gan zel dros Dduw, a chariad at ddynion, fyned iddi pe y'u darostyngai i dlodi mor barod a phe y'u harweiniai i gyfoeth. 4. Y mae eglwysi rhydd, ar y cyfan, yn tynu mwy o dalent i'r weinidogaeth na'r sefydliadau, am fod noddaeth drwy ddyrchafu ceraint annheilwng oddiar ddynion o'r teilyngdod mwyaf, yn dyfarnu y dosparth olaf i esgeulusdra ac annghyoeddusrwydd; ond y mae eglwysi yn dewis yn weinidogion iddynt yn wastad, y rhai y gallont dynu y lles mwyaf oddiwrth eu galluogrwydd a'u zel. Ac y mae dynion zelog a galluog yn fwy tebyg o ddewis y weinidogaeth mewn eglwysi rhydd, oblegid eu bod ynddynt hwy yn fwy tebyg i lenwi cylchoedd ehang a phwysig o ddefnyddioldeb, mewn cynnulleidfäoedd dinesig. Ac os meddwn weinidogion galluog a zelog, pa ham y rhaid i ni gwyno oni bydd yn eu mysg rai uchel-radd a goludog?

A dybir y bydd i weinidogion heb radd uchel a golud, golli eu dylanwad ar y dospeirth uchaf? I'r gwrthwyneb yn hollol yw y gwirionedd. A all un dyn didwyll feddwl fod cyfoeth eglwysig y pryd hwn yn gwneuthur unrhyw offeiriaid yn efengylwyr effeithiol? Pa faint o foneddigion, a gwyr goludog, aelodau o'r senedd, arianwyr, a masnachwyr, ydynt yn bresenol, yn y wlad hon, wedi eu troi i fod yn ddisgyblion gostyngedig a sanctaidd i Grist, i fyw trwy ffydd, ac i geisio gogoniant Crist yn eu buchedd feunyddiol, trwy gynghorion ac esamplau esgobion, deoniaid, ac urddasolion goludog? Y mae yn sicr fod yr Ysbryd Dwyfol yn gweithredu yn fwy amlwg trwy weinidogion dysyml, heb gyfoeth, yn, ac oddiallan i'r Sefydliad. Gall esgobion ac urddasolion ereill dderbyn tywysogion a phendefigion yn eu palasau ysplenydd; ond pwy a all feddwl fod y cyfryw westeiwyr barwnaidd yn debyg o droi at Dduw, a chroesawu buchedd o ffydd a hunan-ymwadiad trwy eu mwynhad o fwrdd llwythog, er ei fod wedi ei radloni â synwyroldeb a lledneisrwydd ei wir barchedig feddiannydd? Mae dynion o ddelw Ioan Fedyddiwr yn llawer mwy tebyg o gyflawni y gwaith hwn. Dawn, dysg, difrifwch, grym nodweddiad, tlodi,—dyma y pethau mewn gweinidogion trwy y rhai y rhaid darostwng uchel ac isel i Grist; nid palasau, neu weision lifrai, neu wleddoedd danteithiol. Ymdyrai y bendefigaeth i wrando Robert Hall a Chalmers, er nad allai yr un o honynt fostio o urddau hynafiaethol,

ac nad oeddynt yn feddiannol ar gyfoeth esgobyddol. Y dynion galluocaf yn wastad a dynant sylw y goludog a'r hyfedr. Nid oes dim a wna i fynu am hurtrwydd. Ni's mŷn neb ei ddysgu gan ddwlni urddasoledig, pa mor attyniadol bynnag a fyddo y pethau a fyddont yn eu dilyn. Yn ein tymhor ni rhaid i athrawon fod yn athrawus.

Ond, pa beth bynnag a all fod dylanwad corph tlottach o weinidogion ar y dospeirth cyfoethocaf, ymholiad llawer pwysicach yw, pa beth yw eu dylanwad yn debyg o fod ar y lluaws? Y mae gweinidogion wedi eu happwyntio gan Grist i achub eneidiau dynion, a'r trefniant goreu yw yr un a fyddo yn debyg o atteb y dyben i achub, nid y rhai mwyaf goludog; ond y nifer fwyaf. Ond y mae cyllidau eglwysig mawrion, trwy gyffroi trachwant y lluaws, trwy ddeffroi drwg-dybiaeth parod y bobl o'r cymhelliadau a duedd-odd eu gweinidogion i ddewis y weinidogaeth, a thrwy lesteirio pob cyfathrach hoffus rhyngddynt a'u gweinidogion, yn peri fod gweinidogion cyfoethog yn dra aneffeithiol yn mysg y tlodion. Y mae y ffaith yn agored i ymchwiliad neb un. A oes gan bersoniaid y Sefydliad gymmaint o gymdeithas weinid-ogaethol â'r dospeirth gweithyddol ag a fedd gweinidogion ymneillduol. Os dywedir, er nad yw golud eglwysig yn angenrheidiol i roddi i weinidog ddylanwad gyda'r bobl, ei fod yn ofynol er hyny i sicrhau i'r weinidogaeth y dalent a addefaf yn angenrheidiol, yr ydwyf yn gwadu yr haeriad yn hollol. Y mae traul addysg, a phleidgarwch noddaeth, yn bresenol yn cau allan wyr ieuainc o athrylith o weinidogaeth yr Eglwys, pa mor oludog bynnag y gall fod y Sefydliad; ond y mae eglwysi rhydd, er bod yn llawer tlottach, trwy eu bod yn agoryd y cylchoedd mwyaf pwysig o flaen dynion o'r cymhwys-derau uchaf, yn attynu dynion o ddifrifwch, galluogrwydd, a grym nodweddiad o bob dosparth iddynt. A fedd yr offeiriaid plwyfol yn gyffredinol gymmaint o ddoniau poblogaidd â gweinidogion yr eglwysi rhydd? Pa beth bynnag a all fod attebiad y darllenydd i'r gofyniad yma, y mae Robert Hall, Foster, Pye Smith, Vaughan, Wardlaw, Harris, Sortain, Davidson, a lluaws o ddyn-ion cyffelyb, yn dangos y bydd i ddynion o dalent, heb deitlau barwnaidd, na chyllidau arglwyddaidd, gyssegru eu doniau i wasanaeth y Prynwr yn y weinidogaeth.

Ond, y mae mwy na digon wedi ei ddywedyd ar hyn. Gan fod Crist pan anfonai ei ddisgyblion allan i bregethu yr efengyl, wedi dywedyd wrthynt, "*Wele, yr wyf fi gyda chwi bob amser, hyd ddiwedd y byd,*"[1] y mae tyb-ied na bydd i weinidogion ffyddlon, deallus, a llafurus, gael eu cynnal, nid yn unig yn croesi profiad, ac yn cam-ddarlunio Cristionogion, megis pe y bydd-ent yn amddifaid o haelioni, zel, neu gyfiawnder; ond hefyd yn cynnwys annghrediniaeth o'i ofal ef a'i gariad. Gan ei fod ef gyda'r rhai a bregethant yr efengyl, efe a ofala am danynt yn ddïau. Fe ddywedodd Duw wrth bob

1 Matt. 28. 20.

gweinidog ffyddlon, fel y dywedai efe wrth yr offeiriad dan oruchwyliaeth Moses gynt, *"Myfi yw dy ran di, a'th ettifeddiaeth."*[1] Y mae gwaddolion goludog yn angenrheidiol i arlwy i offeiriadaeth fydol, segur, ac annheilwng, oblegid y mae yn ddïau na bydd i Gristionogion eu cynnal *hwy*: ond y maent yn waeth na dïangenrhaid i weinidogion zelog. Y mae holl weinidogion Crist wedi derbyn ganddo ef yr hyfforddiadau a'r addewidion canlynol:—*"Am hyny, na ofelwch, gan ddywedyd, Beth a fwyttawn? neu, beth a yfwn? neu, A pha beth yr ymddilladwn? (Canys yr holl bethau hyn y mae y Cenhedloedd yn eu ceisio) oblegid gŵyr eich Tad nefol fod arnoch eisiau yr holl bethau hyn. Eithr yn gyntaf ceisiwch deyrnas Dduw, a'i gyfiawnder ef, a'r holl bethau hyn a roddir i chwi yn chwaneg."*[2] Gan hyny, os oes gan yr holl gredinwyr hawl pan fyddant yn gwneyd eu dyledswydd i ymddiried yn Nuw am gyflenwi eu hangenion tymhorol, y mae yn ddïau bod gan y rhai a ymwrthodasant â galwedigaethau tymhorol ennillgar, y rhai y gallasent eu dilyn, er ymgyssegru yn fwy trwyadl i wasanaeth Crist, fwy o ryddid na neb arall i wneyd hyny.

Yn wir, y mae can lleied o achos i weinidogion yr eglwysi rhydd i ofni tlodi yn marn rhai, fel y darfu i un o gefnogwyr mwyaf zelog a chyfrifol y Sefydliad, ddadleu yr angenrheidrwydd am yr Undeb er ffrwyno eu golud a'u gallu. "Tra yn appelio," medd efe, "at serchiadau cryfaf y galon ddynol, gobaith, ofn, cariad, cydwybod, diolchgarwch, haelfrydedd,—a darlunio sacramentau yr eglwys fel yn gyffredinol, ïe, efallai y'u temtir i ddywedyd eu bod yn *anhebgorol* angenrheidiol er iachawdwriaeth, ac mai hwynt-hwy eu hunain yw yr unig bersonau cymhwys i weinyddu y sacramentau hyny, y mae tu hwnt i bob dadl, oddieithr eu bod dan reolaeth rhyw attaliad oddiallan, *y bydd iddynt, y rhaid iddynt mewn amser, ac oddiwrth gorph dynolryw, ennill gallu anweddaidd, a golud dirfawr.* Fel hyn coel-grefydd a ddyru, cybydd-dra a dderbyn, ac uchelfrydedd a gam-arfera, hyd oni byddo pob awdurdod arall yn ymsuddo o flaen yr offeiriadaeth......Gwnelid gwaddoliad gwladwriaethol er cynhaliaeth yr eglwys, yn ddïangenrhaid, (trwy zel wirfoddol yn nyddiau Cystenyn); ond, ar yr un pryd, a thrwy yr un moddion, gwnelid deddfiad gwladol yn anhebgorol er ffrwyniad yr eglwys, os y mynid cadw rhyddid gwladol ar y ddaear......Y mae rhyw ddeddfwriaeth o'r fath yn bwnc o hunan-ddiffyniad anhebgor o du y llywodraethwr, er gwarchod rhag gallu gor-lethol yr offeiriaid."[3] Felly, yn ol y dadleuwr zelog yma dros y Sefydliad, nid yw gweinidogion yr eglwysi rhydd yn debyg o fod yn rhy dlawd, ond yn rhy gyfoethog; ac y mae undeb eglwysi y Sefydliad â'r Wladwriaeth yn angenrheidiol, er lluddias i'w gweinidogion ddringo i "awdurdod anweddaidd," ac ymheulo mewn "golud anferthol." Y mae

1 Num. 18. 20. 2 Matt. 6. 31—33. 3 *Lectures on the Church of England*, pp. 120—126.

gweinidogion eglwysi rhydd yn debyg o gael eu talu yn ormodol; ond gweinidogion y Sefydliad i gael eu cadw dan attalfa iachusol.

Nyni â allwn dderbyn y cymhwylliad yma, can belled ag i gasglu, na bydd i weinidogion yr eglwysi rhydd, os byddant yn ddynion synhwyrol a ffyddlon, gael eu gadael mewn eisiau yn fynych.

---

ADRAN IV.—DYLANWAD YR UNDEB AR YR ATHRAWIAETH A DDYSGIR YN EGLWYSI Y SEFYDLIAD.

Y mae yr Efengyl a ddysgir yn y Beibl yn anhebgorol angenrheidiol i'r byd. Trwy ei gwybod a'i chredu, yr achubir dynion o afael marwolaeth dragywyddol; trwyddi y'u harweinir i wasanaethu Duw, ac y mae holl lesion goruchaf y byd yn gyssylltiedig anysgaredig â hi. Can gynted ag y daw dyn i'w hadnabod, y mae efe yn rhwym i'w chynnal, ei hamddiffyn, a'i lledaenu. Un o ddybenion mawrion bodolaeth eglwysi ydyw, fel y gallont gynnal eu hathrawiaethau yn eu purdeb, a defnyddio eu dylanwad cyd unol i'w lledaenu drwy gymdeithas. Hyn hefyd yw un o'r amcanion goruchaf a geisir trwy gymdeithasiad eglwysi mewn cynghreiriau mawrion, megis eglwys Loegr, ac uniad y cyfryw gynghreiriau â Llywodraethau Ewrop. Pa ham y byddinir 13,000 o gynnulleidfäoedd a'u gweinidogion yn Lloegr, dan lywodraeth eglwysig alluog, yn lle bod pob un ar wahân, ac yn annibynol? a pha ham y cynhelir eu gweinidogion gan y Llywodraeth? onid yw y trefniad, a'r cynhaliad Gwladwriaethol hyny, yn cael ei olygu yn fanteisiol i ledaeniad athrawiaeth iachus trwy y tir? Gan hyny, os ymddengys bod yr Undeb yn cynnal cyfeiliornad yn hyttrach na'r gwirionedd, y mae y prif reswm dros yr Undeb wedi ei ddistrywio. Os gall zel bersonol sefydlu mwy o weinidogion, eu cyfleu yn ddoethach, talu iddynt yn well, ac ar yr un pryd, gadw purdeb yr athrawiaeth yn well, yna dylai yr Undeb ddarfod.

Y ffaith gyntaf a ganfyddwn yn ein hymchwiliad i effeithiau yr Undeb ar athrawiaeth eglwysi y Sefydliad, yw ei fod wedi cymeradwyo amryw gyfeiliornadau yn Llyfr y Weddi Gyffredin, yn eu lledaenu trwy holl blwyfydd y Tir.

Pan ymddangosai ein Harglwydd i'w ddisgyblion wedi ei adgyfodiad, efe a anadlai arnynt, ac a ddywedai, "*Derbyniwch yr Yspryd Glan; pwy bynnag y maddeuoch eu pechodau, maddeuir iddynt, a'r eiddo pwy bynnag a attalioch, hwy a attaliwyd.*"[1] Yn y geiriau hyn efe a sicrhäai iddynt gymmundeb yr Ysbryd Glan, trwy yr hwn y'u hysbrydolid i gyhoeddi gyda sicrwydd digyfeiliorn, pwy a gondemnir gan Dduw, ac i bwy y maddeuir. Nid gweddi o eiddo Crist oedd y geiriau hyn, ond cyfrannogiad awdurdodol

1 1 Ioan 20. 22, 23.

o'r Ysbryd, y canlyniad o'r hyn ydoedd awdurdod i faddeu, neu i attal pechodau. O'r pryd hwnw allan, hwy a weithredasant ar yr awdurdod hono, a chyda doethineb Ddwyfol ac awdurdod ddïgryn, hwy a gyhoeddasant, nid am unigolion, ond am ddospeirth, ac am nodweddau, i bwy y maddeuid, ac i bwy ni's maddeuid. Ond, gan nas gallent hwy drosglwyddo yr ysbrydoliaeth yma i ereill, ni chymerent arnynt drosglwyddo yr awdurdod i ereill. Mewn efelychiad cywir o'n Harglwydd, rhaid i'r esgob a ddewisir gan y prif weinidog (fel ysgol-feistr da, neu gefnogwr gwladweiniol medrus, dyn diogel, heb fod yn ben-gryf dros ei opiniynau, neu, efallai, ddyn synhwyrol a duwiol,) wneuthur trwy orchymyn y Llywodraeth, gan ddodi ei law ar ben pob un a dderbynio urddas yr offeiriadaeth, a'r derbynwyr wedi ymostwng ar eu gluniau; a dywedyd, "Derbyn yr Ysbryd Glan i swydd a gwaith offeiriad yn eglwys Dduw, yr hwn a gyflwynir i ti trwy arddodiad ein dwylaw ni yr awr hon. Pwy bynnag y maddeuoch eu pechodau, maddeuir iddynt, a'r eiddo pwy bynnag a attalioch, hwy a attaliwyd." Pan yr ordeinir dïacon, nid yw yr esgob yn arfer y geiriau blaenorol; ond yn unig efe a ddywaid, "Cymer awdurdod i weinyddu swydd dïacon yn eglwys Dduw, yr hon o gyflwynir i ti." Nid yw y dïacon yn derbyn yr Ysbryd Glan oddiwrth yr esgob, ac am hyny ni wiw iddo ef faddeu pechodau, na darllen y gollyngdod yn y gwasanaeth cyhoeddus; ond y mae yr offeiriad yn derbyn awdurdod i faddeu pechodau, oblegid y tybir ei fod ef yn derbyn yr Ysbryd Glan.

Ychydig o wahaniaeth sydd rhwng yr agwedd allanol yn yr hon y cyfrannai Crist yr Ysbryd Glan i'w apostolion, â'r agwedd yn yr hon y tybir bod yr esgob, pennodedig gan y prif weinidog, yn cyfrannu yr Ysbryd Glan i offeiriaid Eglwys Loegr, oddieithr bod yr apostolion yn *sefyll* i dderbyn bendith eu Harglwydd; ond rhaid i'r offeiriaid *benlinio* i'r esgob. Nid gweddi yw y geiriau esgobol, am mai nid gweddi ydyw geiriau Crist, nid yw y geiriau yn dynodi gweddi, a phe y buasent yn weddi, buasai yr esgob yn plygu ar ei liniau, yn lle sefyll uwchben yr offeiriaid penliniedig; ac nid gweddi ydynt, gan ei fod ef yn ychwanegu yn ddïoed at eiriau y gallu, y geiriau hyn, "Pwy bynnag y maddeuoch eu pechodau, maddeuir iddynt;" ac oblegid y gorfodir yr archesgob i ddywedyd yn ngwasanaeth cyssegriad esgobion, wrth y sawl a gyflwynir iddo i'w gyssegru, "Derbyn yr Ysbryd Glan......a chofia gyffroi gras Duw yr hwn a roddir i ti trwy arddodiad ein dwylaw ni." Fel hyn, fe'n dysgir yn y Llyfr Gweddi Cyffredin, am bob offeiriad o'r Sefydliad a ordeinir gan neb un o'r rhai a bennodwyd i'r swydd esgobol gan y Llywodraeth, ei fod yn derbyn yr Ysbryd Glan, ac awdurdod i faddeu pechodau. Fel hyn y dywedir yn Llyfr y Weddi Gyffredin, fod y gallu a gyfrannai yr Iachawdwr Hollalluog i'w apostolion trwy y ddawn o ysbrydoliaeth, a'r hon ni's meddent awdurdod na gallu i'w throsglwyddo i

ereill, yn cael ei roddi gan bob esgob, dychweledig neu annychweledig, i bob offeiriad, dychweledig neu annychweledig, Puseyaid, helwyr, cymmrawdwyr o'r colegau, ammaethwyr, boneddion ordeiniedig, a phawb ereill a wnant i fynu y gynnulleidfa fawr o offeiriaid y Sefydliad. Yn marn yr esgob Wilberforce, *"y mae hyn oll yn orwagedd cableddus, onid yw y gwirionedd dwysaf."*[1] Gan hyny, yn gymmaint a bod yn sicr nad yw pob math o esgobion yn cyfrannu yr Ysbryd i bob math o offeiriaid, y mae y ddefod yn gableddus yn ol barn yr esgob : *ac y mae yr Undeb drwy ei lyfr gweddi yn dysgu y "gor-wagedd cableddus" yma i holl eglwysi y Sefydliad, ac yn gorfodi yr holl offeiriaid i ddywedyd nad yw yn ofergoelus, nac yn annuwiol, nac yn wrthwyneb i air Duw.*[2]

Gan ein bod wedi derbyn datguddiad oddiwrth Dduw, y mae pob credadyn yn rhwym i fyfyrio ynddo, i chwilio allan ei feddwl, ac i lynu wrtho. Mae yn wir y dylai fod yn anymddiriedol yn ei farn ei hun, a phwyso opiniynau y doeth a'r da, cydio yn mhob cynnorthwy, gweddïo, myfyrio, a disgwyl; ond yn y diwedd na adawo i neb gyfryngu rhyngddo a'i Dduw, na dal i fynu athrawiaeth na's gwelo ei bod yn wir o air Duw. Cyfarwyddyd Paul yw, *"Bydded pob un yn sicr yn ei feddwl ei hun......Beth bynnag nid yw o ffydd, pechod yw."*[3] Ac y mae Iago yn chwanegu, *"O bydd ar neb o honoch eisiau doethineb, gofyned gan Dduw, yr hwn sydd yn rhoi yn haelionus i bawb, ac heb ddannod ; a hi a roddir iddo ef."*[4] Dysgir pob credadyn gan yr Ysbryd ; canys fe roddes Duw yr addewid hon i'w eglwys, *"Dy holl feibion hefyd fyddant wedi eu dysgu gan yr Arglwydd."*[5] A'n Harglwydd ei hunan a'n sicrhaodd y byddai i'n Tad nefol roddi yr Ysbryd Glan i'r sawl a ofynant ganddo.[6] Yn ol yr addewidion hyn a'u cyffelyb, gellir cyfarch yr holl gredinwyr yn bresenol fel y cyferchid y prif Gristionogion gan yr apostol Ioan, *"Y mae genych chwi enneiniad oddiwrth y Sanctaidd hwnw, a chwi a wyddoch bob peth......Y mae yr enneiniad a dderbyniasoch ganddo ef yn aros ynoch chwi, ac nid oes arnoch eisiau dysgu o neb chwi ; eithr fel y mae yr un enneiniad yn eich dysgu chwi am bob peth."*[7] Gan hyny, fe all pob Cristion gael doethineb yn gyfattebol i'w lafur, myfyrdod, duwioldeb, a gweddi. Ac felly y gall eglwys yr hon sydd gymdeithas o Gristionogion. Ond, fel y mae Cristionogion personol yn cyfeiliorni, felly y mae eglwysi. Cyfeiliornodd eglwys Antiochia ;[8] cyfeiliornodd eglwysi Galatia ;[9] cyfeiliornodd eglwysi Groeg ; a'r eglwysi cyssylltiedig âg eglwys Rhufain, yn wasgaredig drwy y byd, a gyfeiliornasant yn fwy galarus fyth. Os ydyw esgobyddiaeth Eglwys Loegr yn gywir, yna y mae eglwysi yr Alban wedi cyfeiliorni. Os ydyw cyfundrefn

1 *Sermon at the Ordination*, 1845, p. 24. 2 Erth. 36. *can.* 36. 3 Rhuf. 14. 5, 23. 4 Iago 1. 5. 5 Esa. 54. 13. 6 Luc 11. 13. 7 1 Ioan 2. 20, 27. 8 Gal. 2. 11, 13. 9 Gal. 1. 6. a 3. 1.

gynnulleidfäol eglwysi rhydd Lloegr yn gywir, yna rhaid bod eglwysi y Sefydliad wedi cyfeiliorni. Os yw y Bedyddwyr yn gywir, y mae eglwysi Annibynol Lloegr yn cyfeiliorni. Pan fyddo eglwys yn cyfeiliorni, rhaid i gredadyn ddibrisio barn gyfeiliornus yr Eglwys, a dilyn dysgeidiaeth gair Duw. Nid oes un eglwys wedi derbyn awdurdod i arglwyddiaethu ar ffydd ei haelodau; canys dylai pob un fod wedi ei ddysgu gan Dduw trwy ei air. Os oes unrhyw eglwys wedi derbyn y fath awdurdod, rhaid fod pob eglwys wedi derbyn y cyffelyb, canys nid yw yr Ysgrythyr mewn un man, wedi priodoli graddau gwahanol o awdurdod i wahanol eglwysi; canys yn ol y dŷb yna, rhaid fod eglwysi gwrthwynebol wedi derbyn awdurdod oddiwrth Grist i arddodi ar eu haelodau yr amryfal gyfeiliornadau y cwympasant iddynt. Ar y dybiaeth yma, yr oedd credinwyr yn Antiochia ac yn Galatia, yn rhwym i wrthwynebu Paul, ac ni eill Pabyddion ammeu y daliadau a ddysgir gan eu heglwysi. Gan hyny, ni's gall fod y cyfryw awdurdod eglwysig. Nid oes un linell yn y Testament Newydd, o Matthew i'r Datguddiad, yn rhoddi y fath awdurdod yn bennodol na thrwy gasgliad i unrhyw eglwys. Ac eto, y mae yr Undeb trwy ei lyfr gweddi, yn dysgu fel y canlyn,—"Y mae i'r Eglwys allu i osod Cynheddfau a Seremonïau, *ac awdurdod mewn amrafaelion yn nghylch y ffydd.*"[1] Mae y Dr. Hey wedi gwneuthur yr haeriad mwyaf disail fod awdurdod yma yn dynodi dylanwad, yn sylwi fel y canlyn ar yr erthygl hon;—"Ni ddisgwylir i chwi roddi eich barn i fynu i farn yr eglwys, *oddieithr ar byncíau amheus a dyrus.*"[2] Gan hyny, yr ydym i roddi i fynu ein barn i farn yr eglwys ar byncíau amheus a dyrus. Os byddwn yn credu bod yr ysgrythyr yn dysgu un peth, a bod yr eglwys yn haeru ei bod yn dysgu peth arall, yr ydym i fod yn ddisylw o'r hyn yr ymddengys fod gair Duw yn ei brofi, am fod yr eglwys yn ei wadu, ac i ddal yr hyn yr ymddengys i ni fod gair Duw yn ei gondemnio, am fod yr eglwys yn ei ddal.

Ond, i ba eglwys y rhoddes Crist yr arglwyddiaeth yma ar ein crêd? Ai i Eglwys Loegr? Na, y mae yn anmhossibl! Ni ddarlunir y fath gorph yn yr ysgrythyr, na dim yn debyg iddo. Pa beth bynnag a brïodolir i'r eglwys yn yr ysgrythyr, ni phrïodolir iddi hi, ond i ryw beth llwyr wahanol. Pa eglwys yn y Testament Newydd a debygolai yn y radd leiaf i Eglwys Loegr, yr hon sydd yn cael ei gwneyd i fynu o 13,154 o eglwysi? Ni ddarlunir onid un eglwys gyffredinol yn unig yn y Testament Newydd, yr hon sydd gyfansoddedig o holl wir ddylynwyr Iesu Grist, a lluaws o eglwysi llëawl;—yr holl frawdoliaeth o gredinwyr, y rhai a ymgynnullant yn y nef; a'r gynnulleidfa o gredinwyr proffesedig, a ymgynnullont mewn

1 Erth. 20. 2 *Lectures on Divinity, by J. Hey, D.D., Norisian Professor Cambridge.*

unrhyw le ar y ddaiar. Pa un o'r eglwysi hyn a fedd yr awdurdod hon i lywodraethu ffydd pob Cristion? Ai yr eglwys gyffredinol? Ond, pa fodd y cawn ni ei meddwl ar "byncian amheus a dyrus?" Y mae y dadleuwyr oll o'i mewn,—Esgobyddion a Henaduriaid, Calfiniaid ac Arminiaid, Bedyddwyr a Maban-fedyddwyr—y maent oll o'i mewn; a phob un yn meddwl mai efe sydd yn iawn. O ba le y mae llais penderfynol yr eglwys gyffredinol i darddu? Ond, gan na's gall mai yr eglwys gyffredinol a olygir, rhaid i ni ddyfod at eglwys lëol fel eisteddle awdurdod......rhyw eglwys Seis'nig er enghraifft, fel yr eglwys yn Phillippi, neu yr eglwys yn Thessalonica. Felly gan hyny, y mae gweinidog duwiol, neu Gristion meddylgar a phrofiadol i roddi i fynu ei farn ei hun mewn pethau amheus a dyrus, am ystyr gair Duw, oblegid bod ychydig bentrefwyr a addolant gydag ef o synied gwahanol! Mae y meddwl yn ynfydrwydd! Gan hyny, ni's medd un eglwys yr awdurdod yma; ac eto y mae yr Undeb yn datgan trwy y llyfr gweddi, bod yr eglwys yn ei feddu, *ac yn gorfodi pob gweinidog yn y Sefydliad i ddal fod yr haeriad yma o eiddo y llyfr gweddi yn ol gair Duw.*

Fel hyn y mae yr apostol yn darlunio cymhwysderau gweinidog gosodedig trwy awdurdod Crist—yr unig weinidog y gall un eglwys ei dderbyn yn gyfreithlawn:—"*Rhaid i esgob* (hyny yw, gweinidog, neu fugail eglwys,) *fod yn ddiargyhoedd......yn sobr, yn weddaidd,......yn athrawaidd, nid yn wingar, nid yn darawydd, nid yn budr-elwa,......*NID YN NEWYDDIAN;[1]*......yn caru daioni, yn sobr, yn gyfiawn, yn sanctaidd, yn dymherus, yn dal yn lew y gair ffyddlawn.*[2] Os deuai unrhyw bregethwyr anefengylaidd i unrhyw le, gwaherddid i'r Cristionogion eu derbyn fel dysgawdwyr i'w tai.[3] Dymunai Paul fod pob cyfryw rai yn ysgymmunedig,[4] a dywedai am danynt mai gweinidogion Satan oeddynt yn rhith angelion goleuni.[5] Ac mewn perthynas i bob athrawon o nodwedd annuwiol, pa mor olygus bynnag y gallai eu honiadau eu bod yn weinidogion i Grist ymddangos, y dywaid ein Harglwydd ei hunan, "*Ymogelwch rhag gau-brophwydi, y rhai a ddeuant attoch yn ngwisgoedd defaid, ond oddi mewn bleiddiaid rheibus ydynt hwy. Wrth eu ffrwythau yr adnabyddwch hwynt.*"[6] A allasai ein Harglwydd rybuddio ei ddysgyblion yn fwy eglur i ochelyd gwrando ar weinidogion drwg am eu bod wedi eu hordeinio yn rhëolaidd? Pa beth yw y gwisgoedd defaid yma ond honiadau golygus rhai eu bod yn weision i Grist? A pha beth yw y galon fleiddaidd ond yr annuwioldeb, yr hwn sydd yn gwneuthur y gweinidogion annychweledig y gelynion gwaethaf, a mwyaf peryglus i'w pobl? Mae ein Harglwydd yn rhoi ar ddeall i ni

1 1 Tim. 3. 2—6. 2 Tit. 1. 5—9. 3 2 Ioan 9—11. 4 Gal. 1. 8. a 5. 12.
5 2 Cor. 11. 3—15. 6 Matt. 7. 15, 16.

y dylai pob Cristionogion ochelyd y cyfryw. Ond, yn ngwrthwyneb i'r rhanau hyn o'r ysgrythyr, y dywaid y chweched erthygl ar hugain, "Er bod yn yr Eglwys weledig bob amser rai drwg ynghymmysg â'r rhai da, a bod weithiau i'r rhai drwg yr awdurdod bennaf yn ngweinidogaeth Gair y a'r Sacramentau; eto, yn gymmaint ac nad ydynt yn gwneuthur hyny yn eu henw eu hunain, ond yn enw Crist, AC MAI TRWY EI GOMMISSIWN A'I AWDURDOD EF Y MAENT YN GWEINI; NYNI A ALLWN ARFER EU GWEINIDOGAETH HWY, drwy wrando y Gair a derbyn y Sacramentau." Dywedir am weinidogion annuwiol amlwg, y rhai yn ol awdurdod Crist a ddylent gael eu hysgymmuno,[1] eu bod "yn gweini trwy ei awdurdod ef;" a phan orchymynai Crist i'w ddisgyblion eu gochel, pan waharddai Ioan bob cymdeithas â'r cyfryw un, a phan annogai Paul iddynt gael eu hysgymmuno, fe ddywedir yma y "gallwn arfer eu gweinidogaeth."

Y mae yr wythfed *canon* ar hugain yn gwneyd y cymhwysiad ymarferol canlynol o'r penderfyniad athrawiaethol yma: "Bydded i'r gwarcheidwaid eglwysig a'u cynnorthwywyr, cystal a'u gweinidog ddal sylw, pa un a yw pawb o'r plwyfolion yn dyfod i'r cymmun sanctaidd bob blwyddyn can fynyched ag y mae ein cyfreithiau a'n gosodiadau yn gofyn; ac a fydd rhyw ddieithriaid yn dyfod yn fynych ac yn gyffredin o blwyfau ereill i'w heglwys, a'u dangos i'w gweinidog rhag y dichon iddynt gael eu gollwng at fwrdd yr Arglwydd yn mysg ereill, yr hyn a waharddant, gan anfon y cyfryw rai adref i eglwysi eu plwyfi eu hanain, i dderbyn y cymmun yno gyda y lleill o'u cymmydogion."

Mae yr erthygl yn ein dysgu y dylai Cristionogion lynu wrth offeiriad eu plwyf, er ei fod yn ddyn annuwiol amlwg; yn groes i hyfforddiadau amlwg y Testament Newydd; ac *y mae yr Undeb yn gorfodi holl weinidogion y Sefydliad i dystio fod hyn yn ol gair Duw.*

Nyni a ganfyddwn yn y Testament Newydd mai proffes o ffydd yn Nghrist, oedd bedydd. Yr oedd edifeirwch a ffydd yn ofynol yn wastadol yn yr eglwysi apostolaidd, yn y rhai a dderbynid i fedydd. Trwy ffydd y daethant yn ddisgyblion i Grist, ac yna, trwy fedydd y proffesent eu bod yn ddisgyblion iddo ef, ac y'u hunid a'i eglwysi. Hwy a adgenhedlwyd yn gyntaf gan yr Ysbryd, ac yna derbynient yr arwydd o'u hadgenedliad. Gweinyddid bedydd yn wastadol i'r rhai y credid eu bod yn adgenedledig, ond ni's gweinyddid mo honi byth i'r dïadgenedledig gyda golwg ar eu hadgenedliad. Arf-wisg Crist ydoedd, i'w gwisgo am y rhai a ymrestrasent fel ei filwyr ef; derbyniad ydoedd i eglwys lëawl, o'r rhai a ddaethent o'r blaen trwy ffydd, yn aelodau o'r eglwys gyffredinol. Ond y mae y llyfr gweddi yn dysgu bod bedydd yn ail-eni, ac yn rhwymo yr offeiriaid i fedyddio holl

1 1 Cor. 5. 1—13. 2 Ioan 9—11. Gal. 5. 12.

blant y wlad, gan dystio am y milwnnau plant a fedyddir yn holl blwyfau Lloegr a Chymru, eu bod wedi eu hadgenedlu gan yr Ysbryd Glan. Yn ol *canon* 68. "Nid yw un gweinidog i ommedd neu oedi bedyddio unrhyw blentyn, yn ol ffurf y llyfr gweddi gyffredin, ar a ddyger i'r eglwys atto ef i'w fedyddio ganddo ar ddydd Sul neu wyl......Ac os gommedda fedyddio... ...efe a attelir gan yr esgob rhag cyflawni ei swydd, dros yspaid tri mis." Gan hyny, y mae agos holl blant y plwyfydd gwledig, a myrddiynnau afrifaid o blant ein dinasoedd poblogaidd, plant pob math o rieni, yn cael eu dwyn i'w "cristioneiddio." Darlunir effaith eu bedydd fel hyn yn erthygl 27ain. "Y mae bedydd nid yn unig yn arwydd o broffes, neu yn nod gwahaniaeth i adnabod Cristionogion oddiwrth annghristionogion; *eithr y mae hefyd yn arwydd o'r Adgenedliad, neu yr Adenedigaeth ; trwy'r hwn megis trwy offeryn yr impir yn yr eglwys y rhai a dderbyniant fedydd yn iawn.*" *&c.*

Haerir yma, yn gyntaf, bod bedydd yn arwydd o adgenedliad ; ond, yn ol athrawiaeth yr eglwys, y mae arwyddion sacramentol yn effeithiol, fel y dysgwn oddiwrth y gofyniad a'r attebiad canlynol yn y catechism :—*H.* "Pa beth yr wyt ti yn ei ddeall wrth y gair hwn, *Sacrament ?—A.* Yr wyf yn deall arwydd gweledig oddiallan, o ras ysbrydol oddifewn a roddir i ni ; yr hwn a ordeiniodd Crist ei hun, *megis modd i ni i dderbyn y gras hwnw trwyddo, ac i fod yn wystl i'n sicrhau ni o'r gras hwnw.*" Am hyny y mae y bumed erthygl ar hugain yn galw y sacramentau yn "arwyddion EFFEITHIOL o ras." Felly, gan fod bedydd yn arwydd *effeithiol* o adgenedliad, y mae yn adgenedlu. Yn ail :—"Trwyddo megis trwy offeryn, yr impir yn yr eglwys y rhai a dderbyniant fedydd yn iawn." Y mae pawb a fedyddier, pa un bynnag ai yn iawn neu beidio, yn dyfod yn aelodau o'r eglwys lëawl. Gan hyny, rhaid fod y derbyniad i'r eglwys, a gyfyngir i'r derbynwyr teilwng, yn golygu derbyniad ysbrydol i eglwys Crist, yr hyn a ddilyna ddawn yr Ysbryd Glan, megis y dywedir yn y weddi ganlynol dros y plentyn cyn bedydd: "Attolygwn i ti,......ei lanhau a'i sancteiddio â'r Ysbryd Glan : fel, wedi iddo gael ei wared oddiwrth dy lîd, y derbynier ef i arch eglwys Crist." A chan mai bedydd yw yr OFFERYN trwy yr hwn y mae babanod fel hyn yn cael eu himpio i'r eglwys, bedydd yw yr offeryn trwy yr hwn hefyd y'u hadgenedlir. Y mae Esgob Burnet a'r Dr. Hey yn cyttuno yn y golygiad yma ar athrawiaeth yr erthyglau.

Ar y bummed erthygl ar hugain, dywaid yr esgob, "Sacrament sydd ordinhâd o eiddo Crist, yn yr hon y sancteiddir rhyw beth sylweddol drwy ddefnyddio rhyw ffurf o eiriau, yn a thrwy yr hyn y mae gweithrediadau cyfammodol o'r grefydd hon yn cymeryd lle o'r ddau tu ; o'n tu ni, trwy ymrwymiadau, proffes, neu addunedau ; ac o du Duw, *trwy ei gynnorthwy dirgelaidd : trwy y pethau hyn hefyd y'n hunir ni â chorph Crist,* sef ei

eglwys......Ganddo ef yn unig y gellir ordeinio gweithrediadau cyfammodol, *wrth y rhai y mae gras Dwyfol yn rhwym*......Y defodau a olygir genym ni gan hyny, pan yn llefaru am y sacramentau, ydynt ddefodau cyfammodol gwastadol Cristionogion, *y rhai a ddilynir gan Ddwyfol ras*, a bendith, gan eu bod wedi eu hordeinio gan Grist *i'n huno ni ag ef*, ac â'i eglwys." Ar y seithfed erthygl ar hugain, efe a sylwa, "Am ddybenion bedydd, dyru St. Paul ddau i ni; un yw, ein bod yn cael ein derbyn i gymdeithas Cristionogion......Ond yr ail ddyben, sydd dufewnol ac ysbrydol. Am hwn y llefara St. Paul mewn ymadroddion tra uchel, pan y dywaid *, fod Duw wedi ein hachub trwy olchiad yr adenedigaeth, ac adnewyddiad yr Ysbryd Glan.....Gan hyny, dyma effaith dufewnol bedydd. Marwolaeth i bechod ydyw, a bywyd newydd i Grist*, mewn ymdebygiad iddo ef, a chydffurfiad â'i Efengyl.....Y mae rhywbeth tufewnol ynddo, yr hyn sydd y dyfod oddiwrth Dduw; sef derbyniad dynion i rywbeth a ymddibyna yn unig ar Dduw."[1]

Y mae Dr. Hey yn fwy eglur na'r esgob. Efe a sylwa ar y bummed ar hugain, "Ni wiw i ni wadu bod sacramentau yn rhoddi gras, *ex opere operato*."

Ar y seithfed ar hugain, efe a ychwanega, fod bedydd "yn arwydd hefyd o ailenedigaeth......trwy yr hyn, *per quod*, trwy yr hyn arwydd, y selir addewidion Duw, &c., neu, mewn un gair yr ordeinir, y cwblheir, ac y selir ailenedigaeth. Y mae y pethau a ganlyn, debygid, yn cymeryd i fynu rannau ansoddol adenedigaeth."[2]

Mae iaith y llyfr gweddi mewn amryfal fanau yn cadarnhau yr athrawiaeth dwyllodrus yma o eiddo yr erthyglau, ac yn dysgu bod plant ac oedolion yn cael eu hadgenedlu gan yr Ysbryd trwy fedydd.

Pan ddygir unrhyw blentyn gan ei feichiafon at weinidog y plwyf i gael ei fedyddio, mae y Llywodraeth yn gorfodi y gweinidog i ddywedyd fel hyn mewn gweddi,—"Hollalluog Dduw......Yr y'm yn galw arnat dros y dyn bychan yma, ar iddo, yn dyfod i'th lân Fedydd, gael derbyn maddeuant o'i bechodau trwy adenedigaeth ysbrydol. Derbyn ef, Arglwydd, megis yr addewaist trwy dy garedig Fab, gan ddywedyd, Gofynwch a rhoddir i chwi," &c. Yna efe a ddywaid wrth y meichiafon, nid wrth y rhieni,......"Anwyl garedigion bobl, chwi a ddygasoch y plentyn hwn yma i'w fedyddio, chwi a weddïasoch ar fod yn wiw gan ein Harglwydd Iesu Grist ei dderbyn ef, maddeu iddo ei bechodau, ei sancteiddio â'r Ysbryd Glan, rhoddi iddo deyrnas nefoedd, a bywyd tragywyddol. Chwi a glywsoch hefyd ddarfod i'n Harglwydd Iesu Grist addaw yn ei Efengyl, ganiattau yr holl bethau hyn a

1 *Burnet on the Thirty nine Articles. Art.* 25, 27. 2 "*Hey's Lectures on Divinity.*" *Art.* 25, 27.

weddïasoch chwi am danynt: yr hon addewid, efe, o'i ran ef a'i ceidw yn wir ddïogel, ac a'i cwblhâ."[1]

Wedi hyn, yn ol Cyfraith yr Unffurfiad, efe a weddïa fel hyn;—"Hollalluog Dduw,......sancteiddia'r dwfr hwn er dirgel olchedigaeth pechodau; a chaniatta fod i'r plentyn hwn a fedyddir yr awr hon ynddo, dderbyn cyflawnder dy ras, ac aros byth yn nifer dy ffyddlon blant etholedig." Wedi y gwneler hyn, y mae y Llywodraeth yn ei rwymo i fyned rhagddo fel hyn, —"*Mawr ddiolchwn i ti drugaroccaf Dad, ryngu bodd it' adeni y dyn bychan hwn a'th Ysbryd Glan, ei dderbyn yn blentyn i ti dy hun drwy fabwys, a'i gorphori i'th lân Eglwys.*" Ychwanega y llyfr gweddi, "Hysbys yw trwy Air Duw, am blant a fedyddir, ac a fyddant feirw cyn bod yn euog o bechod gweithredol, eu bod yn ddïammeu yn gadwedig."

Ni ddywedir un gair yn yr Ysgrythyr, yn eglur a phendant yn nghylch bedydd babanod; ond y mae y llyfr gweddi wedi mynu trefnu fod eu bedydd yn eu hadgenedlu mor sicr, fel pa beth bynnag a ddelo o fabanod ereill, y rhaid eu bod hwy yn gadwedig.

Ac nid yw y llyfr gweddi yn dysgu yn llai eglur mewn gwrthwynebiad i air Duw, fod bedydd yn adgenedlu oedolion hefyd, fel y mae yn rhy amlwg oddiwrth yr ymadroddion canlynol yn ffurf bedydd rhai o oedran addfedach: "Fy anwyl garedigion, yn gymmaint......a bod ein Iachawdwr Crist yn dywedyd, Na ddichon neb gael myned i mewn i deyrnas Dduw, oddieithr ei adgenedlu a'i eni o newydd o ddwfr ac o'r Ysbryd Glan; attolwg yr wyf i chwi alw ar Dduw Dad, trwy ein Harglwydd Iesu Grist, ar fod iddo o'i ddaionus drugaredd, ganiattau i'r rhai hyn gael eu bedyddio â dwfr ac â'r Ysbryd Glan, a'u derbyn i lân Eglwys Crist."

"Hollalluog a thragywyddol Dduw,......attolygwn i ti......edrych o honot yn drugarog ar dy weision hyn; eu glanhau a'u sancteiddio â'r Ysbryd Glan; fel wedi iddynt hwy gael eu gwared oddiwrth dy lîd, y derbynier hwy i arch eglwys Crist."

Yr y'm yn galw arnat dros y dynion hyn, ar iddynt, yn dyfod i'th lân fedydd, gael derbyn maddeuant o'u pechodau, trwy adenedigaeth ysbrydol."

"Dyro dy Ysbryd Glan i'r rhai hyn, fel y ganer hwynt eilwaith, a'u gwneuthur yn etifeddion iechyd tragywyddol."

"Sancteiddia'r dwfr hwn er dirgel olchedigaeth pechodau, a chaniattâ fod i'r rhai hyn a fedyddir yr awrhon ynddo, dderbyn cyflawnder dy ras, ac aros byth yn nifer dy ffyddlon blant etholedig."

Yna y'u bedyddir; a'r gweinidog a chwanega, gan ddywedyd, "Gan ddarfod yn awr, garedigion frodyr, adeni, a dodi y dynion hyn yn nghorph

1 Camgymhwysiad amlwg o'r addewid, pe amgen, byddai pob plentyn a fedyddier yn adgenedledig, a byddai Cristionogion yn rhwym i adgenhedlu yr holl fyd yr un modd.

Eglwys Crist, diolchwn ninnau i'r Hollalluog Dduw am ei ddaioni hwn." Felly, y mae yr oedolion hyn fel mabanod, yn dyfod i'w hadgenedlu yn y bedydd-faen.

Wedi i'r plentyn gael ei ysbrydol adgenedlu trwy fedydd, y mae i'w hyfforddi yn y gwirionedd yn nesaf trwy y catechism, yr hwn a ddechreua trwy ei adgofio o'i gyfryw adgenedliad, yn yr ymadroddion canlynol: "Pwy a roddes yr enw hwn arnat ti ?—Fy Nhadau bedydd a'm Mammau bedydd wrth fy medyddio; pan y'm gwnaethpwyd yn aelod i Grist, yn blentyn i Dduw, ac yn ettifedd teyrnas nefoedd."

Wedi ei adgenedlu fel hyn trwy fedydd, a'i sicrhau o'i adgenedliad trwy y catechism, fe ddygir y plentyn i'r cadarnhad. Y cyfarwyddiadau a roddai y gweinidog i'r meichiafon, pan yn gweinyddu y bedydd, oedd,—"Rhaid i chwi edrych dwyn y plentyn hwn at yr Esgob i'w gonffirmio ganddo, cyn gynted ag medro ddywedyd y Credo, Gweddi'r Arglwydd, a'r Deng air Deddf, yn yr iaith gyffredin, ac yr addysger yn mhellach yn Nghatechism yr Eglwys, a osodwyd allan ar fedr hyny." Gan hyny y mae y llyfr gweddi yn cyfarwyddo yn mhellach, fel hyn, "Cyn gynted ag y delo y plant i oedran cymmedrol, ac y medront ddywedyd yn iaith eu mam, Fannau'r Ffydd, Gweddi'r Arglwydd, a'r Deg Gorchymyn, a hefyd, medru o honynt atteb i Ymofynion ereill y Catechism byr yma; yna dygir hwy at yr esgob. Ac i bob un o honynt y bydd Tad-bedydd, neu Fam-fedydd, megis yn dyst o'u conffirmasiwn."

Yn ol y gosodiadau hyn y mae holl blant y plwyf yn dysgu y catechism, ac yna yn dyfod i'w conffirmio; ar yr hyn y rhwymir yr esgob i ddywedyd, "Hollalluog a byth fywiol Dduw, yr hwn fu wiw genyt adgenedlu dy weision hyn," (sef holl blant bedyddiedig y plwyf, a allant ddweyd y Catechism ac adnewyddu yr addunedau,) "drwy ddwfr, a'r Ysbryd Glan, ac a roddaist iddynt faddeuant o'u holl bechodau; Nertha hwy ni a attolygwn i ti Arglwydd." &c.

Gan fod holl blant y plwyf, fel hyn, wedi eu hail-eni, ac o ganlyniad, yr holl blwyfolion, y rhai a fuant unwaith yn blant, fe rwymir y gweinidog ar farwolaeth pob un o honynt i'w gladdu, oddieithr bod y trengedig wedi marw dan ysgymmundod, a pha mor annuwiol bynnag a fuasai hyd yn ei fynydau olaf, y mae yn rhwym i ddywedyd fel hyn wrth y bedd; "Yn gymmaint a rhyngu bodd i'r Goruchaf Dduw o'i fawr drugaredd, gymeryd atto ei hun enaid ein hanwyl frawd yma, a ymadawodd o'r byd, yr y'm ni yn rhoddi ei gorph ef i'r ddaear,......mewn gwir ddiogel obaith o adgyfodiad i fuchedd dragywyddol." "Hollalluog Dduw,......Yr ydym yn mawr ddiolch i ti, fod yn wiw genyt waredu ein brawd hwn allan o drueni'r byd pechadurus hwn."

Buais unwaith yn ymdrechu yn galed i'm hargyhoeddi fy hunan, nad oedd, ac na's gallai ein Diwygwyr feddwl fod babanod yn cael eu hail-eni

trwy fedydd; ond nid oes unrhyw resymmau a ffyna, mae yr iaith yma yn rhy eglur. Er fod y catechism yn datgan fod edifeirwch a ffydd yn gymhwysderau rhag-ofynol i fedydd, eto y mae y llyfr gweddi gyffredin yn cymeryd yn ganiattäol mewn modd eglur, fod oedolion a mabanod yn dyfod at y fedydd-faen yn ddïadgenedledig, ac y myned oddiyno yn ail-anedig. Nad yw derbynwyr teilwng bedydd wedi eu hadgenedlu cyn eu bedyddio, ond eu bod yn dyfod i gael eu hadgenedlu; eu bod heb dderbyn maddeuant hyd y fynyd y'u bedyddier; ond wedi cael maddeuant yn y fàn wedi hyny.[1]

1 Darfu i esgob Worcester yn ei siars ddiweddar, osod allan athrawiaeth yr eglwys yn gywir, yn y modd canlynol:—

Gan fy mod yn meddwl mai erthyglau ein heglwys ydynt yr awdurdod benaf, lle y dylem appelio wrth geisio penderfynu unrhyw bwnc mewn dadl, nyni a gyfeiriwn yn mlaenaf at y seithfed erthygl ar hugain ar y testyn yma. Yno, nyni a gawn fod bedydd yn cael ei ddarlunio, nid yn unig fel arwydd o broffes, a nod o wahaniaeth, trwy yr hwn y gwahaniaethir Cristionogion oddiwrth ereill na's bedyddiwyd; ond hefyd fel arwydd o "adgenedliad, neu enedigaeth newydd." Gan hyny y mae yr erthygl hon yn datgan bod yr adgenedliad, neu yr enedigaeth newydd yn cael ei dyroddi yn y bedydd, o'r hyn y mae y golchiad mewn dwfr yn arwydd àddefedig. Y mae yn anmhossibl yn fy nhŷb I iawn farnu grym cyflawn yr erthygl hon, heb ar yr un pryd gymeryd o honom i ystyriaeth gynnwys y nawfed erthygl, ar y pechod gwreiddiol. Gan hyny nyni a'i cawn wedi ei osod i lawr fel athrawiaeth yr eglwys, "bod pob dyn a enir i'r byd hwn, yn haeddu digofaint Duw, a damnedigaeth." Nid yw yn gyfwedd â'm hamcan presenol i ddadleu athrawiaeth y pechod gwreiddiol, neu pa mor bell y gellir ei seilio ar y geiriau hyny o eiddo yr apostol, "Trwy gamwedd un y daeth barn ar bob dyn i gondemniad." Digoner i ni ddywedyd bod y cyfryw athrawiaeth yn cael ei dodi i lawr yn amlwg yn y nawfed erthygl, a rhaid iddi gael ei chydnabod gan bob un a law-nodant yr erthygl hono fel athrawiaeth ein heglwys. Gan hyny, yn yr ennghraifft o fedydd babanod, effaith yr adgenedliad bedyddol ydyw rhyddhau y mabanod a fedyddir o'r cyflwr collfarnol yma, a dyroddi arnynt enedigaeth newydd i gyfiawnder, "oblegid a hwy wrth natur wedi eu geni mewn pechod, yn blant digofaint, fe'u gwneir drwy hyn yn blant gras." Dyma eiriau ein Catechism, y rhai, debygid, ydynt yn eglur yn dynodi yr athrawiaeth o adgenedliad bedyddol, ac fe'n cadarnheir yn mhellach trwy y gweddïau yr erchir eu defnyddio yn ngwasanaeth y bedydd a'r cadarnhâd. Yn y blaenaf yr ydym yn galw ar Dduw i ganiattau "bod i'r baban sydd i'w fedyddio, gael derbyn maddeuant o'i bechodau trwy adenedigaeth ysbrydol, fel y ganer ef eilwaith, a'i wneuthur yn ettifedd iechyd tragywyddol;" ac ar ol gweini y sacrament o fedydd, yr ydym yn offrwm ein diolch i Dduw, "am ryngu bodd iddo adeni y dyn bychan hwn â'i Ysbryd Glan, ei dderbyn yn blentyn iddo ei hun trwy fabwys," &c.

Ac yn ngwasanaeth y cadarnhâd, yr hyn sydd i'w olygu mal yn gyflenwol i fedydd, yr ydys yn cyfarch y rhai a fyddont wedi dyfod yn nghyd er adnewyddu yr addunedau difrifol a wnelsid yn eu henwau pan y'u bedyddid, fel rhai "wedi eu hadgenedlu drwy ddwfr a'r Ysbryd Glan."

Mae yn ymddangos yn anmhossibl yn wyneb erthyglau ein heglwys, yr ymadroddion uchod y cyfarwyddir i'w defnyddio yn y catechism, a ffurfiau gwasanaeth bedydd a chadarnhâd, i neb wadu mai yr athrawiaeth o adgenedliad bedyddol, yw athrawiaeth eglur ein heglwys."—*Record, Thursday, Sept.* 14*th* ,1848.

Rhoddes esgob Rhydychain ei olygiad ar yr athrawiaeth yn yr ymadroddion canlynol:—

"Yr oedd y rhai a ddadleuent dros yr athrawiaeth o adenedigaeth bedyddol, yn dal *mai yn y ddefod hono y mae dyn yn cael ei gyflwyno gyntaf i'w Dduw;* a bod euogrwydd ei natur gwympedig yn cael ei dynu ymaith, ac y parheid iddo, oddieithr ei fod yn annghymeradwy, y dylanwadau gwastadol o ras a'i tywysai i edifeirwch."—*Charge of the Bishop of Oxford, Record, Oct.* 9*th*, 1848.

Y mae pob gweinidog efengylaidd trwy eglwys Loegr yn rhwym yn ol *canon* 36 i dddatgan nad yw yr athrawiaeth anysgrythyrol hon o eiddo y Llyfr gweddi, cystal a'i gyfeiliornadu ereill, yn annghyson â gair Duw; ac yn ol Deddf yr Unffurfiad, rhaid iddo ei wneuthur ei hun yn gyfrannog o'r holl ddysg dwyllodrus hon, bob tro y bedyddio efe faban neu un mewn oedran, y dysgo efe Gatechism yr eglwys i blant ei blwyf, neu y claddo efe gorph un annuwiol o'i blwyfolion.

Fel hyn y mae y cyfeiliornadau rhagflaenorol yn cael eu parhau yn eglwysi y Sefydliad; canys ni all un dyn aros yn weinidog yn y Sefydliad heb ddal fod pob honiad yn Llyfr y Weddi Gyffredin, yn unol â gair Duw.[1]

Pa gyfeiliornadau bynnag a allant fod yn y llyfr gweddi neu yr erthyglau, y mae y temtasiynau mwyaf ar bob gweinidog yn y Sefydliad i'w ddarbwyllo ei hun ac ereill mai gwirioneddau ydynt. Mae ei heddwch, ei gyllid, ei sefyllfa mewn cymdeithas, ei gyfeillachau, a chynhaliaeth ei deulu, oll yn ymddibynu ar iddo ddatgan ei grêd nad yw y llyfr gweddi yn cynnwys ynddo ddim gwrthnaws i'r Ysgrythyr, ac nad oes dim yn un o'r namyn un, deugain erthyglau, ag sydd gyfeiliornus.

Trwy awdurdod y Senedd y mae y canonau hyn, y rhai a gawsant gymeradwyaeth y Goron, yn awr yn rhwymedig ar yr offeiriaid. Mae y senedd yn eu cadw mewn grym, ac yn lluddias eu hadolygu; ac felly, yr Undeb sydd yn llethu pob ysbryd o rydd ymofyniad yn ngweinidogion y Sefydliad;

H. "Pa beth a ddysgwylir gan y rhai a fedyddier?

A. Edifeirwch, trwy yr hon y maent yn ymwrthod â phechod; a Ffydd, trwy yr hon y maent yn ddïysgog yn credu addewidion Duw, &c. &c."—*Catechism yr Eglwys.*

Gan hyny, y mae yr esgob yn credu nad yw edifeirwch a ffydd, y rhai ydynt ragammodol i fedydd, yn "dwyn dyn at ei Dduw." Mae credadyn edifeiriol yn aros eto yn estron i Dduw, ac euogrwydd y pechod gwreiddiol yn aros yn barhaus arno, hyd oni's "dygir at ei Dduw" trwy fedydd; yna y mae efe yn cael "dylanwad o ras;" efe a edifarhäodd heb ras, ac efe a gredodd heb ras; ond can gynted ag y'i bedyddiwyd, daeth y dylanwad iddo. Eto, wedi edifeirwch, a ffydd, a'r dylanwad o ras trwy y bedydd, efe a all fod yn wrthodedig eto; canys estynid iddo o ddylanwadau parhäol gras, *oddieithr ei fod yn annghymeradwy*, neu *wrthodedig*. Os a efe yn annghymeradwy dan ddylanwadau gras, y mae yn ymddangos y pallant; ond nid yw yn hawdd canfod pa ddefnydd oeddynt iddo, gan ei fod wedi myned yn annghymeradwy danynt. A pha fodd y deallwn ni hyn am y maban? Nid yw y baban yn annghymeradwy o herwydd ei anfadrwydd, ac am hyny y mae yn derbyn o "ddylanwadau parhäol gras;" pa hyd y mae hyn i barhau? Efallai fod y plentyn yn derbyn y dylanwadau hyn dros chwe' mlynedd; ond y seithfed, y mae yn myned yn annghymeradwy, a'r holl ddylanwadau yn cael eu tynu ymaith. Peth rhyfedd, onidê, fod chwe' mlynedd o ras yn gwneyd plentyn yn "annghymeradwy" yn ei seithfed flwyddyn, neu ddeng mlynedd o ras yn gwneyd plentyn yn "annghymeradwy" yn ei unfed flwydd ar ddeg; neu fod unrhyw flyneddoedd o fwynhâd o ras Duw, yr hwn sydd yn goleuo ac yn sancteiddio, yn diweddu mewn annghymeradwyaeth! Fe ddichon mai dyma athrawiaeth yr eglwys; ond pa le y mae gair Duw yn dweyd y fath beth?—Gwel Marc 16. 16. Act. 8. 37. Ioan 3. 16, 36. Act. 16. 30, 31. Rhuf. 3. 28. Gal. 3. 26. Rhuf. 8. 30. 2 Thes. 2. 13, 14. 1 Pedr 1. 3—5.

1 Gwel *Canon* 36: Deddf yr Unffurfiad, a chanonau 4 a 5.

ac yn eu dirwasgu i ddal oes 'ar ol oes, mewn nychdod anobeithiol, gyfeiliornadau y gwŷr enwog a ddrylliasent hualau Pabyddiaeth, yn unig fel y gallent sicrhau ar yr eglwysi hualau y Llywodraeth.

I'r cwynion yn erbyn bod cyfeiliornadau yn y llyfr gweddi, yn cael eu cymeradwyo a'u dal i fynu gan yr Undeb, efallai yr attebir, fod llawer mwy o wirionedd yn cael ei gymeradwyo a'i ddal i fynu ganddo; bod y weddi gyffredin yn ardderchog, bod y namyn un, deugain erthyglau, yn gyffredin yn iach, a bod yr eglwys yn parhau yn efengylaidd trwy ei chredöau a'i ffurfiau, pa faint bynnag o gyfnewidiadau ar athrawiaeth a allai oresgyn cymdeithas. Ond y mae ymffrostio mewn credöau uniawn-gred, y rhai a ddibrisir gan yr athrawon byw, yn ymddangos i mi yn ffolineb. Os yw ein llyfrau awdurdodedig yn iachus, a'n gweinidogion a'n cynnulleidfäoedd yn gyfeiliornus, y mae yr eglwysi yn gyfeiliornus. Dyben credo cywir yw cynnal barn gywir yn yr athrawon: ac os yw yr athrawon yn cyfeiliorni mewn dibrisdod o hono, yna y mae wedi myned yn llythyren farw. Y mae yr erthyglau yn gyffredinol yn ysgrythyrol; ond gellir ffurfio barn am yr athrawiaeth a bregethir o lawer o bulpudau y Sefydliad wrth y dyfyrion canlynol o waith ysgrifenwyr Puseyaidd, wrth y rhai, mae lle i ofni, yr ymlyna rhai miloedd o'r offeiriaid :—

1. "Ni's gellir ei ddweyd yn rhy fynych, os Protestaniaeth sydd Gristionogaeth, mai Annghristionogaeth yw Catholiciaeth, ac felly i'r gwrthwyneb. Ni fu erïoed, ac ni fydd byth, ddim gwir gariad mewn ceisio gostwng ymylau gwahaniaethau gwirioneddol; ac y mae ymladdfeydd agored wedi bod yn ffordd ferach i heddwch yn y diwedd bob amser, na chyngrheiriau coegion a thwyllodrus." *British Critic, July* 1843. *p.* 64.

2. Protestaniaeth a Phabyddiaeth.—"Nid am ddim, nage, nac am ddim llai na rhyw wirionedd sylfaenol .....y dylai personau o enw a dylanwad ymgymeryd a'r gorchwyl o gynhyrfu yr eglwysi......ond yr ydym yn credu bod dad-brotestaneiddio yr Eglwys Wladol yn orchwyl o'r cyfryw bwysigrwydd."—*Ibid. July* 1841. *p.* 44.

"Fel yr elom rhagom, rhaid i ni gilio fwy fwy oddiwrth egwyddorion y Diwygiad Seis'nig, os oes y fath beth."—*Ibid. p.* 45.

"Yr ydwyf yn ymwrthod yn hollol ag egwyddor Protestaniaeth fel heresi, ac yn ei melldigo, yn nghyd a'i holl ffurfiau a'i sectau, neu enwadau."—*Rev. W. Palmer, Letter to Mr. Golightly, p.* 9.

"Amlwg yw am Brotestaniaeth yn ei sylwedd, a'i holl ffrwythau, mai crefydd natur ddynol lygredig ydyw."—*British Critic, July* 1841. *p.* 27.

"Y mae ansawdd Brotestanaidd athrawiaeth a meddwl, yn hanfodol annghristionogol."—*Ibid, p.* 29.

"Nyni a wyddom fod yr Anghrist yn cael ei ddarlunio yn brophwydoliaethol fel y Dyn pechod, yr hwn sydd yn gwrthwynebu ac yn ymddyrchafu

*goruwch*......Duw. Hyn, a dweyd yn eglur, yw ein barn ni, yr hon ni rusasom ei haddef bob amser, am Brotestaniaeth."—*Ibid, July* 1843, p. 65.

"Yr ydym yn hyderu, wrth gwrs, nad yw undeb gweledig a gweithredol ag esgobaeth Rhufain, o ansawdd gynrywiol eglwys; ar yr un pryd, yr ydym yn llwyr gydwybodol, ein bod trwy esgeuluso hyny, mor bell o hòni hawl, fel yr ydym yn colli braint fawr. Medda Rhufain hawlion di-dranc ar ein diolchgarwch; ïe, ar ein hymostyngiad mwyaf parchlawn, pe y buasai hyny yn orchymynedig......Am ei phechodau hi, a'r eiddom ein hunain, y'n halltudiwyd oddiwrthi yn ngwyddfod, nid yn nghalon: na'n cymheller byth i'w hannghofio neu beidio ei charu!"—*Ibid, July,* 1841, p. 3.

3. Ar yr Ysgrythyr.—"Y credo cywir yw y dëongliad Catholig o'r Ysgrythyr, neu draddodiad ysgrythyr-brawf.......Yr Ysgrythyr a thraddodiad wedi eu cyd-gymeryd ydynt gyd reol ffydd.—*Tract* 78, p. 2.

Am y gyfundraith grefyddol annelwig sydd ar led yn bresenol, nad oes dim i'w gredu ond a geir yn eglur yn yr Ysgrythyr......digon i'w dywedyd ei bod yn meddu holl chwidreddau rhydd-dybiaeth, heb ei chysondeb tufewnol......Ond nid yw y ddwy namyn dyfalion gweigion mewn dwyfyddiaeth, y rhai y dylai dynion difrifol ymwrthod â hwy."—*Tract* 85, p. 25.

"Mae trefniad yr Ysgrythyr yn gyfryw......fel y rhaid i ni naill ai dal nad yw athrawiaeth neu gennadwri yr efengyl yn gynnwysedig yn yr Ysgrythyr, neu ynte, rhaid i ni ddal nad yw hi wedi ei chofrestru yno, namyn yn anmhennodol, aneglur, ac oddi tan y wyneb."—*Ibid.* p. 27.

"Felly gan hyny, nid ydym ni yn gwneyd yr Ysgrythyr yn rheol ein ffydd, ond fel ag i ganiattau i bethau ereill yn eu rhyw fod yn rheolau hefyd; yn gymmaint ag nad yw yn ddiogel barnu pethau wrth yr Ysgrythyr yn unig heb eu golygu hwythau."—Field, *in Tract* 90, p. 11.

"Mae yn amlwg nad yw yr Ysgrythyr ei hunan, yn yr ystyr y'i deallir yn gyffredinol y dyddiau hyn, yn ol egwyddorion y Sefydliad, yn rheol ffydd."—*Ibid.*

"Mae ysgrifenwyr y "Traethodau at yr amserau," wedi cymeryd y wir sail o appeliad at lais yr eglwys yn mhob oes. Nid i gymeryd lle yr Ysgrythyrau; ac nid i sefydlu traddodiad fel rheol ffydd ar wahân oddiwrth y gair ysgrifenedig......yr appelient at weithiau y tadau, ond er penderfynu ar ystyr yr ysgrythyrau."—*Plain Words, 2nd edit.,* p. 17.

4. Cyfiawnhad trwy ffydd.—"Pan y gelwir ffydd yr unig offeryn, meddwl hyny yw, yr unig offeryn tufewnol, nid yr unig offeryn o un rhyw fath. Gan hyny, nid oes un annghyssondeb mewn dweyd fod ffydd yr unig offeryn o gyfiawnhad, ac eto bod bedydd hefyd yr unig offeryn; ac nid yw unig offerynoliaeth ffydd yn ymyraeth dim â'r athrawiaeth o fod gweithredoedd yn foddion hefyd. Nid yw cydsyniaeth â'r athrawiaeth mai ffydd yn

unig sydd yn cyfiawnhau yn cau allan yr athrawiaeth o fod gweithredoedd hefyd yn cyfiawnhau."—*Tract* 90, p. 12.

"Y mae gweithredoedd a wneir drwy gymhorth Dwyfol, ac mewn ffydd, cyn cyfiawnhad, yn cyfaddasu dynion i dderbyn y gras o gyfiawnhad."—*Ibid.* p. 16.

"Yna y dywedai yr esgob bod Cristionogion cyfiawnhäol yn cael eu cyfrif yn gyfiawn, ar gyfrif cyfiawnder, nid yr eiddynt eu hunain; Mr. Newman, eu bod yn cael eu cyfrif yn gyfiawn, yn gymmaint a'u bod wedi eu gwneyd felly, trwy gyfiawnder Crist, a weithredwyd ynddynt."—*British Critic, July*, 1843, p. 74.

"Mae y rhai efengylaidd......yn glynu wrth heresi ddinystriol Luther ar y pwnc o gyfiawnhad."—*Ibid.* p. 33.

"Rhaid i ymosodiad cyntaf y rhai a ymröant i adfywio rhyw gymmaint o leiaf ar Gristionogaeth fywiol......fod ar y pentwr dïeithriol hwnw o syniadau ac ymarferiadau, o'r rhai y gellir golygu yr athrawiaeth Lutheraidd o gyfiawnhad, yn wreiddyn a chynnyrch. Efallai nad oes angenrheidrwydd penderfynu, pa un a anrheithiwyd yr eglwys erioed gan unrhyw heresi mor atgas ac annghristionogol a hon; mae yn ddiau na ffynodd un erioed mor ddichellgar a thra gwenwynig."—*Ibid. Oct.* 1842, p. 390.

5. Y Sacramentau.—"Gellir dynodi hyn megis sylwedd athrawiaeth sectaidd......ystyried ffydd, ac nid y sacramentau fel offeryn cyfiawnhad."—*Tracts*, vol. 2, p. 6, *Preface*.

"Y sacramentau, nid pregethu, ydynt ffynhonau dwyfol ras."—*Tracts*, vol. 1, p. 4, *Preface*.

"Gan hyny, dyma nôd arbenig *y ddau sacrament hyn, Bedydd a Swper Yr Arglwydd,* trwy yr hyn y'u gwahaniaethir oddiwrth bob peth arall; ac nid yw hyny yn ddim amgen na phe dyweder mewn geiriau ereill, mai hwynt-hwy ydynt yr unig ordinhadau cyfiawnhäol, neu offerynau cyfrannogiad o'r iawn."—*Tract* 90, p. 46.

"Dau Sacrament yr Efengyl, yw y rhai a gyfrannogant Grist yn uniongyrchol i'r enaid."—*British Critic, July,* 1843, p. 51.

6. Bedydd.—"Yr athrawiaeth o ailenedigaeth yn y bedydd, yw gwir ysbryd a hanfod holl ddysgeidiaeth yr eglwys."—*Plain Words*, p. 21.

"Pa mor rwydd bynnag y gallwn ganiattau, a pha mor lawen bynnag y gallom edrych ar y dwyfol ras rhyfedd hwnw, trwy yr hwn y dychwelir y dyn a hir grwydrodd o'i gyflwr bedyddiedig, iddo yn ol, ni wiw i ni byth oddef i ni ein hunain i olygu y cyfryw enghreifftiau, megis yn ol y rheol gyffredin: yn eu ffordd, y maent yn afreolaidd; yn eglurhad rhyfeddol mae yn wir o hir oddefgarwch Duw, ond nid cynnyrch dïattalfa ei drefn ef o iachawdwriaeth, yr hon ar y dechreu a olygai fedydd megis y dechreuad, ac yna

y nodwedd Cristionogol megis yn cynnyddu yn raddol o'r dechreuad hwnw." —*Christian Remembrancer, May,* 1843, p. 670.

"Y mae bedydd......yn donio y plentyn â phob peth, a'r ffordd brïodol i gyfarch y cyfryw blentyn yw, nid llefaru wrtho am unrhyw enedigaeth newydd eto i'w ddisgwyl; ond dywedyd wrtho am fyned rhagddo yn erbyn pechod, yn dirf o ddwfr ei fedydd, ac yn gryf yn ei fendithion."—*Ibid, June,* 1843, p. 816.

"Mae yn ddiammeu na chefnogodd yr eglwys yr arfer ddiweddar, o amseru tröedigaeth, neu o gymeryd sylw o unrhyw gyfnod chwyldröawl hynod yn oes dyn, heblaw ei fedydd......Cyfiawnhad, yn ol dwyf-ddysg Eglwys Loegr, yw y cam cyntaf yn y fuchedd Gristionogol. Yn y drydedd erthygl ar ddeg, fe roddir ar ddeall i ni, fod gweithredoedd a wneler cyn cyfiawnhad, yn cael eu cyfrif megis gweithredoedd a wneler cyn gras Crist, ag ysbrydoliaeth ei Ysbryd ef, yr hyn sydd yn cymeryd lle, y fan ddiweddaraf yn y bedydd."—*Christian Remembrancer, Oct.* 1841, p. 273.

7. Swper yr Arglwydd.—"Fel y mae cyrph sylweddol yn dynesu drwy symmud o le i le, felly gall dynesäad a phresenoldeb corph ysbrydol fod ryw ffordd arall;......fe all corph a gwaed Crist fod yn bresenol wirioneddol a llythyrenol yn y cymmun sanctaidd, eto gan na's deuai yn bresenol drwy symmudiad llëawl, gall fod eto yn llythyrenol a gwirioneddol ar ddeheulaw Duw......Gwir benderfyniad pob cyfryw ddadleuon a all fod hyn, bod corph a gwaed Crist yn llëawl ar ddeheulaw Duw, eto yn wirioneddol bresenol yma,—presenol yma, ond nid yma mewn lle."—*Tract* 90, p. 56.

"Fe debygid mai hyn y mae yr eglwys *Gatholic* yn ei ddal mewn perthynas i bresenoldeb ein Harglwydd yn y sacrament, ei fod ef yna yn bresenol bersonol a chorphorol gyda ni, yr un ffunud ag y mae gwrthddrych, yr hwn a alwn ni yn bresenol."—*Ibid.* 56.

"Gan ei dderbyn ef (Crist) i'r corph hwn, y mae y rhai ydynt eiddo ef yn derbyn bywyd."—*Pregeth Dr. Pusey,* p. 9.

"Ei gnawd a'i waed ef yn y Sacrament a ddyru fywyd......am mai y cnawd a'r gwaed hwnw ydynt, a dorwyd, ac a dywalltwyd dros fywyd y byd, ac a roddir i'r rhai y'u rhoddwyd drostynt."—*Ibid.* p. 20.

"Os addysgwyd Balaam gan ei asyn, pa beth sydd i'n cyffroi yn athrawiaeth yr eglwys, fod dwfr y bedydd yn glanhau oddiwrth bechod, neu bod bwytta y bara cyssegredig, yn fwytta ei gorph ef; neu y gellir bendithio olew i ddybenion ysbrydol."—*Tract* 85, p. 90.

8. Yr Offeiriadaeth.—"Y wledd sanctaidd ar aberth ein Hachubwr ......a amcanwyd ganddo ef i gael ei chludo yn wastadol drwy ddwylaw dynion gosodedig. Gan hyny, oddieithr i ni allu dangos y cyfryw awdurdodiad, ni's gallwn fod yn sicr bod ein dwylaw ni yn dwyn yr aberth; ni's gallwn fod yn sicr bod eneidiau a barotoisid yn deilwng, pan yn derbyn y bara a dorwn,

a phïol y fendith, yr hon a fendigwn, yn gyfrannogion o gorph a gwaed Crist."—*Tract* 4, p. 2

"Y swydd offeiriadol yn yr eglwys yw sail y lleill oll......Os medda yr eglwys y swydd offeiriadol, rhaid ei bod yn meddu y swyddogion i'w gweinyddu.....Dylai yr offeiriad gael ei ystyried gan ei braidd, fel yn sefyll iddynt hwy mewn amryw olygiadau yn lle Duw......y cysgod a'r cynnrychiolydd o'r anweledig iddynt hwy. Eu prif sefyllfa yw, bod yn swyddogion yr eglwys i weinyddu i'r bobl eu hamryfal fendithion......ac yn enwedig i offrymu i fynu y gwasanaeth sanctaidd hwnw, trwy yr hwn y mae ffrwythau iawn ein Harglwydd yn cael eu har-ddeisyf beunydd, a'u lledaenu......trwy yr eglwys.....Gellir galw yr offeiriaid yn offer yr Ysbryd."—*British Critic, July*, 1843, pp. 50, 53.

"Gall dyn, heb ei ddirprwyo gan yr esgob, ddefnyddio geiriau bedydd, a thaenellu neu drochi â dwfr ar y ddaear, ond nid oes un addewid gan Grist y bydd i'r cyfryw dderbyn eneidiau i deyrnas nefoedd. Gall un heb ei awdurdodi,......gymeryd arno roddi swper yr Arglwydd, ond,......nid oes un awdurdod oddiwrth Grist, i arwain cymmunwyr i dybied y'u......gwneir hwy yn gyfrannogion o gorph a gwaed nefol y Gwaredwr."—*Tract* 35, p. 3.

Olyniaeth Apostolaidd —"Yr ydwyf yn ofni ein bod wedi esgeuluso yr unig wir sail ar yr hon yr adeiledir ein hawdurdod—sef ein disgyniad apostolaidd......Fe roddes yr Arglwydd Iesu Grist ei Ysbryd i'w apostolion; hwythau yn eu tro a osodasant eu dwylaw ar y rhai oeddynt i'w dilyn, a'r rhai hyn drachefn ar ereill; ac felly y trosglwyddwyd y ddawn sanctaidd hon i waered i'n hesgobion presenol, y rhai a'n happwyntiasant ni fel cynnorthwywyr......Yr ydym dan angenrheidrwydd i beidio ystyried neb wedi eu gwir ordeinio ar nas ordeiniwyd *fel hyn*."—*Tract* 1, pp. 2, 3.

"Pa ham y siaradwn gymmaint am y Sefydliad, a chan lleied am olyniad apostolaidd? Pa ham nad ymdrechem yn ddifrifol i argraffu ar feddyliau y bobl y gwirionedd eglur, eu bod trwy ymneillduo o'n cymmundeb ni, yn eu neillduo eu hunain......oddiwrth yr unig eglwys yn y deyrnas hon, a fedd hawl i fod yn sicr ei bod yn meddu corph yr Arglwydd i'w roddi i'w bobl." *Tract* 4, p. 5.

"Gan hyny, a ydych chwi yn dïeglwysoli yr holl Henaduriaid, yr holl Gristionogion na's meddant esgobion?......Ni wiw i ni gilio yn ol oddiwrth ein golygiadau pwyllog ar wirionedd a dyledswydd am y gellir codi gwrthddadleuon dyrus y'nghylch cyflwr y cyfryw bersonau, mwy nag y dylem ofni dal yr angenrheidrwydd arbenig o grediniaeth Gristionogol, am y gellid cyfodi y cyffelyb wrthddadleuon o berthynas i baganiaid, Iuddewon, neu Fahometaniaid rhinweddol."—*Tract* 4, p. 6.

"Nid yn unig am fod Esgobyddiaeth yn drefn well neu fwy ysgrythyrol na Henaduriaeth......y mae Esgobyddiaeth yn iawn, a Henaduriaeth ar

gam; ond oblegid bod gweinidogion Henaduriaid wedi cymeryd arnynt awdurdod nad ymddiriedwyd iddynt erioed. Cymerasant arnynt eu hunain hawl i ordeinio a chadw i fynu olyniad o weinidogion heb eu hawdurdodi erioed i wneyd hyny."—*Tract* 7, p. 2.

"*Dywedir yn odidog* yn ordinhadau Synod Bethlehem, y rhai a anfonai yr Eglwys Ddwyreiniol i'r esgobion a wrthodent y llwon;—"Am hyny yr ydym yn tystiolaethu mai hyn fu athrawiaeth yr Eglwys Ddwyreiniol erioed, —bod yr urddas esgobol mor angenrheidiol yn yr eglwys, fel na's gall fod unrhyw eglwys heb esgob, nac unrhyw Gristion,—na all, gymmaint ag mewn enw.' "—*British Critic, April,* 1842, p. 498.

"Mae y sawl a wado olyniad apostolaidd y weinidogaeth, am nad yw yn cael ei ddysgu yn eglur yn yr ysgrythyr, yn rhwym, er mwyn cyssondeb, i'm tŷb I, i wadu Duwdod yr Ysbryd Glan, am nad yw hyny yn cael ei arhoni yn llythyrenol yn un man yn yr ysgrythyr."—*Tract* 85, p. 4.

Yr ydwyf yn credu bod nifer y rhai ydynt yn dal y gau athrawiaethau hyn ar gynnydd yn barhaus. Ac y mae mwy fyth yn esgeuluso, neu yn gwadu yr athrawiaeth o gyfiawnhad o ras, ac o adgenedliad trwy yr Ysbryd Glan. Mae gwyr ieuainc o'r ddau ddosparth yn cael eu hordeinio yn rhwydd, ac wedi y'u hordeinier, y mae yr Undeb yn agoryd ein holl blwyfydd iddynt. Pe y byddai gweinidogion y Sefydliad yn ymddibynol am eu cynhaliaeth ar y cynnulleidfäoedd, ystyrid athrawiaeth efengylaidd a duwioldeb personol, yn anhebgorol i weinidog un o gynnulleidfäoedd y Sefydliad, megis y'u hystyrier yn awr i weinidogion cynnulleidfäoedd yr Annibynwyr, y Bedyddwyr, a'r Trefnyddion. Ond, dan y trefniad o noddaeth Wladwriaethol, y mae pob prawf-reolau o ysbrydolrwydd, yn dyfod bron yn anhyall. Pa esgob byth a ommedda ordeino gwr ieuanc dysgedig a chyfrifol yn unig am nad yw yn efengylaidd o farn, ac am nad yw efe yn cael prawf boddlonol o dduwioldeb personol ynddo? Mae yn wir bod y gyfraith yn gadael ar ddyspwyll yr esgob pa un a ordeinia efe ef ai ni's gwna; ond, pe y gweithredai efe yn ol y cyfryw ddyspwyll, gan gau pawb o'r weinidogaeth, ond y sawl y caffai efe brawf o dduwioldeb personol ynddynt, efe a gaffai glywed oddiwrth hyny yn y senedd yn fuan. Gan hyny, ychydig o esgobion ydynt yn gwneyd ymchwil rŷ fanol. Fe roddir ymgeisydd ar yr arteith-glwyd lëenyddol yn awr ac eilwaith, pan y drwg-dybir ei fod yn Galfinaidd, neu yn ymwrthod âg ailenedigaeth bedyddol; ond, yn fynychaf, y mae "barn cariad" yn cuddio y cwbl. Y mae y "farn cariad" yma, o gymhwysiad tra ehang yn y weinidogaeth Eglwysig. Nid oes un esgob na henuriad yn cyflogi gwas, yn prynu nac yn gwerthu, yn ceisio ysgol i'w blentyn, neu yn rhoddi ei bleidlais mewn etholiad, wrth "farn cariad." Gweithredant yn y pethau hyny fel dynion synhwyrol, cyfarwydd â masnach, gan ymholi, a chael tystiolaeth,

barnu wrth ffeithiau, ac yn mhób modd y mae yn bossibl, ochel cam-gymeriadau niweidiol. Ond yn eu swyddau gweinidogaethol, y mae pob peth o chwith; ni bydd yno byth ymchwiliad i ffeithiau, na chasgliadau yn cael eu gwneuthur oddiar brofiad, na gocheliadau yn cael eu cymeryd rhag cyfeiliornad. Y mae "barn cariad" yn cyhoeddi holl blant y plwyf yn adgenedledig, er fod cenedlaethau olynol, byth er y Diwygiad, a gyhoeddid yn genedledig yr un ffunud, wedi eu profi eu hunain yn annuwiol. Y mae "barn cariad" yn derbyn at fwrdd yr Arglwydd, bawb a ddewisont ddyfod, er eu bod yn caru cerdd a chwareudy, a dawnsiaeth y *polka* yn llawn cymmaint a'r cofion o angeu Crist. Y mae "barn cariad" yn gwneuthur i'r gweinidogion ddiolch i Dduw am farwolaeth pob un o afradloniaid ei blwyf a gleddir ganddo. Y mae "barn cariad" yn gwneyd i'r personiaid hynaws roddi eu tystiolaethau yn rhwydd dros dduwioldeb a theilyngdod unrhyw fab i wr bonheddig yn eu cymmydogaeth, yr hwn sydd yn gwybod llawer mwy am bysgotta, saethu, a hela, nag am y Beibl; ac o'r diwedd, y mae yr unrhyw "farn cariad" yn gwneyd i'r esgob ei ordeinio ar sail y tystiolaethau hyny. Y canlyniad yw, fod torfeydd o ddynion annychweledig yn ymwthio i'r weinidogaeth, uwch ben pob un o ba rai y dywed yr esgob, "Derbyn yr Ysbryd Glan i swydd a gwaith offeiriad yn eglwys Dduw,......pechodau pwy bynnag a faddeuoch, hwy a faddeuir, a'r eiddo pwy bynnag a attalioch, fe'u hattelir." Ac o hyny allan, wedi eu dwyn i mewn i'r olyniad apostolaidd, y maent yn cydio yn ymffrost ysgrifenydd y "Traethawd" cyntaf "i'r amserau," a chydag ef yn mawrygu eu hurddas newydd fel hyn, "Nyni a anwyd, nid o waed, nac o ewyllys y cnawd, nac o ewyllys gwr, ond o Dduw. Yr Arglwydd Iesu Grist a roddes ei Ysbryd i'w apostolion, hwythau yn eu tro a arddodasant eu dwylaw ar y rhai a'i dilynent; a'r rhai hyn drachefn ar ereill, ac felly y mae y ddawn sanctaidd wedi ei throsglwyddo i'n hesgobion presenol ni, y rhai a'n trefnasant ni fel eu cynnorthwywyr, a'u cynnrychiolwyr mewn rhyw olygiad.....Trwy yr esgob a'n hordeiniodd, nyni a dderbyniasom yr Ysbryd Glan, awdurdod i rwymo ac i ryddhau, i weinyddu y sacramentau, ac i bregethu."[1]

Wedi i ddynion cyfeiliornus ac annychweledig fel hyn gael eu gwneuthur yn offeiriaid, gallant yn rhwydd weithio eu ffordd i fywiolaethau. Gall ychydig o esgobion o feddwl bywiog, ac o dymherau poethlyd, yn falch o awdurdod, ac yn elynol i wirionedd efengylaidd, yn awr ac yn y man feiddio pob traul a thrafferth, gan wrthod cymeradwyad i ymgeisydd efengylaidd.

Darfu i un o'n hesgobion yn ddiweddar, ommedd cymeradwyad i bennodiad gweinidog profedig, iach yn y ffydd, ac o gymeriad rhagorol, am ei fod yn gwadu yr athrawiaeth o ailenedigaeth yn y bedydd;[2] ond, efallai nad oes

[1] *Tracts for the Times, No.* 1. [2] See "*Examination before Admission to a Benefice by the Bishop of Exeter.*"—*By G. C. Gorham.* Hatchard and Son, 1848.

un ennghraifft o'r cyfryw ommeddiad ar sail bydolrwydd, neu ddiffyg duwioldeb yn y cyflwynedig. Y mae y peryglon yn ormod i'r esgob.

Pan y gommeddo esgob ordeinio un i fywioliaeth, y mae yn ofynol iddo roddi rheswm am ei ommeddiad, ac os bydd y rheswm a roddir yn ymddangos yn annigonol i'r llys, (fel yr ymddangosai y diffyg o dröedigaeth ac ysbrydolrwydd bob amser) yna efe a ddyfernid i dalu y treuliadau, a throsglwyddir yr hawl o ar-osod yn y fywioliaeth i archesgob y dalaeth. Ni's gall llysoedd cyfreithiol farnu am gymhwysderau gweinidogion Crist; a pha mor agos bynnag y byddo y cyflwynedig yn ymylu ar Babyddiaeth neu Sosiniaeth, os bydd iddo law-nodi ei gymeradwyaeth o'r namyn un, deugain erthyglau, a'r llyfr gweddi, ac oni ddarfu iddo bregethu nac ysgrifenu dim yn uniongyrchol yn erbyn athrawiaethau yr eglwys, fe roddai y llys farn yn erbyn yr esgob. Gan hyny, nid yw yr esgobion byth yn eu rhoddi eu hunain yn y sefyllfa yma, ac y mae offeiriaid hanner pabaidd wrth y miloedd yn llenwi pulpudau y tir. Ond, nid yr offeiriaid hanner pabaidd yw gweinidogion gwaethaf ein heglwysi; hwy a allant fod yn ddynion difrifol a dyhewydus, er dal cyfeiliornadau pwysig: ond trwy ymchwilion ehang mewn amryw wledydd, fe'm hargyhoeddir fod y fath ddwyfyddiaeth druanaidd yn ffynu mewn miloedd mwy o'n plwyfau, ag a foddia archwaeth dynion anianol. Ammaethyddwyr, helwyr, dynion llëenyddol, hoffwyr coeg-ddifyriaeth, dynion cyfrifol a chywir, ond dynion anianol, wrth y miloedd, ydynt weinidogion y bobl, yn ngweinidogaeth y rhai, nid yw yr athrawiaethau o gyfiawnhad o ras, trwy ffydd, heb weithredoedd y ddeddf, o adenedigaeth trwy yr Ysbryd Glan, o'r angenrheidrwydd o gynnydd sancteiddrwydd; a'r ddyledswydd o roddi ufudd-dod trwyadl i holl gyfraith Duw, yn cael lle. Er gwneuthur y drwg hwn yn fwy anniöddefol, y mae yr un gyfundrefn ag sydd yn llanw plwyfau Lloegr â dynion na's gwyddant pa fodd i bregethu yr efengyl i'w pobl, yn cau allan o'r plwyfau hyny holl weinidogion y Sefydliad a'i pregethent. "Nid oes mor dwy fil allan o un fil ar bymtheg o bulpudau yn Lloegr yn dadleu achos Cymdeithas Genhadol yr Eglwys." Mae y Gymdeithas hono dan nawdd archesgobion ac esgobion, yn cael ei chefnogi gan agos i holl weinidogion efengylaidd y Sefydliad, ac eto ni's gall gael y ffordd yn rhydd i fwy na dwy fil o bulpudau. Gan hyny, a allwn ni anturio gobeithio bod mwy na thair mil o weinidogion efengylaidd yn y Sefydliad? os nad oes, yna, gan fod 13,154 o eglwysi a chapeli, 12,923 o offeiriaid gweithiol, a 10,533 o fywiolaethau, rhaid fod agos i 7,533 o fywiolaethau, a 10,154 o bulpudau, yn y rhai ni phregethir yr efengyl yn ffyddlon, ac oddeutu 9,923 o weinidogion yn y Sefydliad eglwysig, y rhai ydynt yn anefengylaidd.

Ond, fe allai tair mil o ddynion ffyddlon, pe y caent eu traed yn rhyddion, wneyd yr Efengyl yn hysbys yn mhob plwyf; eithr fe'u gwaherddir.

1 *Church Missionary Society Jubilee*, June, 1848, p. 8.

Dywedodd Crist, "*Ewch i'r holl fyd, a phregethwch yr Efengyl i bob creadur;*"[1] a theimlai Paul ei hunan yn ddyledus i bregethu hyd y goddefai ei nerth, i bawb;[2] ond y mae y Llywodraeth yn dywedyd wrth holl efengylwyr y Sefydliad, "Nid gwiw i chwi fyned i un plwyf heb ganiattad y person." Yr ydym yn darllen yn y bummed bennod o'r Actau, am yr apostolion pan wedi eu curo gan y Llywodraethwyr a'u gorchymyn na lefarent mwyach yn enw Iesu, "*Beunydd yn y deml, ac o dy i dy, ni pheidiasant a dysgu a phregethu Iesu Grist.*"[3]

Ond, ordeinir trwy *canon* 71, "Na byddo i un gweinidog bregethu mewn unrhyw dŷ annghyoedd......dan berygl cael ei ddiswyddo am y camwedd cyntaf, a'i ysgymmuno am yr ail." Pan oedd Pedr yn nghyda Barnabas yn cefnogi cyfeiliornad peryglus yn eglwys Antiochia, nyni a gawn Paul yn ei wrthwynebu yn ei wyneb.[4] Ond y mae *canon* 53 yn ordeinio fel hyn, "Os bydd i unrhyw bregethwr, yn y pulpud yn neillduol, neu o fwriad, warthruddo neu wrth-brofi unrhyw athrawiaeth a ddysgir gan athraw arall yn yr un eglwys, neu mewn unrhyw eglwys gyfagos arall, cyn hysbysu yr esgob," (yr hwn a all fod yn anefengylaidd ei hun,) "ni bydd i'r gwarcheidwaid eglwysig......oddef i'r pregethwr dywededig mwyach ddyfod i'r lle a gamddefnyddiodd efe unwaith," (trwy ddynoethi gau athrawiaeth;) "oddieithr iddo addunedu yn ddifrifol i ymattal oddiwrth bob cyfryw ddefnydd ymryson yn yr eglwys." &c. Gorchymynodd Crist i'r Efengyl gael ei phregethu i bob creadur; ond, tra y mae, 7500 o blwyfi yn y deyrnas hon, yn y rhai ni phregethir yr Efengyl yn ffyddlon, ni all un gweinidog efengylaidd ymosod ar eu hanwybodaeth, a'u marwolaeth ysbrydol. Canys, nid oes un egwyddor gyffredinol o'r ddeddf eglwysig wedi ei sefydlu yn fwy cadarn na hon, "Na chaniatteir i unrhyw offeiriad weinyddu mewn unrhyw eglwys na chapel o fewn terfynau plwyf, heb gydsynied y person." Ac ni a welsom eisoes eu bod yn gauedig allan o bob tai annghyoedd. Fel hyn, y mae gweinidogion efengylaidd yn cael eu cau allan o blwyfydd gweinidogion annuwiol. Gall dyn da a galluog gael ei demtio i seguryd fel gweinidog un o'r 1907 o blwyfau, poblogaeth y rhai sydd islaw 100; neu o'r 6681 plwyfau sydd a'u poblogaeth islaw 300; ac fe ddichon fod ardaloedd poblogaidd o'i ddeutu, yn y rhai y gallai ei bregethau ddwyn cannoedd at Grist. Fe allai fod torfeydd o fewn ei gyrhaedd heb glywed efengyl erioed; a'u gweinidogion yn ddynion annychweledig, ammaethwyr, helwyr, ac ymbleserwyr, ond heb eu cennad, ni wiw iddo fyned i un o'u plwyfau, er ei fod yn gwybod bod y bobl yn trengu mewn annghrefydd, ac yn ewyllysgar i wrando. Os bydd i ychydig o honynt gyrchu i'w eglwys fach "o bren a maen," a chael eu dychwelyd trwy ei weinidogaeth, fel y maent yn y canlyniad yn awyddus am gael eu derbyn i undeb â'r eglwys fywiol, yn gymmaint a bod personiaid eu

1 Marc 16. 15. 2 Rhuf. 1. 14. 3 Act. 5. 42. 4 Gal. 2. 11.

plwyfau hwy eu hunain, a'u cymmydogion, yn ddiofal yn nghylch crefydd, y mae yr wythfed ar hugain o'r canonau yn gwarafun hyny yn yr ymadroddion canlynol: "Y gwarcheidwaid eglwysig.......a sylwant......pa un a fydd dïeithriaid yn dyfod yn fynych ac yn gyffredin o'r plwyfau ereill i'w heglwys, ac a hysbysant hyny i'w gweinidog, rhag iddynt gael eu derbyn at fwrdd yr Arglwydd yn mysg y lleill, yr hyn a waherddir iddynt, gan yru y cyfryw adref i'w heglwysi ac at eu gweinidogion plwyfol eu hunain, i dderbyn y cymmun yno, gyda'r gweddill o'u cymmydogion." Ac y mae *canon* 57 yn chwanegu y cyfarwyddiadau canlynol; "Os bydd i unrhyw beriglor, ebrwyad, neu gurad, dderbyn i gymmundeb y rhai na byddont o'i eglwys a'i blwyf, neu fedyddio rhai o'u plant, dïswydder ef." Trwy un *canon* gwaherddir i weinidogion ffyddlon yr efengyl fyned i blwyfau gweinidogion annuwiol, i bregethu i'w plwyfolion esgeulusedig; a thrwy un arall, gofynir iddynt fwrw allan y cyfryw o honynt a allant fod wedi cael eu deffroi, o'u heglwysi eu hunain; a thrwy un arall, ni wiw iddynt gymmaint a rhybuddio eu pobl o'r gau athrawiaethau ydynt yn distrywio eneidiau dynion yn yr holl bulpudau cylchynol.

Fel hyn y mae miloedd o blwyfau yn cael eu rhoddi i fynu gan y Wladwriaeth i ddynion annuwiol neu hanner Pabaidd, i'r rhai y mae yr Undeb yn sicrhau yr hawl annghyfrannogol i weinyddu addysg ynddynt. Y mae tywyllwch ysbrydol yn gorwedd ar y tir, dan yr hwn y mae duwioldeb yn nychu, ac ni wiw i efengylwyr effro gynnyg ei chwalu. Mae hyn yn ddigon drwg; ond, fe ymddengys yn waeth fyth i mi, fod yr Undeb wedi effeithio, tra yn rhwymo dwylaw dynion, i wneyd eu cydwybodau yn ddideimlad. Y mae gorchymyn Crist i bregethu yr efengyl i bob creadur yn cael ei roi o'r naill du, gan *ganonau* a warafunant iddo gael ei bregethu; a gweinidogion efengylaidd, a miloedd o ddynion duwiol a edrychant yn dawel ar orchymynion Crist yn cael eu gwneuthur yn ddi rym, trwy draddodiadau yr eglwys, (gwel Matt. 15. 1—9.), a thra y maent *yn gwybod* bod miloedd i'r rhai ni phregethir yr efengyl, nid ydynt yn gwneuthnr dim er eu hachub; ïe, yn hyttrach, cefnogant â rhyw frwdfrydedd dïeithriol yr "Hen Sefydliad," deddf noddaeth, a *chanonau* didrugaredd yr hwn sydd yn sicrhau parhad eu hanwybodaeth nychlyd.

Os parhâ hyn, a dyfod o'r wlad yn fwy digrefydd,—os bydd i filoedd o wŷr, gwragedd, a phlant, y rhai a allasent gael eu hachub trwy adnabyddiaeth o Grist, drengu yn eu hanwybodaeth am fod Cristionogion yn rhy annewr a dïog i dori drwy yr edwicaeth blwyfol yma, ac arhoni ac ennill yr hawl i weinidogion Cristionogol i bregethu Crist i bawb nad ydynt yn ei adnabod, yna rhaid mai wrth eu drws hwy y gorwedda dinystr y torfeydd hyn ydynt yn aros yn dywyll a di ddysg yn mân heolydd pob dinas, a phentrefydd pob gwlad. Mae gweinidogion ac eglwysi yn rhwym i bregethu Crist i bob creadur, a gwae fydd iddynt oni's pregethant ef!

### ADRAN V.—DYLANWAD YR UNDEB AR DDYSGYBLAETH EGLWYSIG Y SEFYDLIAD.

Wrth Ddysgyblaeth eglwysig y golygir trefniant o osodiadau er rheoli derbyniad, cerydd, a dïarddelwad aelodau a swyddogion yn yr eglwysi; ei amcanion yw, dal i fynu burdeb athrawiaeth yn mhob eglwys, a meithrin duwioldeb eu haelodau. Fe'i bwriadwyd er attal dynion annghymmwys i gael derbyniad i gymdeithas yr eglwys, er ceryddu yr aelodau a droseddont, ac er bwrw allan y rhai y byddo eu hymddygiadau yn annheilwng o'u proffes; er sicrhau etholiad gweinidog ffyddlawn, a symmudiad gweinidog a fyddo yn gyfeiliornus, anfoesol, annuwiol, neu annghyfaddas. Fel hyn y mae wedi ei fwriadu i wneuthur pob eglwys, yr hyn yr oedd amryw o'r prif eglwysi, yn "gymdeithas o saint a ffyddlon frodyr."[1]

Yr amcan ydyw cynnorthwyo pob eglwys i gyflawni yn ol ei mesur ragfynegiad Esaiah mewn perthynas i'r eglwys gyffredinol, yr hyn a gynnwysir yn y geiriau hyn; "*Cyfod, llewyrcha, canys daeth dy oleuni, a chyfododd gogoniant yr Arglwydd arnat; canys wele, tywyllwch a orchuddia y ddaear, a'r fagddu y bobloedd: ond arnat ti y cyfyd yr Arglwydd, a'i ogoniant a welir arnat.*"[2] Amcan y ddysgyblaeth eglwysig yw gwneyd pob eglwys mewn mesur, yr hyn y gwna yr Arglwydd Iesu Grist ei eglwys gyffredinol o'r diwedd, yn eglwys ogoneddus, "*heb arni na brycheuyn na chrychni, na dim o'r cyfryw; ond yn sanctaidd a difeius.*"[3] Ei dyben yw, gwneyd a chadw aelodau yr eglwys, "*yn ddiargyhoedd a diniweid, yn blant difeius i Dduw.*"[4]

Fel y gallom chwilio pa mor bell y mae yr Undeb yn arlwy er yr amcanion yma yn nysgyblaeth y Sefydliad, ystyriwn yn gyntaf gyfansoddiad ei llysoedd eglwysig, ac yn ail, ei gweinyddiad o ddysgyblaeth.

#### I. *Ar Lysoedd Eglwysig.*

Ni chanfyddaf yn y Testament Newydd un llŷs eglwysig heblaw yr eglwys ei hun, dan lywyddiaeth ei henuriaid. Ac. 6. 1—6; a 15. 6, 21—25, 28. Heb. 13. 7, 17. 1 Pedr 5. 1, 2.

Yr oedd cyfarfodydd eglwysig yn fynych, Act. 6. 2; a 11. 22; a 14. 27; a 15. 4, 22; a 18. 22. 1 Cor. 6. 19. Col. 4. 16, &c.

Ymwrthodai, neu ysgymmunai yr eglwys athrawon cyfeiliornus. Matt. 7. 15. Gal. 5. 12.

Arferai aelodau unigol eu doniau er lles yr eglwys. 1 Cor. 14. 12. 1 Pedr 4. 10.

1 Rhuf. 1. 7. 1 Cor. 1. 2. Eph. 1. 1. Phil. 1. 1. Col. 1. 2. 1 Thes. 1. 2 Thes. 1. 3.
2 Esa. 60. 1, 2. 3 Eph. 5. 27. 4 Phil. 2. 15.

Gweinyddai rhai fel bugeiliaid, heb eu bod yn bregethwyr. 1 Tim, 5. 17.

Dyddanai aelodau o'r eglwysi y naill y llall. 1 Thess. 4. 18.

Adeiladent eu gilydd, 1 Thess. 5. 11.

Dysgent a rhybuddient eu gilydd. Col. 3. 16. Heb. 3. 13; a 10. 25.

Cyffesent i'w gilydd. Iago 5. 16.

Rhybuddient yr afreolus, dyddanent y gwan eu meddwl, cynhalient y gweiniaid. 1 Thess. 5. 14.

Penderfynent amrafaelion yn eu mysg eu hunain. Matt. 18. 17. 1 Cor. 6. 3, 4.

Adferent wrthgilwyr. Gal. 6. 1. 2 Cor. 2. 6, 7.

Ysgymmunent droseddwyr. Matt. 18. 17. Rhuf. 16. 17. 1 Cor. 5. 13. 2 Cor. 2. 6; a 6. 14—18.

Ac yr oedd pob eglwys yn gyfrifol am bob gau athrawiaeth, neu ymarweddiad anfoesol a geffid o'i mewn. Dat. 2. 2, 5, 14—16, 20; a 2. 11, 17 29.

Ond y mae yr eglwys wedi ei rhoddi o'r naill du gan yr Undeb. Nid oes ganddi ddim i'w wneyd yn newisiad ei swyddogion, neu yn eu diswyddiad, na chyda derbyniad neu ddïarddelwad aelodau, na chyda gweinyddiad ceryddon eglwysig; y mae ei swyddogaethau wedi eu dirymu yn hollol, drwy drefniant o lysoedd eglwysig, a sefydlwyd drwy awdurdod y Goron i'r holl eglwysi Sefydledig. Ysgeler fel y darfu i'r Llywodraeth heb awdurdodiad Crist, drawsfeddiannu swyddogaethau yr eglwysi, a chyda dibrisdod cyffelyb ar ewyllys Crist, yr hwn a wnelsid yn hysbys trwy orchymynion a chynreolau apostolaidd, y darfu i'r eglwysi Sefydledig roddi i fynu eu dyledswydd briodol o hunan-weinyddiad. Yn lle y gwyliadwriaeth caredig hwnw dros eu gilydd, y zel ffyddlon hono dros anrhydedd y Gwaredwr, trwy yr hyn y sicrheid purdeb yr eglwysi cyntaf, y mae pob achos dysgyblaeth yn bresenol yn cael ei ddwyn i lysoedd na's meddant un awdurdod oddiwrth Grist, o'r rhai nid oes un enghraifft yn y Testament Newydd, ac â'r rhai yr ymwrthyd synwyr cyffredin.

Y llŷs uchaf yn y Sefydliad yw y Gymmanfa eglwysig, yr hon yw ei deddfwriaeth, neu y llŷs i ffurfio ei chyfreithiau, tra y mae gweinyddiad y cyfreithiau yn cael ei ymddiried i'r esgobion, i 300 o lysoedd plwyfol a elwir Llysoedd gwahan-freiniol, i frawdlysoedd esgobol, i lŷs y Bwäau, i lysoedd y gyfraith wladol, ac i'r cyfrin-gynghor. Olrheiniwn ychydig ar gyfansoddiad a gweithrediad y llysoedd hyn.

1. Y Cydwys *(Convocation)*, neu y Gymmanfa Eglwysig. Y mae y Cydwŷs yn nhalaeth Caergaint, yn gynnwysedig o ddau dŷ,—y tŷ uchaf o esgobion, yr isaf o'r is offeiriaid a'u cynnrychiolwyr. Heblaw y rhai a eisteddant yma yn eu hawl eu hunain, etholir diprwywyr i gynnrychioli seneddrau yr eglwysi cadeiriol a'r offeiriaid esgobol. Y mae pob esgobaeth yn

anfon dau gynnrychiolydd i fynu; ond gan na fedd neb ond perigloriaid hawl i bleidleisio yn eu hetholiad, y mae y curadiaid, y rhai ydynt yn gwneyd i fynu un ran o dair o'r offeiriaid gweithiol, heb eu cynnrychioli, yn gystal a'r holl eglwysi eu hunain. Fel hyn, y mae y gymmanfa yn gynnwysedig o 22 o ddeoniaid, 53 o archddiaconiaid, 24 o ddirprwywyr seneddrau yr eglwysi cadeiriol, a 44 o gynnrychiolwyr yr offeiriaid plwyfol. O'r 143 aelodau y cyfansoddir y llŷs o honynt, y mae 75 yn urddasolion, a eisteddant yno yn eu hawl eu hunain, a 24 yn cynnrychioli yr offeiriaid cadeiriol. Gan hyny, y mae 99 o aelodau, y rhai ydynt mewn cyssylltiad â'r eglwysi cadeiriol, ac â'r swyddi uchelaf yn y Sefydliad, a 44 yn cynnrychioli yr offeiriaid plwyfol. Y mae eglwysi y Sefydliad, a'u curadiaid yn llwyr annghynnrychioledig. Ni all un curad, nag un gwr lleyg eistedd yno. Cynnrychiolir yr offeiriaid gan eu dirprwywyr, ac nid yw y rhai hyn yn gwneyd i fynu namyn un ran o dair o'r gymmanfa, tra y mae y ddwy ran ereill o'r tair yn cael eu gwneyd i fynu o ddirprwywyr a gynnrychiolant seneddrau yr eglwysi cadeiriol, ac o urddasolion, y rhai nid ydynt yn gynnrychiolwyr oll. Gwatwar-gerdd ar gynnrychioliaeth yw y llŷs hwn. Nid oes un ran o hono yn cynnrychioli yr eglwysi, ac y mae y rhan o hono a gynnrychiola yr offeiriaid, mor fychan, fel pe y cyfodai rhyw ddadl yn mysg yr urddasolion a'r offeiriaid gweithiol, y byddai yr urddasolion yn rhwym yn wastad o feddu mwy-rif mawr.

Eto fe ordeiniodd *canon* 139 fel y canlyn, "Pwy bynnag, ar ol hyn, a haero nad yw cymmanfa gyssegredig y genedl hon, yn enw Crist a thrwy awdurdod y pennadur, yn wir Eglwys Loegr trwy gynnrychioliad, ysgymmuner y cyfryw un;" ac os yw eglwys Loegr byth i weithredu fel cymdeithas gorphoriaethol, y mae yn rhaid iddi weithredu drwy y rhîth senedd yma.

Pe byddai i'r 13,000 eglwysi a berthynant i'r Sefydliad, gael eu rhanu yn ddospeirth o hanner cant bob un, a phob dosparth i anfon dau gynnrychiolwr, un gweinidog ac un aelod lleyg, byddai y corph yma, o 520 o ddiprwywyr, yn wir gynnrychioliad o'r Sefydliad, ond am y gymmanfa gòraidd hon, yr hon y mae dwy ran o dair o honi yn ben, a dim ond un ran o dair o honi yn gorph, heb fod ynddi namyn 44 o gynnrychiolwyr etholedig yr offeiriaid, ni's gallai gynnyrchu unrhyw ddiwygiad, a phe byddai mewn gweithrediad bywiog, nid ymddengys ei bod yn gymmwys i ddim ond i sicrhau parhad y llygredigaethau hyny yn y Sefydliad, y mysg y rhai yr ymddengys ei bod hi ei hun yn meddu y lle blaenaf.

Ond fe ofnir hyd yn nod y peth egwan yma gymmaint gan y Llywodraeth, fel y'i cedwir megis dywalgi mewn cawell, lle ni's medd le i weithredu; ac y cafodd gynnifer o ddyrnodiau, fel y mae hyd yn nod ei chwyrniad wedi marw.

Cyn y gallont ymgyfarfod mewn Cydwŷs, rhaid i'r offeiriaid gael caniattad i wneyd hyny dan y sêl fawr, gan na's gellir gwysio y Gymmanfa i ymgyfarfod heb gydsynied y pennadur.[1]

Pa ddrygau bynnag a allant fod yn ffynu yn y Sefydliad, megis gorphwylledd hanner pabaidd y blyneddeodd diweddar yma, yn gofyn ymgynghoriad dwysaf, a phenderfyniad difrifolaf yr eglwysi, rhaid iddynt aros heb eu chwilio, oddieithr i'r Goron ganiattau, nid i'r eglwysi, ond i'r gwŷr urddasol a'r cyfreithwyr gennad i'w chwilio. Ni *all* yr eglwysi byth chwilio iddynt; ac ni wiw i'r urddasolion wneyd heb ganiattad y Goron.

Pan gaffo y Gymmanfa ganiattad i eistedd, ni's gall wneyd un reol *(canon)* heb gydsynied y Goron.

Pan wneler unrhyw rëol, ni's gellir ei rhoddi mewn grym heb gydsynied y Goron; felly gan hyny, pe y tybiai eglwysi y Sefydliad, y gallai rhyw gyfraith, megis er ennghraifft, gwrthlais cynnulleidfäol ar bennodiad gweinidog, fod yn ol ewyllys Crist, ac yn angenrheidiol er eu llesäad, gall y pennadur warafun hyny, a rhaid i'r eglwysi roddi y blaenoriaeth i ewyllys y pennadur ar ewyllys Crist. Ac nid dyma yn unig attaliadau ar y ddeddfwriaeth gaeth hon. Canys ni's galluoga cydsynied y Goron iddynt wneyd unrhyw reolau yn erbyn uchel-fraint y pennadur, yn erbyn cyfraith gyffredin, yn erbyn unrhyw ddeddf, ac yn erbyn defod y deyrnas; gan hyny, os bydd uchel-fraint y pennadur, y gyfraith gyffredin, y gyfraith ysgrifenedig, neu ddefodau y deyrnas, mewn un modd yn gwrthdaro awdurdod Crist, ac ewyllys Duw, rhaid i eglwysi y Sefydliad sefyll dros awdurdod y Wladwriaeth, a dibrisio awdurdod Crist, fel yr ammod ar yr hwn y maent yn sefydledig.

Ac yn mhellach, pe byddai i lysoedd cyfraith gyffredin gadarnhau na byddo rhëol yn erbyn yr uchel-fraint, nac yn erbyn cyfraith gyffredin, nac yn erbyn deddf ysgrifenedig, nac yn erbyn defod, a'i bod wedi derbyn cymeradwyaeth y pennadur, eto ni's gall fod yn rhwymedig ar y llëygion hyd oni chaffo ei chadarnhau gan y senedd. Yn ol *canon* 139, y Cydwŷs yw eglwys Loegr, a chan hyny ni's gall un ddeddf a gadarnhäer gan eglwys Loegr rwymo yr eglwys, hyd oni chydsynio y Llywodraeth.[2] Os cydsynia y pennadur, yna fe all rwymo y gweinidogion; ond, oddieithr bod mwy-rif cynnrychiolwyr Llundain, Mainceinion, Leeds, Birmingham, Edinburgh, Dublin, Oldham, Aberdeen, Kilkenny, Cork, &c. &c., yn cydsynio, ni's gall yr eglwysi ei rhoi mewn grym. Os gall Pabyddion, a dynion llwyr ddigrefydd gael mwy-rif yn y senedd i ddywedyd, "Nage," i unrhyw gyfreithiau o eiddo eglwysi y Sefydliad, yna pa mor ysgrythyrol bynnag, a pha mor angenrheidiol bynnag y gall fod y gyfraith er meithrin crefydd yn y tir, ni's gall rwymo aelodau yr eglwysi. Y mae y Sefydliad yn gorwedd ar yr ammod yma.

1 *Burn*, Vol. 2, p. 24. 2 *Ibid*, p. 27.

Ac eto, er mor ddi egwyddor yr ymddengys ei fod yn yr eglwysi i oddef i estroniaid eu gwahardd i'w llywodraethu eu hunain, *yr hyn sydd yr un peth a gwahardd iddynt roddi ufudd-dod trwyadl i Grist*, fe all ymchwiliad i'r canonau beri i ni lawenychu am fod y Llywodraeth wedi rhwymo breichiau y Gymmanfa fel hyn. Mae y canonau y sydd, yn rhwymo yr offeiriaid; ond nid ydynt yn rhwymo y llëygion. Rhoddes y Llywodraeth y periglоriaid a'r curadiaid dan arglwyddiaeth canonau y gwŷr urddasol; ond amddiffynodd holl aelodau ereill y Sefydliad rhag yr arglwyddiaeth nychlyd yma. Gan hyny, yr ydym yn byw dan ryw gyfundrefn ryfedd, yn yr hon y mae cyfreithiau a gyfrifir yn rhy ddrwg i rwymo y praidd, yn cael eu cyfrif yn ddigon da i rwymo y bugeiliaid; y mae yr eglwysi yn cael eu rhyddhau; ond eu gweinidogion eu caethiwo.

2. *Llysoedd Esgobol, a Llysoedd Eglwysig ereill.*—Y mae amryfal lysoedd eglwysig i'r rhai yr ymddiriedir gweinyddiad y cyfreithiau perthynol i'r Sefydliad.[1] Tri chant o'r rhai hyn, o amryfal fath, a elwir yn wahanolfreiniol (*peculiars*). Perthyna i bob esgobaeth hefyd ei chynghor-lys, yn gweinyddu brawdwriaeth gyffredinol, ar yr hwn y llywydda yr esgob.[2] Rhoddwyd gallu newydd arswydol i'r Esgobion trwy gyfraith y ddysgyblaeth eglwysig, 3 a 4 Vict. pen. 86, amcan yr hwn, medd newyddiadur Ffrengig, yw dodi yr is-eglwyswyr yn fwy trwyadl dan wïalen yr esgobion.[3] Yn ol y gyfraith hono gall yr esgob bennodi dirprwyaeth o bump o wŷr i chwilio i unrhyw drosedd o'r gyfraith eglwysig, y dywedir ei gyflawni gan unrhyw weinidog; er enghraifft, ei fod yn gwadu ailenedigaeth bedyddawl, neu ei fod yn addef fod gweinidogion ymneillduedig yn weinidogion cyfreithlon i Grist. Y dirprwywyr hyn a roddant adroddiad i'r esgob, pa un a oes sail i sefydlu cwyn cyfreithiol yn erbyn y cyhuddedig. Ar eu hadroddiad, gall yr esgob ei wŷsio o'i flaen; ac os gwedir gwirionedd yr achwyniadau, yr esgob, yn nghyda thri o gyfeisteddwyr a enwa efe, a wrandawant yr achos, ac a gyhoeddant ddedryd, yr hon a fydd yn safadwy yn wyneb cyfraith. Yn ol y gyfraith wrth-seisnigaidd hon, gall yr esgob enwi pump o'i offerynau i chwilio yr achos yn y dirgel; ar eu hadroddiad hwy, efe a all enwi tri ereill o'i offerynau i gyd eistedd âg ef mewn barn ddirgel ar y cyhuddedig, a thrwy eu barn un-ochrawg hwy, gellir diswyddo, neu mewn rhyw ffordd arall, gospi yr ysglyfaeth offeiriadol. Yr esgob yw yr achwynwr, y rheithydd, a'r barnwr; gall pawb fyddo a llaw yn y prawf fod yn offerynau iddo ef; ni fedd y cyhuddedig un hawl i lysu y rheithwyr; mae y cyffredin yn cael eu cau allan o'r ymchwiliad, a dedryd yr esgob yn meddu grym cyfraith.

Gall gweinidogion a fyddont yn cael cam, alw am adfarn o bwyllgor brawd-

1 *Burn*, Vol. 2. p. 30. 2 *Ibid.* 3 " *Toujours mieux sous la ferrule des évêques.*"

wriaethol y cyfrin-gynghor; ond y mae yr atalwad yn dreulfawr ac yn berygl-us. Y mae 5230 o guradiaid yn cael llai nag £81 yn y flwyddyn o gyflog; a 5861 o berigloriaid yn cael islaw £300 yn y flwyddyn; ac oddieithr mewn amgylchiadau tra phwysig a difrifol, byddai ennill ar yr esgob yn llŷs yr adfarn, yn waeth na cholli yn ei lŷs ef ei hun. Gallai gorchfygiad, ond ei oddef mewn amynedd ddiwallu ei chwant am ymddïal; ond fe fyddai i fuddugoliaeth arno yn llŷs yr adfarn, ei gyffröi i gynddaredd beryglus. Gan hyny, yn y myrddiwn blinderau y gall cyfraith o fath hon ddwyn yr offeiriaid teilyngaf iddynt ar ol ychydig flyneddau o dawelwch, hwy a ganfyddant mai gwell fydd iddynt ymostwng nag ymryson am gyfiawnder.

Y llŷs dysgyblaeth uchaf yn nhalaith Caergaint yw llŷs y Bwäau, yr hwn sydd yn gweinyddu brawdwriaeth adfarnawl oddiar y llysoedd esgobawl, a'r rhan fwyaf o'r llysoedd gwahan-freiniawl hefyd.[1] Gall y llŷs hwn benderfynu pob pwnc o ddysgyblaeth ysbrydol; a gall ddiswyddo, neu ddifuddio offeiriaid heb bresenoldeb yr esgob neu archesgob.[2] Y barnwr sydd ddysgawdwr o'r gyfraith wladol, ac a gyfenwir dëon y llŷs.

3. *Y Cyfrin-Gynghor.*—Yr oedd gynt hawl i alw am adfarn dan ddedryd llŷs y Bwäau o lŷs y Rhaglawiaid, yr hwn a gyfansoddid o Ddirprwywyr a enwid gan y brenin; ond trwy 2 a 3 Wm. IV. pen. 92, a 3, a 4 Wm. IV. pen. 41, trosglwyddwyd yr adalwad i bwyllgor brawdwriaethol y Cyfrin-gynghor.[3] Mae y pwyllgor yn gynnwysedig o lywydd y cynghor, yr arglwydd ganghellwr, yr arglwydd geidwad, prif farnwr Mainc y Frenines, meistr y cof-lyfrau, yr îs-ganghellwr, yr arglwydd brif farnwr yr Arddadlyddau Cyffredin, y prif farwn, barnwr llŷs cynfreinniau Caergaint, a holl aelodau y cyfrin-gynghor a fuant yn gweinyddu un o'r swyddi uchod.[4]

Trwy offerynoliaeth yr holl lysoddd hyn, cysgodir offeiriaid a droseddont rhag cosbedigaeth eu camweddau. Er enghraifft, pe byddai i ryw offeiriad o Cumberland, neu o Gernyw droi yn feddwyn, yn lle cael ei farnu gan yr eglwys i'r hon y mae yn gweinidogaethu, yn ol trefn y Testament Newydd, efe a ddygid yn gyntaf o flaen y cynghor-lys esgobawl, yna, o flaen llŷs y Bwäau, ac yna o flaen pwyllgor brawdwriaethol y cyfrin-gynghor. Ac oni bydd y gwŷr dysgedig ac urddasol hyn yn barnu ei fod yn ddigon meddw i deilyngu difuddiad, neu swydd-attaliad, yna rhaid i'w gynnulleidfa barhau i wrandaw arno, neu fod heb unrhyw weinidog o'r Sefydliad. Y mae cyfraith Crist yn dywedyd wrth yr eglwys, "*Bwriwch chwithau ymaith y dyn drygionus hwnw o'ch plith chwi,*"[5] pa un bynnag a fyddo ai gweinidog, ai gwreng, ai boneddig; ond y mae yr Undeb wedi ordeinio na's gwiw iddynt ei fwrw ymaith, oddieithr bod y brawdlys esgobawl, llŷs

[1] *Burn*, Vol. 2. p. 30. [2] *Ibid*, pp. 30, 146. [3] *Ibid*, Vol. 1. p. 64. [4] *Ibid*.
[5] 1 Cor. 5. 13.

y Bwäau, a phwyllgor brawdwriaethol y cyfrin-gynghor wedi dywedyd y gallant wneyd hyny. Y mae eu hufudd-dod i gyfraith Crist yn ymddibynu ar benderfyniad nifer o ddynion dyrchafedig, y rhai, efallai, ni byddant na chymmunwyr na chredinwyr.

Y rheswm am fod pwyllgor y cyfrin-gynghor yn barnu yn yr eithaf ar bob pwnc eglwysig, yw, am fod y frawdwriaeth a weinyddir yn y llŷs eglwysig, yn ol athrawiaeth yr Undeb, yn ddeilliedig o Goron Prydain. Y weithred 37 Hen. VIII. pen. 17, a ddywaid fel hyn: "Nid yw archesgobion, esgobion, archddïaconiaid, a gwŷr eglwysig ereill, yn meddu unrhyw frawdwriaeth eglwysig, ond trwy ac oddiwrth eich mawrhydi breninol...... Yn gymmaint ag mai eich mawrhydi yw unig a dïamheuol ben goruchaf eglwys Loegr, i'r hwn yn ol yr ysgrythyr sanctaidd y mae pob awdurdod a gallu wedi eu rhoddi yn gyflawn, i wrando a phenderfynu pob achosion eglwysig, ac i geryddu pob rhyw ysgelerder a phechod."[1]

Eto, pan ddyweder bod hawl o farn-alwad yn gorwedd o lŷs y Bwäau i'r cyfrin-gynghor, dylid cofio bod hyn yn wir yn unig am bethau a fyddont o fewn cylch brawdwriaeth y llŷs isaf. Os bydd unrhyw gynghaws a ddygir ger bron llŷs y Bwäau tu hwnt i'w frawdwriaeth, neu os tybir ei fod felly, gellir trosglwyddo y cynghaws trwy farn-alwad i'r llysoedd cyfreithiol cyffredin." Fel y mae deddfau a chyfreithiau y deyrnas wedi rhagnodi i'r llysoedd eglwysig eu terfynau, felly y mae llysoedd cyfraith gyffredin yn meddu yr oruwch-rëolaeth arnynt, i'w cadw o fewn terfynau eu brawdwriaeth, ac i benderfynu a fyddant yn myned dros eu ffiniau ai ni byddant. "Barnwyr llysoedd cyfraith gyffredin a bïoedd esponiad y cyfreithiau hyny."[2]

Y mae arolygaeth llysoedd cyfraith gyffredin, a'r farn-alwad i'r cyfrin-gynghor, yn egluro gosodiad Dr. Burn: "Y mae y frawdwriaeth a weinyddir yn y llŷs eglwysig, yn deillio o Goron Lloegr; a'r disgyniad olaf sydd at y Pennadur mewn ffordd o farn geisiad."[3] Pa bryd a pha le y rhoddes Crist yr awdurdod hon i'r Goron? ac oni wnaeth yn unman, pa hawl a fedd yr eglwysi i roddi i fynu eu hymddiriedolaeth gyssegredig?

---

### II. *Gweinyddiad Dysgyblaeth dan yr Undeb.*

Y mae gwrth-darawiad nodedig rhwng symlrwydd y gyfundrefn ysgrythyrol, ag amrywedd yr eiddo y Sefydliad. Aelodau yr eglwys a wyddant oreu am bethau sydd yn cymeryd lle yn eu mysg hwy eu hunain. Gwell yw i bwnc gael ei drefnu yn y fan, yn mysg y rhai oeddynt dystion o hono, na bod iddo gael ei drosglwyddo i le pellenig i gael ei farnu. Gall eglwys

[1] *Burn,* Vol. 2. p. 43. [2] *Ibid,* p. 51. [3] *Ibid.*

gyfansoddedig o ddynion ysbrydol, ddeall pethau ysbrydol yn llawer gwell na'r cyfreithwyr sydd yn gweinyddu yn llŷs y Bwäau, neu y rhai a gyfansoddant bwyllgor y cynghor. A chan fod yr eglwys yn gyfansoddedig o frodyr, yn mysg y rhai y dylai y gweinidog fod megis brawd, y mae yn ddrwg mawr eu gorfodi i dderbyn yn ol attynt trwy ddedryd llŷs cyfreithiol, weinidog a gollasai eu hymddiried. Fe ddylai gweinidog gael ei barchu a'i garu gan yr eglwys i'r hon y byddo yn gweinidogaethu cyn y gall gyflawni ei swydd weinidogaethol i fuddioldeb. Gan mai unig ddyben ei swydd yw eu lleshad hwy, ac na's gall wneuthur daioni iddynt heb fod mewn bri ganddynt, pan gollo efe y parch hwnw, efe a ddylai encilio.

Gan hyny, y mae llŷs y Bwäau wedi gwneyd niweid a cham i unrhyw eglwys pan yn rhwymo gweinidog arnynt a gollasai eu parch, am na phrofid yn gyfreithiol ei fod yn euog o gamwedd a allai achlysuro ei ddiraddiad. Mae yr holl beirianwaith amrosgo yma,—y brawdlys esgobol, llys y Bwäau, pwyllgor y cynghor, ac arolygaeth llysoedd cyfraith gyffredin—oll wedi eu llunio i wneyd yr hyn a allasai yr eglwys ei hunan ei wneyd yn llawer rhattach a mwy effeithiol.

Er egluro hyn, gadewch i ni adolygu gweinyddiad gweithredol dysgyblaeth yn y Sefydliad.

1. *Sefydliad Gweinidogion.*—Y pwnc cyntaf a eilw ein sylw, yw y modd yn yr hwn dan yr Undeb y sefydlir gweinidogion ar eglwysi o fewn y Sefydliad.

Gan fod cymeriad gweinidog o bwys mawr i eglwys, y mae yr aelodau yn rhwym er mwyn eu lleshad ysbrydol eu hunain i ofalu am un da. Gan fod y cymhwysderau gofynol i ddyfod yn weinidog i Grist trwy ei awdurdod ef wedi eu gosod i lawr yn yr ysgrythyrau, ac nad oes neb ordeiniedig a fyddo yn amddifad o'r cyfryw gymhwysderau yn gweinyddu trwy ei awdurdod ef, dylai pob eglwys edrych am fod ei gweinidog yn eu meddu.[1] A chan fod yr eglwysi cyntaf yn dewis eu gweinidogion eu hunain, gyda chymeradwyaeth, ac efallai, dan gynghor yr apostolion, y mae pob eglwys dan rwymedigaeth foesol i ddilyn y gyn-reol hon. Nid oes un eglwys yn meddu rhyddid i drosglwyddo y ddyledswydd hon o brofi ei gweinidog ar neb arall. Er pob rhyw gyfraith ac arfer i'r gwrthwyneb, y mae pob un o'r 13,000 o eglwysi sydd yn y Sefydliad, yn rhwym i edrych ar fod ei gweinidog yn wir weinidog, yn feddiannol ar y cymhwysderau a ofynir yn y Testament Newydd; ac os trosir y ddyledswydd hon gan yr eglwys i noddwr, i esgob, neu i lŷs cyfraith, y mae yr eglwys hono yn dirmygu awdurdod Crist.[2] Pa fodd bynnag y gall noddwyr neu ereill gyflawni y ddyledswydd hon dros eglwys, y mae ei haelodau wedi pechu trwy roddi eu cydwybodau i gadwraeth ereill.

1 2 Tim. 2. 2. 1 Tim. 3. 2. Tit. 1. 5. Matt. 7. 15—20. Ioan 10. 4, 5. Math. 12. 30. Rhuf. 16. 17. 1 Cor. 5. 11—13. 2 Ioan 9, 11. Dat. 2. 2. 2 Cor. 11. 13—15. Gal. 1. 7—9; a 5. 12. 2 Act. 1. 15—26; a 6. 1—6; a 14. 23.

Ni threfnodd Crist bod i bwyllgor cynghor benderfynu a yw eu gweinidog yn ffyddlon, ond bod iddynt hwy benderfynu hyny, a hwy sydd yn gyfrifol am eu dyledswydd eu hunain. Eto, gan fod eglwysi y Sefydliad wedi trosglwyddo y ddyledswydd hon ar y Wladwriaeth, edrychwn pa fodd y mae y Wladwriaeth yn ei chyflawni.

*Gosodiad Gweinidogion cynnorthwyol.*—Mae gweinidogion y Sefydliad naill ai yn weinidogion cynnorthwyol, neu unigol, naill ai curadiaid neu bersoniaid. Sylwn yn gyntaf ar ddysgyblaeth y Sefydliad o barth y curadiaid. Bwriedir dysgyblaeth eglwysig i hyrwyddo dygiad dynion duwiol i'r weinidogaeth, a chau allan yr annheilwng; ond y mae dysgyblaeth y Sefydliad yn anfanteisiol i'r ddau ddyben yma.

Ystyriwn yn gyntaf achos dyn ymroddgar, yr hwn a ddymunai ddyfod yn weinidog eglwys o fewn y Sefydliad. Y mae amryw anhawsderau mawrion yn cael eu rhoi yn ei ffordd gan yr Undeb. *Yn gyntaf;*—Rhaid iddo ddatgan yn ol *canon* 36, mai y Frenines, dan Dduw, yw unig bennadur goruchaf y deyrnas hon, mewn pob rhyw bethau ac achosion ysbrydol; yr hyn sydd yn ngwrthwyneb i'r Ysgrythyr, canys nid yw yr ysgrythyr yn caniattau unrhyw awdurdod i Caesar mewn pethau ysbrydol; a'r hyn sydd groes i ffaith; canys y Senedd, ac nid y goron, yw yr awdurdod ddeddfwriaethol oruchaf yn y wlad hon. 2. Yn ol Deddf yr Unffurfiad, rhaid iddo ddatgan ei gydsynied trwyadl â'r llyfr gweddi yn nghyd a'i holl gyfeiliornadau; ac yn ol *canon* 36, rhaid iddo ddatgan, er y cyfeiliornadau hyny, nad yw yn cynnwys dim gwrthwyneb i air Duw. 3. Yn ol yr un *canon,* rhaid iddo gydnabod bod y namyn un, deugain erthyglau yn ol gair Duw, er fod y rhai hyn hefyd yn gyfeiliornus mewn amryfal bynciau. Pan yr ystyrio y tystiolaethau y mae efe yn ol y *canon* 36, a Deddf yr Unffurfiad yn rhwym i'w wneuthur, y mae efe i ofyn iddo ei hunan yn nesaf, a all efe ei roddi ei hun dan reolaeth y canonau beius hyn, â'r rhai y'i rhwymir yn gyfreithiol y tynyd y delo yn weinidog y Sefydliad.

Oni's attelir ef gan yr ystyriaethau hyn rhag dyfod yn weinidog yn y Sefydliad, ei orchwyl nesaf a fydd sicrhau cydsynied yr esgob. Os bydd e yn ymofyn am ordeiniad, medd yr esgob awdurdod gyflawn o'r bron i ommedd gwneyd, heb roddi un rheswm pennodol am hyny. Gall yr esgob ei gyfrif yn annghymmwys am ei fod yn credu yr athrawiaeth gyfiawnhad o ras trwy ffydd, neu ei fod yn dal yr athrawiaeth o adgenedliad gan yr Ysbryd Glan, yn lle dal adgenedliad a maddeuant pechodau trwy y bedydd; neu, efe a all ymesgusodi, ei fod yn rhy hên, am ei fod fel yr oedd ein Harglwydd bendigedig yn ddeng mlwydd ar hugain oed cyn dechreu ar ei weinidogaeth. Neu, ar y llaw arall, os ydyw eisoes wedi ei ordeinio, medd yr esgob allu cyflawn i'w fwrw o fugeiliaeth unrhyw eglwys o fewn ei esgobaeth, trwy ommedd ei drwydded iddo yn unig.

Mae yn rhy amlwg oddiwrth hyn bod yr Undeb yn tueddu i attal llawer o ddynion duwiol rhag dyfod yn weinidogion. Ar y llaw arall, y mae y ddarpariaeth er cau allan ddynion drwg o'r weinidogaeth, yn mhell o fod yn ddigonol. Mae yn wir fod yr esgob yn arbenig, ac y gall efe gau y neb a fyno o'r weinidogaeth, trwy ommedd ei ordeinio, neu unrhyw weinidog rhag bod yn weinidog cynnorthwyol, trwy ommedd ei drwyddedu. Ond, pe y byddai i'r esgob gau gwŷr ieuainc bydol, o deuluoedd cyfoethog, a thras uchel, o guradaethau, efe a'i darostyngai ei hunan i ymosodiadau annymunol arno yn y senedd ac mewn mannau ereill. Heblaw hyny, fe allai y bydd esgobion a bennoder gan weinidogion y Goron, y rhai ydynt yn dueddol i olygu y Sefydliad yn bennaf fel peiriant y Llywodraeth, yn ddynion bydol eu hunain, fel eu noddwyr, ac felly yn tueddu i gau dynion dychweledig o'r weinidogaeth, gan eu cyfrif yn benboethiaid, a derbyn rhai annychweledig fel rhai a gyfrifant yn fwy rhesymol. A chan fod y rhan fwyaf o noddwyr yn fydolion, ac yn cyflwyno bydolion i'w bywiolaethau, derbyniai y personiaid bydol hyn fydolion yn guradiaid gan amlaf. A phan gyflwyner curadiaid bydol i'w trwyddedu neu eu hordeinio gan esgobion bydol, nid yw yn dra thebyg y gommeddant y naill neu y llall iddynt.

Arferir atteb gosodiadau o'r fath hyn, drwy ddwyn yn mlaen yr addunedau a'r ymrwymiadau difrifol a ofynir oddiwrth bob ymgeisydd. Ond, y mae pob ymarferiad yn profi nad yw amddiffyn papurol rhag llygredigaethau, heb weithredydd diwygiad byw, o un defnydd. Nid wyf yn haeru dim sydd yn ammheus wrth ddywedyd bod llawer o ddynion annychweledig, a wnant bob adduned a ofynir, heb erioed fwriadu eu cyflawni yn ddifrifol. Gŵyr pawb mai felly y mae. Y mae yr ymrwymiadau a ofynir yn fynych yn gwrthattal dynion o feddyliau ystyriol, a chydwybodau tyner; ond pwy erioed a glybu am wr ieuanc a ddisgwyliai am fywioliaeth dda yn cael ei frawychu ganddynt i ystyriaeth o'i ymarferion gweigion? Pe y dadleuid yn mhellach, os bydd i ddynion wneyd addunedau twyllodrus, nad yw y Sefydliad yn haeddu ei beio am hyny; attebaf, mai ar y Sefydliad y mae yr holl fai yn gorphwys, am ei fod yn ymddibynu ar amddiffyniadau papurol, a chredöau meirwon, er cadw ei heglwysi rhag gweinidogion annuwiol, tra y dylai feddu peiriannaeth fywiol rymmus er eu diogelu.

Pa ham nad arbrofid pob ymgeisydd yma fel yn yr Alban, gan gyfeisteddfod o henuriaid, yn annibynol ar yr esgob, gan beri bod eu cymeradwyad yn anhebgorol er cael ordeiniad? Fe attaliai hyn ordeiniad rhai dynion annheilwng. Pa ham na feddai pob eglwys wrthlais yn mhennodiad eu gweinidog? Fe lwyddodd y prawf a wnaed yn yr Alban yn drwyadl. Ni wellhawyd yr un eglwys erioed mor gyflym, efallai, ag y gwellhawyd eglwys yr Alban dan ddeddf y gwrthleisiad. Cafodd efrydwyr, noddwyr, a henaduriaid lês drwyddi. Yr oedd dynion drygionus yn sicr o gael eu gwrthod gan yr

eglwysi, ac ni wnelent eu hunain yn agored i'r gwaradwydd. Yr oedd dyn-iod da yn sicr o ddyrchafiad, ac yn ymwthio i'r gwaith. A phan aeth y Llywodraeth i gyfryngu er attal yr wrthlais, yr oedd y rhan efengylaidd o eglwys yr Alban mor argyhoeddedig o'r angenrheidrwydd am dani, fel yr ymneillduasant am byth oddiwrth y Sefydliad a'i holl elw ac anrhydedd, yn hyttrach na'i rhoddi i fynu. Nid yw ond ofer i ni ymffrostio mewn attal-feydd papurol, y rhai y gall pob ymgeisydd digydwybod am olud ac urddas eglwysig eu dibrisio, tra y diystyrom y gwarchodion hyn. Y mae hyd yn nod y rhai a ymffrostiant yn nifyrwch gwasanaeth yr ordeiniad, ac ehangder yr ymrwymiadau gofynol, yn gwybod yn dda bod y naill a'r llall yn llwyr ddiwerth, pan y maent yn fwyaf angenrheidiol, ac y gall dynion penrhydd, anystyriol, wenu arnynt tra yn ymwthio am y bywiolaethau breision, a ddyru fodd iddynt i ymdroi mewn moethau.

Efallai y dywedir fod rhywbeth tebyg i'r gwrthleisiad yn cael ei roddi i eglwysi y Sefydliad gan yr Undeb, oblegid y rhaid cyhoeddi rhybudd a elwir *Si Quis*, yn gyntaf, pan y byddo ymgeisydd i gael ei ordeinio yn ddïacon neu offeiriad, yn y plwyf y preswylio, mewn ymadroddion cyffelyb i a ganlyn; " Rhoddir rhybudd yma, fod A. B., yr hwn a breswylia y pryd hwn yn y plwyf yma, yn bwriadu ymgynnyg fel ymgeisydd, &c. Os gŵyr neb am unrhyw achos neu rwystr cyfreithlon, fel na ddylid ei dderbyn i urddau cyssegredig, myneged hyny yr awr hon, neu amlyged hyny allan o law i arglwydd esgob———— ;" ac ar bryd ordeiniad, mae yr esgob i gyf-arch y bobl fel hyn yn gyntaf:—" Od oes neb o honoch chwi yn gwybod am unrhyw rwystr, neu gamwedd nodedig yn neb o'r personau hyn, o herwydd yr hyn na ddylid eu derbyn i'r weinidogaeth sanctaidd hon, deued yn mlaen, yn enw Duw, a dangosed pa beth yw y camwedd neu y rhwystr hwnw." Ac ychwanega y rhuddell, " Os gwrth-ddadleuir unrhyw gamwedd neu rwystr mawr, boed i'r Esgob oedi ordeinio y cyfryw hyd oni chaffer y cyhuddedig yn ddieuog o'r camwedd dywededig."

Mae hyn yn swnio yn burion. Ond nid yw y rhyddid poblogaidd yma byth yn cael ei arfer; ni wrth-ddadleuir byth yn erbyn cymhwysder dynion llwyr ddïofal; ac fe gyfrifir am y ffaith yn rhy eglur drwy y rhesymau can-lynol: 1. Rhaid i'r rhwystr a gyfoder fod yn un cyfreithiol; a chan nad yw bydolrwydd, dïofalwch, a diffyg tröedigaeth yn rhwystrau cyfreithiol; ni all neb gyfodi y pethau hyn fel gwrthebion pa ham na ddylid ordeinio un. 2. Rhaid fod yr achwyniad yn brofadwy mewn modd cyfreithiol; a chan y byddai ei brofi yn dreulfawr mewn amser ag arian, yr ymddangosai megis yn genfigenus, ac y gallai fod yn aflwyddiannus, ychydig a'u rhoddant eu hunain yn ddarostyngedig i'r annghyfleusderau hyn. 3. Y mae yr ymgeis-ydd am urddau, i gael ei ordeinio yn mhell oddiwrth yr eglwys i'r hon y byddo i weinyddu, yr hon yw yr unig eglwys ag y mae o bwys arbenig iddi

wrthwynebu ei urddiad; ac nid oes neb o aelodau yr eglwys hono yn bresenol i wrthebu. 4. Mae yr ymgeisydd am urddiad yn y cyffredin yn hollol ddïeithr i'r eglwys ar yr hon y mae i fod yn gyd-weinidog, ac fe ddichon na's na's gŵyr neb o'i haelodau ddim mwy am dano nag a wyddent am un o frodorion China neu Bengal, gan hyny, nid yw y cyfarchiadau at y bobl yn ddim amgen na ffurfiau moelion; ac nid oes un o fil o'r ymgeisyddion am y weinidogaeth yn Lloegr, yn cyfarfod â'r rhith lleiaf o wrthebiad ar ei urddiad, pa mor wammal ac annghyfaddas bynnag a fyddo. Y mae eglwysi y Sefydliad yn llwyr ddïamddiffyn; ond eu gwaith hwy eu hunain ydyw. Gallasent ymryddhau pe y mynasent.

*Cyflëad Gweinidogion cyflawn.*—Mae yr anhawsderau a gyfarfyddir i attal o'r weinidogaeth ddynion heb eu hordeinio, y rhai a fyddont annghymwys i'w swydd, yn dyfod yn anmhossiblrwydd o barthed y rhai a fyddont eisoes wedi eu hordeinio, ac ar ddyfod yn weinidogion unigol a gwastadol eglwysi drwy bennodiad noddwyr. Gan na chyfyngir noddwyr yn eu detholiad allan o un fil ar bymtheg o weinidogion y Sefydliad, gall noddwr ddewis y neb a fyno i unrhyw eglwys y mae yn dal perthynas â hi. Oni bydd ei gyflwynedig yn euog o gyflawni rhyw gamwedd eglwysig a'i darostyngai i ddifuddiad neu swydd-attaliad, gall roddi beiddiad i'r esgob a'r eglwys.[1] Ni all yr esgob roddi unrhyw wrthwynebiad i hawlion cyfreithiol y noddwr a'i gyflwynedig; ac os bydd y cyflwynedig yn llwyr annghymwys i'r swydd weinidogaethol, ac yn eithaf annghymeradwy gan y bobl, yn amddifad o'r prif gymhwysderau gofynol gan Grist, ond heb fod yn amddifad o'r rhai a ofynir gan y gyfraith, rhaid i'r esgob ei dderbyn i fod yn weinidog eglwys sydd yn ei ffieiddio, er y bydd ei ddyfodiad i'w mysg yn achlysur i'r deml gael ei gadael yn annghyfannedd, ac i bob crefydd yn y lle gael ei nychu. Yr eglwys, o bawb a fedd y dyddordeb mwyaf yn mhennodiad ei gweinidog, ac o honi hi yr ydys yn fwyaf dïofal o bawb. Nid yw y gyfraith yn ystyried dim o!l ond hawlion y noddwr a'r cyflwynedig, a barna ar osodiad gweinidog, fel y barnai ar drefniad cyfrifon rhwng dau gydfasnachydd. Am hyny, gan na's medd yr eglwys un gwrthleisiad, un hawl i wrthebu yn effeithiol, un llwybr o ymwrthodiad cyfreithiol â dyn annghymhwys, hi a all weled un yn cael ei drais osod arni, ag y byddo ei alluoedd a'i nodwedd yn nghyd, yn gwarafun iddi ei barchu na'i garu. Pe yr ysgerid eglwysi y Sefydliad oddiwrth y Llywodraeth, ni allai un dyn ddyfod yn weinidog unrhyw eglwys, heb sicrhau ei chymeradwyaeth yn gyntaf: ond yn awr, y mae miloedd o eglwysi, y rhai ydynt yn derbyn eu gweinidogion gan y noddwyr gydag afrwydd-deb teilwng, neu ddïofalwch annystyriol gwarthus. Ac fe a y gyfundrefn yma rhagddi tra y parhäo yr Undeb: trais osodir

[1] *Burn*, Vol. I. pp. 156, 161, 162.

gweinidogion drygionus ar bobl, a chauir yr efengyl o laweroedd o blwyfau, trwy ormes y gyfraith a gwarthruddiad yr eglwysi.

2 *Dylanwad yr Undeb ar gyflawniad arferol y weinidogaeth.*—Yn gymmaint ag na's gall un offeiriad weinyddu mewn un plwyf heb drwydded yr esgob, yr hon, gyda golwg ar guradiaid, y gall yr esgob ei hattal, neu ei galw i fynu pan y myno; mae yn rhaid fod gweinidogaeth pob un o bum mil curadiaid y deyrnas yn cael ei dylanwadu yn fawr gan olygiadau ei esgob. Pe y gwgai yr esgob am bregethu a gweddïo heb lyfr, ar gyfarfodydd pentrefawl, ar ddospeirth beiblaidd, ar gynnadleddau gweinidogaethol, ar gynhaliad sefydliadau efengylaidd, ac ar gyfathrachaeth gyfeillgar âg ymneillduwyr, byddai y curad yn rhwym o ymattal oddiwrth y moddion hyn o ddefnyddioldeb. Trwy ei awdurdod ddirfawr, ei noddaeth ëhang, a'i hawl arbenig ar y drwydded angenrheidiol er cyflawni y weinidogaeth yn y Sefydliad, gall yr esgob lunio pregethu a gweinidogaeth ei guradiaid fel y myno. A phan fyddo yr esgob yn ddyn bydol, yn un heb hoffi yr efengyl, rhaid fod ei ddylanwad yn niweidiol i'r eithaf. Y mae yr Undeb y pryd hwn yn gor-lethu pregethiad yr efengyl yn ddirfawr drwy yr holl deyrnas.

Er mai gorchymyn Crist yw bod i'w weinidogion bregethu yr efengyl i bob creadur, ac na oddefai yr apostolion yn eglwysi cyntaf Crist, unrhyw attaliadau ar eu pregethu, ïe, yr elai Cristionogion annghyhoedd i bob lle gan bregethu y gair; pe y byddai i neb un o weinidogion y Sefydliad bregethu Crist mewn unrhyw dref neu bentref annuwiol a thywyll heb drwydded yr esgob, efe a gosbid yn ol y gyfraith. Y mae periglorïaid cystal a churadiaid yn cael eu llesteirio yn y modd hyn rhag pregethu yr efengyl. Cyfyngir torfeydd o ddynion duwiol, y rhai a allent bregethu Crist mewn miloedd o blwyfau, i'w cynnulleidfäoedd bychain eu hunain, gan adael y pentrefi o'u hamgylch mewn anwybodaeth, yn unig am na feddant drwydded i bregethu ynddynt.Ië, ni byddai i drwydded yr esgob eu rhyddhau; canys ni all un gweinidog o'r Sefydliad bregethu yn mhlwyf gwr arall, heb ei gydsynied; a chan na chydsynia periglorïaid annuwiol byth i weinidogion efengylaidd aflonyddu arnynt â'u hathrawiaeth o ras, y mae gweinidogion aiddgar y Sefydliad yn cael eu cau i fynu o fewn eu plwyfau bychain eu hunain: ac hyd yn nod yn eu plwyfydd eu hunain, gwaherddir pob cyfarfodydd i bregethu mewn tai annghyssegredig, gan *canon* 71. Trachefn, rhag nad oedd y rheolau hyn yn ddigon nychlyd i zel efengylaidd yn ngweinidogion y Sefydliad, y mae 52 Geo. III. pen. 155, yn gwahardd pob ymgynnulliadau crefyddol o fwy nag ugain o nifer heblaw y teulu mewn tŷ annghyssegredig, oddieithr bod y lle yn gyntaf wedi ei hysbysu yn ddyladwy i'r esgob, yr archddïacon, neu yneid yr heddwch, ac fe farnai Syr John Nicholl ac ereill, fod eithriadau y gyfraith hon yn gyfyngedig i ymneillduwyr.[1]

1 *Burn*, Vol. 2. p. 220.

Fel hyn y mae yr Undeb yn gyntaf yn sicrhau drwy noddaeth fod y nifer fwyaf o weinidogion plwyfol yn ddynion bydol, y rhai ni's gwyddant pa fodd i dywys y bobl i iachawdwriaeth; ac yna, wedi melldithio y plwyfau hyn â thywyllwch ysbrydol, yn gwahardd i'r lleirif efengylaidd wneyd dim tuag at eu goleuo.

Wedi i'n Harglwydd Iesu Grist ofyn i bob credinwyr gyffesu eu ffydd ynddo ef ger bron y byd, heb yr hwn gyffesiad y byddai eu llwfrdra yn brawf nad oeddynt gredinwyr, efe a archai eu bedyddio, gan fod bedydd yn llwybr appwyntiedig i broffesu eu ffydd. Gan hyny, y mae edifeirwch a ffydd yn rhag gymhwysderau hanfodol i fedydd:[1] ac os ydyw babanod credinwyr i gael eu bedyddio, fel y credir yn gyffredinol, rhaid bod hyny yn cael ei wneyd ar y dybiaeth y derbynir hwy fel credinwyr edifeiriol trwy ffydd a gweddi eu rhieni. Ond arfer y Sefydliad yw bedyddio holl blant y gwahanol blwyfi, heb wneyd unrhyw ymholiad i ffydd y rhïeni, na meddu unrhyw rag-olwg rhesymol y cânt addysg grefyddol. Yn ol *canon* 68, os y bydd i weinidog ommedd bedyddio unrhyw blentyn a ddyger ato i'r eglwys i'r perwyl hyny, efe a fydd yn ddarostyngedig i swydd attaliad dros dri mis. Fel hyn, er fod y rhïeni a'r meichiafon yn annuwiol, ac ymbrawf cyffredin yn dangos y bydd i'w plant dyfu i fynu yn annuwiol hefyd, mae yn rhaid i weinidog o'r Sefydliad eu bedyddio, a dïolch i Dduw am ddarfod iddo eu hadgenhedlu a'r Ysbryd Glan.

Y mae ammodau bedydd yn cael eu treisio yn gyffredinol trwy y gyfraith eglwysig hon, ei ddybenion eu gwrth-weithio, a'i natur ei annghofio. Mae miloedd bedyddiedig Lloegr, y rhai ni's gwnaethant unrhyw broffes o ffydd, gan eu bedyddio heb eu cydsynied eu hun, atheistiaid, deistiaid, ac afradloniaid bedyddiedig, yn ddïanrhydedd ar yr enw Cristionogol, ac eglwysi Crist, y rhai a ddylent fod yn gyfansoddedig o saint a ffyddlon frodyr, megis yr oedd eglwysi Rhufain a Thessalonica, Corinth, Phillippi, a Cholosa, ydynt gynnulleidfäoedd o ddynion dyeithr i'r efengyl, a dïofal yn nghylch eu hiachawdwriaeth.[2] Hwy a ddylent fod yn neillduedig oddiwrth y byd;[3] ond y byd ydynt: dynion dychweledig ac annychweledig, credinwyr a rhai digred, ydynt wedi eu cymmysgu yn un pentwr di wahaniaeth; a gweinidogion efengylaidd ydynt yn offerynau y corphoriad niweidiol yma.

Yna daw y ddefod o gadarnhad. Pan yn bedyddio baban, y mae y gweinidog wrth orchymyn y Llywodraeth, yn erchi i'r meichiafon ddwyn y plentyn i'w "gonffirmio" can gynted ag y gallo adrodd y credo, gweddi yr Arglwydd, a'r deg gorchymyn yn yr iaith gyffredin, ac y'i dysger yn mhellach yn nghatecism yr eglwys. Wedi y cyflawner yr ammodau hyny, rhaid

1 Marc 16. 16. Act. 2. 38; a 8. 37; a 9. 1—18; a 10. 44—47; a 16. 14, 15, 30—34. 2 Rhuf. 1. 7. 1 Cor. 1. 2. Phil. 1. 1. Col. 1. 2. 1 Thes. 1. 1—10. 3 Ioan 15. 19. Act. 5. 13, 14. 1 Cor. 5. 13. 2 Cor. 6. 14.

i'r gweinidog anfon holl blant y plwyf at yr esgob, gydâ'i dystiolaeth o'u cymhwysder i dderbyn y ddefod. Ac wedi y caffer y dystiolaeth hon gan yr esgob, y gall y plentyn ddweyd y credo, &c., erchir i'r esgob gan y Llywodraeth, ddweyd am yr holl fintai plant a fyddont wedi ymgynnull ger ei fron ar y pryd, i gymeryd arnynt eu hunain yr addunedau a wnaed drostynt yn eu bedydd, ddarfod rhyngu bodd i Dduw eu hadgenhedlu drwy ddwfr a thrwy yr Ysbryd Glan, a rhoddi iddynt faddeuant o'u pechodau.

Wedi y cadarnhad, y mae gan bob un na chafwyd yn euog o heresi neu anfoes, hawl gyfreithiol i ddyfod at swper yr Arglwydd yn eglwys ei blwyf. Yn ol 1 Edw. VI. cap. 1. "Na byddo i'r gweinidog heb achos cyfreithlon, ommedd yr unrhyw (y sacrament) i neb a'i chwennycho yn ostyngedig a duwiolfrydig." Ni byddai bod yn chwareu cardiau y dydd Llun blaenorol, mewn dawnsfa ddydd Mawrth, ar y rhedegfaes ddydd Mercher, ac yn y chwareudy ddydd Iau, treulio dydd Gwener mewn athrodaeth, a dydd Sadwrn yn darllen rhyw ffug-draith annghrefyddol, yn un annghymhwysder cyfreithiol i dderbyn swper yr Arglwydd y Sabbath canlynol. Ni byddai i unrhyw brawfion o dymher fydol, unrhyw hunan-foethiant segurllyd, nac unrhyw esgeulusdra o weddi, wanhau hawl gyfreithiol y plwyfol i nesâu at fwrdd yr Arglwydd. Mae y gweinidog yn rhwym yn ol y gyfraith i weini yr ordinhad iddo, ac y mae yr eglwys yn rhwym yn ol y gyfraith i'w dderbyn i gymmundeb â hwy. Ni wahoddir neb ond credinwyr gan ein Harglwydd at ei fwrdd,[1] a gorchymynir i'r eglwysi ymneillduo oddiwrth ddynion drygionus:[2] ond cyfrynga cyfraith y Tir, a rhaid i'r gweinidog a'r eglwys dderbyn pawb a fynont ddyfod i'r wledd sanctaidd.

Dygwyddodd ennghraifft o'r ansawdd yma ar y gyfraith, rai blyneddau yn ol yn———fel y'm hysbyswyd gan gyfaill o eglwyswr, ar eirwiredd yr hwn y gallaf bwyso, a'r hwn a feddai reswm i fod yn dra hysbys o'r ffeithiau. Gwr moesol a charedig, o ddaliadau Undodaidd, gan ei fod yn rhoddi pum punt yn y flwyddyn at Gymdeithas y Beiblau, a eisteddai ar bwyllgor y gymdeithasfa yn y lle; am ba achos dywedai offeiriad y plwyf na's gallai efe gynnorthwyo y Gymdeithas, am na's gallai fod cymdeithas rhyngddo ef âg Undodiaid. Y Sabbath cyntaf wedi gwneuthur o hono y datganiad yma, cyflwynai yr Undodiad ei hun wrth allor eglwys y plwyf, a'r un eglwyswr a weinyddai swper yr Arglwydd iddo ef yn nghyd a'r cymmunwyr ereill. Pe y buasai yr offeiriad yn gommedd gweinyddu, buasai llŷs y Bwäau yn gorfod rhoi barn o du yr Undodiad, yn ol y gyfraith, oddieithr y gallesid profi yr heresi yn gyfreithiol. Os oedd yr offeiriad yn meddu y fath gydwybodolrwydd o barth ymuno âg Undodiad yn y Gymdeithas Feiblaidd, pa ham na buasai yn gommedd rhoddi swper yr Arglwydd iddo? Yr oedd y Llywodraeth yn gwahardd iddo wneyd.

1 Matt. 26. 26. 1 Cor. 11. 27—29. 2 Rhuf. 16. 17. 1 Cor. 5. 11—13. 2 Cor. 4. 14—18. 2 Thess. 3. 6, 14.

Mae y rhai ydynt yn bwytta ac yn yfed yn annheilwng, yn lle sicrhau bendith, yn bwytta ac yn yfed damnedigaeth iddynt eu hunain, heb iawn farnu corph yr Arglwydd, ac nid yw eglwysi y Sefydliad yn gwneyd dim er attal hyn.[1] Pe yr attelid i ddynion annghrefyddol ddyfod at fwrdd yr Arglwydd, efallai y cyffröai hyny eu cydwybod, ac y parai iddynt weled eu bod mewn perygl; ond y mae eu derbyniad at y bwrdd, yn tueddu i'w caledu a'u twyllo, gan beri iddynt ddywedyd "Heddwch, heddwch!" pryd nad oes heddwch. Y mae y rhai ydynt yn bwytta ac yn yfed wrth fwrdd yr Arglwydd, yn proffesu drwy hyny, eu bod yn derbyn Crist trwy ffydd fel eu Gwaredwr; ac y mae eglwysi y Sefydliad yn goddef i'r rhai hyn ddïanrhydeddu Crist, trwy y broffes hon, tra y maent yn byw yn wageddol, afradlon, ac annuwiol, heb unrhyw arwyddion o ymgyssegriad ffyddiog. Amcanid swper yr Arglwydd i fod yn gynnulliad yr eglwys, trwy yr hyn y gallai Cristionogion gael eu nerthu a'u hadnewyddu, trwy gydymdeimlad a'u gilydd; ond yn eglwysi y Sefydliad, y mae yn gynnullfa o bob math o ddynion, a llawer o honynt heb feddu dim mwy o adnabyddiaeth o'u gilydd nag a feddant o bobl dramor. Nid yw swper yr Arglwydd yn yr eglwysi plwyfol yn un hawliad i gyd-ymddiried, nac yn un gwystl o ofal brawdol. Nid cyfarfod o'r eglwys ydyw; ond yn fynych cymdeithasiad ansanctaidd o'r eglwys a'r byd. Y mae eglwysi ydynt wedi myned yn oer, a goddef dynion annuwiol i fod yn mysg eu haelodau, wedi cael rhybuddion difrifol, a bygythion llymion oddiwrth Grist.[2] Pa gynnifer o eglwysi plwyfol ydynt yn agored yn bresenol i'r bygythion hyn! Ac mae y cyflwr llygredig yma ar yr eglwysi, y gymmysgfa yma o'r eglwys a'r byd, trwy yr hyn y cam-ddarlunir crefydd, y dïanrhydeddir ein Harglwydd, ac y niweidir torfeydd, yn cael ei gefnogi gan weinidogion efengylaidd, y rhai ydynt yn cynnal y gyfundrefn drwy ymlynu wrthi. Y mae gwrthdystiadau ar air yn annigonol. Y maent yn perthynu iddi, yn gweini ynddi, mae eu nodwedd a'u llafur yn ei chynnal; a rhaid eu golygu i radd helaeth yn gyfrifol am y drygau a gedwir i fynu ganddynt hwy yn bennaf.

O ba aelodau y mae eglwysi y Sefydliad yn gyfansoddedig yr awrhon? Y dynion sydd yn rhoi eu hamser a'u bryd ar gyngwystlo yn *Newmarket* a *Doncaster*, y rhai ydynt yn mynychu gwystl-chwareudai Llundain, y rhai ydynt yn rhanu eu hamser rhwng pleserau helwriaeth a'r bwrdd, ydynt aelodau yr eglwysi; mae y chwareudai a'r cerddordai, er eu bod yn llochesau llygredigaeth ac athrofeydd annghrefydd, yn cael eu llenwi âg aelodau eglwysig. Y minteioedd a lanwant y rheil-gerbydau, a'r ager-fadau ar y sabbathau, y lluaws ydynt yn gwerthu ac yn prynu ar ddydd yr Arglwydd, y dosparth curedig carpiog o yfwyr *Gin*, gwerinos cul-ffyrdd isaf Llundain, Liverpool, a Manchester, yr holl rai ydynt annheilwng, anwybodus, a llyg-

1 1 Cor. 11. 29. 2 Dat. 2. 4, 5, 14—16, 20, 23. a 3. 1—3, 15, 16.

redig yn y deyrnas, os cawsant fedydd a chadarnhad yn eu hieuenctyd, a'u bod heb gael eu profi yn euog o heresi neu ddrygfoes, a feddant hawl i fod mewn cymmundeb cyflawn âg eglwysi y Sefydliad. Fe'u darlunir oll yn y Catechism fel "aelodau o Grist, plant Duw, ac ettifeddion teyrnas nefoedd;" meddant oll yr hawl i ddwyn eu plant i mewn i'r eglwys trwy fedydd; ac yna, hwynt-hwy a'u plant, fel aelodau o Grist, plant i Dduw, ac ettifeddion y nefoedd, a feddant hawl gyfreithiol wedi y cadarnhad, i gyfrannogi o swper yr Arglwydd, fel wrth fwrdd Crist gydâ'i saint. Os amlygodd ein Harglwydd y fath ddigofaint, pan oedd y deml ddefnyddiadol yn cael ei halogi gan drafnidwyr,[1] pa fodd y cyfrifa efe y llygredigaeth yma o fewn ei eglwysi? Os dywedai St. Paul wrth eglwys Corinth, "*Teml Duw ydych chwi,...... os llygra neb deml Duw, Duw a lygra hwnw,*"[2] pa farn a gyhoedda ein Harglwydd ar y rhai a barhant i halogi ei eglwysi, trwy gefnogi a pharhau y dirmyg yma ar ddysgyblaeth eglwysig, gan ymlynu wrth y camarferiad yma o ordinhadau Crist?

Wedi i'r gweinidog plwyfol fel hyn ganiattâu i bob math wneyd eu plant yn aelodau o'i eglwys, a chyfrannogi o swper yr Arglwydd eu hunain, os ewyllysiant, efe a elwir o'r diwedd i roddi eu cyrph yn y bedd pan y'u symmudir drwy angeu. Gofidiasai llawer o honynt ei galon trwy eu hanngbrefydd amlwg: yr oeddynt yn gybyddion, yn ymrafaelgar, neu yn feddwon; halogent y sabbath, esgeulusent addoliad cyhoeddus a chymdeithasol, arferent iaith aflan, a buant feirw fel y buasent byw, heb dystio edifeirwch na ffydd; ac uwch ben pob un a ddyger i'r bedd y mae efe yn rhwym yn ol gorchymyn y Llywodraeth i ddywedyd, "Hollalluog Dduw......yr ydym yn mawr ddïolch i ti, fod yn wiw genyt waredu ein brawd hwn allan o drueni y byd pechadurus hwn." Mae yr enaid colledig wedi myned i ddistryw, a'r gweinidog yn dïolch i Dduw ei fod wedi myned atto ef. Os bydd i'r rhai a safant gerllaw gasglu y bydd iddynt hwythau hefyd gael myned at Dduw pan fyddont feirw, ac y bydd angeu yn waredigaeth iddynt hwythau o drueni trwy angeu, bai pwy fydd hyn? Os derfydd am danynt yn eu pechodau, a ydyw y gweinidog, geiriau yr hwn a'u twyllodd ac a'u caledodd, yn ddieuog?

Fel hyn, y mae gweinidog efengylaidd eglwys Sefydledig wedi ei gyfleu mewn sefyllfa druenus. Ni wiw iddo bregethu Crist mewn tai annghyoedd, na myned i blwyf cymmydogol lle y mae gweinidog annuwiol yn tywys y bobl i ddystryw; rhaid iddo fedyddio babanod dynion annuwiol; rhaid iddo ddysgu ei blwyfolion yn erbyn pob synwyr bod y babanod hyn yn aelodau o Grist, yn blant Duw, ac yn ettifeddion teyrnas nefoedd; rhaid iddo ddwyn ieuenctyd diadgenhedledig yn bymtheg neu un-ar-bymtheg oed at yr esgob i gael eu datgan yn adgenedledig; rhaid iddo dderbyn pob math at fwrdd yr

1 Ioan 2. 13. Matt. 21. 12. 2 1 Cor. 3. 16, 17.

Arglwydd er na's gwahoddir hwy gan Grist; ac yn y diwedd, pan fyddont feirw, rhaid iddo ddatgan ei ddïolchgarwch i Dduw, am eu bod wedi eu cymeryd i ogoniant, pan y mae ganddo bob lle i feddwl eu bod yn golledig am byth.

Er nad yw gweinidogion capelydd perchenogawl dan yr orfodaeth gyfreithiawl yma i halogi ordinhadau Crist, eto trwy ymlynu wrth y Sefydliad, y maent yn rhoi cymeradwyaeth a chynhaliaeth i'r holl gyfundrefn; a rhaid iddynt fod yn gyfrifol am yr Undeb llygredig hwnw rhwng yr eglwys a'r byd, drwy yr hwn y dianrhydeddir Crist, ac y dystrywir eneidiau.

3. *Ceryddon a Phenydiau Eglwysig.*—Y mae llwyddiant eglwys Gristionogol yn ymddibynu i radd helaeth, ar y rhyddid i weithredu a fyddo i'w haelodau gwresog, ac ar geryddiad neu symmudiad y rhai annghyson. Ystyriwn yn awr pa mor bell y mae cyfundrefn y Sefydliad dan yr Undeb yn gweithredu er cyflawni y ddau amcan hyn.

Dan yr Undeb, y mae y troseddau canlynol yn gosbadwy yn ol y gyfraith —simoniaeth, drygfoes, heresi, ymbleidiaeth, gommeddiad i gyflawni dyledswyddau gweinidogaethol, a chyflawniad gweithredoedd gweinidogaethol heb awdurdod. Sylwaf ar y pethau hyn mewn trefn.

*Simoniaeth.*—Mae simoniaeth yn cael ei alw yn y deugeinfed *canon* yn "bechod atgas." Prynu a gwerthu swyddogaethau, dyrchafiadau, urddau, a *bywiolaethau* eglwysig, a ddynodir yno yn "ysgeler ger bron Duw," am ba achos, y mae y rhëol yn gofyn, fod i bob offeiriad ar ei dderbyniad unrhyw swydd neu fywioliaeth eglwysig, dyngu na's gwnaeth efe unrhyw daliad neu ymrwymiad simonaidd o barthed iddi. Gan hyny, mae y pryniad neu werthiad bywioliaeth wag yn annghyfreithlawn; ond y mae cymhwysiad y rhëol yn cael ei gyfyngu i fywioliaethau ydynt yn weigion. Prynir a gwerthir cyflwyniadau yn barhaus fel rhyw eiddo arall. Gwerthir hur gweinidog o'r eglwys Sefydledig trwy gyfammod, neu trwy arwerthiad cyhoeddus. Gall dyn ei brynu iddo ei hun, neu i'w fab, neu i'w gyfaill, neu i'w fasnachwr. Rhoddir y prisiau gorau yn wastadol am gyflog gweinidogaethol yr eglwysi hyny lle byddo nifer yr aelodau leiaf, a'r cyllid fwyaf; gan gymeryd oedran y gweinidog presenol i ystyriaeth yn wastad. Pan fyddo y cyflog wedi ei brynu ni fydd y prynwr un amser yn cyfarfod ag anhawsder i sicrhau gofal gweinidogaethol y gynnulleidfa i unrhyw gyfaill a fyddo yn feddiannol ar y radd o wybodaeth a chymeriad a ofynir gan y gyfraith. Fel hyn y mae llawer o eglwysi wedi eu rhoddi dan weinidogion o gyrhaeddiadau bychain iawn, heb fod dymuniadau yr eglwys yn cael eu cymeryd i ystyriaeth gan brynwr a gwerthwr cyflog y gweinidog, mwy nag yr ystyrid dymuniadau anifeiliaid wrth osod tyddyn, neu ddymuniadau caethion yn ngwerthiad a phryniad ettifeddiaeth yn Cuba.[1]

[1] **Yr hysbysiadau canlynol a gymerwyd allan o'r Newyddiadur a elwir y *Record*, o fewn mis Hydref diweddaf yn unig, a dangosant pa fodd y mae y pryniad a'r gwerthiad yma ar gyllidau gweinidogion, ac mewn effaith, ar y swydd weinidogaethol, yn cael ei ddwyn yn mlaen yn y Sefydliad :—**

Y mae perthynas gweinidog i eglwys, y fwyaf difrifol; "*Gwyliwch arnoch eich hunain*," medd Paul wrth henuriaid eglwys Ephesus, ac ar yr holl braidd, ar yr hwn y gosododd yr Ysbryd Glan chwi yn (*episcopous*) esgobion, neu weinidogion i fugeilio eglwys Dduw."[1]

ESSEX.—NODDOGAETH A PHERIGLORIAETH MAGDALEN LAVER.

Mae MRI. ELLIS a'i FAB wedi cael cyfarwyddyd i roi i fynu i arwerthiant, yn NGWESTY GARRAWAY, ddydd Iau, Hydref 12, am ddeuddeg o'r gloch (oddieithr y deuir i gyttundeb cyfrinachol cyn hyny,) y NODDOGAETH werthfawr, a'r CYFLWYNIAD NESAF i BERIGLORIAETH MAGDALEN LAVER, yr hon sydd yn gorwedd mewn rhandir ddifyr, tua chwe milldir ar hugain o Lundain, chwech o Epping, a chwech o orsaf Harlow. Mae y degymmau wedi eu prynu am £310. yn y flwyddyn. Y tir eglwysig a gynnwysa 28 o erwau, o'r gwerth blynyddol o £45. Mae y persondy yn bresenol allan o gywair; ond y mae swm dda o arian wedi ei groni tuag at ei adgyweiriad. Y boblogaeth sydd tua 210. Mae y person presenol yn ei 74 mlwydd oed.

Gellir cael hysbysiadau argraffedig yn Ngwestdy Sior, Harlow; gan Mri. Hindman a Howard, cyfreithwyr, Heol Basinghall; gyda Garraway, a chan Mri. Ellis a'i Fab, arwerthwyr, &c., 36 *Fenchurch Street.*

NODDOGAETH.—CAINT.

*Ar werth, y cyflwyniad nesaf i Ficeriaeth,* mewn sefyllfa gyfleus, rhwng Ashford a Chaergaint, chwarter milldir o orsaf y Rheilffordd Dde Ddwyreiniol a Dover, a dwy awr a hanner o Lundain. Cyllid glan £700 yn y flwyddyn. Mae y gweinidog presenol yn 65 mlwydd oed. Mae yno breswylfa dda, a gerddi, a swyddfeydd cyfaddas, deng erw ar hugain o dir eglwys.

Am hysbysiadau pellach, a'r pris, ymofyner a Mri. Baker a'i Gyf., cyfreithwyr, Rhif. 52, *Lincoln's Inn Fields.*

NODDOGAETH AR WERTH.

Mae noddwr Ficeriaeth mewn gwlad ddeheuol, o syniadau efengylaidd, yn awyddus am gael un o gyffelyb olygiadau i brynu y noddogaeth. Mae y cyllid uwchlaw £1000. yn y flwyddyn. Mae yno dŷ da i deulu mawr, yn sefyll yn ei diroedd ei hun, rhan o'r hwn sydd yn dir eglwys, a rhan yn rhydd berchenogaeth, eiddo y noddwr, a gellir ei brynu os dewisir. Am hysbysiaeth pellach, ymofyner trwy Lythyr rhag-daledig, âg A. F., yn swyddfa y *Record.*

SWYDD NORTHAMPTON:—NODDOGAETH BARHAOL A'R CYFLWYNIAD NESAF I FICERIAETH ADDINGTON FECHAN.

Mae *Mri. Driver* wedi eu rhoi ar waith gan Ymddiriedolwyr y diweddar J. C. Powell, *ysw.*, i gynnyg i gyd-ymgeisiad gyhoeddus, yn yr Arwerthfa, ddydd Mawrth, y 14 o Dachwedd, am ddeuddeg o'r gloch, NODDOGAETH werthfawr a thra dymunol, a'r hawl o'r CYFLWYNIAD NESAF i FICERIAETH ADDINGTON FECHAN, yn nghantref Huxloe, pentref prydferth, mewn sefyllfa gyfleus, ddwy filldir o Irthlingborough, pedair o Higham Ferrars, pump o Thrapston, a saith o Wellingborough yn swydd Northampton; yn cynnwys Ficer-dŷ, gardd, a pharc bychan, dernyn tra gwerthfawr o dir eglwys, a chyfrandiroedd, yn gorwedd o fewn cauadfa dda, gan gynnwys tua 280 o erwau, ac adeiladau cyfaddas, yn y sefyllfa fwyaf dewisol, yn agos i'r pentref, a gwrychoedd byw da drwy y tir; yn awr yn neiliadaeth Mr. John Abbott, William Brawn, a Samuel Wright; ac yn werth yn nghyd, tua £415 yn y flwyddyn, rhwymedig i oes y ficer presenol, y Parch. Thomas Sanderson, yr hwn sydd yn 63ain oed. Nifer y boblogaeth ar y cyfrifiad diweddaf oedd 299.

1 Act. 20. 28.

"*Gwylia arnat dy hun,*" medd efe wrth ei gyfaill Timotheus, "*ac ar yr athrawiaeth; aros ynddynt: canys os gwnai hyn, ti a'th gedwi dy hun, a'r rhai a wrandawant arnat.*"[1] Ac fe osodwyd bugeiliaid ac athrawon gan Grist yn ei eglwys, "*I berffeithio y saint, i waith y weinidogaeth, i adeilad corph Crist.*"[2] Eto y mae y swydd bwysig yma yn cael ei phenderfynu mewn cannoedd o enngbreifftiau yn y Sefydliad, yn unig trwy bryniad a gwerthiad cyflog y gweinidog! Er fod Eglwys Loegr drwy y 40 *canon* yn cydnabod gwerthiad a phryniad bywiolaethau yn "ffiaidd," ac "ysgeler ger bron Duw," eto y mae cannoedd o fywioliaethau yn cael eu prynu a'u gwerthu yn flyneddol, trwy yr hyn y mae y swydd weinidogaethol yn cael ei sicrhau i'r pwrcaswyr neu eu cyfeillion. Fel hyn y mae dynion annghyfaddas ac annychweledig, yn cael llywodraeth ysbrydol ar yr eglwysi, trwy yr hyn y gallant gau pob gweinidog Eglwysig arall allan o honynt, ac

NODDOGAETH.

NODDAETH BARHAUS, a'r HAWL O GYFLWYNIAD I FYWIOLIAETH ar werth, yn ddarostyngedig i oes y person, yr hwn yn bresenol sydd yn 68ain oed. Mae y fywioliaeth yn cynnwys persondy da, wedi ei adeiladu drwy draul fawr yn ddiweddar; yn cynnwys helaethrwydd o gyfleusderau, tai allan da a chyfaddas, difyr-diroedd, gardd, &c., adeiladau ammaethyddol, a deugain erw o dir eglwys. Mae y degymmau wedi eu prynu. Gwerth blyneddol uwchlaw £600. heblaw yr offrymau; y sefyllfa mewn gwlad gynnyrchiol ddifyr, bedair milldir o dref fawr, i'r hon y mae rheil-glud.

NODDOGAETH.

I'W WERTHU, TRWY GYTUNDEB CYFRINACHOL, NODDOGAETH WASTADOL PERIGLORIAETH CHIPSTABLE, yn swydd Somerset. Swm blynyddol yr ardreth a delir yn lle degwm, yw £281. a gwerth blynyddol y tir eglwysig fel y mae yn cael ei osod yn bresenol, gan gynnwys y persondy, yr ardd, a'r tai allan, tua £100. Gellir cyfrif y fywioliaeth yn werth uwchlaw £300 wedi talu pob trethi. Ganwyd y gweinidog presenol yn y flwyddyn 1785. Plwyf gwledig yw Chipstable, yn gorwedd tua thair milldir i'r gorllewin o Wiveliscombe, ac yn cynnwys 2252 o erwau, ac ychydig dan 400 o drigolion. Y mae y persondy, ar yr hwn y gwariwyd amryw gannoedd o bunnau yn ddiweddar, i'w adgyweirio yn drwyadl, mewn sefyllfa ddifyrus, tua milldir o'r brif ffordd sydd yn myned o Taunton i Tiverton, trwy Bampton, tua thair milldir o Wiveliscombe, deg o orsaf Wellington o reil-ffordd Bristol ac Exeter, a deg o Dulverton.

*Rhoddir i fynu i Arwerthiant, gan Mri Cobb, yn yr Arwerthfa, Llundain, ar ddydd Mawrth, yr 21ain o Dachwedd*, 1848, am ddeuddeg o'r gloch, y Cyflwyniad nesaf i BERIGLORIAETH PLWYFAU CYFUNOL MILTON, DAMEREL, A COOKBURY, yn swydd Dyfnaint, chwe milldir o Holsworthy, naw o Forington, a deuddeg o Bideford. Gellir cyfrif y cyllid clir o'r fywioliaeth, rhwng y degwm, a'r tiroedd eglwysig, y rhai ydynt 110 erw 3r. 29p. &c., yn £450. Mae y person presenol yn 77ml. oed. Mae y persondy mewn sefyllfa ddifyrus, yn agos i'r brif ffordd o Launceston i Bideford, ar hyd yr hon y mae llytnyr gerbyd yn rhedeg, a llythyrau yn cael eu dosbarthu ddwy waith y dydd.

[1] 1 Tim. 4. 16. [2] Eph. 4. 12.

felly eu cyfyngu i'w gweinyddiadau annheilwng a niweidiol hwy eu hunain. Fe dderfydd y cam yma gydâ dattodiad yr Undeb; canys ni chynhelir y cyfryw weinidogion byth drwy roddion gwirfoddol yr eglwysi. Yn y cyf-amser, a ddylai yr eglwysi oddef y bargeinion arianol hyn yn awr? y pryniad a gwerthiad eneidiau yma? A ddylai dynion Cristionogol, gymer-adwyo a chefnogi y fath arfer drwy aros yn y Sefydliad?[1]

*Anfoesoldeb.*—Dywaid gair Duw, fod yn rhaid i esgob, hyny yw, gweinidog eglwys, fod yn ddïargyhoedd, nid yn wingar, nid yn budr elwa, ond yn sobr, yn gyfiawn, yn sanctaidd, yn dymherus.[2] Mae gweinidogion anfoesol i gael eu gochel gan bob Cristion, a'u hysgymuno gan yr eglwys.[3] Gan hyny, dylai pob un o eglwysi y Sefydliad ymwrthod â phob gweinidog anfoesol. Mae yn wir fod yr eglwysi yn cydnabod y ddyledswydd hon. Canys yr ydym yn darllen yn y chweched erthygl ar hugain, "Fe berthyn i ddysgyblaeth yr eglwys bod ymofyn am weinidogion drwg, a bod i'r rhai a fo yn gwybod eu beiau achwyn arnynt: ac o'r diwedd, wedi eu cael yn euog, trwy farn gyfiawn, bod eu diswyddo." Ond y mae ei hymarfer yn wahanol i'w proffes. Mae y Llywodraeth a'r Cydwŷs (*Convocation*) yn nghyd, wedi ei hamddifadu o bob gallu i symmud ei gweinidogion, ac wedi trosglwyddo yr awdurdod i gyfreithiwr appwyntiedig gan y Goron, i lywyddu ar lŷs y Bwäau. Gan hyny, os gelwir offeiriaid anfoesol i gyfrif oll, rhaid eu profi o flaen y barnwr, oddieithr eu dwyn ger bron yr esgob ei hunan, yn ol yr ysgrif-raith ddiweddar mewn perthynas i hyn.

Mae amryw o benderfyniadau llŷs y Bwäau wedi bod o flaen y cyffredin yn ddiweddar, yn y rhai y gwelir i ba raddau y bydd i'r llŷs hwn, i'r hwn yr ymddiriedodd eglwysi y Sefydliad eu hawl i ddysgyblu, eu dïogelu rhag gweinidogion anfoesol. Yn nghyngaws *Brooks* yn erbyn *Cresswell*, dywedai Syr H. J. Fust; "Ei fod yn ofni bod yn rhaid iddo ddyfod i'r penderfyniad fod Mr. Cresswell wedi bod yn yr arferiad o fynychu tafarndai, o yfed ar rai achlysuron i ormodedd, o eistedd yno, dan yfed ei bibell, ac yfed haner yn haner, ei fod yn euog o ollwng ambell i lŵ allan, ac o arfer serthedd ar rai achlysuron. Gan gofio ei fod wedi ei attal i weinidogaethu dros yspaid parhad y gyfraith hon, sef tua deunaw mis, efe a farnai os byddai i'r llŷs ei ddedfrydu i ddeunaw mis yn mhellach o swydd attaliaeth, y byddai yn gerydd cyfattebol i'r camwedd."[4]

Felly, dyma weinidog, yr hwn yn ol y gorchymyn ysgrythyrol a ddyl-asai gael ei ysgymuno gan yr eglwys, yn cael ei oddef i adgymeryd i fynu ei swydd o areilio 1,200 o eneidiau, wedi deunaw mis o swydd attaliaeth; er ei argyhoeddi o fod yn feddwyn aflan, ac onid iddo fod ychydig yn gyfrwys-ach yn ei anwiredd rhag llaw, ni allai yr eglwys wneyd dim er ei symmud.

1 Gwel Dat. 18. 13. 2 1 Tim. 3. 1—7. Tit. 1. 5—9. 3 1 Cor. 5. 11—13. 2 Thes. 3. 6. 4 *Record*, Chwef. 16, 1846.

Y *Times* am Mawrth 14, 1846, a edrydd am Mr. Hodgson, ficer Kington, &c., yr hwn a gyhuddid o ymddygiad tra anfoesol. Er fod y prawf yn amgylchiadol ac yn bennodol, gommeddodd y barnwr roddi coel i'r tystion ar eu llŵ;—Ar yr hyn y mae y *Times* yn gwneyd y sylwadau canlynol:

"Gommeddai barnwr roddi coel i'r tystion ar eu llwon. Bai y tystion yn ei dyb ef ydoedd, eu cyd gordiad perffaith. Yr oedd eu tystiolaeth yn ymddangos yn debyg fel pe buasai wedi ei rhag gyd-lunio.

A oes enngbraifft o unrhyw lŷs cyfiawnder, mewn unrhyw wlad yn y byd, lle y gweinyddir brawdwriaeth troseddwyr dan rëolau gosodedig, ag yn gwrthod cyd dystiolaeth tri neu bedwar o dystion yn bennodol, gan ei chyfrif yn ofer, a hyny ar y sail yma, sef ei bod yn gyfunol? Yr ydym yn galw ar yr eglwys ei hunan i amddiffyn ei phurdeb, i dori ymaith ei haelodau aflan ac annuwiol oddiwrth ei chorph cyssegredig. Mae y duedd i gamfarnu sydd yn ymddangos mor amlwg ar achlysuron yn mhenderfyniadau Syr H. J. F. yn tueddu yn uniongyrchol i gynnyrchu argraff ar feddyliau y cyffredin, fod y corph ysbrydol yn mwynhau llochiad mewn pechod, a rhydd freiniad oddiwrth gosp, yn mhell tu hwnt i'r hyn a ganiattêir i'r llëygion. Pan glywo plwyfolyn tlawd am berson ei blwyf wedi ei gosbi mewn dirwy bychan (canys nid yw swydd-attaliad tymhorol yn ddim amgen) neu efallai, wedi ei ryddhau fel pe buasai yn gwbl ddïeuog o bechodau ysgeler, a welsai efe ef yn eu cyflawni yn ngŵydd y dydd, ni's gall deimlo yn dawel i gredu fod y gyfraith yn anmhleidgar, na bod yr eglwys yn bur. Pan y mae y fath ddynion a Day, a Heathcote, a Loftus, a Chresswell yn cael eu goddef i aros yn y weinidogoeth, pa ryfedd bod ymneillduaeth yn cynnyddu, neu fod y bobl yn ddrwg fucheddol?"

Mae y draul gyssylltiedig â chyfreithiau yn llŷs y Bwäau, a'r anhawsder o sicrhau cosbedigaeth troseddwyr offeiriadol, yn peri i'r cyfryw droseddwyr ymhyfhau yn aml, debygid yn eu camweddau. Yn mrawdlys y gwanwyn 1846, dygid Dr. B. o B., yn agos i W., i brawf ger bron y Barnwr Parke, dan y cyhuddiad o odineb. Y rheithwyr a'i dygasant i fewn yn euog, ac a roddasant i'r hawlydd £250 o iawn; ond y mae efe eto, ar a wn I, yn cael llonyddwch i fod yn weinidog y plwyf. Y llŷs gwladol a'i dyfarnai fel puteiniwr, a'r eglwys a'i cadwai fel ei gweinidog! Mr. M. person——yn agos i dref P., yr hwn yn ddigywilydd a addefai ei arferion drygionus o flaen y cyhoedd, sydd yn parhau eto yn fugail annrhigiannol yr un eglwys, ac wedi talu cyflog bychan i gurad trigiannol, fe oddefir iddo dreulio ei gyllid eglwysig anferth mewn seguryd ac ysgelerder yn Mharis, Milan, Vienna, neu y man y myno efe.

Fel hyn y mae y Llywodraeth yn taflu ei tharian dros weinidogion annheilwng. Bwrid allan weinidog wedi ei brofi yn euog o anfoes, o unrhyw eglwys rydd; ond fe all y cyfryw weinidogion arfeiddio cerydd yn y Sefydl-

iad dan nawdd y Llywodraeth. Yn gyntaf, y mae y Llywodraeth wedi penderfynu, pa mor amlwg bynag fyddo ei ddrygfoesau, oddieithr y gellir eu profi yn gyfreithiol, na's gellir aflonyddu arno; ac yn ail, os gellir dwyn profion cyfreithiol o'i ddrygfoesau, y mae y Llywodraeth wedi ymddiried eu cospedigaeth i ddyspwyll cyfreithiwr, yr hwn, efallai, na's gŵyr ddim am y cymhwysderau y mae Crist yn eu ceisio mewn gweinidog eglwys, ag un a all fod ym meddu llewer mwy o gyd ymdeimlad â'r gweinidog camweddus, nag â'r eglwys a gafodd gam. Y canlyniad yw, bod gweinidogion 10,500 o fywiolaethau, y rhai y mae eu hannghymwysder i'r swydd yn amlwg, ond y rhai ydynt gyfrwys yn eu camweddau, yn dïanc rhag ceryddon swyddogol, ac yn aros yn weinidogion annheilwng eglwysi gwaradwyddedig, neu gythruddedig. Y mae dynion efengylaidd, y rhai ydynt yn glynu wrth y Sefydliad yn gyfrifol am y gwaradwydd yma.

Adroddid y cynghaws canlynol yn y *Record* am Hydref 19eg, 1848.

"Yr wythnos ddiweddaf, llywyddai Mr. Dirprwywr Smith yn llŷs sirol Gainsborough, pan ymddangosai y Parch. F. Sturmer, periglor methdaledig Heapham o'i flaen ef i gael ei arholi. Yr oedd ei rwymedigaethau yn cyrhaedd i £2,200, a'r unig swm a roddwyd i fynu ydoedd tua £14. Ymddangosai Mr. Andrews i wrthebu ar ran nifer fawr o ofynwyr, a dadleuai fod y dull dïofal yr aeth efe dan y dyledion yn tori oddiwrth y methdalwr bob hawl o nodded y llŷs. Efe a allai ddywedyd yma fod y methdalydd wedi cymeryd noddaeth y gyfraith o'r blaen am dair mil o bunnau. Yn yr amgylchiad presenol, fe'i hysbysid fod yr holl ddyledion masnachol yr aethai iddynt, wedi eu gwneyd o fewn dwy neu dair blynedd, ac heb un olwg resymol ar fod yn alluog i'w talu. Yr oedd y dyledion yn cyrhaedd i 1,100 o bunnau, ac aed iddynt yn 1846, 1847, ac 1848, pan yn ol ei gyfrifon ef ei hun, yr oedd ei gyllid yn £245., ac y'i hychwanegid trwy berchenogaeth y tir i £290. Ni roddai i'r methdalwr un goel am onestrwydd yn ei gynnygiad i dalu £50 yn y flwyddyn, a phrïodolai hyny yn unig i gynghor da, a challineb ei gyfreithiwr. Buasai ei gyllid dros bum mlynedd yn £1106, neu £201 yn y flwyddyn; a'i draul yn £1762., neu £352., yn y flwyddyn, sef £132., yn y flwyddyn yn fwy na'i gyllid. A thra yr oedd efe yn myned dan y dyledion hyn, yr oedd efe dan rwymedigaethau, drwy y rhai y gwyddai efe y gallasai y meddiannau yr oedd efe yn eu cael gael eu hysgubo ymaith unrhyw bryd, fel y gwnaed hefyd o'r diwedd. Dywedai y barnwr ei fod yn ymddangos iddo ef nad oedd càn punt yn swm annheg i'w roddi o'r neilldu er lles y gofynwyr. Ar grybwylliad Mr. Huddleston aeth y methdalydd o'r neilldu gydag ef, ac ar gynghor ei gyfreithiwr, cyttunai i gynnyg y càn punt. Fel yr oedd efe yn myned rhagddo i gwyno am y modd yr ymosodid arno gan y Newyddiaduron o barthed i ryw lythyrau cardottawl, fe'i hattaliwyd gan y barnwr, yr hwn a

ddywedai mai yr eglurhad goreu a fyddai iddo weithio allan ei gyttundeb yn ffyddlon. Efe a fuasai byw yn afradlon ac annghymedrol, a'r canlyniad o hyny ydoedd ei gyfyngderau. Ei atteb goreu i unrhyw lychwiniad ar ei onestrwydd a fyddai gwneyd o hono ei oreu i dalu y dyledion yr aethai danynt mor ddifeddwl. Y methdalwr a ddywedai ei fod ef yn rhwym eisoes i dalu £43 yn y flwyddyn i haeledd y Frenines Anne. Dymunai y barnwr wybod a oedd y methdalwr yn cynnyg talu càn punt yn y flwyddyn i'w ofynwyr? Arwyddai y methdalwr ei gydsynied. Yn y diwedd, addoedwyd yr Arholiad. [Ymddengys mai y canlyniad fu gwrthod nawdd y llŷs, ac y bydd i arholiad terfynol y methdalwr gael ei addoedi hyd oni byddo iddo ymrwymo mewn ysgrif fachnïol i dalu càn punt yn y flwyddyn i wasanaeth ei ofynwyr."]

Ymddengys yn yr ennghraifft uchod fod pob plaid yn foddlawn os rhoddid càn punt yn y flwyddyn allan o'r fywioliaeth, i'r gofynwyr. Nid ymddengys fod neb am fynyd wedi dychymygu fod y gweinidog wedi ei annghymwyso i'w swydd; ac os y gellid ei attal i dwyllo ei ofynwyr, yr oedd y dirprwywr, y cyfreithiwr, a'r gofynwyr yn cymeryd yn ganiattäol y byddai iddo ddal ei fywioliaeth yn barhaus; neu, mewn geiriau ereill, mai efe a fyddai yn barhaus yr unig weinidog cyfreithiol o'r eglwys yn Heapham, a hawl ganddo i gau pob pregethwr efengylaidd o'i bulpud ac o'i blwyf.

*Heresi.*—Wrth heresi y golygir yn y Testament Newydd, annghydfod ac ymryson a gyfodir gan berson neu blaid o fewn eglwys (1 Cor. 11. 19. Gal. 5. 20. 2 Pedr 2. 1;) ac wrth heretic y golygir y dyn ymbleidgar, a gyfodo ymrysonau (Tit. 3. 10.) Ond mewn dulliaith ddiweddar, heretic yw un a gofleidio unrhyw gyfeiliornad athrawiaethol mawr. Yn ol y Testament Newydd, dylai dyn a fyddo heretic yn y golygiad yma gael ei ysgymmuno, a dylai yr eglwys gilio oddiwrtho megis oddi wrth un anfoesol.[1] Y mae hereticiaid yn ddarostyngedig i driniaeth lem eto yn y Sefydliad. Yn ol 1 Eliz. cap. 1. "Y mae pob rhyw frawdwriaeth ysbrydol ag a ellir ei gweinyddu yn gyfreithlon gan unrhyw awdurdod ysbrydol neu eglwysig er cospi pob math o heresiau, yn cael eu cydio dros byth â'r Goron."[2] Mae heresi yn sail gyfreithiol difuddiad.[3] Gall esgob gyhoeddi dedfryd ar heretic;[4] ac wedi yr ysgymmuner heretic cyndyn, y mae efe yn ddarostyngedig eto i gael ei garcharu drwy yr ysgrif *de excommunicato capiendo,* hyd oni wnelo iawn i'r eglwys.[5] Pe buasai y gair heretic yn y cyfreithiau hyn yn cael ei gymeryd yn wastad am un yn gwadu athrawiaeth hanfodol yr Efengyl, y maent yn cymeryd cyweiriad heresi o'r eglwys, i'r hon y perthyna o angenrheidrwydd, ac yn ei roddi i'r Goron a'r esgobion; ond y mae yr ystyr a ddyru y gyfraith i'r gair heretic, os nad wyf yn camsynied, yn eu gwneyd

1 Ioan 10. 5. 2 Cor. 11. 3, 13—15. Gal. 1. 6—9; a 5. 12. 2 Ioan 10. Dat. 2. 14, 15, 16—20. 2 *Burn,* Vol. 2. p. 304. 3 *Ib.* p. 341. 4 *Ib.* p. 105. 5 *Ib.* p. 307.

yn annïoddefol a gordreisiol. Hyd yr wyf yn deall, y mae unrhyw athrawiaeth a gyfrifa y barnwr eglwysig yn wrthwynebol i athrawiaeth "yr eglwys," pa mor iachus, ac ysgrythyrol bynnag y dichon fod yr athrawiaeth, yn heresi: o leiaf, y mae pob golygiadau gwrthwynebol i athrawiaeth "yr eglwys," yn cael ymddwyn tuag attynt yn ol y cyfreithiau gwladol ac eglwysig, fel yr ymddygid at heresi. Mae y gweinidog a eithrio yn ei bregethu yn y radd leiaf oddiwrth athrawiaeth y llyfr gweddi, yn cael ei drin gan y gyfraith, fel y'i trinid pe y gwadai dduwdod Crist, neu ysbrydoliaeth y Beibl. Cosbedigaeth y gweinidog a wado unrhyw athrawiaeth gyfeiliornus o'r llyfr gweddi, yw ysgymmundod a difuddiad, ac ni thrinir heretic cyndyn yn ddim llymach. Yn ol y bedwaredd *ganon,* y mae pwy bynnag a haero bod y ffurf o addoliad a gynnwysir yn y llyfr gweddi gyffredin, yn cynnwys ynddi ddim sydd yn wrthnaws i'r ysgrythyr, i gael ei ysgymmuno. Yn ol yr wythfed *canon* y mae pwy bynnag a haero bod ffurfiau cyssegriad esgobion, offeiriaid, a dïaconiaid, yn cynnwys ynddynt ddim gwrthnaws i'r ysgrythyr, i gael eu hysgymmuno. Yn mhellach, athrawiaeth y gyfraith eglwysig yw, "Os bydd i un offeiriad lefaru neu bregethu dim yn waradwyddus am lyfr y weddi gyffredin, neu arfer unrhyw ddefod neu seremoni arall, wedi y'i profer yn euog ddwy waith, y'i difuddir *ipso facto.*"[1]

Gan hyny, os bydd i weinidog ddatgan bod yr athrawiaeth o adenedigaeth bedyddawl, yr hon a gyfrifa efe yn athrawiaeth y llyfr gweddi, yn gyfeiliornus a pheryglus; neu na ddylai gweinidogion ddïolch i Dduw am farwolaeth plwyfolion annuwiol; neu na ddylai yr esgob ddweyd wrth bob gwr ieuanc ar ei urddiad, "Derbyn yr Ysbryd Glan, pechodau pwy bynnag a ollyngoch, fe'u gollyngir;" rhaid ysgymmuno a difuddio y cyfryw weinidog.

Mae y Llywodraeth a'r Cydwysiad hefyd wedi gofalu am warchodaeth arbenig i'w namyn un, deugain erthyglau, rhag beirniadaeth annghyfleus. Yn y bummed *ganon,* darllenwn, fod pwy bynag a haero bod y namyn un, deugain erthyglau, mewn unrhyw ran yn ofergoelus neu gyfeiliornus i gael ei ysgymmuno. Y 13., Eliz. *cap.* 12., *s.* 2., a ordeinia fel hyn: "Os bydd i un gwr eglwysig, neu y sawl a feddo fywioliaeth eglwysig yn ddifrifol dda[1] a haeru unrhyw athrawiaeth wrthwynebol neu annghydnaws ag unrhyw o'r dywededig erthyglau, ac wedi ei wysio o flaen yr esgob neu ei raglaw, barhau o hono yn yr unrhyw, heb alw yn ol ei gyfeiliornad,......efe a ddifuddir o'i ddyrchafiadau eglwysig."[2]

Gan hyny, os bydd i unrhyw weinidog dystio, yn erbyn yr 20fed erthygl, na's medd yr eglwys awdurdod mewn amrafaelion yn nghylch y ffydd; neu, yn erbyn y chweched ar hugain, nad ydyw dynion drwg yn gweinidogaethu drwy awdurdod Crist, ac na ddylai Cristionogion aros dan y fath weinidog-

1 *Burn,* Vol. 2. p. 141.*a*    2 *Ibid,* Vol. 1. p. 105.

aeth; neu, yn erbyn yr unfed ar bymtheg ar hugain, bod gwasanaeth cyssegriad offeiriaid yn cynnwys ynddo ymadroddion ofergoelus ac annuwiol, y mae efe yn ddarostyngedig i ysgymmuniad a difuddiad.

Na thybied neb fod y cyfreithiau hyn yn ddirym, am mai ychydig o weinidogion a ysgymmunir ac a ddifuddir fel hyn: maent yn atteb eu dyben mor drylwyr, fel mai prin y mae un gweinidog o'r Sefydliad yn beiddio chwilio yr ysgrifeniadau gwarchodawl hyn yn ëofn. Ychydig ddynion a feiddiant ymollwng i feirniadaeth â'r hon y mae y fath benydiau ofnadwy wedi eu cyssylltu.

Gan y byddai i feirniadu arwain i ddifreiniad, y mae yr ystyriaeth o hyny yn diffodd pob ymchwiliad. Mae y gyfundrefn yn dianc rhag y gwarth o erledigaeth, trwy orlethu annibyniaeth; ond y mae yn gwyro eu barn. Hi a'u llethai pe y gwrthdystient, ond y mae yn ennill buddugoliaeth gyflwyrach drwy eu gwneuthur yn ostyngedig gydsyniol; ac y mae cyfeiliornadau y llyfr gweddi yn gorfoleddu ar oesoedd olynol.

Ond, tra mae y Llywodraeth yn llym fel hyn wrth y rhai a wrthddadleuont yn erbyn y leiaf o athrawiaethau y llyfr gweddi, y mae yn goddef llawer yn dawel, i ddal rhyfel agored yn erbyn athrawiaethau y Beibl. Mae gweinidogion hanner pabaidd wrth y cannoedd yn taenu y cyfryw athrawiaethau, o'r hyn y rhoddais rai ennghraifftiau eisoes, yn ddigerydd; a miloedd, y mae lle i ofni, mwy niweidiol fyth, na'r dynion cyfeiliornus, ond difrifol hyn, ydynt yn meddu casineb gwreiddiol at athrawiaethau gras; gwadant gyfiawnhad o ras, trwy ffydd, heb weithredoedd y ddeddf; gwawdiant yr athrawiaeth o ddychweliad a sancteiddiad pechaduriaid trwy yr Ysbryd Glan; camarweiniant, a chadarnhant yn eu dïofalwch, yr eglwysi ar y rhai y maent yn oruchwylwyr; a hyny yn ddigerydd. A ddylai dynion efengylaidd gefnogi hyn oll drwy ymlynu wrth y Sefydliad?

*Ymbleidiaeth.*—Nid yw athrawiaeth ac ymarferiad y Sefydliad o barth ymbleidiaeth, yn ddim mwy dymunol. Y mae Eglwysi y Sefydliad yn cydnabod ac yn ymfrawdoli cymmaint âg Eglwys Rhufain, fel pan ddelo offeiriaid Pabaidd yn Brotestaniaid, y'u cydnabyddir yn weinidogion Crist, ac y gallant bregethu yn ein heglwysi heb eu hail ordeinio. Darfu i ddiweddar Archesgob Caergaint hefyd wneyd cydnabyddiaeth swyddol o Eglwys Groeg lygredig, fel chwaer eglwys, yn yr hyfforddiadau a roddai i'r esgob Alexander, ar ei ymadawiad i Jerusalem. Ond, tra y mae offeiriaid pabaidd, ac offeiriaid Groegaidd, y rhai ydynt fyth yn îs, yn cael eu cydnabod yn weinidogion i Grist gan Eglwysi y Sefydliad, y mae yr eglwysi hyn yn cadw ymneillduad llwyr oddiwrth eglwysi puraf Crist, ac yn gommedd cydnabod eu gweinidogion. Ymbleidiaeth yn y Testament Newydd, ydyw ymraniadau rhwng Cristionogion, y rhai a ddylent fod yn unedig fel brodyr, (1 Cor. 1. 10; a 11. 18; a 12. 25.) Nid ymbleidiaeth ydyw gommedd ymuno â

chyd-Gristionogion yn y pethau a waherddir gan Grist; canys yn hyny, nyni a ddylem wrthod pob undeb; nac yn y pethau a ofynir gan Grist; canys yn hyny rhaid i ni gael rhyddid i farnu drosom ein hunain. Felly nid ymbleidiaeth oedd i'r Cristionogion Cenhedlig o'r eglwysi apostolaidd, ommedd cydffurfio a'r defodau Iuddewig pan y gwnelai Cristionogion Iuddewig felly; ac os cyfyd ymbleidiaeth mewn eglwys Gristionogol ar gyfrif unrhyw athrawiaeth neu ymarferiad; nid y rhai ydynt mewn ysbryd Cristionogol yn sefyll dros y wir athrawiaeth, a'r iawn ymarferiad, ydynt awdwyr yr ymbleidiaeth, ond y rhai a ddaliant i fynu athrawiaeth gyfeiliornus, ac a gefnogant ymarferiad llygredig. Fel hyn, pan gyfododd ymbleidiaeth yn eglwys Antiochia, ac y darfu i Paul wrthwynebu Pedr a Barnabas yn eu hwyneb, nid yr ymbleidiwr oedd efe, pan yr aflonyddai yn egnïol eu hathrawiaeth a'u hymarfer Iuddewig; ond hwynt hwy, am eu bod yn sefyll drostynt.[1] Felly, nid yw ymneillduwyr tangnefeddus a duwiol yn ymbleidwyr. Gan fod pob un yn rhwym i ddilyn Crist a'i ewyllys yn mhob peth, y mae llawer o ddynion goleuedig a rhagorol, y rhai a gyfrifant fod Undeb y Sefydliad a'r Llywodraeth yn gydiad llygredig â'r byd, yn anmharch ar awdurdod Crist; bod ei phreladaeth yn anysgrythyrol, ei noddogaeth yn niweidiol, ei ffurfellau yn gyfeiliornus, ei dysgyblaeth ar unwaith yn ormesaidd a phenrhydd, ei honiadau yn drahaus, a'i hysbryd yn fydol, ac o ganlyniad, wedi eu teimlo eu hunain dan orfodaeth i'w gadael fel y cyflawnent gyfraith Crist, drwy gynnal ffurf o lywodraeth eglwysig fwy ysgrythyrol, a phurach dysgyblaeth. Teimlasant eu dyledswydd yn arbenig; cydnabyddwyd eu hawl drwy gyfraith, ac y maent yn bresenol yn cynnwys miliwnau o rifedi, y rhai nid ydynt yn llai moesol a chrefyddol na'r goreuon o'r Sefydliad.

Ni's gall eu hannghydffurfiad ynddo ei hunan fod yn ymbleidiaeth, oblegid nad yw defodau y Sefydliad yn fwy rhwymedig arnynt hwy nag oedd defodau y grefydd Iuddewig ar y cyn-Gristionogion, ac megis na orchymynwyd unffurfiaeth mewn addoliad iddynt, y mae amrywiaeth a rhyddid yn debyg o fod yn fwy gwasanaethgar.

Ni's gall fod eu gwirfoddolrwydd yn ymbleidiaeth, oblegid nad oes un awgrym yn y Testament Newydd o Undeb rhwng Eglwys â Gwladwriaeth.

Nid yw eu hymwrthodiad a phreladiaeth yn eu gwneyd yn ymbleidwyr, oblegid mai trefniant dynol yw preladiaeth, a ffurfiwyd ar ol yr oes apostolaidd, heb awdurdodiad yr Ysgrythyr.

Ac ni's gall eu hannibyniaeth mewn eglwysi llëawl fod yn ymbleidiol, gan fod yr holl eglwysi apostolaidd yn anymddibynol; nid oedd cymdeithasfa o eglwysi, y fath ag yw Eglwys Loegr neu Eglwys yr Alban, yn y cynoesoedd, ac nid oedd un eglwys yn ddarostyngedig i un arall: yr oedd yr

1 Gal. 2. 11—14.

eglwys yn Phillippi yn annibynol ar yr eglwys yn Thessalonica, a'r eglwys yn Thessalonica mor rydd a hyny oddiwrth rëolaeth yr eglwys yn Corinth: yr oedd pob cynnulleidfa Gristionogol yn yr oes apostolaidd yn annibynol ar y lleill oll, ac am hyny, gall pob cynnulleidfa yn awr ddilyn y blaen-ddrych hwnw heb ymbleidiaeth. Gan hyny, y mae eglwysi y Sefydliad yn rhwym i barchu eu rhyddid Cristionogol, ac ymfrawdoli â hwy, eglwysi âg eglwysi, gweinidogion â gweinidogion, ac aelodau âg aelodau. Ped amlygid y cydgordiad brawdol yma, ni byddai eu hamrywiaethau mewn ffurf addoliad a dysgyblaeth ond y drygau lleiaf. Pe byddai eglwysi Crist yn un mewn athrawiaeth, mewn ufudd-dod i ewyllys Crist, ac mewn calon, hwy a ddygent oddi ar y Pabyddion eu hoff ddadl yn erbyn y Protestaniaid, ac oddiar y rhai digred eu harf mwyaf arferedig yn erbyn Cristionogaeth. Bydded i Gristionogion er eu gwahaniaeth mewn dysgyblaeth, fod yn un yn nghalon a gweithred, a'r olygfa hawddgar o ryddfrydigrwydd, anhunanoldeb, a serchawgrwydd, a orchfygai annghrediniaeth y byd. (Ioan 17. 20, 21.) Yn unedig, hwy a allent yn llawer mwy effeithiol lafurio i symmud anwybodaeth, i wrthsefyll anwiredd, ac i bregethu yr Efengyl. Pe gwelai y byd bod Cristionogion yn gyffredinol yn cymdeithasu â Christionogion, heb ymofyn pa un a fyddont ai Esgobyddion, Henaduriaid, Annibynwyr, neu Fedyddwyr, yna lleiheid eu gwahaniaeth i'w maintioli prïodol, a dyrchafid eu ffydd gyffredinol. Heblaw hyny, nid oes yn mhlith yr holl enwadau ryw lawer o bregethwyr galluog, profiadol, difrifol, ac effro; ond, pe byddai i'r rhai hyn oll ranu y tir rhyngddynt, a phe byddai i Esgobyddion, Henaduriaid, Annibynwyr, Bedyddwyr, a Wesleyaid, mewn cydgordiad brawdol, bregethu yn yr holl gynnulleidfaoedd a feddant weinidogion efengylaidd yn awr, fe fyddai yn dra thebyg y cynnyrchid diwygiad ar grefydd, llawer mwy ehang na hwnw a fu yn amser Whitfield. Byddai i luaws o gynnulleidfäoedd ydynt yn awr yn oer ac esgeulus, amlygu difrifwch digyffelyb, a myrddiynau o eneidiau a achubid. Yr hyn a arswydai defodolwyr culfarn fel annhrefn, yw trefn Crist. Yr ymfrawdoliaeth yma o dduwiolion o bob enwad yw deddf sefydlog eglwys Crist, ammod angenrheidiol ei hiechyd. Mae yn rhaid i ni ei gyrhaedd. Ond yn bresenol, y mae yr Undeb yn gwneyd hyny yn anmhossibl. Tra y mae eglwysi y Sefydliad yn derbyn offeiriaid Pabaidd, ac offeiriaid Groegaidd yn weinidogion Crist, y maent yn ysgymmuno ei eglwysi puraf, a'i weinidogion ffyddlonaf. Trwy canonau 4, 5, 6, 7, 10, 11, 12, a 27, cyhoeddir pob ymneillduwyr yn ymbleidwyr, ac fe'u llwyr ysgymmunir.

Cafodd ymbleidiwr yn yr oes apostolaidd enwogrwydd annymunol trwy y cerydd canlynol o eiddo yr apostol Ioan; "*Mi a ysgrifenais at yr eglwys: eithr Dïotrephes, yr hwn sydd yn chwennych y blaen yn eu plith hwy, ni dderbyn ddim o honom......gan wag siarad i'n herbyn â geiriau drygion-*

*us: ac heb fod yn foddlawn ar hyny, nid yw efe ei hun yn derbyn y brodyr; a'r rhai sydd yn ewyllysio y mae yn eu gwahardd, ac yn eu bwrw allan o'r eglwys.*" Yn mha beth y mae ysbryd y canonau hyn a'u diffynwyr, yn gwahaniaethu oddiwrth ysbryd Dïotrephes?

Tra y mae y Sefydliad yn dyfarnu yr ymneillduwyr fel ymbleidwyr, am eu bod wedi cyrhaedd helaethach adnabyddiaeth o'r Ysgrythyr mewn rhai pynciau na'r Eglwyswyr, y mae ei hunan yn ymbleidiol, yn dïarddelwi eglwysi puraf Crist, yn ysgymmuno brodyr y dylai eu derbyn i gymmundeb, ac yn pentyru gwarth ar ddylynwyr ffyddlonaf a goleuaf y Gwaredwr.

Twylla rhai eu hunain trwy dybied bod y canonau hyn wedi myned yn orhenaidd ac o gof. Ond fe'u hysbysir gan unrhyw farnwr eglwysig, eu bod yn gyfreithiau bywiol yr eglwys, i'r rhai y mae gweinidogion yn rhwym o ufuddhau, a'r rhai y mae yntau yn rhwym o'u rhoddi mewn grym. Ni feiddia un gweinidog Eglwysig siarad yn gyhoeddus yn erbyn eu hawdurdod, na gwrthddadleu eu hathrawiaeth, oddieithr ei fod yn barod hefyd i feiddio dïaledd y gyfraith. Mewn gwirionedd y maent yn dylanwadu yn gyffredinol a niweidiol ar weinidogion y Sefydliad. Pa ham y mae gweinidogion anrhydeddusaf a mwyaf profiadol yr eglwysi rhydd yn cael eu cau allan o areithfa pob gweinidog efengylaidd o fewn y Sefydliad? Pa ham y mae gweinidogion goreu y Sefydliad yn byw yn y weithred yma o ymbleidiaeth? Pa ham y mae lluaws o weinidogion efengylaidd, yn ofni ac yn cywilyddio o gymdeithasu â gweinidogion yr eglwysi rhydd, y rhai a anrhydeddwyd ac a fendithiwyd gan y Gwaredwr gymmaint a hwythau? Paham y mae càn leied o weinidogion Eglwysig yn cynnorthwyo y Gymdeithas Feiblaidd, Cymdeithas y Traethodau, Cymdeithas Cenhadaeth Ddinesig Llundain? &c. Pa ham y cyttunasant yn erbyn y Cyngrhair Efengylaidd? Pa ham y darfu i'r "*Christian Observer,*" misolyn gweinidogion efengylaidd y Sefydliad, ddifrïo gweision Crist mewn eglwysi ereill y naill fis ar ol y llall, gan dywallt allan fustledd ar y rhai a gefnogent ymdrech i feithrin brawdgarwch yn mysg Cristionogion, yr hyn a orchymynai Crist ei hun mor ddifrifol? Pa ham nad oes braidd ddim cyfeillach gyfrinachol rhwng gweinidogion Eglwysig â gweinidogion unrhyw enwadau ereill? Pa ham y mae ar Eglwyswyr duwiol ofn a chywilydd myned i addoldŷ ymneillduedig? Fel hyn, trwy weithredoedd, a lafarant yn rymmusach a llymach na geiriau, y mae Eglwyswyr duwiol yn nodi yr eglwysi puraf a mwyaf ysbrydol a fedd Crist yn y wlad hon fel ymbleidwyr, â'r rhai ni ddylent fod mewn cymmundeb. Mae y trosedd yma yn erbyn y cariad hynod, a'i waedd yn dyrchafu i'r nefoedd. Gwenieithia i Babyddion, dianrhydedda saint Crist, rhwygir ei eglwysi ef yn ymbleidiau, codir tramgwyddiadau yn ffordd ei achos, a cheblir ei enw. Pa hyd y mae hyn i barhau trwy gefnogaeth dynion efengylaidd?

*Gommeddiad i gyflawni gweithredoedd Gweinidogaethol.*—" Beth bynnag nad yw o ffydd, pechod yw," ac am hyny dylai pob gweinidog fod yn sicr yn ei feddwl ei hun, *wedi dyledus ymchwil i air Duw,* fod yr hyn y mae yn ei wneyd yn iawn.[1] Ond y mae yr Undeb yn gwahardd i'r gweinidog Eglwysig ymarfer cydwybod mewn llawer o weithredoedd gweinidogaethol.

(1.) *Bedydd.*—Yn ol y Testament Newydd, dylai Bedydd gael ei ragflaenu gan edifeirwch a ffydd, gan ei fod yn broffes ddifrifol o'r naill a'r llall.[2] Mae llawer yn meddwl y dylai plant credinwyr, gan eu bod yn cael eu cyflwyno iddo ef, ac i gael eu dwyn i fynu iddo ef, gael eu derbyn i fedydd, fel pe byddent yn gredinwyr edifeiriol yn rhinwedd ffydd eu rhïeni. Ond, gan nad ydyw annuwiolion yn cyflwyno eu plant i'r Arglwydd, nac yn bwriadu eu dwyn i fynu i'w wasanaeth ef, gan eu bod yn ddigred eu hunain : y mae yn amlwg fod dyben yr ordinhad, a bod yr holl rag-gymmwysderau a ofyna y Testament Newydd mewn ymgeiswyr, yn cael eu rhoddi o'r neilldu pan fedyddier plant i rïeni annuwiol. Dylai pob gweinidog ommedd bedyddio y cyfryw. Mae eu bedyddio yn gam â'r plant, â'u rhïeni, ac â'r eglwys; ac yn sarhad ar un o ordinhadau sanctaidd Crist.

Ond, ni wiw i un o weinidogion y Sefydliad weithredu barn, na gwrando ar lais cydwybod mewn unrhyw achos o'r fath a ddygir at ei ystyriaethau, oddieithr ei fod yn barod i gymeryd ei attal o'i swydd ; canys iaith y gyfraith yw, " Na byddo i un gweinidog ommedd neu oedi bedyddio unrhyw blentyn a ddyger ato i'r eglwys. Ac os y gommedda, rhaid i esgob y dalaith ei attal o'i weinidogaeth dros yr yspaid o dri mis."[3] Y canlyniad yw, na wrthodir neb rhyw blant, mae yr ordinhäad yn cael ei halogi, y plant eu twyllo â'r meddwl eu bod wedi en hadgenhedlu, yr hyn sydd yn eu rhwystro i geisio ailenedigaeth; torfeydd heb ganddynt ddim crefydd ond yr enw, yn dyfod yn aelodau o eglwysi y Sefydliad ; ac eglwysi Crist yn cael eu llygru ; nid oes yn aros ddim gwahaniaeth rhwng yr eglwysi a'r byd ; y mae achos Crist yn cael ei rwystro, a chrefydd ei hunan ei chablu, o herwydd y torfeydd o " baganiaid bedyddiedig." Cefnogir a chynnelir hyn oll gan ddynion Cristionogol a ymlynant wrth y Sefydliad.

(2.) *Swper yr Arglwydd.*—Ni's gwahoddodd Crist neb at ei fwrdd ef fel rhydd westeion, ond ei ddysgyblion. Mae y bara a'r gwin yn cynnrychioli ei gorph a'i waed ef; bwytta y bara a'r gwin, a ddarlunia ei dderbyn ef fel ein Gwaredwr croeshoeliedig i'n calonau; a'i fwytta ef yn gyhoeddus fel hyn, yw proffesu ger bron y byd, ein bod yn ei dderbyn ef. Ni's gall neb ond credinwyr dderbyn swper yr Arglwydd yn brïodol, gan mai hwynt hwy yn unig a wahoddir ; ac y mae pawb ereill " *yn bwytta ac yn yfed barned-*

1 Rhuf. 14 5, 23. 2 Matt. 10. 23. Rhuf. 10. 8, 10. Marc 16. 15, 16. Act. 2. 38, 41; a 8. 12, 13, 37 ; a 9. 17, 18; a 10. 44—47, &c. &c. 3 *Canon* 68.

*igaeth iddynt eu hunain, heb iawn farnu corph yr Arglwydd.*"[1] Gan hyny, rhaid mai dyledswydd pob eglwys yw gochel gollwng yr halogedig a'r annuwiol i'r ordinäad hono.[2] A chan fod y pechodau hyn yn fynych yn bethau digon amlwg, pan na's gellir dwyn prawf cyfreithiol o honynt, dylai pob eglwys feddu awdurdod gyflawn i dderbyn neu wrthod rhai i gymmundeb gyda hwy wrth fwrdd yr Arglwydd. Ond, y mae yr Undeb wedi dystrywio hawl yr eglwys i ymyrraeth yn y peth hwn. Darfu i'r Llywodraeth ordeinio drwy 1 Edw. VI. *cap.* 1. "Na byddo i'r gweinidog heb achos cyfreithlon, ommedd yr unrhyw" (y sacrament) "i neb un a'i ceisio yn ostyngedig a dyhewydus." Gan hyny, y mae pob plwyfolion yn meddu hawl i swper yr Arglwydd yn ol y gyfraith, oddieithr eu bod wedi eu hannghymwyso yn gyfreithiol. Gall gweinidog yn ol y gyfraith attal at fwrdd yr Arglwydd, y sawl y gallo brofi yn gyfreithiol ei fod yn ddrwg fucheddwr, neu un a fyddo dan lywodraeth malais a chenfigen; ond, oni bydd efe yn barod gyd a'i brawf cyfreithiol, y mae y Llywodraeth yn rhoddi i bob un o'r plwyfolion a attalier ganddo at y bwrdd, hawl i roddi cŵyn yn ei erbyn mewn llŷs cyfreithiol. Efe a all wrthod dyn duwiol, a betruso gymeryd cadarnhâd gan yr esgob, neu a farno bod penlinio wrth y bwrdd yn goelgrefydd, neu a wado uchafiaeth y Goron, neu a gondemnio un ran o'r llyfr gweddi; ond, ni wiw iddo wrthod un a fynycho y ddawns-ystafell, a'r chwareudy, a redo i ddyled, a fyddo yn lwth a meddw, yn caru oferedd yn fwy nac yn caru Duw. Fel hyn, y mae cyfraith y Sefydliad yn ei orfodi i gau amryw o ddysgyblion Crist oddiwrth ei fwrdd ef, a gollwng amryw o'i elynion ef atto; trwy yr hyn y mae y gwesteion yn dyfod yn gynnulleidfa gymmysg, o'r hon y gall rhai dynion duwiol farnu mai eu dyledswydd ydyw encilio, fel y gallont ymofyn am gymmundeb y saint yn rhyw le arall. Y mae cynnulliad y gwesteion at fwrdd Crist yn cael ei drefnu gan y Senedd, nid gan wahoddedigion yr Arglwydd. Gan gael eu rhybuddio ymaith gan ganonau a gadarnhawyd gan y Goron, ond a ddihawlir gan Grist, y mae ei westeion ef yn cael eu cau oddiwrth ei wledd, ac wedi eu harfogi gan weithred Seneddol, yr hon hefyd a ddihawlir gan Grist, y mae ei elynion ef yn ymwthio yno Y swper sanctaidd, yr hwn ni ddylai gynnull neb ond brodyr o'i amgylch, sydd agos mor agored i bob rhyw ddyfodiad, ag yw y chwareudŷ neu y ddawns-ystafell. Pa le bynnag y byddo ond dau neu dri o'i ddysgyblion wedi ymgynnull yn ei enw ef, yno y mae efe yn llywyddu arnynt, ac yn eu bendithio (Math. 18. 20;) ond am y cynnulliadau cymmysg hyn, o'r rhai y mae y byd wedi bwrw llawer o'i ddysgyblion ef, ac i'r rhai y gwthiodd lawer o'r eiddo ei hun, a yw efe yno? Fe ddylai yr eglwysi gadw gwesteion bwrdd Crist yn ddetholedig; ond y mae eu hiawnderau yn cael eu mathru. Ni ddylai gweinidogion Crist oddef i'w fwrdd ef gael ei oresgyn

1 1 Cor. 11. 29. 2 1 Cor. 5. 11—13.

fel hyn; ond fe'u gorfodir i fod yn weinyddwyr cyfraith y Llywodraeth, yr hon sydd yn awdurdodi y goresgyniad.

(3.) *Claddedigaeth.*—Mae yr amser pan fyddo cyfeillion yn "claddu eu marw," yn amser mor ddifrifol, fel y dylai gweinidog wneyd y defnydd goreu o hono er lles y gorfucheddwyr. Dyna y pryd yn arbenig, pan fyddo eu calonau wedi eu hystwytho i dderbyn addysg, y dylai efe egluro natur gwir grefydd iddynt, gwasgu ei phwysigrwydd at eu hystyriaethau, eu rhybuddio rhag eu twyllo eu hunain, ac na's gadawo hwynt mewn un amheuaeth am y nodau wrth y rhai y mae yr Ysgrythyr wedi cyssylltu diwedd dedwydd a thruenus yn wahanredol.

Tra y mae natur yr achlysur yn gyfryw, y mae y Llywodraeth, drwy Ddeddf yr Unffurfiad, wedi erchi bod i bob gweinidog plwyfol, arfer yr ymadroddion hyn uwch ben pob corph a gyflwynir i'r bedd; "Yn gymmaint a rhyngu bodd i'r Goruchaf Dduw o'i fawr drugaredd, gymeryd atto ei hun enaid ein hanwyl frawd yma a ymadawodd"......"Hollalluog Dduw.....yr ydym yn mawr ddïolch i ti, fod yn wiw genyt waredu ein brawd hwn allan o drueni y byd pechadurus hwn." Ni allai neb arfer y geiriau hyn uwch ben pechadur heb ei aileni na derbyn maddeuant yr hwn a aeth o flaen y frawdle i roddi cyfrif o'i wrthodiad anedifeiriol o Grist, yr hwn y mae ei enaid yn golledig, ag sydd wedi ei gloi gyda'r damnedigion dros byth, heb fod yn euog o'r geudeb, a'r creulondeb mwyaf calon galed at y gorfucheddwyr. Ac y mae llawer yn byw a marw yn mhob plwyf yn y fath fodd, fel y mae gan y gweinidog lawer mwy o achos i ofni na gobeithio am danynt. Yr oedd eu bucheddau yn annuwiol, eu horiau olaf ni roddasant arwyddion o gyfnewidiad calon; y mae gan y gweinidog le i gredu eu bod yn golledig. Byddai dywedyd uwch ben corph un o'r rhai hyn, bod Duw wedi cymeryd enaid anwyl frawd atto ei hun, pan y mae prawf digonol bod Duw wedi alltudio enaid gelyn oddiwrtho; bendithio Duw am waredu brawd o drueni y byd hwn, pan y mae yn rhy debyg bod angeu wedi trosglwyddo annghreddadyn i uffern, yn ddïau yn fesur helaeth o gelwydd a chreulondeb. Ni ddylai gweinidog arfer y cyfryw ymadroddion uwch ben y rhai y mae ganddo le i feddwl eu bod wedi marw yn ddi gred, ac heb faddeuant. Ond y mae yn rhaid iddo wneyd. Ei ddyledswydd i wirionedd a chariad yw gwrthod; ond y mae *canon* 68 yn ordeinio "Na byddo i un gweinidog ommedd......claddu unrhyw gorph a ddyger i'r eglwys......yn ol y ffurf a'r drefn osodedig yn y llyfr gweddi gyffredin; ac os gwrthyd efe gladdu (oddieithr bod y trancedig wedi ei argyhuddo, ei ysgymmuno, *majori excommunicatione,* am ryw gamwedd amlwg ac ysgeler, ac heb fod neb yn alluog i ddwyn tystiolaeth i'w edifeirwch,) efe a attelir gan esgob y dalaith o'i weinidogaeth dros dri mis." Os arfera efe yr ymadroddion hyn, fe fydd iddo naill ai arwain y gorfucheddwyr annuwiol i dybied ei fod ef yn meddwl

fod y trengedig yn ddïogel, neu ei fod yn defnyddio yr ymadroddion hyny yn groes i'w farn, er mwyn cadw ei le; os gommedda eu harfer efe a ddiswyddir am dri mis. Y canlyniad yw, fod y geiriau hyn yn cael eu harfer uwch ben holl fyrddiynau annuwiol ein gwlad, y rhai ydynt yn meirw mewn dygn anwybodaeth, mewn anghrediniaeth cyflwyr, ac mewn anedifeirwch hollol; gan adael y gorfucheddwyr i ddilyn eu llwybrau niweidiol, gan obeithio y bydd iddynt hwythau hefyd ar eu hymadawiad, gael eu bendithio gan Dduw, a'u hanrhydeddu gan yr eglwys. Mae gweinidog efengylaidd yn rhybuddio ei gynnulleidfa o'r pulpud, na's gallant fyned i deyrnas nefoedd oddieithr eu geni drachefn, ac felly y mae yn darlunio gwir grefydd y fath, fel y mae yn amlwg nad ydyw y nifer fwyaf o lawer yn wir grefyddol; ac er nad oes un cyfnewidiad gweledig yn llawer o honynt hyd ddydd eu marwolaeth, y mae yn dywedyd am danynt oll, mai ei frodyr anwyl ydynt, wedi eu cymeryd gan Dduw atto ei hun o drueni y byd hwn. Ein Harglwydd a'n Iachawdwr a adawai y dystiolaeth ddifrifol a ganlyn i ni; "*Ewch i mewn trwy y porth cyfyng; canys ehang yw y porth, a llydan yw y ffordd sydd yn arwain i ddystryw; a llawer yw y rhai sydd yn myned i mewn trwyddi: oblegid cyfyng yw y porth, a chul yw y ffordd, sydd yn arwain i'r bywyd; ac ychydig yw y rhai sydd yn ei chael hi.*"[1] Ac er cydnabod awdurdod y tystiolaethau uchod, y mae gweinidogion y Sefydliad ar fin pob bedd a agorir, yn tystio bod y ffordd i'r nef mor lydan, fel y mae cenedl gyfan yn myned iddi cyn eu marw. Yn eu hareithfäau dysgant fod *llawer wedi eu galw, ac ychydig wedi eu dewis;* ond yn eu mynwentydd, y maent cystal a datgan yr holl blwyf, gan gynnwys y meddwon a'r afradloniaid, yn ddewisedig. Eu credo yw, "*Od oes neb nid yw yn caru yr Arglwydd Iesu Grist,* y bydd ef *yn Anathema Maranatha;*"[2] a'u cyhoeddiad uwch ben eu plwyfolion trancedig, y rhai ni chaed un arwydd eu bod yn caru yr Arglwydd Iesu Grist hyd y fynyd olaf, yw, eu bod wedi myned at Dduw ac i ogoniant.

*Cwblhad gweithredoedd gweinidogaethol heb Awdurdod.*—Dosbarth arall o droseddau ceryddadwy yn ol y gyfraith eglwysig a gynnwysant yr holl weithredoedd gweinidogaethol y rhai na's derbyniodd y gweinidog awdurdod eglwysig i'w cyflawni. Y mae dau drosedd eglwysig neillduol i ddïaconiaid. Y cyntaf yw cyssegriad y bara a'r gwin yn y sacrament. Mae yr offeiriaid Eglwysig ar weinyddiad swper yr Arglwydd, yn darllen "gweddi yr offeiriad," ac efe a gyfarwyddir i ddodi ei law ar y bara ac ar y gwpan; ond pe gwnelai dïacon (sef offeiriad hanner urdd) hyn, efe a fyddai yn euog o gamwedd eglwysig. Mae y weithred hon wedi ei gwneyd yn gospawl drwy 13 a 14 Siarl II., pen. 4, yr hon a ordeinia fel y canlyn;—"Na byddo i un dyn ryfygu cyssegru sacrament swper yr Arglwydd cyn yr

1 Matt. 7. 13, 14. 2 Matt. 22. 14.

ordeinier ef yn offeiriad."[1] Yr ail drosedd dïaconaidd yw cyhoeddi maddeuant. Pan fyddo dïacon yn cael ei ordeinio yn offeiriad, y mae yr esgob yn dywedyd wrtho, "Derbyn yr Ysbryd Glan i swydd a gwaith offeiriad...... pechodau pwy bynnag a faddeuoch, hwy a faddeuir." Yna, pan y mae efe yn myned i ymweled a'r claf, a'r claf yn cyffesu ei bechodau, y mae y llyfr gweddi yn cyfarwyddo fel y canlyn,—" Ar ol y Gyffes hono y gollwng yr offeiriad ef (os efe yn ostyngedig ac yn ffyddlon a'i dymuna) yn y wedd hon:—" Ein Harglwydd Iesu Grist, *yr hwn a adawodd feddiant i'w Eglwys i ollwng* pob pechadur a fyddo gwir edifeiriol, ac yn credu ynddo ef, o'i fawr drugaredd a faddeuo i ti dy gamweddau; *a thrwy ei awdurdod ef a ganiattawyd i mi y'th ollyngaf o'th holl bechodau, &c.*" Ond pe byddai i'r dïacon ollwng neb un fel hyn; wedi cyffes gyffelyb, efe a gyflawnai drosedd eglwysig. Gosodir hyn i lawr gan Dr. Burn yn yr ymadroddion canlynol: "Gall dïacon gyflawni yr holl swyddau ereill yn y ffurf wasanaeth, oddieithr cyssegru y sacrament swper yr Arglwydd, a hefyd gyhoeddi y gollyngdod......Mai yr offeiriad yn unig, ac nid y dïacon, a fedd awdurdod i gyhoeddi y gollyngiad sydd i'w gasglu yn fwyaf eglur oddiwrth weithredoedd yr ordeiniad."[2] Gall y dïacon ddysgu yr anwybodus, ymresymu a'r digred, adferu y gwrthgiliedig, dyddanu y neb a fyddo yn marw, pregethu i'r gynnulleidfa, gweinyddu y bara a'r gwin yn swper yr Arglwydd, ceryddu a chynghori, ac yn y swydd fugeilaidd, "borthi praidd Duw," ond, os bydd iddo gyssegru y bara a'r gwin, a chyhoeddi y gollyngdod, efe a fydd yn ddarostyngedig i gerydd am ei ryfyg.

Camwedd arall y gall gweinidog o'r Sefydliad fod yn euog o'i gyflawni, yw pregethu heb drwydded. Mae yn wir fod pob un sydd yn ol gwasanaeth yr urddiad, "wedi ei gynhyrfu gan yr Ysbryd Glan," a'i "alw yn ol ewyllys ein Harglwydd Iesu Grist," i ddyfod yn weinidog, yn rhwym yn ol siars ein Harglwydd, hyd ag y gall efe, i "bregethu yr efengyl i bob creadur;" ond y mae y canonau wedi penderfynu bod yn rhaid iddo gael trwydded gan yr esgob cystal a "chommissiwn" gan Grist, a galwad yr Ysbryd-Glan, ac urddiad rheolaidd. Os bydd i berson dïofal bregethu unwaith ar y Sabbath; er na byddo ei bregethau namyn traethodion moesol, yn y rhai ni bo le i athrawiaethau achubol yr efengyl,—os derllyn efe bregethau o eiddo ereill, am ei fod yn analluog i gyfansoddi rhai ei hunan, nid oes un awdurdod yn y Sefydliad a all aflonyddu arno; ond, os bydd i weinidog zelog, gan weled plwyfau o'i amgylch yn y rhai y byddo y bobl yn anwâr ac annuwiol, ac yn y rhai ni byddo yr efengyl yn cael ei phregethu yn ffyddlon, fyned dros derfynau ei blwyf i bregethu Crist iddynt, er pregethu o hono â holl ddoethineb Paul, ac i gannoedd gael eu dychwelyd drwy ei weinidogaeth, eto, os y gwna efe hyn heb drwydded yr esgob, efe a fydd yn ddarostyngedig i gosb.[3]

1 *Burn*, Vol. 3. p. 58. 2 *Ibid*, Vol. 3. pp. 59, 60. 3 *Ibid*, Vol. 1. p. 306*b*.

Fel hyn y bu i Mr. Keith, gweinidog capel *May-Fair,* capel cynnorthwyol i St. George's, Hanover Square, weinyddu heb drwydded, am ba achos y'i hysgymmunwyd yn llŷs esgob Llundain, y rhoddid achwyniad yn ei erbyn yn y Cangellty, ac yr anfonwyd yr ysgrifraith *de excommunicato capiendo,* yn ei erbyn.[1]

Ond, pe y gallai gael trwydded yr esgob i bregethu i'r plwyfau esgeulusedig o'i ddeutu, gall y personiaid annuwiol roddi attalfa gyfreithiol i unrhyw weinidog zelog.[2]

Y canlyniad o'r cyfreithiau hyn, yw, bod torfeydd yn byw a marw heb glywed yr efengyl yn cael ei phregethu iddynt; bod gweinidogion annuwiol yn cael eu cefnogi yn eu seguryd, a'u gau athrawiaeth; gweinidogion duwiol yn cael eu hattal yn eu zel, yn myned yn swrth yn y cyflawniad o'u gwasanaeth mewn pentrefi bychain; a lle y dylasai yr efengyl gael ei phregethu i bob creadur, a bod digon o weinidogion efengylaidd i gwblhau y gorchymyn hwn, y mae gorchymyn Crist yn cael ei wneuthur yn ddirym trwy ein traddodiadau ni. (Matt. 15. 3—6.)

Ond y mae cyflwr y person yn rhyddid perffaith mewn cydmariaeth i'r caethiwed y mae ein dysgyblaeth eglwysig, yr hwn sydd ar unwaith mor rydd ac mor ormesol wedi ei roddi ar y curadiaid. Heb fod dan achwyniad o gyflawni un trosedd, heb ei lygru ag un cyfeiliornad, yn ddifrycheulyd o fuchedd, yn brofiadol, galluog, a ffyddlon weinidog i Grist, efe a all gael ei yru o unrhyw esgobaeth, drwy orthrymder y gyfundrefn drwyddedawl, heb amddiffyn, heb brawf, heb adfarn, heb hawl i gwyno, fel pe buasai wedi ei brofi yn euog o'r cyfeiliornadau gwaethaf, neu wedi ei warthruddo â'r camweddau ffieiddiaf. Fel canlyniad i'r ansawdd yma ar y gyfraith, gommeddai Archesgob Whateley ei drwydded i Mr. Kyle, am amlygu ei garedigrwydd tuag at ei frodyr Cristionogol, yn ol gorchymyn Crist, trwy ymuno a'r Cyngrhair Efengylaidd; a datganai yr archesgob ei benderfyniad i wrthalw ei drwydded oddiar bob curad a ymunai â'r unrhyw. Pan fyddo curad yn cael ei fwrw allan o esgobaeth fel hyn, y mae efe mewn perygl o gael ei lwyr ddyfetha: canys y mae yr wythfed canon a deugain yn ordeinio fel y canlyn; "Os bydd i guradiaid a gweinidogion symmud o un esgobaeth i'r llall, ni's derbynir hwy i wasanaethu mewn un modd oddieithr meddu o honynt dystiolaeth ysgrifenedig esgob yr esgobaeth a adawsant, i'w gonestrwydd, eu cymhwysderau, a'u cydffurfiad a chyfreithiau eglwysig Eglwys Loegr." Yr ymarferiad seiliedig ar y canon yma, yw, bod i bob esgob ofyn gan unrhyw weinidog a geisio ei drwydded, dystiolaeth oddiwrth esgob yr esgobaeth yn yr hon y buasai efe yn gweini ddiweddaf. Os na all efe gael hono, rhaid ei

1 *Burn,* Vol. 2. p. 188. 2 *Ibid,* Vol. 1. p. 306.

wrthod; ac oddieithr i gurad a fwrir allan allu cael bywioliaeth, y mae efe bron yn yr un cyflwr a phe y'i bwrid allan o'r Sefydliad Eglwysig.[1]

Fe all rhyw rai dybied, y gallai y rhai ydynt yn teimlo bod eu cydwybod yn cael ei harcholli trwy rwymedigaethau y Sefydliad, eu zel yn cael ei nychu trwy ei chyfyngiadau, a'i rhyddgarwch ei orthrymu trwy yr awdurdod esgobawl, ymneillduo i weinidogaethu yn mysg enwadau ereill. Ond, heb grybwyll y dybiaeth gyffredin fod esgobyddiaeth o ddwyfol osodiad, yr hyn a attaliai rai i ymneillduo, a'r dychymyg gwrthnysig fod ymneillduaeth oddiwrth yr Eglwys Sefydledig yn ymbleidiaeth *(schism)*, yr hyn a attaliai ereill, heb son am ddyrwygiad cyfeillachau hoff, a'r trais a wnelid i chwaethion cû, yn fynych trwy ymneillduad oddiwrth y Sefydliad, y mae yn waharddedig gan un o'r canonau, i bob gweinidog o'r Sefydliad, byth weinidogaethu mewn enwad arall. Yn nghyfrif "yr Eglwys," nid yw yr holl eglwysi ymneillduedig yn ddim amgen na chynnulleidfäoedd o ymbleidwyr, a'u gweinidogion yn llëygion yn byw mewn ymbleidiaeth. Gan hyny, myned yn weinidog ymneillduedig yn ol ein cyfraith eglwysig, yw rhoddi y weinidogaeth i fynu, a dyfod yn llëygwr, mewn cyflwr o ymbleidiaeth. A gwaherddir hyn gan *canon* 76. Profwyd yr effaith yn ddiweddar yn achos Mr. Shore, gweinidog rhagorol cynnulleidfa Bridgetown, yn agos i Totness. Wedi i berson newydd gymeryd meddiant o fywioliaeth Bury Pomeroy, yn yr hwn y mae Bridgetown, efe a hysbysai Mr. Shore, egwyddorion efengylaidd yr hwn ni chymeradwyai, bod yn ofynol iddo ef (Mr. Shore) gael pennodiad adnewyddol i fod yn weinidog cynnulleidfa Bridgetown, mewn canlyniad i ddyfodiad person newydd i'r fywioliaeth; ond ei fod ef yn bwriadu gommedd y cyfryw bennodiad. Gan fod y person newydd yn gommedd y pennodiad, ac esgob Exeter yn galw ei drwydded yn ol, yr oedd Mr. Shore ar gael ei ysgaru drwy drais oddiwrth gynnulleidfa hoff o hono, i'r hon y buasai dros rai blyneddoedd, yn weinidog ffyddlon a difeius. Yn hyttrach na gadael yr eglwys, ar yr hon y gosodasai yr Ysbryd Glan ef yn olygwr, a lle y cawsai amryw seliau i'w weinidogaeth, efe a gofrestrodd ei gapel fel lle addoliad ymneillduedig, ac a barhäodd fel ymneillduwr yn weinidog y gynnulleidfa. Am hyn, efe a wysiwyd i lŷs y Bwäau, yr hwn a benderfynodd na's gallai ymddïosg o'r cymeriad o weinidog Eglwys Loegr, nac, o ganlyniad, weinidogaethu heb drwydded. Y Cyfrin-gynghor, at yr hwn y tröodd am adfarn, a gadarnhäodd ddedryd llŷs y Bwäau; pan yr anfonodd ddeiseb i Dy yr Arglwyddi, y ty hwnw ni wnaent sylw o'i ddeisyfiad, ac o'r diwedd efe a gynghorid gan lŷs y Bwäau, i ymattal rhag gweinidogaethu o fewn talaeth Caergaint; ac efe a rybuddiwyd, os byddai yn ddisylw o ddedryd y llŷs, bod yn rhaid iddo ddysgwyl triniaeth lemach; a dyfarnwyd ef

1 Wedi ei yru o esgobaeth Dublin, ni allai Mr. Kyle gael arch er dïogelwch o fewn yr Iwerddon rhag yr ystorm esgobawl, ac efe a aeth i Jersey.

yn ei dlodi i dalu holl dreuliau y cynghaws, o'r hwn y buasai ei dreuliau ef ei hun eisoes uwchlaw saith gant o bunnau, at yr hyn yn awr yr arddodid tua mil o bunnau yn ychwanegol. Efe a barhäodd i bregethu, ac yn fuan fe welir pa lymder ychwanegol a fwriada yr esgob ei arfer.[1]

Ond yr hyn dan y pen yma o ddysgyblaeth sydd yn ymddangos i mi yn condemnio Undeb Eglwysi y Sefydliad a'r Llywodraeth yn fwyaf oll, ydyw yr annibyniaeth esmwyth, y rhyddid trwyadl oddiwrth bob ceryddon eglwysig a fwynha llawer o weinidogion y Sefydliad er bucheddu mewn modd a gyfrifid mewn unrhyw eglwys rydd yn dra annghyfaddas i'r weinidogaeth. Mae rhai yn llwyr ddyeithr i athrawiaethau yr efengyl; a rhai yn ychwanegu at gau athrawiaeth, ymarferiadau Puseyaidd, trwy y rhai y tywysir eu cynnulleidfäoedd i Babyddiaeth; mae rhai yn amlygu ysbryd bydol a chybyddlyd, trwy ymgyfreithio i godi eu dyledion, a mynych ymryson a'u plwyfolion; rhai a ddylynant bleserau llënyddiaeth, nes llwyr esgeuluso dwyfyddiaeth o'r bron; rhai a dreuliant oriau a dyddiau i saethu, ereill a dreuliant fwy o amser ac o arian, i hela; ceir enwau llawer o honynt yn mysg y rhai a fyddant mewn dawnsfeydd a rhedegfeydd; ac ereill a ddarllenant i'w cynnulleidfäoedd bregethau a adysgrifiwyd o lyfrau, neu a brynwyd yn ysgrifenedig;[2] ac wedi myned drwy yr ychydig waith a ofynir

1 A ganlyn sydd wedi ei dalfyru o'r *Leeds Mercury*, am Rag. 30:—

"Y Parch. J. Shore.—"Yr ydym yn codi yr hysbysiad a ganlyn o'r *Plymouth and Devonport Journal*:—'Gohebydd o Totness a ddywaid bod y *warrant* wedi ei rhoi allan i gymeryd y Parch. J. Shore i ddalfa, am ddïystyrwch i'r llŷs, ac am y costau a achlysurid trwy erlyniad creulon esgob Exeter.'"

Erbyn hyn, y mae yn hen chwedl adnabyddus i'r cyffredin ddarfod i'r gwr duwiol oddef carchariad am fisoedd, yn unig fel ffrwyth erlyniad yr esgob arno am bregethu fel ymneillduwr, ac yn ol pob tebyg, cawsai farw yn y carchar, o ran yr esgob teimladwy.

2 Bu cyfaill i mi yn ddiweddar yn gwrandaw pregeth i Robert Hall, wedi ei thryfrithaw â rhai ymadroddion uchel eglwysaidd, yn cael ei thraddodi yn eglwys y plwyf yn Hythe. Yr ydwyf yn adwaen gwr, yr hwn a ddywedodd wrthyf ychydig yn ol, ei fod ef yn cael ei fywiolaeth drwy ysgrifenu deuddeg pregeth yn yr wythnos i gynnifer o ohebwyr offeiriadol a feddai. Dywedai eglwyswr a adwaen, wrthyf unwaith, nad ysgrifenasai efe bregeth erïoed, ac na's gallai ysgrifenu yr un. Cyfrifais yn ddiweddar 150 o gyfrolau o bregethau, ail a thrydydd gradd, yn Llyfr-gell offeiriad, lle ni chynnwysid mwy na 300 o gyfrolau oll. Ac ymddangosodd yr Hysbysiadau canlynol yn ddiweddar yn y *Record*;—

"Pregethau ysgrifenedig.—Mae gweinidog cynnulleidfa fawr yn Llundain, yn barod i gyflenwi offeiriad arall, o'i ystor o bregethau gwreiddiol, neu gyfansoddi pregethau ar destunau rhoddedig ac achlysuron. Ymohebiaeth yn gyfrinachol. Am gynllun ac ammodau, cyfeirier at D. E., Post Office, Goswell Street Road, Llundain."

PREGETHAU YSGRIFENEDIG.

"At offeiriaid, y rhai o herwydd afiechyd, neu ryw achosion ereill a rwystrir i gyfansoddi eu pregethau eu hunain, cynnygia yr hysbysydd ei wasanaeth ar ammodau rhesymol. Cyfansoddir pregethau gwreiddiol ar unrhyw destunau.
O. Y. Anfonir cynllun os dymunir.
Cyfeirier, S. S. W. Post Office, Winchester."

gan y Llywodraeth, treuliant y gweddill o'u hamser ar y gorchwylion mwyaf gwageddol. Mae y rhai hyn oll yn cael eu goddef yn dawel yn eu hesgeulusdra. Nid oes gan eu heglwysi un hawl gyfreithiol i gwyno, ni all yr esgobion wneyd dim ond rhoddi y gyfraith mewn grym, gofyniadau yr hon y maent yn gyflawni, a than aden y Llywodraeth gallant her-feiddio ymyriad.

Y mae ystyried y modd y mae Undeb yr Eglwys â'r Llywodraeth yn awdurdodi y dall i dywys y dall, y meirw i fod yn esgobion y meirwon, yn alarus dros ben i bob un a ystyriodd i ba ddyben yr ordeiniodd Crist y swydd weinidogaethol, a'r effeithiau a ddylifant o weinidogaeth ffyddlon. A ddylai y rhai sydd yn gweled y drwg anferth ei ddal i fynu trwy aros o fewn y Sefydliad? Fe ddwg noddogaeth dorfeydd i'r weinidogaeth yn barhaus er mwyn y bywiolaethau, o rai na's meddant dalent na chwaeth iddi, heb dduwioldeb, â heb wybodaeth; a'r Llywodraeth gan eu noddi rhag canlyniadau cyfiawn eu hanghymwysder, a'u gedy at gyflawn ryddid yn barhaus i bregethu pregethau dynion ereill, esgeuluso pob llafur gweinidogaethol, ac ymollwng i seguryd gwarthus, ond iddynt hwy fedyddio pob plentyn, a chladdu pob corph, cyhoeddi bod y Llyfr gweddi yn hollol ysgrythyrol; ac na throseddont y canonau trwy ymgyfeillachu âg ymneillduwyr duwiol.

Ac yn mysg ereill, ymddangosai yr hysbysiadau canlynol yn Llyfr-restr Baynes, am 1847,

Cyfres gywir o bregethau gwreiddiol, mewn llaw ysgrif, 56 mewn nifer, wedi eu hysgrifenu yn eglur, am bob Sabboth, a'r prif wyliau yn y flwyddyn. Mae y pregethau hyn yn uniawn-gred mewn athrawiaeth, ymarferol yn eu testynau, goleu yn eu harddull, ac wedi eu hysgrifenu oll o fewn y deuddeng mis diweddaf.—Pris £30.

"Cronfa o bregethau gwreiddiol, yn gymhedrol o ran athrawiaeth, ac yn dra ymarferol, wedi eu hysgrifenu gan offeiriad wedi rhoddi i fynu weinyddu, at wasanaeth pulpud Eglwys Loegr, ar amryw achlysuron. Hollol ddiweddar, pris £4 y dwsin.

"Cyfres o rai gwreiddiol gan offeiriad arall, cyffelyb i'r rhai blaenorol, am yr un bris y dwsin.

"Tri ugain o bregethau gwreiddiol, gan offeiriad, Maen-sgrifawl, mewn cyd gordiad perffaith ag Erthyglau athrawiaethol yr eglwys, yn cynnwys rhai ar wahanol ddyddiau Eglwys Loegr. Ychydig a wybyddir am y rhai hyn, gan nad oes nemmawr o honynt ar werth. Pris y triugain, £2 15s.

"Ugain etto, gan yr un *Offeiriad*, Maen-sgrif, ar brif wyliau yr Eglwys. Pris yr Ugain, 15s.

"Mae y ddau Gasgliad uchod yn cynnwys 80 o bregethau, yn cynnwys cyfres werthfawr i Dduwinyddion lled Efengylaidd."

BIBLIOTHECA BODLEIANA

ADRAN VI.—*Dylanwad yr Undeb ar Efengyleiddiad y wlad.*

Nyni a welsom pa reswm sydd i ofni fod miloedd o'r offeiriaid yn ddynion annychweledig, yn rhai a aethant i'r weinidogaeth oddiar ystyriaethau bydol, yn rhai nad ydynt yn deall yr efengyl, yn rhai anhoff o weinidogion efengylaidd eu cymmydogaeth, yn rhai na chefnogant unrhyw sefydliad efengylaidd, ond a ymdröant mewn pleserau bydol, gan esgeuluso eu plwyfau, ac heb fod na'r Llywodraeth na'r esgobion yn cadw arolygaeth effeithiol arnynt. Mae eu plwyfydd o'r bron yn aros mewn dygn anwybodaeth o'r efengyl. Heblaw hyny, y mae poblogaeth Lloegr yn cynnyddu hyd oddeutu 200,000 yn flyneddol; a chan na's gall ammaethyddiaeth gael gwaith i lawer mwy nag sydd ar waith ganddo eisoes, y mae y myrddiynau newyddion yma yn gweithio eu ffordd i'r dinasoedd yn benaf, lle y mae gweinidogion yr holl enwadau yn rhy fach eisoes, a rhaid eu hystyried fel ychwanegiad at boblogaeth sydd yn amddifad o addysg grefyddol. Fe ddylai yr efengyl gael ei phregethu i'r holl filiwnau diddysg hyn, yn y pentrefi a'r dinasoedd; y mae yn angenrheidiol er eu llesäad.

Caniattäer i mi yma, attolygu ar y darllenydd i ddwys ystyried y rhanau canlynol o air Duw :—

DINYSTR YR ANNUWIOL.—" *Synied y cnawd sydd elyniaeth yn erbyn Duw: canys nid yw ddarostyngedig i ddeddf Duw; oblegid ni's gall chwaith......A chwithau a fywhäodd efe, pan oeddych feirw mewn camweddau a phechodau .....Eich bod chwi gynt yn weision i bechod...... Oddieithr geni dyn drachefn, ni ddichon efe weled teyrnas Dduw......Yr oeddym ni wrth naturiaeth, yn blant digofaint, megis ereill.......Cynnifer ag sydd o weithredoedd y ddeddf, dan felldith y maent; canys ysgrifenwyd, Melldigedig yw pob un nid yw yn aros yn yr holl bethau a ysgrifenwyd yn llyfr y ddeddf, i'w gwneuthur hwynt......Oblegid pawb a bechasant, ac ydynt yn ol am ogoniant Duw......Cyflog pechod yw marwolaeth.*"

IACHAWDWRIAETH O RAS TRWY FFYDD.—" *Canys felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd ei uniganedig Fab, fel na choller pwy bynnag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragywyddol......Yr hwn sydd yn credu yn y Mab, y mae ganddo fywyd tragywyddol...... Y neb a gredo ac a fedyddier a fydd cadwedig......Trwy hwn y cyfiawnheir pob un sydd yn credu, oddiwrth yr holl bethau......A hyn yw y bywyd tragywyddol; iddynt dy adnabod di, yr unig wir Dduw, a'r hwn a anfonaist ti, Iesu Grist...... Yr ydwyf yn cyfrif pob peth yn golled, er mwyn ardderchowgrwydd gwybodaeth Crist Iesu fy Arglwydd.*"

BOD YR EFENGYL I GAEL EI PHREGETHU.—" *Ewch i'r holl fyd, a phregethwch yr efengyl i bob crëadur......A hwythau a aethant allan,*

*ac a bregethasant yn mhob man, a'r Arglwydd yn cydweithio......Dyledwr ydwyf i'r Groegiaid ac i'r barbariaid hefyd, i'r doethion ac i'r annoethion hefyd. Felly, hyd y mae ynof fi, parod ydwyf i bregethu yr Efengyl i chwithau hefyd, y rhai ydych yn Rhufain......Angenrhaid a osodwyd arnaf, a gwae fydd i mi oni phregethaf yr Efengyl!......Eithr bod yr Ysbryd Glan yn tystiolaethu i mi yn mhob dinas, gan ddywedyd fod rhwymau a blinderau yn fy aros. Ond nid wyf fi yn gwneuthur cyfrif o ddim, ac nid gwerthfawr genyf fy einioes fy hun, os gallaf orphen fy ngyrfa trwy lawenydd, a'r weinidogaeth a dderbyniais gan yr Arglwydd Iesu, i dystiolaethu efengyl gras Duw......A hwy a'u galwasant hwynt ac a orchymynasant iddynt nad ynganent ddim, ac na ddysgent yn enw yr Iesu. Eithr Pedr ac Ioan a attebasant iddynt, ac a ddywedasant, Ai cyfiawn ger bron Duw, wrando arnoch chwi yn hyttrach nag ar Dduw, bernwch chwi: canys ni allwn ni na ddywedom y pethau a welsom ac a glywsom......Ac wedi iddynt alw yr apostolion attynt, a'u curo, hwy a orchymynasant iddynt na lefarent yn enw yr Iesu, ac a'u gollyngasant ymaith. A hwy a aethant allan o olwg y cynghor yn llawen, am eu cyfrif hwynt yn deilwng i ddioddef ammharch o achos ei enw ef. A beunydd yn y deml, ac o dy i dy, ni pheidiasant a dysgu, a phregethu Iesu Grist......A bu yn y dyddiau hyny erlid mawr ar yr eglwys oedd yn Jerusalem: a phawb a wasgarwyd ar hyd gwledydd Judea a Samaria, ond yr apostolion. A'r rhai a wasgarasid a dramwyasant gan bregethu y Gair."*

EFFEITHIAU PREGETHU.—*A'r rhai a wasgarasid o herwydd y blinder a godasai ynghylch Stephan, a dramwyasant hyd yn Phenice, a Cyprus, ac Antiochia,......gan bregethu yr Arglwydd Iesu. A llaw yr Arglwydd oedd gyda hwynt; a nifer mawr a gredodd, ac a drodd at yr Arglwydd*"[1]

Mae yr ymadroddion hyn yn dangos yn eglur berygl a dystryw y rhai ydynt yn ddyeithr i Grist; gwerth yr Efengyl; mai ewyllys eglur Crist yw, bod iddi gael ei phregethu i bob creadur; bod yr apostolion a'r cyn Gristionogion yn pregethu Crist yn mhob man, ac na's goddefent i unrhyw awdurdod eu lluddias; a bod Duw yn bendithio eu llafur er dychweliad pechaduriaid. Tra fyddo y rhanau hyn o'r ysgrythyr yn ein golwg ni's gallwn ammeu nad yw dysgyblion Crist yn Lloegr yn rhwym i'w wneyd ef yn hysbys i bawb yn y wlad sydd yn ddyeithr i ffordd iachawdwriaeth, ac yn awyddus i wrando. Y mae ufuddhau i'r gorchymyn yma o eiddo Crist,

1 Rhuf. 8. 7. Eph. 2. 1. Rhuf. 6. 17. Ioan 3. 3. Eph. 2. 3. Gal. 3. 10. Rhuf. 3. 2; a 6. 23. Ioan 3. 16, 36. Marc 16. 16. Act. 13. 39. Ioan 17. 3. Phil. 3. 8. Marc 16. 15, 20. Rhuf. 1. 14, 15. 1 Cor 9. 16. Act. 20. 23. 24; a 4. 18—20; a 5. 40—42; a 8. 1, 4; a 11. 19—21.

cyflawni y llafur cariad yma, *cyhoeddi iachawdwriaeth o ras trwy ffydd i bob un o fewn y wlad a fyddo yn foddlawn i wrando, yn hollol o fewn eu cyrhaedd.*

Os oes tair mil allan o un fil ar bymtheg gweinidogion y Sefydliad, yn ddynion efengylaidd, a difrifol, gallai y tair mil hyn trwy genhadaeth gartrefol wedi ei hiawn drefnu, ddwyn yr efengyl i bob gwlad o'r bron. Nid yw holl blwyfau Lloegr a Chymru yn ddeuddeng mil, ac mor hawdd a fyddai i bob gweinidog efengylaidd bregethu unwaith yn y mis i bob un o'r tri plwyf cyfnesaf i'r eiddo ei hun! Gan hyny, os cymmerwn yn ganiattâol fod tair mil o weinidogion efengylaidd yn y Sefydliad, gallai y rhai hyn yn rhwydd bregethu yr efengyl bob mis mewn naw mil o blwyfau heblaw yr eiddynt eu hunain. Cynnyrchai y cyfryw ymdrechion gorswyddol, fywyd newydd yn eu cynnulleidfäoedd hwy eu hunain; a phob eglwys gan efelychu ymröad ei gweinidog, a ddeuai yn graidd *(centre)* efengyleiddiad i'w holl gymmydogaeth. Yr hyn a wnaeth eglwys efengylaidd Lyons yn y blynyddoedd diweddar, dan ei gweinidogion duwiol, er goleuo a bendithio amrywiol bentrefi cymmydogol, dïau y gallai y tair mil eglwysi Seis'nig ei wneuthur yr un flunud, dan eu gweinidogion efengylaidd. Pe byddai dynion da wedi eu rhyddhau, y mae digonedd o honynt yn y Sefydliad i wneuthur yr efengyl yn hysbys i bawb trwy yr holl dir a fyddent yn ewyllysgar i wrando.

Ond gellid gwneyd llawer mwy na hyn ar unwaith. Heblaw y tair mil gweinidogion efengylaidd ydynt yn yr Eglwys Sefydledig, y mae tua chwe mil o weinidogion efengylaidd eglwysi rhydd, y rhai ydynt yn y cyffredin yn fwy cymhwys na'u brodyr o'r Sefydliad i gyfarch y tlodion, trwy yr ymarferion poblogaidd i'r rhai y'u harferwyd dan drefniad yr eglwysi rhydd. Dylai y rhai hyn oll yn ol deddf Crist, fod yn un mewn calon a gweithred (Ioan 17. 20, 21.) Dylai pob un dderbyn y naill y llall i'w calonau ac i'w tai, fel y derbyniodd Crist hwy, (Rhuf. 16. 7; a 14. 1.) Dylent oll fod o un galon ac un enaid (Act. 4. 32.) Hwy a ddylent oll gynnorthwyo y naill y llall yn rhyfel eglwys Crist yn erbyn annghrediniaeth y byd (Phil. 1. 27.) Meddyliwch am y naw mil gweinidogion hyn i Grist, yn cyduno o'r galon i wneyd eu hegni er llesäad ysbrydol un filiwn ar bymtheg o'u cydwladwyr; i gynnal cyfarfodydd mynych er ymgynghoriad a gweddi; i bregethu yn mhulpudau eu gilydd; i sefydlu pregethu cyson o'r efengyl yn mhob plwyf trwy y deyrnas, i gyd gynnal cyfarfodydd y Cyngrhair Efengylaidd; i amlygu i'r eglwysi ac i'r byd undeb dylynwyr Crist, yn lle unffurfiad marwaidd llygredig; ac i gymhell eu cynnulleidfäoedd i gydymdrechu mewn cariad i wneuthur daioni i'w hamryfal gymmydogaethau; byddai i'r ymdrechion hyn, dan gynnorthwyon yr Ysbryd Glan, yr hwn nid attelir oddiwrth rai difrifol mewn ymdrech a gweddi, achlysuro adfywiad

mawr ar grefydd drwy yr holl wlad. Ond, os gallent wneyd hyn, y maent yn rhwym i'w wneyd; canys y "neb a fedr wneuthur daioni ac nid yw yn ei wneuthur, pechod yw iddo." Iago 4. 17. Fel Paul, yr ydym ni yn ddyledwyr i wneuthur cymmaint o ddaioni ag a allom i'r byd. Rhuf. 1. 14, 15.

Ond y mae yr Undeb yn gwahardd yr ymdrechion efengylaidd hyn, ac felly yn sicrhau parhäd anwybodaeth myrddiynau. Y mae wedi peri ordeinio llawer o weinidogion annuwiol, yn eu cynnal yn dawel yn eu hannuwioldeb, ac yn cau yr efengyl o'u plwyfau. Gwaherddir undeb Cristionogion i efengyleiddio y wlad, a chynhelir i fynu undeb yr eglwysi â'r byd. Dylai Cristionogion gydymdrech dros Grist a'i achos; ond y mae gweinidogion y Sefydliad, tra yn ymgyfathrachu â'i elynion mewn cyfymweliadau ac ar achlysuron ereill, yn golygu gweinidogion duwiol yr eglwysi rhydd, yr Annibynwyr, y Bedyddwyr, a'r Trefnyddion, yn rhy fynych, fel treiswyr ymbleidgar. Gelwir ymbleidiaeth yn undeb, ac undeb a warthnodir fel ymbleidiaeth. Yr efengylwyr, y rhai ydynt yn cyrhaedd angenion ysbrydol y tlodion yn benaf, a heb y rhai y byddai tywyllwch moesol y tir yn ddyfnach ac yn fwy marwol nag ydyw, a ddarlunir yn niweidiol; ac y mae hyd yn nod Eglwyswyr difrifol yn ofni rhoddi eu wyneb iddynt, a'u cefnogi. Nid yn unig y mae grym cydweithrediad yn cael ei golli, ond y mae gweinidogion Crist yn treulio eu hamser i wrthweithio ymdrechion y naill y llall. Yn nghyd, hwy a efengyleiddient y wlad; ond y mae yr Undeb wedi gwannychu y naill a'r llall yn effeithiol,—yn gyntaf, trwy orfodi ei weinidogion i ymneillduaeth ymbleidiol oddiwrth eu brodyr; ac yna trwy annghymmeradwyo ymdrechion gwahanredol gweinidogion ag eglwysi annghydffurfiol.

Wedi cyfodi attalfeydd annorfodol fel hyn yn ffordd cydymdrechion Cristionogol, gwaith nesaf yr Undeb gwladwriaethol yw lluddias ymdrechion gwahanredol Eglwyswyr aiddgar i efengylu y wlad. Ni all un gweinidog bregethu mewn un eglwys neu gapel yn unrhyw blwyf, heb drwydded yr esgob a chydsynied y person; a rhag y byddai iddo drwy gydsynied yr esgob, gynnull pobl yn y plwyfau tywyll hyn, i ysgoldy, ysgubor, neu fwthyn, i wrando gair Duw, y mae *canon* 71 yn ordeinio "na byddo i un gweinidog bregethu mewn un ty annghyoedd," dan berygl cael ei ddiswyddo am y trosedd cyntaf, a'i ysgymmuno am yr ail. Gwnaeth y cyfreithiau hyn eu gwaith. Nid oes un ymdrech yn cael ei wneyd gan weinidogion duwiol y Sefydliad i bregethu yr efengyl yn gyffredinol i'w cydwladwyr. Gan fod 6681 o blwyfau yn meddu llai na 300 o eneidiau yn mhob un, y mae dynion iachus a dysgedig yn treulio eu nerth ar 200 i 300 o bentrefwyr, â'r rhai, ni's gallant gael nemmawr gyfeillach fugeilaidd, gan fod eu plwyfolion yn llafurio ar eu tiroedd ar hyd y dydd; ac felly y maent yn gadael miloedd o'u hamgylch yn yr anwybodaeth mwyaf trylwyr o'r efengyl. Nid oes un afreoleidd-dra haelfryd yn torri ar y tawelwch angeuol; nag un gwyn yn

torri ar y dystawrwydd. Mae y gyfundrefn blwyfol wedi claddu pawb mewn trymgwsg, ac yn ngolwg myrddiynau o drengedigion, gellid meddwl fod holl weinidogion y Sefydliad wedi gwneyd defnydd o amddiffyniad Cain, " Ai ceidwad fy mrawd wyf fi ?"

Mae yn wir y gwnaed ymdrech ffyddlon unwaith yn ein dydd ni, mewn cyssylltiad â'r Eglwys Sefydledig i oresgyn gororau marwolaeth.—Ffurfiwyd Cymdeithas Genhadol Gartrefol yn yr Iwerddon, yr hon a gynnwysai yn mysg ei chefnogwyr oreuon gweinidogion y wlad, ac ydoedd o'r dechreu yn dra llwyddiannus. Ychwanegid gorsaf at orsaf, a chylchdaith at gylchdaith, ac un gweinidog ar ol y llall a ymunai a'r frawdoliaeth zelog, hyd onid oedd y genhadaeth yn gorchuddio yr holl ynys o'r bron. Pob plwyf mewn syndod a glywai athrawiaeth gras yn cael ei phregethu, nid gan wallgof-ddyn, ond gan weinidogion coethaf a galluoccaf y Sefydliad, yn ol eu gilydd. Protestaniaid a ymdyrrent i wrando, Pabyddion a ddechreuent ymofyn, miloedd a glywsant yr efengyl o rai na's clywsent mo honi o'r blaen. Ni ddisgynodd bendith Ddwyfol mor amlwg ar unrhyw ymdrech arall o eiddo zel Brotestanaidd i lesbau y Werddon ; ac yr oedd yr olygfa yn myned yn fwy dysglaer bob blwyddyn, pan y penderfynodd y gelyn attal ei ffyniant yn mhellach. Yr oedd yr offeiriaid segur a bydol, yn cael eu blino a'u darostwng wrth weled â pha ryw zel y pregethai y gweinidogion cymdeithasol, ac â'r fath awyddfryd y cyrchai y bobl i'w gwrando. Dygid cŵyn cyfraith yn erbyn un o'r pregethwyr cenhadol hyn, am fyned i weinyddu mewn plwyf heb gydsynied y person, a chondemniwyd y pregethwr. O'r pryd hyny allan, gwelid gwrthwynebiad yr esgobion Gwyddelig i'r cynllun yn fwy penderfynol ; ac o'r diwedd, cafodd y ffordd dra effeithiol hon o ail ennyn duwioldeb yn mysg Protestaniaid, ac o ennill Pabyddion at yr efengyl, ei chyhoeddi yn wrth-ganonaidd ac afieolaidd. Trwy y dyfarniad hwnw rhoddwyd pen ar y ddadl. Y mae gweinidogion bydol ac annychweledig yn y Sefydliad yn ddigon diogel yn bresenol oddiwrth draws-ymwthiad eglwyswyr efengylaidd i'w diffeithfäoedd moesol, y mae rhagfarnau wedi eu meithrin gan eglwys Wladwriaethol yn lluddias torfeydd i wrando ar ymneillduwyr, ac y mae yr efengyl yn cael ei chau allan o filoedd o blwyfau yn y rhai y gellid ei phregethu yn hawdd. Onid yw y dynion duwiol, y rhai drwy ymlynu wrth y Sefydliad a gynhaliant i fynu y gyfundrefn yma, yn ymddangos yn gyfrifol am y canlyniadau ?

### ADRAN VII.—*Dylanwad yr Undeb ar Undeb Cristionogion.*

O ddysgyblion lluosog Crist, a adgenhedlwyd gan yr Ysbryd, a gyfiawnhawyd trwy ffydd, ac ydynt yn byw mewn ufudd-dod i orchymyn Crist yn yr ynysoedd Prydeinaidd, y mae llawer i'w cael yn eglwysi Sefydledig Lloegr a'r Iwerddon, a llawer mwy yn yr eglwysi rhydd, yr Annibynwyr, y Bedyddwyr, y Wesleyaid, a'r Henaduriaid, yn Lloegr, ac yn yr eglwys Henaduriaethol ac eglwysi rhydd ereill yn yr Alban a'r Iwerddon. Y mae y rhai hyn oll dan lawer o rwymau i fod yn un mewn calon ac ymdrech i ddwyn yn mlaen deyrnas Crist. Praidd ydynt o ddïadell Crist, cydweision yn ei dŷ ef, cydfilwyr yn ei fyddin, aelodau o'i gorph, a brodyr o deulu Duw. Ac os byddant hwy yn ymranedig a chynhenus, y mae mor annaturiol a gwaradwyddus a phe byddai i braidd o'r un ddïadell, gweision o'r un tylwyth, milwyr yn yr un fyddin, aelodau o'r un corph, a brodyr o'r un teulu, fod yn elynion i'w gilydd.

Mae y rhesymmau dros eu hundeb yn lluosawg ag amlwg. Y maent yn blant un Tad, yr hwn sydd yn eu caru oll, ac yn ewyllysio eu bod yn un ; y maent yn weision un Gwaredwr, yr hwn a'u prynodd oll â'i waed, a'r hwn hwn a ddianrhydeddid ac a ofidid trwy eu bod heb fod yn un. Maent yn dal yr un gwirioneddau mawrion, yn ufuddhau i'r un awdurdod ; yn ceisio yr un ffunud ogoneddu Duw ac achub eneidiau ; y maent hwy oll, a hwy yn unig yn anrhydeddu Crist yn eu bucheddau ; y maent oll wedi eu sancteiddio gan yr un Ysbryd, wedi cofleidio yr egwyddorion ardderchoccaf, a'u haddurno a'r rhinweddau cymdeithasol mwyaf. Y maent oll yn llafurio i wasanaethu eu cyd greäduriaid, y maent yn gwrthwynebu drygedd ac annuwioldeb y byd â chyffelyb zel. Fe fydd i Dduw eu croesawi oll fel ei blant mabwysiedig i'r nefoedd, a chyd fwynäant i dragywyddoldeb yn yr ymarferiad o serchawgrwydd perffaith tuag at eu gilydd.

Mae y gwirioneddau ar y rhai y cyttunant yn annghydmarol fwy na'r rhai y gwahaniaethant arnynt ; eu llesion cyffredinol yn llawer pwysiccach na'u gwrth-lesion ; eu dedwyddwch eu hunain a daioni y byd yn gyssylltiedig hanfodol â'u hundeb ; ac y mae eu hundeb mor bwysig fel y'i datgenid gan yr Arglwydd Iesu Grist yn nod o rai yn ddysgyblion iddo ef, yn rhagarweiniol i grediniaeth y byd ynddo ef, ac am hyny yn ddyledswydd angenrheidiol arnynt. Gwrandawn ar ei eiriau ef a geiriau ei apostolion ;—" *Gorchymyn newydd yr wyf yn ei roddi i chwi, Ar garu o honoch eich gilydd ; fel y cerais i chwi, ar garu o honoch chwithau bawb eich gilydd. Wrth hyn y gwybydd pawb mai disgyblion i mi ydych, os bydd gennych gariad i'ch gilydd*[1] ......*Ac nid wyf yn gweddïo dros y rhai hyn yn unig, eithr dros y*

1 Ioan 13. 34, 35.

*rhai hefyd a gredant ynof fi trwy eu hymadrodd hwynt; fel y byddont oll yn un; megis yr wyt ti, y Tad, ynof fi, a minnau ynot ti; fel y byddont hwythau un ynom ni:* FEL Y CREDO Y BYD MAI TYDI A'M HANFONAIST I.1......*Yr hwn sydd yn y ffydd, derbyniwch attoch, nid i ymrafaelion rhesymau.*2......*O herwydd pa ham, derbyniwch eich gilydd, megis ag y derbyniodd Crist ninnau i ogoniant Duw.*3......*Ac yr wyf yn attolwg i chwi, frodyr, graffu ar y rhai sydd yn peri annghydfod a rhwystrau yn erbyn yr athrawiaeth a ddysgasoch chwi*; *a chiliwch oddiwrthynt.*4......*Gras fyddo gyda phawb sydd yn caru ein Harglwydd Iesu Grist mewn purdeb.*"5 Gan hyny, y mae pa beth bynnag a attalio yr undeb yma, ac a gefnogo ymraniad, yn llygru yr eglwysi ac yn attal cynnydd crefydd yn y byd.

Ond, rhaid rhoddi terfyn ar Undeb eglwysi y Sefydliad a'r Llywodraeth, hyny yw, â'r byd, neu bydd yn anmhossibl bod undeb rhyngddynt âg eglwysi ereill.

Yn ol canonau y Sefydliad, y gyfraith awdurdodol, wrth yr hon y llywodraethir ei gweinidogion, ac â'r hon y rhaid i benderfyniadau ei hesgobion a'i barnwyr eglwysig gydffurfio, y mae holl eglwysi yr Annibynwyr, y Bedyddwyr, y Wesleyaid, a'r Henaduriaid, a'u gweinidogion, yn nghyda phawb a'u cydnabyddant yn wir eglwysi, a'u gweinidogion yn wir weinidogion, i gael eu hysgymmuno.6 Y maent yn gauedig allan o gymdeithas Cristionogion fel paganiaid a phublicanod, gyda'r rhai ni weddai i Gristionogion gymdeithasu, a'r rhai ydynt i gael eu cau allan o swper yr Arglwydd. Y mae rhybuddegau esgobol yn aml mewn cydffurfiad a'r canonau hyn, yn dyfarnu yr eglwysi puraf, y Cristionogion mwyaf aiddgar, a'r gweinidogion mwyaf ymroddgar a fedd y wlad hon, fel ymbleidwyr â'r rhai ni ddylai yr offeiriaid feddu nemmawr o gymdeithas. Pa beth a ellir ei ddysgwyl oddiwrth ddynion beilchion bydol-fryd, pan ysgrifenai un o'n hesgobion efengylaidd enwoccaf yn ei rybyddeg yn ddiweddar fel hyn? "Llawer llai y mae ein Heglwys yn gorph sectaidd, fel y mynai rhai ei galw, hyny yw, nifer fach o ddynion wedi eu hysgaru oddiwrth y corph o Gristionogion, trwy ryw neillduolderau; ond eglwys genedlaethol Llywodraeth, pendefigion, a phobl, ein gwlad grefyddol yn gartrefol a thramor......Rhodiwch mewn cariad a doethineb sanctaidd tuag at wahanol gyrph o Gristionogion nad ydynt o'n heglwys ni. *Goreu po leiaf y'n tyner i gyfeillgarwch na dadl gyda'r naill na'r llall o honynt.*" Yr apostol Paul a ddywedai wrthym, "*Yr hwn sydd wan yn y ffydd derbyniwch attoch* (*proslambanesthe*7);" "Der-

1 Ioan 17. 20, 21. 2 Rhuf. 14. 1. 3 Rhuf. 15. 7. 4 Rhuf. 16. 17. 5 Eph. 6. 24. 6 Gwel Canonau 9—12, 27.

7 *Proslambano*, yn y cyflais, yw cymmeryd atto ei hun, fel cynnorthwywr, neu gymhar. Yn y Testament Newydd yn gyffredin, y mae yn dynodi cymdeithas amlwg a digêl y naill a'r llall, ac nid unrhyw deimlad yn unig, (Act. 17. 5; a 18. 26; a 28. 2. Philem. 12, 17, &c. Y gymdeithas agored rwyddgalon yma a'n holl frodyr Cristionogol, a gymhellir gan Paul, ac a warafunir gan yr esgob.

byniwch y naill y llall (*proslambanesthe allêlous*) yn agored i gyfeillach rydd." Ond ymddengys i'r esgob e. wog hwn yn "ddoethineb sanctaidd" ochel pob cyfryw gyweithasrwydd. A all hyn fod "y ddoethineb sydd yn disgyn oddi uchod," (Iago 3. 15)? Pa beth a allwn ni ei ddysgwyl oddiwrth bersoniaid ffol chwyddedig, pan ysgrifenai un o'r rhai galluoccaf a duwiolaf o'n gweinidogion eglwysig yn ddiweddar fel hyn, wrth ddwyn yn mlaen ryw resymmau pa ham nad ymunai a'r Cyngrhair Efengylaidd? "A llafaru droswyf fy hun, yr wyf yn fy nheimlo fy hun yn rhwym o'm bodd i'r eglwys Esgobawl Sefydledig yn Lloegr, *ac ni's gallaf wneuthur dim a suddo yr eglwys hono fel un o amryw sectau cyfradd yn Lloegr.*" Y mae cymdeithasu âg ymneillduwyr yn y Cyngrhair Efengylaidd yn dodi gweinidogion ac aelodau y Sefydliad ar gydraddiaeth â gweinidogion ac aelodau yr eglwysi rhydd; a dyma y peth ni's gall y gweinidog enwog hwn ei wneyd. Er ei ymneillduad ef, nid yw y Sefydliad namyn un yn mysg amryw sectau cyfraddol yn Lloegr; a'i haelodau duwiol ydynt yn rhwym trwy orchymyn apostolaidd i dderbyn aelodau o eglwysi ereill fel brodyr, hyny yw, fel eu cydradd yn yr Arglwydd;—ond yna, am ei bod yn sefydledig—hyny yw, am ei bod yn unedig a'r byd, yn cael ei gwaddoli, ei hanrhydeddu, a gwenieithio iddi gan y byd, ni's gall y gweinidog enwog crybwylledig eu cydnabod felly. Gan hyny, y mae yn amlwg mai yr Undeb yw y rhwystr mawr i frawdoliaeth gydag ef. Pe na byddai yr honiadau o Sefydliad i'w dal i fynu, efe a gymdeithasai â'r da a'r doeth o enwadau ereill; ond ni wiw peryglu uchafiaeth y Sefydliad, ac er ei fwyn rhaid iddo ochel eu cymdeithas. Pan fyddo ei ddysgyblion yn cael eu dïanrhydeddu a'u gorthrymmu yw y pryd arbenig y geilw yr Arglwydd Iesu Grist ar bawb nad ydynt yn y cyffelyb drallod i'w harddelwi, eu hanrhydeddu, a'u cynnorthwyo.[1] Am nad yw brodyr Crist yn yr eglwysi ymneillduol yn cael eu hanrhydeddu gan y Llywodraeth, y dylai eu brodyr eglwysig yn arbenig ddangos pob tiriondeb brawdol attynt; ond y mae yr Undeb yn chwyddo meddyliau, ac yn gwyro barn dynion galluog a da yn y Sefydliad yn y fath fodd, fel y meddyliant mai eu dyledswydd yw chwanegu a pharhau eu gorthrymder.

Yn gyfattebol i'r canonau a'r gosodiadau hyn ysywaeth, y mae arfer gyffredinol y Sefydliad. Ni all un ymneillduwr ieuanc, pa mor fawr a fyddo ei alluoedd, pa mor amheuthyn bynnag ei gyrhaeddiadau, a pha mor gymmeradwy bynnag a fyddo ei nodweddiad, gymeryd urddiad yn Nghaergrawnt nag yn Rhydychain. Ni ellir gollwng un gweinidog eglwys ymneillduedig, pa mor hyawdl, doeth, a sanctaidd y byddo, i bwlpud perthynol i'r Sefydliad. Mae aelodau prydferthaf eglwysi ansefydledig yn cael eu cau oddiwrth fwrdd

[1] Bydded i'r darllenydd ddwys ystyried Matt. 25. 31—46.

eu Harglwydd yn erbyn ei ewyllys ef pan fyddo Eglwyswyr yn ymgynnull wrtho. Ië, pan fyddont yn cyfarfod i gofio cariad y Gwaredwr at ei holl deulu, y mae Eglwyswyr yn cau annwyliaid y gwr oddiwrth ei fwrdd ef ei hun. Bydded i offeiriad Pabaidd yr hwn a dreuliasai ei fywyd yn camarwain y bobl trwy athrawiaethau ac ymarferion coelgrefyddol, y rhai ni's credai ei hunan, ymwrthod â chymmundeb Eglwys Rhufain, er bod ei galon yn annychweledig, fel Blanco White druan, ac fe'i cydnabyddir ar unwaith fel gweinidog o'r Sefydliad; ond am y gweinidogion mwyaf ymroddgar a fedd Crist yn Lloegr, yr Alban, a'r Iwerddon, talentau a rhinweddau y rhai ydynt addurn i'w gwlad, y rhai a ordeiniwyd yn weinidogion rheolaidd yn eu henwad eu hunain, ac ar weinidogaeth y rhai y dodasai Duw sêl ei gymmeradwyaeth drwy ddychweliad cannoedd, os byddant yn annghydffurfwyr, rhaid eu hail ordeinio dan ddwylaw esgob, neu fe'u cyfrifir gan y ddeddf eglwysig eto yn llëygion traws-ymwthiol, a gommedda eu goddef, hyd yn nod fel cydffurfwyr âg eglwyswyr, i bregethu i'r bobl.

Dan yr amgylchiadau hyn, y mae cymdeithasiad mwy annghyoedd rhwng Eglwyswyr a'u brodyr o'r eglwysi rhydd yn dyfod yn dra chyfyngedig. Ychydig o'r offeiriaid a eisteddant ar yr un pwyllgor âg ymneillduwyr. Ychydig a ymunant a'r Gymdeithas Feiblaidd, a Chymdeithas y Traethodau; a llai fyth â Chennadaeth Ddinesig Llundain, neu y Cyngrhair Efengylaidd, er fod arwyddion o fendith Duw wedi eu cael yn helaeth ar bob un o'r pedwar Sefydliad uchod. Yn erbyn yr olaf y mae gweinidogion a misolion efengylaidd wedi bod yn greulon ac annhêg. Darfu i archesgob gyhoeddi y tynai ei drwydded oddiwrth bob curad a ymuno â hi; a than ofn esgobion a noddwyr, personiaid, a chanonwyr, y mae agos i holl guradiaid y Sefydliad, a'r holl bersoniaid oddieithr tua 300 wedi gommedd gwneyd yr amlygiad yma o frawdgarwch i'w cyd ddysgyblion.

Y mae cyfathrach gymdeithasol gyfeillgar o nodweddiad mwy teuluaidd, bron yn llwyr anadnabyddus rhwng Eglwyswyr â gweinidogion ereill. Allan o 16,000 o offeiriaid, a oes driugain y rhai a arferant gymdeithasu yn gyfeillgar â gweinidogion ymneillduedig yn eu tai eu hunain? Y mae gweinidogion eglwysig megis pe y dywedent wrth bob gweinidogion, a hwy yn eu paradwys o ragorfraint, dan wenau Seneddau a noddogwyr, "Rhyngom ni a chwi y sicrhawyd gagendor mawr."

Ac y mae gelyniaeth wladbleidiol, fel y gellid dysgwyl, yn treiglo ei donau taranawl er lledu yr agenddor fyth yn fwy. Y mae rhagorfreintiau i'w cadw, yn gwneyd yr offeiriaid yn Ddiogelwyr gwleidyddol zelog, tra y mae cammwri i'w symmud, a drygau i'w lliniaru, yn peri i weinidogion ymneillduedig brysuro i ymgyfeillachu â'r Whigiaid. Mae y naill a'r llall yn myned yn aiddgar, ac yn cashau eu gilydd, o herwydd yr aidd hwnw, ac y mae yr ymdrech rhyngddynt yn myned yn fwy chwerw. Mae yr ymraniad

annaturiol, cynnyrch Undeb llawn mor annaturiol, yn cadarnhau y rhai digred yn eu hannghrediniaeth, yn estyn einioes niweidiol yr offeiriadaeth Babaidd, ac yn cynnal i fynu ysgafnder ac annuwioldeb y byd.

Pwy sydd yn gyfrifol yn bennaf am yr holl ddrygau hyn? Pe y dattodid yr Undeb rhwng Eglwysi y Sefydliad a'r byd, byddai modd iddynt ddyfod i undeb ag eglwysi ereill Crist. Ac os bydd i weinidogion efengylaidd wneyd mor fawr o'u hundeb a'r byd, nes gwneyd eu hundeb a'u brodyr yn anmhossibl; oni ofynir iddynt i atteb am hyny i Dduw, ac i'r oes a ddêl? A phan fyddo cenedlaethau dyfodol yn gorfod tystio mae eu rhinweddau a'u doethineb hwy a roddes ei brif gefnogaeth i Undeb godinebus yr Eglwys a'r byd, *ac a fu yn fwy nag un achos arall* o barhad yr ymraniad a rwygodd eglwysi Crist, oni bydd i Gristionogion dyddiau dedwyddach yn y dyfodiant anhysbys edrych ar eu hymddygiad â gofid dwys? Gyda chywilydd a galar y bydd i hanesydd Cristionogol yr amserau hyny lefaru am eglwysi y Sefydliad yn ein hoes ni, mewn iaith debyg i'r un ganlynol:—

"Rhoddai eglwysi Sefydledig yr oes hono eu hunain dan lywodraeth ysbrydol Llywodraeth gynnwysedig o bob rhyw nodweddion, wedi eu dewis gan y byd, ac yn cynnrychioli y byd. Gorchymynid iddynt ddyfod allan o'r byd ac ymneillduo; rhybuddid hwy fod cyfeillach y byd yn elyniaeth i Dduw; hwy a wyddent fod yn orchymmynedig iddynt na chydymffurfient, na charent y byd, oblegyd o châr neb y byd, nid yw cariad y Tad ynddo ef;[1] ond hwy yn wirfoddol a geisiasant gymdeithas y byd, a dderbyniasant dwyll-wobrwyon y byd, a ganiattasant i'r byd arglwyddiaethu arnynt, ac a ymgymmysgasant gymmaint a'r byd fel yr ymddangosai y byd yn eglwys a'r eglwys yn fyd. Eu hesgobion a ddewisid gan wlad weinwyr bydol-fryd, ag oeddynt yn y canlyniad mor fydol-fryd a'u noddogwyr yn fynych. Cydnabyddai yr eglwysi y cyfryw esgobion bydol-fryd fel cenhadon Crist, a rhoddent iddynt arglwyddiaeth drahaus arnynt hwy eu hunain, ac ar eu gweinidogion. Y bendefigaeth a ddewisai eu gweinidogion, am ba achos y dewisid gan noddogwyr anianol ddynion anianol yn aml i fod yn weinidogion, y rhai a ordeinid gan esgobion anianol. Mewn esgeulusdra trwyadl o gymhwysderau gweinidog Cristionogol, yn ol y darluniad a gynnwysir yn y Testament Newydd, goddefent i'r gweinidogion bydol hyn, y rhai oeddynt eu hunain yn ddyeithr i'r efengyl, y fath awdurdod i gau yr efengyl o'u plwyfau, fel na's gallai un gweinidog eglwysig efengylaidd byth bregethu ynddynt. Derbynid holl blant y plwyf drwy fedydd, a'r holl rai gwammal a difeddwl a allent, wedi eu cadarnhâd, ddyfod at fwrdd yr Arglwydd, os ewyllysient. Cyflwynent ddysgyblaeth pob eglwys i ofal barnwyr eglwysig, gosodedig yn ol y gyfraith, ac i gyfreithwyr, cydnabyddiaeth pa rai a'r cyfreithiau eglwysig, ni weiniai y sicräad lleiaf o'u bod yn adnabod neu yn

[1] 2 Cor. 6. 14, 17. Iago 4. 4. Rhuf. 12. 2. 1 Ioan 2. 15.

caru yr efengyl. Yn nghanol y pentwr bydolgar, cymmysg yma, yn eglwysi y Sefydliad, nid oedd gwir weinidogion Crist ond ychydig o nifer; ond y rhai hyn mewn modd hynod o gyndyn, a gyfiawnhäent Undeb annghyfreithlawn yr eglwys a'r byd. Ac am fod eu brodyr yr ymneillduwyr, y rhai oeddynt mor ddoeth a sanctaidd a hwythau, yn gwrthdystio yn erbyn hyny, diarddelwent hwynt, gommeddent eu pulpudau iddynt, alltudient hwynt oddiwrth fwrdd yr Arglwydd; cauent ddrysau eu tai yn eu herbyn, ac ni fynent un amser ymladd brwydrau yr Arglwydd wrth eu hystlys. Ac eto y dynion hyn, y rhai oeddynt, wedi eu cadwyno yn y fath fodd a'r byd, oeddynt wedi eu claddu felly yn y byd, oeddynt Gristionogion. Dalient athrawiaethau gras, ymarweddent yn dduwiol, ac yr oeddynt yn weinidogion defnyddiol a chyfrifol. Mor hynod y gall ymarferiad, hunanles, a rhagfarn, ddallu hyd yn nod y goreu o ddynion, fel na's gwelont ddyledswydd amlwg!"

Y mae rhai eithriadau anrhydeddus i'r ymarferiad cyffredinol, ond a yw y rhai hyn yn gwneyd cymmaint ag a ddylent? Pa ham y dylai eglwysi duwiol a'u gweinidogion ddysgwyl am ereill i iachâu yr ymrwygiad? Bydded iddynt ei iachâu erddynt eu hunain. Boed i bob dysgybl rhyddfrydig, a ffyddlon i Grist, o fewn y Sefydliad, addef ymneillduwyr duwiol yn frodyr iddynt, eu heglwysi fel eglwysi i Grist, a'u gweinidogion fel ei weinidogion ef; boed iddynt gynnal yn zelog y cymdeithasau hyny, yn y rhai y mae dynion duwiol a thangnefeddus o amryfal enwadau yn cydweithio yn gysurus, yn enwedig y Cyngrhair Efengylaidd, y dystiolaeth oreu yn mhlaid y ddyledswydd o garedigrwydd brawdol at ein holl gyd-Gristionogion a roddwyd yn ein hoes ni; bydded iddynt fod yn bresenol yn nghapeli yr ymneillduwyr, cynnorthwyo i gynnal eu cennadwriaethau; cyd-gyfranogant â hwy o swper yr Arglwydd, gwahoddant hwynt i'w tai, a dadleuant dros eu derbyniad i bulpudau yr eglwys Sefydledig; ac yna y cwblheir gorchymyn Crist trwy ei apostol, *"Derbyniwch eich gilydd, megis ag y derbyniodd Crist ninnau, i ogoniant Duw."*

---

### ADRAN VIII.—*Dylanwad yr Undeb ar ddiwygiad yr Eglwysi.*

Pan ganfyddo eglwysi eu bod wedi cwympo i gyfeiliornad a phechod, hwy a ddylent edifarhau a diwygio yn ddïoed. Mae ein Harglwydd yn llafaru wrth bob eglwys o fewn y Sefydliad, ac wrth ei gweinidog, trwy ei lythyrau at eglwysi Asia Leiaf, fel hyn:—" *Y mae gennyf beth yn dy erbyn, am i ti ymadael a'th gariad cyntaf. Cofia, gan hyny, o ba le y syrthiaist, ac edifarha, a gwna y gweithredoedd cyntaf: ac onid ê, yr wyf fi yn dyfod attat ti ar frys, ac mi a symmudaf dy ganhwyllbren di allan o'i le,* ONID EDIFARHAI DI......*Y mae gennyf ychydig bethau yn dy erbyn di,*

*oblegid bod genyt yno rai yn dal athrawiaeth Balaam......* EDIFARHA; *ac os amgen, yr wyf fi yn dyfod attat ar frys, ac a ryfelaf yn eu herbyn hwynt a chleddyf fy ngenau......Bydd wyliadwrus, a sicrha y pethau sydd yn ol, y rhai sydd barod i farw; canys ni chefais dy weithredoedd yn gyflawn ger bron Duw. Cofia gan hyny pa fodd y derbyniaist ac y clywaist,* A CHADW, AC EDIFARHA. *Os tydi gan hyny ni wyli, mi a ddeuaf arnat ti fel lleidr......Mi a adwaen dy weithredoedd di, nad ydwyt ti nac oer na brwd: mi a fynwn pe bait oer neu frwd......Yr wyf fi yn argyhoeddi ac yn ceryddu y sawl yr wyf yn eu caru: am hyny,* BYDDED GENYT ZEL, AC EDIFARHA...... *Yr hwn sydd ganddo glustiau, gwrandawed beth y mae yr Ysbryd yn ei ddywedyd wrth yr eglwysi."*[1]

Mae gwir angen am lawer o ddiwygiad drwy yr holl Sefydliad. Ni ddylai y Wladwriaeth gael ymarfer unrhyw oruchafiaeth mwyach mewn pethau ysbrydol ar yr eglwysi, y rhai yn wir a ddylent fod yn ddarostyngedig i'r frenines a'r Senedd mewn pethau tymhorol, fel pob deiliaid ereill; ond mewn pethau ysbrydol ni ddylent fod yn ddarostyngedig i neb ond Crist ei hunan. Os parheid y fath beth a phreladiaid oll, ni ddylent mwyach gael eu pennodi gan y Goron, nag eistedd yn y Senedd na'u pendefigaethu drwy eu hesgobyddiaeth; ond yn unig eu bod yn weinidogion yr Efengyl, wedi eu dewis, fel yn yr Unol Daleithiau, gan yr eglwysi a gweinidogion ar y rhai y maent i lywyddu. Dylai pob eglwys yn ol cyfraith Crist, bennodi ei gweinidog ei hun. Dylai henaduriaid, annibynol ar yr esgob, fod yn gyfrannog ag ef yn arholiad ac ordeiniad gweinidogion. Dylai proffes o'u cred yn y Beibl fel gair Duw, a chymmeradwyaeth cyffredinol o'r erthyglau athrawiaethol yn eu hystyr eglur, gael eu cyfleu yn lle llawnodiad annghywir y llyfr gweddi. Dylid ail ystyried y canonau, y gwasanaeth cyffredin, y rhuddellau, a'r erthyglau, a'u gwneyd yn fwy cyson a gair Duw. Dylid diwygio gwasanaeth y bedydd, a gwasanaeth y claddedigaeth. Dylai yr eglwysi ymwrthod a gwerthiad bywiolaethau, hyny yw, gwerthiad eneidiau. Dylid difodi gormes y drwydded esgobawl, a dylai yr holl weinidogion a dderbyniwyd i'r weinidogaeth mewn difrifwch, fel rhai *wedi eu galw gan yr Ysbryd Glân,* gael cyflawn ryddid i ymarfer eu gweinidogaeth mewn cydymffurfiad a chyfreithiau Crist, a threfniadau yr eglwysi. Dylai gweinidogion, na byddont dan geryddon eglwysig, gael caniattad i bregethu Crist yn rhydd yn mhob parth o'r deyrnas; ond yn ddarostyngedig i gerydd eglwysig, os byddant yn eu gweinidogaeth yn euog o ryw drosedd yn erbyn Crist, neu eu brodyr. Dylai yr hawl i weinyddu dysgyblaeth eglwysig gael ei hadferu i'r eglwys a'i gweinidog, yn ol yr arfer apostolaidd. Dylai gweinyddiad bedydd a swper yr Arglwydd fod yn fwy neillduedig. Dylai aelodau drygionus o eglwys gael eu rhybuddio, ac os

1 Dat. 2. 4, 5, 14, 16; a 3. 2, 3, 15, 19, 22.

bydd raid, eu hysgymmuno gan yr eglwys. Ni ddylai unrhyw fydol ganlyniadau cyfreithiol ddylyn ysgymmundod: dylai gweinidogion drygionus fod yn symmudadwy o unrhyw eglwys drwy bleidleisiad yr aelodau. Dylai gweinidogion ymneillduedig duwiol gael eu derbyn i bulpudau yr Eglwyswyr, ac ymneillduwyr duwiol gael eu derbyn i gyd gyfrannogi â hwy o swper yr Arglwydd. Dylai yr eglwysi fod yn fwy ymneillduedig oddiwrth y byd, ac yn fwy unedig a'u cyd-Gristionogion. Ac er effeithio yr amcanion hyn, dylai y Llywodraeth adferu yr hawl o hunan lywodraethiad i'r Sefydliad, gan wneyd yr eglwys yn rhydd oddiwrth bob ymyriad gwladol yn nhrefniad pethau ysbrydol.

Pe byddai y Sefydliad, yn gymdeithas o rydd eglwysi, gellid cael y diwygiadau hyn yn rhwydd. Ond nid oes un awdurdod mewn bod yn yr Eglwys yn bresenol a all eu cynnyrchu; y mae awdurdod fawr yn ddiau wedi ei gyfleu yn y Goron, yn ol y gosodiadau canlynol yn 1 Eliz. cap. 1;—"Bod i bob rhyw frawdoliaethau, a blaenoriaethau, ysbrydol ac eglwysig, ar a weinyddid gan unrhyw allu neu awdurdod ysbrydol neu eglwysig hyd yma, neu y gallesid yn gyfreithlawn ei weinyddu ar gyflwr eglwysig a phersonau, ac er diwygio, trefnu, a cheryddu y cyfryw, a phob math o gyfeiliornadau, heresiau, ymbleidiau, camweddau, trahausdra, ac ysgelerderau, gael eu huno a'u cyssylltu dros byth a Choron amherodrawl y deyrnas hon."[1] Ond y mae yr awdurdod hon yn anysgrythyrol, ac ni's gellid ei goddef mewn cyflawn ymarferiad yn awr, na chan y Senedd, na chan yr eglwysi. Ni fedd esgobion y fath awdurdod, ac ni's dylent ei meddu. Ac y mae rhyw gymmanfäoedd cyffredinol yn angenrheidiol fel y gallo yr eglwysi eu diwygio eu hunain, os yw y Sefydliad i barhau, y rhai a allent ymchwilio i'w holl ansawdd, a llunio eu cyfreithiau yn gyfattebol.

Ond ni chaniatta y Llywodraeth y fath gymmanfa byth; pan addoedwyd y Cydwys yn 1717, fe'i dirymmwyd am byth. Byddai i unrhyw gynnrychioliad o'r Sefydliad, mwy na'r enw, gyfodi cynnifer o ddadleuon peryglus, a chyndyn, ac os byth y'u hunid, meddent y fath allu, ag a fyddai yn annghyfleus i bob Gweinyddiaeth ddylynol, fel na's meiddia un gwladweinydd ei ganiattâu. Y mae dadlyddiaethau y gynnadledd Albanaidd, eu deddfwriaeth effro, eu gwrthsafiad i noddogwyr, a'r ddrychiolaeth o'r Eglwys Rydd fawr yn dyfod i fynu yn arfog o'r niwl tew a gyfodai y dadleuon ystormus hyny, wedi peri i'n gwladweinwyr ofni gwneyd y cyffelyb ar brawf yn Lloegr. Ni's medd unrhyw Gydwys hawl i ymgynnull heb gydsynied y Frenines, a'r cydsynied hwnw a ommeddir. Pan gyfarfyddai y Cydwys ni's gallai weithredu, gan na's gallai ffurfio un reol heb gydsynied adnewyddol; heb gydsynied pellach, ni's gellid rhoddi y rheolau mewn gweithrediad er eu ffurfio, ac wedi derbyn y cydsynied breninol yn gyflawn, gall y rheolau

[1] *Burn*, Vol. 3. p. 659.

rwymo yr offeiriaid, ond ni's gallant rwymo yr eglwysi hyd oni's cadarnhaer hwy drwy ddeddf Seneddol! A ymddirieda y Senedd byth y gorchwyl peryglus yma o ddiwygiad i'r Cydwys?

Ond, pe y rhoddai y Senedd ryddid cyflawn i'r Cydwys i ddiwygio yr eglwysi, amlygai ei annghymmwysder yn y fan. Y mae tŷ isaf y Cydwys yn gynnwysedig o ddau ar hugain o ddëoniaid, pedwar ar hugain o gorbrwywyr, a phedwar a deugain o brwywyr yr offeiriaid plwyfol. Gan hyny, y mae 99 o urddasolion, a chynnrychiolwyr eglwysi cadeiriol, 44 o gynnrychiolwyr yr offeiriaid, a neb i gynnrychioli yr eglwysi. Y mae urddasolion yn dra anniben i ddiwygio camwri o'r hwn y mae eu rhagorfreintiau hwy yn ffurfio rhan. A phe byddai y 44 dirprwywyr a gynnrychiolant yr offeiriaid yn tueddu i ddiwygio y Sefydliad, pa beth a allent hwy ei wneyd yn erbyn y 99 pleidlais sydd yn ymwystledig i ragorfraint? Byddai y cyfryw Gydwys yn hollol ddi les, hyd yn nod pe byddai yr awydd am ddiwygiad yn gyffredinol yn y wlad. Ond y mae y dymuniad hwnw yn ddiffygiol. Mae yr esgobion yn erbyn diwygiad, am y byddai i hyny symmud eu holynwyr hwy o Dy yr Arglwyddi, ac ar yr un pryd gondemnio eu hurddas bendefigaidd hwy eu hunain; mae noddogwyr yn ei erbyn, am y byddai iddo, ond odid ddinystrio eu hawl hwy i gyfoethogi eu teuluoedd â meddiannau eglwysig; mae personiaid yn ei erbyn, am y goresgynai eu maeliaeth ysbrydol hwy gan eu gwneyd yn ddibynnol ar eu cynnulleidfäoedd; ac nid yw yr eglwysi yn gofalu nemmawr am dano, oblegid y byddai iddo, efallai, arddodi arnynt hwy y baich o gynnal eu gweinidogion eu hunain Os oes yn mysg gweinidogion eglwysi y Sefydliad rai dynion o feddyliau ehang a difrifol, y rhai a alarant o herwydd cyflwr gwaradwyddus yr eglwys hono, prin y gallant feddwl am ddiwygiad gyda dïogelwch. Pwy bynnag a haero fod defodau yr eglwys yn goel grefyddol, efe a ysgymmunir; pwy bynnag a ddywedo bod llywodraeth bresenol y Sefydliad yn groes i air Duw, efe a ysgymmunir; pwy bynnag a ddadleuo fod ffurf cyssegriad esgobion, offeiriaid, a dïaconiaid, yn cynnwys ynddi ddim croes i air Duw, efe a ysgymmunir; ac ysgymmunir hefyd bwy bynnag a haero fod gweinidogion ymneillduedig a'i hymlynwyr yn eglwysi i Grist.[1] Byddai i unrhyw gyfarfodydd o'r offeiriaid i ystyried pa fodd y gallent ddwyn yn mlaen ddiwygiad yn y Sefydliad, eu gwneyd yn ddarostyngedig i'r unrhyw gosbedigaeth, yn ol yr ordeiniad canlynol yn rhëol 73—"Yn gymmaint a bod cêl gyfarfodydd anawdurdodol offeiriaid a gweinidogion, wedi cael eu cyfrif bob amser yn niweidiol i gyflwr yr eglwys yn yr hon y byddont yn byw, yr ydym yn awr yn ordeinio ac yn trefnu, na byddo i unrhyw offeiriaid, neu weinidogion gair Duw, neu unrhyw bersonau ereill, gyd gyfarfod mewn unrhyw dŷ annghyoedd, neu un man arall, i ymgynghori ar unrhyw lwybr

[1] *Canons* 6—12.

i'w gymeryd ganddynt, neu ar eu cynnygiad a than eu cyfarwyddyd hwy gan neb arall, yr hyn allo mewn un modd dueddu i warthruddo neu lygru athrawiaeth Eglwys Loegr, neu lyfr y weddi gyffredin, neu unrhyw ran o'r llywodraeth a'r ddysgyblaeth sydd yn awr yn sefydledig yn Eglwys Loegr, dan boen ysgymmundod *ipso facto* .....Ni's gall dyn dan ysgymmundod ddwyn cwyn mewn unrhyw gyfraith, na gwneyd ei ewyllys; ac os erys efe ddeugain niwrnod heb roddi boddlonrwydd i'r eglwys, gellir ei gymmeryd i fynu a'i garcharu drwy sgrifraith *de excommunicato capiendo.*"[1] Tra fyddo y cosbedigaethau dinystriol hyn ger bron eu llygaid, ni's gall fod unrhyw rydd ymddiddan rhwng gweinidogion y Sefydliad o barth ei gyfeiliornadau a'i ddiffygion, nac yn wir, unrhyw rydd ymchwiliad. Yn ieuedig wrth ei hen gerbyd, rhaid iddynt gynnorthwyo i'w lusgo yn mlaen rhwng yr attalgloddiau uchel sydd yn eu cyfyngu; ac er eu bod yn gweled bod diphwys o'u blaen, ni's gallant sefyll na throi. Ychydig yn wir a ddymunant ei diwygio. *Yn mhob gwlad ac oes, darfu i'r dosbeirth breninol ymlynu wrth eu rhagorfraint hyd onid aeth yn rhy hwyr.*

Mae y ffeithiau hyn yn rheswm y dystawrwydd nodedig ar y pethau hyn yn mysg pob dosbeirth o fewn y Sefydliad. Pe y buasai yr eglwysi yn ysbrydol a rhydd, yn gyfled a phoblogaeth y wlad, ac yn gynnyrchiol o ffrwythau duwioldeb—pe y buasai ei holl weinidogion yn ymddwyn yn addas, ei themlau yn cael eu llenwi a chynnulleidfäoedd astud, ei heglwysi oll yn cynnyddu mewn gras, prin y gallasai fod absenoldeb mwy trwyadl o hunan gondemniad a chwyn yn mysg yr offeiriaid nag sydd yn bresenol. Nid yw hyd yn nod y rhai duwiolaf yn gwrthachwyn yn erbyn y drygau ysgeler, eithr cauant eu llygaid rhagddynt. Gallant fyfyrio ar bob cangen o lëenyddiaeth gaeth, dadleu pynciau gwladweiniol, ymchwilio i brophwydoliaethau annghyflawnedig, dynoethi cyfeiliornadau Pabyddiaeth, a gwrthbrofi dadleuon anffyddiaid; ond y mae yr hyn sydd yn teilyngu eu sylw blaenaf, ar yr hyn y dylai eu hymchwilion fod yn fwyaf diflin, eu penderfyniadau yn fwyaf eglur, a'u hymdrechiadau yn fwyaf egnïol, yn methu tynu oddiwrthynt un datganiad o'u barn, nac hyd yn nod eu cyffroi i ymchwiliad arwynebol. Nid oes yn mysg amgylchiadau pwysig ein hoes, yr un yn cynnwys egwyddorion mwy pwysig, neu wedi galw allan fwy o rinweddau, na sefydliad Eglwys Rydd yr Alban, ac erledigaeth Eglwys Rydd *Vaud*: ond ni ddarfu i'r naill na'r llall, namyn cynnyrchu dyddordeb mynedol a hannerog yn aelodau y Sefydliad. Ychydig a ymroisant i efrydu eu hegwyddorion. Y rhan fwyaf, hyd yn nod o'r Eglwyswyr duwiol â'r rhai y buais I yn ymddiddan, a ddyfarnent yr eglwysi hyny heb ddim ymchwiliad, neu a'u hannghymeradwyent heb unrhyw reswm eglur am eu hannghymeradwyaeth. Mae y rhesymau am y cyfryw ymddygiad yn eglur i'r holl fyd.

1 *Burn*, Vol. 2. pp. 245, 247, 248.

Gan hyny, ni's meddaf unrhyw obaith am i ddiwygiad cyffredinol wreiddio yn y Sefydliad. Ni feiddia y Llywodraeth gynnyg ar hyny. Ni fedd urddasolion yr eglwys na'r ewyllys na'r gallu i hyny, ac y mae yr aelodau duwiolaf o honi mewn llyffetheiriau. Gan hyny, y mae y rhai ydynt yn aros yn y Sefydliad yn cynnal i fynu ei chamweddau, heb un golwg resymol am gael gweled eu symmud. Yn ol pob ymddangosiad, rhaid i'r cyfeiliornadau a'r tramgwyddiadau cyssylltiedig â'r gyfundrefn, barhau cyhyd a'r gyfundrefn ei hunan; ac y mae yn ymofyniad y dylai dyn duwiol ei atteb gyda difrifwch. Pa un a ddylai efe gynnal y drygau hyny trwy ymlynu wrthi, er mwyn ei esmwythder, oddiar ystyriaeth o lesion ei deulu, neu oddiar ofal am unrhyw gymhwysder tybiedig? Gall gwelliadau o ran gymmeryd lle; ond trwy bwy, a pha bryd y dygir i weithrediad unrhyw ddiwygiadau sylweddol, ac ehang? Na thwylled un dyn da ei hunan â'r gobaith am yr hyn ni chymmer le byth. Mae yn rhaid i'r hwn sydd yn dymuno yn ddiffuant weled diwygiad, ei ddwyn yn mlaen trwy ymneillduad, gan fod pob gwrthdystiadau ereill yn disgyn fel rhyw sibrwd aneglur ar glust drom y Llywodraeth.

Na fydded i neb dawelu ei gydwybod am ymlynu wrth y Sefydliad drwy ddadleu bod pob cyfundrefn arall yn anurddedig gan lygredigaethau cyffelyb; bod pob peth dynol yn anmherffaith, ac mai ofer yw ceisio cyfundrefn berffaith: canys onid oes unrhyw gyfundrefn berffaith, dylai Cristion geisio y berffeithiaf; onid oes yr un yn llwyr ysgrythyrol, efe a ddylai gefnogi yr un sydd fwyaf felly. Yr ydwyf yn credu bod mor anmhossibl profi bod llygredigaethau yn yr eglwysi rhydd yn gyfartal i'r llygredigaethau yn y Sefydliad, ag a fyddai profi bod llaid y cwtterydd yn heolydd Llundain mor drwchus ag ydyw yn y dyfr-ffosydd o danynt; ac os ydyw y rhydd eglwysi gymmaint yn burach na'r Sefydliad, y mae eu diffyg o berffeithrwydd yn rheswm gwan iawn am beidio ymuno â hwy.

Ond, pe byddai y drygau o fewn yr eglwysi rhydd mewn gwirionedd yn gyfattebol i'r rhai o fewn y Sefydliad, ni ddylai hyn attal ymneillduad gweinidog ffyddlon am un mynyd. Canys y mae y Sefydliad yn cynnwys math o gydlyniad, trwy yr hyn y mae pob un yn rhan gyssoddawl o'r cwbl—pob gweinidog yn gyfrifol am weithrediad yr holl gyfundrefn wrth yr hon yr ymlyna. Ond yn nghyfundrefn gynnulleidfäol yr eglwysi rhydd, yr hon yr ydwyf yn credu, sydd ysgrythyrol, nid oes y cyfryw gyflyniad. Yn y gyfundrefn yma y mae pob eglwys yn gyfrifol drosti ei hun, ac nid dros arall. Os buasai i'r eglwys yn Corinth gwympo i ryw annhrefn mawr, ni buasai yr eglwys gymmydogawl yn Phillippi yn attebol am hyny. Nid oedd euogrwydd yr eglwys yn Laodicea yn gyfrifol i'r eglwys yn Philadelphia. Felly, pe byddai i eglwys Annibynol yn Manchester bechu, pa ham y byddai eglwys Annibynol yn Llundain yn gyfrifol am hyny? Pe byddai i weinidog

Annibynol yn Islington droseddu, pa ham y gorweddai hyny ar gydwybod gweinidog Annibynol yn Chelsea? Yn ol y gyfundrefn ysgrythyrol o lywodraeth eglwysig, gall pob eglwys ddilyn holl ewyllys Crist, ac er eu bod yn unedig mewn cymdeithas frawdol âg eglwysi ereill, fod heb gyfrannogi yn y mesur lleiaf o'u llygredigaethau. Yn yr eglwysi rhydd, gall gweinidog ei ysgaru ei hunan oddiwrth unrhyw ddrygau a fyddo yn yr eglwysi hyny, a llafurio er eu symmud ymaith,—ond yn y Sefydliad, y mae efe ei hunan yn rhan o'r crynswth llygredig, yn ei ddal i fynu trwy ei ymlyniad, yn ymwystl-edig i'r holl ddrygau ydynt yn gymmhlethedig a'i chyfansoddiad a'i llyfrau, ac yn ddyfarnedig trwy ei lawnodiad o honynt, a thrwy ei amgylchiadau, i fod yn ddystaw yn barhaus mewn perthynas iddynt.

Yr unig feddyginiaeth o fewn eu cyrhaedd yw, bod i bob eglwys a gweinidog, a ganfyddont y drygau hyn, wneyd eu dyledswydd, trwy eu diwygio eu hunain, heb ddysgwyl wrth ereill. Dylai y rhai sydd "yn crynu wrth air Duw,"[1] mewn modd difrifol, megis yn ei wydd ef, ystyried eu dyledswydd yn y peth hyn. "*Bydded pob un yn sicr yn ei feddwl ei hun......Gwyn ei fyd yr hwn nid yw yn ei farnu ei hun yn yr hyn y mae yn ei dybied yn dda..... Canys, beth bynnag nid yw o ffydd, pechod yw.*"[2]—Boed i bob un gadw cydwybod dda, a gwneyd yr hyn y credo a gymmeradwya y Barnwr yn y dydd mawr diweddaf. Gall pob eglwys ommedd derbyn talion fel hudwriaeth iddi, gan y Llywodraeth ddim yn hwy, a thalu ei gyflog i'r gweinidog ei hunan. Yna gall bennodi ei gweinidog ei hunan. Gall ddïarddel gweinidog annuwiol, a dewis un duwiol yn ei le. Gall ymgymmeryd yn ol gorchymyn Crist a gweinyddiad dysgyblaeth. Gall ymneillduo oddiwrth y byd, trwy attal at fwrdd yr Arglwydd y rhai y gwybyddir eu bod yn wageddol ac annuwiol. Gall uno â phob rhyw Gristionogion mewn pregethu, mewn gweddïo, yn y sacramentau, mewn cymmwynasgarwch, ac mewn cymmundeb cymdeithasol. Gall gynnal cyfarfodydd eglwysig er meithrin brawdgarwch yn mysg yr aelodau, uno mewn gweddi gymdeithasol, ceisio diwygiad crefyddol yn eu mysg, ac ystyried pa fodd y gallant lesâu eu cymmydogaeth; a gall gweinidogion gynnorthwyo a chalonogi eu heglwysi i ddwyn yn mlaen y diwygiad duwiol yma, gan adael y canlyniadau i Dduw, gyda'r sicrwydd nad yw efe yn annghofio ei addewidion,—"*Fy anrhydeddwyr a anrhydeddaf fi, a'm dirmygwyr a ddirmygir*"[3]......*Am hyny na ofelwch, gan ddywedyd, Beth a fwyttawn? neu beth a yfwn? neu, a pha beth yr ymddilladwn? (Canys yr holl bethau hyn y mae y Cenhedloedd yn eu ceisio); oblegid gwyr eich Tad nefol fod arnoch eisiau yr holl bethau hyn. Eithr yn gyntaf, ceisiwch deyrnas Dduw, a'i gyfiawnder ef, a'r holl bethau hyn a roddir i chwi yn chwaneg.*"[4]

1 Esa. 66. 2. 2 Rhuf. 14. 5, 22, 23. 3 1 Sam. 2. 30. 4 Matt. 6. 31—33.

ADRAN IX.—*Dylanwad yr Undeb ar ffyniant crefydd yn y wlad.*

Mae holl ddynolryw wedi eu creu gan eu Gwneuthurwr er ei ogoniant ei hun; ac am hyny gofynir iddynt ei garu ef a'u holl galon, ufuddhau i'w ddeddfau, ac ymgyssegru i'w wasanaeth; a chan eu bod wedi esgeuluso hyn oll trwy lygredigaeth eu calon, y mae yn dysgwyl iddynt edifarhau am eu pechodau, ceisio ei drugaredd trwy ffydd yn iawn Crist, ac attolygu yn ddifrifol am adnewyddiad a sancteiddiad eu calonau trwy ddylanwad ei Ysbryd Sanctaidd.[1] Ac os pallant yn hyn, yna y maent yn aros yn y cyflwr a ddarlunir yn y rhanau canlynol o air Duw:—" *Yr hwn sydd heb gredu i'r Mab, ni wel fywyd; eithr y mae digofaint Duw yn aros arno ef......Y neb ni chredo a gondemnir......Cynnifer ag y sydd o weithredoedd y ddeddf, dan felldith y maent: canys ysgrifenwyd, Melldigedig yw pob un nid yw yn aros yn yr holl bethau a ysgrifenwyd yn llyfr y ddeddf, i'w gwneuthur hwynt......Od oes neb nid yw yn caru yr Arglwydd Iesu Grist, bydded Anathema, Maranatha......Yr us a lysg efe a thân anniffoddadwy......Yn ymddangosiad yr Arglwydd Iesu o'r nef, gyd a'i angelion nerthol, a thân fflamllyd, gan roddi dial i'r sawl nid adwaenant Dduw, ac nid ydynt yn ufuddhau i efengyl ein Harglwydd Iesu Grist: y rhai a ddyoddefant yn gosbedigaeth, ddinystr tragywyddol oddi ger bron yr Arglwydd, ac oddiwrth gadernid ei ogoniant ef, pan ddel efe i'w ogoneddu yn ei saint, ac i fod yn rhyfeddol yn y rhai oll sydd yn credu.*"[2]

Y mae yn anhebgorol i lês dynion, bod iddynt gael eu troi, eu sancteiddio, a'u hachub. *Pa lesäad i ddyn os ennill efe yr holl fyd, a cholli ei enaid ei hun?*[3] Gan hyny, y mae ffyniant gwir grefydd mewn gwlad, o fwy o ganlyniad iddi na'i rhyddid a'i chyfreithiau, ei diwydrwydd, a'i thrafnidiaeth. Heb grefydd, derfydd am ei thrigolion; ac y mae crefydd yn dwyn rhyddid, ffyniant, a gallu i'w chanlyn.

Ond, pan oedd ein Gwaredydd ar y ddaear, efe a ddywedodd wrth ei geraint yn Galilea, " *Ni ddichon y byd eich cashau chwi; ond myfi y mae yn ei gashau, o herwydd fy mod I yn tystiolaethu am dano, fod ei weithredoedd ef yn ddrwg.*[4]

Y mae yr unrhyw anhoffder eto yn y meddwl anianol i'r Efengyl; a dynion yn y cyffredin, ydynt anewyllysgar i ymostwng i'r ddeddf sanctaidd hon: " *Synied y cnawd sydd elyniaeth yn erbyn Duw, canys nid yw yn ddarostyngedig i ddeddf Duw, oblegid ni's gall chwaith.*"[5] Ac ni all dim ond dylanwad Cristionogion difrifol a chyson eu troi at Dduw. Er fod gair Duw yn ddatguddiad perffaith o hono ef a'i ewyllys, y mae yn gorwedd yn esgeul-

1 Diar. 16. 4. Rhuf. 11. 36. Dat. 4. 11. Matt. 22. 37. Preg. 12. 13. 1 Cor. 6. 20. Rhuf. 12. 1. Matt. 5. 3. Luc 13. 2—5. Marc 16. 16, Ioan 3. 3, 5, 16. Luc 11. 13.
2 Ioan 3. 39. Marc 16. 16. Gal. 3. 10. 1 Cor. 16. 22. Matt. 3. 12. 2 Thes. 1. 7—10.
3 Matt. 16. 26. 4 Ioan 7. 7. 5 Rhuf. 8. 7.

usedig ac anadnabyddus lle nad oes Gristionogion byw i sefyll dros ei hawlion. Ond y mae credinwyr difrifol a chyson yn galw sylw atto, yn gwasgu ei awdurdod ar yr ystyriaeth, yn esponio ei feddwl, yn egluro ei egwyddorion trwy eu bucheddau, yn dangos trwy eu profiad eu hunain y gellir ufuddhau i'w ddeddfau, yn gorfodi dynion i weled lledneisrwydd cystal a phossiblrwydd gwir grefydd, ac yn tynu pechaduriaid at Grist. A thyma eu galwedigaeth: "*Chwi yw halen y ddaear. Chwi yw goleuni y byd. Llewyrched felly eich goleuni ger bron dynion, fel y gwelont eich gweithredoedd da chwi, ac y gogoneddont eich Tad, yr hwn sydd yn y nefoedd. ......Yr ydwyf yn attolwg i chwi, frodyr, er trugareddau Duw, roddi o honoch eich cyrph yn aberth byw, sanctaidd, cymmeradwy gan Dduw; yr hyn yw eich rhesymol wasanaeth chwi. Canys nid oes yr un o honom yn byw iddo ei hun, ac nid yw yr un yn marw iddo ei hun. Canys pa un bynnag yr ydym ai byw, i'r Arglwydd yr ydym yn byw; ai marw, i'r Arglwydd yr ydym yn marw: am hyny, pa un bynnag yr ydym ai byw ai marw, eiddo yr Arglwydd ydym. Oblegid er mwyn hyn y bu farw Crist, ac yr adgyfododd, ac y bu fyw drachefn hefyd, fel yr arglwyddiaethai ar y meirw a'r byw hefyd. Nid ydych yn eiddoch eich hunain, canys er gwerth y prynwyd chwi; gan hyny gogoneddwch Dduw yn eich corph, ac yn eich yspryd, y rhai sydd eiddo ef. Chwychwi ydych rywogaeth etholedig, breninol offeiriadaeth, cenedl sanctaidd, pobl briodol i Dduw; fel y mynegoch rinweddau yr hwn a'ch galwodd allan o dywyllwch i'w ryfeddol oleuni ef.*"[1] Pe byddai yr holl Eglwyswyr yn byw yn gyfattebol i'r alwedigaeth hon, hwy a fyddent yn effeithiol yn llaw yr Ysbryd i beri cyfnewidiad moesol ar wyneb y wlad yma.

Er eu galluogi i wasanaethu Duw a'r byd yn fwy effeithiol, ymgynnullai Cristionogion yn gynnulleidfäoedd neu eglwysi, y rhai ar y dechreu a gyfansoddid o saint ac a lafurient am dröedigaeth pechaduriaid. Cyferchir y prif eglwysi fel hyn yn Llythyrau Paul:—

"*Paul, gwasanaethwr Iesu Grist,......at bawb sydd yn Rhufain, yn anwyl gan Dduw, wedi eu galw i fod yn saint.*"

"*Paul, wedi ei alw i fod yn apostol Iesu Grist.......at eglwys Dduw yr hon sydd yn Corinth, at y rhai a sancteiddiwyd yn Nghrist Iesu, a alwyd yn saint.*"

"*Paul......at y saint sydd yn Ephesus, a'r ffyddloniaid yn Nghrist Iesu.*"

"*Paul......at yr holl saint yng Nghrist Iesu, y rhai sydd yn Phillippi.*"

"*Paul......at y saint a'r ffyddlawn frodyr yn Nghrist, y rhai sydd yn Colossa.*"

Yr eglwysi boreuol hyn, wedi eu cyfansoddi fel hyn yn gyffredinol o saint

1 Matt. 5. 13, 14, 16. Rhuf. 12. 1; a 14. 7—9. 1 Cor. 6. 20. 1 Pedr 2. 9.

a ffyddlawn frodyr, a lafurient gyd ag achos Crist, ac a ddychwelent bechaduriaid atto ef. Cofnodir ffydd a duwioldeb yr eglwys yn Jerusalem, yn yr ail bennod o'r Actau; a mynegir y canlyniad fel hyn: "*A'r Arglwydd a chwanegodd beunydd at yr eglwys y rhai a fyddent gadwedig.*"[1] Pan yrrid aelodau o'r eglwys dduwiol yma oddi cartref gan erledigaeth, "*Y rhai a wasgarasid a dramwyasant gan bregethu y gair. A rhai o honynt oedd wyr o Cyprus, ac o Cyrene, y rhai wedi dyfod i Antiochia, a lefarasant wrth y Groegiaid, gan bregethu yr Arglwydd Iesu. A llaw yr Arglwydd oedd gyda hwynt: a nifer mawr a gredodd, ac a drodd at yr Arglwydd.*"[2]

Amlygai y Rhufeiniaid y fath dduwioldeb, fel yr oedd son am eu ffydd drwy yr holl fyd.[3] Y Philippiaid a gyfrannogent yn ewyllysgar yn llafur Paul a'i ddioddefiadau er mwyn yr Efengyl.[4] Ac ysgrifenai Paul at yr eglwys yn Thessalonica,—"*Hyd onid aethoch yn siamplau i'r rhai oll sydd yn credu yn Macedonia, ac yn Achaia. Canys oddiwrthych chwi y seiniodd gair yr Arglwydd, nid yn unig ym Macedonia ac yn Achaia, ond ym mhob man hefyd, eich ffydd chwi ar Dduw a aeth ar led, fel nad rhaid i ni ddywedyd dim.*"[5] Y mae 13,000 o eglwysi yn perthynu i'r Sefydliad, yn feddiannol ar lawer mwy o fanteision na'r cyn-eglwysi: pe byddai y rhai hyn oll, fel yr oeddynt hwy, wedi eu cyfansoddi o saint a ffyddlawn frodyr, yn llafurio dros ogoniant Crist, ac iachawdwriaeth eneidiau, mor fuan y lefeinid yr holl genedl gan yr Efengyl!

Heblaw hyny, darfu i Grist er adeiladaeth yr eglwysi, a thröedigaeth yr anystyriol, appwyntio bugeiliaid ac efengylwyr am y rhai y darllenwn yn y Testament Newydd, y "*rhaid eu bod yn caru daioni, yn sobr, yn gyfiawn, yn sanctaidd, yn dymherus, yn dal yn lew y gair ffyddlawn.*"[6] A hwy a dderbyniasant y gorchymynion canlynol gan Grist: "*Edrychwch gan hyny arnoch eich hunain, ac ar yr holl braidd ar yr hwn y gosododd yr Ysbryd Glan chwi yn olygwyr, i fugeilio eglwys Dduw, yr hon a bwrcasodd efe a'i brïod waed.*[7]......*Myfyria ar y pethau hyn, ac yn y pethau hyn aros; fel y byddo dy gynnydd yn eglur i bawb. Gwylia arnat dy hun, ac ar yr athrawiaeth; aros ynddynt: canys os gwnei hyn, ti a'th gedwi dy hun a'r rhai a wrandawant arnat.*"[8] Pe byddai i'r 16,000 gweinidogion a berthynant i'r Sefydliad, fyw yn ol y gorchymynion Dwyfol hyn, tröai Prydain at Grist yn fuan.

Ond, pa beth yw gwir gyflwr y Sefydliad? Mae myrddiynau o'i haelodau na's meddant ddim o Gristionogaeth ond yr enw, a dderbyniwyd yn y mebyd trwy fedydd, ac a gadawyd heb unrhyw weithrediad gwirfoddol o'r eiddo ei hunan: ac y mae miliwnau heb wneuthur dim er dwyn achos Crist yn mlaen. Y mae ei 13,000 eglwysi yn gyffredinol heb ddim bywiogrwydd

1 Act. 2. 47. 2 Act. 8. 4; a 11. 20, 21. 3 Rhuf. 1. 8. 4 Phil. 1. 7. 5 1 Thes. 1. 7, 8. 6 Eph. 4. 11, 12. 1 Tim. 3. 2, 3, 6. Tit. 1. 7—9. 7 Act. 20. 28. 8 1 Tim. 4. 15, 16.

efengylaidd, heb gymdeithas frawdgarol, heb ddysgyblaeth, heb ysbrydolrwydd, heb ffydd. Fel Laodicea, y maent yn glaiar; fel Sardis, y mae ganddynt enw eu bod yn fyw, a marw ydynt.[1] O'i 16,000 gweinidogion, y mae tua 1568 nad ydynt yn gwneyd dim;[2] tua 6681, yn cyfyngu eu meddyliau a'u llafur i blwyfi bychain, y rhai a gynnwysant o 150 i 300 o eneidiau; tra y mae ereill mewn dinasoedd a threfydd, yn proffesu cymmeryd gofal 8000 neu 9000 o eneidiau.[3] Ac o'r 12,923 offeiriaid gweithiol, yr ydwyf yn ofni oddiar ymholiad manol, ac amryw arwyddion, bod oddeutu 10,000 yn ddynion annychweledig, y rhai nid ydynt yn pregethu yr Efengyl nag yn ei deall.

Pan fyddo eglwysi yn dyfod yn llygredig, a phan fyddo eu gweinidogion yn dyfod yn fydolion, ariangar, neu feilchion, y mae yn anmhossibl i annghredinwyr roddi i fynu eu hamheuon, neu fod crefydd yn ennill tir yn y wlad. Gan hyny, y mae pa beth bynnag a lygro eglwysi gwlad, yn niweidiol i'r wlad ei hunan: ond y mae eglwysi a gweinidogion y Sefydliad Seis'nig yn llygredig; a chan mai yr Undeb yw prif achos o'u llygriad, y mae yr Undeb ar hyn o bryd yn un rhwystr mawr i ffyniant crefydd yn y wlad.

Mae yr Undeb yn rhwystro ffyniant crefydd yn y wlad trwy osod eglwysi y Sefydliad dan lywodraeth eglwysig gwladweinyddion bydol yn gynnulledig yn y Senedd, gan gynnwys Pabyddion ag Undodiaid, y rhai a'u dylanwadant mewn pethau ysbrydol, gan benderfynu y modd i ddewis eu gweinidogion, parhau eu gau athrawiaeth, ac attal gweinyddiad dysgyblaeth. Pa fodd y gall bendith Duw ddisgyn ar yr Undeb yma rhwng eglwysi Crist â dyeithriaid iddo ef? Pa fodd y gall eglwysi a lywodraethir felly, byth ennill y genedl i ffydd a duwioldeb?

Mae yr Undeb yn attal ffyniant crefydd yn y wlad, trwy roddi awdurdod ormesol annherfynol i'r esgobion ar yr eglwysi, y rhai gan eu bod o ddewisiad gwleidyddion ydynt yn rhwym o fod yn fynych mor fydol a'u noddwyr. Mae yr esgobion bydol hyn yn dylanwadu yn annrhaethol ar yr eglwysi trwy eu siamplau, trwy eu capelwyr ac arch ddïaconiaid, trwy eu noddogaeth ëang, trwy eu hawdurdod ddyspwylledig mewn ordeiniad, trwy eu trwydded

[1] Dat. 3. [2] *Horsman*, pp. 20, 21.

[3] Mae yr adroddiad digêl o'r ffaith alarus yma yn sicr o gyffrôi digofaint mawr. Bydd i'r holl rai beius yn naturiol, alw y cyfryw ymddygiad yn anhael, athrodus, a rhagfarnus, &c. Yr unig beth a allaf ei ddweyd yw, fy mod wedi ymweled â phob rhan o Loegr, a gwneuthur llawer o ymholiad. Ni fyddai neb yn fwy llawen na fy hunan o gael fy argyhoeddi o gyfeiliornad yn y peth hwn; ond mewn galar y rhaid i mi addef gyda Phaul,

Od oes un dyn difrifol yn ammeu y ffaith, bydded iddo ymofyn am dystiolaeth dynion galluog yn yr amryfal wledydd ammaethyddol, o barth gweinidogion yn eu cymmydogaethau, ac efe a wel os nad wyf yn camsyniaw, fy mod o'r bron wedi rhoddi gormod yn nifer y gweinidogion difrifol yn "yr Eglwys Sefydledig."

hawl ormesol, a thrwy eu heirchion ymweliadol; yr holl ddylanwad yma a chwanega fydolrwydd a marweidd-dra y Sefydliad.

Mae yr Undeb yn attal ffyniant crefydd yn y wlad, trwy roddi i noddwyr bydol yr hawl i bennodi gweinidogion i'r eglwysi. Gall y mawrion a'r goludog yn barhaus arllwys ar blwyfau y tir y rhan fwyaf o'u gweinidogion yn ddynion bydol fel hwy eu hunain, er fod ein Harglwydd wedi dweyd am danynt, fod yn haws i gamel fyned trwy grau y nodwydd, nag iddynt hwy fyned i fewn i deyrnas nefoedd.[1] Heblaw hyn, y maent yn cadw yn gaeth dan eu dylanwad bydol bawb a fyddont yn dysgwyl am ddyrchafiad eglwysig, y rhai ni's gallant ddysgwyl am gyllid a llwyddiant oddiwrth ddim ond eu ffafr hwynt; ac fel hyn, gallant yn effeithiol ddirymu pob ymdrechion i gyfodi yr eglwysi i fwy o ysbrydolrwydd, ffydd, a chariad.

Mae yr Undeb yn mhellach yn attal ffyniant crefydd yn y wlad drwy awdurdodi dewisedigion bydol noddwyr bydol, yn unig i weinyddu brawdwriaeth ysbrydol yn eu hamryfal blwyfau dan yr esgobion. Os gwir yw, fod tua 10,000 allan o'r 12,900 gweinidogion y Sefydliad, yn amlygu trwy eu gwrthwynebiad i athrawiaeth efengylaidd, eu hannghymeradwyaeth o gymdeithasau efengylaidd, trwy eu diffyg o ddifrifwch yn eu gweinidogaeth, a'u casineb at ymneillduwyr duwiol a thangnefeddus, eu bod yn ddynion annychweledig, i'r rhai hyn y mae yr Undeb yn rhoddi yr hawl i gau allan o'u plwyfau, bob gwyr Eglwysig ydynt fwy goleuedig, a mwy difrifol na hwy eu hunain. Ni fedd y plwyfolion un llais yn y peth. Gall fod yr holl blwyf yn awyddus i glywed yr Efengyl o wefusau dyeithrddyn. Efallai y byddai i'w bregethu adfywio yr Eglwys, ac y mae yr Undeb wedi rhoddi hawl i'r gweinidog annuwiol, dïog, ac esgeulus, i ddweyd na chant wrando neb ond efe ei hunan.

Y mae yn anmhossibl i'r Sefydliad dan arglwyddiaeth gwleidyddion bydol, dan dywysiad esgobion bydol, a than ddysgeidiaeth gweinidogion bydol, wedi eu dewis gan noddwyr bydol, helaethu amherodraeth crefydd ysbrydol trwy y wlad. Pa fodd y gall esgobion ac offeiriaid bydol wneyd dynion yn well na hwy eu hunain? Tra fyddont yn annychweledig eu hunain, rhaid iddynt adael eu gwlad felly hefyd. A chyhyd ag y meddo noddwyr gwleidiadol yr hawl drylwyr i bennu gweinidogion y Sefydliad, cyhyd a hyny, rhaid i'r Sefydliad fod yn fydol, a'r genedl yn annghrefyddol.

Mae yr Undeb yn mhellach yn attal ffyniant crefydd yn y wlad trwy arwain i'r gred gyffredinol mai "gweision cyflog" ydyw yr offeiriaid. Ni's gall dim fod yn fwy nychlyd i ddylanwad gweinidogion na'r grediniaeth yma mewn perthynas iddynt, heblaw yn wir, fod yn euog o'r pechod a roddir yn eu siars. Ond y mae yr Undeb yn llithio llawer o weinidogion i hyn. Pan y mae pendefigaethau a phalasau, deoniaethau a chôr-orseddau, bywioliaeth-

[1] Matt. 19. 3. 4. Gwel hefyd 1 Cor. 1. 26. Iago 2. 5—7.

an cyfoethog, a thriglëoedd têg yn llewyrchu o flaen llygaid gwyr ieuainc, fel gwobrwyon talent offeiriadol, pa fodd y gallant lai na'u hattynu? Mae llawer o'r rhai medrusaf o honynt, a'r rhai cyssylltiedig a noddogwyr, yn ddiau yn dyfod yn weinidogion, nid o herwydd hoffder at y dyledswyddau, ond trwy chwant i'r elw. Ac nid yw yn llai sicr bod y byd, yn yr hwn y mae ariangarwch yn nwyd arglwyddiaethol, yn credu bod hyn yn ffaith yn fwy cyffredinol nag y mae mewn gwirionedd.

Pa fodd y gallant edrych ar ddynion, y rhai nid ydynt yn hynod am eu duwioldeb na'u diwydrwydd gweinidogaethol, ond dynion o gynheddfau da, neu gyfrathach uchel, yn dringo i'r meddiant o awdurdod a golud eglwysig, heb gredu eu bod wedi dewis y swydd er mwyn y gwobrwyon dysglaer hyny? Ac os yw y grediniaeth yma yn gyffredin yn mysg y bobl, fel y rhaid ei fod, pa beth a all fod yn fwy effeithiol i wrthweithio dylanwad crefyddol yr offeiriaid, neu i wneuthur crefydd ei hunan yn gyffredinol yn ddarostyngedig i ddirmyg y lluaws? Ac yn mhellach, pa fodd y gallant hwy weled bywiolaethau, hyny yw cyllid y gweinidog, wrth yr hyn y mae yr hawl weinidogaethol mewn effaith yn gydiadol yn cael eu prynu a'u gwerthu, gyda'r holl edwiccaeth hwnw a ddylyna werthiant siwgr neu gottwm, heb deimlo nad yw eu gweinidogion wedi eu hanfon o'r nef, nag yn ettifeddion awdurdod apostolaidd?

Mae yr enwadur "Yr Eglwys" yn tueddu yn mhellach i sefydlu yr argyhoeddiad yma yn meddyliau y lluaws, ac i ddangos i'r fath radd fawr y mae y meddwl am anrhydedd ag elw personol yn gyssylltiedig a'r swydd offeiriadol. Anfynych y mae llëonorion y Sefydliad yn cael eu galw yn fugeiliaid, gweinidogion, neu henaduriaid, yr enwau trwy y rhai y dynodir pregethwyr yr Efengyl yn y Testament Newydd. Ond fe'u gelwir hwy fel y canlyn:—

Preladiaid, o *prælati,* rhai gosodedig o flaen ereill. Urddasolion, rhai wedi cyrhaedd urddas. Rectoriaid, o *rectores,* rheolwyr. Dyledogion, o *incumbens,* gorwedd ar unrhyw beth—baich dyledus, yr hwn y mae yn rhaid i'r Eglwys ei gynnal. Personiaid, o *personæ,* prif bersonau plwyf. A'u swydd, yn lle cael ei galw yn ofal bugeilaidd, neu esgobaeth, (*episcopes*) megis y'u gelwir yn yr Ysgrythyr, (1 Tim. 3. 2.) a elwir Bywioliaeth, neu yr hyn a alluoga y Dyledog i fyw. Cedfa, *beneficum,* peth i'w fantais; a Dyrchafiad, peth i'w ddyrchafu ef yn y byd.

Pa fodd y gallai yr enwau hyn ddyfod i le yr enwau ysgrythyrol, oddieithr bod y syniadau a gludant wedi cymmeryd lle y gwir syniadau am weinidogaeth y gair, yn mysg offeiriaid a phobl? Ac yn awr y maent yn dwyn eu ffrwyth, a chredir bod gweinidogion proffesedig Crist yn ceisio anrhydedd, esmwythder, a golud, bron yr un ffunud a'r cyfreithiwr neu y masnachwr.

Y mae rhai yn wir, y rhai ydynt hwnt i amheuaeth, dynion difrifol a llafurus, y rhai nid ydynt wedi eu bwriadu i lenwi gorseddau, na gwisgo meitrau, ar ddysgeidiaeth y rhai y mae bendith yr Ysbryd yn gorphwyso. Hwynt hwy ydyw cryfder y Sefydliad; ac y maent yn peri cyffröad iachusol i dduwioldeb y genedl, ac yn dwyn bendith ar y tir. Ond llesteirir a chloffir y rhai hyn gan yr Undeb. Dan wg esgobion anefengylaidd, mawrion galluog eu cymmydogaeth, a'r dyledogion bydol, y rhai a'u teimlant eu hunain yn cael eu condemnio gan eu zel, rhaid iddynt dderbyn pob math at y sacramentau, ni's gallant weinyddu unrhyw ddysgyblaeth o fewn eu heglwysi; ni wiw iddynt bregethu Crist oddi allan i ffiniau eu plwyfau bychain eu hunain, heb ganiattâd y dyledogion; a thra y'u dyfernir i gymdeithasu fel brodyr ar yr achlysuron o ymweliadau a chadarnhau, &c., â dynion annychweledig, y rhai nid ydynt yn eu hoffi hwy na'u hegwyddorion, y maent yn rhwym i ommedd eu pulpudau i'r efengylwyr gwresocaf yn mysg eu brodyr o'r eglwysi rhydd; ni's beiddiant gymdeithasu a hwy yn rhydd, na'u harddelwi yn rhwydd galon; ac fel hyn cyfrannogant yn euogrwydd a drygedd yr ymrwygiad eglwysig a achlysurir gan y Sefydliad.

Mae yr Undeb yn mhellach yn rhwystro ffyniant crefydd yn y wlad, trwy attal gweithgarwch eglwysi y Sefydliad. Mae yr eglwysi hyn yn amddifaid o weithgarwch, o ddysgyblaeth, ac o gymdeithas frawdol. Ychydig y mae eu haelodau yn gyffredin yn ei wneyd er dwyn yn mlaen iachawdwriaeth eneidiau; y maent yn cydymgorphori yn dawel mewn aelodaeth eglwysig, â rhai na's gwnant unrhyw broffes o dduwioldeb, ac y maent yn ddyeithriaid y naill i'r llall. Yr Undeb a wnaeth hyn oll, gan ei fod wedi rhoddi gweinidogion bydol i fod yn rheolwyr a dyledogion arnynt; cymmerodd yr hawl i weinyddu dysgyblaeth oddiarnynt, a rhoddes i'r holl blwyfolion o'r bron, oddieithr eu bod "yn saint a ffyddlawn frodyr" o'r eglwysi rhydd, yr hawl i ddyfod at ordinhadau Crist, a rhwymodd i fynu yn un tŵr rhewedig y rhai ni's meddant un cyttundeb mewn athrawiaeth, dim parch y naill i'r llall, dim cyd gyfarfyddiad mewn amcanion, na dim cyfarfodydd eglwysig. Pa fodd y gall y cyfryw eglwysi lafurio dros Grist?

Seiniodd gair yr Arglwydd allan o'r eglwysi apostolaidd; llewyrchent yn mysg eu cymmydogion fel goleuadau; yr oedd eu ffydd yn hysbys trwy yr holl fyd; a chan rodio yn ofn yr Arglwydd, ac yn nyddanwch yr Ysbryd Glan, hwy a amlhawyd.[1] Ond pa nifer o eglwysi y Sefydliad allan o'r 13,000 sydd yn bendithio eu cymmydogaethau fel hyn, gan ledaenu gwybodaeth o Grist o'u hamgylch? Pan fygythid eglwys Jerusalem gan y galluog, ac y'i cashëid gan y rhagfarnus, ond yn gryf mewn ffydd, yn cyffesu arglwyddiaeth Crist, yn goddef colledion mawrion er ei fwyn, yn cyfarfod yn

1 1 Thes. 1. 2, 3, 6, 8. Phil. 2. 15, 16. Rhuf. 1. 8. Act. 9. 31.

fynych yn ei enw, ac yn caru eu gilydd fel brodyr, yna, "*yr Arglwydd a chwanegodd beunydd at yr eglwys y rhai a fyddent gadwedig:*"1 ac efe a barai chwanegiad cyffelyb at y cyfryw eglwys eto. Ond pa fodd y gall yr eglwysi Sefydledig hyn, sydd megis hanner eglwys a hanner byd, yn gorwedd yn agored i bob dyfodiaid, oddieithr y saint ydynt mewn eglwysi ymneillduedig; cynnulliad cymmysg o bob rhyw nodweddion, egwyddorion, ac opiniynau, ydynt yn gweithredu ar gydwybod neu galon unrhyw fydolddyn? Mae yr annghredadyn yn ffieiddio y fath gymmysgiad anmhur, a chorff y bobl yn myned yn fwy-fwy estronaidd iddynt hwy a'u gweinidogion.

Mae yr Undeb yn attal ffyniant crefydd yn y wlad yn mhellach, trwy gadw i fynu ymrwygiad. Gan attal unrhyw ddiwygiad ar y canonau, y mae yn cadw yr esgobion y barnwyr eglwysig, a'r offeiriaid, dan yr athrawiaeth lygredig ac ymbleidiol o fod yr ymneillduwyr yn ymbleidwyr. Er mai hwynt-hwy yn unig a ddeffröasant lawer pentref gwledig o syrthni marwaidd, a bod drwyddynt ddwy neu dair mil-fil o'n cydwladwyr, mewn dinasoedd ac ardaloedd llaw-weithfäol, y rhai heb addysg a fuasent yn barod fel gwerin Paris, i bregethu aflywodraeth oddiar goppäau myglyd a gwaedlyd eu brys-gaerau, yn awr wedi eu crynhoi yn eglwysi prydferth i Grist, hywaith a threfnus; yr Undeb a ddysgodd i Eglwyswyr gyfrif eu llafur megis anffawd, a chyfrif eu bodolaeth fel brycheuyn cymdeithasol, i'w cau o'u pulpudau, oddiwrth eu hallorau, ac o'u cyfeillach. Trwy y dïystyrwch a'r drwgdyb yma, y mae hyd yn nod ddynion amyneddgar wedi eu cyffroi i ddigofaint, a dynion o dymher grefach, yn ymollwng i arfer y cyfryw gableddau chwerwon ar y Sefydliad a'i gweinidogion, am yr hyn nid yw ond esgusawd anmherffaith i ddywedyd, eu bod wedi cael annogaeth greulawn. Y mae poethder pob plaid yn rhwystro flyniant yr efengyl. Os dyma ffrwythau ffydd yn Nghrist, ymddangosai yn well i lawer fod heb gredu. Gan fod pob plaid yn dynodi y llall fel gelyn, ac na's gwyr y byd pa un i'w gredu, paham nad ymddygai at y ddau fel gelynion i'w heddwch? Gan na's gallant argyhoeddi y naill y llall o wirionedd eu hathrawiaethau, pa fodd y gallent argyhoeddi y gweddill o ddynolryw. Gan fod pob un yn dweyd am y llall ei fod o'i le, gall y byd feddwl fod y naill a'r llall felly. Ni's gall ddirnad eu rhesymau, ond adnebydd eu nwydau; gall eu penderfyniadau fod yn lled aneglur, ond y mae eu hanathemau yn ddigon amlwg. Y canlyniad yw, fod llawer yn meddwl nad oes dim wrth waelod yr ymryson yma rhwng yr Eglwyswyr a'u gwrthwynebwyr ond hunanolrwydd, trachwant, a balchder. Am y casgliad yma, a'r gelyniaeth canlynol at grefydd sydd yn cyfodi yn y wlad, y mae yr Undeb a'i gefnogwyr yn gyfrifol yn bennaf. "*Gwae y byd oblegid rhwystrau! Canys angenrhaid yw dyfod rhwystrau; eithr gwae y dyn hwnw drwy yr hwn y del y rhwystr.*" Y mae

1 Act. 2. 47.

ymrysonau gwleidiadol yn cyfodi o'r ymbleidiau crefyddol hyn. Gan fod yr Eglwyswr yn ei awydd i gadw ei ragorfreintiau, yn *Tory*, a'r ymneillduwr yn ei bryder am fwynhau ei iawnderau, yn *Whig*, y mae y naill yn cael ei chwerwi at y llall trwy yr ychwanegiad o ddadlyddiaeth wlad-bleidiol at yr un Ddwyfyddol. Ar y ddwy ochr, y mae dysgyblion Crist yn ymgyngrheirio â'r rhai a'i dïanrhydeddant ef yn amlwg, tra y maent yn diarddelwi ei gyfeillion ef yn y wladydd-blaid wrthwynebol. Y mae poethder gwleidiadol, ac ysbryd ymbleidiol Cristionogion, yn cuddio eu ffydd a'u zel o olwg y byd; ymddengys crefydd megis yn ddiflanedig o'r eglwysi, ac y mae y genedl yn diystyru crefydd efengylaidd, o herwydd camymddygiadau ei chefnogwyr.

Mae y rhai a gynhaliant y gyfundrefn lygredig a nychlyd yma, dan yr hon y mae bydolrwydd o angenrheidrwydd yn ffynu, ac ysbrydolrwydd yn nychu, trwy yr hyn y mae yr eglwysi yn cael ei llygru, a'r holl genedl yn cael ei niweidio, yn gyfrifol am y canlyniadau.

---

### ADRAN X.—*Effeithiau yr Undeb ar y Llywodraeth.*

Dangoswyd yn y tu dalenau blaenorol bod yr Undeb yn niweidiol i weinidogion ac eglwysi y Sefydliad, i ymneillduwyr, ac i'r genedl yn gyffredinol. Y mae yn ofer gobeithio y bydd i Gristionogion ymuno, y bydd yr eglwysi yn bur, neu y bydd i grefydd ffynu nemmawr mewn cymdeithas, tra y pery yr Undeb.

Ychwanegaf yn awr, ei fod yn ffynhonell dyryswch parhaus i'r Llywodraeth. Y mae gweinidogion eglwysig ac ymneillduol, y rhai a ddylent fod wedi eu dyrchafu uwchlaw gwlad-bleidiaeth, i "wylio dros eneidiau, fel rhai sydd raid iddynt roddi cyfrif," yn dyfod bron o angenrheidrwydd trwy yr Undeb, yn wlad-bleidwyr awchus. Medd yr offeiriaid ragorfreintiau i'w hamddiffyn, y rhai a fygythir gan wrthwynebwyr lluosawg a gwyliadwrus; a'r maes lle y mae yn rhaid ymladd y brwydrau am y rhagorfreintiau hyn yw y Senedd. Eu cyflogau, eu hanrhydedd, eu dylanwad fel dysgawdwyr sefydledig y genedl, ydynt oll mewn perygl: ond os gallant hwy gadw wrth lyw y llywodraeth, ymblaid sydd a'u llesion yn nglyn a'r eiddynt hwy, y maent yn ddiogel. Gan nad ydyw peth mor bwysig i'w esgeuluso, rhaid iddynt ymdrechu yn egnïol i gadw eu plaid mewn awdurdod. Prin y mae yn llai pwysig i sicrhau dychweliad aelodau i'r Senedd, y gwybyddir eu bod yn ymroddgar i gefnogi eu hachos. Y mae llawer Goliah arfog i'w herbyn yn Nhy y Cyffredin, a rhaid iddynt anfon cynnifer Dafydd ag a allont i'w cyfarfod yn y maes. Mae llawer ysgrifraith hefyd, yn tueddu i gryfhau

neu leihau eu dylanwad, rhai yn cydnabod yr egwyddor o Sefydliad, ac ereill yn elynol iddi, rhai yn tueddu i ddigaloni eu gwrthwynebwyr, ac ereill yn bygwth eu dinystr hwy eu hunain, yn galw am eu sylw dyfalaf. Rhaid i bob un ymdrechu i sicrhau pleidlais ei gynnrychiolydd ar y pethau hyn; pob un a ymdrechant i gasglu enwau wrth y gofynebau i'r Senedd a ofyna pob cynnygiad. Heblaw y temtasiynau hyn i awchlymder gwleidiadol, y mae yn naturiol i weinidogion Eglwysig fod yn awyddus i wasanaethu eu noddogwyr, weithiau o ddiolchgarwch am ffafrau a gafwyd, ac weithiau mewn gobaith am ffafrau i ddyfod. Bod yn zelog yn casglu pleidleisiau i gyfranwr galluog dyrchafiad eglwysig, yw y ffordd i bersonoliaeth gysurus, a chyllid da.

Y mae y cyffelyb demtasiynau yn amgylchynu gweinidogion eglwysi rhydd. Y mae cael eu cyfleu ar gydraddoldeb cyfreithiol a'r sect sefydledig, gochel arddodiad trethi eglwysig, gweled y meddiannau eglwysig gwladwriaethol yn cael ei waredu o'i gymhwysiad niweidiol at wasanaeth sect, a'i ddefnyddio yn wasanaethgar i bawb, symmud attalfeydd mawrion o ffordd cynnydd purdeb yr eglwysi Cristionogol, a llwyddiant yr efengyl yn y wlad, yn amcanion, er cyrhaedd y rhai y barnant hwythau y dylent ddwyn eu plaid i awdurdod, sicrhau etholiad cynnrychiolwyr ymwystledig i ysgariad yr Eglwys a'r Wladwriaeth, a llafurio er llwyddo neu aflwyddo y cyfryw fesurau ar a fyddont yn ffafrol neu elynol i'w hegwyddor fawr. Y mae bywiogrwydd gwlad-bleidiol y ddau gorph o weinidogion mewn cyfeiriad gwrthwynebol, yn dwyn y ddwy blaid i gyfathrachau bydol, yn gwannychu eu grym fel athrawon Cristionogol, yn eu harwain i fwrw edliwiadau cyffröus ar eu gilydd, yn llymhau eu gelyniaeth at eu gilydd, ac yn chwanegu yr ymbleidiaeth sydd yn rhwygo eglwysi Crist. Eto, er mor niweidiol yw hyn, y maent o'r bron yn ei olygu fel zel Gristionogol. Meddylia yr Eglwyswyr bod yn rhaid iddynt hwy ymladd dros egwyddor â'r hon yn ol eu barn hwy, y mae llwyddiant, cynhaliaeth, a lledaeniad eglwys Crist, wedi eu cymhlethu mor anwahanol. Ac y mae annghydffurfwyr yn ddarbwylledig bod yn rhaid iddynt ei bwrw allan o'n cyfansoddiad gwladol, fel yn annghyson a hawlion Crist, a'u ffyddlondeb i'r eglwysi, neu a llesäad ysbrydol y genedl. Cyhyd ag y parhäo yr Undeb rhaid i weinidogion crefydd fod yn wlad-bleidwyr mewn dau wersyll gelynol.

Y mae eu hamcanion gwahanredol yn ffurfio eu cyssylltiadau gwladbleidiol. Mae dwy blaid fawr yn y wlad hon wedi bod yn ymryson yn hir am yr awdurdod. Yr egwyddor gerfiedig ar luman y Toriaid, yw, "Rhagorfraint yn erbyn newidiad." Appeliant at draddodiadau hanesyddol y wlad; cyfeiriant yn falch at ei llwyddiant presenol a'i gallu; rhybuddiant y genedl i ochel coeg-feddygaeth, yr hwn a all beryglu ein ffurflywodraeth ogoneddus; y maent hwy am "adael yr hyn sydd dda yn llonydd." Ysbryd

credo y Whigiaid ar y llaw arall, yw "Cadweidiaeth trwy gynnydd." Maent hwythau yn gwrthdystio yn erbyn cyfnewid er mwyn cyfnewidiad: ond, megis na chymmeradwyant beth drwg am ei fod yn newydd, felly ni fynant arbed peth drwg am ei fod yn hen. Fel y mae cenedl yn cynnyddu mewn deall a moesoldeb, dylai gyfaddasu ei sefydliadau i'w hamgylchiadau, a dystrywio yn ddïarswyd ba beth bynnag sydd anghyfiawn a niweidiol, yw y ffordd i gadw pa beth bynnag sydd gyfiawn a defnyddiol. Gan mai dyma egwyddorion gwrthwynebol y ddwy blaid, y mae yr holl ddospeirth rhagorfreinniol yn naturiol yn gyssylltedig â'r Toriaid, y rhai ydynt am ddal rhagorfraint i fynu a'r dospeirth na's meddant ragorfreintiau ydynt dros y Whigiaid, y rhai a ddadleuant dros ddiwygiad. Am y rhesymau hyn y mae gweinidogion Crist, y rhai a ddylent fod yn unedig fel brodyr, heb adnabod unrhyw blaid wleidiadol, yn gyfresawl mewn dwy fyddin elynol, yr Eglwyswyr ydynt gyd â'r Toriaid yn erbyn y Whigiaid, a'r ymneillduwyr gyd â'r Whigiaid yn erbyn y Toriaid.

Ymddengys i mi fod y gwledychion eglwysaidd yma yn drychinebus i'r ddwy blaid wleidiadol. Fel cefnogwyr diwygiad, y mae y Whigiaid, tra mewn awdurdod, yn arfogi i'w herbyn, yr offeiriaid, y rhai a ddadleuant dros eu rhagorfreintiau. Ni's gall unrhyw gymhedrolder golygiadau, unrhyw ochelgarwch yn eu mesurau, unrhyw dirionwch ymddygiad, nag unrhyw ragoriaeth rhinwedd, waredu gwlad-weinwyr Whigaidd rhag cael yr offeiriaid yn elynion iddynt. Y maent hwy am ddiwygiad yn erbyn rhagorfraint, ac y mae hyny yn unig yn ddigon o achos i beri i bob dosparth rhagorfreinniol fod yn awyddus am eu dychweliad. Ond y mae 16,000 o offeiriaid, yn wasgaredig dros yr holl wlad, ac yn gynhyrfedig gan eiddigedd ac anhoffder anniffoddadwy, yn wrthwynebwyr grymus. Mae yn wir bod eu hegwyddor sylfaenol yn sicrhau i'r Whigiaid ymlyniad y dospeirth difreinniedig; a chan hyny, y mae ymneillduwyr, Pabyddion, a diwygwyr o bob gradd, yn debyg o'u cefnogi hwy yn hyttrach na'u gwrthwynebwyr. Ond y mae angenrheidiau y Llywodraeth, cyhyd ag y parhäo Undeb yr Eglwys a'r Wladwriaeth, trwy orfodi gweinidogion i ganiattau ceisiadau eu gwrthwynebwyr, yn cyffrôi digofaint eu cefnogwyr. Er gochel gyru eu gwrthwynebwyr i eithafoedd, y mae y Whigiaid yn ofni cymhwyso eu hegwyddorion eu hunain, yn dal i fynu gamdrefniadau rhy gryfion i ymosod arnynt, ac yn gorfod cyfiawnhau eu hymddygiadau yn hyny trwy resymau annigonol. Y canlyniad a fu, ac a fydd eto, er fod y Cynghorlys wedi ei gyfansoddi o ddynion gonest a galluog, bod eu cefnogwyr, y rhai efallai, ni's gallant ddirnad cyfyngderau eu sefyllfa hwy, yn oeri tuag attynt. Ni all unrhyw dalent er ei maint, unrhyw fedrusrwydd gweinyddiadol, unrhyw allu arddadlyddawl, nac unrhyw yspaid o wasanaeth i'r wlad, gadw eu poblogaeth. Gan eu bod yn rhy ryddfrydig i'r bendefigaeth, ac yn rhy gadweidiol i'r lluaws

difreinniedig, y maent yn analluog i gymmodi eu gelynion, nag i gadw eu cyfeillion: y mae pleidleisiau yn ol eu gilydd yn llithro o'u mwyrifau, eu cyfeillion oddi allan yn myned yn oer ac yn sarrug, ac awenau y Llywodraeth yn disgyn o'u dwylaw.

Eto, nid oes dim rhagddrych gwell yn aros y Toriaid, ar eu hesgyniad i swydd. Uchel a maith yw gorfoledd yr offeiriaid o'r herwydd, a'r bendefigaeth a'u cefnogant yn bybyr; ond y mae pleidiau ereill mewn cyngrhair yn eu herbyn, y rhai a ddirmygid hyd yn hyn ydynt yn dyfod yn alluoccach o flwyddyn i flwyddyn. Fel y mae y Whigiaid yn dyfod yn geidwadyddol tra mewn swydd, felly y mae y Toriaid yn dyfod yn rhyddfrydol. Er fod eu hymddybyniad ar y dosbeirth pendefigaidd yn sicrhau eu ffyddlondeb i'w harwyddair, "Rhagorfraint yn erbyn cyfnewidiad," eto fel y Whigiaid, ni's gallant hwythau lai na rhoi eu ffordd mewn rhyw bethau i'w gwrthwynebwyr. Ond ni all y rhai hyn byth gymmodi ymneillduwyr, Pabyddion, a diwygwyr: y mae anian duedd y breinniedig a'r difreinniedig, yn hanfodol wrthwynebol. Fe gyfyd newyn ar Cerberus eto wedi ei dammaid, ac eto, ymfyddina pedwar o bob pump o'r dospeirth isaf i'r rhai y gommeddir yr hawl bleidleisiol, y Pabyddion, y rhai a arhonant gydraddiaeth gwladol a chrefyddol gyda'r gweddill o'u cyd-ddeiliaid, ymneillduwyr, y rhai a farnant fod lles y genedl yn gyfrwymedig â rhyddid yr eglwysi, a'r gyfran fwyaf goleuedig o'r dospeirth canol, y rhai a welant mai trwy ddiwygiadau yn unig y diogelir heddwch y Wladwriaeth, oll yn cefnogi yr wrthblaid Whigaidd, a aflwyddant eu mesurau, ac a ddïystyrant eu hanalluogrwydd. Yn y cyfamser, eu cyfeillion eu hunain, y rhai ni allant oddef eu cyfroddion i'r ymneillduwyr, y Pabyddion, na'r Whigiaid, a estroneiddir ac a chwerwir. Y mae yn amlwg eu bod yn colli ymddiried y wlad, a hwythau yn eu tro a ddymchwelir o'u gorseddau.

Mae gan bob plaid resymau da i ddymuno fod pen yn cael ei roddi ar yr Undeb; ond o'r ddwy, y Toriaid a niweidir fwyaf. Y mae ymbleidiau gwleidiadol eisoes bron yn gyfartal, ac y mae yr elfen boblogaidd yn ein cyfansoddiad yn cynnyddu yn barhaus, a chyda hyny, nerth y blaid boblogaidd yn y Senedd, y mae gwrthwynebiad bywiog yr ymneillduwyr i weinyddiaeth Doriaidd, yn rhwym o fod yn ffynhonell afrwydd-deb cynnyddol. Y maent wedi cael eu dyrysu yn ddirfawr yn barod trwy gyduniad y dospeirth difreinniedig yn eu herbyn, ac nid yw yn ymddangos fod yr amser yn mhell, pan y'u gwneir yn analluog i gario y llywodraeth yn mlaen o gwbl.

Os ymddengys yn amheus i neb un y byddai i ddadgyssylltiad yr Undeb leihau bywiogrwydd gwledychawl y ddau ddosparth o weinidogion, ystyried yr amgylchiadau yn unig, a ddiflana yr amheuaeth o angenrheidrwydd. Gan fod y gweinidogion Eglwysig yn awr yn wlad-bleidwyr, am eu bod yn gorfod ymryson yn y Senedd dros eu rhagorfreintiau, urddau, ac elw eu heglwys;

a chan fod yr ymneillduwyr yn awr yn wlad-bleidiol, am eu bod yn cael eu gormesu yn annghyfiawn, a bod ffyniant crefydd yn y wlad yn cael ei rwystro trwy fodolaeth yr Undeb, rhaid i'r ddau ddosbarth beidio a bod yn wlad-bleidiol, pan, wedi y dattoder yr Undeb, na bydd ganddynt mwyach ddim i'w ofni, mwy nag i'w obeithio oddiwrth y Llywodraeth. Wedi y dyger y diwygiad mawr yma i ben, pa ham yr ymrysonant mwy mewn rhyfel gwlad-bleidiol? Pan na's gallo un blaid wladychol, na'u gwasanaethu na'u niweidio, pan na byddo unrhyw gyfreithiau i'w dwyn yn mlaen neu i'w rhwystro, unrhyw gampwyr i'w hethol, na gelynion i'w darostwng, byddai eu bywiogrwydd gwledychawl yn waeth nag ynfyd.

Yn awr, y mae yn ymddangos fel pe byddai crefydd yn eu galw i ymgymmeryd âg ymrysonfa wledychawl; ond yna, ymddangosai i'w heglwysi ac i'r genedl, yn ymyriad ymwthgar, ac yn fydolrwydd digêl, ac ni's gellid ei ddyoddef. Yna ni byddai gan y rhan oreu o'r gweinidogion flas ar derfysg gwlad-bleidiol, a gwaherddid i'r lleill ymollwng iddo. Byddai i'r Toriaid a'r Whigiaid, gydlawenhau yn eu gwaredigaeth oddiwrth gyfeillgarwch anwadal a gelyniaeth benderfynol; a byddai i fugeiliaid yr eglwysi, wedi eu gwaredu oddiwrth demtasiwn gref, adael dadleuon ymbleidiol i'w trafod gan rai cymhwysach heb gadw yn ol iddynt eu hunain ddim ond yr hawl gyssegredig i gefnogi pob llywodraeth dda, trwy ddysgu yn eu gweinidogaeth barch i'r cyfreithiau, ffyddlondeb serchog i'w pennadur, a zel wladgarol dros les eu gwlad.

Dadleuir yn fynych yn erbyn cynllun mor wasanaethgar i bob dospeirth, y byddai gwaith y Llywodraeth yn cymmeryd meddiant o feddiannau eglwysig, yn yspeiliad. Dywedir fod yr eiddo crybwylledig yn perthyn i Eglwys Loegr, ac y gallai y dwylaw cyssegr-yspeilgar a'i hyspeiliai o hono, yn llawn mor gyfiawn, attafaelu meddiannau y tir-feddiannwyr, neu werthu llaw-weithfëydd Swydd Gaerhirfryn a Swydd Gaerefrog, at wasanaeth y Llywodraeth. Dyma eiriau mawrion, ag ychydig ynddynt. Pwy a roddes y meddiannau eglwysig i'r offeiriaid, ac i ba ddybenion y'u rhoddwyd? Y Llywodraeth a'u cymmerth yn gyfiawn oddiar yr offeiriaid Pabaidd, am y bernid fod eu gweinidogaeth yn niweidiol i'r wlad, ac a'u rhoddes i'r gweinidogion Protestanaidd er lles y wlad yn gyffredinol. A gallent eu cymmeryd mor gyfiawn oddiar y gweinidogion Esgobyddol, *gan gymmeryd gafal o gedion hanfodawl*, a'u rhoddi i weinidogion Henaduriaethol neu Anymddibynol, os y barnent y byddai hyny yn llesol i'r wlad. Fe'u rhoddid gan y genedl i'w gweinidogion at ei gwasanaeth ei hun, a rhaid i'r genedl eto feddu yr hawl i farnu pa mor bell y mae eu cymhwysiad presenol yn atteb y dyben hwnw. Megis y'u cymmerwyd yn gyfiawn oddiar yr Ymddiriedolwyr Pabaidd pan y profwyd bod eu perchenogaeth o honynt yn niweidiol, felly y gellir eu cymmeryd oddiar yr Ymddiriedolwyr Protestanaidd, pan y profir

yr un ffunud bod eu perchenogaeth hwythau o honynt yn niweidiol. Y mae perchenogaeth eglwysig yn bodoli trwy weithred Seneddol, er llesäad y genedl, a rhaid i'r Senedd fod yn farnydd goruchaf pa un a fyddai yn lles i'r genedl iddo beidio a bod. Mae Eglwyswyr yn dal fod llesion crefydd yn ymddibynu ar ei barhad yn eu dwylaw hwy; ac ymneillduwyr a llawer mwy o reswm, yn dadleu y blagurai crefydd yn llawer mwy, pe y'i defnyddid i ryw berwylion ereill. Appelia y ddwy blaid at y Senedd, a'r Senedd yn unig sydd raid farnu. Pwy mewn gwirionedd a ddyoddefai, pe y cymmerai y Llywodraeth yr eiddo hwn i fynu? Nid y bobl, canys fe'u dysgid hwy yn well hebddo; nid y noddwyr, canys dylent hwy dderbyn ad-daledigaeth am y golled o'u glwysfuddiaethau; nid y gweinidogion, canys dylent hwy fwynhau y cyllid hyd eu marwolaeth; nid eu holynwyr, canys nid ydynt hwy mewn bod. Llesolid pob dosbarth, ac ni ddyoddefai neb, pe y cymmerid meddiannau eglwysig i fynu gan y Llywodraeth, a'i ddefnyddio at gynnal ysgolion, sefydlu llyfrfëydd pentrefawl, ysbyttai, neu unrhyw amcanion ereill, a weinient i lesion pawb.

Ond, os addefir bod y cyfryw drefniad yn angenrheidiol, fe ddadleua rhai dros oediad. Hwy a ddywedant, "Na chynnygier yn awr o leiaf, i ddymchwelyd y rhan fwyaf hybarchus o'n ffurflywodraeth anrhydeddus. Nid yn awr, pan y mae pob Llywodraeth Ewropaidd yn cael eu lluchio gan derfysgoedd aruthrol y bobloedd, fel y lluchir ysgafnlong yn y Cefnfor; pan y mae Lloegr yr unig wlad o'r bron ag y mae ei sefydliadau yn amlygu dïysgogrwydd, ac at yr hon y mae y doeth a'r da drwy Ewrop yn edrych fel yr unig forfur, a all attal y dylif o chwyldröad gwyllt a digyfraith i ymdorri ar y byd. Pa ham y gollyngid holl ddyheuadau chwyldröadawl y deyrnas yn awr i dorri ar ein heddwch, os nid i beryglu ein bodolaeth?"—

O ofnau gweigion! y mae dïogelwch y ffurflywodraeth yn gofyn am ei symmud ymaith yn ddioed. Mae yr Undeb yn anurddo ein ffurflywodraeth, yn torri ar ein heddwch cymdeithasol, yn gwrthdaraw ein synied o gyfiawnder, yn ddyfarnedig gan grefydd, ac yn cyffroi myrddiynau yn erbyn y gyfundrefn gymdeithasol dan yr hon y maent yn byw. Rhyddhewch hwy oddiwrth bob blys am gyfnewidiau drwy ganiattâu iddynt eu hawlion cyfiawn. Gwnewch myrddiynau ymneillduwyr yn geidwaidwyr trwy roddi eu hiawnderau hyn iddynt i'w cadw. Symmuder yr Undeb, a'u hadeilwaith gymdeithasol a saif. Cedwch yr Undeb i fynu, a gwyliwch na thyno y gweddill i lawr i'w ganlyn. Am fod y cenhedloedd yn awr yn anesmwyth, ac yn darostwng pob sefydliadau dan ymchwiliad ëofn a di barch, y dylai pob peth na's deil y fath ymchwiliad gael ei roddi i fynu. Pa beth a all gythruddo yr anfoddawg yn fwy na gweled bod y cwynion mwyaf cyfiawn, rhesymol, a chrefyddol, yn cael derbyniad llawn cynddrwg gyd a'u deddfwyr, a'r rhai a darddant oddiar anwybodaeth neu diffyg egwyddor? Pa beth a all gyffroi

dymuniad am gyfnewidiad ehang yn meddyliau y bobl, na gadael iddynt weled na fyneu llywodraethwyr roddi hyd yn nod gamwri i fynu? *Diwygiad ystyriol, cyfiawn, a chrefyddol yw unig ammod ein diogelwch.* Os y dewisem weled ein sefydliadau yn erbyn chwildröadau, y mae yn rhaid i ni eu cyfaddasu at synwyr â chydwybod y genedl. Ni wiw i un annghyfiawnder achlesawl, i un gwrthuni dynoethedig gael ei adael i'w gwanhau. Ac os yw yr Undeb byth i gael ei ddattod, pa un sydd debyccaf o droi o les i'r wlad, ai bod iddo gael ei ddattod gan ddynion cyfiawn a chall, o barth i hawlion presenol, a chyda rhagolygiad ar yr annghyfleusdra sydd raid i'r fath gyfnewidiad mawr beri mewn cenedl; ai ynte gan yr angerddoldeb, ac efallai yr annghyfiawnder gan y rhai a ymorfoleddent yn y cyfryw bethau fel buddugoliaeth ar grefydd ei hunan?

Nid yw hyn yn beth mor anmhossibl ag y gall ymddangos i lawer un. Ysgariad yr Eglwys oddiwrth y Wladwriaeth yw tuedd amlwg cenhedloedd blaenaf Ewrop, yr hyn sydd yn rhwym yn fuan neu yn hwyr i lywodraethu ymddygiad y lleill. Yn y flwyddyn 1795 darfu i Gynnadledd y werin-lywodraeth Ffrengig ddwyn yr erthygl ganlynol i'w chyfansoddiad:—"Na byddo i neb gael ei luddias rhag ymarfer, mewn cydffurfiad â'r cyfreithiau, a'r grefydd a ddewisodd efe. Ni's gorfoder neb i gyfrannu tu ag at gynnal unrhyw gaefydd. Na byddo i'r werin roddi cyflog i un blaid grefyddol." Os nad oes erthygl gyffelyb wedi ei ddodi yn y cyfansoddiad Ffrengig am 1848, y mae hyny i'w briodoli yn fwy i'w hofn tymhorol rhag chwanegu anhawsderau y Werinlywodraeth, nag i unrhyw werthfawrogiad ar yr Undeb. Cynnygiodd M. de La Mennais eisoes, fod yr ymadroddion canlynol yn cael eu dodi i fewn yn y ffurflywodraeth, "Bod pawb yn meddu rhyddid cydraddol i broffesu ei grefydd. Bod pob crefydd yn annibynol ar y Llywodraeth. Nid yw yn gwaddoli yr un, ond y mae yn eu hamddiffyn oll." Mae dynion, cyhoeddus dylanwadol ereill wedi proffesu eu hunain yn bleidiol i ysgariad. Rhaid fod gwaddoliad Pabyddion, Protestaniaid, ac Iuddewon, y rhai ydynt yn cablu y Gwaredwr cystal a'r rhai ydynt yn ei addoli ef yn ffiaidd yn ngolwg dynion cydwybodol a meddylgar, am eu bod yn gweled mai pwnc gwlad-bleidiol ac nid crefyddol ydyw; ac ni's gall fod yr amser yn mhell pan y'i gadewir. Cynnygiwyd ar hyn eisoes yn yr Almaen. Y Gynnadledd Cenhedlaethol yn Frankfort a benderfynodd fel y canlyn:—

"Bod pob cymmundeb crefyddol i drefnu a gweini ei negeseuon ei hunan.

"Na byddo i unrhyw gymmundeb crefyddol gael ei ffafro yn hyttrach nag arall gan y Llywodraeth.

"Na byddo mwyach Eglwys Wladwriaethol.

"Na byddo neb yn cael ei orfodi i gydffurfio yn nefodau a gweithredoedd crefyddol unrhyw grefydd."[1]

[1] *The Semeur Oct.* 4, 1848.

Y mae Llywodraeth Prwssia yr un ffunud wedi canfod y doethineb neu yr angenrheidrwydd o'r rhyddäad yma ar ei heglwysi; canys y mae cynllun o ffurflywodraeth a gyhoeddir yn ddiweddar gan Frenin Prwssia, yn caniattâu rhyddid cydwybod, addoliad, a chymdeithasiad crefyddol. Yn ol hwnw, bwriedid i'r Eglwysi Pabaidd a Phrotestanaidd fod yn anymddibynol ar y Wladwriaeth, a llywodraethu eu hunain fel y dewisont; gan fod y Llywodraeth yn ymwrthod a phob hawl o gyflwyniad, noddogaeth, a chadarnhad o weithredoedd eglwysig.[1]

Pe byddai i'n diwygwyr ninnau byth ymaflyd yn awenau y Llywodraeth, hwy a fyddent yn debyg o wneuthur yr un peth ag a wnaeth deddfwyr Ffrainc yn 1795, a'r eiddo yr Almaen yn 1848: canys hwy a ymddibynnent yn hollawl ar y pleidiau yn y Wladwriaeth ydynt elynion i freinniolaeth; ar y dospeirth gweithyddol, y rhan fwyaf o ba rai ydynt heb yr hawlfraint etholiadol; ar y Pabyddion, y rhai ydynt yn cashau y Sefydliad; ac ar ddiwygwyr gwreiddiol, fel hwy eu hunain: y rhai yn nghyd a ofynent am ddattodiad yr Undeb; a phan fyddont yn ddigon cryfion i gario y diwygwyr i awdurdod, hwy a fyddant yn ddigon cryfion i gario y mesur dywededig drwodd hefyd. Byddai yn well terfynu yr Undeb yn bwyllog a thawel, na'i adael i gael ei ysgubo ymaith ar y cyfryw gyfnod.

Yn olaf, y mae cyfnod o natur arall yn gofyn am yr un mesur. Yn yr Iwerddon, y mae y Pabyddion yn dyrchafu eu llef yn groch yn erbyn y pleidgarwch sydd yn cymhwyso adroddion cenhedlaethol mawrion at gynhaliaeth gweinidogion lleirif bychan, ond goludog, tra y mae gweinidogion mwyrif tlawd, yn cael eu hesgeuluso. Y mae ein deddfwyr yn teimlo na's gellir goddef hyn yn hir: ond y mae bodoliaeth y Sefydliad Seis'nig yn lluddias penderfyniad boddhäol ar y ddadl.

Y mae gwaddoli yr offeiriaid Pabaidd yn wrthwynebol i gydwybod y nifer fwyaf o drigolion y deyrnas hon, fel y mae yn wrthwyneb i egwyddor grefyddol. Ni ddylai Protestaniaid ganiattâu arian y cyffredin er taenu yr hyn y credant eu bod yn gyfeiliornadau niweidiol. Ond nid oes un egwyddor yn gwahardd disefydliad yr Eglwysi Protestanaidd, yr hyn gan gyfleu Pabyddion ar yr un tir a Phrotestaniaid, a'u boddlonai hwy. Gan hyny, pa beth sydd yn lluddias y penderfyniad yma ar y ddadl? Diau mai y peth pennaf yw, ofn y byddai ysgariad yr eglwysi Gwyddelig oddiwrth y Llywodraeth, yn achlysur i ddwyn yr eglwysi Seis'nig trwy yr unrhyw gyfnewidiad mawr. Y mae hyn yn gorfodi pob gweinyddiaeth olynol i ddal y sefydliad Gwyddelig i fynu. Ond nid yw y miliwnau Pabyddion yn debyg i ymfoddloni yn eu hisraddiaeth cymdeithasol, oblegid bod eu honiadau yn annghyfleus i blaid mewn awdurdod; ac nid ydynt yn meddwl am i'w hiawnderau gael eu hattal, yn unig o herwydd bod gweinidogion ei

2 *La Reformation*, *Dec*. 21, 1848.

mawrhydi yn dewis rhyngu bodd yr eglwyswyr. Gan hyny, y mae yn amlwg fod yn rhaid i'w honiadaeth o gyfartaledd ddyfod i bwyso yn drymach, fel y cynnyddont mewn rhifedi ac awdurdod; ac oni bydd i'r Llywodraeth ddisefydlu yr Eglwys Brotestanaidd, rhaid iddynt gyfodi Sefydliad Pabaidd yn gyfattebol iddo. Ni's gallant ochel hyny; a gwir awdwyr y canlyniad dïegwyddor yma, a fydd y Protestaniaid hyny a wrthwynebasant y trefniad crefyddol ac egwyddorol hwnw, trwy yr hwn y gadewid cynhaliaeth addoliad Dwyfol yn Sefydliadau Lloegr a'r Iwerddon i ffydd a zel eu haelodau.

---

### ADRAN XI.—*Dylanwad yr Undeb ar Sefydliadau crefyddol ereill Ewrop a'r Byd.*

Mae hir barhad yr egwyddor baganaidd a phabaidd, o Undeb yr Eglwys a'r Wladwriaeth yn y deyrnas hon, wedi gweini cynhaliaeth alluog i sefydliadau mwy llygredig yn y gwledydd Pabaidd a Groegaidd. Os yn y gwledydd hyny ni oddefid Protestaniaeth,—os dëolid efengylwyr i'r ffiniau, os na allai credinwyr tangnefeddus gyfarfod i addoli, os cafodd Beiblau eu rhwygo neu eu llosgi, meddent esgus golygus dros yr ysgelerderau hyn. Gallasent ddywedyd, " Y mae hyd yn nod Lloegr, sydd yn ei galw ei hun yn oleuedig, crefyddol, a rhydd, wedi arhoni hawl y Llywodraeth i gynnal y gwirionedd; yr ydym ninnau yn honi yr un hawl, ond yn unig ein bod ni yn fwy cyson na Llywodraeth Lloegr; canys os yw yn ddyledswydd ar y Llywodraeth i gynnal y gwirionedd, nid yw yn llai dyledus arni ddarostwng cyfeiliornad. Nid ydym ni yn gwneyd dim ond cyflawni y ddyledswydd ddyblyg, a thra yn cynnal y gwirionedd Cyffredin, yr ydym yn gwahardd cydymgeisiad beiddgar hereticiaid ac ymbleidwyr." Yn yr enghraifft yma, y cyfeiliornwyr a'r ymbleidwyr ydynt yr Eglwyswyr.

Ond, pan fel teyrnged i'r gwirionedd, yr hwn a bery ac a orchfyga bob peth, y dattodir yr Undeb, pan fyddo digon o wir ddoethineb, cyfiawnder, a ffydd yn y wlad hon i orfodi ein Seneddwyr i adael cynnaliad yr efengyl i ffydd a chariad dysgyblion Crist, pan na fyddo Eglwyswyr mwyach yn cael eu llygru gan noddogaeth y Wladwriaeth, na'r rhydd eglwysi eu gwasgu gan ormesau y Llywodraeth, pan na fyddo crefydd yn cael ei halogi mwyach trwy gael ei gwneuthur yn offeryn gwladweiniaeth, pan na allo y rhai digred ddywedyd bod crediniaeth o'r efengyl yn gorphwys ar gyfreithiau a thalwobrwyon y Llywodraeth, pan fyddo yr eglwysi a'r gweinidogion wedi ennill eu hiawnderau, yn rhydd i ufuddhau i ddeddfau Crist yn mhob peth, pan yn nghyd a'r rhyddid adferedig yma y byddo yr eglwysi wedi ennill yn ol yr egniolrwydd a gollasent cyhyd, pan fyddo ymraniadau wedi eu lliniaru, a

llawer yn cael eu dychwelyd, fel y byddo crefydd yn ennill tir yn y wlad, yna y rhaid i'r Sefydliadau Pabaidd a Groegaidd gwympo.

Mae yr Almaen eisoes wedi rhoddi esampl i ni o'r doethineb a'r cyfiawnder yma. Nid oes Undeb rhwng yr Eglwys a'r Wladwriaeth yno yn awr. Gan fod Awstria a Bohemia yn awr wedi eu rhyddhau, gellir dosparthu Beiblau, ac ysgrifeniadau efengylaidd ereill yn rhydd yno; gall efengylwyr bregethu yr efengyl, gellir crynhoi cynnulleidfäoedd, trefnu eglwysi, a gall y rhai hyny ddewis eu gweinidogion, a sefydlu eu hysgolion eu hunain. A thrwy y gweddill o'r Almaen, y mae cydwybod yn dechreu ymryddhau o'i chadwynau, fel y gall dysgyblion Crist ymosod i ddiwygio yr eglwysi, ac ymofyn unwaith drachefn am eu grym a'u gwresawgrwydd cyntefig.

Y tair cenedl Ewropaidd sydd yn cymmeryd y blaen yn nghynnydd gwareiddiad, ac yn rhoddi siampl i'r lleill oll, yw Lloegr, Ffrainc, a'r Almaen. Pan fyddo Lloegr a'r Almaen wedi ysgaru y gallu gwladol oddiwrth yr ysbrydol, a chanfod bod eu Llywodraethau a'u Heglwysi ar bob cyfrif yn ennillwyr trwy y cyfnewidiad, bydd i Ffrainc hefyd, yr hon sydd yn awr yn adlunio ei sefydliadau, yr hon a ddifododd yr Undeb unwaith eisoes, a'r hwn a gedwir i fynu yn awr drwy wê y pryf coppyn megis, yn unig, gael ei chadarnhau trwy ein profiad yn ei thueddiadau uniawn, fel ag y rhyddhâ ei holl eglwysi. Bydd y manteision i Ffrainc, ac i Ewrop yn annrhaethol, canys unwaith y'u rhyddheir oddiwrth eu cynghorlysoedd bydol, naw o bob deg o ba rai ydynt elynol i'r efengyl, bydd i'r eglwysi diwygiedig ddewis gweinidogion efengylaidd yn lle rhai digred. Meddant eisoes olynwyr teilwng o Claude, a Daillé, Du Moulin, a Drelincourt, Morus a Mestrezat, i Coligny a Duplessis Mornay. A phan fyddo eu pregethwyr enwog, mewn perffaith ryddid yn cael pregethu yr efengyl trwy Ffrainc, a'u lleygion ymroddgar, megis Lutteroth, Pressensé, a Gasparin, yn eu tywys yn eu holl anturiaethau efengylaidd, bydd iddynt dan fendith Duw, gyrhaedd effeithiolaeth sanctaidd hyd yn nod tu hwnt i eglwysi y diffeithwch. Ond pa fodd y try hyny allan i'r hen offeiriadaeth orbesgawl, ddall, a gwywedig? Pan dyno y Wladwriaeth y glustog ar yr hon y bu yn gorwedd, odditan ei aelodau crynedig, ni bydd dim yn aros iddo ond y bedd.

Yn awr, meddyliwch am y tair cenedl fwyaf goleuedig a galluog yn Ewrop, yn myned rhagddynt mewn crefydd, mewn synwyr, ac mewn cyfoeth, am fod pob un yn rhydd oddiwrth yr hunllef o Undeb Llywodraeth â'r Eglwys. A all y cenedloedd llai ddwyn eu cadwynau eglwysig yn hwy? Yn ddiddadl â llawer o flyneddoedd heibio, wedi y rhyddhaer eglwysi Lloegr, Ffrainc, a'r Almaen, cyn y bydd holl eglwysi Ewrop yn rhydd. Hyd yn hyn y mae y cynhaliad hunan-laddiadol a ddyru y Llywodraethau Pabaidd i offeiriadaeth neillduedig yn ngwledydd deheuol a gorllewinol Ewrop, wedi cau yr efengyl yn effeithiol oddiwrth eu pobloedd. Ond pan ddystrywier

yr Undebau gormesol hyny, adseinia glennydd y Douro, y Guadalquiver, a'r Tagus, a llais efengylwyr, ac â hymnau eglwysi efengylaidd, cystal a'r eiddo y Po a'r Tiber. Ni all unrhyw gyngrheiriaeth offeiriadol y pryd hyny attal gwerin Catalonia, neu Lombardi rhag clywed yr efengyl, pan na byddo traws-arglwyddiaeth yr offeiriad yn cael ei gefnogi gan y swyddog gwladol a'r carchar.

Ond yn mhellach, pan o galon Erwop i'w eithafoedd deheuol a gorllewinol, y byddo lluaws wedi eu rhyddhau oddiwrth ormes twyll offeiriadaeth, yn llawenychu yn iau ardderchog Crist, a rhyddid cydwybod wedi adfywio duwiolfrydedd yr holl genhedloedd, yna y daw miliwnau Rwssia, y rhai yn awr a fethrir yn nhom coelgrefydd dan draed y *Czar* a'i offeiriaid, i obeithio, a chyfodi ar eu traed. Er y gall mai y Rwssiaid a fyddant olaf i ddryllio y gadwaen haiarn a sicrhawyd ar eu cydwybodau gan y cryfaf o ormeswyr yr oesoedd diweddaf hyn, ni's gall y gorlyw eu cadw mor llwyr allan o frawdoliaeth y cenedloedd, fel ag i'w hattal hyd byth i honi yr hawl o ddilyn Crist yn ol eu cydwybodau eu hunain. Ni's gellir gommedd iawnderau cydwybod, y gwerthfawroccaf o bob iawnderau, yn hir yn *St. Petersburg,* pan y'u cydnabyddir yn Llundain a Pharis, yn Berlin a Vienna, yn Madrid a Rhufain.

Y mae cyfnod newydd yn gwawrio ar Ewrop yn nghanol tymhestl,—cyfnod o lywodraethau cyfreithlawn, a sefydliadau rhydd,—cyfnod o ysgolion a llyfrgelloedd, o ymchwiliad di attalfa, a rhyddid cydwybod digyfyniad,—cyfnod o undeb rhwng Cristionogion, ac o ymneillduad oddiwrth y byd,—cyfnod o fywiogrwydd efengylaidd, a gwresogrwydd adnewyddol.

Y mae yr holl fyd yn meddu dyddordeb neillduol yn ysgariad yr eglwysi oddiwrth y Wladwriaeth. Drosto y dadleuodd y meddylwyr cryfaf, a'r Cristionogion mwyaf ymroddgar yn Ewrop. Y mae eglwysi puraf Ewrop wedi bod yn hir yn enghreifftiau o'r modd y gweithia yr egwyddor; fe'i rhoddwyd i'r prawf gan genedl fawr yr ochr arall i'r Cefnfor gyda llwyddiant anghyffredinol; y mae amgylchiadau Ewrop yn prysur ddwyn hyn oddiamgylch; a bydded Lloegr yn mhlith y blaenaf o'r cenhedloedd i gyflawni y ddyledswydd, a medi y manteision!

# RHAN III.

*Ar y moddion i feithrin adfywiad ar grefydd yn y wlad.*

Y mae eglwysi y Sefydliad wedi suddo i gyflwr crefyddol isel dan ddylanwad yr Undeb. Meddwn reswm rhy gryf i ofni nad yw yr Efengyl yn cael ei phregethu yn y rhan fwyaf o blwyfau, a bod y bobl yn ddisylw o grefydd. Ac mewn dinasoedd hefyd, y mae cynnydd dirfawr ar boblogaeth, i'r rhai ni roddir addysg. Ychydig o fechgyn, hyd y mae fy ngwybodaeth I yn cyrhaedd, a geir yn yr ysgolion mawrion i'r goludog, neu yn y rhai i'r tlodion, yn debyg i rai yn caru ac yn gwasanaethu Duw. Yn y prif athrofäau, y mae y nifer o wŷr ieuainc duwiol, yn gyfyngedig yn hollol o'r bron, i rai ydynt yn myned i gymmeryd urddau, ac hyd yn nod yn mysg y rhai hyny, y mae amryw, nad ydynt yn cymmeryd arnynt fod yn grefyddol. Ychydig o wŷr galwedigaethol (*professional*) sydd yn gwneyd nemmawr er dwyn achos Crist yn mlaen. Ychydig o bendefigion neu Aelodau Seneddol, a addefant syniadau efengylaidd. Nid yw y filfed ran o gyllid y deyrnas yn cael ei roddi er dwyn yn mlaen achos Crist yn mhlith y paganiaid, tra y mae miliwnau yn cael eu treulio ar feddwdod ac annuwioldeb. "Y mae genym mewn cylchrediad blyneddawl, o gyhoeddiadau breinnodawl, er cefnogi anfoes a halogiad y Sabbath, gymmaint ag 11,702,000."—"O'r ddau ddosbarth hyn, (cyhoeddiadau llygredig ac anffyddawl, heb eu breinnodi) cyfrifir bod 200,000 yn cael eu cyhoeddi yn wythnosol, neu y nifer blyneddawl o tua 10,400,000." "Os gwnawn i fynu yr holl nifer a gyhoeddir yn flyneddawl o gyhoeddiadau niweidiol, bydd yn debyg i hyn:—

| | |
|---|---|
| Deg o bapurau breinnodawl, ........................ | 11,702,000. |
| Chwech o bapurau difreinnedig,.................. | 6,240,000. |
| Tua 60 o bapurau amrywiaethol,.................. | 10,400,000. |
| Y dosbarth gwaethaf,............................... | 520,000. |
| Y cyfanrif | 28,862,000." |

Y mae mwy o newyddiaduron a chyhoeddiadau difreinniedig yn cael eu gwerthu a'u taenu ar ddydd yr Arglwydd, nag ar y chwe diwrnod ereill yn nghyd......Gan fod agos yr holl wyth filiwn ar hugain cyhoeddiadau niweidiol a roddir allan o Lundain mewn blwyddyn, yn cael eu cyhoeddi ar, neu er y Sabbath, gellir haeru yn ddiogel, bod 500,000 yn cael eu cyhoeddi ar ddydd yr Arglwydd, yn erbyn 63,000 a roddir allan ar unrhyw ddiwrnod gan yr holl wasg ddyddiol; neu 500,000 a gyhoeddir ar ddydd yr Aglwydd, am holl gynnyrch y wasg feunyddiol o 378,000 dros yr wythnos."[1] Mae

1 *Power of the Press*, pp. 11, 13, 25. *London*, 1847,

agos holl ddospeirth gweithiol Llundain, a nifer fawr o'r dospeirth canol ac uchaf hefyd, wedi ymwrthod ag addoliad cyhoeddus. Halogir dydd yr Arglwydd gan deithio mawr, trafnidaeth a phleser. Y mae ymraniadau yn gwannychu ymdrechion Cristionogion; ac nid yw crefydd yn ffynu nemmawr mewn cymdeithas. Ni's meddwn fawr o sail i obeithio am nemmawr o welläad sylweddol tra y parhäo yr Undeb. Mae y Sefydliad wrth oddef i'r Wladwriaeth ei llywodraethu mewn pethau ysbrydol heb ganiattad oddiwrth Grist i wneyd felly, megis gwraig a roddai hawlion ei phrïod i estron; ac ni's gall y gyfathrach annghyfreithlawn gael ei fendith ef. Mae y Sefydliad, trwy arlywiad y Wladwriaeth, yn cael ei llygru o angenrheidrwydd, ac yn barhaus, gan esgobion, a noddogwyr bydol, y rhai fel ystorm eira yn Awst, ar ardd yn Labrador, ydynt yn rhwym o ddystrywio yn fuan, unrhyw ddiwygiad hannerog, a fyddo wedi parhau dros ychydig flyneddau. Mae yn debyg fod tair rhan o bedair o leiaf o eglwysi plwyfol Prydain heb yr efengyl; ac yn y Sefydliad, y mae dylanwad gweinidog annuwiol i lygru a thwyllo ei eglwys, yn ddi attalfa gan unrhyw allu gwrthwynebol. Ni's gall y plwyfi yn gyffredinol gyfodi nemmawr goruwch llyfel eu gweinidogion; a phan fyddo y rhai hyn yn fydol ac annghrefyddol, y mae bydolrwydd ac annghrefyddoldeb yn sicr o ffynu yn mysg aelodau eu cynnulleidfäoedd. Rhaid i adfywiad crefyddol, os cymmer le byth, gael ei gynnyrchu gan bregethiad yr efengyl;[1] ond ni's gellir gwneyd defnydd helaeth o'r moddion yma byth yn eglwysi y Wladwriaeth; oblegyd 1af, Y mae y rhan fwyaf o weinidogion y Sefydliad yn ddynion annefengylaidd, ac yn cau yr efengyl o'u pulpudau; 2il, Y mae athrawiaeth yr eglwys o adgenhedliad bedyddawl yn fferu gweinidogaeth hyd yn nod ddynion da a difrifol: canys yn gymmaint a bod cyfiawnhad yn dilyn adgynhedliad, y mae adgenhedliad bedyddawl yn gyfiawnhad bedyddawl; gan hyny, y mae mabanod yn cael eu cyfiawnhau cystal a'u hadgenhedlu yn y bedydd; a chan fod agos yr holl genedl wedi ei bedyddio yn ei mabandod, y mae yr holl genedl o'r bron wedi ei chyfiawnhau yn ei mabandod drwy fedydd. Gan hyn, nid ydynt hwy mwyach yn feirw mewn pechod, neu yn ettifeddion digofaint; ond y maent "yn aelodau o Grist, yn blant Duw, ac yn ettifeddion teyrnas nefoedd:" yn ofer y cyfeirir bygythion yr efengyl attynt hwy, nid oes le wedi ei adael i'w cyffroi o'u hanystyriaeth. Mae yn wir y gallai Eglwyswyr efengylaidd, yn nghyd a'u brodyr o'r eglwysi Rhydd, bregethu yr efengyl i bob crëadur yn y wlad; ond y mae yr Undeb yn cau y rhai blaenaf allan o 9,000 o'r 12,000 pulpudau a berthynant i'r Sefydliad, ac wedi creu drwy y wlad, ragfarn cryf yn erbyn yr olaf.

Y mae dysgwyl am unrhyw ddiwygiad cyffredinol ar grefydd trwy dywalltiad o'r Ysbryd Glan, tra byddo yr holl bechodau hyn heb eu symmud nag

1 Ioan 17. 17. Eph. 6. 17. Iago 1. 18.

edifarhau o'u herwydd, yn groes i air Duw, ac i bob profiad. Yn hyttrach, onid edifarhawn wedi i oleuni gael ei fwrw ar y drygau hyn yn enwedig, gallwn ddysgwyl am enciliad graddol yr Ysbryd o'r eglwysi, trwy ymlyniad y rhai wrth bechod, y'i tristëir.

---

ADRAN I.—*Pa beth a ellid wneyd gan yr Eglwysi Rhydd er dwyn yn mlaen eu gwelliant ysbrydol eu hunain.*

Er na ellir dysgwyl am unrhyw ddiwygiad cyffredinol ar grefydd yn eglwysi y Sefydliad hyd y dydd dedwydd pan fyddont yn rhydd oddiwrth rëolaeth y Llywodraeth, nid rhaid i Gristionogion ddysgwyl am hyny, nac am unrhyw weithred gyhoeddus arall, cyn dechreu ceisio diwygiad. Ni ddarfu i'r apostolion aros i ddysgwyl am ddiwygiad yr eglwys Iuddewig, neu yr amherodraeth Rufeinig, cyn iddynt ddechreu sefydlu teyrnas Crist yn Judea, a thrwy y byd. Unigolrwydd yw ysbryd crefydd Crist, fel y mae cydffurfiad dall yn ysbryd paganiaeth a Phabyddiaeth. Eglwysi Crist ydynt gymdeithasau o gredinwyr, a feddyliant, a ewyllysiant, ac a weithredant drostynt eu hunain, mewn ufudd-dod i Grist; fel y mae y cyfundebau paganaidd a phabaidd, megis dïadellau dynol, a gorlanir yn nghyd gan gyfreithiau gwladol a chyfreithiau eglwysig, fel y penderfyno y pennadur a'r offeiriad.

Gan hyny, fe ddylai pob un a welo fod tâl y Llywodraeth, megis aur Achan, yn ddïofrydbeth, o herwydd yr hwn y blinir gwersyll Israel, ymwrthod a bod yn gyfrannog o honaw, a cheisio adfywiad achos Crist yn mysg yr eglwysi rhydd. Dylai eglwysi y Sefydliad a'u gweinidogion a fyddont wedi cyrhaedd y wybodaeth hon, ymannog y naill y llall i adael cyfundrefn lygredig. Dylai yr eglwys gynnyg cynhaliaeth i'w gweinidog; dylai y gweinidog lynu wrth ei eglwys, a dylai y naill a'r llall ddyfod allan o gyfathrach ddirad â'r byd mewn pethau cyssegredig. Gellid gwneyd y trawsfudiad mewn cynnulleidfäoedd dinesig heb nemmawr o anhawsder.

Mae eglwysi rhydd yn meddu dyfodfa ar unwaith at amryw ffyrdd, drwy ba rai y gallant geisio eu gwelliant ysbrydol.

Yn mysg y moddion mwyaf arbenig o ddiwygiad a drefnwyd gan Grist, y mae gweinidogion yr eglwysi. Gall pob un o'r rhai hyn wneyd llawer er adfywio duwioldeb ei eglwys.

Gall y gweinidog yn gyntaf adnewyddu ei gyflwyniad trwyadl o hono ei hunan i Dduw, a derbyn iachawdwriaeth a'r holl fendithion anurhaethol werthfawr ydynt yn nglŷn a hi, fel rhad rodd Duw i bechadur truenus; gall ymgyssegru o'r galon, gorph ag enaid, i wasanaeth y Gwaredwr. Efe a all ddarllen a myfyrio ar fucheddau gweinidogion enwog i Grist, megis Paul, Wickliffe, Luther, Calfin, Bradford, Wesley, Whitefield, Fletcher, Brainerd, Martyn, Thomas Scott, John Venn, Oberlin, Neff, Payson; a phenderfynu

trwy gymhorth Duw, fod yn debyg iddynt. Efe a all benderfynu ymrydd-hau oddiwrth ofal bydol, trwy ddwyn ei draul yn hollol o fewn ei gyllid, pa faint bynnag a fyddo hyny. Mae siampl Paul o'i flaen. Pan bregethai y gwr enwog hwnw yn Thessalonica, ni chymmerai efe ddim cydnabyddiaeth gan yr eglwys yn y ddinas hono, am eu bod yn dlawd; pan ddaeth efe i Corinth, efe a ymgynhaliai yno drwy wneuthur pebyll, ac ni dderbyniai arian gan yr eglwys, am ei fod yn gweled ansawdd eu meddwl, ac y byddai i hyny leihau llwyddiant ei weinidogaeth. A thrachefn, efe a amlygai y cyffelyb ostyngeiddrwydd, anymddibyniaeth, a zel, yn Ephesus.[1] Yn y cyffelyb fodd, y gallai pob gweinidog gan ymwrthod er mwyn Crist, a'r manteision hyny, y gallai ei dalentau a'i ddysgeidiaeth eu sicrhau iddo mewn galwedigaeth fydol, trwy gynnildeb penderfynol, a dull syml o fyw, fod heb fod "yn nyled neb o ddim," talu i bawb eu dyledion, gochel "ymrwystro â negeseuau y bywyd hwn," ac ymroddi yn hollol i'r weinidogaeth.[2]

Heblaw hyny, trwy gymmhorth Duw, efe a all ddyfod yn esampl i'w bobl o bob gras Cristionogol; yn gynllun o ffydd, a chariad, o zel, a gwroldeb, o ostyngeiddrwydd, a hunanymwadiad, o haelioni, amynedd, a maddeugarwch, o ysbrydolrwydd a phob rhinwedd cymdeithasol. Mae y fuchedd yn llafaru mwy na'r pulpud. Ni's gall gweinidog wneuthur dim heb roddi siampl uchel; ond anfynych y mae siampl yn aneffeithiol.[3] Wedi ymbarottoi felly, efe a all bregethu yr efengyl i'r bobl "mewn nerth, ac yn yr Ysbryd Glan, ac mewn sicrwydd mawr;" gan ganmol y gwirionedd wrth eu cyd-wybodau a'u calonau. Efe a all ddwyn yr unrhyw ddiffuantrwydd a difrif-wch i weithrediad yn ei arolygaeth o'u holl gyfarfodydd cymdeithasol, eu cyfarfodydd eglwysig, eu cyfarfodydd gyda'r dospeirth Beiblaidd, athrawon yr Ysgolion Sabbothawl, ymwelwyr â'r tlodion, plant, gwasanaethyddion, &c. Cyfarfodydd gweddïau, cyfarfodydd cenhadol, a'u holl gyfarfodydd cymdeith-asol ereill, a allant deimlo y dylanwad sanctaidd. At hyn y gellir ychwanegu, ymweliad personol a'r holl deuluoedd ydynt yn cyfansoddi yr eglwys, trwy yr hyn y gall efe eu cyffroi i geisio yn gyntaf deyrnas Dduw, a'i gyfiawnder ef, i gyflawni pob dyledswydd berthynasol mewn modd Cristionogol. Ac fel hyn, efe a all borthi praidd Duw.[4]

Y mae gweinidogion a ymddygont fel hyn, yn cael eu bendithio yn gyff-redin i'r rhai a addysgant. Fe'u gosodwyd i'r perwyl yma gan Grist: "*Efe a roddes rai yn apostolion, a rhai yn brophwydi, a rhai yn efengylwyr, a rhai yn fugeiliaid, ac yn athrawon; i berffeithio y saint, i waith y wein-idogaeth, i adeilad corph Crist.*" Ac ni bydd iddo adael i'w llafur fyned yn ofer tra y byddont yn gwneuthur eu dyledswydd. Mor annogaethol yw

1 1 Thes. 2. 9. 2 Thes. 3. 7—9. Act. 18. 1—3. 1 Cor. 9. 11—15. Act. 20. 30—35.
2 Rhuf. 13. 7, 8. 2 Tim. 2. 3, 4. Act. 6. 2—4. 1 Tim. 4. 13, 15.
3 1 Tim. 3. 1—7; a 4. 16. Tit. 1. 7, 8. Act. 20. 28.
4 1 Thes. 1. 5; a 2. 11. Act. 20. 20, 28. 31. 1 Pedr 5. 1, 2.

yr addewidion!—"*Gwylia arnat dy hun, ac ar yr athrawiaeth; aros ynddynt: canys os gwnai hyn, ti a'th gedwi dy hun, a'r rhai a wrandawant arnat......Canys fel y disgyn y gwlaw a'r eira o'r nefoedd, ac ni ddychwel yno, eithr dyfrha y ddaear, ac a wna iddi darddu a thyfu, fel y rhoddo had i'r hauwr, a bara i'r bwyttawr; felly y bydd fy ngair yr hwn a ddaw o'm genau, ni ddychwel attaf yn wag; eithr efe a wna yr hyn a fynwyf, ac a lwydda yn y peth yr anfonais ef o'i blegid.*"[1]

Ystyried gweinidogion pa gymhelliadau sydd yn eu cyffroi. Y mae bendithion annrhaethol werthfawr yn gyrhaeddedig gan bob credadyn, a melldith dragywyddol ar ddystrywio yr annychweledig.

Os ydynt yn weinidogion da Iesu Grist, yn llafurio yn galed, yn rhoddi esamplau uchel, yn goddef profedigaeth yn amyneddgar, yn caru llawer, ac yn gweddïo yn wresog, fe waredir llawer drwyddynt rhag uffern; dygir llaweroedd ydynt yr awrhon yn ddiddefnydd, i fod yn fendithiol i'r eglwys ac i'r byd; a bydd llawer, wedi eu caru a'u parchu yma, yn llawenydd a choron iddynt yn y nef; ïe, llawer ydynt yn awr yn dïanrhydeddu Crist, a fyddant byw i'w garu a'i ogoneddu ef.

Ar y llaw arall, os yw crefydd yn nychu mewn unrhyw eglwys, os yw rhïeni yn dirywio o'u hysbrydolrwydd a'u zel, os yw eu plant yn tyfu i fynu yn annuwiol, os yw yr eglwys yn ddi lafur, marwaidd, a diffrwyth, os yw y gymmydogaeth yn ddifendith, o herwydd bod y gweinidog yn hunan-gais a segur, meddal a bydol, am nad yw namyn hanner credu y gwirioneddau a bregetha, am nad yw yn rhoddi siampl ddyrchafedig, a'i fod yn esgeuluso gweddi; ni's gall edrych yn ol gyda hyfrydwch oddiar ei wely angeu: canys efe a ddewisodd ei sefyllfa a'i swydd; ni orfodogwyd ef gan neb i fod yn swyddog yn myddin Crist, a bugail ei braidd ef. Os bydd y milwyr yn cael eu baeddu a'u digaloni, o herwydd ei fod ef yn swyddog anffyddlawn ac annewr; os bydd y praidd yn crwydro i'w niweid, am ei fod ef yn fugail dïog a dïofal, bydd euogrwydd y cyfan yn gorwedd arno ef. Pe na buasai efe wedi ei roddi ei hun yn flaenor ar yr eglwys hono, efallai y cawsid rhyw un arall yno, a fuasai yn fendithiol ac adeiladol iddynt. Ond yn awr, onid adeilada efe y credinwyr, pwy a wna? Oni bydd iddo ef ddychwelyd a gwaredu y dïofal, pwy arall a'u gweryd? "*Mab dyn, yn wyliedydd y'th roddais i dy Israel; fel y clywech air o'm genau, ac y rhybuddiech hwynt oddiwrthyf fi. Pan ddywedwyf wrth yr annuwiol, Ti annuwiol, gan farw a fyddi farw; oni leferi di i rybuddio yr annuwiol o'i ffordd, yr annuwiol hwn a fydd marw yn ei anwiredd, ond ar dy law di y gofynaf ei waed ef.*"[2]

Gall aelodau o'r eglwysi fod o gynnorthwy mawr i'w gweinidogion mewn ymdrech am adfywiad ehang ar grefydd. Mae pob un yn rhwym i fod yn

1 Eph. 4. 11, 12. 1 Tim. 4. 16. Esa. 55. 10. 11. 2 Ezec. 33. 7, 8.

Gristion penderfynol ag ymroddgar;[1] ac y mae gan bob un y moddion at ei law, drwy yr hyn y gall efe fod felly.[2] Os bydd i aelod o eglwys ddyfod ei hunan yn ddyn ymroddgar, meithrin ei blant yn ofn Duw, llywodraethu ei deulu mewn modd Cristionogol, defnyddio ei olud i wneuthur daioni, dysgu yr ieuenctyd, ymweled a'r tlawd, cynhyrfu ei gyd-Gristionogion, a dwyn ei grefydd allan yn holl orchwylion bywyd, efe a all fod yn achlysur o gynnydd duwioldeb yn yr holl eglwys y mae efe yn aelod o honi.[3]

Llawer mwy a all ychydig ddynion difrifol a fyddont yn cyfarfod yn fynych i ddarllen yr ysgrythyrau, ymgynghori a'u gilydd, a gweddïo, ei wneuthur er cynnorthwyo eu gweinidog i ddwyn yn mlaen ddiwygiad ar grefydd yn yr holl eglwys, trwy yr ysbryd a allant gyfrannu i'r cyfarfodydd eglwysig, ac i'w cyd-aelodau, fel athrawon yr Ysgolion Sabbothol, ymwelwyr a'r tlodion, ac aelodau o'r dospeirth Beiblaidd.

Gan hyny, mor effeithiol y gall fod eglwys unedig, wedi ei deffroi i ystyriaeth o'i hesgeulusdra a'i chlaiarineb, er dwyn yn mlaen ei diwygiad ei hunan! Ymrodded ei haelodau yn galonog i ufuddhau i'r cyfarwyddiadau canlynol o eiddo Crist, drwy ei apostolion, ac ni's gall na's bendithir hwynt yn helaeth:—

1. Eglwysi i edifarhau.—"*Y mae genyf beth yn dy erbyn, am i ti ymadael a'th* GARIAD CYNTAF. *Cofia gan hyny o ba le y syrthiaist, ac edifarha, a gwna y gweithredoedd cyntaf......Bydd wyliadwrus, a sicrha y pethau sydd yn ol, y rhai sydd barod i farw: canys ni chefais dy weithredoedd yn gyflawn ger bron Duw. Cofia gan hyny pa fodd y derbyniaist ac y clywaist, a chadw, ac edifarha. Yr wyf fi yn argyhoeddi, ac yn ceryddu y sawl yr wyf yn eu caru; am hyny bydded genyt zel, ac edifarha.*"[4]

2. Eglwysi i ufuddhau i'w gweinidogion, y rhai a lafarant wrthynt yn enw Crist.—"*Yr ydym yn attolwg i chwi, frodyr, adnabod y rhai sydd yn llafurio yn eich mysg, ac yn eich llywodraethu chwi yn yr Arglwydd, ac yn eich rhybuddio; a gwneuthur cyfrif mawr o honynt er mwyn eu gwaith.*"......*Meddyliwch am eich blaenoriaid, y rhai a draethasant i chwi air Duw, ffydd y rhai dilynwch.*"......"*Ufuddhewch i'ch blaenoriaid, ac ymddarostyngwch: oblegid y maent hwy yn gwylied dros eich eneidiau chwi, megis rhai a fydd rhaid iddynt roddi cyfrif.*"......*Yr un ffunud yr ieuainc, byddwch ostyngedig i'r henuriaid.*"[5]

3. Eglwysi i gyfarfod er ymannog y naill y llall.—"*Heb esgeuluso ein*

1 Matt. 6. 33. Rhuf. 6. 13; a 12. 1. 1 Cor. 6. 19, 20. Eph. 5. 18. 2 Pedr 3. 18. Matt. 5. 48. 2 Salm 1. 1—3. Ioan 17. 17. 1 Thes. 2. 13. Col. 3. 16. Eph. 6. 17. 1 Pedr 2. 1, 2. 2 Cor. 3. 18. Matt. 6. 6; a 7. 7—11; a 21. 22. Ioan 14. 13, 14. Phil. 4. 6. 3 Eph 6. 4, 9. Col. 3. 21; a 4. 1. Matt. 6. 19, 21. 1 Tim. 6. 17, 18. 4 Dat. 2. 4, 5; a 3. 2, 3. 19. 5 1 Thes. 5. 12, 13. Heb. 15. 7, 17. 1 Pedr 5. 5.

*cydgynnulliad ein hunain, megis y mae arfer rhai: ond annog bawb ein gilydd, a hyny yn fwy o gymmaint a'n bod yn gweled bod y dydd yn nesau."*[1]

4. Dyledswyddau aelodau eglwysig tuag at eu gilydd, yn eu cyfarfodydd, ac mewn mannau ereill.—" *Gorchymyn newydd yr wyf yn ei roddi i chwi, Ar garu o honoch eich gilydd, fel y cerais i chwi ar garu o honoch chwithau bawb eich gilydd. Wrth hyn y gwybydd pawb mai dysgyblion i mi ydych, os bydd genych gariad i'ch gilydd......Mewn cariad brawdol byddwch garedig i'ch gilydd, yn rhoddi parch yn blaenori eich gilydd...... Am frawdgarwch, nid rhaid i chwi ysgrifenu o honof attoch; canys yr ydych chwi eich hunain wedi eich dysgu gan Dduw i garu eich gilydd: ond yr ydym yn attolwg i chwi frodyr gynnyddu o honoch fwy fwy...... Nyni a wyddom ddarfod ein symmud o farwolaeth i fywyd, oblegid ein bod yn caru y brodyr......Eithr yr hwn sydd ganddo dda y byd hwn, ac a welo ei frawd mewn eisiau, ac a gauo ei dosturi oddiwrtho, pa fodd y mae cariad Duw yn aros ynddo ef?......Gan fod yn ddyfal i gadw undeb yr Ysbryd, yn nghwlwm tangnefedd......Syniwch yr un peth, byddwch heddychol......Canys yr wyf yn dywedyd, trwy y gras a roddwyd i mi, wrth bob un ar sydd yn eich plith, na byddo i neb uchel synied yn amgen nag y dylid synied, eithr synied i sobrwydd, fel y rhannodd Duw i bob un fesur ffydd......Na wneler dim trwy gynnen, neu wag ogoniant, eithr mewn gostyngeiddrwydd, gan dybied eich gilydd yn well na chwi eich hunain. Byddwch bawb yn ostyngedig i'ch gilydd, ac ymdrwsiwch oddi fewn â gostyngeiddrwydd: oblegid y mae Duw yn gwrthwynebu y beilchion, ac yn rhoddi gras i'r rhai gostyngedig......Yr hwn sydd wan yn y ffydd, derbyniwch attoch, nid i amrafaelion rhesymau......O herwydd pa ham, derbyniwch eich gilydd, megis y derbyniodd Crist ninnau i ogoniant Duw......Tynner ymaith oddiwrthych bob chwerwedd, a llid, a dig, a llefain, a chabledd, gyda phob drygioni. A byddwch gymmwynasgar i'ch gilydd, yn dosturiol, yn maddeu i'ch gilydd, megis y maddeuodd Duw er mwyn Crist i chwithau.*[2]

5. Eglwysi i ymarfer dysgyblaeth.—" *Os pecha dy frawd i'th erbyn, dos ac argyhoedda ef rhyngot ti ag ef ei hun. Os efe a wrendy arnat, ti a ynnillaist dy frawd. Ac os efe ni wrendy, cymer gyda thi etto un neu ddau, fel yn ngenau dau neu dri o dystion y byddo pob gair yn safadwy. Ac os efe ni wrendy arnynt hwy, dywed i'r eglwys; ac os efe ni wrendy ar yr eglwys chwaith, bydded efe i ti fel yr ethnig a'r publican......Ond*

1 Heb. 10. 25. 2 Ioan 13. 34, 35. Rhuf. 12. 10. 1 Thes. 4. 9, 10. 1 Ioan 3. 14. Eph. 4. 3. 2 Cor. 13. 11. 1 Cor. 1. 18. Rhuf. 12. 3. Phil. 2. 3. 1 Pedr 5. 5. Rhuf. 14. 13; a 15. 7. Eph. 4. 30, 32. Rhuf. 12. 15, 16. 1 Pedr 3. 8. 1 Ioan 3. 18. 1 Thes. 4. 18. Matt. 20. 27. Gal. 5. 13. Phil. 2. 4. 1 Thes. 5. 11, 14. Heb. 3. 13. Iago 5. 16.

*yn awr mi a ysgrifenais attoch, na chydymgymmysgech: os bydd neb a enwir yn frawd yn odinebwr, neu yn gybydd, neu yn eilunaddolwr, neu yn ddifenwr, neu yn feddw, neu yn gribddeiliwr: gyda'r cyfryw ddyn na chyd fwytta chwaith. Bwriwch chwithau ymaith y dyn drygionus hwnw o'ch plith chwi......Ac yr wyf yn attolwg i chwi, frodyr, graffu ar y rhai sydd yn peri annghydfod a rhwystrau, yn erbyn yr athrawiaeth a ddysgasoch chwi, a chiliwch oddiwrthynt......Gochel y dyn a fyddo heretic wedi un, ac ail rybudd......Ac yr ydym yn gorchymyn i chwi, frodyr, yn enw ein Harglwydd Iesu Grist, dynu o honoch ymaith oddiwrth bob brawd ar sydd yn rhodio yn afrëolus, ac nid yn ol y traddodiad a dderbyniodd efe genym ni......Ond od oes neb heb ufuddhau i'n gair trwy y llythyr yma, hysbyswch hwnw, ac na fydded i chwi gymdeithas ag ef, megis y cywilyddio efe.*"[1]

6. Eglwysi i adferu gwrthgilwwr.—"*Y brodyr, os goddiweddir dyn ar ryw fai, chwychwi y rhai ysbrydol, adgyweiriwch y cyfryw un, mewn yspryd addfwynder.*"[2]

7. Eglwysi i lafurio dros Grist.—"*Am hyny fy mrodyr anwyl, byddwch sicr, a diymmod, a helaethion yn ngwaith yr Arglwydd yn wastadol; a chwi yn gwybod nad yw eich llafur yn ofer yn yr Arglwydd......Yn unig ymddygwch yn addas i efengyl Crist; fel pa un bynnag a wnelwyf a'i dyfod a'ch gweled chwi, ai bod yn absenol, y clywwyf oddiwrth eich helynt chwi, eich bod yn sefyll yn un ysbryd, âg un enaid, gan gydymdrech gyda ffydd yr efengyl......Angenrhaid oedd i mi ysgrifenu attoch, gan eich annog i ymdrech yn mhlaid y ffydd, yr hon a rodded unwaith i'r saint.*"[3]

8. Aelodau Eglwysig i geisio cynnydd ysbrydol.—"*Byddwch chwi gan hyny yn berffaith, fel y mae eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd yn berffaith.......Llanwer chwi a'r Ysbryd......Cynnyddwch mewn gras, ac yn ngwybodaeth ein Harglwydd Iesu Grist.*"[4]

9. Yr Eglwysi i ymhelaethu mewn cydweddïau.—"*Gweddïwch yn ddibaid......Gan weddïo bob amser, â phob rhyw weddi a deisyfiad yn yr Ysbryd, a bod yn wyliadwrus at hyn yma, trwy bob dyfalbara, a deisyfiad dros yr holl saint......Os cydsynia dau o honoch ar y ddaear am ddim oll, beth bynnag ar a ofynant efe a wneir iddynt gan fy Nhad, yr hwn sydd yn y nefoedd. Canys, lle mae dau neu dri wedi ymgynnull yn fy enw i, yno yr ydwyf yn eu canol hwynt......Gofynwch, a rhoddir i chwi; ceisiwch, a chwi a gewch; curwch, ac fe a agorir i chwi. Os chwychwi y rhai ydych ddrwg, a fedrwch roi rhoddion da i'ch plant chwi; pa faint mwy y rhydd eich Tad o'r nef yr Ysbryd Glan i'r rhai a ofyno ganddo.*"[5]

1 Matt. 18. 15—17. 1 Cor. 5. 11. Rhuf. 16. 17. Tit. 3. 10. 2 Thes. 3. 6, 14.
2 2 Cor. 2. 6, 7. 3 Gal. 6. 1. 1 Cor. 15. 58. Phil. 1. 6, 7, 27. Jud. 3. 4 Matt. 5. 48. 2 Pedr 3. 18. 5 1 Thes. 5. 17. Eph. 6. 18. Matt. 18. 19, 20. Luc 11. 9, 13.

Ymostyngiad a chyffesiad o bechodau yn y cyhoedd ac yn y dirgel, cyfarfodydd eglwysig mynych er ymgynghoriad a gweddi, ymarferiad o ysbryd tirion, goddefgarwch a maddeugarwch, tuag at eu gilydd, ymddygiadau gostyngedig a llednais yn mhawb, tuag at bawb, yn eu cyfarfodydd eglwysig, gochel dadleuon, gwasanaethu y naill y llall mewn cymmwynasgarwch, cynghori eu gilydd i ddiwydrwydd mewn dyledswydd, attal, ceryddu, neu ysgymmuno troseddwyr, a dyfalbarhad mewn cydweddïau am yr Ysbryd Glan, a adferai eglwys a gollasai ei zel a'i chariad, ar frys.

Heblaw y moddion hyn, gall unrhyw eglwys a gweinidog awyddus am welliant ysbrydol, wahodd y gweinidogion Cristionogol mwyaf difrifol mewn gwlad i ymweled a hwy. Pan ymwelid a'r eglwysi Cristionogol cyntaf gan Paul, Barnabas, a Silas, fe'u cadarnheid mewn duwioldeb drwy hyny.[1] Pan nad allai yr apostol Paul ymweled a rhyw eglwysi ei hunan, efe a anfonai efengylwyr zelog a phrofiadol, cymdeithion ei lafur, y rhai oeddynt gyfrannogion o'r unrhyw ysbryd ag ef, i wneuthur lles iddynt. Ymwelid a'r eglwys yn Philippi gan Timothus, O. C. 56; gan Epaphras, O. C. 62; a thrachefn gan Timotheus, O. C. 62.[2] Ymwelid a'r eglwys yn Thessalonica, gan Timotheus, O. C. 51, ac O. C. 56.[3] Ymwelid âg eglwys Corinth, gan Timotheus, O. C. 57; gan Apolos, O. C. 57; a chan Titus, O. C. 58.[4] Ac a'r eglwys yn Ephesus, ymwelid gan Timotheus, O. C. 57; a dwywaith gan Tychicus, O. C. 61, ac O. C. 65.[5] Yr efengylwyr difrifol hyn, Timotheus, Titus, Tychicus, Epaphras, ac ereill cyffelyb iddynt, wrth ymweled a'r eglwysi apostolaidd o bryd i bryd, a'u hadgyweirient, a'u diwygient, a'u hyfforddient, ac a'u calonogent, gan adfywio eglwys farwaidd fel Sardis, ac adferu zel eglwys glaiar fel yr un yn Laodicea. Pe byddai i weinidog effro a phrofiadol, yn y cyffelyb fodd, ddyfod oddiwrth eglwys ddifrifol ac effro, i unrhyw eglwys, trwy wahoddiad y gweinidog a'r bobl, i bregethu iddynt yn eu lle addoliad hwy, i gyfarch eu cyfarfod eglwysig, i gynghori eu plant, athrawon eu hysgolion Sabbothol, a'u hymwelwyr a'r tlodion, ac i gynnal eu cyfarfodydd gweddïau gyda hwy, fe allai yr eglwys hono gael ei hadfywio a'i nerthu. Nyni a allem ganfod effeithiau grymmus eto, pe y byddai i nifer o eglwysi ddilyn y cynreolau a osodwyd o'u blaen trwy osodiad dwyfol yn yr hanesyddiaeth Iuddewig. Yr oedd adfywiadau mawrion ar grefydd yn dilyn eu gwyliau cyssegredig hwy, pan y treulient wythnos gyfan ynghyd mewn difrifwch i ymarfer pethau crefyddol.[6] Nid llai difrifol a dyfal oedd eglwys y Pentecost yn Jerusalem, yr hon a ennillodd oddiwrth Dduw fendithion mwy fyth.[7] Pa ham nad allai llawer o eglwysi rhydd Prydain ddilyn yr esiamplau hyn? Bydded i bob eglwys gynnal cyfarfodydd rhag-

[1] Act. 14. 21—23; a 15. 40, 41. [2] Act. 19. 22. Phil. 2. 25, 19. [3] 1 Thes. 3. 2. Act. 19. 22. [4] 1 Cor. 4. 17; a 16. 12. 2 Cor. 7. 6; a 8. 6. [5] 1 Tim. 1. 3. Eph. 6. 21. 2 Tim. 4. 12. [6] 1 Bren. 8. 65. 2 Bren. 23. 21. 2 Cron. 35. 1—19; a 30. 21—27. [7] Act. 2. 42, 46, 47.

barottöawl, i gydymddiddan a gweddïo; bydded i'w haelodau drefnu eu gorchwyl yn y fath fodd ag i fod yn alluog i neillduo dechreu a diwedd pob diwrnod mewn ymarferion crefyddol; ac yna gwahoddant dri neu bedwar o weinidogion difrifol i dreulio y cyfryw wythnos gyssegredig gyd hwy ag a gadwai Solomon gynt ar gyssegriad y deml, a Josïah, ar gadwraeth y Pasg, gallent gael y cyfryw adfywiad ysbrydol, ag na chollid mwyach.

Nid oes dim mor debyg i gynnyddu duwiolfrydedd yr eglwysi, a chael nifer mawr o weinidogion ymroddgar a galluog; a chan mai Duw yn unig a all gymhwyso dynion i'r swydd, neu dueddu eu calonau i ymgymeryd a'r gwaith, dywedodd ein Harglwydd wrthym, *Attolygwch i Arglwydd y cynhauaf anfon gweithwyr i'w gynhauaf.*" Eto, ei ewyllys gwastadol ef yw, bod i ni arfer pob moddion yn ein gallu i gyrhaedd pob dyben pwysig; ac y mae yn deilwng o ystyriaeth cyfeillion meddylgar crefydd, pa fodd y gellir dwyn y gwŷr ieuainc duwiolaf a galluoccaf i'r weinidogaeth, a pha fodd y gellir dwyn addysg dduwinyddol yn mlaen yn y modd mwyaf effeithiol er eu parottôi at weinidogaeth effro a gwresog.

Gellid cyrhaedd llawer o wellâad ysbrydol gan yr eglwysi yn gyffredinol, pe byddai i gyfarfodydd y Cyngrhair Efengylaidd trwy bob gwlad *gyda golwg neillduol ar adfywiad crefyddol.* A pha ham nad ellid pennodi y brodyr mwyaf sanctaidd, profiadol, a llwyddiannus yn ngwasanaeth Crist i gyfarch y brodyr cynnulledig yn eu cyfarfodydd cyffredinol, ar y testyn hwn? A pha ham nad allai y cyfryw weinidogion wedi hir fyfyrdod a gweddi, ddyfod allan yn yr un yspryd a Phaul, pan y rhoddai ei gynghorion olaf i henuriaid Ephesus, er rhoddi ar ein cydwybodau oll i gynnyddu mewn gras a gwasanaethu eglwys Crist a'r byd, â diwydrwydd mwy ymroddgar? Gellir gwneyd hyn oll y mae yn eglur, gan yr eglwysi fel y maent yn awr, os ewyllysiant. Nid yw Duw yn gommedd diwygiad crefyddol; ond nyni sydd heb ei geisio. Gofyned yr eglwysi, a hwy a gânt.

Ond os yw gweinidogion ac eglwysi Lloegr yn meddu can lleied ffydd, fel na bydd iddynt yn effeithiol geisio tywalltiad mawr o ras, trwy gydymdrech effro a pharhaus, nid yw yr achos eto yn annobeithiol. Meddyliwch pa beth a wnaeth Duw yn yr eglwys drwy unigolion. Pa faint a barottöodd Ioan yn unig ar ffordd yr Arglwydd Iesu Grist! Pa mor lleied o ddysgyblion cyntaf ein Harglwydd a fuant yn gosod sylfeini yr eglwys gyffredinol! Pa fath waith mawr a wnaed yn Asia ac Ewrop trwy lafur Paul ei hunan! Mor fach ydoedd nifer y diwygwyr a dorrasant o grafangau Eglwys Rhufain ysglyfaethus, y drydedd ran o'i hysglyfaeth! Os nad oes llawer yn barod i geisio diwygiad ysbrydol mawr ar yr eglwysi, bydded i ychydig ei geisio. Gall pob gwir gredadyn yn Nghrist, a ddarlleno y llyfr hwn, benderfynu ei roddi ei hun yn drwyadl i wasanaeth Duw a'i gydgrëaduriaid, *yn ei le a'i alwad presenol,* fel ag i geisio adfywiad ar

sefyllfa, yn ymdrechgar fel hyn i wneuthur daioni, pe byddai aelodau Cristionogol o'r Llywodraeth, Pendefigion, ac aelodau Seneddol Cristionogol, Arianwyr a Masnachwyr Cristionogol, Cyfreithwyr Cristionogol o bob gradd a dosparth, maelierwyr a llaw-weithwyr Cristionogol, ysgrifenwyr, celfyddydwyr, a llafurwyr Cristionogol, mewn ufudd-dod ffyddlawn i Grist, ac mewn cariad at eu cyd-ddynion, ymdrechu i'w dychwelyd, ni all neb ddywedyd pa mor werthfawr a allai fod y canlyniadau a ddilynent y cyfryw gydymdrechion.

Ond gallai cydymdrech eglwysi diwygiedig fod yn llawer mwy effeithiol i droi dynion at Dduw, nag y gall fod ymdrechion gweinidogion nag aelodau yn eu cymmeriad unigol. Mae Duw wedi ordeinio bod i bethau mawrion eto gael eu gwneyd drwy dduwiolfrydedd eglwys Crist. Gwrandawn ar ei air ef:—"*Duw a drugarhäo wrthym, ac a'n bendithio; a thywyned ei wyneb arnom. Fel yr adwaener dy ffordd ar y ddaear, a'th iachawdwriaeth yn mhlith yr holl genhedloedd. Molianned y bobl di O Dduw, molianned yr holl bobl dydi.*[1] *Cyfod, llewyrcha, canys daeth dy oleuni, a chyfododd gogoniant yr Arglwydd arnat. Canys, wele, tywyllwch a orchuddia y ddaear, a'r fagddu y bobloedd: ond arnat ti y cyfyd yr Arglwydd, a'i ogoniant a welir arnat. Cenhedloedd hefyd a rodiant at dy oleuni, a breninoedd at ddysgleirdeb dy gyfodiad.*[2] *Chwi yw halen y ddaear. Chwi yw goleuni y byd. Llewyrched felly eich goleuni ger bron dynion, fel y gwelont eich gweithredoedd da chwi, ac y gogoneddont eich Tad, yr hwn sydd yn y nefoedd*[3]*......Ac nid wyf yn gweddïo dros y rhai hyn yn unig, eithr dros y rhai hefyd a gredant ynof fi drwy eu hymadrodd hwynt; fel y byddom oll yn un; megis yr wyt ti, y Tad, ynof fi, a minnau ynot ti; fel y byddont hwythau un ynom ni, fel y cred y byd mai tydi a'm hanfonaist i.*"[4] Eglurid yr ymadroddion hyn a'u cyffelyb, trwy effeithiau gras Duw ar yr eglwys gyntaf a ffurfiodd Crist erioed. Pan ddychwelwyd tair mil o Iuddewon at Dduw ar ddydd y Pentecost, nyni a ddarllenasom am danynt fel y canlyn; "*Ac yr oeddynt yn parhau yn athrawiaeth ac yn nghymdeithas yr apostolion, ac yn torri bara, ac mewn gweddïau; a'r rhai a gredent oll oeddynt yn yr un man, a phob peth ganddynt yn gyffredin; a hwy a werthasant eu meddiannau a'u da, ac a'u rhannasant i bawb, fel yr oedd eisiau ar neb. A hwy beunydd yn parhau yn gyttun yn y deml, ac yn torri bara, o dy i dy, a gymmerasant eu lluniaeth mewn llawenydd, a symledd calon; gan foli Dnw, a chael ffafr gan yr holl bobl. A'r Arglwydd a chwanegodd beunydd at yr eglwys, y rhai fyddent gadwedig.*"[5]

Yr oedd eu cyffes o Grist dan y dysgwyliad o brofedigaeth lem, eu diwydrwydd yn ceisio gwybodaeth Gristionogol, eu hymlyniad mewn

1 Salm 67. 1—3. 2 Esa. 6. 1—3. 3 Matt. 5. 13, 14, 16. 4 Ioan 17. 20, 21.
5 Act. 2. 42, 47.

gweddi, eu cariad brawdol, eu llawenydd a'u diolchgarwch, yn gweithredu ar gydwybodau a chalonau dynion yn y fath fodd, fel yr achubid rhai eneidiau *beunydd* trwy fendith Duw ar eu duwioldeb. Byddai i ras cyffelyb mewn unrhyw eglwys, gynnyrchu canlyniadau cyffelyb. Eglwysi boreuol ereill a ddilynent eu hesiampl.[1] Pe byddai holl eglwysi Crist wedi eu haddurno yn bresenol a'r fath ogoniant moesol, fel y gallent fod, byddai i'w dylanwad ar feddyliau dynion, trwy ras Duw, yr hwn sydd yn barod yn wastad i fendithio ei bobl ufudd, newid wyneb y byd. Ond, y mae yr aelodau o eglwysi Crist yn cael eu galw, nid yn unig i adael i'w siampl lewyrchu, ond fel milwyr a gweision Crist i ymdrechu a llafurio yn uniongyrchol er cael y byd yn ddarostyngedig iddo ef.[2]

Mae yn amlwg y gall pob eglwys wneyd llawer tuag at achub eneidiau. Gallant gyfarfod i ystyried pa gyfleusderau arbenig i wneuthur daioni a ganfyddir yn y gymmydogaeth, a chydweddïo am ffyniant yr efengyl drwyddi. Gall rhai ddyfod yn ymwelwyr a'r tlodion, a gofalu am roddi traethodau crefyddol mewn cylchrediad, a diwallu angenion yr ardal â'r Ysgrythyrau. Gall rhai ddyfod yn athrawon Ysgolion Sabbothol, ac yn ymwelwyr ag Ysgolion dyddiol y tlodion. Gall rhai arolygu Llyfrgellau i'r dospeirth gweithyddol; gall rhai ddyfod yn efengylwyr i'r holl bentrefi cyfnesol, tra y gall yr holl eglwys ddwyn y treuliau cyssylltiedig a'u llafur, a'u calonogi trwy eu gweddïau.

Gall Cristionogion o amryfal enwadau fod yn ddefnyddiol trwy gymdeithasu i ddwyn yn mlaen amcanion cyffredinol iddynt oll. Pa ham na byddai fwy yn cefnogi y Gymdeithas Feiblaidd Frutanaidd a Thramor? Pa ham nad yw Cymdeithas y Traethodau yn cael ei chefnogi mor zelog, hyd oni byddo i'w llëenyddiaeth iachus orlethu y cyhoeddiadau penrhydd ac anffyddaidd a roddir allan wrth y miliwnau? Pa ham na alluogir Cenhadaeth Ddinesig Llundain, ar yr hon y gorphwysodd bendith Duw mor helaeth, i ymweled a holl dlodion Llundain, drwy offerynoliaeth pedwar cant o genhadon, yn lle a'u hanner drwy offerynoliaeth dau cant. Pa ham nad yw ein Cymdeithasau Cenhadol Cartrefol, a Threfol, yn alluog i anfon pregethwyr ffyddlon, a chenhadon taledig i bob plwyf anwybodus ac annuwiol yn y deyrnas?

Yn mhellach, gan fod ein hoes yn cael ei hynodi drwy egnïad meddwl digyffelyb o'r blaen, a bod dysgedigion heb y parch lleiaf ganddynt i ddatguddiad yn gwthio eu hymchwylion yn mhob cyfeiriad, ac amryw o honynt, nid yn unig yn beirniadu yn rhydd, ond yn barod i gyfodi amheuon, dan y rhith o anmhleidiolrwydd athronyddol, o barth ei ysbrydolrwydd, ei ffyddlondeb hanesyddol, ei athrawiaethau, a'i foeswersi, dylai yr eglwysi ddefn-

1 Act. 9. 31. Rhuf. 1. 8. 2 Cor. 3. 2. Phil. 2. 15, 16. 1 Thes. 1. 6—8. 2 1 Cor. 15. 58. Phil. 1. 17. Dat. 2. 1—5.

yddio rhai o'u meddyliau galluoccaf, i chwanegu o bryd i bryd weithiau gwerthfawr at y rhai ydynt eisoes mewn bod ar brawfion crefydd, yr hyn a all gynnal Cristionogaeth ei hunan, a'i gwirioneddau mawrion yn erbyn holl wrthwynebwyr yr amseroedd diweddaf hyn.

Ymddengys i mi, y gellid defnyddio £10,800 yn dra buddiol yn y dyddiau hyn gan unrhyw Gristion goludog, yn y modd canlynol. Bydded i'r meddyliau galluoccaf yn eglwysi Crist, yn Mrydain Fawr, yr Unol Daleithiau, Ffrainc, a'r Almaen, gael eu gwahodd i gyssegru eu galluoedd i amddiffyniad crefydd trwy y gwobrwyon canlynol; yr ymdrechfa i fod yn agored yn y tair iaith.

Rhodder dwy fil yr un am y Traethodau goreu ar y pedwar testyn canlynol:—

1. Bod, a Phrïodoliaethau Duw.
2. Person a Gwaith yr Arglwydd Iesu Grist.
3. Person a Gwaith yr Ysbryd Glan.
4. Dilysrwydd, Ysbrydolrwydd, a Nodwedd Llyfrau y Beibl.

Rhodder 100£ yr un i bob un o'r tri traethawd ail oreu, yn mhob un o'r tair iaith, fel y caffo pob iaith un traethawd cynhenid ynddi, heblaw yr un a fyddo llwyddiannus.

Dylid rhoddi 50£ yr un am y cyfeithiad goreu o bob un o'r un ar bymtheg traethodau.

Byddai 10,800£ wedi eu treulio felly yn deyrnged deilwng o ddïolchgarwch i Dduw oddiwrth unrhyw Gristion Goludog.

Pa ganlyniadau i cydmaru a ddylifant o'r deng mil punnau a roddes brenin Prwssia yn ddiweddar i waddoli esgobaeth yn Jerusalem? neu oddiwrth yr ugain mil punnau a dreulid gan esgob Calcutta ar ei eglwys gadeiriol? neu oddiwrth y deng mil ar hugain a ddyroddid yn ddiweddar gan foneddiges haelfrydig at gyfodi eglwys newydd yn Westminster? Galwai allan dalent rhai o'r meddyliau galluoccaf i egluro ac amddiffyn yr unig grefydd a all fendithio ac achub dynolryw; gallai osod meddwl Ewrop i sefyll o du yr Efengyl. Dystrywiai Gau dduwiaeth, a Phabyddiaeth, a gwnelai lawer tuag at Gristioneiddio llëenyddiaeth y pedair cenedl fawr ydynt megys arweinyddion gwareiddiad y byd.

---

## Y TERFYN.

Y mae Undeb yr Eglwysi a'r Wladwriaeth wedi ei ddyfarnu. Gan ei fod yn gondemniedig gan reswm a chrefydd, gan yr ysgrythyr a chan brofiad, pa fodd y gellir ei oddef lawer yn hwy i niweidio y genedl? Y mae yr holl brif egwyddorion ar y rhai y dybyna yn bwdr. Ei dalion gwladol, ei oruchafiaeth, ei noddogaeth, ei thalion gorfodol er cynhaliad crefydd, ydynt gondemnedig gan flaenddrychau a gosodiadau gair Duw.

Nyni a welsom ei fod yn tywallt ei ddylanwad gwywedig ar esgobion, personiaid, curadiaid, ac aelodau ereill o'r eglwys. Ychydig y mae yn ei chwanegu at nifer gweinidogion y mae yn eu gwasgaru gyda dïofalwch gwastraffus o angenion y bobl, ac yn talu leiaf lle y dylasai dalu haelaf. Mae yn cau yr Efengyl o filoedd o blwyfi; yn cadw i fynu lygredigaeth mewn athrawiaeth; yn lluddias pob dysgyblaeth ysgrythyrol; mae yn halogi ordinhadau Crist; yn cymysgu yr eglwys a'r byd; yn meithrin ymraniad rhwng Cristionogion, ac yn temtio gweinidogion Crist o fewn y Sefydliad, ac oddiallan iddo i fod yn wladbleidwyr awchus. Yn mhellach, y mae yn dyrysu Llywodraethau olynol, yn dal i fynu un o brif elfenau chwyldröad yn y wlad, yn gwneuthur diwygiad Eglwysi y Sefydliad yn anobeithiol, yn attal ffyniant yr Efengyl trwy y deyrnas, ac yn cadarnhau holl Sefydliad pabaidd llygredig Ewrop.

A gwaeth na'r cwbl, y mae yn tristâu ac yn diffodd Ysbryd Duw, yr hwn ni's gellir ei ddysgwyl i fendithio yn helaeth yr Eglwysi nid ymadawant a'u pechodau.[1]

Ond, pan y'i dystrywir, y mae genym le i obeithio y bydd i'r eglwysi adfywio mewn crefydd yn fuan. Yna y clywir athrawiaethau iachus o'r rhan fwyaf o bulpudau y Sefydliad; efengylwyr a ant allan i bob cwr o'r tir; dysgyblaeth ysgrythyrol a adferir; ymraniadau a liniarir; gweinidogion Cristionogol a ddarfyddant a bod yn wladbleidwyr; gallwn ddysgwyl tywalltiad helaethach o Ysbryd Duw; a gall Prydain ddyfod y flaenaf o'r cenhedloedd mewn duwioldeb a rhinwedd.

Bydded i bawb ydynt yn ofni ac yn caru Duw, gyfodi i gyflawni yr ail Ddiwygiad hwn. Y gwaith a ddechreuodd ein cyn dadau merthyredig yn wyneb y daeardy a'r ystanc, bydded i ninnau yn eu hysbryd ei orphen! Od oes neb yn anmhenderfynol o barth yr egwyddorion a gefnogir yn y gwaith hwn, cydmared y rhesymau a ddyru Hooker a Warburton, Chalmers a M'Neile, Gladstone a Birks, ar un llaw, a'r eiddo Dick a Graham, Ballantyne a Conder, Wardlaw, Vinet, a Gasparin, ar y llaw arall. Astudied Hanesyddiaeth Eglwysi Rhydd yr Alban a Vaud ;—sylwed yn fanol ar y drycholion o eglwysi gwladol yn yr Alban, yn Switzerland, ac yn Ffrainc. Olrheinied effeithiau godidog rhyddid ysbrydol yn yr Unol Daleithiau, fel y'u dadlenir gan Mr. Baird; ac yna penderfyned ar ei ymddygiad, heb ofalu am hunanles, dillynfoes, na chyfeillgarwch, mewn ufudd-dod i Grist, ac fel un cyfrifol i Dduw a chwilia y galon.

Gan y bydd i lawer ymattal hyd yn nod oddiwrth ymchwiliad i wirioneddau ydynt yn arosod canlyniadau pwysig iddynt eu hunain, dylai pob dysgybl i Grist, a ddarbwyller mai ewyllys ei Arglwydd ydyw ysgariad yr

1 Salm 66. 18. Esay 1. 15, 16; a 59. 1, 2. Ioan 9. 31; a 15. 7. 1 Ioan 3. 22. Eph. 4. 30. 1 Thess. 5. 19.

eglwysi oddiwrth y wladwriaeth, ei gyfrif ei anrhydedd ei wasanaethu ef wrtho ei hun, os rhaid yw, yn yr ymdrech hon. Mae cyfnodau mawrion mewn hanesyddiaeth wedi bod yn ymddibynu ar weithrediadau ychydig ddynion ëofn.—Hampden drwy ei wrthsafiad dewrwych i weithred ormesol, a ddeffröodd yn ei gydwladwyr yr ysbryd a ddïogelodd ein rhydd freinniau. Gwrolder Clive a achubodd ein hamherodraeth Indiaidd. Bu Luther yn hir yn meddwl ac yn llafurio wrtho ei hunan o'r bron. Diwygiad ehang y ganrif ddiweddaf, oedd ddyledus dan Dduw, i Wesley a Whitefield, yn nghyd ag ychydig iawn o gymdeithion. Gan hyny, bydded i bob aelod yn y Sefydliad, sydd yn amgyffred y ddyledswydd hon, benderfynu y bydd iddo, heb aros am benderfyniad ereill, wneyd ei egni yn enw Crist i sicrhau rhyddid Eglwysi y Sefydliad oddiwrth lyffetheiriau y Llywodraeth.

Aelodau o gynnulleidfaoedd y rhai ydynt eisoes yn cynnal eich gweinidogion mewn cyssylltiad a'r Undeb, trwy yr hwn y mae eich swyddogaethau eich hunain wedi eu cadwyno, rhyddhewch hwynt, ac adennillwch eich iawnderau cyssegredig eich hunain, trwy ddatgan y byddwch yn rhydd. Ychydig o'r fath enghreifftiau yn Llundain, Manchester, Liverpool, Leeds, a Birmingham, a ddeffröai yr holl genedl at ei dyledswydd.

Gyda mwy o hyder yr ydwyf yn cyfarch fy mrodyr o'r eglwysi rhydd. Ni ddylai fod mwyach ddiffyg undeb na seguryd. Annibynnwyr a Bedyddwyr, Wesleyaid ac aelodau o eglwysi rhydd yr Alban, bydded i ni oll âg un llais, o Caithness i Cernyw, arhoni yn enw Crist, ryddid Cristionogol yr Eglwysi Prydeinaidd; ac fe all y genhedlaeth hon eto weled cyflawniad ail Ddiwygiad mwy ysbrydol, a heb fod yn llai ehang na'r cyntaf.

Uwchlaw y cyfan, gofalwn am gyflawni y ddyledswydd hon mewn ysbryd Cristionogol. Nid oes un achos crefyddol yn gofyn am foddion annghrefyddol i'w ddwyn ymlaen. Na warthruddwn ein hunain trwy unrhyw gabliaith, ac na fyddwn euog o ormodiaeth; canys arfau y gweiniaid a'r dïegwyddor yw y rhai hyn; ond, gan ymuno a phawb sydd yn caru y Gwaredwr, bydded i ni gydnabod yn ddiolchgar bob gwaith o eiddo yr Ysbryd a fyddo o fewn y Sefydliad, cystal ag oddiallan iddo. A chan weddio llawer, ac ymddibynnu yn wastadol ar yr Ysbryd Glan, gyda dymuniad cryf am ogoneddu Duw, ac ymarferiad helaeth o ffydd, gobaith, a chariad, y rhai ydynt ein harfogaeth gymhwys yn mhob ymdrechfa, bydded i ni barhau yn ein hymdrechion hyd oni byddo i fendith Duw wneyd ein buddugoliaeth yn gàm penderfynol tuag at efengyleiddiad y byd.

BIBLIOTHECA BODLEIANA

ARGRAFFWYD GAN HUGH JONES, PEMBROKE PLACE, LIVERPOOL.